


YSTORYA BOWN DE HAMTWN

CYFIEITHIAD O
LA GESTE DE BOUN DE HAMTONE

GOLYGWYD GAN
MORGAN WATKIN

GWASG PRIFYSGOL CYMRU

YSTORYA
BOWN DE HAMTWN



Trwy garedigrwydd Ll. G. C.

L.LAWYSGRIF PENIARTH 5, f. cxlii

YSTORYA BOWN DE HAMTWN

CYFIEITHIAD
CANOL Y DRYDEDD GANRIF AR DDEG
O
LA GESTE DE BOUN DE HAMTONE

GYDA

RHAGYMDRODD, NODIADAU, A GEIRFA

GAN

MORGAN WATKIN
M.A., L.ÈS L., PH.D.

*Athro Emeritus Ffrangeg ac Ieitheg Rumawns
yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd,
gymt dros dro Darlithydd Cynorthwyol
yn yr Adran Gymraeg*



CAERDYDD
GWASG PRIFYSGOL CYMRU
1958

*I'm Gwraig
ac er cof am
fy Rhieni*

CYNNWYS

	<i>Tud.</i>
RHAGAIR	ix
TAFLEN O'R LLINELLAU CYFATEBOL YN YSTORYA BOWN A'R BOEVE DE HAUMTONE	xix
RHAGYMDRODD:	
Y LLAWYSGRIFAU	xxi
PERTHYNAS Y CYFIEITHIAD CYMRAEG A'R GESTE DE BOUN DE HAMTONE	lix
ORGRAFF YSTORYA BOWN Y LLYER GWYN	ci
FFURFIANT TESTUN BOWN Y LLYER GWYN	cxvii
CYSTRAWEN	cxl
BYRFODDAU A RHESTR O'R LLYFRAU YR YMGYNGHORWYD A HWY	clxxv
ARWYDDION SEINEGOL	clxxxiii
TESTUN DIPLOMATIG YSTORYA BOWN Y LLYER GWYN	1
NODIADAU	69
GEIRFA	185
TAFLEN O ENWAU PERSONAU A LLEOEDD	245

RHAGAIR

Bu'r llyfr hwn yn yr arfaeth am lawer o flynyddoedd. Yn wir, rhoddwyd peth ohono mewn print cyn y rhyfel byd cyntaf. Dylid, gan hynny, esbonio paham yr ymgwymerwyd a'i baratoi a phaham ar ôl ei ddechrau y buwyd mor hir cyn ei orffen a'i gyhoeddi. Cystal yw hynny â dywedyd y bydd yn anghenraid i mi roi cipdrem ar hanes fy mywyd a rhyw syniad am yr ymchwil yr ymddiddorais ynddi a'r casgliadau y deuthum iddynt.

Rywbyrd yn nyddiau'r Coleg a minnau'n troi ar antur ddail hen rifynnau'r *Romania* ac yn darllen yr hyn a ddenai fy myrd, deuthum ar draws adolygiadau Gaston Paris ar lyfrau Robert Williams, Rheithor Rhydycroesau: *Selections from the Hengert MSS. Preserved in the Peniarth Library, Vol. I (Y Seint Greal)* a *Vol. II (Campeu Charlymaen, Bown o Hamtun, etc.)*, llyfrau na wyddwn cyn hynny ddim amdanynt. Hudwyd fi gan yr adolygiadau a chan y ddau lyfr. Eisoes yn yr Adran Ffrangeg clywswn ddarlithio ar hen gerddi arwrol Ffrainc, y *Chansons de Geste*, ac yn yr Adran Gymraeg gwrandawsw'n ar drafod hanes llenyddiaeth ganoloesol Cymru. Yn y naill Adran a'r llall cyfeirid yn aml at *Ramantau Arthur* ac at y rhan a debygid i'r Cymry gael yn eu flurfiad a'u lledaeniad. Eithr ni chlywswn neb yn yngan gair ddarfod i'r *Chansons de Geste* fod gynt yn fater diddordeb i Genedl y Cymry ac i hen lenorion y genedl honno drosi amryw ohonynt—*La Chanson de Roland, Le Pèlerinage de Charlemagne, La Geste de Boun de Hamtone, La Chanson d'Otinel*, etc.—i'r iaith Gymraeg. Ni ddywedasai neb wrthyf ychwaith i ryw lenor o Gymro tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg drosi i Gymraeg godidog ddau o'r *Romans Courtois*, nid amgen, *La Queste del Saint Graal* a'r *Perlesvaus*. Efallai na ellid disgwyl i athrawon yr Adran Ffrangeg, Ffrancwyr uniongred ill dau, wybod dim am y pethau hyn. Ond yr hyn sydd yn syndod, nid oes gof gennyf i mi erioed glywed neb yn yr Adran Gymraeg yn dywedyd sillaf nac am y *Queste del Saint Graal* na'r *Perlesvaus* na'r *Chansons de Geste*, er i'r Athro Thomas Powel olygu'r *De Carolo Magno* yn 1883 a gweithredu fel un o'r triwyr a wobrwyoedd y Parchedig Robert Williams, Rheithor Llanbedr Dyffryn Clwyd, am y cyfieithiad gorau, etc., o'r *De Carolo Magno* yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyf yn y flwyddyn 1904. Oddi wrth yr hyn a glywswn ac a ddarlensaswn hyd hynny, tybiwn mai math o drafnidiaeth unfordd a fusai'r cyswilt llenyddol rhwng Cymru a Ffrainc yn yr oesoedd canol; y *Cymry'n rhoi a'r Ffrancwyr yn derbyn*. Eithr yn y *Selections from the Hengert MSS.*, dyma gipdrem ar y rhodfa wrthwyneb: y *Ffrancwyr yn rhoi a'r Cymry'n derbyn*. Yn fuan wedi gadael yr adolygiadau ar y *Selections* wele adolygiad arall, gan Gaston Paris eto, ar *Der Anglonormannische Boeve de Hamtone*, argraffiad a baratocsid drwy waith Albert Stimming o'r gerdd Hen Ffrangeg y ceid ferstwn Cymraeg ohoni yn *Bown o Hamtun* y *Selections*. Os cyffrowyd fi gan yr adolygiadau cyntaf, mwy fyth fu fy nghyffro wrth ddarllen hwn a rhoi geiriau'r ddwy stori golofn wrth golofn. Nid oedd na'r *Boeve* na'r *Bown* ar restr llyfrau'r Cyrsiau Anrhydedd yn Ffrangeg a Chymraeg yn y blynyddoedd hynny, ond bellach ni allai dim fy

ngwarafun rhag mynd ati i ddarllen y ddau destun gyda'i gilydd, gorchwyl, gader i mi ddywedyd, a ddug fawr lesiant i'm Hen Ffrangeg ac i'm Cymraeg Canol. Ond serch yr clw a'r mwynhad a gawsw'n wrth astudio'r ddau fersiwn ochr yn ochr, ni allwn lai na chanfod fod eisiau diwygio llawer ar destun a chyfieithiad y gŵr o Rydycroesau a bod galw diamheul am argraffiad newydd. Gwelswn hefyd na fedrai neb lunio'r argraffiad dymunedig heb feddu gwybodaeth dda o'r Hen Ffrangeg ac mai un o anfantaision y Canon Robert Williams fel golygydd a chyfieithydd *Bown o Hamtwn* oedd na wyddai nemor ddim am yr iaith honno. Gyda gorchwyder dyn ifanc a ymhyfrydai yn iaith Hen Ffrainc, meddyliais yn fy nghalon, o chawn y llwyddiant academaidd yr anelwn ato a'r hamdden a allai ddilyn hynny, y buaswn i fy hun yn paratoi'r argraffiad y dymunwn ei weled.

Ni chlywswn, meddwn, yn narlithiau'r Coleg, neb yn dywedyd mai cyfieithiadau o destunau Hen Ffrangeg a welid yn *Y Seint Greal* nac ychwaith mai trosiadau o'r iaith honno oedd dwyrn storiâu'r *De Carolo Magno* yr esbonnid inni eu hiaith yn y dosbarth. Rhaid i mi hefyd gyfaddef yr edrychwn ar y *De Carolo Magno*, megis y credwn yr edrychai fy athrawon arno, fel cynifer o destunau Cymraeg Canol diddorol a chyfleus i'w hastudio ar gyfer arholiadau'r Brifysgol. Eithr diolch i'r *Selections, Vol. II*, dyma olygiad newydd hudol ei arwyddocâd. Beth, tybed, a wyddid am y maes hwn gan eraill, a phwy, ys gwn i, a fuasai'r arloeswyr ynddo? Ni allwn ymatal rhag ymorol. Gwelais y gwyddai'r Canon Robert Williams eisoes mai yn Hen Ffrangeg yr oedd cynddelw ei *Seint Greal*. Diamau y gwyddai hefyd mai cyfieithiadau o'r iaith honno oedd y *Campeu Charlymaen a'r Bown o Hamtwn* a gopiodd ac a gyfieithodd i'r Saesneg ar gyfer *Selections, Vol. II*, ac a gyhoeddwyd wedi ei farw gan Dr. Hartwell Jones. Dangosodd hefyd wrth droi i'r Saesneg y fersiynau Cymraeg o'r storiâu hyn y gwyddai fod iddynt werth yn llenyddiaeth gymharol yr oesoedd canol. Gwelsai Alfred Nutt¹ mai cyfieithiad o'r *Queste del Saint Graal* oedd y rhan gyntaf o'r *Seint Greal* ac mai trosiad o *Perceval le Gallois (Perlesvaus)* oedd yr *Eil Ran* a enwir yn y testun hwnnw. Serch yr argraff a adawsid ar fy meddwl, nid teg fuasai tybio, fel y gwneuthum i, mai difater gan yr Athrawon Cymraeg oedd cefndir *Y Seint Greal* a'r testunau a welid yn y *De Carolo Magno*. Onid hwy a gymhellodd Bwyllgor Eisteddfod y Rhyf i alw nid yn unig am gyfieithiad Saesneg o'r *De Carolo Magno*, eithr hefyd am drafodaeth ar ei destunau? Torasai'r buddugwr yntau yn ei draethawd arobryn² dir newydd. Rhoesai inni bennod helaeth ar y damcaniaethau a goleddid y pryd hwnnw am darddiad y *Chansons de Geste, Cronicle Turpin*, etc., a chyfrannodd beth ymchwil wreiddiol ar berthynas y *De Carolo Magno* â thestunau Lladin a Hen Ffrangeg. Dyna'r holl fantolen y gellais i gael hyd iddi ar gyswllt y *Chansons de Geste a'r Romans Courtois en Prose* â llenyddiaeth Gymraeg. Ar arwedd arall o ddyllanwad llenyddol Ffrainc—dyled D. ap Gwilym i'r *troubadours (trouvères)*—gwelais inni gael

¹ Alfred Nutt, *Studies on the Legend of the Holy Grail* (London, 1888), tt. 2, 3.

² Robert Williams, *The History of Charlemagne* (London, 1907, *Y Cymrodor*, XX).

cyfraniadau gan yr Athrawon Cowell, Lewis Jones, a W. J. Gruffydd; ond nid oedd a fynnai hynny, bid sicr, â'r cerddi arwrol Ffrangeg a'r rhamantau Ffrangeg mewn rhyddiaith nac â'u dylanwad ar ein diwylliant.

Yr oeddid, gan hynny, wedi dechrau trafod a datrys rhai o'r cwestiynau a godai o ymddangosiad y *Chansons de Geste a'r Romans Courtois en Prose* mewn diwyg Cymraeg. Ond codai i'r meddwl lawer cwestiwn arall nas trafodwyd, yn enwedig ynglŷn â'r blaenaf. Dyma rai ohonynt: cymerid yn ganiataol nad oedd yn Gymraeg onid un cyfieithiad o bob un o storiâu'r *De Carolo Magno*. A allai'r dyb honno fod yn gywir? Ni wyddid i ba lawysgrifau Hen Ffrangeg hysbys y cyfatebai'r testunau Cymraeg neu a gyfatebai rhai ohonynt i gynseiliau Hen Ffrangeg nas ceid mwyach. Paham y cymerodd y Cymry yn echwyn y cerddi a bwysleisiai'r rhyfeloedd yn erbyn 'yr anfydlonyon' yn hytrach nag eraill? Beth oedd oedran y cyfieithiadau? Ac yn bennaf dim, a oedd ysgrifenywyr y *Mabinogion* yn gyfarwydd â'r *Chansons de Geste*, nid â'r ychydig a droesid i'r Gymraeg yn unig, ond hefyd â'r cerddi Hen Ffrangeg a ganai'r *jongleurs* yng nghestyll y De a'r Gororau? Os felly, a geid olion o'r gydnabyddiaeth honno yng ngwe a phatrwm ein storiâu brodorol? Am y dylanwad ieithyddol, yr oedd hwnnw'n dir morwynol. Arhosai orgraff *Llyfr Du'r Waun* yn broblem ddyrys i'n hysgolheigion pennaf. Sylwaswn innau fod rhai o'r arwyddion orgraffol a welid yn *Llyfr Du Caerfyrddin* a astudiem (e.e., *t, th=ð*, etc.) yn gwbl unweidd eu ffurf ac yn gyfwerth â'r symbolau a welwn wrth ddarllen *La Vie de Saint Alexis* yn llawysgrif Anglo-Normaneg Lamspringen (canol XIIg.). Ai'r orgraff Anglo-Normaneg wedi ei chymhwyso'n fras at destun Cymraeg a geid, tybed, yn *Llyfr Du'r Waun*? Ac a oedd yn bosibl ddarfod i'n cyndadau a addysgid yn ysgolion y Normaniaid ail-lunio orgraff Cymraeg Canol ar ddelw'r orgraff Anglo-Normaneg a ddeuai dan eu llygaid yn yr ysgolion, yn *scriptoria*'r mynachdai, etc., megis y deuai'r un orgraff dan fy llygaid innau yn Llyfrgelloedd Coleg a Dinas Caerdydd? Yna drysidd fi'n enlawr gan yr athrawiaeth a goleddid ynghylch tarddiad y geiriau Rhwmawns a geid mewn Cymraeg Canol. Yn ôl yr athrawiaeth hon, yr unig eiriau Rhwmawns a fenthycasid o'r Hen Ffrangeg ei hun oedd y rheini nas ceid yn Saesneg; yr oedd y geiriau a welid yn Saesneg a Chymraeg wedi eu benthycu o'r Saesneg. Swniai'r dyb hon yn rhyfled i mi. Onid oedd De Cymru a'r Gororau mor Normaniaidd bob mymryn â Lloegr? Ac oni chawsai'r Cymry lawn cystal mantais â'r Saeson i fenthycu geiriau'r Normaniaid?

Dyna'r cwestiynau a'r amheuon, fel yr awgrymais, a oedd yn cyniawir yn fy mhen i yn fy mlwyddyn olaf yn y coleg ac ni allwn ddiannu rhag-ddynt.

Pan etholwyd fi'n Gymrawd o Brifysgol Cymru a mynd ohonof yn Fyfyriwr Ymchwil i Brifysgol Paris, at y pwnc a oedd wedi fy nghipio, sef *Y Dylanwad Ffrangeg ar Iaith a Llen Cymru*, y mynnwn droi fy wyneb. Mynegais y dymuniad hwnnw wrth yr Athrawon Joseph Loth a Joseph Vendryes, fy *Directeurs d'Études*, a chydau cymeradwyasth hwy, i'r maes hwnnw y cyfeiriais fy nghamre. Erbyn hyn gwelwn fod y tir y mynnwn ymchwilio ynddo yn ehangach ei derynau nag y tybiaswn. Yr oedd yn amlwg hefyd y buasai'n rhaid archwilio ei gyrrau bob yn un ac y buasai

ambell gwr yn mynd ag amser mawr ac, yn ôl pob tebyg, yn gofyn llyfr cyfan i'w ddisgrifio. Ond gan y byddai'n ddymunol i mi gymryd gradd *Magister* cyn diwedd fy nghymrodoriaeth, bernais y dylwn ganolbwyntio ar gwr o'r tir â ffiniau mwy neu lai cyfyngedig iddo, gan ddal i arolygu, yn orau y medrwn, gyrrau eraill y diriogaeth ehangach y soniais amdani. Yn y diwedd, penderfynais mai gorau peth fuasai paratoi argraffiad o un o'r testunau Cymraeg Canol a gyfeithasid o'r Hen Ffrangeg ac, fel y gellid disgwyl, syrthiodd y coelbren ar *Ystoria Bown de Hamton*, y testun a aethai â'm serch rai blynyddoedd cyn hynny. Cyftwynwyd y gwaith am M.A. Prifysgol Cymru yn 1913.

Yn y cyfnod hwnnw dechreuasai Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru o dan ysbrydoliaeth Mr. J. H. Davies (y Prifathro wedi hynny) gyhoeddi cyfres o destunau Cymraeg Canol.¹ Cawsai Mr. Davies, a chwiliai ymhobman am weithwyr newydd i winllan ysgolheictod Cymraeg, air ffafriol gan yr arholwyr (Syr John Rhys a Syr Edward Anwyl) i'r argraffiad a gyflwynaswn i i'r Brifysgol a mynnodd ei gael i'w roi yng Nghyffres yr Urdd. Dechreuodd y Llyfrgell Genedlaethol brintio'r gwaith yn y flwyddyn ddilynol. Ymlawenhawm innau yn y meddwl fod fy llyfr cyntaf yn y Wasg. Ond, ysywaeth, cyn mynd o'r argraffwyr drwy nemor fwy na hanner y testun (40 t. allan o 67), wela'r rhyfel mawr cyntaf ar ein gwarthaf. Ataliwyd y printio, trosglwyddwyd y *Rhagymadrodd*, y *Nodiadau*, a'r *Eirfa* yn ôl i mi a rhoes Mr. John Ballinger (Syr John Ballinger yn ddiweddarach) fy nghopi i o destun *Llyfr Gwyn Rhydderch* gyda'r ysbasau (ysb. blewyn, 1, 2, 3) wedi eu nodi arno er budd yr argraffydd heibio gyda'r deugain tudalen printiedig yn Ystafell Gadarn y Llyfrgell.

Wedi'r rhyfel, a minnau erbyn hyn yn dal Cadair Ffrangeg ym Mhrifysgol Deheudir Affrica, ysgrifennais at Mr. Ballinger yn gofyn a allai ailymaflyd yn y printio a chyhoeddi'r llyfr. Yr ateb a gefais oedd ddarfod i lawer o waith a berthynai i'r Llyfrgell ei hun gronni yn ystod y rhyfel ac na fyddai ganddo, hyd y gwelai, mo'r dwylo angenrheidiol am hir dro i ailgychwyn argraffu *Ystoria Bown de Hamton*.

Yn wyneb hyn, trosais innau i'r arweddau eraill o'r Dylanwad Ffrengig y buaswn yn ymdroi gyda hwynt, ac yn ystod y pedair blynedd nesaf, hyd yr oedd hamdden a chyfeusterau Deheudir Affrica ym mhethau'r oesoedd canol yn caniatáu, iddynt hwy yr ymroddais. Yna penodwyd fi i Gadair Ffrangeg fy hen goleg, ac ar ôl dyletswyddau cymharol ysgafn Johannesburg, cefais fy hun dan faich cyfrifoldeb un o'r Adrannau trymaf oll ym Mhrifysgol Cymru.

Ynghwrs amser daethai'r Llyfrgell Genedlaethol yn ôl ar ei hechel ac wedi'r hir aros, dyma broflenni o dd. 41-67 o destun *Ystoria Bown* yn fy nghyrraedd ac yn cael eu printio. Yn fuan wedyn wela lythyr oddi wrth Mr. Ballinger, yn gofyn gennyf yrru'n ôl i Aberystwyth y *Rhagymadrodd*, y *Nodiadau*, a'r *Eirfa* a drosglwyddasai i mi modd y gellid eu hargraffu. Yn nhrefn blynyddoedd yr aros, aethai ysgolheictod Cymraeg yn ei flaen yn enfawr a chymerasai'r Gymraeg le'r Saesneg fel cyfrwng darlithio, arholi, etc., yn Adrannau Cymraeg y Brifysgol. Aethwn

¹ University of Wales, *Welsh Texts*.

innau oblegid hyn ac arall yn anfodlon ar yr argraffiad Saesneg a baratoeswn. Nacâd, gan hynny, a gafodd Mr. Ballinger. Dywedais wrtho ddarfod i mi, yn wyneb y cynnydd a'r newid y cyfeiriais atynt, benderfynu ail-lunio a datblygu'r *Rhagymadrodd*, y *Nodiadau*, a'r *Eirfa* ac ysgrifennu'r gwaith i gyd o newydd yn Gymraeg. Ychwanegais y gobeithwn, gan i mi orfod aros cyhyd iddo ef, y gallai yntau, ysgatfydd, gael amynedd i aros dros dro i minnau. Yn anffodus, rhwng paratoi darlithiau mewn pwnc nad oedd a fynnai â'm hymchwiliadau ar *Ystoria Bown*, darlithio, arholi, trefnu fy Adran a chyflawni fy nyletswyddau dyladwy yng ngwaith cyffredinol y coleg, ni ddigwyddodd i mi, ysywaeth, ar hyd y blynyddoedd onid ysbeidiau byr o amser segur, ysbeidiau cwbl annigonol at orchwyl hir a manwl mewn cangen na ddarlithiwn ynddi nes yn y diwedd ddyfod yr amser i mi ymddeol o Gadair Ffrangeg ac Ieitheg Rwmawns Caerdydd. Serch hyn oll, nid aethai *Ystoria Bown de Hamton* dros gof gennyf, a gellais yn ystod rhai wythnosau yng ngwylliau'r haf ddarllen llawysgrifau Cymraeg a chasglu llawer o ddefnyddiau newydd ar gyfer *apparatus criticus* yr argraffiad datblygedig a arhosai o hyd yn fy mwriad.

Yn gynnar wedi i mi ymsefydlu yng Nghadair Caerdydd aethai cyfres Cymraeg Canol Urdd y Graddedigion drosodd i Fwrdd Gwasg newydd y Brifysgol, a chyn pen hir, wedi gweld na thyciai iddo aros yn hwy am gyflawniad fy addewid, trosodd Mr. John Ballinger i'r corff newydd ei gyfrifoldeb yntau, gan lwybreiddio i Gofrestrfa'r Brifysgol yr holl gopiau a brintiasid o destun diplomatig *Ystoria Bown de Hamton*.

Yn ei dro adnewyddodd Bwrdd y Wasg y cais a wnaethid gan Mr. Ballinger am y *Rhagymadrodd*, etc., eithr gan na fynwn brintio'r gwaith cyntaf, ac na chawswn hamdden i sgrifennu'r ail, ateb negyddol a gafodd y Bwrdd yntau. Yn wir, bygthiodd y corff newydd unwaith neu ddwy gyhoeddi'r testun diplomatig wrtho ei hun, ond, trwy ryfedd ddiodeffgarwch, ymatal a wnaeth.

Bellach, rhaid sôn am brif nodweddion yr argraffiad hwn.

Yn gymaint â bod y stori a olygir yma yn rhan fywydol o'r dylanwad diwyllianol Ffrengig yng Nghymru, a darfod llunio'r rhannau esboniadol ar athrawiaeth bendant ynghylch natur y gyfathrach ganoloesol Ffrengig-Gymreig, ac yn awyrgylch ymchwil barhaus i'r gyfathrach honno, ymddengys na ellir osgoi rhoddi bras amcan beth yw'r athrawiaeth a'r ymchwiliadau y sonnir amdanynt.

Pwynt perffedd yr athrawiaeth yw'r casgliad nad oedd gan y Saeson na'u hiaith na'u diddordebau llenyddol ar ôl y Goncwest Normanaidd na'r gallu na'r cyfle i ddylanwadu ar ddiwylliant Cymru. O'r Goncwest honno allan, y Normaniaid, Ffrangeg eu hiaith a'u diwylliant, fu rheolwyr Lloegr am ganrifoedd, a'r Saeson yn gymynwyr coed ac yn wehnyddion dwf iddynt. Ac megis y cymerth y Normaniaid le'r Saeson yng ngwleidyddiaeth yr ynys, felly y cymerth eu hiaith le'r Saesneg ymhob cych o fywyd cyhoeddus ac fel cyfrwng diwylliant poblogaidd y rheolwyr newydd. Cyn pen llawer o amser teithiodd dilynwyr y Conquerwr tua'r Gorllewin, gan oresgyn y Gororau a Deheudir Cymru ac yno y buont byw yn gymdeithas niferus Ffrangeg eu tafod a'u diwylliant hyd tua diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, gan briodi i deuluoedd Cymreig a chymdeithasu a'r Cymry, yn enwedig â'r pendeigion a'r gwyr llaen, heb

fod yno Saeson na Saesneg i dorri dim ar y gyfathrach. Dilynwyd y goresgyniad gan ddwy ganrif o gyswllt Ffrengig-Cymreig didor. Yna o dan Edward I (ar ôl 1282), daeth rhai Saeson o isel radd i fyw i ambell dref yng Nghymru, ond ni allai'r rheini ar gyfrif eu nodwedd a'u rhif, wedi cyfnod morfaith o gymdeithas agos rhwng y Cymry a'r Normaniaid Ffrangeg, fenu nemor ddim ar y stad iethyddol a diwylliannol a sefydlesid. *Oblegid hyn, ystyriaf y cyfnod dan sylw (XI^a—XIV^a) yn gyfnod llwyrgebl Ffrengig yn hanes y dylanwadau estron ar iaith a llen Cymru.*

Yn wyneb y sefyllfa hanesyddol hon (y mae'r haneswyr yn gytûn ar y ffeithiau), *maentunias na allai'n cyndadau lai na benthycar holl eiriau Rhwmawns a welir yn nhestunau Cymraeg Canol yn uniongyrchol oddi wrth y 'Ffreinc' hyn (dyna'r hen enw), a bod y dyb a goleddid na fenthycasai'r Cymry gan y Normaniaid onid y geiriau Ffrangeg nas ceid yn Saesneg i'w gwrthod.* Llenyddiaeth benedfigaidd yw llenyddiaeth Gymraeg y cyfnod canol lle ceir y benthyciadau dan sylw ac ni welaf fod angen ar benedfigion a llenorion Cymru gymryd yn ail-law oddi wrth daeogion Saesneg a geid draw ac yma eiriau benthycg Ffrangeg a glywsent eisoes ar wefusau'r barwniaid a'r *jongleurs* ac a welsent eisoes mewn niferus destunau Ffrangeg a gyfieithwyd i'r Gymraeg.

Ategir y casgliadau hyn gan nifer o ystyriaethau pwysig. Dyma rai ohonynt:

1. Seineg Ffrangeg (Anglo-Normaneg) ddiledryd yw seineg holl fenthyciadau Rhwmawns Cymraeg Canol ac ni cheir yn y geiriau hyn yr un nodwedd sy'n dangos iddynt ddyfod atom dros wefusau'r Saeson. Nid oes rithyn fwy o reswm dros ystyried y seineg hon yn seineg Saesneg nag sydd dros ei hystyried yn seineg Gymraeg. Nid yw'n perthyn yn gynhwynol i'r naill iaith na'r llall; seineg tafodiaith Ffrangeg wedi ei graffio arnynt ill dwy yn ddiwahaniaeth gan y Goncwest ydyw.

2. Dangosais yn gynnar nad ydyw orgraff *Llyfr Du'r Waun* a ystyried yn 'notable exception to all rules',¹ yn 'peculiar',² yn 'bewildering orthography',³ onid llythraeth yr Anglo-Normaneg wedi ei harfer heb nemor faint na mesur yn aml i adysgrifennu testun Cymraeg.⁴ Yna o ddal i ymchwilio i fater orgraff gymharol Anglo-Normaneg a Chymraeg gwelais nad yn y testun gogleddol hwn yn unig y ceid yr orgraff estron. Ceid hi hefyd yn holl destunau'r Deheudir o *Llyfr Du Caerfyrddin* ymlaen i *Llyfr Gwyn Rhydderch*, etc. Yr oedd gwahaniaeth mawr, serch hynny, i'w ganfod yn maint y dylanwad rhwng De a Gogledd. Yn *Llyfr Du'r Waun* sillefir geiriau Cymraeg yn aml fel petaent eiriau Ffrangeg a gwrthir cyfuniadau orgraffyddol Ffrangeg i mewn yn ddi-reol i eiriau Cymraeg. O'r tu arall, yn nhestunau'r De y mae'r elfennau Ffrangeg o dan reolaeth ac yn ymddangos yn rhan gydnabyddedig o adffurfiad a ddilynir

¹ J. Gwenogvryn Evans, *The White Book Mabinogion* (Pwllheli, 1907), t. xii n.

² John Morris-Jones, *Taliesin, Y Cymrodor*, XXVIII, t. 46.

³ Timothy Lewis, *A Glossary of Mediaeval Welsh Law* (Manchester, 1913), t. viii, ix.

⁴ 'The French Linguistic Influence in Mediaeval Wales', *Transactions, Cymrodorion*, Session 1918-19, t. 194-221.

i fesur helaeth yn yr holl ysgrifenydd. I'r Sistersiaid yn ddilys y perthynai'r *scriptoria* hyn, gan mwyaf, a hwynt-hwy yn ddiamau gyda pheth help o bosibl o du'r beirdd a'r cyfarwyddiaid, biau'r clod am sefydlu orgraff Cymraeg Canol a'i hatal rhag rhedeg yn wyllt dan ddylanwadau Anglo-Normaneg fel y gwnaethai yn *Llyfr Du'r Waun*.

Daeth orgraff Saesneg Canol hithau dan ddylanwad llythraeth yr Anglo-Normaneg, eithr arall yw'r datblygiad yno ac nid oedd a fynnai hwnnw nac â *Llyfr Du'r Waun* nac ag adffurfiad y Sistersiaid.

3. Cymeryd cannoedd o'r benthyciadau drosodd o'r union fan lle'r oeddynt yn y cynseiliau Hen Ffrangeg: yn *Ystoria Bown de Hamton* o'r *Geste de Boun de Hamtone*; yng *Nghân Otuel* o'r *Chanson d'Otinel*; yn *Y Seint Greal* o'r *Queste del Saint Graal* a'r *Perlesvaus*; etc. Ymddengys y gellir dywedyd yr un peth am y *Tair Rhantant—Iarlles y Ffynnaun, Peredur, Gereint*—lle mae'r termau Ffrangeg yn niferus.

Gan na cheir yr un cyfieithiad o destun Saesneg cyn y bymthegfed ganrif, ni allai'r un benthyciad Ffrangeg fod wedi ei gymryd o gysail yn yr iaith honno.

4. Hyd yn hyn ystyriwyd *Y Pedair Keinc, Breudwyd Ronabwy, Llud a Llevelis, Kulhwch*, etc., yn gynhyrchion Cymreig cant y cant. Ond nid oes dim sicrach na bod y dylanwad Ffrangeg, yn anad dim, dylanwad y *Chansons de Geste*, yn drwm arnynt (ar eu themâu, eu harweddau cymdeithasol, etc.); ac nid oes amheuaeth nad oedd eu hawduron yn gynefin nid yn unig â chefnid y canu Ffrangeg eithr â'r *Chansons de Geste* eu hunain ac yn aml wedi cymryd eu hysbrydiaeth a'u defnyddiau ohonynt.¹ Ceir ugeiniau lawer o eiriau Ffrangeg yn y chwedlau hyn, a dengys cyswllt agos y storïau â'r *Chansons de Geste* iddynt ddeillio'n uniongyrchol o'r gyfathrach Ffrangeg.

Nid awgrymodd neb i lenyddiaeth Saesneg Canol effeithio dim ar y *Mabinogion* ac ni welais innau ddim yn pwyntio at hynny wrth baratoi fy llyfr ar y dylanwad Ffrangeg arnynt.

Dyna'r athrawiaeth a dyna'r awyrgylch y buwyd yn byw ynddo tra oedd *Ystoria Bown de Hamton* ar y gwëyll. Adlewyrchir y ddeubeth drwy gydol yr argraffiad.

Dwg hyn fi at raniadau'r llyfr. Mewn argraffiadau o destunau Cymraeg Canol y duedd gyffredin yw crynhoi'r holl sylwadau eglurhaol: ar orgraff, ffurfiau, cystrawen, etc., i'r *Nodiadau*. Pan wnele'r hynny anodd iawn yw cael gafael ar ffurf yn y byd oni byddo cyfeiriad pendant ati yn y *Mynegai*. Er mwyn hwylyso gwaith ymchwilyr ac i gadw swm y *Nodiadau* o fewn terfynau rhesymol, penderfynwyd yn yr argraffiad hwn ddilyn y patrwm cyfandirol a dosbarthu'r sylwadau eglurhaol yn adrannau. Yn yr adran gyntaf disgrifir a dosberthir y llawysgrifau a thrafodir cwestiynau fel yr ysgrifenydd, awduraeth, dyddiad, etc. Mater yr ail adran yw *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone* ac yn hon ceisir dangos agwedd y cyfieithydd tuag at ei ffynhonnell a thaffu

¹ Gw. M. Watkin, *The French and Chansons de Geste Influence upon the Mabinogion*, llyfr y gellir, gobethio, ddechrau ei brinio cyn diwedd y flwyddyn.

peth goleuni ar ei eneidde anarferol, ar ei ddawn lenyddol, ac ar ei feistrolaeth ar Hen Ffrangeg. Yn y trydydd rhaniad trinnir *Orgraff*, pwnc na chaiff, fel rheol, nemor sylw gan olygyddion testunau canoloesol Cymraeg. Yn wrthwyneb i'r arfer hon, rhoddir yma ddisgrifiad gweddol lawn o hynodion orgraffyddol *Ystoria Bown de Hamton* fel y'u ceir yn *Llyfr Gwyn Rhydderch* a gelwir sylw at darddiad Anglo-Normaneg llawer o arwyddion orgraff Cymraeg Canol. *Ffuriant* yw'r bedwaredd adran, ac o dan y gwahanol rannau ymadrodd, dyfynnir y ffurfiau prin a'r ffurfiau mwy neu lai anarferol a ddigwydd yn y testun. Yma a thraw awgrymir ambell esboniad newydd ar ffurfiau adnabyddus megis ddarfod i *uy*, *uynt* fynd yn *huy*, *huynt* o efelychu'r ffasiwn Hen Ffrangeg o rodde *h* anorganig o flaen pob *ue*, *ui* (e.e., *hues* am *ues* (*opus*); *huit* am *uit* (*octo*); etc.); neu pan gyniger y gellir esbonio'r amrywiadau orgraffyddol ar y rhagenwau mewnol (*uy*, *oe*, *oy*, *iu*, etc.) fel efelychiadau o'r un amrywiadau yn orgraff yr Anglo-Normaneg; neu eto pan ddangoser nad yw'r *efe* a ddirmygwyd ac a osgowyd am genhedlaeth onid *efef* wedi colli ei *-f* a bod y ffurfiau dyblyg, gan hynny, yn gyflawn drwyddynt, er amau eu cyflawnder gan John Morris-Jones.¹ Yn y rhaniad nesaf ymddrinnir â phwyntiau cystrawennol ac yma eto, fel y gellid disgwyl, at y pwyntiau sy'n unwedd â phwyntiau yn Hen Ffrangeg neu'n debyg iawn iddynt y tynnir sylw y rhan amlaf. Megis mewn argraffiadau o destunau Hen Ffrangeg, trafodir *Cenedl Geiriau* fel mater sy'n perthyn i *Gystrawen* yn hytrach nag i *Ffuriant*. Dan y pen hwn awgrymir mai'r ddiwaliaeth barhaus a welir yng nghenedl geiriau yn Hen Ffrangeg sy'n cyfrif am y ddiwaliaeth yn y benthyciadau o'r iaith honno yn Gymraeg (cf. e.e., *rhyfel mawr* a *rh. f.*; *tri munud* a *tair m.* yng Ngogledd a De; etc.) ac y gallai'r un ddiwaliaeth fod wedi effeithio ar genedl rhai geiriau brodorol a arferid yn y cyfieithiadau. Dangosir fod proclitiath ac enclitiath y fannod; fod bannod afraid gydag enwau yn y cyflwr genidol; fod bannod + ansoddair ar ôl enw yn dilyn yr un teip cystrawennol yn fynych mewn Cymraeg Canol ag yn Hen Ffrangeg (e.e., *er escubaur ebrenyn*; *ychnaît ysgyn*, etc.). Dyfynnir o *Ystoria Bown* amryw enghreifftiau o'r hyn a ymddengys yn *Fannod Anhendant*. Profir y dyddia *chlô*—*ti* nid o'r bymthegfed ganrif,² eithr o'r drydedd ganrif ar ddeg, ac awgrymir mai efelychu'r gystrawen Hen Ffrangeg *eus*—*tu* a'i tynnodd i'r golwg mor gynnar. Mynegir y farn i waith y cyfieithwyr yn cario drosodd o'r Ffrangeg i'r Gymraeg ferfau lluosog gyda goddrychau lluosog helpu i gadw'n fyw yr hen gystrawen lle cytunai'r ferf â'i goddrych. Dangosir mai o'r Hen Ffrangeg y cymerwyd yr arfer o roi geiriau fel *notôyd*, *manec*, *gy pilledic*, etc., yn ail derm negyddiaeth; etc. Yna daw'r testun. Ar awgrym yr Athro Vendryes rhoddwyd, er mwyn cyfleustra, rif wrth bob pumed llin ymhob colofn megis y gwneir gyda barddoniaeth. Atgynhyrchwyd y testun yn ddiplomataidd ar batrwm testunau adnabyddus Dr. J. Gwenogvryn Evans: llythren am llythren, ysbas am ysbas, etc. Er cymaint a hawliwyd dros atgynrychiadau ar y patrwm hwn ac er mor werthfawr ydynt o safbwynt hanes ysgrifed, rhaid cydnabod na ddyry'r

¹ *A Welsh Grammar Historical and Comparative* (Oxford, 1913), t. 272.

² J. Morris-Jones, *ibid.*, t. 270.

gorau ohonynt onid pictiwr bras o'r llawysgrif a gynrychiolant. Ond er mwyn sicrhau pob cywirdeb posibl o fewn ffiniau'r cynllun, gwnaethpwyd un peth anarferol: wedi i mi wneuthur fy ngorau glas i gywiro profenni'r testun diplomatig, aeth fy ngwraig a minnau drwy'r cyfan o ben bwy gilydd (4,373 o linellau) *ddwywaith*, Mrs. Watkin â'r profenni yn ei llaw a minnau'n galw allan o *Llyfr Gwyn Rhydderch* bob llythren (*ô*, *û*, etc.) ac yn cymharu'r ysbasau. Parthed y *Nodiadau*, ymdrechwyd i gyfyngu'r rheini, yn orau y medrwyd, i feirniadaeth destunol, sylwadau ar y cefndir, ac esboniadau ar ystyron a tharddiad geiriau na chytunwyd eto ar eu ffynhonnell. Afraid yng ngolwg ambell un efallai oedd rhoi cymaint o sylw i feiau *Bown of Hamton* Robert Williams, eithr barnai rhai o'r Athrawon Cymraeg fod perygl i fyfyrwyr a fuasai'n defnyddio'r llyfr ymorwedd yn ormodol ar drosiadau Williams ac y dylid o'r herwydd gywiro ei gamgyfieithiadau. Credais innau mai rhesymol oedd dilyn eu cyngor. Amcanwyd at roi *Geirfa* gyflawn.

Yn y geiriau o'r testun a ddyfynnir yn yr *apparatus criticus* atgynhyrchwyd yn gyson ffurfiau llythrennau *Llyfr Gwyn Rhydderch*. Gwahaniaethwyd rhwng *ô* ac *û* (am *æ*), rhwng *f* ac *s* (s), a chadwyd *v* am [*û*] ddechreuol ac *u* am [*û*] ganolog, etc., ymhobman. Eithr yn y niferus ddyfyniadau a welir yn y *Rhagymadrodd* a'r *Nodiadau* ni chadwyd mo'r ysbasau; ac am ei bod mor anodd cael priiflythrennau mewn teip bach o rai wnsialiaid (e.e., o *a*, *e*, *h*, etc.), printiwyd ar flaen y dyfyniadau yn yr *Eirfa* y capitaliaid A, E, etc. yn lle'r wnsialiaid cyferbyniol. Nid atgynhyrchwyd mo'r ychydig bwyntiau a geir ar yr y (*y*) wrth ddyfynnu nac yn y *Rhagymadrodd* nac yn y *Nodiadau*.

Nid erys bellach ond y gorchwyl dymunol o ddiolch i'r sawl a'm cynorthwydd ynghwrs fy llafur, Pan oeddwn fyfyrwr ym Mharis ac yn gosod i lawr linau argraffiad helaeth o *Ystoria Bown de Hamton* cefais lawer cyngor a chyfarwyddyd gan yr Athro Joseph Vendryes ac yr wyf yn rhwymedig iawn iddo nid yn unig am fy rhoi ar ben y ffordd mewn llawer peth eithr hefyd am fy ethol i'w gynorthwyo dros dro gyda'r ddisgyblion Cymraeg yn Adran Gramadeg Cymharol. Wrth baratoi'r argraffiad datblygedig presennol achubais aml gyfle i ymgynghori â'r Athrawon Cymraeg yng Nghaerdydd ac Abertawe ac yr wyf dan ddyled iddynt am ddarllen rhannau o'r llyfr mewn teipysgrif. Darllenwyd fersynau o'r tair pennod gyntaf—*Y Llawysgrifau*, *Ffuriant*, *Perthynas* y *Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Bown de Hamton*—gan yr Athro Gruffydd John Williams a cheisiais elwa ar ei sylwadau. Darllenodd yr Athro Henry Lewis a Dr. T. J. Morgan fersynau o *Cystrawen* a bu'r bennod ar ei hennill o ddilyn eu hawgrymiadau. Bwridd Dr. Morgan hefyd olwg dros *Orgraff* a thros *Orgraff* y *Treigladau*. Yn chwangel at y gymwynas y cyfeiriais ati, bu'r Athro Gruffydd John Williams mor fwyn â darllen profien o bob rhan o'r llyfr drwyddo (ar wahân i'r testun a'r *Eirfa*), gan nodi aml wall a ddiangasai rhag fy sylw, gan fy nghadw o bryd i'w gilydd rhag siarad Ffrangeg yn Gymraeg, a chan beri i mi yn awr ac ailwaith wybod ffyrdd orgraffyddol newydd y Bwrdd Gwybodaeth Celtaidd pan na ddilyno'r rheini *Orgraff Yr Iaith Gymraeg*. Yr wyf hefyd yn rhwymedig i'r Athro Kenneth Jackson am adael i mi gael ei farn ar bwynt testunol ac i'r Athro E. C. Llewellyn am gyngor ar rai

pwntiau o seineg Saesneg Canol. Ni allaf lai na chrybwyll gyda diolchus gof gyfran y diweddar Athro John Lloyd-Jones at yr argraffiad hwn. Iddo ef y rhannodd Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru y cyfrifoldeb o benderfynu a oedd yr argraffiad datblygedig presennol yn teilyngu ei gyhoeddi ac ef a'i cymeradwyodd. Cefais gopi o'i Adroddiad ac ystyriais amryw o'i sylwadau yn werth eu corffori yn y *Nodiadau* o dan ei enw ef ei hun ac yr oedd 'yn fodlon iawn', fel y dywedai, ar y lle a roeswn iddo. Gan i mi gyfeirio at un gŵr marw a fu fywn wrthyf, ni allaf na chrybwyllaf enwau'r Athrawon Thomas Powel, W. J. Gruffydd, a Joseph Loth, gwŷr a'm tywysodd yn llwybrau dysg Gymraeg. A phwy, ac yntau'n ymddiddori yn y ddysg hon, na chafodd (heb fynd i Fangor) barhaus oleuni o ymgynghori â gweithiau'r diweddar Syr John Morris-Jones? Bu Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru yn rhyfedd o amyneddgar wrthyf, yn cadw'n ddiogel destun diplomatig yr *Ystoria Bown de Hamton* cyntaf, yn rhoi doglyd ar fy addewid, yn gadael dros gof fy hirhoedlog fethiant i'w chywiro, ac yn derbyn yn garedig a heb ddannod yr argraffiad newydd. Yma ni allaf lai na choffáu'r diweddar Mr. Jenkin James a fu rai gweithiau yn eiriol drosof. Diolchaf hefyd i'w olynydd, Dr. Elwyn Davies, am fod rai troeon yn hirymarhous ac am ei ddi-ddordeb yn y llyfr ar hyd yr amser. Gofal Dr. Davies am artistriaeth lyfryddol a barodd iddo berswadio'r un Wasg i orffen printio *Ystoria Bown de Hamton* ag a'i dechreuodd lawer blwyddyn yn ôl, Y Llyfrgell Genedlaethol. Pleser hefyd yw diolch i'w gynorthwywr, Mr. Ieuan Williams, am gadw ei lygad treiddgar ar gysondeb penawdau a chywirdeb y cywirwyr. Y Llyfrgell Genedlaethol biau'r clod am y gwaith rhagorol a wnaethpwyd ar y testun diplomatig ac yr wyf yn llawen odiaeth ac yn ddiolchgar ddarfod i Dr. Thomas Parry, er gwaethaf y galwadau mewnol sydd arno ym mater printio, weld yn dda i ganiatáu i Adran Printio'r Llyfrgell ailgydio yn yr edafedd lle gadawyd hwynt yn 1914. Diolchaf i Dr. Parry hefyd am fwrw golwg ar y llen gyntaf bob tro ac am lawer gofal arall. Disgynnodd gofal technegol y printio i ddwylo medrus Mr. E. Llewelyn Jones, gŵr a oedd yn brentis dan lygad y diweddar Mr. George Jones pan oedd y crefftwr hwnnw â'i fysedd cywrair a'i ddurlif yn llunio yn nhestun yr argraffiad hwn ddelw gwallau ysgrifol *Llyfr Gwyn Rhydderch*.

Yr wyf yn llawen odiaeth i mi gael fy arbed, wedi oediad mor hir, i allu cywiro'r addewid a wneuthum gynt mewn llawn hyder fydd i'r diweddar Syr John Ballinger a'r diweddar Brifathro J. H. Davies.

MORGAN WATKIN.

Amst, 1957.

Taflen o'r llinellau cyfatebol yn *Ystoria Bown de Hamton*
a'r *Der Anglonormannische Boeve de Hamtone*

YBH	Boeve	YBH	Boeve
1- 49 ^a	=	1- 137	2184-2251 = 1942-1985
50- 117 ^b	=		2252-2319 = 1986-2042
118- 185	=	126- 204	2320-2387 = 2043-2083
186- 253	=	205- 257	2388-2455 = 2084-2131
254- 321	=	258- 325	2456-2523 = 2132-2183
322- 389	=	326- 391	2524-2591 = 2184-2241
390- 457	=	392- 446	2592-2659 = 2242-2298
458- 527	=	447- 527	2660-2725 = 2299-2349
528- 597	=	528- 584	2726-2791 = 2350-2403
598- 667	=	585- 655	2792-2861 = 2404-2463
668- 737	=	656- 721	2862-2927 = 2464-2520
738- 807	=	722- 780	2928-2993 = 2521-2568
808- 877	=	781- 838	2994-3059 = 2569-2623
878- 947	=	839- 905	3060-3125 = 2624-2696
948-1017	=	906- 972	3126-3191 = 2697-2758
1018-1087	=	973-1041	3192-3259 = 2759-2824
1088-1147	=	1042-1094	3260-3325 = 2825-2884
1148-1207	=	1095-1149	3326-3391 = 2885-2949
1208-1267	=	1150-1201	3392-3457 = 2950-3006
1268-1327	=	1202-1252	3458-3523 = 3007-3069
1328-1387	=	1253-1309	3524-3589 = 3070-3131
1388-1447	=	1310-1355	3590-3655 = 3132-3186
1448-1507	=	1356-1399	3656-3721 = 3187-3258
1508-1567	=	1400-1447	3722-3787 = 3259-3321
1568-1627	=	1448-1496	3788-3853 = 3322-3384
1628-1687	=	1497-1540	3854-3919 = 3385-3447
1688-1747	=	1541-1591	3920-3985 = 3448-3505
1748-1807	=	1592-1641	3986-4047 = 3506-3564
1808-1867	=	1642-1688	4048-4109 = 3565-3618
1868-1927	=	1689-1730	4110-4175 = 3619-3677
1928-1987	=	1731-1774	4176-4242 = 3678-3736
1988-2047	=	1775-1813	4243-4308 = 3737-3792
2048-2115	=	1814-1890	4309-4373 = 3793-3850
2116-2183	=	1891-1941	

RHAGYMDRODD

I. Y LLAWYSGRIFAU

§1.

Trosglwyddwyd *Ystoria Bowen de Hamtwn* i'n hoes ni mewn pedair o llawysgrifau, nid amgen, *Llyfr Gwyn Rhydderch*, *Llyfr Coch Hergest*, *Llawysgrif Mostyn 135*, a *Llyfr Siôn Dafydd Rhys*.

Gan mai copïau uniongyrchol neu anuniongyrchol o *Llyfr Gwyn Rhydderch* yw'r fersiynau eraill, gorau peth efallai fydd brysio trostynt ac arbed gofod i'w roi i fyfyrddod ar y *Llyfr Gwyn* ei hun.

1. *Llyfr Siôn Dafydd Rhys* (Peniarth 118), *Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Nid yw'r llawysgrif hon namyn casgliad o gopïau a wnaethpwyd o *Llyfr Coch Hergest* yn chwarter olaf yr unfed ganrif ar bymtheg gan Siôn Dafydd Rhys, W. Middleton, etc. Y mae'r testun a roddir o *Ystoria Bowen* yn anghyflawn. Am ryw reswm nas gwyddys, rhoes y copiwr y gorau i'w orchwyl yng nghanol llinell ar ôl ysgrifennu'r frawddeg: *mynd a ozuc att y dat y uenegi ida6* (=L1C dechrau col. 921=4025 yn YBH). Mewn geiriau eraill, nid atgynhychwyd y naw colofn olaf o'r stori fel y'i ceir yn y *Llyfr Coch* (=11 col. olaf YBH). Gwelir testun *Ystoria Bowen* ar dd. 865-907, rhwng truth ar hanes cyntefig a darn o'r Cyfreithiau Cymreig, ac y mae'n waith dwy law wahanol. Yr un llaw biau tt. 865-898 ac eto dd. 904-907, eithr llaw arall a dorrodd fater tt. 898-903, llaw debyg i eiddo Siôn Dafydd Rhys, copydd y darn a geir o flaen *Bowen*. Hyd y gwn i, nid argraffwyd erioed ddim o destun Peniarth 118.

2. *Llawysgrif Mostyn 135*, *Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Copi yw Mostyn 135 a sgrifennwyd gan Roger Morys o Goedytalwrn, Llanfair Dyffryn Clwyd, o bethau amrywiol yn *Llyfr Gwyn Rhydderch* tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg (am sicrwydd, cf. llaw Morys yn P 168^b). Yn Mostyn 135 teitl y rhantant yw *Ystoria Bowen neu Beuis de Hamtwn* ac y mae i'w gweld ar dd. 59-172 rhwng *Ystoria Peredur* ar y naill law ac *Ystoria Pwyll* ar y llaw arall. Heblaw cywiriadau Roger Morys ceir ar ynylon y dail losau yn llaw Syr Thomas Wiliems, y Ffisigwr (cf. 74, 103, 135, etc.) ac efallai yn llaw Dr John Davies o Fallwyd (cf. 72, 135, 137, etc., a gw. ysgrifennu B yn P 49^a). I Thomas Wiliems hefyd, mae'n debyg, yr ydym yn ddyledus am deitlau'r storïau drwy gydol y llawysgrif. Ni roddwyd fersiwn Mostyn erioed mewn print.

3. *Llyfr Coch Hergest, Coleg yr Iesu, Rhydychen*

Cyfrolau llogell oedd llawysgrifau Cymru, y rhan amlaf, yn niwedd y ddeuddegfed ganrif a hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg (e.e., y BB, LIDW, etc.), cyfrolau ar batrwm y rheini a gludai'r *jongleurs* o gastell i gastell ac o farchnad i farchnad yn Hen Ffrainc a Lloegr Ffrengig. Eithr wedi i bendefigion Cymru ddsygu darllen a mynnu llawysgrifau iddynt eu hunain aethpwyd i lunio cyfrolau mwy eu maint fel *Llyfr Gwyn Rhydderch*, Peniarth 7, *Llyfr Coch Hergest*, etc. Y mae'r *Llyfr Coch* yn anarferol o fawr, yn mesur 13½ wrth 8½ o fodfeddi ac yn cynnwys 362 o ddail ac 1,442 o golofnau. Gwyddys iddo ddyfod i'w gartref presennol yn 1701 o Lanfleiddan ym Mro Morgannwg ac iddo berthyn gynt, fel y dengys ei enw, i Blasty Hergest ar dueddau gorllewinol swydd Henffordd lle'r aethai o bosibl o Ynystawe yng Ngŵyr. Os *Llyfr Gwyn Rhydderch*, fel y tybir, oedd ei gynddelw (tyb a brofir am YBH), efallai mai un o fynachlogydd Glannau Teifi oedd ei gartref cyntaf. Eithr gan y cenir ynddo i Hopcyn ap Tomas ac y sonnir am ei sacer, etc., cred rhai mai dan nawdd y pendefig o Ynystawe y daeth y llygr. i fod. Os cywir y golygiad hwnnw, yna rhaid nad gŵr yn hanfod o unlle i'w dalw Canolbarth Ceredigion oedd y copiwr, oblegid y mae fersiwn y *Llyfr Coch* o *Ystoria Bown* yn fynych yn fwy gogleddol ei ffurfiu nag eiddo *Llyfr Gwyn Rhydderch*. Bydd y copiwr hefyd weithiau'n newid geiriau deheuol ac yn rhoi eraill â blas mwy gogleddol yn eu lle.¹

Gwelir fersiwn y *Llyfr Coch* o *Ystoria Bown* ar golofnau 845-928, rhwng *Kulhach ac Obaen a Medysgon Mydfe*. O'r ddau ragymadrodd a geir yn nhestun *Llyfr Gwyn Rhydderch* ni chopiwyd onid yr ail. Ni phrintiwyd, hyd y gwn i, ddim o'r adysgrif hon oddieithr yr amrywiadau a welir wrth droed y tudalennau yn yr argraffiad presennol.

4. *Llyfr Gwyn Rhydderch* (Peniarth 4 a 5), *Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

Fel sylfaen rannol i fyfyrdd ar arweddau neilltuol o *Ystoria Bown* ac o ddiadordeb cyffredinol y pwnc ei hun, mentrais roddi yma o'r *Llyfr Gwyn* ddisgrifiad gweddol lawn ar batrwm y disgrifiadau a geir weithiau yn rhagymadroddion argraffiadau ffacsimilaidd o destunau canoloesol.

§2. LLYFR GWYN RHYDDERCH: HANES Y LLAWYSGRIF

(i) *Ei pherchenogion*

Yn ôl nodyn ar bapur gan WNEW (William Watkin Edward Wynne, †1880), nodyn a lecha yn un o blygion cyntaf y llawysgrif ac a seiliasid ar dystiolaeth Jasper Gryffyth, cymer y 'llyfr' hwn ei enw oddi wrth gynberchennog, Rhydderch ab Ieuan Llwyd of Gogerthan in Cardiganshire, the principal person in the County of Cardigan, about the end of the 14th century.² Dywaid J. H. Davies³ mai tŷ ym mhlwyf Llanbadarn Odyn yng Nglyn Aeron (Parc Rhydderch) ac nid ym mhlwyf Llanbadarn

¹ Gw. G. J. Williams, *Traddodiad Lleryddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948), tt. 13-14 ac adronnau f3-3; f5 (i), (iv) 5 a (v) 5 o'r argraffiad hwn.

² NLW Peniarth 53, t. 47.

³ *Trans. Cymmr.*, 1905-6, tt. 71-3.

Fawr oedd priflys y pendefig hwn ac mai ef yn 1387 oedd rhaglaw (*bedellus*) y goron yn Nhalaieth Mabwynion. Prawf Pat.R.15, Rich. 11, pt. 2, m.38 ei fod eto'n fyw yn 1391¹, a dywaid Llewelyn Williams² y tystia nodyn yn y *Llyfr Gwyn* (nodyn nas ceir mwyach, hyd y gwelaf) iddo farw yn 1397. Canodd Gruffudd Llwyd ap Dafydd ab Einion farwnad iddo,³ ac, yn ôl rhai tystiolaethau, Dafydd ap Gwilym yntau.⁴ Canodd Dafydd Nanmor gywyddau i'w blant ac i'w wyron, ac yr oedd ei fab ei hun, Ieuan, yn fardd ac achydd.⁵ Disgynnai Rhydderch o'r un llinach â theulu enwog Dinefwr yn Nyffryn Tywi,⁶ ac ymddengys fod cyfathrach lenyddol agos rhyngddo a theluoedd eraill yn yr un dyffryn mor bell i lawr â Chaerfyrddin.⁷ Ymestynnai ei dras hefyd i'r Gogledd, oblegid priodasai Tangwystl ei ferch Einion ap Gruffudd o Gorsygedol, Llanddwywe, Arduwy,⁸ priodas y disgynnodd Wyniaid Peniarth ohoni. Yr oedd perchen tybiedig y memwrn dan sylw, gan hynny, yn ŵr enwog yn ei ddydd ymhlith beirdd a charwyr llen rhan helaeth o Ddeau a Gogledd Cymru.

Yng Ngheredigion yn bur debyg ac yng Ngogerdan ond odid, y cedwid *Llyfr Gwyn Rhydderch* pan fu yn nwylo copiwr *Llyfr Coch Hergest* a'r copiwr hwnnw fu'r cyntaf, hyd y gwyddys, i dynnu ei fater ohono.⁹ Yng Ngheredigion hefyd yn ddilys yr arhosodd hyd dranc y pendefig a roes iddo ei enw. Wedi marw Rhydderch ab Ieuan Llwyd disgynnodd yr ysgriflyfr i ran Tangwystl ei ferch a briodasai, fel y gwelom, Einion ap Gruffudd o Gorsygedol yn Arduwy;¹⁰ a chyda hi yn ddiau y gadawodd y *Llyfr Gwyn* y Deheudir am y Gogledd. Yr oedd yr hen femwrn eto ym meddiant teulu Corsygedol pan fu farw gorwyr i Einion yn 1489.¹¹ Eithr am ryw reswm anhysbys, ymddengys iddo cyn pen hir fynd allan o afael disgynyddion Rhydderch a dechrau crwydro o fan i fan ymysg

¹ *Arch. Camb.*, 4th Series, IX, t. 301; gw. hefyd nodyn yn NLW Peniarth 5, lxxv, yn llaw Wynne.

² *Trans. Cymmr.*, 1905-6, t. 60.

³ Ifor Williams a Thomas Roberts (gol.), *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a'i Gyfoenyr* (Bangor, 1914), t. xxiii.

⁴ O. Myfyr a W. O. Pughe (gol.), *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* (Llundain, 1789), t. 334; *Trans. Cymmr.*, 1905-6, t. 60.

⁵ T. Roberts ac Ifor Williams (gol.), *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, (Cardiff, 1923), tt. 82, 180, 189.

⁶ Gw. nodyn ar ei achau yn nechrau NLW Peniarth 5.

⁷ 'Cywydd i Wilym Siôn o Lan Egwad' yn *Poetical Works of Lewis Glyn Cothi*, gol. J. Jones a W. Davies (Oxford, 1837), II, t. 315.

⁸ Gw. nodyn WNEW ar ddechrau NLW Peniarth 4.

⁹ Dangosodd Gwengofryn Evans mewn nodiad ar un o ddail cyntaf y *Llyfr Gwyn* ddariod i gopiwr y *Llyfr Coch* dorri pedair llinell a hanner ar ff. 8ab.

¹⁰ Am y briodas, gw. nodyn ar bapur gan WNEW yn nechrau NLW Peniarth 4.

¹¹ Cf. NLW Peniarth 5, ff. lxxv: 'Obitus Elisae ap Gruffudd ap Eigion anno domini millesimo ccccxxxix et anno regni H.VII. quarto'; cf. hefyd sylw Wynne a adawyd gyferbyn i'r uchod: 'Ellis ap Gruff. ap Eigion was the great grandson of Rhydderch ap Ieuan Lloyd, the former owner of this book who was living in 1391'; canodd Lewys Môn (†1527) i'r Elisae hwn, gw. d.g. *Gwaith yng Ngieriadur Davies*.

llenoriau a charwyr llên yng Ngogledd Cymru—Rhisiart Langford o Drefalun, Syr Thomas Wiliems o Drefriw, Jaspas Gryffyth o Ruthun, Roger Morys o Goedytalwrn, etc. Erbyn canol yr ail ganrif ar bymtheg daethai dan gronglwyd ddiogel Robert Vaughan ac yn yr Hengwrt y cafodd ddiogelwch am fwy na dau cant o flynyddoedd. Yn 1859, o dan ewyllys Syr Robert Williams Vaughan, troswyd ef i feddiant William Watkin Edward Wynne o Beniarth,¹ disgynydd uniongyrchol o'i berchen hysbys cyntaf ac yn Nyffryn Dysynni y bu'n taro am y chwe blynedd a deugain dilynol. Ar Chwefror 28, 1905,² pwrswyd ef gan Syr John Williams er budd y Llyfrgell Genedlaethol ac 'N'ôl blino'n treiglo pob tre' daeth i gael 'dinas barhaus' yn yr unrhyw ardal ag a adawsai bum can mlynedd ynghynt.

(ii) *Ei ffurfiau allanol*

Rhwng y ddwy lawysgrif annibynnol a'i cyfansodda a'r cyfuniadau a wnaethpwyd ohonynt o bryd i'w gilydd, ymddengys i *Llyfr Gwyn Rhydderch* ynghwrs ei hanes wisgo o leiaf saith o ffurfiau allanol amryfal:

1. Y ffurf gynharaf oedd llawysgrif a gynhwysai nifer o destunau o gyffelyb ysgrifen, memrwn, rhiwliad, etc., y gwarafun oed ei hamrywiol ddwylo inni ei hamseru cyn tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg.³ Yr oedd yn gyfrol sylweddol ei maint (tebyg na ddeil Peniarth 4 heddiw nemor fwy na'i hanner) ac efallai ddarford ei hangau o'r dechrau â chaead gwyn. Perthynai o bosibl i un o daleithiau canol neu isaf y Deau.³ Gellid galw hon yn (a).

2. Rywbryd ar ôl diwedd ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg (oed tybiedig y llaw icuaf), o nifer o destunau gwahanrywiol o ran ysgrifen, croen, rhiwliad, etc., ymddengys ddarford cyfansoddi yn yr un rhan o'r wlad lawysgrif arall y gwelir ei sylwedd heddiw yn Peniarth 5. Galwer hon yn (b).

3. Cloir Peniarth 5 heddiw gan destun (*Ystoria Bown*) sy'n dangos yr un teip o ysgrifenyddiaeth ag a welir yn y *Pedeir Keinc* ar ddechrau Peniarth 4 a phrawf yr hen rhiad iddo fod yno o leiaf er y bymthegfed ganrif. Os yw tyb *Gwenogfryn* yn gywir fod *Ystoria Bown* yn perthyn i'r llawysgrif hynaf, awgrymaf ddarford symud *Bown* o'r fan lle'r oedd yn (a) i'r safle y mae ynddi yn (b) gan y cyfunwr cyntaf a chwenychai roddi i'w gyfrol gyfansawdd newydd ryw arwydd o unoliaeth drwy gael ymhob pen iddi ddail o bryd a gwedd tebyg i'w gilydd. Os felly, hwn fuasai'r cyfuniad hynaf ac fel heddiw dilynai'r drefn (a) (b). Efallai ddarford ei ffurfio cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg a dichon ei fod yntau mewn chorau gwyn.

¹ *Cyfeirir Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, I, 4, ll. 194, 195.

² Ar oed y llyfrau hyn, gw. J. Gwenogfryn Evans yn *Reports on MSS. in the Welsh Language*, I, 11, t. 305 ac ar ddail cyntaf NLW Peniarth 4.

³ *Ow*, 11, 5.

4. Erbyn y bymthegfed ganrif, fel y dengys yr hen rhiad, cafwyd rhwymiad newydd y rhoddyd (b) o flaen (a) ynddo, rhwymiad a oedd eto o bosibl yn wyn.

Yn 1573 soniai Rhisiart Langford¹ am y gyfrol ddwbl hon fel *Llyfr* (nid *Llyfrau*) *Gwyn Rhydderch* yr hyn a wna inni dybio fod y teitl arferedig yn draddodiadol eisoes yn ei ddyddiau ef. Os gwir hynny, y tebyg yw fod (a) a (b) o dan un clawr pan ddaethant gyntaf ar helw Rhaglaw Mabwynion neu ddarford ffurfio'r cyfuniad yn fuan wedyn ganddo ef ei hun neu gan ei ddisgynyddion uniongyrchol.

5. Erbyn 1658 pan wnaeth Robert Vaughan ei gofrestr o Lyfrgell yr Hengwrt didolasid y ddau gasgliad drachefn, eithr delid i edrych arnynt o hyd fel undod:

- '1. Darn cyntaf Llyfr Gwyn Rhydderch.
2. Yr ail rhan (*sic*) o'r Unrhyw² Lyfr'.

Yr un yw'r golygiad yng nghatalog Aneurin Owen yn 1824:

- '4. The first part of the (*sic*) Llyfr gwyn Rhydderch.
5. The second part of Llyvyr gwyn Rhydderch'.³

Ni wyddys pa un ai dan un clawr ai dan ddau y daeth y *Llyfr Gwyn* i ddwylo Robert Vaughan nac ychwaith a droesid yn y gwrthwyneb drefn y bymthegfed ganrif (=Peniarth 5, 4) cyn i'r memrwn gyrraedd yr Hengwrt. Efallai mai ysgolheictod Vaughan a ganfu nad oedd dim yng nghynnwys gwahanrywiol y llyfr yn galw am unoliaeth caead ac mai ef a ddiolodd y cyfrolau ac a'u had-ddosbarthodd yn ôl y drefn (=Peniarth 4, 5) a ddilynwyd fyth wedyn. Pa sut bynnag, yng nghatalog 1824 (sy'n debyg iawn ei deitlau i gofrestr 1658) dengys y disgrifiad yn bendant fod y drefn a geir yno (4, 5) yn golygu'r un peth ag a wna heddiw.

6. O'r tu arall, i'r cof mai fel un casgliad yr ystyrid y ddwy lawysgrif hyn gan draddodiad y dylid efallai briodoli gwaith William Watkin Edward Wynne yn eu humo o newydd yn y rhwymiad a wnaethpwyd ym Mheniarth.⁴ Beth bynnag oedd ei reswm, yn rhwymiad unclawr Wynne y daeth *Llyfr Gwyn Rhydderch* yn nechrau'r ganrif hon i'r Llyfrgell Genedlaethol ac yn y diwyg hwn y bu gynefin i'r to cyntaf o ddarlênwyr yn y sefydliad hwnnw.

7. Pan farnwyd yn ystod 1940 fod esiau caead newydd ar yr hen femrwn, penderfynwyd ysgru'r rhannau unwaith eto megis yn nyddiau'r Hengwrt a'u rhwymo'n ddwy gyfrol ar wahân.

¹ *Reports on MSS.*, . . . I, 11, t. 667.

² *Cambrian Register*, III, t. 278.

³ *Cymruodwr*, II, t. 483.

⁴ *Ond* gw. 12, (ii), 4.

(iii) *Ei ffurfiau mewnol*

Aeth *Llyfr Gwyn Rhydderch* drwy gyfnewidiadau pwysig nid yn unig yn ei wedd allanol eithr hefyd yn ei ffurf fewnol. Dyma, i'm tyb i, y rhai tebycaf:

1. Dangosodd Gwenogfryn¹ fod ysgrifenydd y rhannau hynaf (Peniarth 4; *Ystoria Bown*) yn debyg iawn i'w gilydd. Gellir ychwanegu fod eu memwrn o gyffelyb ddefnydd, ddarvoud rhiwio wyneb pob croen ar yr unrhyw batrwm, bod plygiadau'r testunau wedi eu ffurfio'n gyson o bedair² llen, a bod y dail yn ôl y drefn cnawd-blew-cnawd-blew.³ O chwilio ymhellach, fe geir bod tair dalen gyntaf *Peredur* (ffo. cc, cci, ccii; WM col. 117-128) yn ysgrifenedig ar ochrau deau'r llenni y mae eu hochrau aswy yn cynnal *Y Pedair Keinc* (WM col. 97-118) a bod *Maxen Wledig a Lludd a Llefelys* yn gorffwys ar ddail deau y plyg y mae ei ddail chweth yn dwyn *Peredur*.⁴

Ymddengys, gan hynny, na ellir gwrthod y casgliad fod y testunau olaf (*Pwyll Pendefig Dyfed—Lludd a Llefelys*) yn ffurfio undod o'r dechrau a darfod o angenrheidrwydd eu copio yn yr un ysgrifenydd.⁵ Yn yr un undod hefyd ceid, yn ôl pob tebyg, (a) y tri thestun a ddilyn yr uchod heddiw, sef *Iarlles y Ffynnaon*, *Gereint ac Enid, Kulhwch ac Olwen*, testunau cyffelyb o ran dwylo,⁶ croen, a rhiwliad; (b) efallai *Ystoria Bown de Hamtwn* sydd yn Peniarth 5 er y bymthegfed ganrif, testun tebyg yn ei allanolion oddieithr yn rhiwliad yr ymyl aswy; (c) o bosibl y gyfres ychwanegol o'r *Mabinogion* a welodd Aneurin Owen yn 1824 ac nas ceir mwyaich; (d) rhai materion eraill mewn rhyddiaith a barddoniaeth amhosibl eu penderfynu.

2. Yn ôl yr hen rifiad, yr un, yn fras, oedd cynnwys y ddwy llawysgrif yn y bymthegfed ganrif ag yn awr, ond bod Peniarth 5, fel y gwelwch, yn sefyll y pryd hynny o flaen Peniarth 4. Y ddolen gydiol rhwng y ddwy gyfrol oedd *Ystoria Bown*; a chan mai dwy len yn unig (yn lle pedair) sydd ym mhlyg olaf *Bown*; a bod cefn y ddalen olaf (clxxi^b) yn wag, ymddengys yn ddiogel casglu mai'r stori hon oedd diweddol Peniarth 5 yn hytrach na dechreuad Peniarth 4. Pa un a ddarfuesid ysgru *Ystoria Bown* oddi wrth y llawysgrif hynaf yr ymdebygai'n fawr iddi yn allanol, er mwyn ei lleoli yn y safle hon, ni ellir mwyaich ddywedyd.

¹ *Reports on MSS.* . . . , I, 11, t. 305, a dail cyntaf rhwymiad Peniarth 4.

² Yn nhyrddydd plyg *Bown*, yn ddamweiniol efallai, ni ddigwydd ond tair.

³ Golyga 'cnawd-blew' mai'r ochr nesaf i gnawd yr anifail, ochr olau ei gwawr, a ddaw ynghyntaf ac y dilynir hi gan yr ochr a ddigwydd blew, ochr felynaidd ei llw.

⁴ Penderfynais hyn drwy help Mr. Hanson, rhwymwr profesyddol y *Llyfrgell Genedlaethol*, y gŵr a wnaeth y rhwymiad olaf o'r *Llyfr Gwyn*.

⁵ Rhaid yn wyneb hyn wrthod tyb Gwenogfryn (WM t. xiii) ddarfod ysgrifennu *Peredur* mewn mynachlog wahanol i'r lleill.

⁶ Eto i gyd y mae ysgrifenydd *Gereint ac Enid* yn llai dilyn ac yn fwy Anglo-Normanaidd ei gwedd (cf. I yn *dolur*, col. 444) na'r dwylo eraill.

3. Os Robert Vaughan, fel yr angrymwyd, fu ysgarydd ieud anghymharus (5, 4) y bymthegfed ganrif, ef hefyd, fe ddichon, a wnaeth yr ad-drefniant o'r cynnwys a adlewyrchir yng nghatalog Aneurin Owen yn 1824. Yn ôl y catalog hwn, ni chynhwysai Peniarth 4 ond *Y Mabinogion*, eithr yn lle copi sengl o bob un o'r *Pedair Keinc* fel y ceir hwy heddiw gwelid yno ddwy gyfres ('two series of the Tales of the Mabinogion'). Aethai'r storiâu Arthuraidd a'r storiâu eraill a ddigwydd yn awr yn Peniarth 4 rhwng *Math fab Mathonwy* a'r diwedd, sef *Peredur, Maxen Wledig, Lludd a Llefelys, Owain a Luned, Gereint ac Enid, Kulhwch ac Olwen* drosodd i Peniarth 5 lle dilynent yn uniongyrchol *Ystoria Bown de Hamtwn*.

4. Yn rhwymiad Peniarth nid ymfodlonodd Wynne ar roi'r ddau gasgliad drachefn o dan yr un clawr. Yn hytrach, torrodd ymaith y pum testun o ysgrifenydd gynnaf (*Peredur-Kulhwch*) a aethai drosodd yn nhrefniant yr Hengwrt i Peniarth 5 a gosododd hwy'n ôl gyda'u cymheiriad o ran oed a theip eu hysgrifenyddiaeth yn Peniarth 4.¹ Serch beneidd-dra ei hysgrifenydd, gadawodd *Ystoria Bown* yn y fan lle'r oedd yn Peniarth 5, yr hyn a ddengys mai rhiwliad y bymthegfed ganrif fu ei gyfarwyddwyd. Mewn un peth, er hynny, dilynodd yr Hengwrt: rhoes y llawysgrif hynaf (Peniarth 4) o flaen yr ieaf (Peniarth 5) yn yr uniad newydd, gan fynd yn groes i lwybr yr hen rifiad.

5. Wrth ysgru'r rhannau yn 1940 ni newidodd y Llyfrgell Genedlaethol ddim ar drefn yr ysgrifenydd cyfansoddol, eithr adferwyd y dail coll (ffo. cclj-cclviii) a giliodd i Peniarth 12 ac, yn rhyfedd, barnwyd yn wif hefyd rwyddo gyda'r hen femwrn niferus ddail papur o argraffiad Gwenogfryn Evans er mwyn edfyd y bylchau yn *Lludd a Llefelys, Iarlles y Ffynnaon a Kulhwch ac Olwen*.

Wrth ysgru neu gyfuno'r prif rannau ac wrth ad-drefnu'r testunau cyfansoddol ar achlysur y newydd rhwymadau, ymddengys y byddai'r perchenogion weithiau hefyd yn tynnu testunau allan. Rhaid tybio yn ogystal y gadawid llawysgrifau i syrthio i stad ddadfeiliedig cyn y rhoddid cloriau newydd arnynt ac y byddid yn awr ac eilwaith yn eu hanrheithio. Drwy un o'r dulliau hyn disgynnodd rhai darnau allan o'r *Llyfr Gwyn*, gan grwydro i llawysgrifau eraill, megis dail cclj-cclviii a atgofforwyd yn 1940 yn eu henfan ar ôl trigo ohonynt o leiaf er dyddiau'r Hengwrt yn Peniarth 12 (=Hengwrt 202). Aeth rhannau eraill ar ddiweddol megis yr 'hen gerdd' yn Peniarth 111 'a ysgrifennodd yr hen Risiart Langford o Drefalyn allan o Lyfr Gwyn Rhydderch',² ail ran *Kulhwch ac Olwen*, etc. Os *Llyfr Gwyn Rhydderch* fu prif gysail *Llyfr Coch Hergest* (ef yn sicr fu ffynhonnell *Ystoria Bown de Hamtwn*), ymddengys y rhoddai ei dewdra cyntefig loches nid yn unig i lawer o'n hen farddoniaeth ond hefyd efallai i destunau rhyddiaith cyfain fel *Breuddwyd Rhonabwy* nad ydynt ymddo mwyaich.

¹ Gw. Aneurin Owen, *Cymmrodor*, II, t. 403.

² Geiriau John Jones o'r Gelli Lyfdy yn Peniarth 111.

³ Gw. §5, (iv).

§3. YR YSGRIFENFA A GYNHYRCHODD Y LLYFR GWYN

Ni wyddys pa ysgrifenna neu ysgrifenydd a gynhyrchodd *Llyfr Gwyn Rhydderch*. Gan fod pob lle i greu mai 'the principal person in the County of Cardigan' a chynrychiolydd y goron ym Mabwynion oedd biau'r *corpus* mor gynnar ag ail ran y bedwaredd ganrif ar ddeg, y duedd gyntaf yw tybio ddarfod copio ei destunau yn un o fynachdai Glannau Teifi. Dyna, mae'n debyg, a gynhellodd Gwenogfryn Evans i awgrymu Ystrad Fflur fel y gweithdy a droes allan Peniarth 4.¹ Gorffwys Ystrad Fflur o fewn deng milltir, fel yr hed y frân, i Barc Rhydderch a Llanddewibrefi o fewn pump. Os oedd i Rydderch hefyd dy yng Ngogerddan, fel y tystia Wynne, safai Ystrad Fflur rhwng ei ddau gartref. Eithr er mor atyniadol yw'r golygiad ddarfod cynhyrchu'r *Llyfr Gwyn* yng ngogledd Ceredigion, gellir dyfynnu yn ei erbyn amryw ystyriaethau pwysig:

1. Gwelsom fod Rhydderch yn berthynas i dywysogion Deheubarth a bod iddo gysylltiadau llenyddol yn Nyffryn Tywi mor bell i'r deau â thref Caerfyrddin. Gallasai felly yn hawdd ddigon gael y *Llyfr Gwyn* o Datyllychau, ryw ddeunaw milltir i'r de-ddwyrain, mynachlog yr âi heibio iddi ar ei ffordd i Ddinefwr, neu o Briordy Caerfyrddin a reolai unwaith y Faenor rhwng Clarach a Rheidol ac a dderbynai ddegymau Penweddig²; neu eto o Briordy Aberteifi neu o Fynachdy Llandudoch y tu draw i'r bont yng ngogledd Cemais.

2. Dengys arwyddion yn *Ystoria Bown de Hamtun* sydd, fel y nodwyd, yn debyg iawn ei hallanolion i Beniarth 4 ac y tueddai Gwenogfryn i'w hystyried yn rhan gynhwynol ohoni, mai gwyr o Forgannwg ac o ffiniau Caerfyrddin a Phenfro fu ei chopiwr olaf.³ Sylwasom hefyd fod ysgrifen *Gereint ac Enid* yn llai artistig ac yn fwy Anglo-Normanaid ei golwg nag eiddo'r *Pedeir Keinc*; gallent yn hawdd felly ddeillio o ysgrifenydd gwahanol. Am yr ail Ran o'r *Llyfr Gwyn* (=Peniarth 5), nid yw honno namyn casgliad o bedwar testun go ddeheuol mewn pedair o ddwylo amryfal. Nid yw'n amhosibl fod y *Llyfr Gwyn* a adnabyddai Rhydderch yn cynnwys enghreifftiau o ysgrifenyddiaeth mwy amrywiol fyth a bod rhai o'r testunau a aeth ar goll yn dwyn, fel *Ystoria Bown*, nodau iaith siroedd mwyaf deheuol Cymru.

3. Os Ystrad Fflur oedd ysgrifenta'r *Llyfr Coch*, fel y myn rhai, gellir dal fod cynnyrch y mynachdy hwnnw yn fynydd yn dangos ffurfiau llai deheuol nag a welir yn *Llyfr Gwyn Rhydderch*. Yn *Ystoria Bown* y *Llyfr Coch*, er enghraifft, y mae'r *h* yn llawer sicrach nag yn y gynddelw; e.e., *arugeint, ehatu, tyngu* am *arugeint, eadon, tyngu*, etc. Trowyd *hu-* ac *hu-* yn aml yn *chu-* a *-chu-*; e.e., *chûmbôth, chûware, ymchoelaf, ymchoelut, uarogychûbedyl* am *hûmbôth, (h) ware, ymhoelaf, ymhoelut, varô-gybedyl*, etc. Chwanegwyd y *gytuan* yn fynydd: *bydyat, paganyeit* am

¹ J. Gwenogfryn Evans (ed.), *The White Book of Meibion*, t. xiii.

² Gw. J. E. Lloyd, *A History of Wales*, (London, 1911), II, t. 432.

³ Gw. 46, (i), t. 2, 2.

bydat, paganeit, etc. Y mae'r geiriau yn awr ac eilwaith yn fwy gogleddol eu gwedd; e.e., *gostlog* am *gestlog*, *offeiraf* am *esseiraf* ac *yffeiraf*, etc. Diau y darganfyddid amrywiadau tebyg o gymharu unrhyw destun a ddigwyddo yn y ddwy lawysgrif.

4. Os oedd y gwahanol fynachlogydd, fel y bernir yn gyffredin, yn meddu ar deip nodweddiadol o ysgrifen ac yn glynu ato, ymddengys ei bod yn canlyn nad ysgrifennwyd mo'r *Llyfr Gwyn* yn un o dai crefydd Glannau Teifi, oblegid arall yw model ysgrifen Llanddewibrefi yn *Llynyr yr Agkyr* yn 1346 ac arall yw teip y dwylo yn Ystrad Fflur yn niwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg, os cynnyrch y ty hwnnw yw'r *Llyfr Coch*.

5. Gwahaniaetha ffurfiau geiriau a theipiau ysgrifen y *Llyfr Gwyn* nid yn unig oddi wrth eiddo cynnyrch tybiedig mynachlog fawr Blaenau Teifi, eithr y mae ei orgraff hefyd yn dra gwahanol. Dilyn sillafiaeth y *Llyfr Gwyn* reol lai cyson, ac ar bwyntiau neilltuol (e.e., llythraeth y treigladd trwynol)¹, y mae ei athrawiaeth orgraffyddol yn llai pendant.

Casgliad

Ymddengys, gan hynny, ddarfod ysgrifennu'r niferus destunau amrywiol eu dwylo a gyfansodda'r *Llyfr Gwyn* cyntefig (=P 4; YBH, etc.) yn ogystal, o bosibl, â'r llawysgrifau a fwrwyd atynt i ffurfio Atodiad neu Ail Ran (=P5, etc.) ym mynachdai'r siroedd mwyaf deheuol ac efallai ddarfod eu cyfuno'n gyfrol gyfansawdd cyn iddynt erioed weled broydd Ceredigion. Myn Gwenogfryn² mai ym Mynachlog Nedd yr ysgrifennwyd *Peredur*; os gwir hynny, yn y ty crefydd hwnnw hefyd y copiwyd y *Pedeir Keinc*—*Lludd a Llefelys*, canys gwelsom ddarfod ysgrifennu colofnau cyntaf *Peredur* ar yr un plyg ag a ddeil derfyn y *Pedeir Keinc* a bod colofnau blaenaf *Lludd a Llefelys* ar yr un plyg ag a gynnal ddiwedd *Peredur*.³

§4. YSTORIA BOWN Y LLYFR GWYN

(i) Cyffredinol

Nid yw *Llyfr Gwyn Rhydderch* y perthyn *Bown* iddo, fel y gwelsom, onid llawysgrif o faintoli cymharol fychan (tua 9 mod. × 6), eithr dengys ei mylon iddo yn ystod y canrifoedd gollu cryn fodfedd o'i uchder ac o leiaf gymaint â hynny o'i led o dan gyllill ei wahanol rwyngwyr.

Cynnwys *Ystoria Bown* 34 o ddaid, nid amgen, 67 o dudalenau (y mae'r olaf i gyd yn lân) wedi eu plygu yn bum plyg. Deil y plyg cyntaf, yr ail, a'r pedwerydd bedair daten yr un. Oblegid gwall ar ran y copiwr, efallai, torrwyd y trydydd i lawr i dair; ni cheir yn y pumed namyn dwy ddalen, yr hyn a ledawgryma mai â chopio *Ystoria Bown* yn unig yr oedd a fynnai'r ysgrifenydd pan oedd wrth ei orchwyl.

¹ Gw. 119, t. cxv et seq.

² *The White Book* . . . , t. xiii.

³ Gw. 12, (ii), t.

Rhestrwyd dail y plygion yn *Bown* yn ôl y drefn cnawd blew-cnawd-blew¹ megis y gwneir drwy gydol y *Llyfr Gwyn*. Dirwyn y testun i ben ar du deau ffo. clxxi yn nherfyn y llinell olaf ond un yn yr ail golofn.

Y mae memrwn *Ystoria Bown*, fel eiddo testunau Peniarth 4 yn gyffredinol, yn weddol denau a llwydwn ac o ansawdd a ddengys i'r mynachdai Cymreig ddysgu llawer am gyweirio crwyn er cyfnod *Llyfr Du Caerfyrddin* sydd â'i ddefnydd yn dew, yn dywyll, ac yn anghaboledig. Cyn torri gair arno cynhwysai memrwn *Bown* ambell dwll dafaden, tyllau y gorfu i'r copiwr rannu ei eiriau er eu hosgoi (gw. tt. 21, 22, 23, 24, 53.). Rywbryd yn nes ymlaen cuddiwyd y tyllau hyn gan haen o groen tenau. Rhaid bwrw hefyd at feiau cynhenid y memrwn yr anffodion a ddaeth ar ei warthaf ynghwrs yr amseroedd: diddymwyd gair ac anafwyd gair arall ar ffo. cxl^a, col. 1; difodwyd gair ac efallai ddau ar ffo. cxlvii^b, col. 1; crafwyd ymaith *an pzynatōd* ar ffo. clviii^a, col. 2; ar ben ffo. clviii^b, col. 2 dilewyd (i'r golygon naturiol) rannau o'r tair llinell uchaf gan ryw sylwedd fferyllol; maluriodd rhannau o ymylon deau y pedair dalen olaf (ffo. clxxiii-clxxi) gan hydredd; ar ffo. cxli^a, col. 2, ar ffo. clxxiii^b, col. 1 a 2 ac ar ffo. clxxx^a edwinodd yr inc mewn hanner dwsin o eiriau a cheisiodd rhywun mewn oesoedd diweddar adfywio'r ysgrifen drwy redeg inc newydd draw ac yma dros yr hen.

Ar bob wynebdalen torrwyd â'r pwyntil plwm bedair llinell ar ffurf pedrongl. Gadawyd llain gul rhwng pob llinell syth a phob ymyl a rhedwyd dwy llinell o'r pen i'r gwaelod drwy'r canol gan wneuthur yr wyneb yn ddwy golofn gyfartal. Torrwyd llinellau croes ar draws yr holl bedrongl o un llin eithaf syth i'r llall gan fargodi drostynt yn fynych. Dechrau'r ysgrifen bob amser yn dynn wrth llinell chwith pob colofn, eithr nid yw llinell ddeau'r golofn namyn terfyn bras yr eir drosto yn aml o gymaint â dwy neu dair llythren (e.e., cxl^a, clviii^b, clxvi^b). Er na threwir ar anghyngord rhwng rhifedi llinellau dwy ochr dalen ond pumwaith (cxli, clviii, clx, clxviii, clxix), eto, y mae'n amlwg, er gwaethaf cyfatebiaeth nifer y llinau o boptu'r ddalen, ddarford tynnu'r pwyntil plwm ar hyd pob ochr yn agos bob amser ar wahân (cf. e.e., cxxxviii-cxxxix^b; cxl-cxliiii^a; clxvi). Mewn hanner dwsin o enghreifftiau lle digwydd cyfatebiaeth yn safle'r llinellau ar bob ochr (cf. e.e., cxlviii^a-cxlix^b), ymddengys yn debygol i'r copiwr dynnu ei linau o du'r blew yn unig, megis y gwneid yn fynych yn yr oesoedd canol.²

Go denau yn aml yw'r llinau, yr hyn a esbonia o bosibl paham yr amrywia'r nifer ar y gwahanol wynebau (ceir 16 o wynebau â 30, 2 â 31, 23 â 33, 16 â 34, a 10 â 35.).

Y mae llin uchaf pob agwâr yn ddi-ysgrifen oddieithr y ceir yno rif yn dyddio o'r bymthegfed ganrif, ffigur a symudwyd gan law ddiweddarach i'r cornel uchaf deau. Nid oes lofnod i'w weled yn unman ar y plygion ac ni cheir mynag ar derfyn yr un. Os bu'r dail yn dwyn y rhain gynt, aethant ar ddiffincoll ers hir dro dan gyllyl y rhwymwyr.

¹ Am arwyddocâd hyn, gw. §2, (iii), n. 3.

² Gw. E. Maunde Thompson, *Introduction to Greek and Latin Palaeography* (Oxford, 1912), tt. 54-5.

(ii) *Ysgrifen Ystoria Bown y Llyfr Gwyn.*

Croniclwyd *Ystoria Bown* yn y finwsgl hanecrwn-hanecronglog a luniodd mynachdai Cymru, fel y tybiaf fi, allan o'r finwsgl Ffrengig a'r llaw lys yn ail ran y ddeuddegfed ganrif. Canfyddir cameidd yr ysgrifen gron yn amlwg yn rhai llythrennau (*a, b, g, o*, etc.) a gwelir yr onglau a fenthycasai'r hen ysgrifen o'r othig onglong yn eglur yn eraill (*c, e, h, m, n*, etc.). Yn groes i ddwylo testunau Ffrangeg diwedd y drydedd ganrif ar ddeg, addurnir gwrys *b, h, k, l* â ffyrch tebyg i eiddo'r ysgrifen othig a'r ysgrifen ddiplomatig, ffyrch a fwridd y mynaich Cymreig ganrif ynghynt at y model a fenthycasent. Heb gyfrif copâu'r pelydr, yr edafedd gothig a ymddengys amlycaf yn y patrwm, a phetruol yn hytrach na chrwn yw pryd cyffredinol yr ysgrifen. Cadwyd y pelydr uch-llinell ac is-llinell yn gymharol fyr ac eithrio y a ddisgyn yn fynych hyd llythrennau'r llin islaw. Y mae *b, h, k* yn aml yn fyr iawn. O'r tu arall, ac yn wahanol i'r hyn a welir yn y llawysgrifau Ffrangeg lle mae *b* yn fyr, ceidw *l* yn *Ystoria Bown* ei hyd rheolaidd. Yng nghynsail y *Llyfr Gwyn* ymddengys, er hynny, ei bod hithau'n fer (cf. *nuble am nubie* 1477). Ar wahân i *a* a ysgrifennwyd 9 gwaith ynghlwm wrth *a* arall (e.e., 65, 119, 128), ni ddigwydd llythrennau cyfrwym (nodwedd amlwg yn yr ysgrifen othig) oddieithr yn y cyfuniadau arferol *ct* ac *ft*. Er torri pob llythren ar ei phen ei hun, eto i gyd rhoddwyd y llythrennau fel rheol yn lled dynn wrth ei gilydd. Ar y cyfan, dwg ysgrifen *Ystoria Bown* nodau llaw ystywth a chadarn sy'n awgrymu copiwr yn meddu ar nerfau da, disig.

Amrywia maint ysgrifen y gwahanol dudalennau grym lawer. Anghywir, serch hynny, fyddai tybio fod hyn yn arwyddo gwahanol gopiwyd, canys yr un yw'r orgraff a'r un yw delw'r ysgrifen. Yr esboniad ar yr amrywiaeth yn ddiau yw eisteddiadau gwahanol.

Gadawodd y copiwr le gwag i Y fawr yng ngair cyntaf y testun, eithr ni ddaeth y rhuddellwr heibio i'w thorri a'i llwio.

Yr ysgrifenydd ei hun biau brifflythrennau corff y testun. Torrwyd pob un ag inc du ac ni liwiwyd yr un wedi hynny â dim arall. Perthyn y llythrennau mawr i'r gyfres wnsial (*a, e, h, m*); yr unig eithriad yw *D* sydd ar ffurf y capitaliad; digwydd hefyd *A* gapital unwaith (1081). Ni cheir yr *E* gapital a welir yn 3818 yn y llawysgrif a'r rheswm amdani yn y testun yw i'r argraffwyr ffactl â chael prifflythren wnsial i'w chyfleu yn y print.

(iii) *A'r un ysgrifen sydd yn Bown ag yn y Pedair Keinc?*

Mewn nodiad a roes Gwenogfryn Evans ar un o ddail cyntaf *Llyfr Gwyn Rhydderch* dywaid: 'Cols 1 to 111, 117 to 236, 341 to 348 are by the same hand, as is also Hengwr MS 202, and probably *Bown of Hampton* at end of this volume'. Yna drachefin: 'The *Bown of Hampton* may be as early as cols. 1-236 and 341-348 of MS. 4 which belong to the end of the XIIIth Century'.¹

Yn sicr ddigon, yr un yw teip yr ysgrifenyddiaeth yn yr holl destunau a enwir gan Gwenogfryn, eithr mor sicr â hynny y mae llaw'r *Pedeir Keinc—Lludd a Llefelys* yn fwy cron yr olwg arni a'i llinau yn fwy artistig nag

¹ *Reports on MSS.* . . . , I, 11, t. 305.

eiddo *Ystoria Bown*. Nid yn yr un dull ychwaith y tynnwyd y pwyntil dros y memorwn. Y mae'r llinau syth ar ymylon aswy a deau pob tudalen yn sengl yn *Ystoria Bown*; y maent yn ddwbl ar ddail Peniarth 4. Gwahaniaetha hefyd fanion technegol. Ceir dot ar gopa pob *y* (*y*) drwy gydol y *Pedeir Keinc-Lludd a Llefelys* tra na welir o ben bwy gilydd i *Bown* ond 18 enghraifft o *y* bwyntiedig (e.e., 45, 158, 2524, 2983, etc.). Amrywia'r orgraff hithau. Trewir ar sillafiadau fel *ymphen*, *ygcharchar*, *ymphen*, *vygcharyat*, etc., 18 tro yn *Ystoria Bown*,¹ tra na cheir, hyd y sylwais, ond hanner dwsin o'r cyfryw o fewn yr holl golofnau y cyfeiria Gwenogfryn atynt yn Peniarth 4 (cf. *ymphen* 229, 251, 255, 256; *ympherued* 230). Eto (er y geill hyn fynd ymhellach yn ôl na chopi'r *Llyfr Gwyn*), ceir wmbredd o enghreifftiau o'r goddrych ar ôl berfenw o dan reolaeth *y* (nid *o*) yn *Bown*²; y maent i'w cyfrif ar fyseidd un llaw yn y colofnau y myn Gwenogfryn fod *Bown* yn perthyn iddynt.³

Er pob tebygrwydd teuluoel a ffynna rhwng dwylo'r testunau o dan sylw, gorfodir ni gan yr ystyriaethau a nodwyd i wrthod tyb Gwenogfryn mai'r un copiwr sy'n gyfrifol am *Ystoria Bown* ag am y *Pedeir Keinc*, *Peredur*, a *Lludd a Llefelys*. Hefyd awgryma absenoldeb y pwynt oddi ar yr *y* yn *Bown* fod ei ysgrifen o beth blynyddoedd yn iau na'r llall.

(iv) *Dyddiad Ysgrifen Bown y Llyfr Gwyn.*

Yn y sylwadau a ganlyn gwneir cymariaethau rhwng rhai o lythrennau *Ystoria Bown de Hamtun* â llythrennau'r ysgrifen lys Anglo-Normanaidd, ysgrifen y siartrau a'r diplomâu dyddiedig. Am y drydedd ganrif ar ddeg y sonnir ac at *English Court Hand*⁴ y cyfeirir:

a: edrych yr *a* fach, ar ffurf dwy ddolen, yn debyg i *a* boblogaidd y llaw lys tua diwedd y ganrif (ECH, rhif 13, 1292);

c a *t*: cymysgir *e* a *t* fel y gwneir gan yr Anglo-Normaniaid tua diwedd y trydydd chwarter (ECH, 9);

e: y mae'r *e* fach yn debyg i *e* y testunau diplomataidd tua dechrau ail hanner y ganrif. (ECH, rhif 5, 1256);

¹ Gw. *Nodiad y Treiglud Trwynol*, §19.

² Gw. dan *Cystrawen*, §51.

³ Pe buaswn yn dibynnu ar WM, gallaswn ddweud fod gwahaniaeth mawr rhwng ffurfiau'r priflythrennau yn WM ac yn YBH; mai capitaliaid sydd yn y blaenaf (ceir A gannoedd o weithiau) ac wntaliaid yn yr olaf (a, etc.); ni ddigwydd ond un A, 1081; ond camgymeriad ffasai hynny, oblegid wntaliaid sydd hefyd yng ngwreiddiol WM. Am ryw reswm neu'i gilydd, aeth y rhaglen 'character for character...' (WM, ib) yn deilchion yn yr unehyw lyfr ag y cyhoeddwyd hi. Y mae'r un peth yn wir am 'space for space' (ib.); yn lle bod yn igam-ogam fel yn y llagr., gwnasthwydd diwedd y colofnau yn union fel llinyn ac aeth yr ysbasau i gyd, oddiethu lle gorffwys un gair ar y llall, yn anghywir. Hyn efallai sy'n cyfrif na chyhoeddwyd erioed *formule* o ddail y LiG.

⁴ Charles Johnson and Hilary Jenkinson, *English Court Hand A.D. 1066 to 1500* (Oxford, 1915), Parts I & II.

f [=v]: nodir *-f-* yn 3597 a 3691 (gw. n. ar y rhain) gan y llythyren *6*, llythyren oedd mewn bri am *v* yn y llaw lys ynghylch diwedd y trydydd chwarter (ECH, rhif 7, 1272);

g: ymdebyga *g* i *g* fach a arferid yn y llaw ddiplomataidd oddeutu dechrau'r chwarter olaf (ECH, rhif 14, 1270);

i: accenir *i* yn rheolaidd, pa un a fyddo mewn cyswllt ag *m*, *n*, *u* ai peidio, yn unol â'r un rheol ag a welir yn y llaw lys yn niwedd y ganrif (ECH, 24);

s: defnyddir *f* hir yng nghanol gair ac *s* fer ar ei ddiwedd heb nemor eithriad, a dyna arfer y llaw ddiplomataidd ar derfyn y ganrif (ECH, 45);

t: yn *t* fach saif y llin syth yn glir uwchlaw'r llin groes fel yn *t* ail ran y ganrif yn yr ysgrifen Anglo-Normanaidd (ECH, rhif 4, 1256);

th: ymdebyga *th* [=w] yn YBH i'r ffurf a geir yn y llaw siartr yn niwedd trydydd chwarter y ganrif (ECH, rhif 8, 1272);

y: ni cheir, fel y dywedwyd uchod, ond 18 esiampl o *y* â phwynt arni drwy gydol y testun; yn y llaw a arferir yn y siartrau â'r dot o'r golwg yn negau olaf y ganrif ac ni welir mono am ganrif wedyn (ECH, 52).

Os dylanwadodd y llaw lys Anglo-Normanaidd ar ffurfiau'r llaw arferol yng Nghymru, fel y credaf, yna ymddengys ei bod yn dilyn mai i ddegau olaf y drydedd ganrif ar ddeg y perthyn ysgrifen *Ystoria Bown de Hamtun*.¹

§5. DOSBARTHIAID NEU BERTHYNAS Y LLAWYSGRIFAU

Gorffwys beirniadaeth destunol, neu o'r hyn lleiaf, un o'i rhannau hanfodol, ar y syniad na fydd copiwr gwahanol a ymgymero ag adysgrifennu'r un testun fyth yn cyflawni'r un gwallau, oddieithr, bid sicr, pan gymhellir hwy i hynny gan reswm cyffredin megis tebygrwydd *e* a *t*, *c* ac *r*, *r* a *t*, *n* ac *u*, etc. Gan hynny, pan gaffer nifer o lawysgrifau yn atgynhyrchu'r un beiau, yn enwedig yr un beiau pwysig, y mae'n ddiogel casglu eu bod oll yn deillio o'r un adysgrif. A'u barnu wrth y maen prawf hwn, nid oes gysgod o amheuaeth na thardd testunau *Llyfr Gwyn Rhydderch*, *Llyfr Coch Hergest*, *Llawysgrif Mostyn 135*, a *Llyfr Siôn Dafydd Rhys* o'r un ffynhonnell. Yr un camddarlenniadau, yr un camgopio, gydag ychydig iawn o amrywiaeth, a geir yn y pedair llawysgrif. Yr un hefyd yw'r stori o ran trefn, sylwedd, a manylion.

(i) *Y Berthynas rhwng Llyfr Coch Hergest a Llyfr Gwyn Rhydderch.*

(a) Wele ddetholiad o'r camddarlenniadau sy'n gyffredin i'r ddau femrwn, gyda rhif y llinell yn *Ystoria Bown* (=YBH) yn ogystal â chymariaethau mynych â'r darlenniadau cyferbyniol yn *Boece de Hautmonte* (=B); ceir sylwadau ar y rhain yn y *Nodiadau*:

1. 1145: *at y not y neidaud*, bai copiwr am *ac y uot* . . . ; B *en une route saill*=LiG.

¹ Am oed y cyfieithiad ei hun, gw. §7, (ii), (iii).

2. 1581: *yd oedon . . . yn damunab y lbelet ar yr ieffu grift, disgyn yr lla62, gwall ysgrifol am . . . yn damunab y lbelet ac yr ieffu grift . . .*; B . . . *Boves, pur deul descendez!* 'Bown, er mwyn Duw, disgynnwch'.
3. 1702: *pan vo garfi y chuinsa yn f6peru dechreu nos; y glos, dechreu nos, yn y ddwy lsgrif; B kant il serra nuit e il seient a soper* 'pan fo'n nos a hwythau ar swper'.
4. 1723: *argl6yd heb hi a dyg6n dec f6mer yn lla6n o eur gyt a ni; darll. . . hi ni a dyg6n . . .*; B *nus frum charger dis bons chevaux de fin or* 'ni a barwn lwytho deg march da ag aur pur'.
5. 2583: *ef ath ledir yn eb26yd d6iga6n, bai am ef ath ledjir . . .*; B *l'em vus legera* 'fe roddir carthlyn i chwi'.
6. 2776: *a g6edy b6yt ymolchi a ozugant*. Sonnir yn rhai o'r hen gerddi Ffrangeg am ymolchi cyn ac wedi bwyd. Y cyntaf a geir fel rheol; anfynych iawn, os o gwbl, y crybwyllir am yr ymolchi ar 6l bwyd fel yma a hwnnw'n unig. Ni sonnir am ymolchi yn B.
7. 2880: *ef a vyry6yd o benn y t62 dec gaflach a rugeint*. Y mae'r testun yn llwgr iawn yn yr holl gyswilt; efallai mai'r darll. cysefin oedd *ef a vyry6yd y benn y c62(s) dec . . .*; B *a le chef de curs un quarante mars getez* 'i bennaeth y rhedegfa fe daflwyd deugain marc'; yn y n. ar 2880 awgrymir mai *dars, dart* 'darn o arian; gaflach' oedd y gair yng nghyngddelw AN y Cymro.
8. 2904: *lbel6ch heb y bzenhin meint y kam y mae nny 6neuthur yr march; B Vees, dist le roi, ceo est un malf6* 'Gwelwch, meddai'r brenin, cythraul ydyw'.
9. 2914: *ac yna kyntaf ti am urdeist*. Y darll. gwreiddiol, yn 6l pob tebyg, oedd *hi am hurdes*; B *et f6sian me out primes adob6* 'a phan urddodd Iosian fi gyntaf'.
10. 2916: *yn lhell noc y hauas oe bzoui, llygriad tebygol o cefs esprov6, 'caethwas profiadol'; B mels entent que cerf esprov6* 'gwelw y deall na chaethwas profiadol'.
11. 2950: *Dozo deugein marcha6c ne6yd urda6 ym; B Sire, isci sum' quarante chevalers adubbez* 'Arglwydd, yma yr ydym (yn) ddeugain marchog urddol'.
12. 3072: *ac ynteu a dy6a6t vy marchogyon yn 6ylab, bai am rywbeth fel vy march [a lada6d vab y bzenhin ac yna y g6elit y march] ogyon yn 6ylab; B mes le fiz le roi ad mun chival tu6. Ke lors teist (llsgr. uent) plures les chevaliers!* 'Ond fy march a laddodd fab y brenin. Gymaint yna y gwelent (neu y gwelid) y marchogion yn wylol'.
13. 3128: *ac y 6ylat dy fab. Awgrymaf mai'r darll. cyntefig oedd ac y 6elat (6elet) . . .*; B *Vostre enfant purray mult bien ver* 'Gallaf yn burion edrych ar eich plentyn'; gw. n.

14. 3215: *a phroui a ozu(c) hi llyfelyn; B un herbe achata* 'prynodd lysieuyn'.
15. 3379: *a therri. ny bu h6yza*. Darll. *a therri ny bu yn h6yza*; B *e Terri n'est gueres targant* 'ac nid oeda Terri fawr'; cf. *ac ny bu h6yrach y pyfod62* 3645; RBB 293 *edzych na h6yzheych dyuot at y bzenhin*.
16. 3383: *ef a dozres bo6n y 6ay6 ynda6*. Darll. *yda6*; B *La lance al duc brise* 'ef a dyr wayw'r dug' (yn llyth., 'ef a dyr ei wayw i'r dug').
17. 3553: *ac odyua y gallbaffant ar f6per. Y bar6neit ar meibon a deuthant. Y bar6neit yw gwrthrych gallbaffant a dyli6 dileu'r atalnod ar 6l f6per a'i roi ar 6l bar6neit; B Pus assisterent a soper les baronez, e sont l'enfans de l'ostel repeirez* 'yna yr ymgasglodd y barwniaid ynghyd i swper a daeth y meibion (yno) o'r t6'.
18. 3581: *py lhed yd anuones y llyr y 6aranda6; B . . . un espie 'yspiwr'; darll. y yfpi6yr = y yfpi62 am y llyr; cf. ffozefi6yr am ffozefi62 127; kyghoz6yr am kyghoz62 2947; a gw. Orgraff w [u], 4*.
19. 3597: *a bo6n a at6aenat ar6ndel y varch. Darll. a at venat (yynst) ar6ndel; B Boves let courre Arundel l'abriv6* 'Bown a ad i Arwndel, y buan, red6g'; gw. n.
20. 3772: *hyny deuth at fabaot; B . . . e Fabur ad trov6* 'a chafodd hyd i Ffabur'; *f.*, yn bur sicr, oedd yng nghynsail y llsgrau Cymraeg ond cymerwyd hi am f hir a darllenwyd hi fel talfyriad o *fabaot*.
21. 3878: *d6iga6n a gigleu oth ganueu di; B de vos enchantemens ai veu assez* 'digon a welais o'ch swynion'.
22. 3886: *a chanu megys ederyn. Darll. ? a chamu . . . B com sust oysel est le mur montez* 'megis aderyn ef a ddringodd y mur'.
23. 3970: *ae ti fabur a erlidyest Sabaot; B Estevus Fabur fabaoth ateignant* 'Wele Ffabur yn goddiwes Sabaoth'. Cymernth y cyficthydd, efallai, *Estevus 'wele'*, fel *Estes vus* 'A ydych chwi?'.
24. 3972: *ef ae tre6is ar y daryan hyt y eneu. Darll. . . ar y daryan ac ae holltes hyt y eneu; B e fiert Fabur sur son elme devant, jeshes la buche le va defandant* 'a thery Ffabur ar ei helm o'r tu blaen gan ei hollti hyd ei enau'.
25. 3991: *a llal6en uu rieni y meibon gan y g6elet ae tat. Darll. . . g6elet oe cat; B ke de bataille sont venant* 'a ddeuant o'r frwydr'.
- cf. hefyd 88, 1195, 1307, 1402, 1695, 2121, 2161, 2863, 2912, 3925, 2935, 2962, 3079, 3191, 3279, 3420, 3571-3, 3702, 3740, 3908, 4058, 4060, 4065, 4115, 4114, 4213, 4214, 4269, 4304.
- Dyna hen ddigon o brofion i sefydlu'r golygiad bod testunau *Llyfr Gwyn Rhydderech* a *Llyfr Coch Hergest* o *Ystoria Bown de Hamton* yn cynrychioli'r un traddodiad ac yn berthnasau agos iawn.

(ii) Pa wedd y gellir esbonio'r berthynas hon? A gymerodd copiwr y ddau ysgriflyfr eu storïau o'r un gynddelw? Os felly, byddai'r gynddelw honno yn hyn na'r *Llyfr Gwyn* ei hun. Neu a dynnodd y gwr a roes *Ystoria Bown* yn y *Llyfr Coch* ei ddefnydd, fel yr awgryma Gwenogfryn,¹ yn uniongyrchol o *Llyfr Gwyn Rhydderch*?

Tybiaf y câi'r neb a geisiai brofi'r dyb gyntaf gryn anhawster yn ei orchwyl. O'r tu arall, y mae'r tystiolaethau sy'n ategu'r ail yn niferus ac yn ymddangos i mi yn anodd eu gwyrddroi. Ystyrier y rhestr ganlynol lle deuir ar warthaf ysgrifennydd ffasiynol a gofalus y *Llyfr Coch*, yn ei fundau diofal, yn adysgrifennu hyd yn oed wallau sillafol a gramadegol a phethau cithriadol y *Llyfr Gwyn*. Rhoddir eto rifau llinau *Ystoria Bown*; gw. y *Nodiadau* ar fagad o'r rhain:

1. 78: *duó kalanmei. 113 nos clanmei.* Ceir yr un amrywiadau yn y LIC.
2. 137: *y góiscaból y iarll ymdanab . . . ac ar y pethryrd marchaó c y aethant tu ar ffozest.* Amlwg mai gwall yw *aethant* am *aeth*.
3. 420: *nyt oed reit o2 byt llas ieuanc gryuach . . . noc ef.* Darll. ? *nyt oed vreit (oedd freidd).* . . .
4. 537: *a lluruc dóy dyplic. Am a ll . . . doy d . . .*
5. 545: *penguch bózhóin; bózglyn* yw'r sillafiad arferol yn Gymraeg; gw. *Index RBB*.
6. 986: *yd oed amylder a cholubyr a ffryuet ereill.* Darll. *amylder o feiff a cholubyr . . .*; *B out vermin a plentex: serpens e colurs e altre vermin assez* 'yr oedd digonedd o bryfed: seirff a nadredd a phryfed eraill lawer'.
7. 1272: *yd ymgarfuóyt athi, bai am yd ymgyfarfuóyt . . .*
8. 1402: *ac nys metraból namóyn gan y yfitys yr llaó2.* Darll. *namóyn fyrthyab gan . . .*; *B mes il faili si est jus versé* 'eithr methodd a llithrodd i'r llawr'.
9. 1477: *y dinas a elthir nuble, gwall am . . . nubie; cf. o nubie 1663.*
10. 1584: *y cledyf dyro ym am vyz cledyf; B 1465 mun blanc.*
11. 1738: *gíbell un kanyrthóy da no deu uys.* Cadwyd *u- = w* yn *uys*.
12. 1741: *y darchafyffiant y fómereu ar y meirych.* Yn y ffurfiau eraill (26 ohonynt) *dyrch-* a geir bob amser; hefyd cadwodd y LIC *-yff-* heb ei newid yn *-off-* yn unol â'i arfer.
13. 1935: *y lleó arall ac achubaból.* Fel rheol, dyry'r LIC *h* yn ofalus ar ól y rhagenw mewnol *e*.
14. 2334: *yz colon. collyn* yw ffurf y pedair enghraifft arall a geir o'r enw hwn.

¹ Gw. *The White Book . . .*, t. xi.

15. 2336: *a hoffa yn y byt.* Ysgrifenna'r LIC yr *f* ddiweddel yn gyson yn y manau eraill.

16. 2416: *cau dzós yr ystauell. caeu* yw ffurf gynefin y LIC. Yr oedd y copiwr yn gysglyd wrth gopio t. 38, waith fe drosodd y darll. gwallus yn 2426 (*y gó2 a*) a rhoes inni *tozryffant* 2447 heb newid *-yff-* yn *-off-*, megis y gwnâi fel rheol.

17. 2426: *ynteu ar eifsteda oed ar o gyfuóch hayach ar erchóyn y gó2 a eifstedaó2 y ymdiarchenu.* Darll. *ynteu y gó2 ar eifsteda . . . erchóyn a eifstedaó2 . . .* efallai bod y camgopi hwn eisoes yng nghynsail y LIC.

18. 2547: *y dienydyabó dihenyd ny bo gíbell, bai am . . . o dihenyd . . .*

19. 2937: *vy holl kenedel ar vo2.* Darll. . . *kenedel o hamón ar vo2; B a Hampton sur mer.*

20. 3020: *a pha ny bei daet y march.* Dyma'r unig enghraifft o *pa* am *pei (pe)* a ddigwydd yn *Bown* ac ni sylwais ar yr un arall yng nghopi'r LIC.

21. 3059: *yna y dylabót, duó ath nertho.* Copiwyd hwn y tro cyntaf fel yr oedd, ond er mwyn symud ansicrwydd yr ystyr chwaneigwyd *fabaath* yn y gwagle uwchben yr atalnod gan gopiwr y LIC.

22. 3241: *a díolch idaó.* Y mae *diolch* heb *ó* ganolog yn briu yn y cyfnod hwn.

23. 3364: *terri marchaó clotuo2us.* Darll. . . *y marchaó . . . B Terri li suit, le chevaler preysé* 'Terri a'i dilyn, y marchog enwog'; cf. *march=* y m. 2909, 3034, yn y ddwy lsg.

24. 3813: *ymoel tu ar maes.* Ymchoel yw 2 un. gorch. y LIC fel rheol; gw. amr. ar 1250, 2107, 3937.

25. 3873: *boón yr enrydedus ryueló2 ac eabn.* LIC . . . *chaón; ymddengys ac eabn* yn ffurf anarferol iawn yn nhestunau'r cyfnod ac nid yw bwrw *h* ganolog ati ond newid bychan.

26. 3963: *yn arbein aróndel . . . yr oedut yn dzift oo achaó2.* Copiodd y LIC y geiryn *yr*, ffurf ddigon prin ar hyn o adeg, heb ei newid i *yd*.

27. 4167: *Y neb a gredaból myón kelthydeu madeuit duó udunt.* Nid edrychir ar y *neb* fel llw. ond yn anaml.

28. 4305: *pympthec nitharnaó2; LIC pymthec n; gw. dan Ffuriant, §24.*

Cf. hefyd 1983, 2054, 2560, 3001, 3061, 3065, 3152, 3432, 3675, 3692, 3767, 3772, 3936, 4019, 4186.

(iii) Tiriogaeth arall lle ceir cysondeb neilltuol yn y *Llyfr Coch* a mynych esgeulustra yn ymylu weithiau ar lediaith yn y *Llyfr Gwyn* yw'r Treigladau. Pan gaffer yn y blaenaf dreigladd cwbl groes i'w reol gyson, gellir casglu gyda chryn hyder ein bod ym mhresenoldeb copio peirianol ac anymwybodol, fel petai, o ffurfiau'r cynsail. Y mae'r gyfatebiaeth

a welir rhwng y modd y cynrychiolir y treigladau yn y ddwy lawysgrif, gan hynny, yn haeddu sylw. Ymgynghorer â'r *Nodiadau* a geir o dan y rhifau:

1. 276: *herlot rubalt truañt*. Dyry'r LIC y feddal yn rheolaidd yn y cyflwr cyfarchol oddieithr yma.
2. 410: *mi a cynnaf itti thaffanaethu om ffiol arnafi pob amfer*. Ni sylwais ar yr un cyfuniad adferfol arall yn dechrau â'r sain gysefin yng nghopi'r LIC; cf. IEW, 16.
3. 575: *a chûtheu eóch paóó gyt ac ef*.
4. 876: *gofyn . . . o pa le*; cf. hefyd *o pa le* 1660 ac *o py le* 3280.
5. 2804: *yróm ni pechaduryeit. ac a uu teir blyned ar dec a rugeint ar y dayar*.
6. 3134: *dos ti ythbare*; LIC *dos ti yth chbare*, ond LIC *dos di*=563.
7. 3777: *deg mil o palmóneit*.
8. 4164: *Edrychóch y py díó yd oedóch yn credu*.
9. 4285: *yn tbreic pziabó*.

Amlwg mai treigladau'r *Llyfr Gwyn* wedi eu cludo yn gorfforol mewn munudau cysglyd i'r *Llyfr Coch* yw'r rhain oll, canys y maent yn groes i'r arfer o dreiglo yn yr olaf.

(iv) Ymddengys yr esiamplau a ganlyn yn brofion sicrach fyth o ddibyniaeth ar y *Llyfr Gwyn*:

1. Yn 2283 digwydd *girat* (am *girart*), bai a droswyd i'r *Llyfr Coch*. Ddeg llinell yn nes ymlaen (2293) trewir ar *girat* drachefn, ond y tro hwn y mae'r *r* arall wedi ei thorri yn y *Llyfr Gwyn* ar ben y llinell rhwng *a a t*. Rhoes y copiwr yr *r* a ferchyg ar ysgwyddau *a a t* i mewn yn ei phriod le, eithr dug y sillafiad newydd ar gof iddo hefyd y *girat* yn 2283 a gopiasai'n beiriannol ychydig ynghynt a throes yn ei ôl i roi *r* ar warthaf y cyfwng rhwng *a a t* yn hwanw hefyd.
2. Yn 3024 deuir ar draws a *dybedut* ygymer *tiryodet* ym *góafanaeth- aóó d*, y *march yndunt ny aóón d*, *diuetha y march*. Troswyd y geiriau y *gymer . . .* heb newid dim arnynt i'r *Llyfr Coch*, ond wedi sgrifennu'r frawddeg gwelodd y copiwr bod rhywbeth yn ddiŷtygiol yn y synnwyr a chwanoedd y2 ar ben y llinell yn union ar ôl *dybedut*.
3. Yn 3348 ceir *agyhyrassant*, gwall am *gyhyrtassant*=*gyhyrdd- assant*. Cynnig cyntaf ysgrifennydd y *Llyfr Coch* oedd *gyhyrassant*, eithr wedi gorffen torri'r gair canfu'r gwall a rhoes *d* rhwng y *a r* ar war y llinell.
Eithr y camgopiau a ddengys y tu hwnt i bob ambeuaeth mai'r *Llyfr Gwyn* oedd *cynsail unioogyrchol* y *Llyfr Coch* am *Ystoria Boten* yw'r rhai hynny a welir ar ddiwedd colofn a diwedd ffloio ac a drafodir yn 4 a 5 isod:

4. Daw colofn gyntaf clvi^b y *Llyfr Gwyn* (YBH, t. 38) i ben gyda'r geiriau *thedy eu dyrchauel ar* ac egyr yr ail gyda'r ddeuair *pedeir ffóoch*. Yn ystod yr egwyl a gymerth yr ysgrifennydd ar ôl gorffen y golofn gyntaf cyn dechrau'r ail colodd olwg ar y treiglad; a chanrif yn ddiweddarach cawn gopiydd y *Llyfr Coch*, am yr un rheswm, ond odid, yn adysgrifennu, yn ddisylw, y bai treigladol a oedd yn y gynddelw (cf. LIC, col. 889).

5. Y camgopio cryfaf oll o blaid dibyniaeth *Llyfr Coch Hergest* ar *Llyfr Gwyn Rhydderch* yw'r darlenniad o'r frawddeg sy'n dechrau gyda *ac yna yn llaben* ar derfyn clxiii^a ac a barheir yr ochr draw i'r ddalen fel hyn: *haabd pob en oz gózaged ózth y gilid* (YBH, t. 54). Rhoes copiwr y *Llyfr Coch* i lawr yn ei adysgrif bob dim a oedd yn y *golwg* o'r frawddeg olaf ar *recto* clxiii, sef *ac yna yn llaben*. Yna troes y ddalen i fynd yn ei faen i'r *verso* a thorrodd ar ei femrwn bob gair (LIC, col. 910) o'r llinell gyntaf o clxiii^b. Ond cyn mynd ymhellach sylwodd fod cystrawen y frawddeg a oedd dan ei ddwylo yn wallus a chanfu iddo drosi amryfusedd ei gynddelw. Tynnodd, gan hynny, ei bluen drwy'r *n yn yn* a rhoddodd oddi tani ddau bwynt dileu.

Ni welaf y gellid cynhyrchu gwallau 4 a 5 ond wrth gopio o *Llyfr Gwyn Rhydderch* ac o hwnnw yn unig, oblegid nid yw'n gredadwy y ceid dwy lsg. oedd â'u colofnau a'u dail yn gorffen yn yr un brawddegau ac yn yr un gair gwallus.

(v) Os fersiwn y *Llyfr Gwyn*, ynteu, yw *cynsail unioogyrchol* fersiwn *Ystoria Boten* y *Llyfr Coch*, fel y ceisiwyd dangos, beth yw'r esboniad ar y niferus amrywiadau a brintwyd ar odre pob tudalen yn yr argraffiad presennol?

Nid yw amrywiadau geiriol fel y rheini o nemor arwyddocâd pan fydder yn chwilio am haniad llsgrau, oni cheir ynddynt gamgymeriadau ysgrifol pwysig tebyg i'r rhai a driniwyd uchod. Yn yr oesoedd canol yng Nghymru megis yn Lloegr Ffrengig ac yn Ffrainc nid oedd copiwr yn ofergoelus yn y byd ynghylch ieithwedd y testunau a droseut. Rhoeut eiriau diweddar (cysylltaid, arddodiaid, etc.) yn lle'r geiriau a â'n hen; newidient ffurfiau, ffurfdroadau, a geiriau cyffredin; amrywient drefn geiriau ac amserau'r ferf; diwedddarent orgraff a chystrawen. Mewn gair, addasant yr iaith heb ronyn o betruster i'w talaith a'u cyfnod a'u mympwy eu hunain. O waith copiwr yn newid gwedd eu cynseiliau fel hyn fe ellir creu cymaint o wahaniaeth geiriol ymhen cenhedlaeth neu ddwy rhwng copiau o gopiau o'r un cyfieithiad gwreiddiol ag i beri inni gredu fod a fynnom â chyfieithiadau annibynnol.¹

Er gwaethaf hyn oll rhaid inni ymorol a oedd gan ysgrifennydd y *Llyfr Coch* adnoddau ger ei fron heblaw'r *Llyfr Gwyn*, er enghraifft, lsg. Gymraeg, neu, efallai, lsg. Hen Ffrangeg arall? Petasai ganddo'r fath adnoddau, buasem yn disgwyl iddo eu defnyddio'n ddurwyrstr i lanw'r gwagleoedd ac yn enwedig i ddiwygio'r manau llwgr a roesai drafferth

¹ Ar ôl cymharu a chyferbynnu darlenniadau di-rif, deuthum gynt i'r casgliad fod gennym yn Gymraeg amrywiol gyfieithiadau cynnar annibynnol o'r *chanon de geste*. Erbyn heddiw, gyda gwybodaeth ehangach o arferion copiwr, rhoeswn ddeddfryd lai pendant.

iddo yn ei gynddelw. Ond y gwir yw na threuir ar nemor gyfnewidiad yn y sylwedd yn unman; a phan ddeuer ar draws ambell ddarlenniad a ymddengys ar yr olwg gyntaf yn cynrychioli traddodiad amgen, buan y gwelir, o'i gymharu â'r testun Ffrangeg ac o'i archwilio, mai gwelliant ffansiol o waith y copiwr ei hun ydyw.

Wele restr o'r cywiriadau ffansiol hyn a ddigwydd yn *Llyfr Coch Hergest*; trafodir y rhain, gan mwyaf, yn y *Nodiadau*.

1. 794: *mi a ymadaf a mahom*; LIC *mi a ymādaf a mahumet*; B *Mahun degerperai*=LIC.
2. 1031: *ac a gethis y march ar gledyf hefyd*; LIC *ae gledyf*; B *le destrer e le espeie garda ensemment*=LIC. Gwnaed *gledyf* yn fenywaidd, ond odid, o feddwl yn anymwybodol am genedl *espeie* (Llad. *spatha*); dengys y fannod bendant o flaen *espeie* yn B mai ar amcan y cywirwyd; gw. *Cystrawen*, §38.
3. 1061: *ac y myōn yftabyl y rōymōyt y march*; LIC *Ac y myōn yftauell* . . . B *Josiane le va en une estable tier*. Gan nad oedd mewn rhai llawysgrifau nemor ddim gwahaniaeth rhwng *v* a *b* (cf. LIDW *duybluyt* 7^a, *edue blyned* ib. 32^b; L1 I ar *bawall homo* 19, *Ron paladyr bras* ib. 32; etc., etc.), efallai i gopiwr y LIC ddarllen *b* fel *v* ac addasu'r terfyniad. Ceir yr un newid yn 1069, ond efallai mai'r Hff *estavelle* 'ystabl' yw *yftauell* y LIC megis o bosibl yn YBH 1152 a 1160.
4. 2262: *minheu a odylygaf yr arglōyd duō gallel o honaf inheu nry delych dzachefyn*; LIC . . . *duō gaffel o honof inneu diogelōyd am hynny nry* . . . B *Jeo pri a deu . . . ke je me pus garder, tant ke vus reuynez*. Os chwaneir *ymgadō*, a syrthiodd allan, gellid meddwl, gan debyced ei ddechrau i ddechrau nry (*inheu ymgadō nry* . . .), y mae'r LIC yn gyfieithiad llythrennol o B. Cynnig i esbonio'r aneglur sydd yn y LIC.
5. 2772: *milyz odyuays a gayaōd y pozth*; LIC *milyz odyua a gayaōd* . . . ; B *Miles fit les lus de hors barrer*=LIC. Ymddengys i gopiwr y LIC, megis RW yn ddiweddarach, fethu â deall y gair *odyuays* 'oddi allan'.
6. 2873: *gōir a dyōedut. heb y rei trōy dyghu y duō*; LIC *gōir a dyōedōch* . . . Y mae'r holl gyswllt yn llwgr yn Gymraeg ac ni cheir dim help gan B. Dichon mai *dyōedust* yw'r darl. cywir. Ceir *u(=w)* ac *ui(=wi)* yn ymgyfnewid yn orgraff yr AN a digwydd llawer o esiamplau o'r un ffeirio yn Gymraeg, yn enwedig yn LIDW.
7. 2965: *ac yna mi aōnaf goftell*; LIC *ac yna y mynnaf ūneuthur castell*; B *ilukes frai un bon chastel estre fermē 'yna mi a baraf adeiladu castell da'*.
8. 3065: *ac erchi udunt gōneuthur y jabaot y athzo*; LIC . . . *gōneuthur pob peth yn ufud y f . . .*; B *A Sabaoth, mun mestre, fetes feutē*. Cyfwerth *feutē*, sef *gōzogaeth*, felly, yw'r gair coll yn y LIC a thebyg iddo ddiagnu allan oherwydd tebygrwydd ei ddechrau i ddechrau'r gair blaenorol.
9. 3432: *a ūbely dī y tybycket ef y sabaot*; LIC . . . *tebycket y pererin y f.*; B *Veez, com il resemble Sabaoth*=LIC.
10. 3445: *yn hy ūzda yn lletty*; LIC *yn ty ūzda yn y dinas yn ll.*; B *ches un prodome cle est hebergez*=LIC.
11. 3615: *ymhoelut a ozugant y bzadmūd dzacheuyn*; B *ore s'en tūnert vers Monbrant la citē*=LIC (ar wahân i'r enw). Y gair arferol am ddinas Ifor yw *Mōmbra(ō)nt*; yn 3518, 3650 digwydd *bzafōz* ac yn 3220 *bzafōz*. Bumwaith, yma ac yn 4021, 4022, 4037, 4116, ceir *bzadmūd*, gair a arferir fel enw brenin Damascus mewn rhannau eraill, ffaith a rwystrodd gopiwr y LIC ac a wnaeth iddo newid *bzadmūd* yn *bzafōz* ymhob un o'r enghreifftiau uchod. Y tebyg yw, gan y digwydd gynyfer tro, yr edrychid ar *Bradmūd*, h.y. *Brādmūd* fel yr un gair, wedi ei droi ben ymhēn, â *Mōndbzant*.
12. 3644: *a iofian y ūbreic ynrydedus*; LIC y *ūbreic bziaōt*; B *e sa mulier Josian o le cors honorē 'a'i wraig Iosian, anrhydeddus ei pherson'*.
13. 3671: *Milyz a gi a deuthant y dan redec attunt*; LIC . . . y *dan chōerthin attunt*; B *Miles e Gui sont corant venus*=LIC. Ychydig o linellau yn uwch i fyny digwydd *a phan ūelas boōn ūynt* . . . *dyuot at terri y dan chōerthin a gowyn idāō a oed iach y ūbreic*. Gan i wraig Terri fod am saith mlynedd yn wraig forganataidd i Bown, y mae'r cymal y *dan chōerthin* yn gyfothog o ystyr, ac nid yw'n syndod iddo llynu ym meddwl copiwr y LIC ynghwrs y cyswllt uniongyrchol ac i *chōerthin* fynd â lle *redec* ar ôl yr y *dan* nesaf.
14. 3676: *kany oedōn ni*; LIC *kany ūdam ni*; B *ne targom plus 'nac oedwn ymhellach'*.
15. 3812: *dybaōt yr un ūzth y gilid*; LIC y *dyūbaōt un o2 meibōn ūzth y llāl*; B *Dist l'un a l'autre*=LIC. Ymddengys i ūr y LIC gael y priod-ddull gydag yr un, cyfieithiad llythrennol o *l'un*, yn ddieithr ac iddo ei newid.
16. 3838: *feith mlyned yffyd yr pan yttōyf gyi a thi*; LIC . . . yr *pan deuthum o loygyz*; B *set ans o vus ai estez*=LIC. Trigasai Sabaoth y blynyddoedd hyn yng ngwlad Ermin y tu draw i fôr ac o'r aml goffa am Loegr a'r mynd a dod oedd rhyngddi a'r gwledydd draw, nid oedd yn anodd i gopiwr y LIC aralleirio brawddeg y gynddelw. Cf. y rhan gyntaf: *mi auynaf genhat y tynet ym gōlat*.
17. 4038: *y marchoccaffant tua bzatmūd megys kyndeiraōc*; LIC *megys kōn kyndeiraōc*; B *chivachent ensemble com gent devē*; *gōyr* nid *kōn*, felly, yw'r gair coll ac y mae'n amlwg ddarfod diwygio wrth amcan yn unig.
18. 4139: *eithyr a allbei ar vedic o nadunt*; LIC *eithyz a ūbelynt ar ureint medygon onadunt*; B *si deu ne cleyment e baptisment 'oni alwant ar Ddūw ac am fedydd'*.
19. 4140: *ny ūbelei na mam na māb*. Ar ôl i gopiwr y LIC ymddrysu yn narll. 4139, peth diryfedd oedd iddo adael allan y frawddeg hon.

Efallai mai'r enghraifft gryfaf o blaid credu y gallai fod gan ysgrifenydd y *Llyfr Coch* lawysgrif arall wrth ei benelin yw'r hon a ganlyn:

20. 1622: a mil y róg llebot a lleopardot a geóffymt y dyd hónnó o hela. o ierch a beid coet nyt oed neb a thypei eu riuedi; LiC . . . o eirth . . . B lepars e lions e altre bestes fers e plus de urces ke un charer put porter 'llewpartiadaid a llewod a bwystfilod gwyllt eraill a mwy o eirth nag a allai cerbyd eu dwyn'. Y mae'n sicr nad cyfieithiad o *Boeve* yw'r un o'r llsgrau Cymraeg, eithr nid yw'n dilyn bod testun Ffrangeg gerbron copiwr y *Llyfr Coch*. Tebycach o lawer, goeliar fi, yw iddo gael tramgwydd yn y ffurf ierch fel llu. *iurch* (gw. n.) ac iddo ddarllen *eirth*, gan gyfnwied *t* ac *e*, *ie* ac *ei*, megis y troes *nerth* yn *nerch* 3429, *ozucplyt* yn *orucplyc* 3462, ac *ae tóyllóys* yn *ea t*. 2544. Rhaid cofio y ffeiria *ei* ag *ie* yn gyson yn Anglo-Normaneg fel y gwna *ea* ag *ae*. Nid peth anodd i ddod i feddwl llenor canoloesol oedd *eirth* oblegid meithrinid a chedwid hwy mewn aml gastell ac yn y gwleddoedd mawr bwyteid eu cig. (cf. L. Gautier, *Chec.* 503, 652, 634). Ymddengys felly mai cynefindra'r Cymry ag arferion ac iaith yr Anglo-Normaniaid a wnaeth i'r naill gopiwr lithro ac i'r llall edfryd yn y manau hyn.

Diamau bod chwaeth lenyddol yn ddiogon i gyfrif am golledion bychain megis *gōzeic ieuanc* am *gōreicyangk dec* 1360; B *une bele dame*; *dyrnat* am *dyrnat* *mao2* 4091; B *grant coup*; etc.

Deallir hefyd y colledion a ddigwyddodd drwy waith y copiwr yn ymddyra gerbron deubeth tebyg ac o gymryd y naill am y llall yn colli golwg ar gymal neu frawddeg fel yn 2529, 3200-2, 3210-3, 3733, etc.

Eithr pe buasai gan gopiwr y *Llyfr Coch* lawysgrif Ffrangeg, ni chwasa i rwystr mewn brawddeg fel yr hon a welir yn 2829: *ac a erchis idab talu teyrngat yr brenhin yn gyfym oy athzo . . .*; B *Sire sa venez, ignement le releve li donez. Mestre, dist Boves . . .* Gwelsa'n hawdd bod y *Llyfr Gwyn* (dim ond rhoi atalnod ar ôl yn *gyfym*) yn cyfateb yn llythrennol i *Boeve* ac nad oedd galw am adael allan yn *gyfym oy athzo* er mwyn cael synnwyr. Rhwystr copiwyd y *Llyfr Coch* fu *oy*. Gadawsai dros gof iddo weld *oy=oya* yn 482: *oi vahom gleó abeth yó boón* a chymerodd ef i olygu'r cyfuniad o'r arddodiad o a'r rh. pers. mewnol *e*. Pe buasai yn meddiant y gw'r hwn lawysgrif amgen na *Llyfr Gwyn Rhydderch* naill ai yn Ffrangeg ai yn Gymraeg, gallasid disgwyl iddo gynnal darlenniadau fel hwn ac fel y rhai a ddyfynnwyd uchod, darlenniadau y sicrheid eu dilyswydd gan gytundeb dwy lawysgrif wahanol. Mewn geiriau eraill, f'r un casgliad y deuir bob tro, o ba safbwynt bynnag yr edrycher ar y broblem, sef yw hwnnw, mai o *Llyfr Gwyn Rhydderch*, heb rith o amheuaeth, y copiwyd testun *Llyfr Coch Hergest* o *Ystoria Bowen de Hamton* ac nad oedd gerbron y copiwr ddim ond y llawysgrif honno a'i adeilatiwaeth gynhwynol ei hun.

A ellir casglu oddi wrth y drafodaeth uchod mai *Llyfr Gwyn Rhydderch* yw sail *Llyfr Coch Hergest* yn ei grynswth? Dim o gwbl. Yr unig beth a brofwyd oedd mai o'r *Llyfr Gwyn* y cymerwyd *Ystoria Bowen*. Prin y gellir credu, serch hynny, i gopiwr a gymerasai yn echwyn un testun ymfodloni ar fenthyca un testun yn unig o lsg. mor gyfoethog. Eto, cyn y gellir bod yn weddol sicr am haniad testunau eraill rhaid astudio pob stori ar ei phen ei hun.

(ii) *Y Berthynas rhwng Llawysgrif Mostyn 135 a Llyfr Gwyn Rhydderch*

(a) Mewn nodyn ar ddechrau Mostyn 135 dywaid Syr John Rhys fod y storïau yn yr ysgriflyfr hwn yn glynu'n agos wrth *Llyfr Coch Hergest*, eithr na wyddai ef a dynasid hwy o hwnnw ai peidid gan na chymarasai'r naill â'r llall. Yn ôl Gwenogfryn,¹ dengys y gwagleoedd a welir yn y testun a neilltuolion orgraff rhai rhannau ddarfod adysgrifennu'r storïau yn Mostyn 135 yn uniongyrchol o *Llyfr Gwyn Rhydderch*.

1. Nid oes dim sicrach na bod gwagleoedd yn Mostyn 135 yn union lle digwyddant yn y *Llyfr Gwyn* a bod y testun yn gwbl ddi-ffwlch yn y manau hynny yn y *Llyfr Coch*. Tystiolaetha hyn o blaid y *Llyfr Gwyn* ac yn erbyn y *Llyfr Coch* fel ffynhonnell Mostyn 135. Nid yw serch hynny o angenheidrwydd yn dilyn mai'r *Llyfr Gwyn* yw tarddell uniongyrchol Mostyn. Y cwbl a ddengys y gyfatebiaeth yn *ddiamheuol* yw bod y ddwy lawysgrif yn perthyn yn agos i'w gilydd. O ran hynny, gallasai Mostyn 135 yn hawdd ddeillio o lawysgrif a gopiasid yn ei thro o'r *Llyfr Gwyn*, llawysgrif a gynhwysai, hithau, y lleoedd gwag o dan sylw. Yn wir, ceir rhai pethau yn ffactorio golygiad hwn. Er enghraifft, yn Mostyn, t. 170, ar fin un o'r bylchau hyn, trewir ar yr orgraff *llogheii** lle digwydd *lloge* (a'r *u* ddiweddol wedi colli) yn y *Llyfr Gwyn* *cbxx*. Eto, yn Mostyn t. 172, ar ymyl bwlech arall, rhoddir enw'r brenin deirgwaith fel *Gei* lle ceir *gi* bob tro yn y manau cyferbyniol yn y *Llyfr Gwyn* *clxxi*.

2. Pwynt arall a dery o blaid ffynhonnell amgen na'r *Llyfr Gwyn* yw'r niferus wahaniaethau a ddengys Mostyn 135 yn ffurfiau'r enwau priod Ffrangeg. Yn ychwanegol at *Gei* am *gi* uchod, dyma restr o'r amryw-iaidau hynotaf: *Bohun* am *boón* 65; *Beatrix* am *betris* 3570; *Belfub* am *belfub* 4097; *Carthus* am *carfus* 2537, 2562, 2568; *Carofhus* am *carfus* 2584; *copart* am *scoppart* 2714; *copart* am *scopart* 3079; *Danafcyl* am *damafcel* 1188; *Doftrys* am *doftris* 3349; *Gei* am *gi* ddau ddwsin o weithiau (e.e., 3464, 3467, 3561); *Giun* am *gi* 2782; *Mambraunt* am *mambraunt* 1481; y *macubraund* am yn *macubraund* 3727; *Moumbraunt* am *mombraunt* 3636; *Mounbraund* am *mombraund* 3676; *Mumbraunt* am *mombraunt* 1479; *Miles* am *milyz* 3561; *Sebaut* am *fabaot* 2569; *Sabaunt* am *fabaot* 2666; etc.

3. At yr enwau priod hyn bwrier yr amrywiaethau ar y ddau air Ffrangeg a ganlyn: *bacheleryeit* am *bachleryeit* 3801; *traytūr* am *traytōz* 3197.

Gan y sillefir y gair olaf ag *-ur* derfynol yn *Bowen* 306, 1095, 2689, ac yr ysgrifenna copiwr Mostyn 135 yr *u(=w)* Anglo-Normaneg honno bob tro fel *ū*, gellir esbonio *traytūr* am *traytōz* yn foddhaol. O'r tu arall, *bachler* yw'r ffurf yn *Bowen* 3232, 3801 a *bachylereit* yn 3819.

¹ Cf. *Reports on MSS.* . . ., I, tt. 118-9.

* Rhydd Roger Morys *l* â dot dani am *ll* bron bob amser, *d* â dot dani am *dd*, ac *u* â dau ddot uwch ei phen am *u*, ac *u* â dot dani am *u*. Rhaid cofio'r pwyntiau hyn trwy gydol (ii).

4. Er cael *gueregys* yn Mostyn 135, ni ddigwydd ond *gúzegis* (deirgwaith) a *gúzegys* (deirgwaith) yn *Ystoria Bown*.

Anodd credu y gallasai Morys lunio'r amrywiadau ar yr enwau priod Ffrangege o'i ben ei hun. Yn wir, awgryma ffurfiau fel *Bohun* am *boón* a *Moumbraunt* a *Mounbraund* am *mómbzabnd* a *mómbzabnd* a'r mynych arfer o *Gei* am *gi*, etc., fod Roger Morys yn gydnabyddus â fersiwn Ffrangege neu, o'r hyn lleiaf, â fersiwn Cymraeg amgen na'r *Llyfr Gwyn*.

5. Trewir ar ddegau o ffurfiau diweddar yng nghopi Mostyn, amrywiadau y lithrodd Roger Morys iddynt heb wybod iddo ei hun ac a gywira o bryd i'w gilydd ar ymyl y ddalen. Nid yw'r rhain o bwys i'r ddad hon. Eithr ochr yn ochr â'r diweddiadau y cyfeirir atynt digwydd nifer helaeth o amrywiadau na lithrodd y copiwr iddynt oherwydd dylanwad yr iaith ddiweddar. Ystyrier y rhai canlynol: *achaus* am *achos* 233; *aghuanec* am *anghóanec* 135; *yghuanec* am *yghthbanec* 794; *a edylygaf* am *a odylygaf* 2261; *brenhinaeth* am *bzenhinyaeth* 3160; *y kaet* am *y cai* 1413; *a chrayffau* am *a chroyffab* 1502; *dyledus* am *dyledus* 563; *dyuaut* am *dylbot* 465, 1250; *dyueit* (ail bers. un. gorch.) am *dylbet* 3205; *elaur* am *eloz* 2981; *viimeu* am *uimeu* 197; *vynyd* am *vyny* 214, 307; *unaethood* am *lunathood* 2188; *gydat* am *gydyat* 3977; *holyych* am *holych* 343; *lyeu* am *llyein* (ll. llw) 812; *paganneit* am *paganeit* 401; *val na bu* am *ac na bu* 2659; *yr y gyniuer tiryoad* am *y g . . .* 3024.

Gallai treiddgarwch beirniadol roi bod i'r ddau amrywiad olaf, ond i esbonio'r lleill rhaid tybio naill ai mediant ar lawysgrif amgen na'r *Llyfr Gwyn* neu fawr gynefndra â hen destunau ac atgof anymwybodol o hen ffurfiau.

6. Trewir draw ac yma ar amrywiadau mwy pendant fyth: *achub* y *coet* a *unaeth* (h.y. y baedd) yn lle *achub* y *g62* . . . 448; *nyt oed debic* y *dyn onyt* y *gythreul* am *nyt* . . . *dim onyt* 2236; *myn diu* a *ranno* os *ti* a *dieinc* *ath* *vyuhyt* yn lle *myn duó* *traitur* os . . . 2689; *gun* a *dyuedy* am *glibr* . . . 3027; *heduyrant* (cywirwyd yn *heduyrain* ar ymyl y ddalen) am *beddyrann* 3052 (LAC *beddyrann*); *ymgyhyrdun* ni *yn dai* os *mynhi* am *y . . .* *myn duó* os *mynhón* 4062; darlenniad sy'n cydfynd â *Boeve* yn well nag eiddo'r *Llyfr Gwyn*; gw. n. ar 4062.

Os y *Llyfr Gwyn* oedd cynddelw Roger Morys, nid rhyfedd iddo fetlu darllen -62 yn *g62* 448, oblegid cefais innau (gyda'r chwyddwydrua mwyaf diweddar) grym drafferth i'w ddiarnad; ac ni fuasai'n syndod i ystyr anarferol *achub* yn y cyswllt a phresenoldeb *coet* yn 444 ei gymell i roddi'r gair olaf yn ei destun. Gellid hefyd ei esgusodi am ffael darllen *traitur* 2689, os oedd y goleuni y gweithiai ynddo yn wael, er ei bod yn anodd gweld sut y cafodd *ranno*. Eto yn *beddyrann* 3052 y mae rhywbeth yng ngwaelod y *b*-ddechreuol yn debyg i waelod *h* (er mai *b*- yn sicr yw hi), ond buasai yn wan ei olygon i beidio â chanfod nad oes yr un i ddiweddol yng ngair y *Llyfr Gwyn*. Os oes eagus dros gamddarllen y rhain, nid oes yr un dros ddarllen *dyn* yn lle *dim* yn 2236 nac am *roi gun* am *glibr* 3027 nac am adysgrifennu ni *yn dai* os *mynhi* yn lle *myn duó* os *mynhón* 4062, canys yn hobb enghraifft y mae'r ysgrifen mor bendant a diamwys ag y gall dim

fod. Os y *Llyfr Gwyn*, meddaf, oedd y cynsail, yna ni ellir ymwrthod â'r casgliad mai darllenwr cyffredin neu, o'r hyn lleiaf, mai darllenwr esgeulus iawn, oedd y gŵr o Goedytalwrn.

7. Heblaw hyn deuir ar draws manau gwag yn Mostyn lle mae'r *Llyfr Gwyn* yn gyfan. Wele bedair enghraifft: (1) *bara peileit* *hynn* a *oed reit idau* am . . . *peileit (da) yr hyn aoad* . . . 1417; (2) *Juor or Gris ac Abat* *a phan* . . . yn lle . . . *ac abat o v62ri* . . . 2681; (3) *truy euyllus* *a dyuedut* am . . . *elhyllus d26c* . . . 2688; (4) *ony chapthaf dy benn di ar* *ac yna* . . . yn lle . . . *dy benn di yr ma62* . . . 2692. Ar wahân i'r cornel uchaf deau o a yn (i) colodd *da* yn hollol yn 1417, eithr y mae *yr hyn* (ag un -n) yn ddibetrus. O'r tu arall, y mae memwrn ffolio clviii^b mor dywyll a'r inc ar ymyl aswy col. 83 wedi gwelw cymaint fel na ellid disgwyl i'r copiwr a gamddarllenodd *dim* 2236 fel *dyn*, *glibr* 3027 fel *gun*, etc. (gw. uchod), ddechongli'r geiriau a ddigwydd yn y manau gwag yn (2), (3), a (4).

(b) Ystyriwn bellach y 'peculiarities of orthography' y sonia Gwenogfryn amdanynt, gan chwaneu atynt ystyriaeth o feiau anarferol na allai nemor ddau gopiwr eu hatgynhyrchu. Wele rai o'r neilltuoliion pennaf:

1. 939 *vy phēn*, M.81 *vymphenn*; 1026, 1544 *vyneich* (fynych), M.83 *vyneich*, 97 *vynych* cyw. *vyneich*; 3070 *g6ahardaduyf* *tyf ineu*, M.137 *guahardaduyf* *uyf inheu*; 3701 *ymgylydus*, M.155 *ymgeledus* cyw. *ymgylydus*; 3732 *tatdeu*, M.176 *tatdeu*; 3813 *ymoel*, M.159 *ymoel* (nid yn llaw Morys y mae'r *h* uwchlaw'r llinell).

2. Yn 1661, lle darllenais i (gyda'r *Llyfr Coch*) *dathoed*, ymddengys i gopiwr y *Llyfr Gwyn* dorri yn gyntaf *dadoed* ac yna iddo geisio gwneud *t* o ddolen gyntaf y *d* ganol a rhoi *h* rhyngddi a'r *o* ddilynol. Edrych y cyfuniad, heb graffu arno'n fanwl, fel *dadyed*, gyda math o goma ar ysgwydd y *d* ganol. Y pictiwr hwn (gyda'r coma) yw'r hyn a geir yn Mostyn 135. Anodd iawn credu y gallai hyn fod yn gopi o'r *Llyfr Gwyn*.

3. Ar ddiwedd 3704 ceir . . . *ae gedymdeith* (heb y llinau ar oledid arferol yn dilyn) ac yna yn y llinell nesaf daw'r terfyniad lluosog -on: *on nyt ymarbedassant*. Darlenniad Mostyn 135 yw *ae gedymdeith onyt ymarbedassant*. Nid hawdd tybio y gellid cynhyrchu bai fel hwn ychwaith fwy nag unwaith.

4. Yn 3764 ysgrifennodd copiwr y *Llyfr Gwyn* y cyfeithiad llythrennol o *B Teori ad un messenger apeli*, nid amgen, *gal6 a ozuc Iuo2 ar genhyat at66*, ac yn union wedyn, am ryw reswm neu'i gilydd, croesodd allan ar a thorrodd y ar ben y llinell rhwng *Iuo2* ac *ar*. Yn Mostyn 135 dyry Morys . . . *Iuo2 y genhyat* . . . ond gan chwaneu *ar* uwchben y llinell.

5. Soniais eisoes wrth drafod cwestiwn perthynas y *Llyfr Coch* â'r *Llyfr Gwyn* am y geiriau sydd ar ddiwedd clxiii^b: *ac yna yn llawen* ac am eu parhad ar clxiii^b: *haab6 pob vn o2 g6zaged*. Darlenniad Mostyn 135 yw *Ac yna yn llawen pob vn or guraged* (ceir y *llawenhand* ar ymyl y ddalen mewn llaw wahanol).

Pa beth sydd i'w gasglu oddi wrth hyn oll? Yr ateb, mi dybiaf, yw mai o *Lyfr Gwyn Rhydderch* y gwnaed copi Mostyn er gwaethaf popeth, eithr bod Roger Morys yn gydnabyddus â fersiwn arall o *Ystoria Bown* naill ai yn Gymraeg neu yn Ffrangeg, a'i fod, o ddyfal gopio hen lawysgrifau, yn cofio hen ffurfiau ac weithiau yn eu rhoi i lawr yn ei gopi yn hytrach na'r hyn oedd o'i flaen. Ac yn olaf—dyweder y cyfan—rhaid casglu mai darllenwr diamynedd ac anfedrus yn fynych oedd Roger Morys.

Gallwn ategu'r casgliadau hyn oll o'r cymariaethau a wneuthum rhwng y rhannau eraill o Mostyn 135 a'r *Lyfr Gwyn* ac o'r gymhariaeth a wneuthum rhwng Llanstephan 34 o waith Roger Morys a'r un ffynhonnell.

(iii) *Y Berthynas rhwng Llyfr Siôn Dafydd Rhys a Llyfr Coch Hergest*

Cytunaf â Gwenogfryn mai copi syml o'r *Llyfr Coch* yw *Llyfr Siôn Dafydd Rhys*, hyd y mae a fynno â *Bown*, ac ni thbyiaf ei bod yn werth myned i fanylion ar y pwnc.

§6. AWDUR A CHOPÍWYR

(i) Ni adawodd y gŵr a droes *la Geste de Boun de Hamtone* i'r iaith Gymraeg ar ei ôl na'i enw na chyfeiriad yn y byd ato ei hun. Os bu ei enw erioed ynghlwm wrth y cyfieithiad, aethai'r cof amdano ar ddifan-coll cyn rhoi ar femrwn yr adysgrif hynaf a feddwn o'r testun. Yn yr oesoedd canol rhoddai'r beirdd Cymraeg eu llofnodion yn aml wrth eu cerddi a derbynient fri a mawl ymhob cenhedlaeth am eu cynhyrchion. Eithr anfynych y disgynnodd o'r cyfnod hwnnw i'n hoes ni enwau ysgrifenywyr rhyddiaith.¹ Mynaich ac offeiriad yn ddau oedd y rhyddiaithwyr yng Nghymru fel mewn gwledydd eraill, a naill ai o dduwiolfrydedd ysbryd neu o warafun eu hurddau, ni cheisient ac ni chaent glod awdurol. Ac os bychan fu clod ysgrifenywyr rhyddiaith, llai fyth, os oedd modd, fu bri eu copiwy. Ond er gwaethaf distawrwydd ein cyfieithydd a'i gopiwy amdanant eu hunain, gallwn dynnu rhai casgliadau pur ddiogel oddi wrth eu gwaith.

1. Y mae un peth y tu hwnt i bob amheuaeth; gwŷr o'r Deau oeddynt. Y Ddeheubartheg yw iaith y cyfieithiad o ben bwy gilydd, Deheubartheg yn dwyn nodau llafariaith Gwent a Morgannwg ar rai ffurfiau a nodau Dyfed ar eraill.

2. Am y Wenhwysg y meddylir pan drawer ar *e lle* disgwyliad *a megia yn (au) leben 180* (LIC *leben*); *enrithel 3873* (LIC *enrithel*); *-ren am -ran yn a ffethura(t)ren tozth 969* (LIC *aphethyren 1 . . .*); *a thelu cyw. a thalu 2762; eithert 4281, 4290* (LIC *eithert*); *?(y)fflonder(d) 530*,

¹ Gw. 48, (i).

573, 583 (Hff—ard); nodwedd a welir o bosibl eisoes yn LL *pull iceth 173, poll icaith 234 am ?p. i cath* (cystadlai o ac u yn nodiant o gacédig yn Hff ac o ddiwedd y ddeuddegfed ganrif *e oedd gwerth seinyddol ai*); ond=*Pwll Iceth*, Rhys *ib. 273*. Dyry'r un dafodiaith a am *e ddiweddol: cerddad, collad, calad, dammadd, gorwadd, trydadd, petwaraidd, etc.*; ac ymddengys mai'r ffurf olaf a geir yn *a ffethuraren tozth 969* (B *un quarter de un pain*) gydag *r=tr* a *t=dd* (gw. n. ar 969). Gellid meddwl hefyd mai presenoldeb a am *e (mynat)* a rwystrodd ryw gopiwr ac a'i cymhelodd i newid *a at venat (a at vynet)* yn *a atbaenat 3597* yng nghyfnod *6=6* (cf. B *let coure*) ac i droi y *belat dy vab (i belet)* yn y *bylai . . . 3128* (cf. B *vostre enfant purray . . . ver*; gw. n. ar 3128). Dwg y treigladr trwynol yn *ymbzen (crog) 1087* ac yn *eygchbaer 3316* (LIC *ty chbaer*) ar gof dreigladau Morgannwg heddiw; e.e., *mae e ymben pawb 'he finds fault with all and sundry'*; *mae e ymbopeth sy'n mynd ymlân; yngwâr 'my sister'*. Os camgopi o *doy dyptic neu o dov d . . . yw'r darll. dōy dyptic 537*, ni welaf ond Morgannwg, lle clywir heddiw yn feunyddiol yn *ddou ddawpal*, a allasai roi bod i'r ddeuair gydag *-ov (oy)* a *-p-*. Ac wrth sôn am y fud galed *-p-*, yr argraff sydd gennyf yw bod testun YBH, o'i gymharu â thestunau cyfoes, yn dangos mwy o hoffter, ar ôl yr acen, o'r gytsain galed, yn enwedig *t*, nag o'r gytsain feddal, yn y geiriau hynny lle mae'r naill neu'r llall yn gyfreithlon yn orgraff y cyfnod. Felly, cawn *detthyd, dyuotyat, pethar; dibycyat; dyptic; etc.*, heb gymaint efallai o'r cymheiriad fel *dedthyd, dyuodyat, etc.*, ag a geir yn gyffredin. Os cywir hyn, ceid esboniad posibl yn y dyb i rywun o wlad Gwent neu Fforgannwg lle ceir, er yn fore, mac'n debyg, gytsain galed ar ôl yr acen fod a'i fyssedd ar y diwyg. Yn iaith heddiw, cf. *doti (dodi), gotro (godro), ryteg, rytag (rhedeg); reci (rhegu), tacell, tacall (tagell); gwopor (gwobr), popi (pobi); etc.* Eto, gellir dadlau nad yw presenoldeb *roc (rac)* yn y pedair enghraifft redadwy: *rocaô 3884, rocdi 773, 768, a rocdun 351* ddim o angenrheidrwydd yn cyfeirio at y Wenhwysg oblegid digwydd ffurfiau ag *-oc-* y tu allan i Fforgannwg. Digon gwir; ond y mae'r esiamplau yn brin iawn, iawn. Dim ond *rocdi* deirgwaith, AL I (Dull Dyfed), a geir yn WG (401) ac ymddengys mai ffurfiau llenyddol yn unig oedd y rhai ag *-oc-* yn Nyfed, canys, hyd y deallaf, ni cheir hwy heddiw yn iaith lafar y fro honno. O'r tu arall, dyma i chwi dair ffurf ag *-oc-*, ac un yn digwydd ddwywaith, yn yr un testun ac fe geir y tair, yn wir, fe geir yr holl rediad, *-rocto i, roctho ti, roctho fe (fa), rocthi ddi, rocthon ni, rocthoc chi, rocthin no—* yn llafariaith Morgannwg heddiw mewn ymadroddion ystrydebol fel *i ath e roctho fe (fa) i atrodd (h)ynny wrth ddyn diarth (diarth)* 'he went beyond the limits to tell that to a stranger'; etc. Ac os llythreniad o *rydaô* yw *radaô 1202*, gellir efallai ddwyn ar gof y ceir *ryddo, ryddi, ryddin* fyth ar arfer yng nghyffiniau Caerdydd. Eto, yng Ngwent a Morgannwg nid a eithr o a ddefnyddir i fynegi'r cyflwr offerynnol megis yn *llad nidir (neidr) o bastwn; torri pren o fâell (fayell)*; etc. Ceir a gyda'r gwerth hwn mewn testunau eraill, eithr digwydd mwy o enghreifftiau ohono yn YBH nag a groniclwyd yn ein holl lenyddiaeth ganoloesol. Ni threwir arno heddiw, hyd y gwn i, yn unrhyw dafodiaith onid yn y Wenhwysg lle disgyn yr o a glywir yn *eygozuot oth llayô 961; om cledu i yd nullas idaô bzenhynyaeth arall 1007* yn hollol naturiol ar glustiau'r bobl. Fel

mewn tafodieithoedd pellach i'r gorllewin, ceir *ed* am *hefyd*, ffurf a ddeilliodd, mae'n debyg, o *heuēt* a gynrychiolir yn 4125. Arferir *gyrdai* gan y Gwennwys am *greda i*, trawsosodiad adlewyrchir o bosibl yn a *gerdaf* cyw. a *gredaf* 3122. Defnyddir y cysylltiad *a* yn rheolaidd mewn esiamplau megis *a moz adfeyn* 3452 (LIC ac moz . . .); a *tylab* 2457 (LIC ac *tylab*) yn y llafariath hon, llafariath nad yw *hiatus* yn wrthwynebus ganddi: *mae* (*hi*'n *perthyn* i *n(h)ad* a i *mam*; (*h*)*oli* a *ateb*; etc.; cf. *hefyd* yn y testunau llenyddol a y *enyf* (= ac y *enyf*) WM 351; *Och a aram* cyw. ac a . . . ib. 485. Yn olaf, os cymerwyd *mout* 3707 'llawer' drosodd o'r testun AN i'r fersiwn Cymraeg, buasai'n hollol naturiol i gopiwr o Forganwg ar ôl ei ddarllen fel *mour* ei droi'n *maur* (*mawr*) oblegid, er cael *brou*, *clou*, *dou*, ac ychydig eraill am *brau*, etc., ni cheir *moer* lawer ar du de-ddwyrain Lluchwr.

3. O'r tu arall, am Ogledd Penfro y meddylir pan weler a *thunnu* 159 (LIC *thynne*), *ryfugus* 1572 (LIC *ryuygus*), *duffust* 2512 (LIC *dyffust*), yn *hoeth lumun* 2232 (LIC *noeth lumyn*), *kam kuhudaffant* (LIC *kam-guhudaffant*). Amlwg mai'r *u* ddilynol sy'n cyfrif am *u* yn lle y *dywyll* yn y geiriau hyn ac fe wyddys y ceir *u* yn y ddeuair olaf draw ac yma mewn testunau sy'n deillio o ardaloedd y tu allan i Benfro. Er enghraifft, awgryma darlenniadau'r *Llyfr Coch* nad oedd *u* yn y ddau olaf yn ddiethr yng nghanol Ceredigion, etc. yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, tyb a gadarnheir gan ddwy enghraifft o *cuwddôz* yn RP (engh. a gyw. yn *cyh-* yn y MA), gan dair yn *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi* (gw. engh. yn G) a chan *ryguhudaô* P5, viib. Digwydd *noethlumyn* yntau yn SG 112 a geilw J. Lloyd-Jones fy sylw at *noeth lumun* yn BV 305.256. Y mae'n sicr felly y ceir enghreifftiau o *u* ddilynol yn troi y *dywyll* yn *u* mewn llawysgrifau nad oes a fynnon't â Phenfro. Ond prin odiaeth yw'r enghreifftiau. Y ffaith yw y gwelir yn agos gymaint ohonynt yn *Ystoria Bown* ei hun ag a gofnodwyd o holl destunau'r oesoedd canol. A sylwer na ddigwydd na *tunnu* na *ryfugus* na *duffust* yn unman arall, hyd y gwn i, yn ein holl lenyddiaeth ganoloesol. Dengys hyn fod ar ffurfiau *Bown* ôl rhyw llafariath lle mae gwaith *u* ddilynol (>*i*) yn troi y *dywyll* flaenorol yn *u* (*i*) yn egwyddor fyw. Yr unig ardal y gwn i amdani lle troir pob math o *y dywyll* yn *u* (>*i*) yw Gogledd Penfro. Ar wahân i *tinni* (*tynnu*), *ryfigis* (*rifigis*), *mwethlimin*, *ciiddo* (*cyhuddo*), clywir yno: *minni* (*mynnu*), *sinni* (*synnu*), *glini* (*glynu*), *mini* (*mynydd*), *prini* (*prynu*), etc., etc. Ond nid yw tiriogaeth *i=* *u* am *y dywyll* dan yr acen yn cyrraedd nemor pellach i'r Dwyrain nag Afon Taf, canys ym Mhlwyf Llangynin, er y digwydd *tinni*, nid arferir ond *ryfigis*, *noethlymin*, etc. Nid ymestyn tiriogaeth *i=* *u* am *y dywyll* fel egwyddor fyw, hyd y deallaf, nemor yn uwch i'r Gogledd na gwaelod Ceredigion.

Ceir blas dwyran isaf Teifi ar eiriau eraill megis *cledeu*, *nofyat*, a *guledi*. Y tu allan i YBH gellir cyfrif yr enghreifftiau a ddigwydd o *cledeu* yn ein testunau canoloesol (testunau deheuol, gan mwyaf, cofier) ar fyaedd un llaw (gw. G). Y ffurf lenyddol reolaidd yn y *Llyfr Gwyn*, y *Llyfr Coch*, etc., yw *cladyf*. *Cladyf* (*clefydd*) hefyd yw'r ffurf lafar boblogaidd yn y Deheudir. Gwn y ceir *cladda* yn rhai o dafodieithoedd y Gogledd, a cheir *cladde* yng Ngheredigion, ond ymddengys fod mwy o tri ar y ffurf hon yn Sir Benfro nag yn unman yn y Deau. Os felly, y mae

presenoldeb 16 o enghreifftiau o *cledeu* yn YBH (engh. a drowyd yn *cladyf* bob tro yn y LIC) yn dystiolaeth bur awgrymiadol. Dyna i chwi eto *nofyat* cyw. *nofyab* 2392. *Nofyat* a *mofyat* yw'r ffurfiau beunyddiol ar lethrau Preselau, ond yn wahanol i *cladde*, daw *mofyat* ymlaen ymbell i Sir Gaerfyrddin. Anodd penderfynu a ddylid ystyried *guledi* (llu. *golat*) 3206, 3585, 4317 ac a geir yn RBB (gw. dan *Ffurfiant*) fel gair Sir Benfro wedi colli ei *-dd* megis yn *gili* (*gilydd*), *mini* (*mynydd*), *tivi* (*tywydd*), etc., etc., neu fel llu. yn *-i* ar batrwm *trefi*, *forest*, etc., ffurf nas rhoir am lu. *gwlat* yn WG 202. Gyda'r to ifanc a'r canol oed *gwledydyd* yw llu. *gwlat* bellach, ond clywais *gwledi* o enau hynafgwyr yn Llanychâr a Rhydwlwm a dywedwyd wrthyf gan hen frodorion mai *gwledi* neu *gwledy* a arferid gynt yn yr ardaloedd hyn.

Yn wyneb hyn oll, ymddengys i mi yn anodd gwrthod y casgiad bod ôl Morgannwg neu Went a Phenfro ar iaith YBH y *Llyfr Gwyn*.

(ii) *Beth oedd galwedigaeth y cyfieithydd a'r copïwyr hyn ac i ba rannau o'r Deheudir y perthynent?*

Nid castellwr mo'r cyfieithydd ei hun yn sicr, oblegid petasai'n gastellwr, prin yr aethai ar gyfeiliorn wrth atgynhyrchu'r rhedegfa feirch (gw. n. ar 2872 *et seq.*), ac anodd credu na buasai o dro i dro yn ymhyfrydu yn lliwiau'r meirch rhyfel y sonnir amdanynt yn fynych yn *Boeve* ac yn cynnig draw ac yma gyfieithiadau ohonynt ar batrwm awdur *Kulhwch ac Olwen*.¹ Nid ymddengys chwaith ei fod yn gynefin â'r arfer o osod pris penodedig ar geffylau enwog modd y ceid iawn amdanynt os collid yng ngwasanaeth y brenin; oblegid o'r dwsin enghreifftiau o *cheval*, *chevais de pris*, *ch. pris(i)ez*, etc., yn B ni cheir yn YBH nemor ddim ond *marsh*, *meirch*; yr unig eithriadau yw *m. da* 1277 a *m. clotuozius* 3020, 3121.

Eithr os aeth ar ddisberod wrth drin materion y barwniaid, y mae, o'r tu arall, yn wybodus lle trinnir pynciau eglwys; medd ar ddi-ddordeb pendant yn ffurfiau defosiwn ac yn awr ac eilwaith fe geir yn y testun Cymraeg dinc duwioldeb na ddigwydd yn y testun Ffrangeg sydd ar glawr, nodweddiad sy'n awgrymu gŵr mewn urddau. Dyma, hyd y sylwais, yr esiamplau amlycaf:

Os yr un mater yn fras oedd gerbron y Cymro ag a droswyd inni yn nhestun *Boeve* o'r weddi a groniclir yn 1083-1088 (y mae'r cyswllt o boptu yn ddigon tebyg a chadwdd y cyfieithydd ddau o'r geiriau HFF oedd yn ei gynddelw—*foler* a *profandyr*), yna rhaid addef i'r awdur nid yn unig gyfieithu yn feistrolgar, ond iddo hefyd drwsio'r weddi â chymalau newydd. Rhoddaf chwaniadau *Bown* mewn llythrennau Italaidd:

1. A *gwedy* bot boón chue-blyned yn góbyl ygharchar y dech-reuis ef ymáfreu a toffu griff. a dyth-edut oi a arglôyd vachhin nef a dayar y gôz am glénaeth ac am ffuruaod ar y *déló* ac am prynaod yn *ddant* ymb-bzen crog yr creu y gallon yd archaf it . . . 1081-88.

ja i out esté set aunz tut plener. Un jour il comence issi a parler: "Beau sire dieus, ke me deigne-astes a fourmer e en la beneite croiz de tun sanc achater, joo te pri . . ." B 1038-42.

¹ Gw. M. Watkin, *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, XIV, tt. 14-15.

2. Ar ôl cyfieithu *he jeo ne soi de ses paiens pris* B 1254 chwanega YBH 1332 ym verthyzu: *nom hael or paganniet raco ym verthyzu.*

3. Eto, yn y gerdd Hen Ffrangeg y march a gaiff y clod i gyd am allu o Bown groesi'r *dofyr mabr* a dianc rhag ei elynion i'r ochr draw: *e par dreyte force sunt utre passez 'trwy wir nerth yr aethant drwodd'* Boeve 1263. Ar y llaw arall, yn *Ystoria Bown* rhennir y mawl am ddihangfa rhwng y march a'r weddi a offrymasai Bown cyn anturio ohono i'r dyfnder ac i'r weddi y rhoddir y lle blaenaf: *a thrôy nerth y lbedi a chedernyt y march . . . dzôod yd aythant* YBH 1339-41.

4. Ni cheir dim yn B 1271-5 yn cyfateb i a *thygu myn y gôz am pzymad ym pren croc* YBH 1348-50.

5. Wedi i Bown, ar ôl ennill y rhedegfa feirch, gyrraedd bro ei faboed, ehed ei feddwl yn hiraethus yn ôl at ei dad a laddwyd yn fradwus gan yr ymherodr: *oe a duô tat kyuoethaôc heb y boôn llyma y tir y dylvei nyhat bot yn geitôat trôy nerth duô* 2927. Nid oes dim yn cyfateb i *trôy nerth duô yn Boeve* 2519.

6. Cymerer hefyd Boeve 2142-2143. Yma sonnir am Iosian o dan ddedfryd marwolaeth yn gofyn am offeiriad: *Une prestre demande e l'em li ad liveré, longement le tint . . .* Ceir trosiad llythrennol yn *Bown* 2466-71: *ac erchi efferat aônaeth. ac yffeirat a gaus . . . ac ae hetellis yn hir—gyda'r chwanegiad: yr yffeirat ac kyffessaôd yn gôbyl, darlenniad na cheir mohono yn Boeve.*

7. Yna, ychydig yn nes ymlaen yn yr un cyswllt, y geiriau yn B 2162 *yn pur celi que vos forma* 'er mwyn yr hwn a'ch lluniodd', ond y darll. yn YBH 2499 yw *yr y gôz an pzymad*.

8. Ar ôl cael o Bown oruchafiaeth â'r cleddyf ar yr ail lew a ymasodasai arno, a syrthio o'r anifail i'r llawr, dywaid Boeve 1739-40: *ne s'est remué, mes n'ad lessé que forement n'eit rechinés* 'ni syflodd, eithr ni bu heb ysgyrnygu'n enbyd'. Trosiad *Ystoria Bown* 1947 yw *a gbedy hynny y côplaôd boôn llyffanaeth y llet yn ida digalon*, gan olygu, efallai, 'gwasanaeth y meirw'; cf. *ac yn dyweddut gwasanaeth o'r meirw ef ae ysgolheic* SG 304 (droeon yn 304)=Potvin 169 *le service des morz*.

9. Oherwydd ei faint, methodd ugeinwyr â chodi Copart i'w roddi yn y gerwyn a ddarparwyd i'w fedyddio (nid oedd un bedyddlestr yn ddigon mawr). Cynnig yntau ffordd i ddatrys y problem: *Lessez moi entrer; vos me en saherex* B 1963 'Gedwch im fy hun fynd i mewn; chwithau a'm tynnwch allan'. Y darll. a gyfetyb yn YBH 2218 i'r ail frawddeg yw *a doôch chûitheu a dodôch ôch dylôlô arnaf, yr hyn a ddengys i'r cyfieithydd gymryd saherex o saher 'tynnu allan' fel sacreter o sacrer 'cysgru'.*

10. Ar ôl i Gopart fwrw naid allan o'r gerwyn fedyddio dywaid B 1976-9 *il li seroyt a vis . . . he il fust un deblo he vouist manger* 'ef a dybiai mai cythraul oedd a fynnai fwyta'. Darll. YBH 2236-8 yw *nyl oed debie y dim onyt y gythraul yn heiffôb eneidu ôzth eu poeni.*

11. Wedi i'r brenin edfryd i Bown ei ystad, geiriau'r olaf, yn ôl Boeve 2459, yw: *ore me seysez; vostre merci, vos me avez feffé* 'chwi a rowch im adfeddiant; diolch i chwi, chwi a roesoich im estyn a meddiant'; yn *Bown* cyfwerthedd 'diolch i chwi' yw *duô a dalo it* 2857.

12. Yn ei ateb i Amustrai dywaid Escopart: *he jeo ne vos preyse la value d'un boton* 'oblegid ni roddaf arnoch bris bwtwm (corn)'; geiriau Copart yn y fersiwn Cymraeg yw: *ny rodôn i yrochchibi nac yr ych ffyd egroeffen* 2109; gw. B. 1888.

13. Chwanegir y cymal *val* y *mymnad duô* amryw droeon at fater y stori fel y'i croniclir yn Boeve. Wele ddwy enghraifft: (a) B 444 *en la goule overte ferist le sengler=ae vedzu val y mymnad duô nny sauyn* 452; (b) B 475 *deus en abata mort saunz nule demuraunce, e puis abati deus autres=ac val y mymnad duô ar hynt llad petbar o nadunt* 477.

14. Sail *clotuozus* 2912, fel y tybiaf, yw *deifex* 'deified; exalted; famous'; o *deifier* (Llad. eglwysig *deificare*) a gymerasai'r cyfieithydd yn lle *deifex* 'defied, challenged' Boeve 2503, un o ciriau milwriaeth y cyfnod.

15. Ymddengys i'r trosydd gamgymryd *alosez* yn *li alosez*, 'yr anrhydeddus', am *aloser*, pysgod adnabyddus ar fywrestri'r mynachdai Ffrengig (gw. n. ar 3433).

16. Yn Boeve 1243 ceir y darlenniad: *A deus! fet il . . .* 'A Dduw, medd ef'; yn *Bown* 1314-15 y mae gogwydd duwioldeb ffurfiol yn y man cyfatebol: *ac y dechreus lhediaô a dylbedut. oi a argloyd duô.*

17. Eto, yn 3305 o'r testun Cymraeg trewir ar *duô yr hôn an hreadd ath iacha(o) di vygharedic* lle ni welir dim sy'n cyfateb yn y testun Ffrangeg sydd ar gael.

18. Dirnadodd y cyfieithydd *enseignez*, Boeve 3032 'instructed in the use of arms' o'r AN *ensei(g)ner* 'to instruct' fel petasa'n dod o *seiner* 'to heal' (<*sanare*) a rhoes inni *iach a llathen*. Gw. n. ar 3476-7 am arfer yr urddau mynachaid o waedu er mwyn cadw'n iach.

19. Efallai mai duwioldeb y troswr a'i cymbellodd i liniaru ystyr *acrawant* yn *he mes en li creit, deu li acrawant!* 'y neba gredo ynddo mwyach, distrywied Duw ef!' a rhoi inni: *Y neb a gredadôd myôn hellyhydeu madeuit duô vdunt* 4168 (eithr gw. n.).

20. Yr un gostyngeddwrwydd duwiolfrydig, o bosibl, a barodd droi *e l'alme s'en va a dampneus* 3781 'a'r enaid a â at Dduw' yn *ac yd aeth yr enei y dzugared duô* 4295.

21. Ac onid oes nod duwioldeb mwy proffesyddol ar ciriau'r brenin wedi marw ei fab: *duô ath nertho* 3059 nag ar yr ebychiad *Sante Marie*, 'Fair Santaidd' a geir yn Boeve? Ceir hefyd *duô a dal(h)o it (yr)* wyth o droeon (gw. *Geirfa* d.g. *tal*) lle na ddigwydd yn Boeve ond ymadrodd cwrtais llyeg fel *grant merci* 255, *merci en zvez* 1951, 2443, etc. Dim ond gyferbyn â 3664 y gwelir *merci deu le grant*.

22. Nid annheilwng o sylw yn y cyswilt hwn efallai yw ddarfod i'r cyfieithydd wrth droi'n Gymraeg y gair a ddynodai'r foneddiges ieuanc a ganlynasai Bown o'r Dwyrain i Dre Fwlwyn yn Ffrainc—y gair *pucele*—ddewis o wahanol arlliwiau ei feddwl y puraf oll, sef, *mozlynlureic*, a thrwy hynny ddangos nid yn unig ei bryder am foesoldeb, eithr hefyd ei wybodaeth o'r cyfreithiau Cymreig (cf. *O deruyd roy moruyn e gur a heb kefchu hanthy* . . . *honno a geluuyr moruyngreyc* LIDW 29^a; cf. hefyd AL, I, 528). Efallai mai yma y dylid dwyn ar gof na throswyd i'r Gymraeg *Fiz a putetn* 'fab putain' (B 583) ar ôl ac y *dythot boin 6zihab* 597.

23. Noder hefyd yn arbennig yr anesmwythder a fynegir yn y testun Cymraeg wyneb yn wyneb ag ail briodas Bown. Yn *Boeve* 2973 y darlenniad yw *son ami privé* 'ei gyfaill preifat neu ?ei gyfeilles b'. Trosiad *Ystoria Bown* yw y *breic vleyaf a garei* yny y2 *amfer hōnnō hany bydat dim y 6zih iofian* 3419–21.

24. Pwynt arall sydd fel petai'n ategu'r dyb mai gŵr mewn urddau eglwysig oedd y cyfieithydd yw'r wybodaeth a ddengys o'r gyfraith ffwdal. Tystia ei drosiad o seremonïau dosbarthu tir a daear (2821–2857), er enghraifft, ei fod, debygid, mewn maes cyfarwydd. Y mae'r manylion yn dechnegol, megis yn achos y rhedegfa feirch (2871–2938) y soniwyd amdani, ond, yn groes i'r annibendod a ddigwydd yno, y mae'r cyfieithiad yn y fan hon yn glir a difai.

25. Efallai yr awgryma ei gynefndra helaeth â'r Hen Ffrangeg y mynach yn hytrach na'r offeiriad plwyf. Ymddengys yr addysgid y ddau drosbarth yn ysgolion y mynachlogydd, ond deuai cwrs yr offeiriad plwyf yn y mynachdy i ben lawer ynghynt na chwrs y llall, a chât o'r herwydd lai o gyfleusterau i ymberffeithio yn iaith y Normaniaid. O'r tu arall, yn y Deau, yn y drydedd ganrif ar ddeg, o Henffordd i Ddyfed, treuliai'r mynach o Gymro ei oes gyda chyttywyr a lefarai'r Anglo-Normaneg yn feunyddiol ac a'i defnyddiai fel cyfrwng llenyddol. Yr oedd Ross a Credenhill yn Erging yn ganolfannau hysbys am eu cynhyrchion llenyddol Anglo-Normaneg a thraddodwyd o'r cyfnod hwnnw i'r oes hon ddarnau o ddwy gan grefyddol o waith Simon de Keruethin¹ (Caerfyrddin).

Troir ein meddyliu at y mynachdy hefyd gan y camgyfieithiad o *alozex* uchod.

Ar ôl hyn gellir yn hyderus dynnu'r casgliad mai gŵr mewn urddau eglwysig oedd y cyfieithydd a'i bod hefyd yn debyg mai mynach oedd.

(iii) *Mynach hefyd, dybion i, oedd y copiwyrr; dyna, beth bynnag, oedd yr olaf, yn lled sicr, fel y cawn wled.*

Os caniateir mai Deheuwyrr a mynach oedd y gŵyr hyn, o ba leodd yn y Deau y deuent?

1. Os o anghynefndra â'r terfyniad Gwenthwyseg -at (am -et), fel yr awgrymais, y newidiwyd y *belat* yn y *bylat* 3128 ac a *at venat* yn a *atbanat* 3597, nid tebyg mai gŵr o Wlad Gwent neu Forgannwg oedd

¹ Gw. Johan Vising, *Anglo-Norman Language and Literature* (Oxford University Press, 1923), II, 15, 43, 46, 56.

y diwygiwr. Oblegid hynny, ymddengys nad un o'r Gwennwys a sgrifennodd y copi o *Ystoria Bown* a geir yn *Llyfr Gwyn Rhydderch*. Daeth rhywun ar ei ôl ef, a gellid tybio mai'r sawl a dorrodd a *thunnu* 159, *ryfugus* 1572, *goleidi* 3585, etc., oedd nid yn unig y nesaf ond hefyd yr olaf a fu wrth y gorchwyl, canys anodd credu y gadewsid y ffurfiau anarferol hyn i aros o dan ddwylo neb arall, (troes y LIC hwynt yn a *thynno*, *ryuugus*, *góladoed*, etc.). Yna, os yw *tunnu*, *ryfugus*, etc., yn ffurfiau tafodieithol dilys, prin y gellir ymwrthod â'r casgliad mai copiwr a siaradai iaith Canolbarth Dyfed biau'n hadysgrif hynaf; ac os oedd y gŵr hwnnw yn dwyn urddau yn ei fro ei hun (y dyb fwyaf naturiol), yn un o dai crefydd Dyfed neu'r cyffiniau, nid amgen, y Tŷ Gwyn ar Daf, Llandudoch, neu Aberteifi yr ysgrifennwyd copi Peniarth 5 o *Ystoria Bown de Hamtun*.

2. Nid y testun a ddyrr Peniarth 5 oedd yr un a ddaeth allan o ddwylo'r cyfieithydd; yr oedd hwnnw mewn orgraff amgen ac yn hŷn o hanner can mlynedd (gw. isod). O dan raid, gellid tybio mai'r memwrn a inciwyd o dan lygaid y cyfieithydd ei hun oedd cynddelw'r *Llyfr Gwyn*. Pe credid hynny, buasai'r rhaid casglu bod y gweithiwr cyntaf a'r ail wedi etifeddu gwir athrylith i lygru, oblegid anodd dychmygu dim mwy llwgr na rhai rhannau o *Ystoria Bown*. Na, nid yw'n debygol y cynhyrchid cymaint o feiau ag a geir heddiw yn y testun mewn dau drosiad. Tebycach peth yw i *Bown* gael copiwr arall, ac o bosibl ddau, rhwng dydd ei greadigaeth a'r dydd y daeth i ddwylo gwneuthurwr Peniarth 5. Hanoedd un o'r copiwyrr hynny o leiaf o Went neu Forgannwg fel y tystia'r ffurfiau o'r Wenthwyseg a ddyfynnwyd uchod. Gellid dal, wrth reswm, bod y ffurfiau hyn yn y testun gwreiddiol, eithr os oeddynt, a ydyw hi'n debyg y cedwid hwy mewn trosiad newydd gan neb onid gan lefarwr y Wenthwyseg?

3. Yn ôl hyn, Dyfed oedd gwlad copiwydd *Ystoria Bown* Peniarth 5 a bu a fynno un neu fwy o'r Gwennwys â'r copïau blaenorol. Os felly, onid yn Nyfed neu'r Hen Forgannwg rhwng Glannau Tawe yn y Gorllewin a Glannau Wysg yn y Dwyrain y dylid chwilio am fro enedigol y cyfieithydd? Yn yr haen nesaf i'r wyneb yn y traddodiad ysgrifol y gorffwys llafar-ddulliau Dyfed, ond ymguddia hynodion tafod y taleithiau De-Ddwyreiniol mewn haen ddyfnach. Ymddengys ei bod yn dilyn i'r stori fodoli ar ferwrn yn yr Hen Forgannwg cyn iddi dreiglo i dueddau'r Preselau. Y ffosiliau Gwenthwyseg yw'r nodweddion tafodieithol hynaf a ddengys y testun y tu mewn i ffiniau'r Ddeheubartheg a dychon yr â'r rhain ymhell yn ôl, efallai mor bell yn ôl â'r gwreiddiol ei hun. Yn wyneb hyn, nid afresymol meddwl y gallai'r cyfieithydd yntau hanfod o'r Hen Forgannwg, tyb a gadarnheir, mi gredaf, gan ystyriaethau a grybwyllir yn nes ymlaen.

4. Un o nodweddion *Ystoria Bown* yw'r aml fenthyciadau Ffrangeg yn yr eirfa. Ceir yno ugeiniau ar ugeiniau ohonynt a'r mwyafrif wedi eu cymryd drosodd yn gorfforol o'r gynddelw Anglo-Normaneg, fel y dengys *Boeve*: *bilein* 715, 766 (*velein*); *byfant* 1450 (*besant*); *cited* 653, 899 (*cites*); *danyr* 1855 (*deyme*); *uot* 1046 (*route*); *fulon* 16th 2663 (*fulon gloton*); *p2ofanayr* 1065 (*provendre*); *foler* 1064 (*soler*); ac *nyz gozf fo*

a . . . 404 (*Honi seit de son cors hi . . .*); *ef ath ledir* 2583 *am ef ath ledjir* (*I'm vus legera*); etc.; etc. Cyfreithlon tybio felly bod y cyfieithydd yn byw mewn cyswllt agos â'r sefydliadau a arferai'r Anglo-Normaneg yn nhrefodaethau bywyd beunyddiol, nid amgen, y mynachlogydd, yr ysgolion, y cestyll, etc., a geid ar yr arfordiroedd o Went i Benfro. Y mae mor amlwg â hynny bod y gwyr a'r gwagedd y lluniwyd y cyfieithiad er eu difyrwrch eisoes yn gynefn â'r geiriau Anglo-Normaneg hyn. Yn wir, ni welodd y cyfieithydd fod angen esbonio ond un o'r termau estron,— *dromónt*: *dromónt sef yó hynny llog diruabz y meint* 354; *a gauas llög va62 a elóit dzomónd* 3177.

5. Er gwaethaf amryw ddarlleniadau digon beius (ffrwyth esgeulus-tod, cysgadrwydd, etc.), ac er gwaethaf cynnig yr Almaenwr Stimming i'w ddifenwi,¹ dangosodd y cyfieithydd fel rheol wybodaeth dda o'r iaith Anglo-Normaneg a throsodd y rhan fwyaf o'r stori gyda graen meistr.

6. Os yw'n gywir iddo adael i ciriau Saesneg godi i'w ymwybod wrth gyfieithu geiriau Anglo-Normaneg yn 2829, 3513, a 4168 (gw. ar 4168), y mae'n dilyn y gwyddai'r awdur beth Saesneg.²

7. Yr oedd yn feistr diamheuol ar yr iaith Gymraeg.³

(iv) *Ymha un o'r taleithiau crybwylledig y ceid trigfan mwyaf tebygol mynach a feddai ar y gwybodau hyn?*

Gellid dal bod Dyfed yn gweddu'n burion. Onid oedd yno gestyll niferus a mawrion, mynachlogydd enwog, ac, yng ngwaclod y wlad, ddigon o Saesneg? Gallasai'r ffosiliau Gwenhwysog dreiddio i'r testun yn ddiweddarach mewn copi a wnaethid ym Morgannwg neu Went ac i hwnnw, o ddamwain, ddyfod i ddwylo'r copiwr o lechweddau'r Preselau.

Nid ambosibl y golygiad, eithr nid ymddengys mai ef yw'r tebycaf, oblegid os niferus cestyll Dyfed, mwy lluosog fyth cestyll yr Hen For-gannwg; amlach hefyd ei mynachlogydd a'i hysgolion. Am Saesneg, gallasai'r cyfieithydd ddysgu'r hyn a wyddai (ni wyddys faint oedd), oddi wrth gytgywyr o Saeson a geid, y mae'n debyg, draw ac yma yn mynachdai Cymru Anglo-Normanoid megis y mynach rhyfedd hwnnw a geisiodd yn Saesneg ddefro cydwybod Harri'r Ail Ffrangeg ei dafod yng Nghaerdydd yn 1172.⁴

O bwysio'r ystoriaethau uchod oll, ymddengys yn debycaf peth mai brodor o'r Hen For-gannwg yn rhywle oedd y cyfieithydd ac i'w drosiad ar ôl ei gopio yn ysgrifenydd y fro honno unwaith neu ddwy dreiddio i'r Gorllewin a dyfod o dan lygaid rhyw hen fynach a'i copiodd er ei bleser ei hun neu ar arch rhywun arall yn y llawysgrif a ffuria ers rhai canrifoedd ran o Peniarth 5 yn *Llyfr Gwyn Rhydderch*.

¹ Gw. §14, (iii).

² Gw. §12(b), (vi).

³ Gw. §14, (v).

⁴ Giraldus Cambrensis, *Itinerarium Cambriae*, c. vi.

§7. DYDDIAD

(i) Gwelsom ddarvoud ysgrifennu copi Peniarth 5 o *Ystoria Bowan*, y llawysgrif hynaf o'r testun y gwyddys amdani yn Gymraeg, tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg, a'i bod, yn ôl pob tebyg, beth yn iau o ran diwyg ysgrifol na'r copiau o'r *Pedeir Keinc*, *Peredur*, etc., a geir yn Peniarth 4.¹ Eithr nid yn niwedd y drydedd ganrif ar ddeg y cyfieithwyd *la Geste de Bouan de Hamtone* i'r Gymraeg, canys fe geir olion yn orgraff rhai geiriau yn nhestun y *Llyfr Gwyn*, geiriau Ffrangeg yn ogystal â geiriau Cymraeg, a'n dwg yn ôl yn bendant lawer o fynyddoedd.

(ii) *Olion Hen Orgraff*

Rhoddir rhestr go lawn o'r olion dan *Orgraff* (§15-18). Ystyriar yn gyntaf dystiolaeth y llawysgrifau Cymraeg.

(a) *Y Llafariaid*

1. *e am y dywyll* [oe]

Ceir esiamplau o'r arwydd Hen Ffrangeg hon eisoes yng ngeiriau Cymraeg *Leges Howel Da*, P28 (XII²). Heigiant yn *Llyfr Du'r Waun* (c. 1200-1230). Digwydd dwsin a hanner yn *Llyfr Du Caerfyrddin* (yn *Englymion y Beddau* ac ar dd. 72 a 75). Rhoddaf isod gyfartaledd *e* i y fel llythreniad y *dywyll* ar sail detholion o destunau a berthyn, yn ôl Gwenogfryn, i hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg.²

	<i>e</i>	<i>y</i>
L11 (ail chwart. XIII)	34	15
P6, Rhan I (<i>Manawydan</i> , 'c. 1235) ³	35	65
P14, 1-90 (canol XIII)	428	262
P17 (canol XIII)	61	96
BM5 (canol XIII)	42	17
P6, Rhan I (<i>Branwen</i> 'c. 1235) ³	42	48
P44 (XIII ¹)	58	26
P16, 45 ^a -49 ^b (canol XIII)	53	24
BM4 (canol XIII)	44	15

Os gellir pwysio ar y dyddiadau hyn, yr arwydd Hen Ffrangeg *e* oedd y symbol fwyaf boblogaidd am y *dywyll* yn ystod rhan gyntaf y drydedd ganrif ar ddeg a hi oedd fwyaf ei bri yng nghanol y ganrif (797: 568). Erbyn diwedd y trydydd chwarter, serch hynny, ymddengys i y gael yr oruchafiaeth. Dyna, o'r hyn lleiaf, yw tystiolaeth dwy lawysgrif, nid amgen:

	<i>e</i>	<i>y</i>
BM 6 ('c. 1282')	30	50
BM 10 ('c. 1285')	0	52

¹ §4, (iii) & (iv).

² *Reports on MSS . . . passim.*

³ Yn *Reports on MSS . . .* I, 11, t. 316 (1899), yr amseriad a rydd Gwenogfryn yw 'circa 1225', dyddiad a newidiodd yn 'about 1235' yn *The White Book . . .* (1927). Yn wyneb hyn, onid rhyfedd fod ysgolheigion diweddar yn dal i ddyfynnu'r dyddiad gyntaf yn hytrach na'r farn aeddfach a gynigiodd Dr Evans?

2. *e* am y *eglwur* [y]

O enghreifftiau o *e* am y *eglwur* ni ddyry 1^a a 1^b *Llyfr Du'r Waun* ond hanner dwsin; nid yw cyfran 15^b namyn 10 *e* wyneb yn wyneb ag 20 *y*; o'r tu arall, y mae'r rhifedi ar 17^a (sydd yn yr ysgrifen fân) yn 20 *e* yn erbyn 4 *y*. Cyfarledd *e* i *y* am y sain hon yn netholion Gwenogfryn o lawysgrifau hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg yw'r canlynol:

	<i>e</i>	<i>y</i>
Ll 1	...	24
P17	...	22
BM5	...	8
P6, 1 (<i>Branwen</i>)	...	18
P44	...	22
P16	...	3
P6 I (<i>Manawydan</i>)	...	26
BM4	...	7
P14	...	85

Yn chwarter olaf y ganrif y mae BM6 ('c. 1282') yn dangos 2 esiampl o *e = y* *eglwur* ar ffo. 1 ond cymaint â 9 yn y saith llinell a roir o ffo. 62. O'r tu arall, yn BM10 ('c. 1285') ni threwir yn y detholion ar yr un enghraifft o *e* gyda'r gwerth hwn.

Nid yw *e* am y *eglwur* yn nodweddiadol o'r ddeuddegfed ganrif a dechrau'r drydedd ganrif ar ddeg, yn ôl Loth,¹ oddieithr pan drawer arni yn *fynych*. Pa fodd bynnag am hynny, dengys y cyfrifon uchod, gydag ambell eithriad (sydd efallai i'w esbonio drwy gopïo peiriannol) ddarfod i *e* am y *eglwur* gollu ei bri ynghynt nag *e* am y *dywyll* a bod serch ysgrifenydd wedi hen droi at y fel arwydd amdani cyn canol y drydedd ganrif ar ddeg.

3. Y nodiant am *w* [u ac y]

Arferir yr *u* Gymraeg-Normaneg am *w* yn rheolaidd yn *Llyfr Llandaf*, *Llyfr Du Caerfyrddin*, *Llyfr Du'r Waun* a cheir hi ar raddfa eang yn llawysgrifau hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg lle digwydd hefyd arwyddion eraill. Pan groeser canol y ganrif tuedda rhifedi'r enghreifftiau o *u* am *w* fynd yn lleilai o dan wasg cystadleuaeth ei ffurfiau newydd, *w*, *ô* (anodd gwahaniaethu rhwng y rhain yn P3/1 a llsgrau cynnar) ac *û*, yr arwydd gymhleth a fenthycwyd o'r ysgrifen ddiplomatig Anglo-Normanaid yn ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg. Os o'r un ysgrifen, fel y credaf, y cymerwyd *ô*, ni eill y llawysgrifau a'i dengys yn ei llawn dwf fod nemor yn hŷn na diwedd y trydydd chwarter. Wele rai cyfrifon a wnaethpwyd ar sail y detholion yn y *Reports on MSS. in the Welsh Language*:

P.3 ('c. 1230-50')	...	u=35
P.61 ('c. 1235') <i>Bran. a Man.</i>	...	u=5
P.14 (Canol XIII)	...	u=154
P.16 "	...	u=25
P.17 "	...	u=54

¹ Joseph Loth, *Les Manuscrits* (Paris, 1913), I, t. 20.

P.3	ô=20	û=5	o=5	v=2
P.61	ô=113	û=14	o=0	v=0
P.14	ô=10	û=370	o=1	v=152
P.16	ô=4	û=30	o=1	v=4
P.17	ô=6	û=51	o=0	v=15

Dyna ni, fodd bynnag, yn ôl yng nghymogaeth canol y ganrif.

(b) Y Cytseiniaid

Â'r cytseiniaid â ni yn ein holau i'r un cyfnod heb roi arnynt drais yn y byd (gw. §15-18):

1. *t* am [ð]: BB *oet* 2.9 *llat* 4.1, *diuet*, *deunit*, 4.9, etc.; LIDW *argluit* 1^a, *neuat*, *penkynyt* 3^a; etc.

2. *ff* am [v]: BB *gaffalon* 26.6, *godoff* 28.7, *ioff* 42.13, etc.; LIDW *eff* 10^a(2), 21^b, *effo* 22^b, *arnaff*, *retenaff* 16^a (*Marwnad Llywelyn* † 1240).

3. *w* am [v]: BB *arywderit* 4.8, *gowanon* 6.6, *awon* 6.7, etc.; LIDW *ketwreu* 17^a, *effew*, *ew* 20^b; etc.

(iii) Dyry'r geiriau Ffrangeg hwythau help dibetrus inni yn ein hymchwil.

Digwydd yn *Ystoria Bown* ugeiniau o ciriau Ffrangeg a droswyd o'r manau lle'r oeddynt yn y gerdd Anglo-Normaneg i'r lleoedd cyfatebol yn y cyfieithiad Cymraeg, geiriau y dyry eu seing oleuni go bendant ar yr amser y cymerwyd hwy drosodd.

Wele'r pwyntiau a haecda'r sylw pennaf:

1. Cadwyd *-d* yn *cited*: *petbarcant cited* 653 (B 639 *quater cent cités*), *trychant cited* 899 (B 861 *treis cent cités*), ffurf a ddatblygasai erbyn amser y *Llyfr Coch* yn *cit(t)ei*. Gan mai enwau lluosog a ddaw ar ôl y rhifolion yn Ffrangeg (gw. uchod), ac y geilw'r Gymraeg am y rhif unigol (cf. *trychant gŵely* 3752; *pumpcant marchaôc* 2202, 2247), yr oedd y cyfieithydd o dan orfod i atgynhyrchu'r ffurf unigol gyfoes i'w rhoi yn ei destun wrth ei chymryd drosodd. Yr unigol a luniodd oedd *cited* gyda'r hen *-d* (nid y *cite*, *cit(t)ei* diweddarach). Yr oedd y *-d* hon, felly, yn arwydd fywiol yn y cyfnod y cyfieithwyd y stori. Yn anffodus, y mae dau esboniad yn bosibl:

(a) Os *d[=ð]* sydd yma, geill *cited* fod mor gynnar â chanol y ddeuddegfed ganrif, y cyfnod, yn fras, y dechreuodd y ddeintol *t, d[=ð]* gollu yn yr ynganiad; ond gan ddarfod cadw *t* a *d* am lawer o flynyddoedd wedyn yn yr orgraff, dichon nad yw *cited* yn gynharach na diwedd y ganrif neu ddechrau'r un ddilynol.

(b) Yn Anglo-Normaneg er y trydydd traean o'r ddeuddegfed ganrif ceir *-d* yn cyfleu'r *z (=d+s)* a arferir yn Ffrangeg Ffrainc yn mynegiant y cyflwr enwol unigol. Felly, yn nhestunau Hen Ffrangeg Prydain yn lle *abez* (*abed+s*), *vertuz* (*vertud+s*), *citez* (*cited+s*), etc., ceir *abed*, *vertud*,

cited, gyda *-d* galed (yr oedd *-z* wedi caledu'r *-d* = δ). Gwelir yr enghreifftiau hynaf yn y *Psautier de Cambridge* (c. 1160); ceir eraill yn y *Psautier d'Arundel* (c. 1160-1170). Erbyn diwedd chwarter cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg aetha'r arfer yn boblogaidd a chawn esiamplau yn *Robert de Gretham* (1230), yn *Edward le Rei* (ar ôl 1237), yn *Boeve* (XIII¹); etc. Y mae *-ed* am *-ez* yn y berfau yn fwy cyffredin fyth.¹ Treiddiodd rhai geiriau Anglo-Normaneg gyda'r *-d* galed hon am *z* unigol HFF Ffrainc i'r Gymraeg; e.e., *lled* 'breadth' o *led* (= *lex* < *latus*; gw. Godefroy dan *le*); *llaid* 'mud, etc.' (= *lais* 'alluvium'; gw. Ste-Palaye dan *lais*); ? *pryt* (*pretio terre*) P 28, AL, II, 766, *pryt* ib., id., 884 (= *pris*, *prez*; etc.)

2. Ceir *aln* am *an*: *trualnt* 281, etc.; *baligraunt* 1636; *mombraunt*² 1999, etc. Daw'r sillafiad *aun* am *an* i'r golau yn Anglo-Normaneg yn nechrau'r drydedd ganrif ar ddeg.³

3. Gwelir *oln* am *on* yn *doñ* 2612, ond *don* 2277, 2295, 2737; tebyg hefyd y dylid darllen *ffavobneyt* (B3222 *Favons*) yn lle *ffabobneyt* 3691 (gw. n.). Yn Anglo-Normaneg yr enghreifftiau hynaf sy'n hysbys o *oun* am *on* yw eiddo'r *Apocalypse* (c. 1240), Coleg y Drindod, Caergrawnt; ceir eraill tua chanol y ganrif yn *Amis et Amiloun*, Coleg Corff Crist yn yr un brifysgol. Mynnai Stimming (*Boeve*, 191) y ceid esiamplau o *oun* ar ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg, ond dangosodd Vising fod hynny'n amryfus.⁴

4. Os benthg o'r AN yw *truals* (amr. ar *trace*, *trasse* Ffrainc, gw. n. ar 3414), ni ellir mynd ymhellach yn ôl na Robert de Gretham (tua 1230), oblegid yn *Les Évangiles des Dompnées* y ceir yr esiampl hynaf o *au* yn lle *a* o flaen *s*.

5. Colodd *s* yn *leicetre* 3013 (LIC *leyceftyr*), coll sy'n dyddio o hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg.⁵

6. Trewir ar *on* am *aun* (< *an* < *en*) yn *yfonder(d)* 573, 583, *stonder* 530, *yfonderdōz* 606, orgraff AN a ddaw i sylw amlwg ym mlynnyddoedd cyntaf ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg.⁶

Pwyntia'r ystyriaeth o'r olion orgraffyddol a geir yn y llawysgrifau Cymraeg, fel y gwelwom, at ganol y drydedd ganrif ar ddeg, dyddiad a gadarnheir gan amseriad y *-d* Anglo-Normaneg am *d* galed yn *cited*, etc.⁷

¹ Cf. *Zeitschrift für Romanische Philologie* I, t. 570; L. E. Menger, *The Anglo-Norman Dialect* (New York, 1904), t. 122; F. J. Tanqueray, *L'Évolution du Verbe en Anglo-Français* (Paris, 1915).

² Gw. *Orgraff*, §16, a, 3.

³ J. Vising, *Le Purgatoire de Saint Patrice* (Göteborg, 1916), t. 53.

⁴ J. Vising, *Le Purgatoire* . . . t. 57.

⁵ Gw. *Orgraff* dan 1.

⁶ D. Behrens, *Beiträge zur Geschichte der französischen Sprache in England* (Heilbronn, 1886), t. 78; O. H. Prior, *Cambridge Anglo-Norman Texts* (1924), tt. xxii, xxiii.

⁷ Gw. §7, (iii), 1.

O'r tu arall, dengys *yfonder(d)*, etc., y dylid tynnu'r dyddiad beth yn nes i lawr,¹ eithr rhybuddir ni gan brinder yr enghreifftiau o *oln* am *on* na ddyldid dyfod i lawr fwy na mwy i ail hanner y ganrif (talfyriad o *bohun* yw *boun* > *boln*). Yn wyneb hyn oll, gellir casglu ddarfod *troi la Geste de Boun de Hamtone* i'r iaith Gymraeg heb fod yn hir wedi canol y drydedd ganrif ar ddeg.²

II. PERTHYNAS Y CYFIEITHIAD CYMRAEG A'R GESTE DE BOUN DE HAMTONE

§8.

(i) Er i'r awdur gymryd y drafferth i lunio dau ddechrau i'w lyfr (gw. §10. (a), (i), 1., 2.), ni ddywaid ddim yn y naill na'r llall am y ffynhonnell y tynnodd ci fater ohoni. Ni cheir ychwaith sôn am hynny nac ar derfyn nac ynghwrs ei waith. Weithiau yn yr oesoedd canol cawn y cyfieithwyr Cymraeg fel Gruffudd Bola a Madog ap Selyf yn Peniarth 5 yn rhoddi eu henwau eu hunain, enwau eu noddwyr, a'r iaith y troent ohoni. Bryd arall, megis cyfieithydd *Cân Otuel* yn Peniarth 9, ymfodlonent ar grybwyll yr iaith wreiddiol yn unig. Yna eto gwelir eraill, yn debyg i drosydd *Perceval le Gallois* (*Perlesvaus*) yn *Y Seint Greal*, yn bradychu'r gyfrinach mewn gair damweiniol fel *na vit drave gan darlleodron y llyfyr hwnn yr na metruyfi gaffael henweu kymraec ar y rei ffrenghic*.³ Eithr y mae genau awdur *Ystoria Boun de Hamton* wedi eu selio â saith sêl. Nid oedd ei enw ei hun, fel y gwelwom, o bwys llenyddol ganddo, ac os meddai ar *noddwr*, y tebyg yw fod hwnnw yn perthyn i'r un urdd ag yntau ac mor ddiabris ag yntau o glod y byd hwn. Yn yr amgylchiadau hyn nid oedd alw moesol yn y byd am gyhoeddi'r ffynhonnell. Heblaw hyn, yr oedd *la Geste de Boun de Hamtone* ar raglen y *jongleurs* yn Lloegr Anglo-Normaneg o leiaf er dechrau'r ganrif, a diau ddarfod eisoes ei chanu droeon 'ar beraid dant' yng nghestyll Anglo-Normanaid Deheudir Cymru a'r Gororau.

¹ Gw. §7, (iii), 6.

² Am oed llagr. YBH y LIG, gw. §4, (iv).

³ Os cynigiais yn *Tram. Cymru*, 1919-20, t. 49, ganol y ddeuddegfed ganrif fel amser cyfieithu YBH, bu hynny o roi gormod goglyd ar yr esboniad a roddaf yn §7, (iii), 1 (a), (b). Galledd, mae'n wir, alw *macdyf* (2564) i ategu'r ddeddf cymhar fel y gwelwom i'w *macdyf* yn awr ac yn y mun ac y gallai gyfrif yn yr odl yn hir wedi i'r *-f* ddiplannu o'r iaith lafar; cf. *macdyf* WM, 387; *makwyveit*, ib. 622; *macdyf* P 14 (WM, 290); *macdyf* WM, 640; etc. Ceir y ffurf heb *-f* bumwaith yn YBH.

⁴ Robert Williams, *Selections from the Hengwrt MSS, Preserved in the Peniarth Library*, Vol. I, *Y Seint Greal* (London, Thomas Richards, 1876); Vol. II, containing *Campes Charlymaen*, etc. (London, Bernard Quaritch, 1892); cf. Vol. I, t. 174.

Anodd gwybod pa mor hir y cadwyd yn fyw y cof mai cyfieithiadau o'r Ffrangeg oedd *Ystoria Bown*, y *Seint Greal*, etc., oblegid nid yw'r cyfieithiadau atynt a ddigwydd yn ein barddoniaeth¹ yn profi dim namyn bod y beirdd yn gynefn â mater y storiâu.

(ii) Darllenwyd, copiwyd, a chyfieithwyd y chwedl am Bown yn y cyfnod canol led-led Ewrob. Byddai trafodaeth lawn ar ei ffurfiad a'i lledaeniad allan o le yn y fan hon. Digon yw dywedyd y cytunir yn weddol gyffredinol i rannu'r amryfal ffurfiâu sydd ar glawr yn dri dosbarth, sef yw'r rheini, y ffurfiâu Anglo-Normaneg, y ffurfiâu Ffrangeg cyfandirol, a'r ffurfiâu Eidaleg. Astudiwyd perthynas y gwahanol destunau Eidaleg a dangoswyd eu hansawdd arbennig yn gynnar gan Pio Rajna.² Datrysodd Albert Stimming y berthynas rhwng y llawysgrifau Ffrangeg cyfandirol a'i gilydd a phroffodd eu dibyniaeth ar y cyfansoddiadau Anglo-Normaneg.³ Am y cyfansoddiadau mewn ieithoedd eraill, nid yw'r rheini namyn trosiadau o un neu arall o'r tri dosbarth rhag-ddwywedig. Ffurfiâu Anglo-Normaneg yw cynddelwau'r cyfieithiadau Cymraeg, Saesneg, Norwyeg,⁴ a Gwyddeleg.⁵ O destun Ffrangeg cyfandirol y tardd y stori yn ei ffurf Isdireg.⁶ O un o'r ffurfiâu Eidaleg y trowyd y gweithiau Rwsseg ac Iddew-Almaeneg⁷ a'r olaf yw sylfaen y trosiad Rwmaneg.⁸ Cadarnheir poblogrwydd y stori yn y gwahanol ieithoedd hyn gan fodolaeth niferus llawysgrifau.

(iii) Eugen Kölbing yn ei *Ragymadrodd* a'i *Nodiadau* i'w argraffiad o *Sir Beues of Hamtoun* ac yn ei *Studien zur Beuzisaga* oedd y cyntaf, mae'n debyg, i ddangos agosrwydd y cyfansoddiadau Saesneg, Cymraeg, a Norwyeg i'w gilydd ac i edrych arnynt fel trosiadau o'r gân Anglo-Normaneg. Yn ddiweddarach aeth Albert Stimming dros yr un tir ac ar ôl neilltuo pennod helaeth i astudio nodweddion gwahaniaethol y tri chyfansoddiad tynnodd yntau yr un casgliad. Yr ysgolhaig olaf hefyd biau'r clod am arddangos nad yw'r un o'r tri chyfieithiad yn hollol unwedd a'r ffurf Anglo-Normaneg sydd yn awr ar gael, a bod yn ofynnol tybio cynsail coll arbennig yn yr iaith honno i bob un o'r tri. Myn Stimming hefyd fod y cyfansoddiad Hen Saesneg yn delweddu ffurf hynaf yr arwrgerdd a bod y trosiad Norwyeg yn fwy cysefn na'r ffurfiâu

¹ Cf., e.e., gyfeiriadau Guto'r Glyn at y *greal* yn *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. Ifor Williams a John Ll. Williams (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1939), t. 304.

² Pio Rajna, *Ricerche intorno ai Reali di Francia* (Bologna, 1872); *Zeitschrift für romanische Philologie*, XI (1887), XII (1888), XV (1891).

³ Albert Stimming, *Das gegenseitige Verhältnis der französischen gereimten Versionen der Sage von Beuve de Hamtoun*, Toblerband (Halle, 1895).

⁴ Eugen Kölbing, *Sir Beues of Hamtoun*, EETS, 111 (1894); *ibid.*, *Studien zur Beuzisaga* (1894); Albert Stimming, *Der Anglonormannische Boeve de Hamtoun* (Halle, 1899).

⁵ F. N. Robinson, *The Irish Life of Bevis of Hampton*, *Zeitschrift für celtische Philologie*, VI, (1908).

⁶ Gustav Brockstedt, *Florent-Studien*, (Kiel, 1907).

⁷ Christian Boje, *Über den Altfranzösischen Roman von Beuve de Hamtoun*, (Halle, 1909).

⁸ *Gröbers Grundriss*, II, (1901).

Cymraeg ac Anglo-Normaneg, ffurfiâu a ystyrta ef yn gyfoed o ran defnydd eu gwedd.¹ Amheuir blaenoriaeth y ffurf Saesneg gan Boje.² Gan y gŵyra *Sir Beues of Hamtoun* gymaint o ran mater oddi wrth y ffurfiâu Norwyeg, Cymraeg, ac Anglo-Normaneg sydd yng nghadw, gorau peth, yng ngolwg Boje, fyddai ystyried y cyfansoddiad Saesneg fel cynrychiolydd cynsail Anglo-Normaneg neilltuo nas ceir mwyach. Eithr ni fyn ef gredu fod y cynsail coll hwnnw'n hŷn, ac nid awgryma ei fod yn iau, na'r ffurfiâu a draddodwyd yn y tri chyfieithiad arall.

Dangosodd Stimming ymhellach fod y fersiwn Cymraeg, nid amgen, yr *Ystoria Bown de Hamtoun* a brintir isod, yn dilyn y patrwm Anglo-Normaneg yn dynn,³ dedfryd a dderbyniaf fi yn ddiwarafun ac un a gadarnheir gan gannoedd o gymariaethau a welir yn *apparatus criticus* yr argraffiad hwn.

(iv) Cyn sôn am y gwahaniaethau yn nefnydd y chwedl yn Gymraeg ac Anglo-Normaneg rhaid dywedyd gair am y gwahaniaeth sydd rhyng-ddynt o ran ffurf lenyddol. Ar fesur cerdd y mae'r stori Anglo-Normaneg; mewn iaith rydd y gwedyd y chwedl Gymraeg. Nid damwain mo hyn ond adlewyrch cywir o wahaniaeth sylfaenol yn arferion llenyddol Cymru a Ffrainc yn yr oesoedd canol. Ar gân yr adroddid gwrogaempau arwyr chwedlau'r byd Ffrengig ac ar gân hefyd hyd ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg y traethid gorchestion a ffeithiau hanes. Ar diroedd Ffrainc ni fynnai bonedd yr iaith Ladin weled yr iaith gyffredin yn ymbincio yng ngwisgoedd rhyddiaith. Yng Nghymru, i'r gwrthwyneb, rhyddiaith, gydag ambell englyn i dorri ar yr undonedd, megia yn *Kulhwch a Math*, fu cyfrwng mynegiant y chwedl er yn gynnar.⁴ Ar diriogaeth Cymru gwaharddai'r traddodiad barddonol i'r beirdd gymhwys cerdd dafoed ond at *genres* penodedig; a diau y gwrandawari beirdd Cymraeg traddodiadol ar ganu'r *jongleurs* Anglo-Normaneg a arferai fesurau cerdd at bob dim gyda'r un syndod ag y gwrandawari cyfoeswyr D. ap Gwilym ar y 'Telynuau, lliidiardau ledr!⁵ a cherddorion clasurol yr oes hon ar ganu *jaez*. Peth tebygol arall yw fod y Lladin o lai dylanwad yng Nghymru nag mewn gwlad fel Ffrainc lle defnyddid iaith feunyddiol a ystyriai'r gwyr eglwysig fel ffurf lygredig ar Ladin.

Yr oedd y bwrdd llenyddol a arlwyid gerbron dynion yn y ddwy wlad, nid yn unig yn wahanol, eithr yr oedd y dulliau o hullo'r bwrdd, fel petai, yn wahanol hefyd. Datgeiniad a ganai gyda'r crwth (*voile*) oedd *jongleur* y *chansons de geste*. Yn epillog ei gân, canmolai ei fater a bychanai gerddi eraill (cf. ddechrau *Cân Otuel*, YCM,² 43) a chawn ef droeon ynghwrs ei orchwyl yn annerch ei gynulleidfa. Pan drawai ar bwynt neu syniad diddorol traethai ef gyda blas mewn un pennill

¹ A. Stimming, *Der Anglonormannische Boeve de Hamtoun*, tt. cxlix et seq.

² Christian Boje, op. cit., t. 16.

³ Cf. Stimming, op. cit., tt. lxxvi et seq.

⁴ Gw. J. Loth, *Les Mabinogion*, I, tt. 32-33.

⁵ Gw. *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym*. Cywydd cxxxix. Cred Thomas Parry nad gwaith Dafydd mo'r cywydd hwn ac nis cynhyrsoedd yn *Gwaith Dafydd ab Gwilym*.

ac yna adroddai ef drachefn yn y nesaf, megis cerddor mewn cainc o gerdd yn dychwelyd o hyd at ryw gordiau pŕ. Yna, pan fyddai'r stori yn dechrau rheibio'r dorf ac yn cyflym symud tua'i chyffro mawr, torrai'n sydyn ar ei chwedl, a chan fanteisio ar yr hud, galwai am daledigaeth y gwobrwy. O'r tu arall, adroddwr, neu'n well, efallai, darlennydd yn debyg i draethwr *Breudwyd Ronabwy*¹ oedd y bardd neu'r cyfarwydd Cymraeg. Ni chanaï glodydd ei chwedl; ni chyfarchai ei wrandawyr; nid oedd yn 'dyblu'r gân'; ac ni ofynnai am ei gyflog yng nghlyw'r bobl. Mewn gair, math o faledwr uchelwch oedd y cyntaf; yr oedd yr ail wedi dysgu tawedogrwydd a phellter cwrtais y boneddigon.

Eto, yn y *genre* Hen Ffrangeg fe adroddir yr anturiau yn llac a hir-wyntog, ond y mae'r adroddiad er yn wasgarog yn llawn rhialtwch swynol ac yn gwneud i ddyn feddwl eisoes am egwyddorion Rhamantiaeth. Yn y dull Cymreig ceir sobrwydd, trefn, a chyfarledd tebyg i eiddo Clasuriaeth.

Er cymaint y gwahaniaethai'r ddau ddull hyn, yr oeddynt ill dau yn ddulliau effeithiol odiaeth i adrodd stori. Ceir digon o dystiolaethau bod canu'r *chansons de geste* gyda'r crwth yn creu hyfrydych digyffelyb ac weithiau lesmair ymysg barwniaid Ffrengig yr oesoedd canol² a gwyddom am boblogrwydd y 'cyfarwydd' yng nghymdeithas Gymraeg yr un cyfnod.

(v) Yr oedd pob Cymro a ymgymeraï â throsi stori Hen Ffrangeg i'r Gymraeg o dan orfod, gan hynny, nid yn unig i gyfieithu, eithr hefyd i addasu ei fater i gyfarfod â gofynion traddodiad gwahanol.

Nid yw'n dilyn fod pob cyfieithydd a fwriodd ei hudlath ar *chanson de geste* wedi gweddnewid ei batrwm i'r un graddau. Yn *Ystoria Bown de Hamton* ceir gweddnewidiad pur hwyr; ni threuir ar epilog; ni chyferchir y dorf; ac ni chlywir ond anaml adlais o'r ailadroddiadau. O'r tu arall, ceir ambell ŵr yn cadw'r epilog ac yn ei drosi fel y safai, megis cyfieithydd *Cân Otuel* lle cyferchir y gwrandawyr, y canmolir mater y gân, ac y bychenir y *jongleurs* eraill,³ fel petai swyn y dull estron yn dechrau mynd â bryd y Cymry.

¹ Cf. John Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans, *The Red Book of Hergest* (Oxford, 1887), I, t. 161.

² Gw. Léon Gautier, *La Chevalerie* (Paris, 1896), tt. 664-8, etc.

³ Gw. testun *Ystoria de Carolo Magno*, argr. Stephen J. Williams (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1930), t. 43.

⁴ Tybed a fu'r gyfathrach gymdeithasol a llenyddol rhwng Cymru a Ffrainc y ceir amlawr ohoni (gw. Th. M. Chotzen, *Recherches sur la Poésie de Dafydd ab Gwilym*, Chap. vii) yn beth achos i arwain llenorion Ffrangeg i laesu eu gafael ar fesur cerdd fel unig gyfrwng llenyddol yr iaith gyffredin ac i ddechrau mabwysiadu iaith rydd er traethu chwedl a hanes? Yn Mhicardi a Ffrandrys ar fin neu yn mlynedd-oesod cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg y dechreuwyd arfer rhwydd-iaith yn Ffrangeg yn y *genres* crybwylliedig. (Gw. Paul Meyer, *Romania*, XIV; A. Molinier, *Études d'histoire du moyen âge dédiées à G. Monod*, 1897). At yr hyn a ddwyaid Chotzen chwanager y ceir yn ein llyfrau brofion pendant o'n cyawllt llenyddol a Ffrandrys. Rheimallt Iarll Bwlwyn, *Reinallt cuens de Boulogne*, er enghraifft, yw'r *Reinallt vandenin yr mynydd* y cyfeirir ato yn *Pennarth* 9, 80 & 392, ac nid yw'r geiriau *yr hân a yferiennad* Ieuan yfollheic yn *Pennarth* 9, 664 namyn trwmad llythrennol o *que Maître Jehan translatant* a ddigwydd yn epilog llyr. o'r ardal honno, sef, *Bibl. Nat.* 906.

Dywedais gynnu fod y *jongleur* ynghwrs ei gân yn cyfarch ei wrandawyr ar gyhoedd. Dylid ychwanegu bod ei gân hefyd yn dryfrith o gydymddiddanion yn *oratio recta*, ymddiddanion a drosai'r Cymro, nid hwyrach o dan wasg ei draddodiad aeddfetach ei hun, i *oratio obliqua*. Ni ddigwydd ond ychydig eithriadau i'r rheol. Yn yr ymgomiau hyn arfer yr Anglo-Normaneg weithiau (ac yn amlach efallai na dim arall) yr ail berson lluosog, weithiau yr ail berson unigol, weithiau'r ddeurif, wrth annerch yr un cydymddiddanydd. Gyda dyfalwch a ddengys nerth didor traddodiad ei iaith ei hun ar gyfrwng cyfarch glŷn y Cymro drwy gydol y stori at *ti a tithu*. Ddwywaith, serch hynny, ymddengys iddo ddilyn ffasiwn ei gynsail a rhoi inni ond odid yr esiamplau hynaf a feddwn yn Gymraeg o'r ail berson lluosog am yr ail unigol¹.

(vi) Cyn myned ymhellach, da coffa hefyd y byddai copiwy'r a chyfieithwy'r yr oesoedd canol yn gwneuthur eu gorchwylion weithiau yn ddigymorth, weithiau yn ddau gyda'i gilydd. Yn y rhannau agoriadol o *Ystoria Bown* pan oedd y Cymro, fel y gwelwn, yn llunio o newydd ddarnau mawr o'i gynsail, y tebyg yw ei fod yn gweithio ar ei ben ei hun, ond y mae pob lle i gredw, wedi iddo gael ei draed dano, fel petai, fod rhywun wrth ei benelin yn darllen y gwreiddiol iddo ac yntau'n troi'n Gymraeg *nid yr hyn a welai â'i hygaid eithr yr hyn a glywai â'i glustiau*.

(vii) Sylwasom i Stimming gasglu fod y cyfieithiad Cymraeg yn portreadu cynsail Anglo-Normaneg a aethai ar ddiifancoll; eithr casglodd hefyd fod y storiâu Cymraeg ac Anglo-Normaneg a geir yn awr yn debyach i'w gilydd nag unrhyw ddwy arall y gwyddys amdanynt.

Yn absenoldeb y gynddelw y cyfieithodd y Cymro ohoni, rhaid inni ymfodloni ar gymharu'r stori Cymraeg â'r unig destun Anglo-Normaneg sydd bellach yn ein meddiant, sef yw hwnnw, testun argraffiad Stimming. Gan ddarford printio yn ein hargraffiad ni golofnau *Llyfr Gwyn Rhydderch* fel y safant a gosod rhifau wrth bob pum linell, bydd yn hawdd cyfeirio at y gwahanol bethau a drafodir; ac er mwyn cyfieustru'r sawl a fynno ymgynghori â'r gân Anglo-Normaneg cyhoeddir Taflen ar ddechrau'r gyfrol o'r llinellau cyfatebol.

§9.

Ystyriwn bellach beth yw prif neilltuolion ein stori o'i chyferbynnu â thestun yr argraffiad Anglo-Normaneg.

A'i chymryd drwyddi draw, gellir dywedyd gyda sicrwydd fod y ffurf Gymraeg fel y'i ceir yn *Llyfr Gwyn Rhydderch* yn cyfateb yn bur agos i'r un a draddodwyd gan y ddwy lawysgrif B a D a ddelweddir yn argraffiad Stimming. A siarad yn fras, anaml y crwydra'r cyfieithiad Cymraeg oddi wrthynt. Yma ac acw deuir ar draws darnau hirion sy'n cyfateb ymhob dim ac ni thorrir ar unrhywiacth bagad o rai eraill ond gan amrywiadau dibwys. Eto i gyd, nodweddir y fersiwn Cymraeg gan niferus wahaniaethau pan gymharer ef â'r testun a gyhoeddodd yr Almaenwr.

¹ Gw. *Cystrawen*, § 44, (ii).

Gellir dosbarthu'r gwahaniaethau hyn yn gyfleus o dan y tri phen canlynol:

Talfyriadau.

Ychwanegiadau.

Trawswediadau yn y Sylwedd.

§10. Y TALFYRIADAU

(a)

(i) Soniais uchod am rai o nodweddion gwahaniaethol traddodiad llên Ffrainc a Chymru yn yr oesoedd canol. Gellir bwrw at y rheini un arall: yr oedd agoriad storiâu yn wahanol. Yn y *chansons de geste* symudai dechrau'r stori yn araf; yr oedd yn wasgarog; adroddid ac ailadroddid; a chyrrhaeddid yr effaith ddyladwy drwy bentyrru manylion. Yn y storiâu Cymraeg a sgrifennid mewn iaith rydd, rhaid, o'r tu arall, oedd dyfod at y pwynt perffedd yn ddiymdroi a dadlennu gwe'r patrwm mewn ychydig o frawddegau bachog a chryno heb golli amser.

Yn *Ystoria Bown de Hamtwn* caiff y cyfieithydd ei hun oblegid hynny o dan reidrwydd ar drothwy ei orchwyl i gwtogi ei fater. Cymer y *jongleur* Anglo-Normaneg un pennill ar hugain i daenu ei linellau. Gesyd y llenor Cymraeg yr holl fframwaith ger ein bron mewn tri chwarter tudalen; ac yna megis i roi taw ar feirniaid y dyfodol a fynnai gredu fod pob dim mewn cyfieithiad yn cyfateb i rywbeth yn y testun gwreiddiol, gwelir ef yn llunio ail grynhoed o fwy cwmpas. A pheth ffodus, a pheth rhyfedd, daeth y ddau fersiwn i lawr inni yng nghopi *Llyfr Gwyn Rhydderch*.¹

1. Rhoddir isod gyfieithiad gweddol lythrennol o'r un pennill ar hugain sy'n agor y stori yn Anglo-Normaneg ac yn union ar eu hól dyfynnir dau grynoded y *Llyfr Gwyn*; ond yn wyneb prinder gofod ni phrintir testun Anglo-Normaneg y penillion hyn (=B 1-137) nac ychwaith destun Anglo-Normaneg y darnau eraill a gymherir oddieithr lle bo'r galw am eglurder yn gwned hynny'n anhepgor.

Laisses I-XXI

I

Arglwyddi farwniaid, yn awr gwrandewch arnaf;
Mi a adroddaf wrthych wrolgampau (canys gwn amryw)
Bown o Hamtwn, y marchog cwrtais,
A orfu â min y cleddyf ar gymaint o frenhinoedd da,
Os mynnwch wrando, mi a'u hadroddaf wrthych;
Enoed ni chlywsoc'h well, fel y credaf fi.

¹ Yn zhestun Robert Williams o *Bown o Hamtwn*, Hg MSS., II, ff. 119-120, cymysgwyd y fersiynau; gw. sylw ar ddechrau'r *Nodiadau*.

II

Arglwyddi, os chwenychwch glywed amdano,
Mi a lefaraf wrthych, oblegid gwn lawer;
Yn gyntaf, adroddaf wrthych am ei dras.
Yn Hamtwn yr oedd iarl llawn o weithredoedd enwog;
Giwn oedd ei enw, marchog clodfawr oedd;
Gwell nag ef ni chafwyd yn ei amser.

III

Arglwyddi, yr Iarl Giwn hwn y canaf i chwi amdano
Oedd farchog da, doeth, a dewr;
Eithr mewn un peth yr oedd ŵr beius:
Ni fynnodd gymryd gwraig ym mlodau ei ddyddiau,
Am yr hyn, yn ôl llaw, y bu edifar ganddo, fel y gwn i.

IV

Ond pan oedd hen ŵr ac wedi byw yn hir,
Yna ef a gymerth wraig a oedd o uchel achau;
Merch i frenin yr Alban oedd yr arglwyddes hon.
Giwn a'i cymerth hi'n wraig, y marchog cadarn.
Wedyn daeth y dydd y bu adfydus oblegid hynny,
Canys colodd ei ben oddi ar ei gorff.

V

Yr arglwyddes oedd deg a thlos.
Ymberodr yr Almaen a'i carasai gynt
Ac a ofynasai yn fynych i'w thad amdani,
Ond brenin yr Alban a'i gwrthodasai iddo
Ac a'i rhoes i Giwn a'r wynepryd deallus.
Gwedi hyn ef a golles ei ben (och, y fath dynged!)
Am gariad yr arglwyddes a briodasai.

VI

Arglwyddi, yr arglwyddes hon a grybwyllais wrthych
Oedd arglwyddes deg heb un amheuaeth,
Ond ysgeler iawn ydoedd; nid oedd iddi galon lân;
Ychydig iawn y carai hi ei harglwydd Giwn,
Yn hytrach, fe'i casai yn fwy na phawb ac a'i dirnygai.
Iesu, a wnaeth yr holl fyd, a'i distriwio!

VII

Hi a gafodd o'i harglwydd blentyn prydferth,
Hwy a'i galwant Bown, (plentyn) a oedd ddeallus iawn;
Cawsai ei ddegfed pen bliwydd; cerddai ar ei un-ar-dddeg.
Un diwrnod llunia'r arglwyddes fwiad drwg,

(Arglwyddes) a oedd wraig deg, ieuanc, a golygus;
A'i harglwydd oedd hen ŵr a'i nerth ar drai.
'Nid ymataliaf', meddai hi, 'er undyn byw,
Rhag peri ei ladd drwy boen ac artaith'.

VIII

Llunia'r arglwyddes fwriad drwy fawr frad.
Geilw ar negesydd; nid oeddodd ddim.
'Negesydd, mynnaf i ti roi dy gred
Na fradychi ddim o'm cyngor;
Nis dywedi wrth undyn byw
Onid wrth yr ymherodr a lywia'r Almaen'.

IX

'Negesydd', meddai hi, 'i'r Almaen yn awr ewch¹ yn fuan!
Yn yr Almaen nac oedwch ddim;
I'r nerthol ymherodr ar fy rhan dywedwch
Fy mod yn anfon iddo annerch a chyfeillach.
A dywedwch wrtho am beidio ag esgeuluso, er undyn a aned,
Fod Galanmai yn barod.

X

'A dywed wrtho am gasglu ynghyd
Bedwar cant o farchogion, ac ymarfogent
A deuent i'r fforest hon uwchben y môr;
Mi a anfonaf yno fy arglwydd dan esgus mynd i hela
Ac ychydig o wŷr gydag ef—ni raid ei ofni;
A dywed wrtho am beidio â gadael iddo ffoi,
Ond torri ohono ei ben â chleddyf dur.

XI

'Eithr dywed wrtho y gorchymynnaf er mwyn fy nghariad i,
Pan wel fy arglwydd, am fod yn gwbl barod,
Ac am iddo dorri ei ben â chleddyf dur;
A phan fyddo wedi anfon y pen i mi,
Mi a wnaf yn sicr na bo dim na ryngo bodd iddo.'
'Arglwyddes', meddai'r negesydd, 'yn ôl eich ewyllys!'

XII

Y negesydd a dry yn ei ôl (Duw a roddo ddydd drwg iddo!).
Tua'r môr y cyrch yn fuan; nid oeda ddim;
A daeth i'r Almaen ar gefn helfarch da,
Ac yno trawodd wrth uchelwr
A gofyn iddo pa le y mae'r ymherodr.

¹ Yn y gân Anglo-Normanege defnyddia'r storïwr weithiau yr a un., weithiau yr a lu. Cedwais innu's nodwedd hon a nodwedddion tebyg, megis pres.=gorff., yn y cyfieithiad. Ar *Ti* a *Chwi*, gw. dan *Cystrawen*, §44.

XIII

Dywedodd hwn ei fod yn Retefor.
Y negesydd a dry drach ei gefn heb amau dim
A daeth i Retefor; oedi ni wnaeth;
Pan ddaeth at yr ymherodr gostyngodd ar ben ei lin.
'Duw a'ch cadwo, ymherodr', meddai'r negesydd.
'Arglwyddes Hamtwn a'm hanfonodd atoch.
A thaergrefa arnoch wneuthur ei hewyllys.'

XIV

Yr ymherodr a etyb: 'Deg, drahoff gyfaill,
Pa beth a fynega'r arglwyddes â'r pryd glân?'
'Arglwydd', meddai'r negesydd, 'fe'i traethir wrthych heb gél:
Dywed yr arglwyddes i chwi am ochel oedi,
Am fod yn ddewr a beiddgar, gyda phedwarcant o farchogion,
Galanmai yn barod
Mewn cuddfa yn ein fforest ni.

XV

'Pan fyddoch chwi a'ch marchogion yno,
Enfyn yr arglwyddes ei harglwydd atoch yn ddiarfau;
Ac os mynnwch gael ei chariad hi,
Lleddwch ei harglwydd, torrwech ei ben ef;
Pan fyddoch wedi torri'r pen, anfonwch ef iddi hi;
A phan gaffo'r pen, byddwch wedi ennill ei chariad.'

XVI

Yr ymherodr a glyw yr hyn a ddywaid y negesydd;
Nid oes raid ymholi a oedd lawen.
'Negesydd', meddai ef, 'myn corff Richart Sant!
Gan y dygwch imi'r newyddion hyn,
Mi a roddaf it gadfarch da, buan,
Ac aur ac arian it lwytho arno.'

XVII

Elwodd y negesydd o wneuthur y neges.
Yn fuan parodd yr ymherodr ddwyn y march allan;
Ag aur ac arian fe'i llwythant ar frys;
Y negesydd a ddiolcha iddo, ac yn ddiode cymer ei hynt,
Ei ffordd a ddilyn yn syth tua Lloegr.
Am y neges a wnaeth cododd wedyn ryfel mawr.

XVIII

Y negesydd a ymedy â'r ymherodr yna
Ac a ddug y march a roddes iddo'n anrheg,
A daeth i Hamtwn ar garlam wyllt.
Pan ganfu ef yr arglwyddes, cyfarehodd hi;
Yn gwrtais ef a'i hannerch ar ben ei lin.

XIX

'Arglwyddes, dygaf i chwi annerch oddi wrth yr ymherodr;
Drwof fi dywaid wrthych am beidio ag ofni;
Canys os bydd iach ef, ar y dydd penodedig,
Ef a drycha ben yr iarll llawn o ynni;
Ac os ydych chi lawen am farwolaeth dy arglwydd
Mwy llawen fyth yw ef oherwydd eich cariad chwi.'

XX

Yr arglwyddes a'i clyw a dengys lawenydd mawr
O feddwl am y dydd a enwyd.
Yn awr gwrandewch, oblegid mae'n fawr bechod
Roddi gwraig ifanc i hen ŵr barfog.
Galanmai cododd yr arglwyddes
A daeth at ei harglwydd a llefarodd wrtho.
'Arglwydd', meddai hi, 'cyn wired ag y cymorth Duw fi!
Claf wyf ac nid oes iechyd gennyf'.

XXI

'Arglwyddes', meddai'r iarll, 'er mwyn y Duw Cyfiawn!
Os chwenychwch ddim, gedwch im ei wybod'.
'O'r gorau', meddai'r arglwyddes, 'Deg, fwyn, arglwydd cu,
Os bwytaf gig ir baedd coed,
Gallaf, mi gredaf, adennill fy iechyd'.
'Arglwyddes', meddai'r iarll, 'er mwyn y Duw Cyfiawn!
A wyddoch chiw pa le y gallaf daro ar faedd coed?'
'Gwn', meddai'r arglwyddes, 'Deg, fwyn, arglwydd cu,
Yn eich fforest chwi y mae un uwchlaw'r môr'.
'Myn Duw!, meddai'r iarll, 'mi a af i'w hela'.
Yr arglwyddes a'i clyw ac aeth i'w gusanu
A thrwy fawr frad aeth i'w goffidlo.

2. Bellach, dyma'r crynodebau a wnaeth y cyfieithydd Cymraeg
ac a draddodwyd inni yn y *Llyfr Gwyn*:

Dechrau Crynodebau 1 a 2

Yn hamtón yd oed iarll aelôid Gíon ac aruer aónaeth na vynhei ŵreic
yny ieuengtid. agŵedy hynny pann ymdzeiglaôd parth a heneint y
gŵreglahaôd. Sef gŵreic a vynnaôd gŵreic ieuank tu dzaô y voz. A
honno a oyd yn karu gôz ieuank arderchaôc a oed amheraôdyr yn yr almayn.
ac eiffoes yn y kyfamfer hōnnô y kauas hi veichogi o racyŵededic gíon
y gôz pzaôd. a ffann rydyuu (Cryn. 2 dyfu) amfer mab a anet a elôid
bozn. ar mab hōnnô a rodet ar vaeth ar varchaôc kyuoethaôc a elôit
fabaoth. a gôelet oz ia(r)lles y iarll yn llithraô y (Cryn. 2 parth ac) am-
dzynder heneint y dzymygu sy yfacyluffyaô o garyat y racyŵededic
amheraôdyz ieuanc YBH 1-21, 50-73.

Crynodeb 1 (parhad)

ac yftryŵyaô aŵnaeth pa vod y gallei gôplau y ferchaôl damunedic
yŵyllus ymdanaô. Sef y mod yftryŵyaô dyuynnu kennat (fettei ac
anuon) at yr amheraôdyr ac erchi idaô dyuot yn oet dyd teruynedic y
ffozest ynai a oed yny iarllaeth gíon yn gyuasos yz kaftell yd oedynt yn
pzeffôylyô yndaô a niuer maôz o varchogyon aruaôc gyt ac ef. ac ymdir-
gelu yno a dyŵedut y parei hitheu yr iarll ynet yn oet y dyd hōnnô a niuer
yfkyuala gyt ac ef heb arueu megys y gallei llad y iarll. achyffenŵi eu
damunedic ferch o hynny allan. ac uuudhau aozuc yr amheraôdyz y
hynny oll. a ffan gígley y iarllles hynny. fef aŵnaeth hitheu kymryt
arnei y bot yn glaf o ozthrom heint a dyŵedut na hydei vyô ony damŵeinei
idi gaffel ychânt o gic baed koet a oed yny ffozest racyŵededic. ac
yn oet y dyd y gôydat hi vot yr amheraôdyr yn ymdirgelu yny ffozest
honno annoc aŵnaeth hitheu yz iarll ynet y hela y baed koet YBH 21-49.

Crynodeb 2 (parhad)

ac anuon kennat aŵnaeth at amheraôdyr yr almaen ac adolôyn ydaô
yr y charyat hi y uot ef a niuer o varchogyon aruaôc ygyt ac ef duô kalan-
mei yn ffozest y iarll yn ymgudyaô yndi. a hitheu a barei yr iarll ac
achydic o niuer yfkyuala mynet yr ffozest. ac ynna y gallei ynteu llad
pên y iarll ae anuon idi hitheu yn anrec ac o hynny allan y gelynt hōynteu
bot ygyt yn dideruyf. Y gennat a gerdaôd yr almaen ac a ouynnaôd
yr amheraôdyr. y mae yn llys idaô a elôit calys. tu ac yno y kerdaôd
y genat ac yr calys y doeth a dygôydaô ar bën y lin tac bzon yr amheraôdyr
achyffarch guell idaô ac yn dirgeledic menegi y gennadôzi idaô. a
llaôen fu yr amheraôdyr ôzth y gennat a rodi amôs idaô a chymeint ac
auynnei o eur ac aryant yn yghôanec. ac erchi idaô mynet dzachefyn
at y ŵreic vôyaf agarei. a dyŵedut idi y gônaci ef pob peth oz a archafci
hi idaô ef yn oet y dyd. ar gennat adoeth dzacheuyn hyt yn hamtón
at y iarllles a menegi y gônaci yz amheraôdyr y hēyllus hi ym phob peth
oz a archyffit idaô. allaôen uu hitheu ozawenus a ryôyza genthi y doei
oed y dyd. a nos clannei y kymerth y iarllles cleuyt arnei ac y dyŵaôd
ôzth yiarll y bot yn claf. ac yna y doluryaôd yn uaôz am cleuyt y iarllles
ac y dyŵaôd ôzthi. a oes dim aallo gôaret it ac o byd na chel yr agotho.
oes arglôyd heb hi pei kaôn beth o gic .y. baed coet yn ir mi a gaôn iechyt.
a Gdoft ti pa le y keit kyuot ar vaed coet. gôn arglôyd heb hi yn ffozest
ni vch pên y moz y mae baed coet medei y ffozestŵyr ymi. aminneu
aaf auoz yno yn voz. Sef a ŵnaeth hitheu yna kyuodi yny feuyll a doddi
y dôylaô am y vynôgyl a rodi kuffan ydaô YBH 73-132.

Yn y ddau grynoded rhagorol hyn fe geir syniad nid yn unig am
ansawdd yr atgynhyrchiad, eithr hefyd am ddawn y cynnewidiwr i droi
dwfr yn win, dawn y gwelir esiamplau ohoni drwy gydol y gwaith.

3. Hwn yna yw'r talfyriad icithweddol hwyaf a ddigwydd yn yr holl
chwedi a dyna'r unig un y gallwn heb yr un amheuaeth ei briodoli i'r
cyfieithydd. Ond trewir ar eraill draw ac yna ac y mae'r rheini mor
debyg i hwn fel y gellir bod yn bur ffyddiog mai creadigaethau newydd

ac nid trosiadau o gynddelw arbennig ydynt hwythau. Darnau byrion yw'r cyfryw, y rhan amlaf, megis yn yr enghraifft a ganlyn:

Laisse LXXXV

'Mi a af yn llawen', meddai'r gennad.
Buan y daeth i'r tŷ lle'r oedd Bown, y barwn.
Ac o flaen Bown ef a ddechrau benlinio.
'Deg Arglwydd Bown, ni cheisiaf ei gadw rhagoch'

=y gennat aeth at bofn ac a dygŷdaŷd ar ben y lin rac bzon bofn a menegi y gennadŷzi idaŷ abnaeth YBH 749-52

Deuir, serch hynny, ar draws ambell enghraifft gymharol hir fel yr un sy'n dilyn, lle torrwyd y mater Anglo-Normaneg i lawr yn agos i'r hanner:

Laissez XXX-XXXII

a there'r Iarll Giwn; ei ben ef a dorrodd; geilw negesydd ac wrtho dywedodd ei ewyllys:

'Frawd', meddai ef, 'at Arglwyddes Hamtwn ewch ar frys,
ar fy rhan chwi a'i hanerchwch,
a chwi a ddygwch iddi gyda chwi y pen hwn'.
Y marchog a dry drach ei gefn, megis y gorchymynnodd hwn iddo,
Pen yr Iarll Giwn a ddug gydag ef.
Pan ddaeth at yr arglwyddes ef a'i cyfarchodd hi fel hyn:
'Arglwyddes', medd y negesydd, 'yr ymherodr a'm hanfonodd atoch,
ef a ddaw wrth eich arch, pan ryngo bodd i chwi;
ac os da gennych, arglwyddes, ef a'ch cymer yn wraig'

'Farchog', meddai'r arglwyddes, 'ewch at yr ymherodr;
dywedwch wrtho fy mod yn gorchymyn iddo, er mwyn fy nghariad i,
ddyfod yma ataf heb oedi dim;
yfory ni a wnawn y briodas, cyn gynted ag y del dydd'

Y cwbl a geir yn *Ystoria Boven* (177-85) yw:

a llad pen giŷon iarll. ac yn diānot y anuon yn anrec yr iarles a hitheu auu leŷen ŷath yr anrec ac a dyŷot ŷath y gēnat kŷmer varch affryŷta yn erbyn yr amheraŷdyr ac arch idaŷ dyuot racdaŷ yn llaŷben. ac avozy ni a ŷnaŷn yn priodas

Nid yw hyn ond rhan fach o'r newidiadau y bydd yn rhaid i'r cyfieithydd eu gwneuthur.

(ii) Gwelsom uchod mai un o deithi'r epig Hen Ffrangeg yw 'dyblu'r gān', sef yw hynny, trafod pwynt yn niwedd un pennill a'i ailadrodd yn

nechrau'r nesaf. Esgeulusir yr ailadroddiadau hyn fel rheol yn Gymraeg fel y gwelir wrth yr enghreifftiau canlynol:

1. *Laissez LVI-LVII**LVI*

Y paganiaid . . . a'i prynasant yn ddud

LVII

y marsiandwyr Sarasiniaidd a brynasant y llanc . . .

=y farafnieit a bzyynyffant y mab YBH 356

2. *Laissez LXXI-LXXII**LXXI*

Bown a'i clybu ac a arfaethodd dynnu'r cleddyf,
eithr ef a'i gadawsai dros gof . . .
yn y fan lle lladdodd y baedd cryf . . .

LXXII

Bown a arfaethodd dynnu'r cleddyf dur,
eithr ef a'i gadawodd dros gof yn y fan lle lladdodd y baedd
=Sef a ŷnaeth ynte y haros a cheiffaŷ y gledyŷ ac neuŷataŷŷŷei heb gof yn lle y lladyŷŷei pen y baed YBH 472-5

3. *Laissez CXVI-CXVII**CXVI*

Yna y meddyiodd Bown nad āi i Hamtwn, y ddinas . . .

CXVII

Bown yna a ddechrau feddwl
nad āi eto y tu draw i fŷr,
cyn ymddiddan ohono ā Iosian

=a medylyŷo a ŷnaeth yd ai y ymbelet a iofian kēn y vynet y hamtŷn YBH 1452-4

Gan fod 'dyblu'r gān', fel y gwelsom, yn rhan o draddodiad bardd y *chansons de geste* mewn amgylchiadau neilltuol, ceir nifer go dda o dal-fyriadau o'r dosbarth hwn. Nid wyf yn dal fod y rhannau o'r penillion a ailadroddir yn yr *Anglonormannische Boeve de Haumont* yn union yr un fath ā'r rhai a welid yng nghynddelw'r testun Cymraeg. Y tebyg yw fod yr olaf yn awr ac eilwaith i raddau yn wahanol. Eithr gan fod y newidiad o dan sylw yn cyfateb i wahaniaeth hanfodol yn y dull o fynegi'r epig yn y ddwy lenyddiaeth, ni eill fod amheuaeth nad y cyfieithydd biau'r talfyriadau.

§10(b).

I'r cyfieithydd hefyd, neu'n well, i ofynion y grefft o drosglwyddo caniad mydryddol i iaith rydd y dylid priodoli nifer mawr o dalfyriadau stillistig eraill. Nid yw'r rhywogaeth hon, gan mwyaf, namyn geiriau unigol ac ymadroddion wedi eu tynnu o'r nwyddau stoc barddonol a helpai fydr ac odl, math o ffyn baglau'r frawdoliaeth brydyddol Anglo-Normaneg.

Gellir dosbarthu'r colliadau hyn fel y canlyn:

(i) Colli priodoledd ddibwys

1. ... li quens *plein de bontez*,
il out a noun Guioun ... B 10
'... yr iarll llawn o weithredoedd da,
'ef a ddygai'r enw Giwn ...'
=*iarll a eloid Gion* YBH 1, 50

2. ... dist Sabot, *li membré* B 243
'... meddai Sabot, y cryf'
=*heb faboth* YBH 237

3. e ad fet un juste a Rufeoun *la feloun* B 577
'ef a wnaeth ymosodiad ar Rwdefwn y *dyhiryn*'
=*a chyrrhu rodefon a goffot arnau* YBH 590

cf. B 2607=YBH 3040; B 2647=YBH 3079; B 2959-60=YBH 3404; etc., etc.

Ar ddiwedd llinell, yn yr odlau, y digwydd y priodoleddau hyn, y rhan amlaf.

(ii) Colli cymalau perthynol

1. il out une file, *que bele fu e sage*,
Josiane out a noun ... B 371
'yr oedd iddo un ferch, a oedd deg a chall,
Josian oedd yr enw a ddygai ...'
=*ac yn verch oed idau a iofian oed y henó* YBH 369

2. ne pur ta file ov tut, *he taunt est colorie* B 401
'nac er dy ferch ditheu gyda phopeth, (merch) *sydd d'i gurid mor dduw*'
=*nac yr dy verch ditheu yn yglbanec* YBH 402

3. pus vint au roi Hermine, *que taunt le deit amer* B 655
'yna dsath at y brenin Ermin, a ddylai ei garu gymaint'
=*adynot ... hyt rac bzon ermin* YBH 670
cf. B 346=YBH 346; B 590=YBH 612; etc., etc.

Weithiau cedwir y cymal perthynol megis yn:

Boves *reclayme deus, he ne mentis* B 3584
=*gŵedyau a ozuc boón ar duó yr hóm ny dybaót kellyd* YBH 4074

(iii) Colli ymadroddion pleonastig

1. e puisse porter armes e *la targe novele* B 218
'ac y gallwyf wisgo arfau a'r *darian newydd*'
=*hyt pân allôyf ... gŵiscaó arueu* YBH 205
2. 'lessez moi entrer, *ne me deniez mie*' B 269
'gedwch im fynd i mewn, *na wrthodwch fi ddim*'
=*ac adolôyn idaó y ellôg y myón* YBH 270

Y mac'r testun Anglo-Normaneg yn dryfrith o ymadroddion fel y rhain, a chadwyd hwynt yn fynych yn y cyfieithiad; gw. dan *Ychwanegiadau*.

(iv) Colli ymadroddion yn datgan llwcn ac ystrydebau

1. 'Par dieu!' ... 'jeo ly irrai bercer' B 135
'Myn Duw ... mi a af i'w hela'
=*a minneu aaf auozy ymo yn eoze* YBH 128
2. e jeo le tuai, *sachez de veritez* B 335
'mi a'i lleddais, *gwyybyddwch wirionedd*'
=*mi ay lledeis* YBH 332
3. 'Sire', dist ele, 'si *eus eide de!*
gardez ke lui destrer seit bien aplace! B 550-1
'Arglwydd, meddai hi, *helpied Duw chwsi!*
gofalwch drafod y march yn iawn!
=*yna y dybaót iofian ózthaó ymhóyth na wrath y march onyt yn thedeid ac yn dyledus* YBH 560-3

Ond draw ac yma cyfieithwyd rhai o'r ymadroddion hyn; e.e.,

1. A, dieus! quel *damage*, que il ne l'ut fet tuer! B 649
'A Dduw! y fath resyn na pharodd ef ei roi i farwolaeth!'
=*a gŵaethiroed duó na blligóyt* YBH 637
2. 'si *deu me pusse cyder!*' B 2361
'Felly y'm cynorthwyo Duw!'
=*Mal ym gŵares duó* YBH 2741

3. Un conseylur ad, *he deu met a malfez!* B 2536
 'Y mac ganddo gynghorwr, (yr hwn) a roddo Duw i'r cythraul!'
 = *a galó attab kyghozhwr (darll. -62) a ozuc yr hwnn y rodo duó maó*
d26c ida6 YBH 2947-9
 Cf. hefyd B 1637=YBH 1803; B 2474=YBH 2874; B 2673=YBH
 3109-10; YBH 3145 (dim yn B 2712).

(v) Colli ffurfiau cysfarchiadol

1. Pus lui ad dist: '*Beu duz sire cher,*
 tot sei jeo un veillard . . .' B 166
 'Yna ef a ddywedodd wrtho: *Deg fwyn hoff arglwydd,*
 er fy mod yn hen w'r . . .'

= *Yna y dyhaót ef hen ó2 óyf vi YBH 156*

2. ' . . . Ferez, *mes amis!* B 606
 . . . *les gens Hermine!*
 . . . 'Trewch, *fy nghyfeillion!*
 . . . *w'r Ermin!*

= *lledóch ini niuer ermin YBH 621*

3. Gw. (iv), 3, uchod; etc.; etc.

Syrthiodd y ffurfiau hyn allan yn aml ar waith y cyfieithydd yn troi *oratio recta* yn *oratio obliqua*, ond daethant hefyd drwodd lawer gwaith yn y trosiad; e.o.,

<i>Beau sire Boefs</i>	B 670=	<i>arglúyd tec</i>	YBH 680
<i>Bele neveu</i>	B 1907=	<i>antylnei callon</i>	YBH 2134
<i>sire bachelor</i>	B 2798=	<i>Syr bachler</i>	YBH 3232
<i>Bele source</i>	B 2875=	<i>tygchibaer dec</i>	YBH 3316

Cf. hefyd B 1481=YBH 1603; B 1621=YBH 1787; B 1928=YBH
 2164; B 3651=YBH 4144; etc.

(vi) Colli ymadroddion y bwriedid iddynt effeithio ar yr ystyr

1. *e vint a Retefor, demoraunce ne fist* B 77
 'ef a ddaeth i Retefor; oedi ni wnaeth'

= *ac yr calys y doeth YBH 92*

2. *demain frum les noces, si tost com serra jour* B 204
 'yfori ni a wrawn y briodas, cyn gynted ag y del dydd'

= *ac acozy ni atnaón yn priodas an neithya62 YBH 185*

3. *Kant la dame oi, aukes est iré,*
 prent son chimin . . . B 2862-3
 'Pan glybu'r arglwyddes, y mae'n lled ddiellon,
 hi a gymer ei hynt . . .'
 = *a phan gogleu hi na doent, hi a aeth ehuman hyt attunt YBH 3300-2*

(vii) *Colli darnau o hysbyswydd sydd á'u hystyr yn eglur oddi wrth y cyswllt neu sydd am rexymau eraill yn ddiangen*

1. *mes dis plaies lui firent, dount vola le cler sane* B 174
 'ond deg archoll a wnaethant arno, y llifodd y gwaed gloyw ohonunt'

= *ae v2athu degmrath YBH 164*

2. '*Pute orde prové, ceo dist lui enfamsoun,*
 'pur quei . . .' B 211
 'Butain ddrewlyd, brofedig', *medda'r llanc,*
 'paham . . .?'

= *oi a buttein dzuan pzouadéy paham . . . YBH 194*

(viii) *Colli ymadroddion llaw y mynegai'r prydydd ei ddieter neu ei gydymdeimlad drwyddlynt*

1. *Il out a noun Sabot, deu li seit eidaunt!* B 224

'Gelwid ef Sabot, boed Duw yn nerth iddo!'

= *sabaoth oed y enó YBH 212*

2. *mes il le eust oblié, ceo fu damage graunt* B 468
 'ond ef a'i gadawsai dros gof, trueni mawr fu hynny'

= *ac neufatafpei heb gof YBH 474*

Etc., etc.

(ix) *Mater nas ceid yng nghynsail Bowen*

Am gwtogiadau a cholliadau y galwai gwahaniaeth iaith ac amgen gyfrwng (*genre*) a thraddodiad llenyddol amdanynt y soniwyd hyd yn hyn, newidiadau yr oedd yn rhaid iddynt ddiwydd, fel petai, mewn creadigaeth lenyddol newydd o uchel radd o dan yr amodau a nodwyd. Eithr fe wél y neb a gymharo *Ystoria Bowen* â thestun Anglo-Normaneg Stimming fod y chwedl Gymraeg yn amddifad o lawer linell a chymal ac aml bennill heblaw'r rhai a astudiwyd ac na chynnwys ei thudalennau yr un adlais o sylwedd y rhannau absennol. Nid oes reswm yn y byd dros edrych ar y bylchau hyn fel cwtogiadau a wnaethpwyd gan y cyfieithydd. Yr esboniad mwyaf boddhaol arnynt yw tybio na cheid hwy yn y gynddelw Anglo-Normaneg a oedd gerbron y Cymro.

Digon fydd dyfynnu un esiampl o'r teip hwn o fwch. Yn YBH 467-472 cawn y brawddegau:

ac ony chafi y caryat ef ny byd yn hoydyl ac ny allaf vot yn eýó. ar hyn nachaf dec ffozef162 . . . luedy rydygu kyfyoed y rygthant . . . yny achub.

Y mae hyn yn gyfieithiad ffyddlon o'r tair llinell:

LXIX

Si jeo ne cie son amour, jeo perdrai la vie.
A taunt estevus dis foresteres . . .
Sa mort unt juré tuz . . . B 455-63

Eithr rhwng y llinell gyntaf a'r ail a roddir yma dyry argraffiad Stimming chwe llinell na cheir dim yn cyfateb iddynt yn nhestun *Llyfr Gwyn Rhydderch*, sef yw'r rheini o'u troi yn Gymraeg:

Laisés LXIX-LXX

LXIX

Felly y dywedai'r forwyn, mynych yr wyla ac yr ocheneidia;
am yr hyn a feddwl hi, ni wŷr Bown ddim;
oni feddylio Duw amdani, hi wna ffolineb mawr.
Bellach y mae ym maglau Duw Cariad.

LXX

Am yr hyn a feddwl hi ni wŷr Bown ddim.
Ef a ddaeth o'r coed gan ysbarduno.

Digwydd niferus esiamplau o fylchau tebyg; cf. B 147-152=YBH 144; B 207-8=YBH 189; B 403-4=YBH 404; B 456-62=YBH 469; B 645-63=YBH 658; B 663-7=YBH 678; B 981-6=YBH 1022; B 2691-5=YBH 3125; B 2887-90=YBH 3327; etc., etc.

Soniwyd lawer gwaith nad o'r testun Anglo-Normaneg a draddodwyd i'n hoes ni y tynnwyd y cyfieithiad Cymraeg a gwelir yn yr enghraifft a'r cyfeiriadau uchod brofion o'r golygiad hwnnw. Ceir profion lluosog i'r un perwyl yn yr adran ar y *Trawsnewidiadau yn y Sylwedd*.

§II. YCHWANEGIADAU

(a)

(i) Wrth ystyried y talfyriadau a nodwedda'r chwedl Gymraeg o'i chynharu â'r *Anglonormannische Boeve de Haumtone* gwelwom y gellid gyda chryn hyder esbonio rhai o'r bylchau fel cwtogiadau a wnaethai'r cyfieithydd Cymraeg ei hun, ond bod eraill, yn ôl pob tebyg, i'w priodoli i bresenoldeb darlenniadau ychwanegol yn nhestun Stimming.

Yn yr adran hon eto rhaid inni geisio penderfynu pa bethau a fwriodd y Cymro at ei gynddelw a pha rai yw'r ychwanegiadau nad yw ef yn gyfrifol amdanynt.

Y cyfieithydd yn sier biau'r cyntaf ac, yn ôl pob tebyg, yr esboniadau canlynol hefyd:

1. quant il vindrent a la mer, s'i trovunt un *dromoun* B 354
=ac yn y boethua yd oed dzomónt *sef y6 hynny llog diruabz y meint* YBH 352
cf. *llög va6z a elóit dzomónd* YBH 3177

2. Yvori de Monbrant se fet il nomer B 1374
=ac iuo2 y6 yen6 o ym6bzaónt. *dinas arbennic oed h6nn6* YBH 1468
3. *o achabz y kanma6l aozuc y argl6yd arna6* YBH 2919
Ychwanegiad yw hwn a wnaethpwyd i geisio rhoi'r cyswllt ar ei draed wedi camgyfieithu:
Kant oya sun seynur Arundel le preysé B 2507
(gw.n. ar 2915)

4. *a g6edy bot yno lbers yn f6i6zn medylyab aozuc mynet racda6* YBH 3082
Chwanegwyd y geiriau yn 4. mewn ymgais i glytio'r ystyr ar ôl rhoi i mewn ddarlenniad na pherthyn i'r cyswllt (gw.n. ar 3079-82).

5. *achyr y lab y6zeic v6yaf a garei yny y2 amfer h6nn6 hany bydat ðim y 6zth iofian* YBH 3420

Y geiriau *yny . . . iofian* wedi eu chwanegu gan y cyfieithydd myn-achaidd a dramgwyddid gan focsoldeb y sefyllfa (gw. t. lli a'r n. ar 3420).

Yr oedd y cyfieithydd, gan hynny, nid yn unig yn cwtogi ei fater, fel y gwelwyd eisoes, ond yr oedd hefyd yn ei helaethu pan wasanaethai hynny ei amcan. Yn wyneb hyn, a chan gofio o hyd ei fod yn cyfaddasu stori un genedl ar gyfer cenedl arall, ni byddai'n syndod pe trawem arno o bryd i'w gilydd yn dehongli i'r Cymry ystyr a diddordeb yr arferion a'r sefydliadau Ffrengig y cyfeiria ei destun atynt. Os felly, dichon mai ef sy'n gyfrifol am y disgrifiad manylach a geir yn *Ystoria Boecu* nag yn *Boeve de Haumtone* o'r ffordd y gwneid gŵr ieuanc yn farchog urddol (cf. YBH 533-560=B 532-547), yn enwedig o'r arfau amddiffyn a ddylai marchog urddol eu meddu. Er enghraifft, y mae'r geiriau canlynol heb-law manion eraill, yn absennol o'r gerdd Anglo-Normaneg argraffedig:

*ac ar echaf hynny quire diogel. achynfallt hoffaneu lluryc achrinogeu
am ydzaet ay yfgeired . . . am y hen ydodet penguch b6z66in affaylet.
ac ar ðarthaf hynny helym eurent echdythynnedic*

(ii) Gellid dal, bid sicr, fod y rhain i gyd yn y cynsail, ond purion peth cofio, serch hynny, fod bryd y gwŷr y bwriedid y chwedl hon ar eu cyfer yn gwbl ar filwriaeth, fod y 'freigc in lluricogion', ys dywaid hen fardd *Llyfr Du Caerfyrddin*, ar eu tueddau, a bod perchenogi arfau cyfartal yn fater bywyd a marwolaeth i bawb yn stad cyndeithas yn yr oes honno. Efallai nad cymhellion llenyddol yn unig a ysgogai luniwr *Kulhwch ac Olwen* i roi'r disgrifiad o'r arfau Ffrengig a wisgai Kulhwch wrth fynd i lys Arthur (WM 455)¹. A pheth diryfodd yn yr amgylchiadau fuasai gweld arlywyr stori Gymraeg newydd yn ymhelaethu ar hanfodion arfogaeth barwn Ffrengig ifanc (oblegid dyna oedd) ar ei waith yn mynd i mewn i urdd y marchogion cyfoes.

¹ Gw. M. Watkin, BCS, XIII, tt. 132-6; XIV, tt. 15-19.

Efallai mai'r cyfieithydd hefyd sy'n gyfrifol am y chwanegiadau a geir ar ôl disgrifiadau o arferion Ffrengig eraill, megis y geiriau:

1. *a rodi y 6zogaeth ae gylbirdeb yn llaô boôn y dallei o hymny allan ydan ermin* (cf. YBH 660-2=B 647),

darlleniad na ddigwydd yn Anglo-Normaneg Stimming, ond a geir yn Gymraeg fel math o atodiad i'r mater a welir ar y ddefod a elwir *Rhodd ac Estyn* neu *Estyn a Meddiant*. Ymddengys fod y ddefod arwyddluniol hon o gryn ddi-ddordeb i'n cyfieithydd, oblegid ar ôl darlleniad yn cyfateb i destun Stimming ceir y geiriau chwanegol a ganlyn:

2. *ac yna y gelôis y bzenhin ar boôn a rodi y ffon y boôn* (cf. YBH 2853=B 2456)

megis pe bai'r Cymro am wasgu ar ei wrandawyr y pwysigrwydd a roddai'r gyfundrefn ffiwdal ar roddiad gwrthrych materol (ffon, yma) fel arwyddlun o'r meddiant pan drosai brenin neu arglwydd dir a daear i'w ddeil-iaid.¹

(iii) Gwelsom uchod fod y cyfieithydd yn fynych yn bwrw allan yr ymadroddion a fynegai'r anian fewnol (protest, etc.) yn ei gynsail. Er bod hynny'n wir, y mac'n wir hefyd y deunw o bryd i'w gilydd ar draws rhai ymadroddion o'r math hwn nas ceir yn nhestun Stimming; e.e.,

1. *a gbaethiroed duô na bligÿt. hanys trallaôt bzaf a baryffant y boôn lbedy hynny*; cf. YBH 637=B 625.
2. *y rei auuont glotuozus pan deuthant myôn oetran*; cf. YBH 2780=B 2394.

Digon posibl fod rhai chwanegiadau o'r dosbarth hwn eisoes yn y caniad Ffrangeg a oedd gerbron y Cymro, eithr ymddengys hefyd yn lled sicr ddarfod i'r cyfieithydd furw at ei wreiddiol chwanegiadau eraill o'i wead ei hun. Gyda'r olaf, fel y ceislais ddangos yn y bennod ar *Awodur a Chopwyr a Dyddiad*, y dylid, fel y tybiaf, restru'r niferus *addenda* o natur ddefosynol a ddigwydd drwy gydol y chwedl.

(iv) Bu a fynnom hyd yn hyn â'r chwanegiadau a wnaethpwyd at y sylwedd. Erys i'w hystyried nifer o chwanegiadau na chyfrannant nemor ddim at y defnydd ond sydd o ddi-ddordeb nid bychan o safbwynt icithweddol.

§11(b).

Yn yr adran sy'n ymwneuthur â'r talfyriadau dangoswyd fod yr ymadroddion pleonastig a ddigwydd yn *Boeve de Haumtone* yn fynych yn absennol o'r gwaith Gymraeg. Rhaid yn awr inni fynegi'r ffaith

¹ Ar y ddefod *Rhodd ac Estyn*, gw. J. Calmette, *La Société Féodale* (Paris, 1923). Chap. II, *L'hommage et l'investiture*; a n. Ifor Williams yn *Pedeir Keinc y Mahinogi* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1930), t. 198.

wrthwyneb, sef yw honno, y trewir ar nifer mawr o enghreifftiau o eiriau ac ymadroddion pleonastig, neu'n well, o gyfystyron, yn y chwedl Gymraeg lle ni welir dim cyfartal yn y testun Anglo-Normaneg cyfarwyneb.

(i) Dyma rai ohonynt:

1. *demein frum les noces* B 204
'yfory ni a wnawn y briodas'
=ac avozy ni a'wnaôn yn *priodas an neithyaôz* YBH 185
2. *Pur la mort son pere plure a mout haut soun* B 209
'Am farwolaeth ei dad *wyla â llef uchel iawn*'
=*sef a 'wnaeth ynteu hymryt dzycyzerth yndaô a lleuein yn uchel ac bylaô* YBH 190
(cofr bod *llefain* ac *wylo* yn gyfystyr yn iaith y De, ac mai 'to shout' yw unig ystyr *crio*)
3. *a un gentil counte ke est mon privé* B 248
'at iarll uchelryw sydd *gyfaill agos i mi*'
=at iarll kyuoethaôc yffyd *gyueillt a chedymdeith g'ghanredaôl ymi* YBH 243
4. *'Beau fiz', ceo dist Sabot, 'vus estes a blamer'* B 321
'Fab hoff, meddai Sabot, *yr ydych i'ch beio*'
=*Cam a 'wnaethoff* heb y febaot a *cherydus ôyt* YBH 315
5. *Lui emphes le oi si comença plurer* B 325
'Clybu'r llanc; ef a dechreuodd *wylo*'
=*Sef a 'wnaeth y mab . . . gellôg dagreu ac bylaô* YBH 323
6. *ne vodrai reneier Jhesu* B 402
'nid ymwrthodaf â Iesu'
=nyt ymadaôn i *am grifonogaeth nac a ieffu griff* YBH 403
7. *Honi seït de son cors ki en Mahun se afie!* B 405
'Melltigedig ei gorff fo a ymddiriedo ym *Mahun!*'
=(o)nys (y) gorff fo a *amdireto neu a gretto y vahom* YBH 404 (gw.n.)
8. *Si jeo ne cie son amour, jeo perdrai la vie* B 455
'Oni chaf ei gariad ef, *mi a gollaf fy einioes*'
=ac ony chafi y caryat ef *ny byd ym hoydyl ac ny allaf oot yn eyô* YBH 468
9. *plus tost li fet coure ke ne vole esperver* B 630
'cyflymach y gwna iddo redeg nag yr hed y curyll'
=a chynt y redadô ydanaô noc yd chettei y *llamyfien neu yr 'halch pan ehettyni gyntaf* YBH 643

Gellid amlhau'r esiamplau yn fawr a deuir ar eu traws ymhob rhan o'r stori. Ar ambell dudalen y maent yn niferus. Cymerer, er enghraifft, dudalen 16:

oz tóyll ar bzat 1018=B 973 *treisoun*

ny at ef heb gof ac nys madeu 1023-4=B 988 *oblier* 'anghofio'

a thróm a gofúdu 1027=B 989 *dolent* 'tralodus'

a ymgethis yn dilbeir (ac) yn (?) ir (llsgr. yn *hir*) 1030=B 990 *se garda chastement* 'hi a ymgadwodd yn ddiwair'

a phymthec bzenhin a dellynt y danaó ac oedynt llyr idaó 1035-6 =B 994 *quinze rois out suz li* 'yr oedd ganddo bymtheg brenin odano'

dzyeyruerthu albaeth ac ny bu eiroet gyn dziflet ac yna 1040-2=B 998 *unkes ne fuy si dolent* 'erioed ni bu mor drist'

dzby y gedernyt ae gryfder ef 1068=B 1022 *a force* 'drwy nerth'

y góe amglnaeth ac amffuruad 1085-6=B 1040 *ke me deignastes a fourmer* 'who deignest to form me'.

Yn wir, y mae traethu meddwl ag un gair neu ymadrodd a rhoi gair neu ymadrodd arall cyfystyr wrth ei ystlys yn nodwedd amlwg o arddull *Ystoria Bowm*. Cyn y gellid maentumio fod y cyfystyron hyn yn drosiadau o ddulliau ar ymadrodd a geid yng nghynsail Anglo-Normaneg y Cymro, rhaid tybio fod y darlenniadau yn y cynsail hwnnw yn wahanol iawn i'r darlenniadau a welir yn argraffiad Stimming, tyb anodd ei choleddu pan gofier am rwystr mydr ac yn enwedig am lyffetheiriau y pennill unodl (*laisse*) y cyfansoddiad y *chansons de geste* ynddo.

(ii) Onid cyfieithiadau llythrennol o dermau'r gynddelw Anglo-Normaneg ydyw'r cyfystyron niferus hyn, o ba le, ynteu, y deilliant? Ceir yr ateb, mi gredaf, yng nghyfeindra'r Cymry goleuedig ag icithwedd Anglo-Normaneg. Yr oedd pleonasiaeth yn un o nodweddion amlycaf cystrawen Hen Ffrangeg mor gynnar o leiaf â dechrau'r ddeuddegfed ganrif. Heigiant yng ngherddi poblogaidd Wace, *La Geste des Bretons (Brut)* a *La Geste des Normands (Rou)* yn ail dracan y ganrif ac y maent yn lluosog yn *La Chanson de Roland, Ami et Amiles, Aucassin et Nicolette*, etc., yn y traean dilynol. Sylwer ar ychydig enghreifftiau a dynnwyd o'r cyfnodau hyn:

1. *Mult unt oüd e peines et ahans* ChdeR 267
'Llawer o ofid a dolur a gawsant'
2. *Sis aquillit e tempeste e ored* ib. 688
'Daeth tymestl ac ystorn ar eu gwarthaf'
3. *Li cris et le noise ala par tote le terre et par tot le pais*, que Nicolette estoit perdue *Aucassin VI, 2*
'Aeth y waedd a'r ystôr drwy'r holl dir a'r holl wlad fod N. wedi mynd ar goll'

4. *Mandez Carlon, a l'orguillus (et) al fier* ChdeR 28
'Anfonwch at Siarllys, at y ffroenuchel a'r balch'
5. *Li empereres se fait et balz et lies* ib. 98
'Yr ymherodr a'i gwna ei hun yn llon a llawen'
6. *De Carlemagne ki est canuz et blancs* ib. 551
'Am Siarlymaen sydd lwyd a gwyn'
7. *Se . . . volliez otroier et graer Amis et Amiles*, arg. Hofmann, ll.2859
'Pe . . . mynnech ei gamiatdu a'i oddef'
8. *Tant soloit iestre et doutée et cremue* ib. 1527
'Gymaint yr ofnid hi ac y brawychid rhagddi'
9. *Tant ne'l vos sai ne preiser ne loer* ChdeR 532
'Ni wn sut y gallaf ei ganmol a'i foli ddiagon ger eich bron'

Yr oedd yr Hen Ffrangeg yn dryfrith o eiriau cyfystyr fel y rhain ac arferid hwy, fel y gwelir, ymhob rhan ymadrodd. Anodd ymwrthod â chredu na ledodd y math hwn o ieithwedd o'r iaith honno i'r Gymraeg cyn diwedd y ddeuddegfed ganrif. Os yw hyn yn gywir, y mae a fynnom yn y peth hwn nid â nodwedd bersonol yn y cyfieithydd, eithr yn hytrach â ffasiwn ieithweddol a etifeddasai ef o'r gorffennol, ffasiwn a borthid, bid sicr, gan ei gydnabyddiaeth ef ei hun ag iaith lafar a llyfr yr Anglo-Normaniaid.

(iii) Gwelsom uchod fod gwaith y Cymro yn troi cyfansoddiad oedd ar fesur cerdd yn gyfansoddiad mewn iaith rydd wedi ei gymell i wncuthur bagod o dalfyriadau o nodwedd stilistig. Ymddengys i'r un gwedd-newidial ei orfodi i fwrw at ei gynddelw y chwanegiadau y gofynnai manyluch a cheinder celfyddyd berffeithiach y storiwr Cymraeg amdanynt.

I amcanion y gelfyddyd hon, er creu'r argraff o ddilysrwydd, y chwanegwyd ond odid yr hysbysrwydd mwy pendant ar fater lle, amser, a rhifau; e.e.,

1. *Lui messenger s'en turne . . .* B 70
'Y negesydd a dry drach ei gefn'
= *tu ac yno* y kerdaó y genat YBH 91
2. *Bien se fust échapé . . .* B 176
'Yn sicr ef a ddianghasai'
= ef a diaghei hyst yn hamtón YBH 167
3. *il fet tuer un porc* B 234
'ef a bery lladd llwdn hwch'
= *a chyt ac y deuth adzef* peri llad hóch a'wnaeth YBH 225

4. jeo ly irrai bercer B 135
'mi a af i'w hela'
=*a minneu aaf auozy yno yn voze* YBH 128
5. Le enfant s'en va ov les aigneus B 256
'Y llanc a â gyda'r ôyn'
=*Trannoeth y boze y mab a acth ygyt ar ôyn* YBH 251
6. lepars e lions B 1493
'llewpartiadaid a llewod'
=*a mil y rôg llewot a lleôpardot* YBH 1619
7. Les chevaliers . . . B 1605
'Y marchogion'
=*mil o varchogyon* YBH 1770
Etc.

(iv) Gofynion y traddodiad llenyddol Cymraeg am fanylwch artistig sydd hefyd o bosibl yn cyfrif am gyffyrddiadau ac esboniadau a gymerir yn ganiataol yn y gerdd Anglo-Normaneg. Cyfeirir at frawddegau fel y rhai canlynol a ymddengys fel ychwanegiadau at y cyfieithiad o'r darlleniadau a ddelweddir yn *Boeve*:

1. *ac yna y doluryalld yn uabz am cleuyt y iarlls* YBH 116-7 (+B 126)
2. *a hitheu auu leben 6zth yr amec* YBH 180 (+B 200)
3. *rac hyuaruot trallaot ae datmaeth* YBH 322 (+B 325)
4. *dzôy ieithid* YBH 378 (+B 380)
5. *rac truanet gantaô y dienydu* YBH 2472 (+2143)
6. *hyt na allaffant dim o amdiffyn idaô* YBH 3972 n. (+B 3497)
Etc.

(v) Hyd yn oed lle mynega'r gerdd Anglo-Normaneg flaith neu amgylchiad fe geir yn y testun Cymraeg yn fynych ychwanegiadau fel yr uchod megis ped ystyriasa'r cyfieithydd y mynegiant estron yn annigonol i ddiben crefft llenor Cymraeg; e.e.,

1. La dame le oi, grant joie ad demené B 118
'Yr iarlls a'i clybu; dangosodd lawenydd mawr'
=*a llawen uu hitheu ozaâvenus+a ryôyr genthi y doei oed y dyd* YBH 111
2. en vostre foreste ad un par desuz la mer B 134
'yn eich forest chwi y mae un uwchben y môr'
=*yn yn ffozest nâ vch pên y moz . . . +medei y ffozesthwyr imi* YBH 127

3. 'Hai, mere', fet il, 'mar fustes si bele!' B 214
'Och, fam', medd ef, 'gwae fi eich bod mor deg!'
=*a g'wae uinneu pan rodes yr arglôyd duô yt y pzyt ar llauyn yn gyndecket ac y rodes+canyis o achâs hynny y llas cynhai* YBH 200
4. si oi . . . graunt joie e grant dedut e noise e grant feste B 259
'ef a glybu . . . fawr lawenydd a mawr dedwyddwch ac ystwr a mawr ddigrifwch'
=*ef a glybwei . . . y faôl gerdeu a glodeft a farllach . . . +ar nys clyôffei hyn no hynny y kyfelybzôyd* YBH 258
5. pur la mort son pere . . . B 366
'am farwolaeth ei dad'
=*o achos agheu y dat+a hiraeth yn ol y thlat* YBH 365
6. en la court ne out chevaler si hardis ke a li oseit turner, taunt fut il forcis B 418
=*ac nyt oed yny llys vn marchaôc yr y gryuet a veidei ymdaraô neu ymdrech ac ef+kany diaghei yr vn yn difarhaet y ôzthaô* YBH 425
7. 'Par deu! palmer, ore sai de verité ke vus estes celi ke jeo ai desiré' B 1461-2
'Myn Duw! balmer, yn awr y gwn i mai chwi yw'r hwn a chwen-ychais'
=*y naôr y gôni yn thwir y mae tydi yô y gôz môgyaf a gereis ac a garaf.+ac yd oedôn yflaiber o amfer yn damunab y thelet* YBH 1577-81
Etc., etc.

(vi) Mewn mynych le trewir ar y cyfieithydd yn caboli ei ieithwedd (ac o hyn yn estyn ei fater) fel petai harddwch ymadroddiad rhyddiaith ei gyfnod yn ei hudo'n barhaus i wella ar ieithwedd ei wreiddiol; e.e.,

1. 'Sire', ceo dist ele . . . jeo sui malade' B 124-5
'Arglwydd', meddai hi . . . 'yr wyf yn glaf'
=*fef a thnaeth hitheu kymryt arnei y bot yn glaf o ozhrom heint* YBH 40
2. jeo ly irrai bercer B 135
'mi a af i'w hela'
=*a minneu aaf auozy yno yn voze* YBH 128
3. 'Deu!' ceo dist lui enfes 'pere dreiturer jeo su fiz de counte, e len me ad fet bercher' B 262-3
'Duw', meddai'r llanc, 'Dad cyfiawn, yr wyf yn fab iarll, ac fe'm gwnaethpwyd yn fugail'
=*a dywêdud oi a arglôyd nef truan a beth yô hyn vy moti doe yn vab iarll kyuoethaôc a hedio yn thugeil ôyn* YBH 261-4

4. Josian out mult dolent le qer B 1423
'Yr oedd I, yn drist ei chalon'

=ac nyt oed yn y byt dyn dzuanach y chyffyr no hi na mby y dzycyruerth
YBH 1535

Etc., etc.

Wrth briodoli'r chwanegiadau hyn a'u cyffelyb i ymyriad y cyfieithydd gwn mai ufuddhau yr wyf i ystyriaethau mewnol (subjective), eithr teimlaf yn bur hyderus y cadarnheid y golygiad gan fyfyrddod gwrthrychol o nowdeddion stilistig traddodiadau llenyddol Ffrainc a Chymru yn yr oesoedd canol.

§12. TRAWSNEWIDIADAU YN Y SYLWEDD

(a)

Pan gymharer dwy lawysgrif Hen Ffrangeg o'r un testun â'i gilydd, megis B a D o *Boeve*, nid peth anarferol yw darganfod i'r copiwr wrth adysgrifennu ei gysail newid trefn llawer o linellau ac o bryd i'w gilydd benillion cyfain. Gwelir hefyd drawsnewidiadau cyffelyb pan rodder caniad Anglo-Normaneg argraffiad Stimming wyneb yn wyneb â'r stori yn ei diwyg Cymraeg. Gan nad yw'r gynddelw y bu'r Cymro'n gweithio arni mwyach ar gael, ofer fyddai ceisio penderfynu pa linellau a newidiodd eu lle wrth ddyfod drosodd. Diamau i'r cyfieithydd orfod newid trefn llawer un, canys gorfodid ef yn fynych i amrywio ei fan cychwyn er mwyn cydymffurfio â gofynion cystrawen wahanol. Glynwn, oblegid hynny, wrth y pethau y gellir pwyso arnynt yn ddiabetrus.

(i) Gwahaniaetha rhifedi'r pethau a nodir; e.e.,

1. *set cent chevalers* B 172
'saith gant ...'

=*pettharcant marcha* Gc YBH 162

2. *e trente e quatre besans de fin or esmeré* B 1358
'pedwar ar ddeg ar hugain ...'

=*mil a deugein byfant o eur dilifyn* YBH 1450

3. *o li seissante chevalers* B 1536
'gydag ef drigain ...'

=*a mil o varchogyon a cde'it gyt ac ef* YBH 1684

Etc., etc.

(ii) Amrywia'r enwau yn fynych yng nghorff y ddau gyfansoddiad. Wele ychydig enghreifftiau:

1. ... il fust a *Retefor* ... B 75

=yn llys idaó a elóit *calys* YBH 90

e *vint* a *Retefor* B 77

=ac yr *calys* y doeth YBH 92

2. ... jeo ai esté a *Nubie*

e en *Cartage* e en *Esclavie*

e a l' *Arbre Sek* e en *Barbarie*

e a *Macedoyne*, par tut en *Paenie* B 1519-22

=mi a deuthum o *nubie*. (o) *varbari* ... o*z inde*. o *aufric*. o *aste*
YBH 1663

3. ceo fu a *Colonie* la cité B 1895

=yr bozhua yfflyd yn emyl *bóllyn* YBH 2120

4. Judas e *Masebré* B 3561

=iudas o *machabes* YBH 4045

5. *Edegar* B 3770, 3776

=*etlbert* YBH 4281, 4290

Etc., etc.

(iii) Nid i'r un mathau o bersonau y priodolir bob amser yr un gweithredoedd. Er enghraifft, yr hyn a gyfetyb i *bzaóthuyth* 743 yn *Boeve* 724 yw *messenger* 'negesydd'. Digwydd *bzaóthuaeth* drachefn yn *Ystoria Bown* 1486, 1550, 1627, eithr y darlenniadau cyfatebol yn *Boeve* 1384, 1435, 1496 yw *esquier*. Yn gyffelyb, dyrr *Bown* yn 2564, 2571 *maclly(f)*, ond yn *Boeve* 2221, 2225 *son frere dru* 'ei hoff frawd' a welir am y cyntaf a *meylur ami* 'gorau cyfaill' am yr ail. Y geiriau a welir yn *Ystoria Bown* 3419 yw y *ozeic vbyaf a garei*; yn *Boeve* y darlenniad cyfarwyneb yw *son ami privé* 'ei gyfaill mynwesol' (=Terri). Yn y stori Gymraeg (3959) Josian a rydd y gorchymyn i'r marchogion i wiago arfau; yn y gân Anglo-Normaneg (3487) wrth arch y Brenin Gui, ei mab, yr ymbaratoant. Gellid lluosogi'r esiamplau.

(iv) Gwelsom o dan *Ychwanegiadau* fod mwy o arfau amddiffyn am ysgwyddau'r marchog ieuanc ar ei fynediad i urdd y marchogion yn ôl y stori Gymraeg nag a nodid yn y gerdd Anglo-Normaneg. Sylwer hefyd mai *un bon branc trenchant* 'cleddyf da awchus' yw arf Copart yn *Boeve* 1748, ond yn ôl *Ystoria Bown* 1959 *yfpodyl d'om emuniac* ydyw.

(v) Heblaw gwahaniaethau o nodwedd bendant fel y rhain, a heb sôn am y darlenniadau chwanegol a nodwedda'r caniad Anglo-Normaneg, dengys cymhariaeth o'r ddau destun nifer mawr o amrywiadau cyffredinol na ellir yn hawdd eu dosbarthu.

Noder ychydig ohonynt:

1. *pur la mort son pere ou dolour estrine* B 366

'am farwolaeth ei dad *gyda dolur dwys*'

=o achos agheu y dat a *hiraeth* yn ôl y *blat* YBH 365

2. ac ath w'naf yn fynfgal ar vy holl gyuoeth YBH 412
(darlleniad absennol yn Ffrangeg; cf. B 409)
3. un herbe *achata* B 2779
'prynodd lysieuyn'
= a phroui a ozu(c) hi llyfelyyn YBH 3215
4. Mult fu bel *l'eschec* B 2950
'Teg iawn fu'r ysbail'
= Tec oedynt y *bydinoed* YBH 3392
5. de vos *enchantemens* ai veu assez B 3416
'digon a welais o'ch swynion'
= digon a gogleu oth *ganueu* YBH 3878
6. . . . si l'ad *nunciez* B 3434
'... ac a'i mynegodd'
= erchi na'od a thzugared YBH 3902
7. sonja ke Boves estoit *blescé* B 3439
'breuddwydiodd fod B. yn *glwyfedig*'
= a g'lelet bzeid'oyt . . . nyt amgen . no g'lelet bo'n yn *alarus* YBH 3910
8. 'Amis', dist Boves, *atendez ceste an* B 3706
'Gyfaill', meddai B. '*arhoswech y flwyddyn hon*'
= Syr heb y bo'n ti a b'ylly *mal kynt* YBH 4205

Dewisais yr enghreifftiau hyn o wahanol rannau o'r chwedl er mwyn dangos fod yr amrywiadau yn ymestyn o ben bwy gilydd i'r ddau gyfanfoddiad. Gallaisid yn hawdd gasglu mwy o esiamplau ar unrhyw chwarter o'r tir yr aethpwyd drosto, oblegid ni cheir nemor dudalen na ddyry ddarlleniad neu ddarlleniadau sy'n amrywio i ryw fesur. Weithiau deuir ar draws adrannau sy'n doreth o amrywiadau pwysig (cf. tt. 9, 45, etc., a gw. y *Nodiadau*).

(vi) Yr oedd y rhan fwyaf o'r trawsnewidiadau a fu dan sylw hyd yn hyn ond odid eisoes yn y cynddelwau Anglo-Normaneg. Bellach ceiswn benderfynu pa newidiadau yn y drefn a'r sylwedd a ddyldid eu priodoli i'r cyfieithydd Cymraeg.

Ni allai'r cyfieithydd lai na thrawsnewid aml linell a llawer pwynt yn rhan gyntaf y chwedl lle gwasgodd un pennill ar hugain i gwmpas un tudalen. Ac os gallai newid trefn ei fater yn nechrau'r gwaith, wrth dalffyr, gallai hefyd ei amrywio pan alwai ei resymeg a'i anawsterau cystrawennol am hynny ynghwrs ei orchwyl. Ymddengys yn debygol, felly, bod trefn llawer peth yn wahanol yn y cyfieithiad i'r hyn oedd yn y gynddelw ac, o'm rhan fy hun, tueddaf i briodoli i'r troswr amryw o'r trawsnewidiadau y soniwyd amdanynt uchod.

Os cywir y dyb mai mynach Cymraeg biau'r cyfieithiad, yna nid afresymol tybio mai ef hefyd a gywirodd y llinell:

en la terre scynte *trente ans* penez B 2411
'yn y tir santaidd a ddiodeffodd *ddeng mlynedd ar hugain*'

yn: ac auu *teir blyned ar dec a rugeint* ar y dayar yn diodef penyt YBH 2804

Y Cymro yn ddiau sy'n gyfrifol am rai newidiadau yn y mesuriadau. Nid oedd cyfystyr *arpent* yn hysbys iddo yn Gymraeg a chawn ef yn ei ddehongli unwaith drwy *ergyt faeth* 2607, dro arall (yn 2898) yn rhoi *gyzua march* amdano, ac yn 2918 ar ôl y *ganlyn*, yn ei adael allan (cf. B. 2511).

Gwybodaeth y cyfieithydd o'r llys Cymreig a'i arferion yn bur sicr a'i cymhellodd i ddehongli:

li emfes vint devaunt le emperur . . . B 289
'y llanc a ddaeth gerbron yr ymherodr . . .'

drwy:—a cherdet radda'od a'naeth y mab yn y vyd *yghynted y neuad* rac bz'ôn yr amhera'odyr YBH 285-6

Tybed mai cymhwysio ei wybodaeth o rannau mân swyddogion llys a wnaeth iddo drosi *messenger* 'negesydd, *handy man*' amryw droeon drwy *bzab'faeth*? (gw. uchod).

(vii) Dywedais yn rhannau arweiniol y bennod hon y gweithiai'r copiwyd canoloesol yn fynych bob yn ddau. O waith y darllynydd yn camddarllen neu'r copiwr yn camddeall, bu'r cyd-lafur hwnnw yn gychwynfan llawer o amrywiadau testunol. Trewir ar niferus amrywiadau yn *Ystoria Boten* a allai fod eisoes yn y cynddelwau Anglo-Normaneg, ond a allai hefyd lawnystal fod wedi eu cynhyrchu o gamddarllen neu gamddeall ar yr adeg y cyfieithwyd y stori i'r Gymraeg. Dyma ychydig enghreifftiau allan o lawer:

1. Yn *Boece* 1621 ceir: Ne pernez pas *en cors* 'Do not take it to heart' ac yn *Bowen* 1787: na chymer di . . . yn *lle d'êce* 'do not take it amis'. Sail yr olaf yw . . . *en tors*, o *tort* 'niwed, drwg'. Am beth tebyg, cf. *granz tours ancianes* 'hen dyroedd mawrion', *Potvin* 312, eithr yn *Saint Greal* 418 *hendwfyfyr mawrdwfyfyn*, cyfieithiad a seiliwyd ar *cours* 'ffrwd, cerrynt'.

2. Fel y gwelsom, dyry *Boece* 2779: un herbe *achata* 'prynodd lysieuyn' a *Bowen* 3214: a phroui a ozuc hi llyfelyyn, cyfieithiad o *attasta*, 3 un. gorff. *at(t)aster* 'proff, archwaethu'. Fel amrywiad ar *achata* ceid *achata* (gw. Ste-Palaye d.g. *achapter* 'prynu') ac o waith rhywun, Ffrancwr neu Gymro, yn dirnad hwnnw fel *attasta* y deilliodd y gymysgedd.

3. Rhydd *Boece* 2900-1: Boves ad les contes demandé
qu'il out eus pris a *l'estur festé*

'Gofynnodd Bown i'r ieirll a gymerasai cyn hynny (yn garcharorion) yn y frwydr am wrogaeth'. Yn *Bowen* 3340 gwelir yd *erchis bo'n yr ieirll* tynet ar lleilltu. Sylfaen y darlleniad Cymraeg yw a *l'efcar faint*; gw. n. ar 3340.

4. un poi *de meyné* ai en la citez B 2979
'ychydig o *gymdeithion* sydd gyda mi yn y ddinas'
=yny dinas *yd gyf ys dydyeu* YBH 3428. Os rhoir *demeuré*, rhang. gorff. *demeurer* 'aros, trigo' yn lle *de meyné* (gw. dan *demeurer* yn Ste-Palaye), dyna i chwi ffynhonnell y darlenniad Cymraeg (yn yr ysgriflen ynysol yn Lloegr a Chymru yr oedd *r* yn debyg iawn i *n*).
5. E dist li valet: 'Tost le verras tu' B 3463
'Ac meddai'r gwas: "Buan y gweli di ef".'
=heb y gŵas ti a geffu y ŵelet *oll* YBH 3939. Yr oedd *s* o flaen *t* yn wan iawn yn Anglo-Normaneg ac esgeulusid hi'n fawr (gw. *Orgraff* isod). Ymddatblygodd *oll* o waith rhyw ddarllenwyd yn esgeuluso *s* tost 'buan' a rhoi inni *tot* 'y cwbl, oll'.
Cf. hefyd B 2476=YBH 2877; B 2776=YBH 3210; B 2839=YBH 3274; B 2892=YBH 3329; B 3217=YBH 3684; B 3575=YBH 4063; B 3560=YBH 4043; B 3628=YBH 4120; etc.; a gw. y *Nodiadau*.

§12(b).

Gallasai'r math uchod o amrywiad, fel y dywedais, ymddatblygu yn ddiwahaniaeth naill ai dan ddwylo copiwyd Anglo-Normanoid neu dan ddwylo'r Cymro a drosodd y stori. Ond yn sicr ddigon, ceir yn *Bown* lawer amrywiad a ddaeth i fod wrth lunio'r cyfieithiad Cymraeg. Gellir rhannu'r rhain yn ddosbarthiadau:

- (i) *Camgyfleu cystrawennau Anglo-Normaneg o achos eu clyced yn hytrach na'u gweld*
1. Kant oya sun seynur Arundel *le preysé* B 2507
'Pan glybu Arundel, y *gwerthfawr*, ei arglwydd'
=a phan gogleu y march y arglwyd *ynyvoli* YBH 2915-6
Yn y llinell hon dirnadodd y cyfieithydd y rhang. gorff. *preysé* fel y modd annherfynol *preyser*, yr hyn ni allai ddigwydd i neb a wyddai'r iaith os oedd â'i olygon ar odl y *laisse* (gw. 2. isod). Ar y llaw arall, o ddibynnu ar ei glust, gallai hyd yn oed meistr ar yr iaith droi fel y gwnaethpwyd oblegid yr oedd *r* yn saïn wan yn Anglo-Normaneg.
2. Il vestent haubers e helmes *gemmé* B 2918
'Hwy a wisgant lurigau a helmau *gemog*'
=a gŵelet a ozuc y llurugeu ar helmeu yn difcleiraó YBH 3360
Yma eto cymerwyd y rhang. gorff. (*gemmé*) fel petai'r modd annherfynol *gemmer* 'discleirio' a deallwyd *vestent* (<*vestire*) megis *sistent* (<*videre*). Dim ond dyn heb syniad am ramadeg a fuasai'n troi yn y dull hwn ar ôl *gweld* ohono'r llinell. Ni chofnodir *gemmer* fel berf yn y geirlyfrau Hen Ffrangeg, ond ar ôl hyn ymddengys y dylid ei chwanegu. Cyfieithwyd *helme gemmé* B 3133 yn gywir yn YBH 3592: a *helym difcleiraedic*.

3. Les fiz Boun, ke furent *enseignez*, après manger juer sont alez B 3032
'Bown's sons who had been instructed (in the use of arms), after food went a-jousting'
=*iach* (a *llathen*) oed y meibon. a gŵedy eu bŵyt y chware yd aethont YBH 3476

Wrth wrando ar ei ddarllenwyd yn yngan *enseignez* 'instructed', meddyliodd y troswr am *enseinez* 'made whole by bleeding'. Tebyg mai benthyciad yw a *llathen* o frawddeg flaenorol; gw. n. ar 3476.

Cf. B 2495=YBH 2904; B 2620=YBH 3054; B 2647=YBH 3080; etc.; a gw. y *Nodiadau*.

(ii) *O ddau ystyr dewis yr un ni wedda i'r cyswllt*

1. 'Sire', dist a Sabaoth, '*lessez moi ester!*' B 2526
'Arglwydd', meddai Sabaoth, '*geduch fi'n llonydd!*'
=arglwyd heb ef *llafer* a *gyfgeist* YBH 2935
Sail diwedd y darlenniad a rydd *Ystoria Bown* yw *mult avez cuché*. Yr oedd i *c(o)ucher* yn Hen Ffrangeg yr ystyrion 'cysgu; cynghwyatlo'. Arferodd y Cymro yr un cyntaf; ped arferasai'r ail, buasai'r meddwl yn gweddu'n berffaith i'r cyswllt; cf. *mi a emilleis o redec ty march*; etc. Prin y gellir tybio dardfod defnyddio *cysgu* yn gyfystyr â *cynghwyatlo* yn Gymraeg (gw. n. ar 2935).
2. *Multi garda bien* Sabaoth li guerrer B 2788
'Hi a ofalodd yn dda am Sabaoth ryfelwr'
=ac edrych ar hynny a ozuc fabaot yn *graff* YBH 3225
Ni ddyry'r darlenniad sydd yn *Bown* nemor synnwyd fel y saif. O'r ochr arall, yn wyneb afiechyd Sabaoth (buasai'n glaf am saith mlynedd), y mae'r darlenniad Anglo-Normaneg yn cydfynd yn berffaith â'r cyswllt. Yn yr oesau canol golygai *garder* 'edrych ar' yn ogyatal â 'gofalu am'.
3. *Icele nuit li servent a plenté* B 2892
'Y nos honno *gweinydd* arno yn helaeth'
=ac y *gyfau* y nos honno yd aethant YBH 3329
Dirnadodd y Cymro *li* (<*illi*) fel *li(i)*, *llu. lii* (<*lectum*) ac a *plenté* nid fel adferf 'yn helaeth', eithr—?'i'r doct, i bawb'. Am y wled y sonnir yn y cyswllt ac y mae'r darlenniad Cymraeg yn ddi-bwynt lle digwydd. Cyfeirir at eu gwaith yn mynd i gysgu yn nes ymlaen yn 3345: *Y gyfau yd aethant ody eyon paleis b zehinatol* wedi gweinyddu'r briodas (gw. ymhellach n. ar 3329).
Cf. hefyd B 1963=YBH 2218; B 2774=YBH 3209; B 2799=YBH 3233; B 2973=YBH 3419; etc.; a gw. y *Nodiadau*.

(iii) *Cymysgu ymwybod ieithyddo!*

Fe geir y cyfieithydd nid yn unig yn trosi'r meddwl lleiaf addas o air Ffrangeg, eithr trewir arno yn awr ac yn y man yn colli ei ymwybod ieithyddol dros ennyd ac yn gadael i eiriau un iaith ymwithio, yn anghyfarch fel petai, i diriogaeth iaith arall. Cariwyd drosodd o'r testun Anglo-Normaneg i'r fersiwn Cymraeg fagad o eiriau heb eu newid o gwbl, eithr anodd gwybod pa faint ohonynt a ddylid eu priodoli i'r gogwydd seicolegol hwn. Dichon y dylid ystyried y benthyciadau Hen Ffrangeg y ceid cyfystyron Cymraeg byw amdanynt fel ffrwyth y fath groes-ymwybod megis *plŷs* 957='cadwyn'; *mynnu* 975, 2722=? 'ewyllys'; *p2ofandy* 1065; *geol* 1211; *fómer* 1741 = 'pwn'; *kyffeffu* 2080='curo'; *feileist* 2664; *plóme(n)* 2743='pair'; *fóibzn* 2873, 3083='aros'; *lótton* 3006='dyhiryn'; *ihoun* 3032='dyn, they, people'; *trayt6z* 3197; etc., etc.

(iv) *Y mae'n debycach fyth y dylid priodoli cadwraeth cymalau Hen Ffrangeg fel y rhai canlynol i'r ymgroesi y cyfeiraf ato:*

1. *Honi seit de son cors* ki en Mahun se afic! B 405
ac (o) *nys* (y) *gorf* fo a amdireto . . . y vahom YBH 404

2. 'quei *veniste* vus quere ne iceo pais?' B 611
'beth a *ddaethost* ti i'w geiso yn y wlad hon?'
=beth a *eynneifli* yr *l̄lat* hon YBH 625

3. *melz entent que cerf(s) esprové* B 2508
'gwell y deall na *chaethwas medrus*'
=yn *l̄ell* noc y *kaus* *oe bzoui* (gw.n.) YBH 2916
Cf. hefyd B 2503=YBH 2911; B 2519=YBH 2926.

(v) *Damweinig weithiau ar y troswr yn ddirnad geiriau Ffrangeg fel petynt eiriau Cymraeg; e.e.,*

1. *ef āl̄yl* ar *dīwycyat* dyn *ryó aniuel* gobzaff y veint YBH 1954
=par *desuz* un *tertre* vist un *veleyn* gesant B 1744.
'ar ben bryncyn *ef* a welodd *filain* gorweiddiog.'

Ymddengys i'r darlennydd gael anhawster i ddatrys gwe'r llin Anglo-Normaneg a oedd o'i flaen ac i'r cyfieithydd glywed rhywbeth fel:

par *desuz* un *estre* vist un *veleyn(n)* geiant

ac yn yr ymdrech i ddechongli'r ystyr adael i'w ymwybod ieithyddol fynd, fel petai, dros y cledrau a deall un *vele* fel *aniuel*. Buasai geiant yn amrywiad digon tebygol ar *gefant*, oblegid cymysgid *i, l, ac f* (cf. *hoefleu*=*hoeflu* LJDW 130; *prol*=*prof* GrapC 138, etc.), eithr syndod yw gweld troswr yn ddirnad gair Ffrangeg fel gair Cymraeg. Rhaid fod y testun y gweithiodd arno yn llwgr iawn cyn y gallai un *tertre?* fynd yn un *estre*. Ac ar amcan yn hollol y gellid esbonio *par desuz* (os dyna oedd) fel ar *dīwycyat* a hynny ar ôl deall *tertre* fel *estre* 'being, dyn', oblegid nid oedd

iddo yn Hen Ffrangeg yr un ystyr a allai gyfiawnhau hynny. Yr oedd *n* weithiau yn wamal ac fe'i nodid yn fynych drwy roi *titulus* ar y llafariad ffactorol.

2. a *gouyn* idaó *póy* a *art̄wedynt* gyt ac *Gynt* . . .
argl̄oyd heb y *faboot*, *terri* vy *mab*
ac *fcopart* a *ant* gyt a *thi* YBH 3077

= 'Sire', ceo dist ele, 'ke volum nus amener?'
'Sire', dist Sabaoth, 'Terri, mun hereter.'
A tant estevus l'Escopart le fer B 2644

'Arglwydd', meddai hi, 'pwy a ddygwn gyda ni?'
'Arglwydd', meddai Sabaoth, 'Terri, fy etifedd.'
Yna wele Ysgopart y cadarn (yn dyfod)

Os darllenir *t* fel *e* yn *tant*, ac os esgeulusir yr *s* o flaen *t* yn *estevus* (pethau cyffredin yn Anglo-Normaneg) ceir *acancete*, cyfuniad o seiniau a ddirnadodd y cyfieithydd, mae'n debyg, fel y geiriau Cymraeg ac *an(t)* *cyt* a, yr hyn, fel y tybiaf, a roes fod i'r darlenniad yn *Ystoria Bown* (gw. n. ar 3079-82).

3. *ef* a *lada6d* agos y *deugein* YBH 3379
=ne *ad de* *mort* *garrant* B 2938
'nid oes gwarant rhag angau'

Os tybir i'r Cymro ddeall *ne ad* fel y ddau air Cymraeg *ny at* (cf. 2 uchod) ac iddo barhau i feddwl yn Gymraeg a dehongli *garrant* fel Cymraeg a threiglod o *g(u)arant(e)* 'deugain', yna ceir esboniad sut y crwydrodd y testun (gw. y n. ar hyn).

4. *a dyzo* *vóyt* *idaó* YBH 3433
=E *dunc* *dít* *Terri* *li aloz* B 2984
'Ac yna', medd Terri, 'yr anrhydeddus'

Yn lle *dunc* (amr. *dunk*, *donques*, etc.), clybu'r Cymro *duns* (<*duner* 'rhoddi'), yr hyn a'i cymhellodd i ddirnad *dít* Terri fel geiriau Cymraeg yn y cyflwr cyfarchiadol—*dít*, Terri 'thou, Terri'. Yna dehonglodd y fannod *li* fel y rhagenw *li* (=illi) a'r rhang. gortf. *aloz* (*aloz*) fel *aloz*, 'pysgod; ?bwyd'. Yr oedd *aloz* yn bysgod hysbys yn mynachlogydd Ffrainc yn yr oesoedd canol (gw. Ste-Palave) ac o'dai -*ez* ag *ez* -er ail hanner y ddeuddegfed ganrif.¹

5. a *menegi* idaó y *mod* y *gozuc* *inoz* ac *ef* YBH 4037
=e il *lur* *conte*, *com* *Yevri* *lur* *ad guere* B 3548
'a mynega iddynt pa wedd y rhyfelodd lfor arnunt'

Yn narlenniad *Ystoria Bown* ymddengys i'r cyfieithydd, heb wybod iddo ei hun, wthio ystyr *bón guere*, 'thyfela' i mewn i fon gorffennol

¹ Gw. J. Vaing, *Le Purgatoire* . . . t. 36.

gwaf, yr hyn a wna'r darlenniad Cymraeg yn gwbl unwedd ei feddwl â'r testun Anglo-Normaneg. Methodd Stimming â gweld y pwynt hwn ac o'r herwydd ystyriodd y trosiad yn *Ystoria Bown* yn amryfus.

(vi) Gan mai cyfieithu o'r Ffrangeg yn sicr yr oedd y Cymro hwn, nid yw ei waith yn ymddrysu fel hyn yn syndod yn y byd, oblegid gwyddom oll y geill dyn a fo wedi blino gollu gafacl i raddau ar ei ymwybod o iaith estron a mynd i wrando a deall rhai pethau a'i ymwybod o'i iaith frodorol ei hun. Yr hyn sydd yn peri syndod yw ei waith yn ddirnad geiriau *Ffrangeg* fel petynt eiriau *Saesneg*. Digwydd hyn efallai deirgwaith a phob tro â'r trosiad Cymraeg o'r herwydd ar grwydr oddi wrth y traddodiad testunol:

1. yn yr yflauell y gŵlelei varch yn bŷyta y yt YBH 1160-1
= en la chambre entra et vyt iloc ester armes . . . B 1108
'aeth i mewn i'r ystafell a gwelodd yno arfau (yn hongian . . .)'

Ni cheir dim yn *Boeve* yn cyfateb i'r darlenniad Cymraeg a thybiaf i'r olaf ddod i fodolaeth fel hyn: yn Anglo-Normaneg er hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg collai *s* o'r gynhaniaeth, ond delid i'w hysgrifennu ac yn y cyfnod annelwig hwn arni nodid hi hefyd yn aml drwy *c*. Gallasai'r sawl a ddarllenai i'r cyfieithydd, gan hynny, mewn moment o gysgadwrwydd, yngan *iloc ester fel il os eter*, a chan fod *r* fel *s* yn wan iawn ei sain ac yn wamal ei horgraff, gallasai'r trosrwyntau yn un o'i funudau cysglyd (hanner gysgai ef yn fynych) ddirnad y geiriau fel geiriau Saesneg: (*et vyt il hors eter* 'and saw the horse eat'. Ni fuasai hyn nemor ddim rhyfeddach na'i waith yn ddirnad Ffrangeg fel Cymraeg yn 1954, 3077, 3379, 3433, etc.

2. oy athzo. heb y boŷn duŷ a diŷolcho iti YBH 2829
='Mestre', dist Boves, 'dahaŷt dunke mun chef!' B 2431
'Athro', meddai Bown, 'yr achlod, ynteu, i'm pen!'

Ffuriau cyffredin ar *dahaŷt* yw *dahaŷt a deheit*. Os tybir eu bod yma eto yn gweithio'n ddau gyda'i gilydd ac i'r darlennydd ddarllen *dunke fel ddonke* (yr oedd i *d* y gwerth *dd* yn HFI fel mewn CymC a HS), yna gellir casglu i'r cyfieithydd ddirnad *dahaŷt ddonke mun chief fel Deit(e) ddonke mun ch(i)ef* '(may the) Deity thank my chief'. Anodd tybio ddar-fod seilio *diŷolcho* oddieithr ar *ddonke* o *ddonken*, amrywiad ar HS *thanken*; (gw. y geiriaduron).

3. a pheri y veibon yscynnu ar eu meirch YBH 3513
= Boves ad fet ke les soens sunt montez B 3063
'Bown a barodd i'w eiddo ei hun esgyn ar eu meirch'

Y mae'r darll. Cymraeg yn rhyngu bodd yn drylwyr, eithr yn wyneb 2829 a 4168 (gw. 2. uchod ac 4. isod), temtir ni i ofyn a gamddirnadodd y cyfieithydd *soens* 'eiddo' fel *sŷnes* HS ac o hynny roi inni *veibon*. Ceir o am oer yn Anglo-Normaneg er yn gynnar a'r ynganiad ag o, os o gwbl,

a ddug y gair Saesneg ar gof i'r trosrwynt. Gan y sonnir am Iosian a'i merch yn y llinellau nesaf, nid arhosai o'r teulu i'w henwi ond y meibion. Pa wedd bynnag, y mae hyn yn gyd-drawiad hynod.

4. Y neb a gredaŷd myŷn *hellbydeu* madeuit duŷ vduŷ YBH 4168
= ke mes en li creit, deu li acravant! B 3671
'y neb a gredo *ynddo* mwyach, distrywied Duw ef!'

Yma eto y gair Saesneg Canol am *lie* a gynhenid y pryd hwnnw ag *i* fel *i* Gymraeg a ymwithodd i'r ymwybod ac a roddodd fod i *hellbydeu*. Digwydd ffurfiau o'r gair Saesneg heb *-g-* cyn diwedd y ddeuddegfed ganrif.¹

Nid oes amheuaeth, gan hynny, na chynnwys y fersiwn o *Ystoria Bown de Hamton* a draddodwyd inni yn *Llyfr Gwyn Rhydderch* lawer iawn o feiau sydd i'w priodoli i'r cyfieithydd o'r Anglo-Normaneg, beiau a amlhawyd yn fawr drwy waith y copiwr canoloesol ac yn yr amseroedd diweddar drwy waith ei golygydd a'i chyfieithydd i'r Saesneg.

§13.

(i) Yn nechrau chwarter olaf y ganrif o'r blaen, o dan olygyddiaeth y Parch. Robert Williams, Rheithor Rhydycroesau, cyhoeddwyd yn rhannau ac yna yn gyfrolau ar wahân² ddau o'r llyfrau mwyaf diddorol a ddaeth erioed i ddwylo carwyr llenyddiaeth Cymru. Y naill oedd y *Y Saint Greal*, anturiau marchogion Arthur yn ymofyn am y greal santaid; y llall oedd *Campeu Charlymaen, Bown o Hamton*, etc. Dilynid testunau'r ddwy gyfrol gan gyfieithiadau llawn i'r Saesneg.

Trwy'r cyfrolau hyn, yn enwedig drwy *Selections . . . Vol. II*, y daeth ysgolheigion Hen Ffrangeg Ewrop ac America i wybod am fodolaeth y cyfieithiadau Cymraeg Canol o gerddi a rhamantau Hen Ffrainc, ac o'r pryd hwnnw hyd heddiw y cyfieithiadau hyn, neu'n hytrach y trosiadau Saesneg a wnaethpwyd ohonynt, fu'r brif ffynhonnell Gymreig y tynnodd cenedlaethau o feirniad llen yr oesoedd canol a golygwyr testunau Hen Ffrangeg eu defnydd ohoni: Eduard Koschwitz, Edmund Stengel, Albert Stimming, etc.

(ii) Yn anffodus, wrth adeiladu testunau'r *Selections* ni roes Robert Williams yr un sylw i egwyddorion beirniadaeth destunol gydnabyddedig ac oblegid hynny beirniadwyd golygyddiaeth *Vol. II* yn llym gan Gaston Paris.³ O'r tu arall, nid ymdengys i neb dduŷu'r amheuaeth leiaf ar gywirdeb 'A Literal Translation of the Welsh Text' a brintiwyd ar ddiwedd y gyfrol. Ond y gwir yw i gamgyfieithiadau'r golygydd wneud mwy o niwed i feirniadaeth destunol yr hen gerddi arwrol na'i holl esgeulustod i gyferbynnu a dosbarthu ei lawysgrifau.

¹ Gw. K. Luick, *Historische Grammatik der Englischen Sprache, Band I, Abteil I* (Leipzig, 1921), t. 416.

² *Selections from the Hengwrt MSS, Preserved in the Peniarth Library*; op. cit.

³ Gw. *Romania*, XXII (1893), tt. 296-9.

Un o feiau mwyaf Rheithor Rhydycroesau fel cyfieithydd oedd ei anallu i ganfod a diwygio darlenniadau llwgr y testun a drosai. Pan drawai ar anhawster geiriol neu gystrawennol, deuai ar ei warthaf megis parlys meddyliol a chawn ef o'r herwydd yn cyfieithu ar ei gyfer ac yn cynhyrchu darlenniadau hollol ddisynnwyr ac anghyson â'r cyd-destun. Ac yn wahanol iawn i'r Arglwyddes Guest yn ei *Mabinogion*, ni bydd Robert Williams odid byth yn achub ei wyneb ac yn dangos iddo, wedi'r cwbl, o grafter cynhwynol, ddyfalu yn ei gyfieithiad iawn arwyddocâd y ffurfiau beius a edy heb eu gwellhau yn ei destun Cymraeg.

(iii) Gwelson gynnu fod testun *Llyfr Gwyn Rhydderch o Ystoria Bown de Hamton* yn cynnwys niferus feiau ysgrifol o bob math. Buasid yn disgwyl i olygydd y *Selections from the Hengwrt MSS.* garthu allan y rhain cyn rhoi i'r byd yn ei 'Literal Translation of the Welsh Text' dystiolaeth Cymru ar gerddi Hen Ffrainc. Ond eu cyhoeddi yn ddi-feirniadaeth a wnaeth Robert Williams, gan fwrw atynt wmbredd o wallau o'i eiddo ei hun. Gader inni ystyried tair enghraifft o'r nifer mawr na ddiwygiwyd ganddo:

1. a llawen uu rieni y meibon gan y gwleiet *ae tat* YBH 3991. B 3512-3
Lur pere e lur mere sunt leez e joiant de lur enfans, *ke de bataile* sont venant

Trosiad RW oedd 'and the parents of the sons rejoiced to see them with their father' (*Sel.* 561), darlenniad disynnwyr, anghyson â'r cyswllt. Y mae'n amlwg fod hwn yn ddifeius hyd nes i ryw gopiwr gamddarlenn *oe cat fel ae tat*. Dylasai Williams ganfod a chywiro'r amryfusedd ysgrifol. Canfu Stimming ef a chafodd y trosr canoloesol yr anghlod amdano.¹

2. eithyr a alwei ar *vedic* onadunt ny welci na mam na mab YBH 4139

Er i olygydd y *Selections* weld drocon yn y *Seint Greal* a manau eraill (gw. n. ar 4139) mai angau neu fedydd oedd y ddau ddeuis a roddai'r Cristionogion i'r paganiaid gorchfygedig, ni welodd y dylai ddiwygio *vedic* yn *vedit*, yr hyn yn sicr oedd y darlenniad gwreiddiol. Sylwodd Stimming ar yr anghytgord yn y fersiwn Cymraeg ac am ddiffyg treidd-garwch Williams cyfrifwyd y cyfieithydd cyntaf yn euog.² (gw. n. ar 4139).

3. o lewenyd y neidaôd uch y bēn pymthec troedued *at y not* y neidaôd. ac nyt oed un ofyn yno arnaô. a ffozd chag oed honno ar hyt y ffozd honno y kerdaôd yn y doeth i berued y dinas YBH 1145-6

Dengys y cyswllt yn eglur mai am ffordd danddaearol y sonnir, ond ni ddaeth i feddwl Williams mai copiwr a newidiasai *ac y uot* (*fof* 'vault') yn *at y not* a'i drosiad diaut oedd 'to the mark that he jumped' (*Sel.* 530). Eto unwaith, o dybio fod gwaith golygydd y *Selections* yn awdurdodol, bwriodd Stimming y bai ar y cyfieithiad Cymraeg Canol.³

¹ A. Stimming, *Der Anglonormannische Boeve* . . . t. xcviij.

² *Ibid.*, id., t. ci.

³ *Ibid.*, id., t. xcviij.

Dyna dair esiampl nodweddiadol o'r niferus broblemau testunol a fu'n rhy ddyrys i olygydd y *Selections*.

(iv) Ffaelodd Canon Williams â glanhau nid yn unig y testun Cymraeg o'r amryfal lygriadau a ddaethai iddo drwy waith copiwr, eithr amlhaodd hwynt (i'r sawl na wyddai Gymraeg) trwy gamgyfieithu geiriau ac ymadroddion sy'n gwbl ddfai yn y llawysgrifau. Ac nid pethau dyrys bob amser mo'r rheini. Yn fynych nid ydynt onid geiriau a brawddegau hollol ddiamwys. Cymerer dan y pen hwn eto ychydig o enghreifftiau allan o liaws:

1. Sef a wnaeth rei o2 marchogyon y llys *daly kyghozuynt* 62th y mab rac y anôylet gan y bzenhin YBH 415
Darllenodd Williams *daly kyghor wynt* a rhoes yn ei drosiad 'held a council' (*Sel.* 522).
2. ar diaereb a dyweith gwlell vn kanyrthôy da no *deu uys* YBH 1737
Gwys yma yw 'summons', fel y dengys y cyd-destun, eithr yr hyn a geir yn y *Selections* 536 yw 'Better is one good aid than two fingers'!
3. rac y ofyn degweith *yd ymfôynaôd* YBH 2154
Yr ystyr i Williams oedd 'he swooned', nid 'he made the sign of the cross' (*Sel.* 540).
4. a redech a wnaethant ar hyt y llys. a gi a ragozaôd ar milys *yn yglhane* y *ôzyt* YBH 3566
Gôzyt 'fathom' fuasai'n dod i feddwl y rhan fwyaf, ond 'aspect' oedd ymateb golygydd y *Selections*, a'i gyfieithiad bachgennaidd oedd '... and Gi excelled Miles in addition to his aspect' (*Sel.* 556).
5. llyma viui *ofit yt* a holych haôl YBH 343
Yn hytrach nag *ofit it* 'if thou hast (llyth. if there is for thee)', dehongliad Williams oedd *o hit yt* (*Sel.* 123) a'i drosiad 'with wrath to thee' (*Sel.* 521).
6. ony chaffaf *dy benn di yr mabz* YBH 2691
Darlenniad y *Selections* 159 oedd . . . *yr maes* a'r esboniad 'on the field' (546).

Ceir triniaeth helaethach ar y beiau a'r meflau hyn a'u cyffelyb yn y *Nodiadau*.

Dywedwyd digon i ddangos fod yn nhestun Cymraeg y *Bown o Hamton* a gyhoeddodd Robert Williams lawer o lygriadau ac iddo yn y cyfieithiad Saesneg a wnaeth ohono nid yn unig fethu â'u glanhau eithr darfod iddo lawer gwaith a llawer modd chwaneu at eu nifer.¹

¹ Gw. ymbellach M. Watkin, 'Albert Stimming's Welsh Fassung in the Anglonormannische Boeve de Haumtone, an Examination of a Critique' yn *Studies Presented to M. K. Pope* (Manchester University Press, 1939).

§14.

(i) Saith mlynedd wedi printio's *Selections . . . Vol. II*, cyhoeddodd Albert Stimming ei *Anglonormannische Boeve de Haumtone*, yr argraffiad y cyfeiriwyd ato droeon yn barod. Yn ei *Einleitung* astudiodd y cyfieithiadau estron—Cymraeg, Norwyeg, Saesneg (ef biau'r drefn)—a wnaethpwyd o'r gerdd yn yr oesoedd canol. Neilltuodd bennod hir i astudio darlenniadau'r fersiwn Cymraeg, gan roi goglyd, fel y gwelsom, ar gywirdeb 'A Literal Translation of the Welsh Text' y Canon Robert Williams.

Ni wyddai Stimming ddim Cymraeg a chymerodd yn ganiataol ddarfod sefydlu'r 'Literal Translation' ar yr ysgolheictod llwyr a'i fod yn fyneigiant awdurdodol o stori Bown fel y delweddiad hi yn llawysgrifau Cymru. Casglodd, gan hynny, fod yr anghysonderau a welsai yn narlenniadau'r *Selections* i'w tadogi ar y cyfieithydd canoloesol a phentyrwyd ar ben y truan hwnnw nid yn unig ei feffau ef ei hun eithr hefyd feiau'r copïwr a biau Robert Williams hwythau.

(ii) Y mae lle i gredu, serch hynny, nad aethai Albert Stimming ymbell cyn dechrau amau gwerth 'A Literal Translation' Robert Williams a chawn ef cyn gadael i'r *Welche Fassung* fynd o'i ddwylo yn gofyn i Heinrich Zimmer, Athro Ieitheg Gymharol yn Mhrifysgol Greifswald, am archwilio'r trosiad i weld a gyfieithasai Williams ei wreiddiol yn ddiargyhoedd.¹

Aethai Robert Williams â Stimming ar ddisberod lawer gwaith. Dug cyfryngiad Zimmer ef ymhellach fyth ar lwybr cyfeiliorn.

Fel y cofir, rhoes Zimmer yn ei ddydd gryn amser a sylw i fyfyrddodau Arthuraidd a gosododd gerbron ysgolheigion yn ddamcaniaeth enwog yn y maes hwnnw. Heb feddu gwybodaeth o iaith Geltaidd yn y byd, gwnaethai Gaston Paris, Alfred Nutt, ac eraill, y mae'n wir, gyffelyb beth. Eithr yr hyn a roddai bris neilltuol ar Heinrich Zimmer yng ngolwg ysgolheigion Hen Ffrangeg ac Arthuraidd yr Almaen, yn enwedig Wendelin Foerster a'i ddisgyblion, oedd y gred fod Athro Ieitheg Gymharol Prifysgol Greifswald yn feistr nid yn unig ar hanes yr ieithoedd Celtaidd, eithr hefyd ar yr ieithoedd hyn eu hunain. Yn y goleuni hwn dyfynnodd yr ysgol hon ei enw droeon i ategu ei dadleuon yn erbyn athrawiaeth yr ysgol Brydeinig-Ffrangeg a hawliai darddiad Cymreig i storïau Arthuraidd yr Hen Ffrangeg. A dyma Stimming yntau yn ei gyfyngder yn galw am ei help a'i awdurdod mewn cysylltiad arall â Chymru. Yn wyneb y bri hwn a'r clod, y mae o ddi-ddordeb i fyfyrddodau Arthuraidd yn ogystal ag i ysgolheictod cyffredinol ddyfod ar warthaf yr ysgolhaig o Greifswald mewn sefyllfa y gellir tynnu llinyn mesur dros ei wybodaeth o'r iaith Gymraeg.

Yna, â'r gerdd Anglo-Normaneg o'i flaen, archwiliodd Zimmer destun Cymraeg y *Selections, Vol. II*, yn ogystal â throad Saesneg Canon Robert Williams. Dywaid Stimming i'r archwiliad ddatguddio nifer mawr (*erhebliche Zahl*) o feiau a chamsyniadau.² Eithr os cymerir y drafferth i gyfrif y 'nifer mawr' hwn, fe geir ei fod yn cynnwys pymtheg

¹ *Der Anglonormannische Boeve . . .*, Vorrede, t. viii.

² *Ibid.*, id.

a dim mwy. Collasai'r archwiliwr olwg ar o leiaf bum ugain. Ni fedrai ychwaith gywiro pob un o'r pymtheg a ddarganfu. Gadawodd rai pur hawdd yn union lle gadawsai golygydd y *Selections* hwynt. Ystyrier y rhai canlynol:

1. *nyt oedynt . . . wynt no bown* (*Sel. 159*) 'they were not (more backward) than Bown' (*Sel. 545*). Darlenniad y llawysgrif yw *nyt oedynt wynt no bohn* (gw. YBH 2676-7), heb yr un diffyg yn y memrwn.

Tramgywydasid Williams gan gystrawen y frawddeg Gymraeg (cf. ei ddotiau), ac er iddo fethu gweld mai'r cwbl a oedd yn eisiau er edfryd y darlenniad cywir oedd dileu *-nt* diweddol *wynt* a darllen *nyt oedynt by gy (=o6y) no bohn* 'they pressed forward as eagerly as Bown did' (cf. *bohn . . . a dyurysfyaob attal* y frawddeg flaenorol; *tu=eu* yn *theileid* YBH 239; *=eo* yn *wyaf* WM 16; a gw. n. ar 2676); eto i gyd, fe ddyfalodd Robert Williams y meddwl yn bur agos. Eithr er i Zimmer gael *ne sont mie tardis* B 2311 o flaen ei lygaid, ni feddrodd gyfrannu gwell na *Im kynr. Text steht: und nicht waren . . . sie als Bown* h.y. 'nid oeddynt . . . hwy na B', a chan gymryd ei rwystru gan y pwyntiau petrustrer a'r cromfachau a brintiasid yn y *Selections*, mynnai fod cyfieithiad Williams yn amlwg yn amryfus (*offenbar falsch*).¹ Gw. n. ar 2676.

2. Methasai Robert Williams drachefn (eithr heb help y gân Anglo-Normaneg) â thynnu arwyddocâd boddhaol allan o *at y not y neidaob* (gw. uchod); ond methodd Zimmer ag edfryd y darlenniad cynnar er cael ohono destun *Boeve de Haumtone 1093 en une route saili* ger ei fron; gw. n. ar 1145-6.

Nid yw'r cywiriadau eraill o fawr gwerth. Noder yr esiampl a ganlyn:

3. *ar y tir y bu ganthunt klymuan maiz a thristioch ôzth ymbahanu Gyni ar marchogyon a sabaot* (cf. *Sel. 167*), 'on the land they had great lamentation and sorrow, in parting with the knights and Sabaot' (*Sel. 551*). Ar wahân i'r atalnod ar ôl a *thristioch*, printiodd Williams y frawddeg fel y safai i bob diben yn y *Llyfr Gwyn* ac ymdrechodd ymdrech deg i'w chyfieithu. Mynnai Zimmer i Williams gyfeiliorni yn ei drosiad ac awgrymodd 'gywiriad', sef oedd hwnnw, rhai atalnod (*Komma*) ar ôl *wynt* a deall . . . *als sie sich trennten, die Ritter und Sabaot* 'as they separated, the knights and Sabaot', gan esbonio *ar* o flaen *marchogyon* fel llygriad o'r fannod.² Ond nid oes farchogion, ar wahân i Bown a Therri a Sabaot, yn y cyswllt uniongyrchol, a'r ddau gyntaf hyn sydd yn ymwahanu â'r trydydd yn y frawddeg yr ymwneir â hi. Bai Williams, a Zimmer ar ei ôl, fu methu canfod na ddylai'r geiriau *ar marchogyon* fod lle maent ac mai rhyw gopiwr yn anymwybodol a'u harweiniodd dros y ffin o ddechrau'r frawddeg nesaf (. . . *afabaot*) *ar marchogyon a gerdassant raedunt, set yw'r rheini, Bown a Therri, wedi canu ohonynt yn iach i Sabaot*. (Cf. n. ar 3116-7).

¹ *Ibid.*, t. ci.

² *Ibid.*, id.

Bradycha esboniadau Zimmer ddiffyg cynefindra ag orgraff ac ysgrifon Cymru yn yr oesau canol. Ni eill *vedic*, er enghraifft, (gw. uchod) fod yn wall copiwr am *vedid*, fel y myn Zimmer, ond camddarlleniad yw am *vedit* (gyda $t=ð$) ac y mae'r bai i'w esbonio gan gyffelyb-rwydd mynych *c* a *t* yn llawysgrifau'r drydedd ganrif ar ddeg yn gymaint yn Gymraeg ag yn Ffrangeg.¹

Cynhwysai testun Cymraeg y *Selections* niferus lithriadau a cham-syniadau copiwr, eithr ni chanfu Zimmer hwynt. Ni chanfu ychwaith yr hyn yr aeth allan i'w weled, sef camgyfieithiadau Robert Williams. Mewn gair, ni welodd ond y peth nesaf i ddim; ac os ydym i farnu Heinrich Zimmer wrth ffrwyth yr ymchwil yr ymgymerth â hi ar ran Stimming, gorfodir ni i dynnu'r casgliad na feddai'r Athro o Greifswald, wedi'r cwbl, ond gywodaeth elfennol iawn o'r iaith Gymraeg.

(iii) Rhoesai Stimming ei amheuan ynghylch gwerth 'A Literal Translation' Robert Williams gerbron ysgolhaig yr ystyriai ei ddyg a'i farn ar bethau Cymru uwchlaw pob dadl. Yr oedd yn barod i dderbyn y ddedfryd fel ffaith derfynol ac, os byddai galw, i newid sylwedd ei *Welsche Fassung*. Peth rhyfedd i'w adrodd, datganodd y canolwr farn a ryddhai Robert Williams ac a wna'i gyfieithydd yr oesau canol yn euog ymron ymhob dim. A'i amheuan wedi eu symud, printia Stimming ei *Welsche Fassung* yn ddigynfnewid, gan atodi canlyniadau 'ymchwil' Zimmer yn y tudalen olaf a hanner ac mewn ychydig nodiadau ar waelod y ddalen.² Pa ryfedd, gan hynny, iddo gloi ei bennod ar y fersiwn Cymraeg gyda'r casgliad mai llenor cymedrol iawn ei ddoniau ac un anfedrus yn Ffrangeg oedd y neb a Gymreigiodd *La Geste de Boun de Hamtone* a bod ei drosiad o ran gwerth ymhell ar ôl y cynsail y cyfieithasai ohono?

(iv) Bellach, dyna Stimming, o roddi gormod hyder ar Zimmer, wedi collfarnu'r cyfieithydd Cymraeg Canol ac, i bob diben ac amcan, wedi gadael Robert Williams yn rhydd, dedfryd sydd, fel y gwelsom, yn hollol annheg. Os felly, beth, ynteu, yw'r dyfarniad uniawn ar y gŵr a droes y stori Anglo-Normaneg i'r Gymraeg? Ai llenor diddawn ac anhyddysg yn Ffrangeg oedd hwn, ac a ydyw *Ystoria Boun de Hamton* o gymaint llai gwerth na'r gynddelw a gynrychiolir gan y llawysgrifau Anglo-Normaneg sydd ar glawr?

(v) Ni eill dim amheuaeth fodoli ar un pwynt a rhaid cadw hwnnw yn barhaus mewn cof: yr oedd y trosrwr canoloesol yn wr o agwedd meddwl cwbl anarferol. Y rhan fynychaf dirnada'i'n berffaith a throsai'n ddiar-gyhoedd yr Anglo-Normaneg a ddarllenid iddo. Ond yn am iawn yr oedd yn hanner cysgu ac yn camwrando a chamddechongli. Rhaid felly

¹ Am yr ysgrifon Ffrangeg, gw. Maurice Prou, *Manuel de Paléographie Latine et Française* (Paris, 1910), t. 219.

² *Der Anglonormannische Bove* . . . tt. xcviij, c, ci.

³ *Ibid.*, t. cii.

ei ystyried yn bersonoliaeth ddeuol neu dybio fod y trosrwr da a'r ysgolhaig Ffrangeg o bryd i'w gilydd yn gadael i ryw ddechreuwr gymryd ei le megis y gwnai'r hen gopiwr.¹

Pa syrthni bynnag a gymylai ei feddwl mewn ambell fan wrth geisio dirnada'r hyn a glywai yn Anglo-Normaneg, defraoi'n llawn wrth at-gynhyrchu yn Gymraeg yr hyn a ddeallasai. Anodd dychmygu dim perffeiithiach o ran cynildeb a cheinder ymadrodd na'r ddau dalfrydiad a luniodd o agoriad hirwyntog y gerdd Ffrangeg. Nodweddir y cyfieithiad â'r un dillynder arddull â'r *Mabinogion* a'r *Rhamantau* ac yn fynych teimlir ynddo wefr yr un hyfrydwch mewn artistiaeth eiriol; cf. e.e., *a minneu a af auo2y yno yn voze 128; ar hynny nachaf yr iarles yn dywai yn en o2 gibraged kyheiraf a glōgocaf a theckaf rythelrei neb eiroel 326-30; etc.* Y mae'r stori drwyddi yn dryfrith o bethau tebyg. Trewir draw ac yma, y mae'n wir, ar drosiadau clogrynog megis *hyni bo2n ryuelor nu atherri pann doethant y maes or koet. kyhō2d ac Gyni sfoze2tōz e2teis ac amouyn ac ef . . . 3226-9* (gw. n.); *ac odyna y galbassant ar sōper. Y barōneit 3552; ny o2ffōyffatōd na dyd na nos pynthe2mūl o lēyr arwāc gyt ac ef. a bo2n y wāb y gyt ac ef hyst pan deuthant y v2admōnd 3656-9; ac ymgadarnhau hyst pan oed diogel gantunt 'yn awr y maent yn rhwym trwy iw' 4069-70; herōy2d y barabyl a dyghatōd 4308; etc.*; ond, fel rheol, y mae ei gystrawen yn ddinam a'i ymadroddiad yn llyfn ac artistig. Gyda'r eithriad o gyfieithydd y *Saint Greal*, efallai, tueddaf i ystyried awdur *Ystoria Boun de Hamton* fel yr arddullydd gorau ymhlith y cyfieithwyr Cymraeg o'r Hen Ffrangeg ac, yn fy marn i, teilynga le yn nosbarth blaenaf meistriadaid rhyddiaith Gymraeg yn yr oesau canol.

(vi) Pan geisier rhoi barn ar ei wybodaeth o'r Ffrangeg, deuir wyneb yn wyneb ag anhawster nid bychan. Fel y gwelsom, bydd y rhan amlaf yn cyfieithu geiriau ac ymadroddion Anglo-Normaneg yn ddiifeus, eithr yma ac acw ymddengys ei drosiadau o'r un geiriau a'r un ymadroddion yn amryfus. Digwydd y gair *estevus*, er enghraifft, drocon yn y stori Anglo-Normaneg a Chymreigir ef fel rheol yn gywir yn *nachaf*, ond yn 3970 (os dilyn y testun) cymerwyd *estevus* am *estes eus* 'A ydych chwif, Are you?', yr hyn, oni wellheir y darll., sy'n amharu ar y cyd-destun. Yn B 3411 ceir *le lers* (<*latro*+*s* enwol Hff) ac yn *Ystoria Boun* 3873 y gair a gyfetyb iddo yw *enrithōl* (LIC *enrithōl*) 'swynwr', ystyr a ddigwydd hefyd yn Hen Ffrangeg. Gwelir *le lers* drachefn yn B 3451, eithr y tro hwn yn *lēr* yw'r gyfwerthedd (gw. n. ar 3873 a 3923). Ceir llawer o wyriadau tebyg yng nghydol y stori. Eithr o'r braidd y gellir defnyddio'r gywriadau hyn fel maen prawf ysgolheictod Ffrangeg megis y myn Stimming, canys er cael yn B yr darlleniad yn yr ail gyawllt ag yn y cyswllt cyntaf, nid yw'n dilyn y ceid yr un geiriau yn nghynddelw *Ystoria Boun* yn y manau cyfatebol. Eto i gyd, deuir ar draws manau lle'r oedd y darlleniadau a geid o flaen y Cymro yn hur sicr yn agos iawn yn un fath â'r rhai a ddigwydd yn B. Dyna B 2495: *Vees, dūt li roi, ceo est un malfē 'Gwelwch, meddai'r brenin, hwn cythraul yw'. Ar malfē y gŵr*

¹ Am esiamplau o waith prentisiaid mewn copio, gw. *Facsimile LIDW*, 10^a, 294, 298; t. 135 (o BM 4); etc.

drwg', heb os nac onibai, yr adeiladwyd *mal fait* 'harm done', y geiriau sydd wrth wraidd y *ham y mae yn y Gneuthur* 2904-5, ac anodd credu fod y rhelyw o'r frawddeg lawer yn wahanol yn y ddau destun. Os felly, a ydyw tybio fod y cyfieithydd yn un o'i funudau cysglyd (gw. uchod) yn ddigon o esgus dros beidio â'i gyhuddo o gamgyfieithu yma? Ystyrier eto B 3234: *Boves let courre Arundel l' Aragon* 'Bown a ad Arwndel, yr Aragoniad, i redeg' = *Ystoria Bown* 3701: *a botn yn ymgelydus am arndel rac y ragons*. O'r chwe gair sydd yn B troswyd pedwar i'r Gymraeg a dengys *ymgelydus* fod *course* 'rhedeg' a gymerwyd=gofal (<*cura*) yno hefyd. Pan gofier mai meirch Ysbaen oedd meirch enwocaf yr oesau canol (y mae'r hen gerddi'n llawn o'u clod), ac mai ceffylau Aragon oedd ceffylau godidocaf Ysbaen (gw. n. ar 3701-2), onid yw'n syndod na welsai'n cyfieithydd iawn arwyddocâd y frawddeg hon, pa sut bynnag y dehonglodd y darlennydd y gair *let*? Gellid amlhau'r enghreifftiau a thrafodwyd llawer ohonynt yn y *Nodiadau*.

Ni allaf gelu i mi droeon uwchben darlenniadau fel yr uchod amau ysgolheictod Hen Ffrangeg y cyfieithydd. Yr oedd rhannau o'r bywyd lleyg Normanaidd yn sier yn bur ddiethr iddo: meirch, marchwriaeth, rhedegfeydd ceffylau, cynghwystlo, etc., diddordebau pwysig iawn ym mywyd y barwniaid. Ond os nad oedd yn gynefin â geirfa'r gwrol-gampau, etc. (gw. n. ar 2872 *et seq.*), ymddengys yr ymddiddorai yn y gyfraith ffiwdal ac y gwyddai ei themau (gw. n. ar 2822). Yn ei gyfnodau effro ni chyfieithodd neb Anglo-Normaneg llenyddol annhechnegol yn well nag ef a dengys ei waith yn cymryd drosodd i'w destun Cymraeg ugeiniau ar ugeiniau o eiriau Hen Ffrangeg o'r lle'r oeddynt yn ei gysnail ei fod yn ddigon cydnabyddus â'r iaith lafar Anglo-Normaneg. Nid oes dim dwywaith na ddeuai ar ei warthaf bob hyn a hyn ryw syrthni seicolegol, syrthni sydd yn ddigon o esboniad ar gamgyfieithiadau achlysurol. Dichon ei fod hefyd yn byw y tu allan i gwrw y byd ffasiynol Anglo-Normanaidd, mewn mynachlog, yn ôl pob tebyg (gw. §6, (ii), 25.), a byddai hynny yn eglurhad boddhaol ar ei anwybodaeth o dermau rhedegfeydd meirch a'r cyffelyb. Ond pa fai bynnag a fwrir arno, ceir tystiolaethau dirifedi ei fod yn ddigon hyddysg yn yr Anglo-Normaneg arferedig annhechnegol, ac, yn wnech teilyngdod y rhan fwyaf o'i gyfieithiad, tueddaf i esbonio ambell frawddeg glogyrnog ac ambell ymadrodd cloff drwy dybio i'r cyfieithydd ganiatáu i rywun arall, rhyw gytwr llai aeddfed nag ef ei hun gael yn awr ac cilwaith ran a chyfran yn y trosi.

(vii) Fe wél y neb a'el drwy'r *Nodiadau* fod stori Bown fel y delweddir hi yn yr *Anglonormannische Boeve de Hamtone*, er yn iau, yn ôl pob tebyg, yn llai llwgr ei thestun a llai petrus ei darlenniadau na'r hon a adlewyrchir yn *La Geste de Boun de Hamtone*, cynddelw'r fersiwn Cymraeg. Ond fe wél hefyd fod y cyfieithiad Cymraeg ar ôl carthu allan feillau'r copiwy'r a beiau Robert Williams yn cynrychioli testun Anglo-Normaneg llawer gwell nag a feddyliodd awdur y *Welsche Fassung*.

III. ORGRAFF

§15.

Yn y bennod hon disgrifir yn fras nodweddion orgraffyddol *Ystoria Bown* y *Llyfr Gwyn* a gelwir sylw at dri phwynt: (a) olion orgraff hŷn; (b) yr enghreifftiau cynnar o arwyddion nodweddiadol yr wyddor Gymraeg (e.e., *dd, f, etc.*); (c) dylanwad orgraff yr Anglo-Normaneg ar orgraff CymC.

Digon anodd weithiau yw canfod y ffin rhwng orgraff a seineg, ond ceisir ymgadw rhag croesi'r llinell derfyn yn rhy fynych.

§16. Y LLAFARIAID

a [a]

1. *au* am *a*: *aufric* 1664 (Hf *afrike*).
2. *-er(d)* am *-ard*: *yfonder* 573, *-erd* 583, *flond-* 530 (LIC *yflondard* bob tro), nodiant tafodieithol Cymraeg o bosibl (gw. §6., (i), 2.), ond *yflondard* 606.
3. *aó+n* am *a+n*: *baligraunt* 1636, *mombzaunt* 1999, 3144, etc., *teruagalnt* 3747, 4124, etc., cyfuniad a ddaeth i'r golwg yn AN yn nechrau'r drydedd ganrif ar ddeg¹ ac a ddaeth i GymC mewn benthyciadau o eiriau cyffredin fel *dawns*, *sians*, etc.
4. *o+n* am *a+n*: (am esiamplau gw. 2.), sillafiad AN nas gwelir cyn blynyddoedd cyntaf ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg;² am air Cymraeg yn yr orgraff hon, cf. *cad dugon* Brev. Domesd. (B), t. 12^a=*hadugawm* Dom. i (C) fo. 143^a, col. 2^a; cf. *hadugon* BT (P20) 173^b; etc.; gw. 3. uchod.

e [e]

Am y duedd i wefusoli *e*, gw. dan y *dywyll*.⁴

1. *ei* am *e*: *afuneideit* cyw. -et 1989; gw. y ddipton *ei*.
2. *eí+n(g)* am *e+n(g)*: *ieueingit* 3, *ieueigit* 53 (LIC *ieueingit*); cf. *ieueingit* WM 413, *ieueigit* ib. 446; ceir *ei* yn ymgymwedd ag *e* o flaen *n* o bryd i'w gilydd: *hagen* P5, lxxxviii^a, *alfein* AL I 364 Q (= *alfen* ib. L); *einwet* P6, WM 207 (= *einwet* P4, 414). Oherwydd *g=[w]* yn fynych, cf. *efallai meygys* (*megys*) LI I, 88. Gwelir *ei* yn lleirio ag *e* yn awr ac cilwaith o flaen *n* ac *ng* [*ndē*] yn AN: *meinge*=*menge* Brendan (A) 119, *veingent*=*veigent* ib. (A) 1615; *eintra*=*entra* Horn (O) 852, *veint*=*vent* Brendan (A) 222; etc. Dichon mai adlais o'r AN sydd yma.

¹ Paul Meyer, *Mémoires de la Société de Linguistique*, II, t. 253; J. Vising, *Le Purgatoire* . . . t. 53.

² D. Behrens, *Beiträge zur Geschichte der französischen Sprache in England*, t. 78; O. H. Prior, *Cambridge Anglo-Norman Texts*, tt. xxii-xxiii.

³ *Cymmrodor*, 1899-1900, t. 174.

⁴ J. Morris Jones, *A Welsh Grammar*, t. 16.

3. *eu* am *e*: *bozeugbeith* 3110 (LIC *bozegbeith*); gw. y ddipton *eu*. Y mac'r feirio a welir yn 1. a 2. yn nodweddiannol cyffredin o'r AN.

i [i]

Y llythrenniad rheolaidd yw *i*.

1. *y* am *i*: *llyt* cyw. *llit* 330, *llyó* 3217 (LIC *llió*), *trebys* 3265 (LIC *trellis*); *idy* 3050; enghreifftiau eisoes yn *Annales Cambriae* (A) ac yn *Leges Howel Da* (P 28) mewn geiriau Cymraeg a Lladin: *teyr* AL II, 781, *gellchy* ib. 780; *dyscos* ib. 766, *cybum* ib. 766; etc.

2. *u* am *i*: *fuol* 3018, ond *ffiol* 3841, *iubet* 628 (Hf *gibet*), *rubalt* 276, 281 (Hf *ribalt*), mater o seineg efallai yn hytrach nag orgraff, ond da cofio am *jussarmes* Potvin 313=*gisarme* SG 419; etc.

3. A saif *j* yn *bedydjit* 2164 am *i+i?*.

o [o]

1. *o*+*n* am *o+n*: *doñ* 2612, eithr *don* 2277, 2295, etc., *ffavoñs* (llsgr. *ffaócnóyit*) 3222 (B *Favons*); gw. *ow* dan y *Deuseiniad Disgynedig* yn *-u ði meton* HG isod a'r n. ar 3222.

2. *a*+*n* am *o+n*: *eaón* 3873 (LIC *chaón*), *Galeg exobmus*, *Gwydd. esomun*; gw. *a* dan 3. a 4. uchod a'r n. ar 3873.

u [u]

Yng nghanol ac ar ddiwedd gair y ffurf *u* a arferir, ond defnyddir *w* ar flaen gair bedair gwaith yn amlach nag *u* (137:36). Osgoir *un-* (13) yn ffafwr *un-* (80); rhoir *vch-* (28) yn hytrach nag *uch-* (17) ac *vzd-* (16) ac *wg-* (8) yn hytrach nag *urd-* (1) ac *ug-* (0).

1. *o* am *u*: *racdón* 2062 (LIC *racdunt*), *triflaó* 3947 (LIC *triflau*) . . . ; cf. *Leges Howel Da* (P 28)? *henbryeyth gwelat* AL II, 779; yn *triflaó* P 5, xviii^b.

2. *w* am *u*: ceir wmbredd o enghreifftiau o wahanol ffurfiau *w* am *u* yn nhestunau CymC; cf. *Leges Howel Da*, AL II: *brewan* 765, *belew* 773, etc.; LI *yescenctyt* 22, *datlewo* 61; etc. Diau ddarfod benthyc'r arfer o'r orgraff AN lle ceir hi eisoes yn y *Psautier de Cambridge* (c. 1160): *parseto* 252, *bunewred* 245; etc.

w [u]

Yr orgraff fyw yn YBH am *w* lafarog yw *ó*. Arwyddir y llafariad seml â hi 1016 o weithiau ac ni sylwais ar yr un eithriad: *hamón*, *góz*, *hónnó*, etc. Yr un modd, *ó* a geir yn y diptonau disgynedig bron yn gyson, gw. isod¹; am fú mewn dipton esgynedig, gw. dan *aw*.

¹ Ni ellir derbyn golygiad J. Loth (*Les Mab.* I, 20) fod enghreifftiau dilyn o *o* am *u* fyw canfod yn LL, 121^b, oblegid yn *gór* (y cyfeiria ef ato), fel mewn 18 man arall ar yr un t., *u* oedd yr arwydd gwreiddiol a diweddarad yw pob ó oddieithr yn *cañno*. Nn y gair hwn rhoddwyd *-oo* ar ben llythrennau a grafwyd allan gan y diweddarwr. Newidwyd *i* y ffinwgl gron yn *i* yr ysgriflen othig onglod gan yr un bwnglerwr.

1. *u* am *w*: *bocfachun* 1901, *gleu* 2551, *ruglau* 4244 (LIC *ruglaó*), ac ymhlith y benthyciadau Hf *traytur* 306, 1095, *traitur* 2680, *roboant* (llsgr. *-ant*) 4202, 4209, etc., arwydd HG a helpwyd i ymgynnal drwy'r ffaith fod *u=w* yn boblogaidd yn AN.

2. *v* am *w*: *vyt* 1600 (LIC *óyt*), *vzda* 3415, *vón* 2574 (LIC *ón*), *vóybu*, 3358 (LIC *óybu*), agwedd onglod ar *u=w*, ffurf a gymerwyd drosodd o'r finwgl Garolingaidd.

3. *o* am *w*: ymgynnewid *o* ac *w* yn y benthyciadau Hf: *colóyn* 2770, *colón* 2334, *colóyn* 3081, 3109, 4226; *mahóm* 379, 382, 394, etc., *mahón* 3099, 3747, 3776, 3881; *mobzant* 1034, 1054, 1056, *móbzant* 1468. Yr oedd *o* ac *u* (=w) yn ymgynnewid yn rheolaidd yn AN a benthycwyd y ffasiwn ar raddfa eang gan ysgrifenywyr llsgrau Cymraeg o'r BB ymlaen; cf. *churo* BB 31.12, *oef* (wyf) ib. 50.2, *reo* ib. 89.12, *heno* ib. 102.7; *duo* LIDW 17^b, *delo* ib. 21^a, *petheonos* ib. 22^a; *gwao* P3, 8, 9, 10, *lleo doehleo* ib. 8, *lyo* ib. 8, *gwao* ib. 10, *gleo* cyw. *gleo* ib. 12; y mac dechrau P5 yn dryfrith o esiamplau: *eno vi*^a, *aon* ib. *chbero vii*^a, etc., etc. Yn YBH, ar wahan i 4152, a *ozthodaf*, ni cheir y feirio ond yn y geiriau Hf.

4. *thy* am *w*: *kyghozlkyr* 2947 (*conseylur*), *ffozeflkyr* 127; cf. LIDW 25^a *emenyn buyc ar kic bulch ar cauf buych; hucyeh (hwch)* ib. 34^a, etc. Symhaodd y ddipton *ue* (amr. *ve*, *we*, *oe*) yn *u* (=w) yn AN yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif, ond ymgadwodd *ue* wrth ochr *u* yn yr orgraff ymlaen i'r ganrif ddilynol; o'r AN y benthycwyd yr orgraffau *ue*, *we*, etc., mewn CymC, gellid meddwl.

y=y eglur [y]; cf. WG §16.

1. *e* am *y*: *kellyyd a gene* cyw. *geny* 723, a *dzigye* 1909 (LIC *dzigyy*); gw. Ffuriant, §31(a) (ii) a'r n. ar 575 a 2880-1. Y mae *e* am *y eglur* yn arwydd gweddol gyffredin: *gade* BB 98.12; *adeuod ahi ety vabhuchelur echefu* LIDW 26b; a *chymryt ereyll o2 pzyuet ac e bryuaw em plyth dōfy* LI I, 61; etc.

y=y dywyll [y; æ]

Erbyn cyfnod YBH cawsai'r arwydd *y*, ar ôl cystadleueth hir, oruchafiaeth ar yr hen *i* frodorol ac ar yr *e* AN.

1. *e* am *y*: *henedel* 2937, *damascel* 1188, *emedeu* 2144 (LIC *ymedeu*), *trebelit* 4320; gw. hefyd ar 2121, 2716, 2744, 3371, 3732, 3745, etc.; benthyciad dibetrus yw'r *e* hon o'r *e sound* Hf, sam ac orgraff a geid ymhob math o eiriau: *cheval*, *devin*, *larrecin*, *sairment*, *ame*, *enfe*, ac yn enwedig yn yr unsyllafon *me*, *te*, *ze*, *de*, *ne*, *le*, na ellid ffurfio nemor o frawddeg heb eu help. Benthycwyd yr arwydd *e* yn gynnar a cheir esiamplau eisoes yn LL: *Estrat* 41, 42, 43, etc., *emelina* 56, 287, *he* (*collenu*) 247, etc.; yn P 28: *penhnyd* AL II, 752, *hemet* ib. 753, *deressaar* ib., id.; yn y BB: *E(beteu)* 63.2.4.5, *En(eiwonit)* 69.4, *venny* 75.2; etc., etc.

§17. Y DEUSEINIAID

(i) Deuseiniaid Disgynedig yn -i mewn HG

ae, ay (<HG ai)

Deur ar draws ae bron wythwaith yn amlach nag ay: *mae, may; aethant, aythant*; etc.; y ffigurau mewn geiriau hir a byr yw 666: 85.

1. *ai* am *ae* (ay): yn y benthyciad AN *traitur* 2689; cf. BT (P 20) *kanhaif* 292^a, *kanhaif* 294^b.

ei (<HG ei)

1. *ai* am *ei*: *prïodyffai* cyw.—*ei* 2481 (LIC *pziodaffei*); os nodiant seinogol yw *ai*, dyma, mae'n debyg, yr enghraifft hynaf o *ai* ddiwedddol am *ei* yn amh. 3 y sylwyd arni hyd yn hyn mewn testun CymC. Ond dichon nad yw'r *ai* am *ei* namyn orgraff fenthg o'r AN megis, yn bur sicr, yn *pynuairch* P 14, 117. Cadwyd *ai* yn yr orgraff AN ymlaen drwy'r drydedd ganrif ar ddeg, ond yn odli ag *ei*; cf. *Laisse* I yn *Boeve* lle ceir *sai, dirrai*, etc., yn odli à *mei*.¹ Aeth *ai* yn *ei* o ran sain yn AN mor gynnar a'r unfed ganrif ar ddeg.² Rhaid yn wyneb hyn wrthod awgrym J. Morris-Jones: 'but Norman scribes heard the *ei* as *ai* much earlier, to judge by such a form as *Trefwalhemay* in the Extent of Anglesey dated 1294' (WG 115).

2. *e* am *ei*: a *ffebei* 148 (LIC a *phai bei*), *gŵreghahaôd* 6 (cf. *gôzeickaôd* 55); *felleiff* 2664, ond -*ell-* am -*eil-* o bosibl; gw. ar 1477 ac ar *e* yn Y LLAFARIAID.

3. *i* am *ei*: *pari* 1690 (LIC *parei*), *peillit* 1353 (LIC *peilleit*). Ceir *i* (y) am *ei* yn ein testunau canoloesol cynnar: BB *enid* cyw. *eneid* 20.5, *ymenid* (*ymeneid*) 71.6, *gunit* cyw. *guneit* 24.8, *kin* (*hein*) 60.2, *Tegigil* 74.10; LIDW *gurich* (*gureic*) 20^a, *agheuwith* (*agheureyth*), ib., *fanfryt* cyw. *fanfryt*, ib., etc.; WM (*Peredur*) *gweli* (-*ei*) 640, *ymwani* (-*ei*) 647, *rodi* (-*ei*) 648. (Y mae ôl AN trwm ar y *Peredur* hwn). Am sillafiadau gwrthwyneb, cf. *gôlei* WM 230 (RB *ti a wely*), *manachloc clunei* P 14, 5^b (*cluni*, ib. 5^b ac 11^a). Orgraff a fenthgwyd o'r AN yw *i* am *ei*.

oe, oy (<HG oi)

Y mae'r arwydd *oe* fwy na seithwaith yn lluosocach nag *oy* ac yn llawer mwy poblogaidd yn yr unsillafon. Wele'r cyfrifon: 487:67. Yn yr un cyfnod yr oedd cystadleuaeth rhwng *oe* ac *oi* yn yr orgraff AN ac arferid *oe* yn amlach nag *oi*, pwynt a fu o bosibl yn ddylanwad ar y copiwyw Cymraeg.

1. *oy* am *oe* (oy): *hoeydyl* 203; cf. y *gyfoeith* BT (P 20) 263^a.

2. *oi* am *oe*: *ymphoini* 1007.

¹ Gw. A. Stimming, *Boeve*, t. viii.

² Cf. H. Suchier, *Voyelles Toniques du Vieux Français* (Paris, 1906), t. 71.

wy (<HG ui)

Nodir y ddipton hon, gydag ychydig iawn o eithriadau, ag *ôy*: *ôyt*, *bôyt*, etc., a chedwir lly bron hollol i gyfleu'r ddeusain esgynedig: *gŵyrr*, *gŵychyr*, etc. Ag *ôy* hefyd yr arwyddir yr -*uine* AN (Hff Ffrainc -*ogne*): *bôlôyn*, *gŵafcôyn* (*Boluine*, *Guascuine*), etc.

1. *ô* am *wy*: *bôzkôin* 545 (AN *Burguine*, Hff *Bourgogne*).

2. *ô* am *wy*: *diffethhaôd* 890 (LIC *diffethaôyt*); aeth *ue* yn *u* (=w) yn AN tua diwedd y ddeuddegfed ganrif a gwyddai'r copiwyw Cymraeg y gellid ysgrifennu *u* am *ue* yn yr iaith honno.

3. *y* am *wy*: *palmidyden* 3917 (=LIC); gw. n.

(ii) Deusain Ddisgynedig yn -u [û] mewn HG

eü (<HG ou)

Ar wahân i'r eithriadau a roddir isod, ni cheir ond *eu* yn yr orgraff.

1. *e* am *eü*: *gymne* 977 (LIC *gymneo*), *hithe* 305, 345, 481 (LIC *hithe* bob tro), *ynte* 393, 436, 473, 484 (LIC *ynte* yn gyson), sillafiadau seinogol, ond odid, yn arwyddo ynganiad llafar gwlad; eithr orgraff wrthwyneb, yn bur sicr, yn *bozeugôith* 3110 (LIC *boze-*); gw. n. ar y rhain.

2. *y* am *eü*: *yu tri* 1801 (llsgr. *yn tri*, LIC *ill tri*); gw. n.

3. *ôy* am *eü*: *lluruc ôy dyplie* 537 (=LIC); gw. n.

(iii) Deuseiniaid Disgynedig yn -u ôl [w] mewn HG

aw (<HG au)

Arwyddir y ddeusain hon yn rheolaidd ag *aô*: *dzaô*, *arderchaô*, *ymdzeiglaô*, etc. (1304 o es.), ond *doluryathô* 116. Lle'r ystyrir fod *te* yn perthyn i'r sillaf ddilynol, fê a geir: *llaôer*, *trabeint*, etc., eithr o atgof am orgraff y ddipton seml trewir weithiau ar ô: *llaôen*, *llaôer*.

1. *a* am *aw*: *amheradyr* 74 (LIC -*aôd-*), *ôztha* 1563 (LIC *ôzthaô*), *yn y la* 2561 (LIC *laô*); cf. *aufric* 1664 (ChdeR 1550 *Affrike*) ac a. i. §16.

2. *eô* am *aw*: *enrithelô* 3873 (LIC -*aôl*), *lleôen* 180 (LIC *llaôen*), nodiant, cfallai, o ynganiad llafar; gw. §6., (i), 2.

ew (<HG eu)

Y nodiant yw *eô*, eithr, megis uchod, *gleôaf*, *hethilid*, *elbhythyr*, etc. Weithiau ymddrysr yn y ddau ddull: *lleôot* (10) a *llehot* (2), *gleôaf* 607 a *gleôaf* 2538.

iw (<HG iu)

Yn rheolaidd ió: y *py dió* 4164, *gión* (14), *llió*, eithr *bziñsaf*, *dilbarnaót* (7), *dilbed* (5), ond *dilbed* 2907.

ow (<HG o+u)

Y sillafiad yw *ó*: *doóch* 2218, orgraff a geir hefyd yn y benthyciadau HFF: *boón* 144, 189, etc. ac yn *doón* 2612 (B *Down*), ac a welir ar ffurf *ou* yn AN o tua 1240 ymlaen.¹

uw (<HG wyw)

Yr un modd, ag *ó* y terfynir y ddipton: *duó* 85 o weithiau.

1. *ó* am *uó*: *dóu* 2664.

(iv) Deuseiniaid Esgynedig.

Nid oes nemor ddim i'w nodi yma ar bwnc llythraeth oddieithr mai *ú* ac nid *ó* yw'r arwydd a ddefnyddir fel rheol i gyfleu *w* yn y diptoniaid hyn yn YBH. Y ffigurau am *ú* yw 750, am *ó* 195.

1. *u* am *w*: (a) *gu-* am *gw-* lawer gwaith: *guedy*, *guyll*, *guys*, etc.; (b) *chu-*, *hu-*, *yghu-* am *chú-*, etc.: *chuebllynedd* 1081, *huech* 525, *yghuanec* 437.

2. *w* am *w*: *tychyr* 161, 618, *vahanu* 382 cyw. *úsa-*, *vayó* cyw. *úayó*; cf. *vzeic* 3849.

3. *gú-* am *w-*: *amryuaelon gúbledi* 4317 (LIC *úbladoed*); cf. hefyd *ú-* am *gú-* yn *Sef úreic* 56 (LIC *gúreic*), etc.; arferir *gw-* am *w-* gannoedd o weithiau (ar ffurf *gu-*) yn LIDW, ac fe'i gwelir hefyd yn LI I (e.e., *pa gwlat* 7^b, 9^a, *e gwledigaeth honno* 8^b, etc.) ac mewn testunau nad ydynt yn gopïau o ddim neilltuol o hen. Daeth hyn o ddynewared yr AN lle'r oedd *gu-*, *u-* a *g-* yn cyfnewid á'i gilydd; gw. n. ar 227-30.

4. *-úh-* am *-w-*: *vyóhyt* 2689 (LIC *vyóhyt*).

§18. Y CYTSEINIAID

b

1. *v* am *b*: *dec vzenhinaeth* 704 (LIC *dec b2-*), y *vydinoed* 3616 (LIC *y b-*); cf. hefyd y gwrthwyneb: *ae búzú* 230 a *coluhyr* 987 (AN *coluwer*), cyfnewid a ddeilliodd o debygrwydd ffurfiad y ddwy lythyren; gw. n. ar 227-30 a 986-7.

2. *-b* yw'r orgraff gyson: *kyffelyb*, *mab*, etc., heb yr un esiampl o'r hen *-p*. Yn hyn y mae YBH yn debyg i'r LJG (rhannau) ac i'r LIC ac yn gwahanu-iaethu oddi wrth lagrau fel LIDW, GrapC, P 7, P 10, etc., lle'r arferir *-p*.

¹ J. Vising, *op. cit.*, t. 57.

c [k]

(i) *c-*: o flaen *a* ceir *c* a *k* mor fynych y naill a'r llall; gydag *l*, *r*, *o* ac *w*, yr arwydd mwyaf poblogaidd o lawer yw *c*; o'r tu arall, gydag *e*, *i*, *y*, *n* ac *u*, *k* biau'r maes bron yn gyfan gwbl. Dyma'r ffigurau am y tri dosbarth:

1. <i>ca-</i>	(111);	<i>ka-</i>	(110);	3. <i>ke-</i>	(105);	<i>ce-</i>	(3)
2. <i>cl-</i>	(73);	<i>kl-</i>	(3);	<i>ki-</i>	(6);	<i>ci-</i>	(1)
<i>cr-</i>	(37);	<i>kr-</i>	(5);	<i>ky-</i>	(233);	<i>cy-</i>	(1)
<i>ca-</i>	(75);	<i>ko-</i>	(13);	<i>kn-</i>	(3);	<i>cn-</i>	(0)
<i>cw-</i>	(7);	<i>kw-</i>	(3);	<i>ku-</i>	(4);	<i>cu-</i>	(2)

Dengys lluosogrwydd *ke-*, *ki-*, *ky-* y parheid ar ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg draddodiad y testunau AN, y BB, etc.¹; gwelir hefyd fod barn J. Morris-Jones ar fynychdra *k-* yn rhy bendant.²

(ii) *-c-*: dyma'r cyfrifon am nodiant [k] ganolog: *c* (26), *k* (4), *cc* (10), *ck* (9), *gk* (1).

(iii) 1. *-c*: aethai'r *-r* ar ôl llafariad yn *-g* yn gynnar yn hanes yr iaith,³ eithr cadwyd *c* yn yr orgraff ymlaen drwy'r oesau canol a hynny, fel y tybiaf, am y defnyddid *g* ar raddfa eang i gyfleu [c].

2. *-nc-*: arwyddir y cyfuniad [nk] ag *nc* (14), *nk* (2), *gk* (9) ac ag *c* semi yn *ffreic* 2281. Ni threwir yn YBH ar yr un esiampl o'r cyfuniad hwn wedi ei lythrennu ag *-ng* fel yn *freing* P 14, 138; P 7, 37^a; *ieuang* WM 58; P 8^a, 15, etc., neu ag *g* gyda'r *titulus* am *n* wedi ei roi ar ben y llafariad flaenorol megis yn *freig* BT (P 20) 85^a, 87^b, 89^a, etc. (yn aml iawn); etc. Gw. BBS, I, 15-18 lle ceir golygiad arall ac o dan *ng*.

ch [x]

Y nodiant cyson yw *ch*, heb yr un *gh* AN (cf. *erghis* WM 644, etc.).

1. *su-*: cyfleir datblygiad *su-* Hen Geltog drwy *chú-* (22), *chó-* (8), *chu-* (2), ac ni welir ond tri eithriad: *huech* 525, *húimóth* 2433, (*yth*)*hware* 3334.

2. Yng nghanol gair ysgrifennir y sain ddbwl hon ag *hú*, *ú*, *ó*; *hu*, *o*: *damúheinaó* 2254, *damúheinaó* 427, 2070, *damúheini* 43, *chýóymu* 3080, 4214, *varóghybedyl* 2177 (LIC *uaróghybedyl*); *ymhoylat* (18 es.), *ymhoylat* (5 es.), *ymoel*, 1250, 3813.

d

1. Ar ddechrau ac yng nghanol gair arwyddir *d* yn gyson á *d*.

2. Fel deintol ddiweddol, ceir *-d* 11 o weithiau (e.e., *ieuringtid* 4, *peziad* 13, etc.), ond bob tro arall *-t* yw'r llythreniad.

¹ Gw. M. Watkin, *Trans. Cymwr.*, 1918-19, t. 172; *ib.*, 1919-20, t. 74.

² A Welsh Grammar, t. 20.

³ Cf. J. Loth, *Facultaire Vieux-Bretton* (Paris, 1884), t. 15; J. Morris-Jones, *WG*, t. 20, 184.

dd [ð]

Nodir y sain hon ymhob sefyllfa fel rheol â *d* seml, a thebyg i'r ffaith y ceid *d* [ð] yn AN helpu'r hen *d* frodorol i gadw ei lle yn orgraff CymC.

1. *t* am [ð]: *oet* 59, 522, *yt* 578, *dýt* 2196, *eifstetfa* 2424, *dylbzaót* 2813 (geiriau y cywirwyd *t* yn *d* ynddynt oll), *enrydet* 2784, *trydyt* 2812, *vedit* (llsgr. *vedic*) 4139, *bedyt* 4179. Benthg o'r HFF yw'r *t* hon a cheir hi mewn geiriau Cymraeg mor gynnar â Harleian 3859 ('after 1125')¹; *Cymmr.* IX, ?*Clinog Eitin* 173, *Guodotin* ib. 182; ceir hi yn y BB (yn aml iawn), yn LIDW; etc., etc.

2. *th* am [ð]: *na thangoffych* 841, *na thangoffaf* 896; cf. LIDW *anredethu* 6^a, *kenethyon* 8^b, etc., benthg dibetrus o'r orgraff AN; cf. Harleian 3859, *Cymmr.* IX, 165? *iuthail* cyw. *iudhail*; y mae *th-* [ð] yn brin ac *-th-* [ð] yn lluosog.

3. *dd* am [ð]: o safbwynt ffurfiad yr orgraff Gymraeg diddorol iawn yw'r doreth esiamplau (tua 100) o *dd* am [ð] ar ddechrau ac yng nghanol gair: *ny ddodei* 432, *ny bei dda ganthaó* 692; *rocdi y herddaó* 768, *iddaó* 867; etc. Nid arlerir *dd* ar ddiwedd gair o gwbl. Awgrymais gynt (a gwnaft eto) mai gwaith ein cyndadau yn efelychu'r arler AN o ddyblu *d* a ddug y ddirgraff hon i'r wyddor Gymraeg.

Hyd y sylwais, ni cheir yn YBH yr un *ð* am [ð], arwydd sydd mor gyffredin mewn rhai testunau canoloesol, e.e., LIDW: *eulodyn* 4^a.1, *adele* 4^a.6, *fenedgyr* 4^b.18, etc., etc.

f [v]

(i) *f-* [v]: ceir *v* (277), *u* (63), *f* (20).

Dyma'r cyfuniadau mewn tair colofn:

<i>va-</i>	= 15	<i>ua-</i>	= 3		
<i>ve-</i>	= 21	<i>ue-</i>	= 4	<i>fe-</i>	= 1
<i>vi-</i>	= 6	<i>ui-</i>	= 1		
<i>vo-</i>	= 39	<i>uo-</i>	= 9	<i>fo-</i>	= 1
<i>vu-</i>	= 0	<i>vu-</i>	= 37	<i>fu-</i>	= 14
<i>vó-</i>	= 14	<i>uó-</i>	= 0	<i>fó-</i>	= 3
<i>vy-</i>	= 73	<i>uy-</i>	= 4		
<i>vs-</i>	= 96	<i>ur-</i>	= 4	<i>fr-</i>	= 1
<i>vl-</i>	= 13	<i>ul-</i>	= 1		

Ar gyfrif eu diddordeb yn natblygiad yr orgraff, chwanegaf yr enghreifftiau o *f-*: *fedzu* 1826, *fo* 404, *fu* 97, 487, 947, 993, 1080, 1529, 2337, 2528, *fuaffei* 597, *fum* 1994, *fuum* 3098, *fuant* 2068, *fuhunan* 2009, *fugeil* 2227, *fónei* 538, *fóyt* 1363, 2191, *freich* 1407.

1. *ð* am [v]: *thugeil* 264, *thugeiffon* 266, *thigaó* 338, *thlodyn* 1519, *thelley* 2572. Ceir esiamplau yn ail hanner y ddeuddegfed ganrif: *Leges Howel*

¹ J. Gwenogvryn Evans, *Facsimile & Text of the Book of Taliesin* (Llanbedrog, N. Wales, M.DCCC.L.), t. viii.

Da (P 28): *raf weleu* AL II, 805; ceir hwy hefyd yn y BB: *wuchit* 4-9, *pir uuuf* 22.12, *wympechard* 83.15, etc.; yn LIDW *worduit* 17^a, *wod* 25^a, etc.; ac ymlaen drwy'r cyfnod canol.

2. *ó* am [v-]: *ívenat* (llsgr. *(at)óaenat*) 3597 (gw. n.); cf. WM (P 4) *gal* 13, 442, *garch* 14, *geicheu* 25, etc.; P 7, 46^b *óim*; P 14, 87 *geybean*; etc. Arferid *ó* am *v* yn aml iawn yn y llaw lys Anglo-Normanaidd tua diwedd trydydd chwarter y drydedd ganrif ar ddeg.¹

(ii) *u* ac *f* am [-v-]: nodir [-v-] ag *u* (520) ac ag *f* (223). Ni welir yr un *fu* megis yn *dufcyrguyr* LL 128; *hefuwyn* *Leges Howel Da* (P 28) AL II, 812; etc.

1. *ff* am [-v-]: *chylfarch* 94, *offyn* 3208, *affreit* 3210; cf. LL 229 ('1136 to 1154')² *Strathaffren*; BB *dioffriá* 8.6, *goffalon* 26.6, *dyffo* 50.13, etc.; LIDW *effo* 22^b; WM (P 4) *gyffranc* 30, *ar geflyn march* 159, *digriffaf* 230; etc., etc.

2. *th* am [-v-]: *gylkeillt* cyw. *gyu-* 243, *chylfarch* 269, *bzaóthayth* 743, 1486, *rylkelu* 2286, *arbaó* 3657 a rhai eraill posibl; cf. BB *arywderit* 4.8, *gowanon* 6.6, etc.; LIDW *keureu*, *deuwnidiet* 17^a, etc.; BM 4 *llorud* Fac. LIDW 57, 63(3), *treutat* 61, 62; etc. Cf. *v=ü* a gw. §16 uchod.

3. *ó* am [-v-]: *íffaóómyeit* 3691 (B *Favons*); cf. WM (P 4) *gyberbyn* 15, *Sedvyl* 17, *om hanbod* 18, etc.; P 14, 83 *dyóymnó*; BM 7 *gúaftraut aboyn* AL I, 344; etc.; gv. (i), 2. uchod.

Nodir *th* am *vu-* yn *thgeileid* 238; cf. *vgeilky* Fac. LIDW 135; *vgeyl* P 3, 3; RWM I, AL I, 303, etc.; cf. *v* am *vó-* efallai yn 2676; gw. n. Yr oedd *vu* am *vu-* (*u=ü* ac *w*) yn dalfyriad AN digon cyffredin: *Boeve* 1023 *vult=vult*; etc.

(iii) *ff* am [-v]: *dzeff* 3285; cf. BB *godeff* 28.7, *ioff* 42.13, etc.; LIDW *eff* 10^a(3), 21^b, *arnaff* 16^a, etc., etc.

ff [f]

(i) *ff-*

1. fel treiglod o *p-* arwyddir gan *ph* (100), *ff* (65) ac *f* (13): *a pha vn* 3231; *a ffa* *thed* 483; *a fob* 616; etc.; cyferbynnir sylw J. Morris-Jones: 'rarely we have *ff*'³.

2. Am [*f-*] gysefin y ffurfiau yw *ff* (112), *f* (11).

(ii) *-ff-* [*f*]: ceir *ff* (93), *f* (20).

(iii) *-ff* [*f*]: *f* (18), *ff* (17): *ygbozf* 146, *trallaót bzauf* 639; *dy gozff* 147; *gobzaff* 1954; etc.

¹ Gw. *Rhagymdrodd*, §4, (iv).

² J. Gwenogvryn Evans, *The Book of Llan Dde* (Oxford, M.DCCC.XXII), t. xxix.

³ *A Welsh Grammar*, t. 23.

g [g]

(i) *g*- ac *-g*-: arwyddir yn gyson ag *g*.

(ii) *-g*: ysgrifennir *c* am *-g*, gydag ychydig eithriadau: *arderchaboc*, *gŵreic*, etc., yn unol â'r hen orgraff.

1. *g* am *-g*: *creig* cyw. *creic* 1845, *crog* 1087; cf. WM *ag* 385, *caig* 70.

2. *h* am *-g*: *crok* 796.

Rhy bendant, felly, yw gosodiad J. Morris-Jones: 'it is never written *h* in M.W.'¹

Am *g*-=*gw*- ac *w*-, gw. n. ar 1573 a §17, (iv).

ng [v]

Ymhob sefyllfa cyfleir y sain *ng* [v] yn YBH yn gyson ag *g*: *agozeu*, *bligab*, *llog*, *róg*, etc.

1. *ng* am [v]: *anghóanec* 135, *angheu* 895, etc; gwelir chwe *-ng*- ac un *-ng* (*llong* 3851); ceir 8 estampl gyda'r *titulus*: *bligab* 637, *llög* 1307, etc. *ng* hefyd a arferir i nodi [v]+*g* yn *angerd* 1929.

2. *c* am [v]: *ycledyf* 1584=*ynyledyf* (B 1465 *mun branc*), *pymthec milkarnat* 240 (LIC *-cug n.*) 4305 (=LIC), *dec mrenhin* 4115 (LIC *dec b2.*), *pymthec mrenhin* 4125 (LIC *-ec b2.*); cf. *gellecho* LIDW 6^a (=gellegho 46^b), *yny heneityt* ib. 29^a, *tuc* ib. 8^a; *rúc* y *dóy* *v2on* P 9, 26^b; etc.

Am [v]k, gw. dan *c*.

dj [dž]

Gan y digwydd y sain hon yn y benthyciadau HFF yn YBH, ni ellir peidio â son am ei horgraff. Arwyddir hi â thri sillafiad gwahanol:

1. *ag g*: *geol* 964, 981, *cartage* 1478, *egipt* 361; etc.

2. *ag i*: *iubet* 628, *i62nei* 3894; *coniuración* 1047, *fóiozn* 2529; etc.

3. *à di*: *lledir* 2583 am *lledür* (cf. B *legera* a gw.n.).

h

O ddilyn llafar y siroedd isaf, mac'n debyg, esgeulsa copiwr YBH dorri'r *h* yn bur (ynych: *ythlware* 3134, *damlbeina6* 427, 2070, *duma6* 472, *cartgyllbedyl* 2177 (LIC *-chib-*), etc. O'r tu arall, un o nodweddion YBH y LIG o'i chymaru â'r LIC ac â llagrau eraill yn y drydedd ganrif ar ddeg yw mynychdra *h*- yn orgraff y rhagenwau pers. syml a chysylltiol: *hoy*, *hoynt*, *hoynteu*. Tueddaf i weld yn hyn ac yn natlygiad y rhagenwau pers. delysawad orgraff yr AN a roddai *h* o flaen *ue-*, *ui-* modd yr osgoid darllen y cyfuniadau hyn fel *ue*, *ui*; gw. dan *Rhagenwau Personol Annibynnol* yn *Ffurfiant*, § 27.

¹ A Welsh Grammar, t. 20, iii.

y, i [i]

Y nodiant arferol yw *y*, ond arferir hi'n fymrwyl yn fynych: *dólyya6* 216, *dygdyya6* 168, *ólyya6* 193, 363; etc. Gwelir yr *y* ffansiol hon eisoes yn LIDW: *er eyddiau* 24^b, etc., ac fe'i ceir yn aml iawn yn SG, e.e., *tanaethyant*, *aelyodeu* 2, *aethyant* 16, *aethyost* 29 *doethyant* 21, 35; cf. hefyd *ffynnyalon* RBB 400; etc. Ceid ar yr *yod* yn y tiriogaethau Ffrangeg wahaniaeth tebyg i'r un a flynna rhwng De a Gogledd Cymru. Perchid yr *i gytsain* yn HFF Ffrainc, ond gwrthwynebai'r AN iddi a bwriad hi allan o eiriau fel *aléures*, *déust*, etc., (am *e*-y *gytsain* mewn CymC, cf. *óeybeon*, P. 14, 87) ac o nodiant geiriau Cymraeg (cf. *Keyroc*, *Keveyllok*, etc., yn *Fouke Fitz Warin*). Pan aethpwyd ar ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg i efelychu HFF y Cyfandir ni wyddai'r copiwr Anglo-Normanaidd pa le i'w rhoi yn iawn a gwelir tryblith yn ei nodiant, tryblith y ceir adleisiau ohono yn orgraff CymC cynnar megis yn *aum* am *jaun* LIDW, 21^a; etc. Ond am y gair olaf, cf. BBS, VI, 195.

1. *j* am *i*: *bedydjüt* 2164, ond gw. dan *i*.

l

Y nodiant yw *l*, ond *callon* (14), *calon* 2755 ac yn ffurfdroadau *daliaf* ceir *dallón* 2631, *dallei* 661 (LIC *daihei*), *delynt* 1035 (LIC *delhynt*). Yn gyffelyb, ysgrifennir *tunelleu* (B *tonels*) yn 1700.

Torridd *l* ac *i* o'r un uchder i bob diben yn y drydedd ganrif ar ddeg; gw. ar 1477 a 2664.

Yr oedd *l* yn wan ei sain yn AN ac esgeulusid ei hysgrifennu'n fynych ac efallai mai efelychu'r ffasiwn honno a wneir yn *ymochi* 1503, *úochaf* 4335, *arglydes* 1583; cf. *gogeeet* cyw. *gogleet* BB 53.19; *arewat* cyw. *arewat* LIDW 21^a, *eygneyt* (*eylgyeyth*) ib. 27^a, *lladhud* (*llathlud*) ib., id., *gweflau* (*gweflau*) ib. 42^b, *arguyd* (*arglyud*) ib. 47^b; etc.

ll [cf. AN thl]

Oddieithr yn *llyna* 1652, nodir y sain hon ag *l* ddwbl *ddi-addurn* megis yng Nghymraeg heddiw.

1. *l* am [ll]: *6ch lafur* 2216 (LIC *abch llawur*), *ineilla6* 291 (LIC *neill la6*).

m

Gwelir tuedd i roi *n* yn lle *m*: yn *habilon* 3626, 3632, yn *macubratal6* 3727, yn *mónbra6nt* 4323 (LIC *ym b. dduywaith* ac *ym m.*); *máhon* 3099, 3747, etc. (9), *máhom* 379, 382, etc. (19); etc.

Noder *ámós* 98, *kýmer* 182, a *hymmeint* 839.

n

Megis y cafwyd *n* am *m* uchod, ceir *m* yma lle buaidd yr *disgwyl n*: *amdiffin* 2807, *eydim* 2669, *oedim* 2819, *hymy ydod* cyw. *hymy y* 344^b (LIC *ymy ydod*), *mónbra6nt* 1999, 3144, etc. (14), ond *mónbra6nt* 4323, *mónbra6nt* 3612, 3676 (B *Monbraunt*, *Mun*).

(i) *-n- sengl yn lle -nn- mewn geiriau lluosill ar ôl yr acen.*

1. Ceir *-n-* am *-nn-* yn y geiriau hyn 20 o weithiau: *haner* 1304, 1352, 1786 (LIC *haner*), *kanôz* 3108 (LIC *kannôz*), *genaf* 91 (LIC *gennaf*), *genyt* 893 (LIC *gennyt*), *mynych* 4207 (LIC *mynych*), etc.
O'r ochr arall, sylwer ar *ynna* 83 (LIC *yna*), *hynny* 3179, 3354 (LIC *yny*).

(ii) *-n am -nn mewn geiriau unsillafog.*

Dyry YBH 249 o enghreifftiau o *-n* sengl mewn geiriau unsill yn erbyn *g2 ag -n* ddwbl: *pan* (124), *pann* (9), *pân* (1), *pen* (37), *penn* (18), *pên* (23); *bzon* (12) *bzonn* (2), *bzôn* (2); etc.

Cyll *n* ganolog a diweddol o bryd i'w gilydd yn yr orgraff o waith y copiwr yn anghofio rhoi'r *titulus* ar y llafariad flaenorol: *maer* cyw. *maner* 3266 (B *baner*), *mobzant* 1034, etc. (B *Monbrant*), *my ieffu grifl* 1591 (LIC *mym*); cf. hefyd y am yn draethiadol: y *vehel* 141, y *gadarn* 569, y *dzylleu* 1225, y *trifl* 1355, y *warô* 2566, y *da* 3764, y *teir bydin* cyw. yn *t.* 2648 (bob tro, oddieithr yn 569 a 3764, try'r LIC y yn *yn*); yn wyneb cywiriadau'r LIC a'r treiglâd, dichon mai ag orgraff o y [œ] ac nid ag y [r] draethiadol y mae â fynnom yma.

Yn y llsgrau lle ceir y bwyntiedig (y) arferir y pwynt yn fynych i wneud gwaith *titulus*: y *kimereu trin* BB 57.12, y *cad* ib. 108.11; y *llosgi* P 3, 27; y *difflis* P 7, 8^a; etc. Y mae P 4 yn defnyddio'r pwynt i'r perwyl hwn a thueddaf i greu y dylid darllen enghreifftiau fel y *ueichaôc*, y *baraôt*, y *dywyffogyon*, etc., WM 32, 46, 49 (ceir *g* yn y *Pedeir Keinc*) fel yn *u.*, etc.; a dyna a wnaeth copiwr y LIC bob tro. Pa sut bynnag, anodd credu nad oedd gyswilt ym meddwl y copiwr rhwng y ac y. Yn PKM, t. 122, rhydd Ifor Williams esboniad gwahanol ar hyn.

Ceir y gwrthwyneb yn *yndaô* (*ydaô*) 3383, a *plômen* (*plumé*) 2743, 2744.

Yn holl lythraeth *m ac n* y mae dylanwad yr orgraff AN yn amlwg.

p

1. Fel y gwelwom dan *b*, ni cheir yr un *-p* ddiweddol yn YBH, megis yn LIDW (e.e., *nep* 1^a, *pop*, *huynep* 2^a, etc.), GrapC, P 7, P 10, etc. Trowyd *-p* HFF yn *-b* yn *Otuol* YCM, 85; *gwalthob*.

2. Cadwyd *-p-* bumwaith yn y rhifol 15: *pympthegmil* 3351, 3515, 3610, *Pympthec mrenin* 4125, *pympthec milbarnaôt* 4305.

3. Ceir *-p* yn *fômp* (o *dda*) 3750.

q [k]

Gwelir *q-* yn *quire* 541 (HFF *cuir*) a *-q-* yn *ysquiereit* 2788 (B *esquier*), eithr *actôn* 536 am yr HFF *a(u)queton*.

r

Ar ôl y llythrennau *crwn d, o, ô*, y ffurf *z* a arferir y rhan fynychaf: *dzaô*, *voz*, *gûz*, etc., ond ceir eithriadau niferus yn enwedig ar ôl *ô* ac *o*: y *naôr* 4183, *haôr* 3981; *gormod* 3233, *mor* 4321; etc.

Cyll *r* 13 o droeon yn YBH: *ialles* 17, *moglei* 612 (LIC *mozglei*), *girat* cyw. *girart* 2293, *neur dafu* cyw. *neur darfu* 2295, *venhin* cyw. *venhin* 2605; etc. Cf. hefyd LIDW: *benyu* (*brenyn*) 5^a, 8^a, 10^b, *beint* cyw. *breint* 21^a, *keyc* cyw. *keyrc* (*keyrch*), 13^a *agluit* (*argluyd*) 19^a, *eyht* (*eythyr*) 25^a, *fuydguy* 10^b; etc. P 14: *drwy* (*drwy*) 104, *dallein* 158; LI I: *kedald* cyw. *kerdaôd* 90, *keffa* cyw. *keffar* 81, *gwy* cyw. *gwyr* 92; etc. Gellid dyfynnu ugeiniau o enghreifftiau o waith y copiwr Cymraeg yn efelychu'r ffasiwn AN hon. Diystyrid *r* yn yr odlau yn AN, megis yn *estre*: *feste*, etc., er dechrau'r drydedd ganrif ar ddeg.

(i) *r ac rr mewn unsillafion.*

Ceir cryn wamarwydd yn sillafiad y geiriau hyn: *byzr* 4010, *tyrr* 'breaks' 2014, ond *cyr* 'near' 3419, *gyr* 'near' 3018, 3467, etc., *gyr* 'drive (thou)' 1610.

(ii) *r ac rr yn y goben acennog.*

Ar ôl llafariad fer ceir *rr* ac ar ôl llafariad hir *r* sengl megis heddiw: *barrau* 2373, *carrec* 2769; *garan* 1419, *tarab* 209; etc.
Yr oedd *r* yn debyg iawn ei ffurf i *c* a *t* a chymysgid hwy yn fynych: *elâit* (*elôir*) 90, *difetheit* (*-eir*) 1673, *gôelit* (*-ir*) 3816, *gyhyraffant* (*-ri* = *rô*) 3348, etc.; cf. *ruyn* (*crucyn*) LIDW 10^a; *roen* (*croen*) LIC=YBH 1158; etc., etc.

s [š]

(i) *s-*: ar ddechrau gair *f* yw'r nodiant rheolaidd: *ferchaôl*, *fef*, etc.

1. *ff* am *s-*: *ffaraffinieit* 883, y *ffaôl* 2508, *ffon* 3357, 3589, *ffôym* 4161.

(ii) *-s-*: yng nghanol gair arwyddir [š] y rhan fynychaf ag *ff*: *eiffoes*, *paiff-ôylab*, etc. Daeth yr arfer hon o'r AN lle'r arwyddid y sain [š] ag *f* ddwbl am yr yngenid *f* sengl rhwng llafariad fel *z* yn S. *zeul*.

1. *f* am *-s-*: *ny fôyfei* 537, *caôfant*, 2899, etc., *gôafanaethu* 3338; etc. (13 o es. i gyd).

(iii) *-s-*: yn y safle hon *s* gron fach yw'r llythyrneth reolaidd yn YBH.

1. *f* am *-s-*: yn wahanol i gopiwr P 7, P 8^a, P 8^b, etc., ni ddengys copiwr YBH ddim hoffter o *f* hir ddiweddol ac ni cheir ond *goz* 404, *of* 1676, *gôaf* 1428 ac efallai *yf* 1532, 1533, 1580, lle mae'r ysbas dilynol yn lled fach.

H

2. *s* am *-s*: mewn tua dwsin o eiriau ceir math o sigma ddiweddol Roeg debyg i'r *-s* a welir yn y llaw lys AN (XIIg.) ac efallai yn barhad ohoni: *erchi's* 4207, *thozres* 498.

3. 2 am *-s*: *arglôyde'z* 4340, arfer AN.

Collodd *f*, *s* yn AN erbyn hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg (yn Adgar, Chardri, etc.) ac o hynny allan esgeulusid hi yn yr orgraff, ffasiwn y ceir adleisiau lawer ohoni yn y llsgrau Cymraeg. Yn YBH: *ygynnu* 1570 (LIC *yfgynnu*), *llogit* 2490 (LIC *llofgit*), *leicetre* 3013 (LIC *leycefyz*); cf. hefyd *pygaut* cyw. *pyfgaut* BM 4 Fac. LIDW 67; *nau afeith galana Leges H* (XIII¹), AL II, 900; (*l*)*levely* cyw. *levelyf* Ll I, 61, *damweynnyw* cyw. *damweynnywef* ib. 72, *dangoffe* cyw. *dangoffes* ib. 76; *ynys* WM 42; *mi* cyw. *mis* ib. 46; etc.

t

(i) *t*:- ar ddechrau gair *t* oddieithr yn *eyn dat* 196 (LIC *eyn tat*), *ym datmaeth* 345 (LIC *ym t.*); gwallau ysgrifol, *mae'n* debyg, ac onid *e*, treigladau.

(ii) *-t*:- dyblir y *t* hon: *attal* 1893, *côtta* 434, etc.

1. *-d* yn amrywio â *-t*:- *ataffei* 474, *adaffei* 1854; *cadarn* (yn aml) *catarnaf* 824; *llidiab* 2387, *llitiab* 810; *adzeff* 226, *atref* 1284; *medzaf* 1789, *metrôf* 1632; etc.

to [y]

Ceir yr un arwyddion yn nodi *w* gytseinol ag *a* arferir i gyfleu *w* lafarog, nid amgen, *lh*, *û*, *v*, ac *u*: *gwaftat* 406, *gwaethiroed* 663, etc.; gw. dan *w* lafarog.

§19. ORGRAFF Y TREIGLADAU

Wrth astudio hynodion icthyddol *Ystoria Bown* y *Llyfr Gwyn* paratōis bennod ar dreigladau'r testun a bwriadwn ei chyhoeddi yn *Rhagymadrodd* yr argraffiad hwn. Teimlwn fod treigladau pob testun canoloesol yn haeddu sylw ac na ddangosodd golygyddion testunau'r cyfnod hwnnw bob amser ddigon o ddiddordeb yn yr arwedd neilltuol hon. Yn y cyfamser dyna Fwrdd y Wasg yn cyhoeddi llyfr safonol ar y pwne,¹ ac yn gwneuthur printio'r bennod ragddywededig yn ddi-ddiben.

Yn y sylwadau a geir isod ni wneir, gan hynny, ond galw sylw at bwynt neu ddau sy'n hynotach, hyd y sylwais, yn *Ystoria Bown* nag mewn testunau eraill, pwyntiau sy'n perthyn ond odid lawn cymaint i orgraff a seineg ag i'r treigladau eu hunain. Ac efallai y dylwn ddywedyd mai'r ystyriaeth honno a'm cymhellodd i leoli'r sylwadau hyn fel math o atodiad yng nghynffon y bennod ar orgraff.

¹T. J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd, 1952).

Y Treiglad Meddal

(i) Esgeuluso nodi'r Treiglad Meddal.

Yn fynych iawn ceir copiwr *Ystoria Bown* yn esgeuluso nodi'r treiglad meddal, esgeulustod a welir ar ôl llawer dosbarth o eiriau: 1. ar ôl y fannod: *ar kennadôzi* 4259, y *plômen* 2744, y *tryded* *vydin* 2652, etc.; 2. ar ôl enw: *yn lbreic pziab't* 4285; cf. hefyd *glbreic dec vonhedic kyfoethac* 1524, *oi a buttein dzuan pzoaad'cy* 195, *uo'z fjalst pzoaad'cy* 4032, etc.; 3. ar ôl ansoddair: *amryuaelon canueu* 3875, *amryuaylon glbedi* 4317, etc.; 4. ar ôl rh. blaen: y *caryat ef* 467, *dy pen* 942, *dy tat* 2952, etc.; 5. ar ôl yn adferfol a thraethiadol: *yn claf* 116, *yn teir bydin* 2648; cf. hefyd *yn gamlbedac pechadurus* 2558, *yn glaf goztheidac* 4325, etc.; 6. ar ôl arddodiad: *am cleuyt* 117, *ar pedeir ffozch* 2422, a *thry' tloyll* 3889, etc.; 7. mewn adferfau ac ymadroddion adferfol: *ae darab teirgheith* 303, a *diolch aozuc boon cantheith* 3242; etc., etc.

Gwn yn iawn y gellid dyfynnu enghreifftiau tebyg o destunau eraill cyfoes; e.e., WM y *hawa't* 230, *ynyperllan* 225, y *tyghetuen* 166, etc.; AL I: y *tryded* *vlôdy'n* 566, y *petoared rann* 526; Ll I: *en claf* 56, *e(n) trech* 63, *e degynt ar cof ydau* 96, etc.; P 44, 19 *gworec prjant*, etc.; ond fy argraff i yw fod mwy ohonynt gyda'i gilydd yn YBH nag a welir yn gyffredin. Diwygiodd y LIC lythraeth y LIG bron yn gyson (gw. yr Amrywiadau ar odre'r dail).

(ii) Osgoi'r Treiglad Meddal o ddilyn y Glust.

Yn sicr ddigon, nid dilyn ei glust, eithr yn hytrach dilyn rhyw ymwybod geirdarddol a wnaeth i gopiwr YBH esgeuluso sgrifennu'r treiglad yn yr esiamplau uchod a'u cyffelyb. O'r tu arall, gwelir ef yn fynych yn mynd i'r eithafbwynt cyferbyniol ac yn gadael i'w glust ei dywys i nodi nid y treiglad meddal traddodiadol eithr y calediad a gynhyrchir gan ffirwydrad cytsain flaenorol. Digwydd hynny ar ôl *ch*, *ff*, *ll*, *th*: *pan geiffych ti* 157, y *mynnych ti* 852, *dy gozff ti* 147, *holl had'gyneu* 1141, *holl pechodeu* 1435, *holl henedel* 2937, *ath cledeu* 961, *yth haffell* 2368, *yth hadô* 3188, *mi ath caraf* 232, *maôz abeth* . . . *yth caraf* 1495, 3131, 3154, *ath trellis* 2579 (y feddal bob tro yn y LIC oddieithr yn 157). Yma eto gellid dyfynnu enghreifftiau cyffelyb o destunau'r cyfnod: WM: *ath clon* 70, *ath teulu* 160, *oth tloyll* 167, *ath cret* 459; P 9: *oth haffell* 45^a, *ath credôdyr* 45^b, etc.; eithr ymddengys y gwelir mwy ohonynt yn YBH nag mewn llsgrau eraill.

Y Treiglad Trwynol

Nodiand y Treiglad Trwynol.

Yn llsgrau'r oesoedd canol nodir treiglad trwynol *c, p, t*, ar ôl *eyn*, *yn*, ac yn 'in, on' mewn tair ffordd:

1. Gwneir cynnig ar gyfleu'r treiglad yn seinegol fel na bo galw ar y darllynydd ond i yngan yn aym y cyfuniad a fyddo o'i flaen: *tygharedic* 2718, *yghozf* 146 (LIC *eyng c.*), etc.

2. Gedir llythren gysefin y gair a ddilynno *vym*, 'yn ac yn yn ddigyfnewid, eithr disgwylir i'r darlennydd gyanau *h* yn ei lle: *vygkywoeth* 3795, etc. (â'r arfer o esgeuloso cytsain yn y darll., cf. *em priodoldder* LIDW 222, *af punt* ib. 23^b=BM 4 a *phunt*; *pym hlyned* Ll I, 104; *pymb mlyned* DgC, 36, *pump mlyned* RBB, 69).

3. Cyfunir dulliau 1. a 2. oddieithr na ddigswylir i'r darlennydd wneud dim ond esgeuloso'r llythren gysefin a dilyn ffordd 1.

Arferir dull 1. yn helaeth yn llsgrau'r drydedd ganrif ar ddeg megis yn *Llyfr Gwyn Rhydderch*. Daw dull 2 i fri yn y ganrif ddilynol ac fe'i defnyddir i fesur mawr yn *Llyfr Coch Hergest*. Enghreifftiau gwasgarog yn unig a geir o'r trydydd dull, ond trewir ar fwy ohonynt yn YBH nag yn unrhyw destun arall y gwn i amdano.

Dyma'r esiamplau o ddull 3. a ddigwydd yn YBH:

(a) Ar ôl *vym*, 'yn.

Treigladd c (i.e. *nc>ng*), nodiant *gch*: *vygcharyat* 1815 (LIC *uyngk*.); cf. *uygchret* WM 390; *vyg khof* Llsgr. H, 17.

Treigladd p (i.e. *np>mh*), nodiant *mph*: ni welir o dreigladd *p* ar ôl *vym* 'yn onid dull (iii), eithr digwydd cymaint â 10 esiampl o'r nodiant hwn: *vymphen* 3665, 3744, 3762, 3819, 4236, *vŷ phên* (lsg. *vy phên*) 939, 1773, 2503, (*phen*), 2740 (*phen*), (*gyda vŷ*), *vymphoini* 1007 (LIC *vympoeni*); cf. *vym phen* WM 231.

Treigladd t (i.e. *nt>nh*), nodiant *nth*: ni cheir ond *vynthat* 4356 (LIC *vynthat*); cf. *vynthat* HM II, 244.

(b) Ar ôl *yn*

Treigladd c: *ygcharchar* 1594, 1881; atgof o hyn efallai sydd yn *ychkyuodi* 709 (LIC *y chyuodi*); cf. *encharchar* RWM II, I, 345, *ynchilch* ib. 346 ac, o ran orgraff, *agchret* Ll I, 86.

Treigladd p: *ym phob peth* 109, *ymplren* 1318, 2811, *ymphen* 3145; cf. *ymphen* WM 229, 251, 255, 256, 488 (ddwywaith); Ll 34, B 228; *ympherued* Ll 34, 230; *ym phlith* GrapC 106; ac, o ran llythren, *ampharavt* P 44, 4; Croesiad, gellid meddwl, o *temhyl*+HFf *temple*, AN *tempel*, sydd yn *temphyl* P 44, 9 (ddwywaith); yr un modd, o bosibl, yn *amperawdyr* SG 233 <*am(h)eraôdyr* (cf. *emen*=*emhen* LIDW 25^b)+*emperere(s)* neu *amperere(s)*).

Noder *degnrath* 164, *dec mrenhin* 4115, *pynthec mrenhin* 4125, a gw. *Ffuriant*, §24.

IV. FFURFIANT

§20. Y FANNOD

(i) Trewir rhwng cytsainiaid ar rai enghreifftiau o'r ffurf lawn *yr*: *yn eithaf yr maes* 1776; *ffoad yr poeth* 2376; efallai hefyd yn *luo2 ez gris* (lsg. I. *oz gris* 2680) (B *Ivori le gris*); *arondel yr dzythyll* (lsg. a. *yn d.* 2884) (B 2480 *A. le destrer abrivé*); cf. *yr* ar ôl yr orffwysia yn *dy benn di yr maô2* 2691, 2008.

(ii) Ceir amryw esiamplau o'r ffurf lawn, fel y gwyddys, yn y LL: *arhyt yr cecyn* 145; *arhyt yr nant* 145; *bet lycat yrfunnaun* 146; etc.; ond gan yr awgrymir iddi ddiiflannu cyn y cyfnod canol (WG 192), buddiol fydd dyfynnu'r rhai a ganlyn hefyd: *Boed emendiceid ir guit* BB 97.5-7.9.11; *guell yrky agruytro noc yr ky agkyfco* LIDW 16^b; *emen er vii blenet* ib. 26^b; *erdredet ran* AL II, 894; *loc yr sôch* ib. I, 726; *chwant yr byt* SG 30; *y doeth yr carô y erhylua arthur* WM 402; *yn kosti wrth dwerneimant yrnter adel yma* ib. 645; *yma ydwyf uy hunan yr uerch ymduat* P 14, 106; *eflyn ym eb ef ar bwa* P 10, 46^a. Nid bannod ond ardd.+bannod yw'r *yr* yn castell *yr wreic wedw* SG 203 (Potvin 41 li *chastiaus à la vesve dame*).

(iii) O flaen *f*-arferir y (18): *y iarll*, *y iarlls*, etc., ond *yr iarll* 48, 2480, *yr iarlls* 327.

§21. ENWAU

RHIF

(i) *Encau yn newid Drwy Affeithiad*.

Gan y digwydd llw, ddwywaith ar ôl *petthar* (gw. llw. yn *-s* isod), dichon mai *llw*, a geir yn *petthar emys* 3487; o'r tu arall, un a geir seithwaith ar ôl *dec* (cf. 1338, 1724, etc.) ac un, felly, yn bur sier, sydd yn *dec emys* 470, fel yn *dec ffozeftô2* 469. Sylwer ar *ierch* (llu. *lôsch*) 1622 ac, er WG 40, 196, cymh. *tyrch* P 10, 36^b, 37^b.

(ii) *Lluosog yn -eu*.

Es.: *dôyeu* 3747, 3898; y ffurfiau un. *yw duô* (yn aml), *dôy* 394, a *dôu* 2664 heb yr un *dôy*, onid orgraff am *dôy* *yw dôu*.

(iii) *Lluosog yn -(y)ein*.

Es.: (*tygu*) *llyein* 812, *bygythyein* 2356; cymh. *tyghu cam lyein* HM II, 290; *lyein* RBB 37 (ddwywaith); LL4 158; *hymein* . . . o *lyein* AL II, 310.

(iv) *Lluosog yn -i*.

ghlêdi *yw llw. ghlât* 3206, 3585, 4317; cymh. RBB 169, 176, 194 (2), a chwanager *ghlât* at yr enwau yn WG §122 (2) *ay'n cymryd -i*; gw. §6, (i), 3.

(v) *Lluosog yn -s.*

Digwydd yr esiamplau a ganlyn o'r llu. Hff yn *-es, -ys, -s*; y *kyuodes* y *iarles* 3331 (B 2893 *li contes sunt levee*); *paib or baroneit ar duces* 3490 (B 3044-5 *tuz le barons . . . e ducs*); *petbar duces* 4011 (B 3533 *quatre ducs*); *petbar admirales* 4170 (B 3672 *quatre amirant*); *paninbrys* 3726 (llsgr. *paninbrys*) (B 3263 *paens*); *bzenhined ac admirals* 4059 (B 3571 *rois e amirez*); *o genedyl a elbhir donnes* 3692 (B 3223 *turs e dongons*; gw. n. ar 3692); *y farafincyeit a elbit raffons* 3698; gw. n.; *y raglons* 3702 (B 3234 *Armedel l'Aravons*), llygriad tebygol o *Aravons*, ceffylau enwog o dalaith Aragon yn yr Ysbaen; gw. n. ar 3701 a 3726.

§22. TERFYNIADAU YN NODI'R GWEITHREDDYDD

(i) *-el*. Ffurf Wenhwyseg, ond odid (gw. dan Awdur Copiwr a Dyddiad), (LIC *-aél*); cf. *negeffabl* WM 143; *er yachwydaul* P 14, 15b; *an achwydyaul ny ieffu gryft* ib. 84; ?<**-alos*, gyda gwerth ansoddeiriol ac enwol fel yn *aequalis -alem*, 'cyfartal; cydymaith'.

(ii) *-llyr*=?<62; *kyghozllyr* 2947 (B 2536 *conseylur*); ac o bosibl yn *ffozeffllyr* 127. Cf. y *gŵyr* cyw. y *gŵr* WM 227 a gthg. *gur* cyw. *guyr* LIDW 29^b; *guyr*=?gur ib. 14^b; *awyr*=*awr* HM II, 243; efallai o efelychu *ui* (*uy*) am *u* (=w) yn AN.

§23. ANSODDEIRIAU

Cymhariaeth

(i) Ceir *nac* cyw. *noc* ar ôl y radd gymharol; *kynt y bydaf varó i nac ef* 817, yr hyn a awgryma yr arferid *na a nac* mor gynnar â'r drydedd ganrif ar ddeg yn yr iaith lafar. Os felly, nid cywir 'Late Mn.W'. WG 447.

Cymhariaeth Afreolaidd

(ii) Sylwer ar *henaf* 3560, 3561, megis fyth yn y Deheudir; nid enghreifftiau o *e=y dywyll* o gwbl mo'r rhain fel yn *Orgraff* §16.

Ansoddeiriau Deilliedig

(iii) Am *-adŷ*=*-edŷ*, gw. ar 195 ac am *-a* yn *yfkyuala*, etc., gw. ar 34. Am *-it* yn *tzebelit*, gw. ar 194 ac am *-yn* yn *heyernyn* ar 1369.

§24. RHIFOLION

(i) *deu*. Yn *dŷy dyptic* 537 cawn efallai enghraifft o'r rhifol g. deheuol *doy*=*dou* wedi ei 'gywiro' yn *dŷy*; gw. n. ar 537.

(ii) *pum(p)*. Cadwyd *-p-* yn *pumpcant* 2202; *pump cant* 2247, 3758; ond a *phum cant* 3757; a *phum mil* 3756.

(iii) *dec*; *deg* (ia *dec*)=*deng*. Noder *degmrath* 164 (LIC *deg*=?dec b.); *dec mrenhin* 4115 (LIC *dec b.*); *degŷy* 1957; cf. *deg mydin* SG 105; P 9, 53^b (ddwywaith); eithr *deg b.* ib. 54. Noder *dec*=*deng*; onid e, rhaid tybio y ceir yma dreigladd lleol; cf. *pymthec* isod. Sylwer ar *dec vzenhinaeth* (LIC *dec b2.*) 704 a gw. n. ar 227.

(iv) *pymthec*; *pym(p)theg* (ia *phymthec*)=*pymtheng*. Sylwer eto ar *-p-* a ddigwydd 5 gwaith ac ar *pymthec* niwbarnat 240 (LIC *-eng n.*), *pymthec* niwbarnat 4305 (=LIC); *pymthec mrenhin* 4125 (LIC *pymthec b.*); cf. *dec* uchod.

(v) *can(t)*. Aeth *-t* yn *-n(h)* o ran sain fel rheol o flaen enw, ond *cant pagan* 1109; *trychant gŵely* 3752.

§25. AMLOGION DOSRANNOL

Yn lle'r bob arferol (WG 260), pob a geir yn YBH: *pob ddec* 2510; *pob dec pob deudec* 2716; a noder y gytsain galed yn *pob cant pob mil* 3952.

§26. PARTHOLION

Parthol diddorol yw *petbararen* 969 (B 924 *un quarter*), llythreniad ond odid yn hytrach na gwall am *petbaratren*, ffurf Wenhwyseg, fel y tybiaf, am *petwaraðren* 'a fourth part'; gw. n. ar 969.

§27. RHAGENWAU PERSONOL ANNIBYNNOL¹(a) *Syml*

3 ?*fe=ef* 1022 (gw. n.); 5 *chi* yn *yóch* i 2285 (LIC *yóch chí*); o *honabch* i 2288 (LIC *ohonabch*); *ócheli* 2630=*óchóchi* (gw. isod); 6 *ŷy* yn *hóymt* 6y 520; *ŷyll deu* 4361; aml ffurfiâu yn *-nt* ((*h*)*ŷynt*); aml ffurfiâu ag *h-* (*hóy*, *hóynt*). Cf. a 5 y *chy* cyw. *yehuy*, Y *Grogllith*, P5, vii^a.

Gan y digwydd *huy*, *huynt*, *huent*, etc., yn LIDW (cf. 19^b (2), 21^b, 23^b, 4^a (2), 15^b, etc.), rhaid gwrthod casgliad J. Morris-Jones fod *h-* yn arwyddo 'Late ML.W'. (WG 271). Tybiaf i'r *h-* a ddatblygaa i lafar (*gwelant* *wey*>*gwelant* *-hwy*>*gwelann* *-huy*, ib. id.) gael ei hyrwyddo i ddyfod i'r orgraff gan gydnabyddiaeth eia copiwyd â'r arfer HFF o chwaneu *h-* o flaen *ue-*, *ui-*, er mwyn osgoi eu camdardllen fel *ue- ui-* (cf. *hues*<*opus*; *hucere*<*opera*; *huit*<*octo*; *huile*<*oleum*, etc.). Efelychwyd yr arfer hon ar raddfa eang yn LIDW nid yn unig yn y rhagenwau (gw. uchod ac isod), eithr ymhob math o eiriau: *y huely* 'his bed' 6^a; *en y huet* 'in his presence' 31^a; *rac hueneb* 36^b; *ny huypay* 1^b; *or huynoz* 8^b; *lloe ac luym* 45^a; etc.

¹Er mwyn cyffeustra, arferir y ffurfiâu 1, 2, 3 i ddyfodi'r tri phers. un. a 4, 5, 6, i arwyddo'r rhai llu. Lle caffer ffurfiâu rhwng cromfachau saif am nifer yr enghreifftiau a ddigwydd o ffurf neuilluol.

(b) *Dwbl*

1 *miui* 343, 767, etc.; 2 *tidî* 1497, 1993, 2353, *tydî* (5); yn 3g. ceir (a) *efo* 1706, 2266; (b) *efef* 1022; gw. ar 1022 lle dangosir bod y ffurf ddwbl hon yn ddilys a'r gyfres ddwbl yn gyflawn; 3b. *hihi* 770, 2349; 5 *6chchi*, tam *ch6chi* yn *6ch kyghoz 6chchi* 2630; 6 *hymt6y* 520.

(c) *Cysylltiol*

1 *minheu* (28), *minneu* (14), *mineu* 222, 1113, 1695, 3070; 3g. *ynteu* (132), *ynte* 393, 436, 473, 484; 3b. *hitheu* (53), *hithe* 305, 345, 481; 4 *minheu*; 5 *ch6itheu*; 6 *6ynteu* (4), *h6ynteu* (20). Digwydd ffurfiau ag *h-* yn fynych yn LIDW: *huinteu* 21^a, *huenteu* 14^b, 47^b, 48^a, etc., pwynt y collwyd golwg arno wrth roi'r ffurfiau canoloesol yn WG 272; gw. dan (a) uchod.

Ag *ynte* a *hithe* cymh. *ynhe* cyw. *ynheu* P 44, 5; P 11 (*y Seint Greal*) 64^b; *minne* WM 399, *jinne* ib. 613, *inne* ib. 626, *minhe* ib. 648; RB 222; *ente* cyw. *ente* Ll 1, 85; *ynte* WM 618; *hithe* cyw. *hithe* P 11 (SG) 64^a; *nynte* WM 644; *ninhe* P 8^a, 50; *ninne* RB 48; *wynte* Ll 1, 67; WM 59, 85; etc.

Os *w(h)i* a *w(h)itheu* oedd ffurfiau llafar y copiwr am *chwi* a *chwitheu* (cf. *auch clufyew* vi P 14, 86; *hwchwithew dynyon* P 5, xix^b; *paham y ffozuch 6hy* ib. vi^a; *o wi* . . . BrDg 29=*6ch vi adlyweu nef a dayar* RBB 67), ni cheir yr un atsain ohonynt yn YBH a'r tebyg yw iddynt droi'n *chwi* a *chwitheu* o dan ddylanwad *-ch* y ferf flaenorol ymhell cyn hyn.

§28. RHAGENWAU PERSONOL DIBYNNOL

(a) *Rhagenwau Blaen*

(i) 1 *ey*, 'y: ni cheir *o'* o gwbl fel yn *varglwyd, veneit* SG 104, cidr cyll *o'* o flaen y sain drwynol yn *yghozf* 146, *yclodeu* 1108, *ygyghoz* 1282, *ygharcharu* 1593, *yglwyrd* 1900, *yglbiat* 1998, *ynadlyn* 1127, *y mab* 339. Tebyg bod i *f* werth dwbl yn *tref ynhat* 265; *ni a dialaf ynhat* 390; cymh. *Myn yghret inne* WM 626; *yn yg knawt* P 8^a, 78.

(ii) 2 *dy*: ni welir yr un *d'* fel yn *ar dol di* SG 348.

(iii) 3 *y*, *eu* (g. a. b.): wrth ochr y ffurf reolaidd y ceir (trwy gydwyddiad â 6) *eu yn oc eu bod* 'of her own free will' 2350, ac yn *guely* . . . *lbedy eu dychauel* 2421, ffurfiau a ddigwydd hefyd yn LIDW: *oy lu eu hun* 20^b; *en i erbin eu hun* 21^a; am *oe yn noc y kausas oc bzonu*, gw. n. ar 2916. Efallai y ceir i yn 1277; gw. n.

(iv) 4 *yn*: ceir *to yn* heb yr un *an*.

(v) 5 *6ch*, *66ch*, *yeh*. Digwydd y ffurf *6ch* (nas cofnodir yn WG) bum gwaith: *6ch lafar* 2216, *6ch d6yloa* 2219, *6ch fon* 2246, *6ch etyillus* 2287, *6ch kyghoz* 2630; *66ch* 3275, 3737, 3959; *yeh* 815, 2109. Ni ddryr YBH *ach* (cf. *ach clufteu* P 5, viii^a a gw. G).

(vi) 6 *eu*, *y*, *y eu*: *eu* (143); *y* 229, 259, 473, etc. (21); *y eu* yn *ny darffei y eu toi oll* 909. A'r olaf, cymh. *in y eu kyfluit* BB 52.13; *ar y eu kygheliffaet cyw. ar eu k.* BM 4=LIDW 29^b. Tybed ai cywriad o y lafar yw'r *eu* yn *y eu*? Ymddengys y ceir cyfuniad o'r ddwyffurf olaf yn *yudwylaw* SG 343. Yn wyneb rhif yr esiamplau o *y=eu*, y mae 'sometimes MLy' WG 274 yn rhy ochelgar.

Ar *yu*, *yw* am *eu*, gw. n. Ifor Williams yn PKM, 235, a bwriat ar yr enghreifftiau a ddyry ef y rhai a ganlyn: *gueneuthur yu (=eu) reydeu* LIDW 14^b; *en guell yu (=eu) breint* ib. 22^b; *yaun eu (=yu) yu (=eu) ruymau* ib. 46a; *dileer yw yw* (sic) *pechodeu* P 14, 111; *yu (=eu, llsg. yn) bot yn barazot* P 8^b, 6; *a dilyu (=dileu) eu hetued en gubel* P 16, 28b. Ceir enghreifftiau niferus iawn o'r *eu* AN am *yu 'is'* yn LIDW (dwsin ar y ddwy ffolio gyntaf) ac edrych *yu am eu* fel orgraff wrthwyneb a'i sail *yn y golygon* nid yn y sŵn. Yr esboniad cyntaf yw'r sylmaf, ond dichon y gorffwys yr un tebycaf yn un o'r ddau gydwyddiad.

Sylwer y ceir cymysgedd o *ell* ac *yll* (*ill*) yn BGW, Ll 34B, 214 *eifte eil dau*.

O flaen rhifair ceir *yu* yn *h6ynteu yu* (llsg. yn) *tri* 1801 (LIC *yll tri*), camdarlleniad efallai o *yll*; cf. *giledic=guledic* BB 78.3; *dylallu=dywallu* LIDW 12^a; etc.; gw. ar 1801.

(b) *Rhagenwau Mewnol yn y Cyflwr Genidol*
(cyfuniad o *y*, HG *di*, HFr *do*, â 3 a 6)

(i) Ceir lliaws o amrywiadau unsillafog: *6y*, *oe*, *oy*, *oey*, *y6*, *eu*, *y*: (i) *6y*: efallai i'r copiwr ddehongli *-6y* yn *yn ganhozh6y eu hargl6yd* 'as help to their lord' 2712 fel *6y* 'to their', yna iddo ei gywiro drwy chwaneu *eu* a gwneud *y eu*; onid e, ni cheir *6y* yn YBH; (ii) *oe*: 14 o esiamplau gyda 3 (291, 325, etc.), un gyda 6 (2331); (iii) *oy*: yn 663, 948, 997; (iv) *oey*: *oey edzych* 1554. Cf. *oe e hymell cyw. oe k.* P5 cxxv; *y gwyr dyw . . . ac oy y ebestyl* Ll 1 87; (v) *y6*: *y6 ystlaell* 'to her room' 3552; cf. *hefyd y llat* 'to his country' 3113, 4217, 4313; *y lreic* 'to his wife' 3171; ceir niferus enghr. o *yu* (*yw*) yn P 14 ('middle of xiiii c.'): (vi) *eu*: amr. orgraffol AN, fel y tybiaf, ar *yu*: *eu b6yt* 'to their meal' 3336 (LIC *y eu*) ac efallai yn 2712 (gw. dan (i) *6y* uchod); cf. *ac eu cenedel ac eu hargluyt* LIDW 27^a=AL I (Llsg. D), 100 *oe hargl6yd ac oc chenedyl; talu eguert . . . eu argluyt* LIDW 27^a; *a 6ellit ir eu meirch* P 5, lxxxviii=P 9, 9^b . . . *y meirch; yd aeth gereint eu heb26g* P 4, WM 414=P 6 *y eu h*, WM t. 208; (vii) *y* (=y+y): 14 o enghr. 13 gyda 3 ac un gyda 6.

(ii) Wrth ochr yr unsillafion gwelir hefyd *oc eu* ac *y eu*.

(i) *oc eu*: *oc eu b6yt* 'to their meal' 2241; *oc eu bodi* 'to be drowned' 2082; *iac eu hymlit* 3273 (LIC *oc eu h*); (am *oc eu=oe* 'from their', gw. 2081, 3519, 3554); (ii) *y eu*: *y eu tatmaethu* 3472; *y eu llettyen* 3729; *y eu llog(h)en* 4227, 4312 (LIC *y eu* bob tro a hefyd fyrfwrnab â 2712, 3336). Chwaneu eger at hyn y *eu* *muinbau* LIDW 22^a; *eg g6ethwynep y ew p6yrynhew* *wynetw* Ll 1, 4; *ac a vanagaffant y ew brenyn* ib. 18; *y ew kenedyll* ib. 59;

¹ RWM I, II, t. 325.

y *ev hadu* ib. 70; y *ev gailyav* ib. 70; y *ev dwyvev* ib. 72 (ac yn aml yn LI I); ac y *eu hetuadyon* P 14, 170; y *eu gôlat* GrapC 124; P 7, 22^b; etc. Geilw J. Lloyd-Jones fy sylw hefyd at A2.7; 3.2; 9.9; T15.7.

Nid yw y *eu*, gan hynny, yn 'rare form' fel yr awgrymir yn WG 277. Tybiaf nad yw *ue*, *uy*, *oe*, *oy*, *ey*, *oey*, *ooy*, etc. onid orgraffau amrywïol o'r un ddeusain ac awgrymaf mai efelychiadau ydynt o'r amrywiadau sillafol a welir am debyg sain yn AN. Yn yr iaith honno gellid yn ddiwahaniaeth ysgrifennu *buaf* neu *boef* 'eidion'; *cuer* neu *coer* 'calon'; *nuef* neu *noef* 'newydd'; *puet* neu *poet* 'geill'; *uef* neu *oef* 'wŷ'; etc., oddieithr bod *oe* yn fwy poblogaidd nag *ue*. Yr oedd *ue* ac *oe* hwythau yn feirio ag *ui* (*uy*) ac ag *oi* (*oy*) a gwelid *duil*=*duel*, *doel* 'galar'; *poit*, *poit*=*puet*, *poet*; ac fe geid *oei* fel amrywiad arnynt ill dwy. Peth arall diddorol odiaeth yw ddarford i'r Anglo-Normaniaid er ail ran y ddeuddegfed ganrif (Sallwyrâu Rhydychen a Chaergrawnt, etc.) droi'r *ue*, *oe* yn *eo*.¹ Felly, ysgrifennid *deol*<*doel*, *duel* 'galar'; *eoere*<*oeere*, *uevre* 'gwaith, llafur'; *estool*<*estoet*, *estuet* 'yr oedd yn angenrheidiol'; *ileoc*<*iloeoc*, *iluec* 'yna'; *people*<*poepie*, *pueple*; *veolt*<*voelt*, *vuel* 'ewyllysia'; etc. Y mae'r trawsoddiad hwn yn un o hynodion fonetig yr AN ac yn wyneb y cyfatebiaethau uchod rhwng orgraff y ddeusain *ue*, *oe* yn y ddwy iaith a arferid yng Nghymru'r oesoedd canol, anodd credu na chysylltia'r Cymry dwyieithog yr *eo*<*ue*, *oe* AN â'r *yu*<*ue*, *uy* CymC. Awgryma *eu* am *yu*, *yô* (gw. (vi) uchod) y gwnaent hynny; a da cofio mai LIDW gyda'i orgraff AN ei hansawdd sy'n cofnodi'r enghreifftiau hynaf o *yu* (cf. 3^b (*yhu*), 4^b, 7^a, 10^b, etc.). Eto, os y gyda'r *w* dorfwlch AN sydd yn *ywy* P 20 (*ywy kyrchu* 93^a; *ywy mah* 153^a; *ywy llewenyd* 159^a etc.), llsgr. â lliw AN pendant ar orgraff ei dwsin tudalennau olaf (cf. Gilbert *teuwanc jarll* Clar 295^b, *hyw ieuwanc* 298^b, etc.), ceir yma awgrym pellach i'r un perwyl. Dywed Gruffydd John Williams wrthyf iddo godi tair neu bedair enghraifft o *i'w i* o destunau a sgrifennwyd yn Morgannwg (Glyn Nedd) yn y ddeunawfed ganrif. Tybed, gan hynny, i'r trawsoddiad ffonetig brodorol *yu* 'i'w' a geir ar lafar yn Nyffryn Dyfi â'r cylch (traddodiad a ganfu Ifor Williams²) gael help i ddod i'r ysgrifen drwy ddylanwad *eo*<*ue*, *oe* AN, ac i lafar y bobl oddi wrth gyfuniadau fel *y+eo*: *yôlat*=*i'w wlat*; etc.² Ai yn Nyffryn Dyfi y cafodd Dr. Davies ei *i'w*, tybed?

(e) Rhagenwau Mezonol yn y Cyfstr Gwrthrychol

(i) Ar ôl y geirynt a ceir *ôch* yn *Mahôn ôch iachao* 3936 (=LIC); at yr enghreifftiau prin o *ôch* gwrthrychol sy'n hysbys (gw. G), bwrier ac *nyôch* *afonyda* o hyny allan P 9, 47^b=ac *nych* a. P 5, 111^b; *canyrch* *rewelas* *neb etoa* o2 *gaer ymhoelôch* WM 475.

(ii) Noder y ffurf anarferol *eu* yn *eu gozdiûbedaôd amoftra* 2094 (LIC y *g.*), yr hyn a ddengys bod *eu* ac y yn ymgyfnewid yn y ffurfiau gwrthrychol yn ogystal ag yn y ffurfiau genidol (gw. uchod).

¹ Gw. H. Suchier, op. cit., t. 79; L. E. Menger, op. cit., t. 75; A. Stimming *Boete*, tt. 207-8.

² Ifor Williams, *Cyfranc Llund a Llewelys* (Bangor, 1910), t. 20; J. Morris-Jones, *A Welsh Grammar*, t. ix.

(iii) Digwydd -s ochr yn ochr â'r gwrthrych ddwywaith: *nas dangoffei* y *llythyr hōnnô* y *neb* 829; *nys madeu yfthreic vlyaf a gar* 1024.

(iv) Ceir *h* nas disgwyld o flaen y llafariad a ddilyn 3g., *nys hattebatôd* *neb* 1212 (LIC *nys* a.).

§29. RHAGENW PERTHYNOL

Am gymal rhagenwol=adferf, gw. *Adferfau* yn *Cystrawen*, §48, (iii).

(i) y ac *yd*: Ai *y*=a gwrthrychol sydd yn 2808: *ac y gôerthaôd iudas yr ideon?* (gw. ar 2808); *yd: nachaf boôn yn dyuot yr lle yd adaôfsei bonfei* 1854.

(ii) yr am *yd* (=yô). Ceir tair esiampl: *arôndel yr hōnn yr oedut yn dziftl oe achafô* 3963; *yna yr arôbedaôd boôn arôndel allan* 3032; *yna yr yfscynnaôd fabaot ar amôf fabur* 3976. Cf. hefyd LIDW 17^a *val emay goreu edele macht heprug euod e en wach erhepreghaf vi vemot en wach*. Y mae '14th cent'. WG 285, felly, i'w gywiro.

(iii) *ys* y. Noder *ys* y 1367 *am arglôyd inheu ys y gaôz deôz dihafarch* a *chym. y gôz yf yn eifle* P 9, 10^a (deirgwaith).

(iv) *pieu*. Ni cheir ond *bieu* a *bioed*: *ar gôz bieu* 1669; *yr vnbeunes bioed* 3285; heb yr un ffurf â *p*- fel yn SG, 58 y *neb pieu*; etc.

(v) *a+ry*. Am a yn ategu *ry*, gw. dan *Ffurfiant*, §35 a *Cystrawen*, §46 (ii).

§30. RHAGENWAU, ANSODDEIRIAU, AC ADFERFAU GOFYNNOL

(i) *py*, *pa*. A barnu wrth YBH, yr oedd *py*, ansoddair, yn colli tîr yn gyflym yn ffafr *pa*. Ceir 13 o'r blaenaf a 43 o'r ail; ni ddigwydd *ba* ond yn 1190 *medylyab ba le yd enkiliet*.

(ii) *py en*=*pôy?* Gw. *py en* yn yr *Eirfa*.

(iii) y *py diô*. Gw. dan *Cystrawen*, §47, (i).

§31. Y FERF—Y FFURFIAU PERSONOL

A. Y MODD MYNEGOL

(a) Y *Presemtol*

(i) Fel yn *eitha* 1269, *hoffa* 2336, *Se* 1448, *gyfar* 1630, cyll -f yn 1 un. y ferf: *roda* 1788 (LIC *rodaf*), *peirâna* 2546 (LIC *paraf*), eithr ffafria'r cyswllt y 3 un. yn yr olaf. Cynn. *mi* a *uena* LIDW 17b (BM 4 *wynnaf*); *mi achraulaena chôy* P 5, vi^b; *mi* a *ragoza* . . . ac *ae taula* ib. cxxv^a; *mi* a *gyuadefaa* ib., cxxxiii^b.

(ii) Nodir terfyniad yr 2 un. gan *-e: helhyd a gene cyw. geny 723*. Cadwyd yr *-e* hefyd ar ôl bôn yn *-i- yn a dzigye 1909* (LIC *drigyy*), ond *adzigy 3763* (LIC *dzigyy*). Cf. *ny deleedi LIDW 20^a* (BM 4 *dylly*); *trigye WM 144* (RB *trigyy*); P 5, xix^a.

(iii) Gwelir y Pres. Cwmpasog: *llalber trallaot . . . yd byf i yn y gael 1000; pony chlybby di y ryb ryfic . . . y mae y march nny gymryt 1565*; gw. dan yr Amh., y Gorff. ar Gorbff.

(iv) *Ffurfiâu Cywasgedig*.

Rhoddaf. Cadwyd yr *-dd-* yn gyson.

Caffaf. Yn y pres. ceir 12 *kaff-*, 1 *kah-* a 19 o es. o *ka-* (yn yr amh. ni ddiwydd yn YBH yr un ffurf â bôn hir).

(v) *Bot a Berfau Cyfansawdd o Bot*.

Am (*y)mae, may, (y)tao*, gw. dan Y *Cymal Emvol yn Cystrawen*, §45, (ii). Cadwyd yr hen ffurf *ofit* yn 343 *ofit yt a hollych haol*; yn 3 llu. nodir *ytyyôch 4200*, ffurf a ddiwydd yn SG 194, eithr nas cofrestrir yn WG (346) ac na ddiwydd yn y Farddoniaeth Gynnar.

O'r ffurfiâu cyfansawdd a red ar batrwm *b-* (gw. WG 251), nodir y pres. (dyf.) myn. 3 llu. *argenyddant 1771* (ond gw. n.). Ac os dylid darllen *ath gyueryo am yth gybeirôyt yn dâbe yth gybeirôyt 2985* (B 2561 *mals eus est encontre*), fel yr awgryma J. Lloyd-Jones, dyma inni enghraifft chwangol o ffurf brin. Bwrter at hon *kyeeryw Ll I, 111*.

(b) Yr Amherffaith

(i) Onid llithr copiwr, mater o orgraff yn hytrach na ffurfiant yw'r *-i* am *-ei* yn 3 un. *pari 1690* (LIC *parei*); cf. yn *Peredur P 7* (testun â lliw AN ar ei orgraff), *gweli (-ei)*, WM 640; *rodî (-ei)*, ib. 648 a gw. dan *ei* yn *Ovgraff*, §17.

Yn 3 llu. collodd *-i* yn yr *n* yn *gihelyn 1617*, *myynyn 497*; gw. *Bot a Berfau Cyfansawdd o Bot*.

(ii) Sylwn ar yr Amh. Cwmpasog a *ffan yttodynt . . . yn keiffab 138-9*; *yd odynt yn edzych arnun 801*; *yd oedon yf llalber o amfer yn damunao 1580*; gw. dan y Pres., Y Gorff., a'r Gorbff.

(iii) *Ffurfiâu Cywasgedig*.

Caffaf. Yn 3 un. amherff. ceir *kai 1413, 1641* (?Dib.), 2350, ond *kæi 996*. *Trauwaf*. Sylwer ar *tralheint 4103* (LIC *tréynt*); yn ôl J. Morris-Jones 'a re-formed 3rd pl. . . with the vowel of the 3rd sg'.¹ At yr enghraifftiau o'r Rhyddiaith a ddyry J. Morris-Jones, chwanea J. Lloyd-Jones o'r

¹ *A Welsh Grammar*, t. 324.

Farddoniaeth¹ a *garein RP 1197.11, oedein ib., id., 32; 1200.38* (Gr. vab *Mareddud*); nid ffurfiâu amh. mo *llesseint*, etc.² Digwydd yr un *-eint* yn AN: 'This ending . . . is very usual in Anglo-Norman: *esgardeint, soleint* (Chardri, *Jos. 1158, Pet. Plet, 474*), *porcint* (*Pèlerinage, 511*). Examples abound in manuscripts executed during and after the thirteenth century'.³ Yn wyneb hyn, anodd ymwrthod â chredu nad oes gyswilt rhwng yr amh. CymC *-eint* a'r amh. AN *-eint*.

(iv) *Bot a Berfau Cyfansawdd o Bot*.

Am *oed=byddai*, gw. dan *Berfau yn Cystrawen*. Ymdoddodd *-i* yn yr *n* flaenorol yn *oydyn 2075* ac yn *hanoedyn 2076*; gw. §31 (b), (i).

(v) *Af, Gwnaf, Deuaf*.

Af. Yn 3 un. amh. ceir *ai 1453* (LIC *aei*).

Gwnaf. Yn gyffelyb, digwydd *glnai 897*, eithr *glnai (4)* fel yn y LIC; cf. *gwnai P 45*, tt. 55, 56.

Deuaf. 3 un. *doi 761, 2341*, (LIC *doi, doei*), eithr *doei 112* (=LIC), 1159 (=LIC) ac yn 3 llu. *doent 3301* (LIC *doynt*), ffurf nas cofnodir yn y grama-degaw am GymC. Cf. *doent, doen* unwaith yr un yn G.

(c) Y Gorffennol

(i) Gan fod rhai o derfyniadau'r 3 un. yn dechrau colli eu poblogrwydd yn y cyfnod hwn ac un terfyniad yn mynd yn fwy ei fri, nid anffudiol fydd rhoi yma daflen o'r ffurfiâu a ddiwydd yn YBH:

1. *-as* (44): *kauas (11)*; *gihelas (32)*; *llebas (1)*;
2. *-es* (70): bôn *-o-* (67); *bôn -oy-* (3) (ceir *-aôd 3* gwaith yn yr un berfau ar ôl *-oy-*);
3. *-is* (58): bôn *-a-* (>*e-*) (42); bôn *-aw-* (>*ew-*) (16); cf. *-ys= -is 3205*;
4. *-ôys* (22): mew'n 5 berf *-ôys* yn unig a geir, ond mew'n 9 eraill gwelir weithiau *-ôys* weithiau *-aôd*; *-ôis* (0);
5. *-aôd* (286): ar ôl tua 18 o fonau; *-ad* (0).

Y mae cyfartaledd *-aôd* ac *-ôys*, fel y gwelir, yn wahanol iawn i gasgliadau WG (325) ac i'r hyn a wyddom am destunau eraill a astudiwyd o'r safbwynt hwn eisoes megis *Pedeir Keinc* y *Llyfr Gwyn, Brut Dingestow*,

¹ Adroddiad ar YBH i Fwreid Gwasg Prifysgol Cymru.

² Gw. Ifor Williams, *Canu Llywarch Hen*, (Caerdydd, 1935), t. 82; *Canu Aneirin* (Caerdydd, 1938), t. 164.

³ L. E. Menger, op. cit., t. 124.

etc. Peth arall diddorol yw cwbl absenoldeb *-ô* ac *-od*; a gellir nodi ymhellach na welir yr *-ô* cyntaf nemor cyn diwedd dwy ran o dair o'r stori. O undonedd ei orchwyl, o bosibl, y mae'r copiwr yn llai chwannog i ddiweddarau ei ffurfiau yn nhraean olaf y testun (e.e., cymer *dyllat* le *dyllot* bron yn gyson o t. 41 ymlaen, etc.; gw. isod), ac awgryma hynny y gallai'r enghreifftiau o *-ô* fod yn niferus yn y cynsail. Eithr os yw *-ô* yn ffurf brin ac yn digwydd yn bennaf yn nhraean olaf y testun, y mae'r esiamplau o *-ô*, ar y llaw arall, yn lluosog iawn ac i'w cael bron ar bob tudalen ac ar rai wrth y degau (ceir 16 ar d. 42, 11 ar d. 43, etc.). Dyna inni, gan hynny, a siarad yn fras, destun cyflawn yn *-ô*.

(ii) Er y digwydd y terfyniad *-aut* (= *-awô*) mewn testunau sy'n perthyn yn bendant i gyfnod Hen Gymraeg,¹ eto prin yw'r enghreifftiau a geir ohono yn y cyfnod canol cynnar. Y rhai hynaf y gwn i amdanant yw (*em*)*ladaut* BA 34.17.18; a *lataut* BB 93.7; *ae helligaut* ib. 106.8; *golligaut* ib., 106.10; *lladaut* LIDW 16; *amelaôd* LI I (XIII) 18; *lladaôd* ib. 30, 125; BM 4 (canol XIII) 107.7 (gw. Fac. LIDW 135); *yfycyloaôd* P 14 (canol XIII) 112. Yn ôl E. Anwyl, ni chynnwys *Pedair Keinc y Mabinogi* yn y *Llyfr Gwyn* ond 24² ac ni cheir namyn 26 yn y *Gogynfeirdd*.³ Eithr os prin yr esiamplau o *-aut* (= *-ô*) yn ein testunau cynnar, gwelwom uchod iddynt erbyn amser YBH fynd yn lluosocach na'r holl ffurfiau sigmataidd gyda'i gilydd. Pa echedfaen, gan hynny, a dynnodd y terfyniad hwn mor gyflym i fri ac a roes iddo oruchafiaeth ar y ffurfiau 3 un. gorffennol eraill a oedd y rhan amlaf yn *-s*? Cyn y gallai ymledu fel hyn, bu rhaid iddo gael hyrddawd sylweddol o ryw gyfeiriad neu'i gilydd, ond methaf weld pa beth o du'r Gymraeg a allai roddi hwnnw iddo. O ba le, ynteu, y gallai'r hwb ddyfod? Awgrymaf iddo ddeillio o'r ffaith fod yr iaith arall a leferid gan yr *intelligentsia* Cymreig, sef yr Anglo-Normaneg, yn meddu, hithau, ar 3 un. gorffennol yn *-aut* (= *-awô*), sef yw hynny, ar derfyniad a sillefid, a yngenid, ac a wna'r un swydd yn union â'r terfyniad CymC. Wrth ochr *-aut* ceid yr orgraff fwy poblogaidd *-out* (= *-ouô*) a odlai ag *-aut*. Am enghraifft o'r ddau sillafiad ynghyd, cf. yr odl *saluout*: *alaut* yn *Miracles de la Ste Vierge*⁴ XX, 19-20 ac ystyrier *Angou* HFF=*Angaw* HGCr XVIII, 275; *Peitou* HFF=*Peitô* RBB 54, 117, 198, etc.; *La Thawe* LL 324 ?*Llan Ddow*; *doun* HFF > *dawn*; *noun* HFF > *nawn*; etc. Ceid y terfyniad hwn yn HFF mewn beriau a arferid beunydd ar lafar: *dout* (*daut*), *jout* (*jaut*), *out* (*aut*), *mout* (*maut*), *plout* (*plaut*), *pout* (*paut*), *vout* (*vaut*), *tout* (*taut*), etc. (<*debut*, *jacuit*, *habuit*, *movuit*, *placuit*, *potuit*, *vohuit*, *tacuit*), a defnyddid rhai ohonynt (e.e., *out*, *pout*, *dout*) fel beriau cynorthwyol hefyd.

¹ Gw. Ifor Williams, BCS, XIII, tt. 199 et seq.

² E. Anwyl, *The Verbal Forms in the White Book of the Four Branches of the Mabinogion*, Miscellany, Kuno Meyer (Halle, 1912).

³ *ib.* Y *Gogynfeirdd*, tt. 20-21.

⁴ Am waith ein cyndadau yn eflwychu'r *t* (= *ô*) HFF, gw. M. Watkin, *The French Linguistic Influence in Mediaeval Wales*, *Trans. Cymm.*, 1918-19, tt. 164 et seq.

⁵ Argr. H. Kjellman (Paris, 1922).

At yr *-out*, *-aut* (= *-awô*) uchod chwaneger yr *-out* o'r un sain a ddatblygasai yn HFF y Gorllewin o'r Lladin *-abat*: *amout*, *chantout*, *portout*, etc.

Gan yr odlai'r ddau derfyniad HFF yn y beirdd ac yr arferid y gorffennol a'r amherffraith ochr yn ochr (a'r cyntaf yn amlach na'r ail) i gyfleu swyddau'r amherffraith¹ (gweithred neu gyflwr yn parhau yn y gorff, disgrifiadau, etc.), y diwedd fu i'r amherffraith ennill ystyr y gorffennol ac i'r ddau derfyniad fynd yn un ac yn ddylanwadol.²

Yng nghestyll, mynachdai, llysoedd, etc., Deau a Gogledd Cymru a'r Gororau fe glybu'n cenedl ni am fwy na dwy ganrif y terfyniad gorffennol-amherffraith hwn fel *-awô* a dyma, yn fy marn i, y tynfaen a ddaeth â'r hen derfyniad *-aut* (= *-ô*) Cymraeg i boblogrwydd.

Os cywir y dyb hon, yna rhaid credu i'r *-aut* (= *-out*) AN ddechrau helpu'r hen *-aut* (= *-ô*) Cymraeg cyn canol y ddeuddegfed ganrif oblegid erbyn hynny dechreuasai *t*=*ô* yn HFF edwino o ran sain er parhau ohoni yn yr orgraff mewn rhai sefyllfaoedd am gyfnod hir wedyn (gw. t. lvii). Os derbynir hyn, rhaid inni dybio hefyd ddarford i'r amrywiad HFF ar *-aut*, nid amgen *-ot* (= *-ô*) tua'r un adeg ddechrau helpu datblygiad yr *-ô* Cymraeg yn *-od*, ond i'r traddodiad orgraffol a ddaliai i sgrifennu *canôl*, *diŵarnaôl*, *pechaôl*, etc., am yr hyn a yngenid *canol*, *dawarnod*, *pechod*, etc., gadw *-ot*, *-od* allan o'n testunau nes i hualau'r traddodiad, tua dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg, (cf. SG. 63, 246, 256, 337; P 5, xv^b-xx^a lle ceir 30 o enghr., etc.), laesu a chaniatáu yn yr orgraff yr o (<*aw*) ddiweddol a fuasai ond odid am ysbaid hir ar wefusau'r bobl.

(iii) Yn 1 llu, ceir *-am* yn *erlityaffam* 2011 ac o bosibl (gw. n.) yn *gôelfam* 3017; gw. hefyd dan *caffaf* isod, eithr ni welir yr un *-am*.

(iv) Yn gyffelyb, *-ant* sydd yn y 3 llu. (128 o enghr.), ond gwelir *-ant* yn *adafont* 3151 a cheir enghreifftiau dan *Caffaf*, *Bot*, *Af*, a *Deuaf* isod.

(v) *Ffurfiau Cyrcasgedig*.

Rhodaf. Dylid nodi yn 2 un. *royffoſt* 725 (B 709 *danarter*) ar fôn y perff., ochr yn ochr â *rodeis*, *rodeisf*, etc.

Caffaf. Yn 1 llu, trewir ar *calffam* 601 ac yn 3 llu, ceir *calffont* 3161; gw. dan *Bot* ac *Af* uchod.

Bot. Gwelir *buun* (3) ond *hum* 1904, 1994 a digwydd *buant* (6), eithr *buont* 2781.

(vi) *Af*, *Gwaf*, *Deuaf*.

Af. Yn 3 llu, *-ant* a geir yn rheolaidd; unwaith yn unig y gwelir *-ant*: *aethont* 3477.

¹ F. Brunot, *Histoire de la Langue Française* (Paris, 1924, etc.), I, t. 247; L. Foulet, *Petite Syntaxe de l'Ancien Français* (Paris, 1930), tt. 219-24.

² F. W. Maitland, *Year Books of Edward II*, tt. lxi-lxiii.

Gwnaf. O'r gorff., Ffurf A (gw. WG 361), cawn *glsneuthum*, *glsnaethof*, *glsnaeth*, *glsnaethant*, *glsnaethpŷyt* ac o Ffurf B *gozuc*, *gozugant*, a *gozucpŷyt* ac y mae'r gystadleuaeth rhwng A a B yn ddi-ddorol:

tt. 1-42		tt. 43-67
<i>glsnaeth</i> (164), <i>gozuc</i> (4)	;	<i>glsnaeth</i> (12), <i>gozuc</i> (117)
<i>glsnaethant</i> (22), <i>gozugant</i> (o)	;	<i>glsnaethant</i> (7), <i>gozugant</i> (46)
<i>glsnaethpŷyt</i> (4), <i>gozucpŷyt</i> (o)	;	<i>glsnaethpŷyt</i> (2), <i>gozucpŷyt</i> (2)

Deuaf. Ar wahân i *deuthum* (4), perthyn ffurfiau gorff., Ffurf A, oll i'r 3 un. a'r 3 llu., eithr haedda eu dosbarthiad sylw:

tt. 1-43		tt. 44-67
<i>deuth</i> (7), <i>doeth</i> (35)	;	<i>deuth</i> (35), <i>doeth</i> (19)
<i>deuthant</i> (o), <i>doethant</i> (1o)	;	<i>deuthant</i> (18), <i>deuthont</i> (1)
		<i>doethant</i> (12)

Dyry gorff., Ffurf B, *dyfu* 64, 3344 heb yr un enghraifft yn -*dyf*.

(vii) *Berfau â Hen Amserau Perffaith* (cf. WG 369).

Dyweodaf. Ceir *dylbat*, *dylbot*, a *dylbat* cyw. *dylbot* 465 a dyma sut y dosberthir hwy:

tt. 1-41		tt. 42-67
<i>dylbat</i> (9), <i>dylbot</i> (42)	;	<i>dylbat</i> (34), <i>dylbot</i> (o).

At y *dylbat* uchod a *dywat* WG 369 ac yn G, chwanager *dywyat* P 5, 1^b, *dylbat* ib. xviii^b; *douad* Ll 34 B 219.

Clycaf. Yn perff. 1 un. cawn *higleu*, *higlef*; dyry'r 3 un. *higleu* (22) *kicleu* (5), a *higlef*: a *phan giglef bofn hynny* 3796, ffurf nas rhoddir am 3 un. nac yn y gramadegau nac yn G; gw. n. ar 2627.

(viii) *Bonau Sigmatic y Gorffennol.*

Megis gydag amrywiadau geiriol cyflawn, y mae'r dosbarthiad o'r bonau -*aff*- ac -*yff*- yng ngwahanol rannau'r testun yn hollol wrthygyferbyniol:

tt. 1-41		tt. 42-67
- <i>aff</i> - (5), - <i>yff</i> - (39)	;	- <i>aff</i> - (75), - <i>yff</i> - (2)

Ymddengys oddi wrth y daflen hon mai mympwy'r copiwr (oni fu dau gopiwr) a benderfynai pa un ai -*aff*- ai -*yff*- a arferid.

(ix) Noder y Gorff. Cwmpasog yn *Ynteu garfi a fu yn eu heiffad* 1795; *mi a funum ys blwydyn yn heiffad* 3097-8; gw. dan y Pres., yr Amh., a'r Gorbif.

(ch) *Y Gorberffaith*

(i) Y peth mwyaf diddorol i'w nodi yma yw 3 un. yn -*ai*: *priodyffai* 2481 (LIC *pziodaffei*); gw. dan y ddipton *ei* yn Orgraff.

Fel ym monau'r gorff., y mae'r dosbarthiad o -*aff*- ac -*yff*- yn yr amser gorberff. yn diddorol odiaeth eto:

tt. 1-39		tt. 40-67
(ii) - <i>aff</i> - (13), - <i>yff</i> - (14)	;	- <i>aff</i> - (6), - <i>yff</i> - (2)

Yng ngorberff. *bot* -*aff*- a geir bob amser (1o).
Dylid ond odid grybwyll *royffei* 289, 292 (LIC *rodaffei*).

(iii) *dyfgydoed* = *dyfgyffei*.

Ni ddyry'r gramadegau yr un esiampl o -*adoed*, -*ydoed* gydag ystyr gweithredol, ond yr oedd y llinell deryn rhwng yr ystyr amheronol a'r ystyr gweithredol yn denau iawn weithiau, ac oni ddiwygir (gw. n.), rhaid dehongli *dyfgydoed* 1045 = *dyfgyffei*: a *chanu comiacion a dyfgydoed kyn no hynny* (B 999 *Ele out apris* 'she had learnt'). Ymddengys i gopiwr y LIC feddwl fel ninnau oblegid troes y ffurf yn *dyfgyffoed*. Am enghraifft ddiamwys o -*adoed* = *affei*, cf. *ymdeith pedwar diwyrnaot o2 lle y kychevynadoed ohonaw* P 10, 18^b. Datblygodd y gwerth gweithredol, debygid, o dan ddylanwad ffurfiau fel a *gaussoed* SG 303, etc.

(iv) Sylwer ar y ffurf gwmpasog : a *ffalbed y buaffei yn góaffanaethu* 1438-9; gw. dan y Pres., yr Amh., a'r Gorff.

B. Y MODD DIBYNNOL

(a) *Y Presennol*

(i) Noder 1 un. yn -*of*: *kaffof* (llygr. *kaffaf*, gw. n.) 3539 (LIC *kaffof*), *kyfgof* 1104 (LIC *kyfgyf*). At esiamplau WG 329 lle na cheir o YBH ond *kyfgof* chwanager *bof* a *delof* isod a *paratooof* P 5, xxxv.

Un o hynodion anlycaf y ferf yn YBH wyneb yn wyneb â thestunau cyfoes eu hysgrifen fel BM 7 a BM 8 (gw. AL I a RWM) yw absenoldeb -*h*- yn y dib. pres. 3 un. Ni welir hi oddieithr yn *duó a dalho yt* 3664. Ceir ei phresenoldeb cudd, serch hynny, yn caledu *b*, *d*, *g*, *f*, ac *r* yn gysen. Ond ni ddigwydd yr un enghraifft o galedu *d* (=8) yn *th* [=8] megis yn rhai o lsgrau'r cyfnod, e.e., *dygcytho* P 5, xxi^b; AL I 472 (2); *rotho* ib. 426, 474; *gozdiretho* BM 8, 49^b; *claiho* ib. 50^a; etc.

Ai gwall copiwr ai atsain o'r iaith lafar sydd yn *iacha*: *duó . . . aih iacha di* 3306 (LIC *iachao*)? Os gwall, fel y tybiaf, cymh. *ymddiced* cyw. *ymoddiced* WM 621; *digel* cyw. *diogel* P 8^a, 16.

(ii) *Bot*.

Ceir *bof* 1899 (LIC *b6yf*) a *boomt* 2872 (? = *buont*, gw. n.).

(iii) *Af, Gwnaf, Deuaf.*

Noder *delof* 1814 (LIC *delof*), a gw. uchod.

Awgryma a *phan* *ibel* y LIC am a *phan* *thelo* YBH 3814 mai trwy *welo* yr aeth *el, del, a gwnel* i gymryd -o.

(iv) *Berfau â Hen Amserau Perffaith* (cf. WG 369).
Gwaredaf.

Dyry'r 3 un. enghraifft o'r ffurf brin *gwares: Mal ym glbares du6 heb .y. b. 2741* (B 2361 *si deu me pusse eyder!*); gw. n.

(v) *Berfau Diffygiol.*

Yn y *berfau* diffygiol gwelir *didarpo* 3037: *acherydus vo a didarpo* (LIC *ae dido2po*) (B 2605 *Dahait ke chaut!* 'Yr achlod i'r neb a falio!'); dyfynnir *didarpo* yn G, ond ni chroniwyd *did2po* yn unman, hyd y sylwais i.

(b) *Yr Amherffaith*(i) *Ffurfiâu Cywasgedig.*

Caffaf. Yn 3 un. trewir ar *kai* 1641 (gw. ar 1638), ond *kaei* 1288.

(ii) *Bot.*

Oni ddylid darllen *pei ett6n* i 1726 fel *pei et(v)6n* i (cf. *vyd=vuyd* BB 84.8; *6yt cyw. v6yt* WM 58; etc.), ymddengys y ceir yma'r bont goll rhwng *pett6n* (cf. *aphettwinneu* SG 278) a'r ffurf ganoloesol lawn.

(iii) *Af.* Yn 3 un. cawn *ai* 2384 (LIC *aei*).

Yn wyneb absenoldeb ffurfiâu 1 ac 2 llu. y Dib. Amherff. (gw. IEW 90; WG 360), diddorol yw taro ar *ele6ch* yn *megys pei ele6ch* yn y LIC=YBH 575 *ydyle-*. Efallai, gan hynny, mai *yd ele6ch* yw'r darll. a ddylid ei edryd yn 575; gw. n.

Gwnaf. Digwydd *ghnai* 2340, eithr *ghnaei* 937, 3085.

Deuaf. Ceir *doi* yn 3 un. yn 2366 (LIC *deuei*).

C. Y MODD GORCHMYNNOL

(i) Sylwer ar *daly* yn *na daly adlo* 399 (=LIC), eithr *na dala adlo* 688. (=LIC); cf. *na daly na llit na bar* P 8^b, 30=*na dala* YCM² 127.

Er cael ôl y bôn -*ha* yn *anrecca* 3841 a *coffa* 2572, ni cheir mono'n troi *dd* yn *th*: *cerda* 574; gw. WG 321 ac o dan Dib. Pres. uchod.

Noder *Darlein* y *llythyr h6n* 940 (LIC *Darlle*) =B 899 *lise2* . . . 'darllenwch . . .'

(ii) Ochr yn ochr a'r 3 un. yn -*et* (4) ceir -*it* yn *madeuit du6 it* 2848 (LIC *madeuyt*), 4168 (=LIC), ffurf nas dyfynnir o'r Rhyddiaith yn WG 329. Cf. helyd P 7, 41^b: *dangoffit duw ywar idaw yntev*=P 8a, 66; P 10, 48^a.

(iii) *Ffurfiâu Cywasgedig.*

Rhoddaf. Gwelir *do2o* 2852, 2950, etc. (5), yn gyfochrog â *dy2o* (5).

§32. Y FERF—Y FFURFIAU AMHERSONOL

Ni wna YBH ond defnydd cynnil o'r ffurfiâu amhersonol.

A. Y MODD MYNEGOL

(a) *Y Presennol*

(i) -*ir*. Yn *ledir* (=ledjir, HFI leger) chwaneagwyd -*ir* at fôn hollol estron; gw. n. ar 2582.

(b) *Y Gorffennol*

(i) -*et*. Cf. *Neur groget y mab* 885.

-*it*. Oni ddylid diwygio *yna* y *g6elit dyrnodeu gan varchogyon* 3816 (gw. n.), ceir yma -*it* ar ôl lafariad anarferol (gw. WG 327), ond gellir amherffaith ohono.

-*6yt*. Ymddengys bod y copiwr eisoes yn ei ymwybod yn cysylltu -*6yt* ag -*abd* (= -*av6*) fel y gwnawn ni heddiw yn hytrach nag âg -*6ys* fel y myn WG 327; pa sut bynnag, dyry'r testun 11 o enghreifftiau o -*6yt* mewn 8 o'r *berfau* a gymer -*abd* tra na cheir ond 3 -*6yt* yn y rhai sy'n cymryd -*6ys*.

(ii) *Ffurfiâu Cywasgedig.*

Caffaf.

-*at*. Heblaw *cahat* 2521 ceir *cafaf* 3842 (LIC *caffaf*) a dengys P 14, 38: *e cavat dall y olwe* y *dichon -f-* fod am -*at-* yn 3842.

Gwnaf.

-*6yt*. Digwydd *gozucp6yt* 2734, 3462 ochr yn ochr â 4 esiampl o *ghnaeth-6yt*; gw. dan y ffurfiâu personol.

(c) *Y Gorberffaith*

(i) -*adoed, -ydoed*. Digwydd dwy enghraifft o -*ydoed*: *ganydoed* 1510, 2322; am *dyfgydoed* 1045 (gydag ystyr gweithredol), gw. dan y ffurfiâu personol. Dyma ffurfiâu yn -*adoed* nas cofnodwyd efallai o'r blaen: *kaffadoed* P 5, ix^b; *barnadoed* ib. ix^a; *goffodadoed* P 14, 80.

(ii) *Ffurfiâu Cywasgedig.*

Caffaf.

Er cael *ka6ffoedei* yn y ffurfiâu pers. (gw. uchod), ni welir *ka6ffoedyat* y SG na'r ffurf brinnach *ka6ffodyat* fel yn P 5, xviii^a.

Gwaf.

-yffit. Gyda *gŵnathoydît* 1018 ceir *gŵnaethyffit* 1748, ffurf nas cofnodir yn y gramadegau.

(iii) *Berfau Diffygiol*.

Dyry *genir* y ffurf anarferol *genyffit* 3282 yn ogystal â *ganydoed* 1510, 2322.

§33. BONAU BERFOL

Am *deuth* a *doeth*, gw. dan y ffurfiau personol.

Digwydd trawsosodiad ym môn *dzyllhestaôd* 2806.

Ni chymysgir ffurfiau *gadaf* ac *adawaf*; o'r tu arall, ymlithrodd *g-gollyngaf* bumwaith i ffurfdroadau *ellyngaf*: *Gellygaf* 1910; *onys gellygy* 1908; *gellôg vi ymdeith* 2229; eithr *ellôg ef* 1907; *petrus yw na ellygaf* 1895; *na ellygût* 826; fel berfenw ceir *ellôg* (6) a *gellôg* (3).

Yn gyffelyb, aeth *g-postwng* drosodd i *estwng*: ac *yno geflôg hôyl* 361.

Gyda'r ôlddodiad *-ha-*, yn gyfochrog â *disetheir* gwelir *diffieithhaôd* am *diffieithhaôd* (LIC *diffieithaôd*) o gydweddiad efallai â *diffieithaf*.

Cadwodd *gwarandawaf* y bôn heb ei dalfyrru: *Gŵarandaô arnaf* 2576 (LIC *Gŵarandaô*...), 3322 (=LIC). *gŵarandaô* (5) yw'r berfenw (=LIC).

Collodd *gozffolkysffaf* ei o ganol ac ni ddyry'r testun ond *gozffocyfaôd*, *gozffoyffysffant*, *gozffoyffysffant*.

Marchoca- yn sicr yw sail *marchokeis*, *marchoccaôd*, *marchocaffant* (2), a thebyg y dylid darllen *marchocaffant* am *marchocaffant* 3945.

Oddi wrth yr ansicrwydd a ffynna wyneb yn wyneb ag *-i-* o flaen *-u-*, *-ir*, *-yffant*, *-y* (*-e*), amlwg nad oedd cwbl gytgord rhwng yr iaith lafar a'r traddodiad llenyddol ym mater llawer o fonau; cf. *dienydu* 2177, etc., (LIC *dihenydyu*); *adzigy* 3763, eithr a *dzigye* 1909; *byzyaôd* (9), ond *byzaôd* 2757; etc.

§34. BERFENWAW

Ymhlith y berfenwau na chynnwys ddim ond y bôn noder *dyrchaf* 281, 301 (=LIC), 1102; *afyn*, 1778; *offrôm* 3181; *ymbozth* 3088; *ymgeis* (a) 2799; ac efallai *kanhozthôy* 4006 (gw. n.); ac oddi wrth *gozffocyfaôd* 2920, etc. (gw. uchod) a *gŵeryfkyrnaôd* 2760, gellir rhagdybied *gorffwys* a *gueresgyn*. Yma efallai y dylid crybwyll *daly* 415, 652, *dala* (7) < **dalg-*.
O'r rhai a gymer derfyniadau sylwer ar:

1. *-yaô*, gydag *f* anorganig: *dygôdyyaô* 168; *byyaô* 193, 363; *ycayluffyaô* 19; cymh. *gwyluat* SG 2; *adailyat* ib. 24, 54. O ddyrnwared yr AN, fel y tybiaf, aeth *i gytsain* o ddechrau'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen yn ansicr mewn rhai llsgrau Cymraeg: *Reihniuir* LIDW 24^b (BM 4 *Reyth-* 197); *evyan* (*yfant*) LI I, 62; *wnaethyant* SG 49; yr *arll* cyw. yr *iarll* WM 619; etc.

2. *-i*: *hinielhi* 868 (LIC *hynneli*); *llenô* (3) eisoes heb yr un *lleôni*.

3. *-u*: *cau* 2418 (=LIC) heb yr un *caeu* na'r un *cayn*; *creffaô* 3639, *greffaô* 489, ac fel enw *creffo* 2821, *groffaô* 2133 a *croyffaô*; *dachymygu* 1125 (gyda'i *-a-* anarferol); rhagdybir *ffaelu* neu *feilu* gan *feileiſ* 2664 (gw. n.) ac oddi wrth *parannôyt* 3107 gellir *parannu* ac oddi wrth *peirannu* 2546 *peirannu*.

O'r berfau tarddiadol yn *-ha-* rhagdybir *kynntau* (heddiw *cyntâu*) gan *kynntahaôd* 3031; a *dôyrhau* neu *dôyrau* (gydag *r=rh*) gan *dôyrhaôd* 3346; at y ffurfiau o'r gair hwn a ddyry WG a G bwrier *dôyrôys* P 5, cxviii a ragdybia ferfenw nas croniclwyd a *dwyrews*, P 8^a 17; P 8^b, 14. Yn 656 digwydd *gôza* (cf. *gôzha* WM 160) ochr yn ochr â *gôzhau* (2); yn 3379 *hûyza* 'ymdroi, sefyllian' (B *targer*); ond ni ddigwydd *para* wrth ochr *parhau*; noder *ofnocau* 321 (LIC *ofynhau*).

4. *-aeth*: os *marchocau* oedd ffurf lafar y copiwr (gw. dan y *Bonau Berfol*), ni thraddododd inni ar femrwn ond *marchogaeth* (10); chwanager y dengys iaith lafar Dyfed *byrchgau* a *brychgau* yn ogystal â *brochgau* WG 384.

5. *-ael*, *-el*: *gadel* heb yr un *gadu*; *gallel* heb yr un *gallu* oddieithr fel enw (12).

6. *-ein*: sylwer ar y gair anarferol *trôynfychein* 447 a gw. n.

7. *-eit*: noder *deirydeit* 2124 a gw. G.

8. *-at*, *-et*, *-ut*: ceir *gûelat* (*gûelet*), fel y tybiaf, yn 3128 (gw. n.) ac olion o'r *-at* tafodieithol ochr yn ochr â'r *-aô* llenyddol yn *gûylat* 1255 a *gûylaô* 4295, *noſyat* (gyda dechrau cyw. yn *-aô*) 2392 a *noſyaô* 2393; ni welir cymaint ag un *kylbet* eithr *elybot* (4); noder *mynyt* (LIC *mynet*) 217; *ymhoylu* 1217, gydag *ymhoelut* (13) (LIC *ymchoelut* bob tro); *dylbedut* (69) heb yr un *dylbedôyt*.

9. *-wyn*: am *-yg-*, *-wg* yn y bôn (WG 392), cf. *adolôc* 5307 (LIC *adolôyn*), gydag *adolôyn* (10); am *adolôc*, cymh. WM 148; SG 9, 56, 146, etc. (yn aml); etc.

10. *-yt* (WG 391): *ymoglyt* 3210.

§35. Y GEIRYN BERFOL ry

Defnydd prin, ar y cyfan, a wneir yn YBH o'r geiryn *ry*. Dyma'r enghreifftiau:

1. Gyda'r myn. dyf. ar ôl *o*: *o2 kaffaf* 3039; *or bydy* 4331; *o2 bydant* 3820.

2. Gydag amherff. *darvot*: *neurydarvot* llad holl albu *bzadnônd* 631 lle cyfeirir i'r gorberff. HFF yn B 619 *ſurent*... *occis* 'laddesid'.

3. Gyda'r amherff. ar ôl *ef* a i ddyynodi posiblirwydd: *ef ar allei i mi y gaffel* 3403=B 2958 *Bien purra estre* 'it may well be'; cf. SG 267 *ef ar*

allei bot=Potvin 111 *il peut bien estre que . . . 'it may well be that . . .';* *Ef ar allei heb y paredur mae gwir y dywedy di* SG 416=Potvin 310 *Il peut bien estre, fait Perceval.*

4. Yn troi'r gorff. yn berff. deirgwaith, sef ar ôl *neu, o*, ac mewn un cymal perthynol: *neurdarfu idab diffeithaô llaber om kyuoeth* 2295; *fyr or geneuthun dim gôzthlyneb* 3535; *bzatzmônd vrenhin . . . a ryfu yth geiffaô* 694; ac yn troi'r amhers. yn berff. yn *Neur groget y mab a dylbedy di* 885.

5. Heb droi'r gorff. yn berff. defnyddir ef bedair gwaith: (a) deirgwaith gydag a berthynol yn gynheiliad: *kymer y ffon heb ef a ryuu y giôn dy hamôn* 2850=B 2454 *le baston me portez, ky fu a Guy de Hampton ' . . . which was Guy de Hampton's'; os ef a geis dy yrru y ar y tir a ryuu ym tat i* 3051=B 2617 *si isci seit he tu le vois enchacer de cel honor ke fu a mun pere ' . . . which was my father's'; a mabz uu y llebenyd ar clodeft a ryuu* 3478=B 3034 *Si la medlé fu grant, ne le quidez 'If the crowd was large . . .'; (b) ar ôl pan: a ffann rydyuu amfer mab a anet a elôid bolôn* 13 (Crynodeb I) =a ffan dyfu 64 (Crynodeb II); cf. B 37 *Ele out de son seigneur un emfaunt avenant 'she had a comely child by her lord';* eithr myn Strachan, IEW 58, mai perff. yw *rydyuu* YBH 13.

6. Arferir ef wythwaith gyda'r gorberffaith (a) ar ôl *o: o rydybedyffei* 746; (b) gydag a berthynol yn gynheiliad yn 256, 2180, 2543; (c) mewn cymal perthynol heb gynheiliad yn 329, 1969, 2598, 3912.

7. Digwydd gyda'r berfenw 18 gwaith: (a) ar ôl *bedy* gydag ystyr perff. yn 470, 522, 1524, 1855; gydag ystyr gorberff. yn 190, 640, 727, etc.; (b) ar ôl *bedy=bedy* y (*eu*) yn 912, 1216, 1860; cf. BrDg. xl, viii. Efallai y dylid galw sylw at 2253 *kanyz gallei ry damhseinaô gfkneuthur amod arnei.*

§36. ARDDODIAID

(i) Y Rhediad Cyntaf.

Noder ffurfiau YBH na rydd WG ddyfyniadau canoloesol ohonynt: *etti* 1555, 3141, 3449, *attaôch* 2397, *attun* 527, 929; *o hanat* 821; *yndanam* 1710, *ymdanaôch* 1231, *yndanu* 1236, *yndanun* 1720, 2638. Ag *yndanu* 1236, cf. *o hono* P 44, 13. At *attun* ac *yndanun* (heb -t) bwrier *arnun* 433, 801.

Sylwer ar fynychdra o *nadunt* wyneb yn wyneb ag *o honunt* yn nwyran y stori:

tl. 1-42
o *nadunt* (13), o *honunt* (1) : o *nadunt* (6), o *honunt* (11)

(ii) Yr Ail Rediad.

Ffuriau na cheir dyfyniadau testunol ohonynt yn WG: *erof* 2571, *yroch* 2108 'for you', *erdunt* 1110; *radaô* cyw. *racdaô* 1202, *roadaô* 3884, *roedun* 1743, 2092, etc., *roedun* 351; y *ryddlaô* 2031 (cf. y *rydunt* P 45, 57); *yndunt*

3025. Yma eto ymdoddodd -t yn *roedun* ac unwaith-ar-ddeg yn *racdun*. A'r esiamplau a ddengys *roc-* yn y rhediad, cymh. y ffurf ddiweddiad yn *roc trueni* P 5, cxxx, iiiii^b. Yn y Deheudir ceir *roc trueni, roc cwilydd, (cwyddil)*, etc., a rhediad llawn fyth: *roctho i (ti, fe), rocthi ddi, rocthon ni, rocthoch chi, rocthun nu*, rhediad a ddefnyddir yng ngwahanol arweddau'r ymadrodd *mynd roc* 'to overstep the mark, etc.' megis yn *i ath e roctho fe i ddannod (h)ymny iddi frawd* 'it was too bad of him to upraid his brother with that'. Clywir *ryddo, ryddi, ryddun* o enau hen bobl hyd heddiw yn ardal Caerdydd.

At ffurfiau llu. WG chwanager o destunau eraill: *dzofoam* P 5, xiiiib; HM II 212; *trôydom* P 9, 25^a; 2 llu. *ragawch* SG 386; a 3 llu. *radcud* P 3, 8.

(iii) Y Trydydd Rhediad.

Ffuriau YBH i'w chwangu at ddyfyniadau WG: *genyt* 893, *ganthun* 635, 1803; *ôztha* 1563 (LIC *ôzthaô*). A'r rhai blaenaf, cf. *genyt* P 9, 42^b, *genym* ib. 53^b ac ag *ôztha: yda ef* LIDW 11^a; *yda cyw. ydau* Ll I, 57, 94; *ita cyw. itaô* WM 229, 440; *kantha cyw. kanthau* Ll I, 102; *kantha* P 44, 17. Ymddengys *a=av (aô)* fel atsain o gyfwerthedd orgraffyddol a ac *au (=aw)* yn AN.

Sylwer ar *ganthun* am goll -t pellach yn yr -n flaenorol. At ffurfiau WG bwrier hefyd *gynnym* WM 25, *gantuyn* P 20, RWM I, ii, 292, 343, *ganthuynt* RWM, ib. 345; *wrthuwch* P 14, 124, 159.

(iv) Rhediad y.

Gyda dyfyniadau WG rhodder eto o YBH *imi* 332, 388, etc. (9), *iti* 2829, 3537, *yt* 198, 235, etc. (25), *ydaô* 75, 132, *ini* 621, *yn* 4001, *udan* 511, 513, etc. (6).

Noder coll -t yn orgraff *ndun*. Am *ydaô*, cf. WM 390; Ll I, 10, 12, 28, 33, 34, 94, etc. (yn fynych); ceir hefyd amryw yn P 14.

§37. GEIRWEDD YBH

Gan y bwriedir i *Eirfa'r* argraffiad hwn fod yn gyflawn, nid oes eisiau ond galw sylw at ychydig o nodweddion cyffredinol geiriau'r testun.

(a) Geiriau Ffrangeg

Nodwedd eiriol bennaf y testun ond odid yw lluosogrwydd ei fenthyciadau HFF. Wrth gymharu YBH â *Boeve* (yr unig destun AN sydd fyth ar gael), gwelir ddarford i'r cyfieithydd ugeiniau o weithiau gario drossod yn gorfforol y geiriau HFF a oedd o'i flac a'u rhoddi yn y cyswllt cyferbyniol yn y trosiad Cymraeg. A phe buasai'r cyswllt y gweithiodd y Cymro arno eto ar glawr, y tebyg yw y gwelid ddarford i'r benthyciadau HFF na cheir mo'u cyfartul yn *Boeve* ddyfod hefyd i'r fersiwn Cymraeg yn yr un modd. Yr oedd y geiriau hyn oll yn sicr yn hysbys

ar lafar eisoes i foneddigion y Deau oblegid nid eglurir ond un ohonynt: *dzomónt fef yó hynny llog diruabz y meint 353, a gauas llog vaó z a elóit dzomónd 3177*. Rhoddaf isod ddoesbarthiad bras o'r benthyciadau hyn. Gosodwyd seren o flaen y geiriau na ddigwydd yn *Boeve* ond a allai fod yn y cynsail a ddefnyddiwyd gan y cyfieithydd. Y mae'r rhai di-seren i'w gweld yn y testun HFF a orosodd. Ceir cyfeiriadau llawnach yn yr *Eirfa*. Lle rhoddir gofynnod o flaen benthyciad tybiedig cynigir fel rheol resymau dros y dyb yn y *Nodiadau*. Efallai y myn rhai nad arferais y nod hwnnw yn ddigon mynych. Dichon fod hynny'n gywir, ond fe gydnabyddir hefyd na allwn oll gytuno ar darddiad pob gair ac na ellir efallai ddisgwyl i olygiadau'r neb a roes flynyddoedd lawer i'r HFF fod bob amser yr un ag eiddo'r sawl y mae'r HFF yn bwnc dieithr iddo.

(i) *Geiriau Castell, Llywodraeth, Rhyfel, ac Urdd y Marchogion:*

*actón, admiral (emir), allúyd, iarllóft, ?*arl(l)úyffab (ffozd), bachler, bach(y)ler(y)ei, baner, barón, ícozn, cozon(a)be, cozonhau, ?cozueu, c6z, *c6zt (=plas isod), c6zteis, *cynfallt, dany, *dart, dzomónt, duc, duces (duciad), duces, uot (ffordd danddaerol), ffil (penglog), ffozest, ffozest6z, ffozesthyr, *ffustab, duffust, *geol, g6alop, helym, helmeu, íubet (crocbren), íznei, l6t6n, ?*minheu (llys), mozc, m6nei, mul, paleis, palfrei, *paylet (skull-cap), plas (tir glaswelltog o flaen grisiau castell), ípzeid (anrhaith), poz(h)c6lis, *p6ys (cadwyn gosb), *quire, r6nfeit, *ryuel, ryuelu, ryuel6z, ryuelhyr, f6ler, f6mer, f6merau, (baich; ceffyl pwn), fynyscal, fynsgal, fyr, traytur, traitur, trait6z, treffoz, ?*troffaol (pastwn), tr6ffau, ymdzyffab, t6z, tyroed, yfkyuala, yfg6ier, yfquiereit, yspardum, yfp6z, yspodol, yflabyl, ?yflauell (ystabl), *yflonder, flonder(d), yflondard6z.

(ii) *Bwyd, Diod, Llestri, Dodrefn:*

*celerdy, (g6in) claret, *coftreleit, *ffol (goblet), (bara) ?grut, llat, lamp, meinc, *mozter (pounding vessel), *pl6me(n) (pair), profandyr, saóffer, f6per, f6peru, tunelleu.

(iii) *Geiriau Eglwys a Swyngyfaredd:*

?benedicite, *coniuaric6n, ?affr6m, offrymu, palmer.

(iv) *Dillad, Defnyddiau:*

(cr6yn) ?*gra, (g6ife) vliant, mantell, (penguch) b6zk6in.

(v) *Anifeiliaid, Ymlusgiaid, Adar:*

arag6n (ceffyl o uchel waed), dany, íl6pardot, pertris, coluuyr (neidr).

(vi) *Enwau Lleodedd, Cenhedloedd, a Phersonau.*

Ar wahán i ryw ddwsain, geiriau HFF yw'r rhain oll; gw. dan *Enwau Lleodedd ac Enwau Personau*; e.e., alman, almayn, b6l6yn, egipt, etc.

(vii) *Geiriau Anodd eu Dosbarthu.*

(a) Mewn rhyw wedd neu'i gilydd, fe geir yn *Boeve* y geiriau a roddir dan 1. yn y paragraff hwn, ond y mae'r rhai a osodwyd dan 2. yn absennol:

1. ?a6z, barreu, citeá, cri, ?fame (gwraig), fflast, fflaylu, ffl6n, ffol, ffolneb, grad (gris), g6arant, (h)onys (mellgedig), ledir (ledir, leger), l6t(t)6n, ímat (tralodius), mozc, o (á), pilia6, pilidic, putein, rubalt, s6ic6zn, trua6nt, truanfayth; 2. ?auozy (yn wir), ?aruer (penderfyniad), babhaf, bod (bodd), ?bygylu, (kennad)-6ri, ?clodeft, glodeft, costi, c6byl, c6plau, c6tta, kyffestfu (curo), kyffyr, ?dir6ylyr, r6yfra6, ?ehgyr, eíffoes, eíff6ys, íuacrayth, ffragheid, íffryfya6 (germain), glo, gogan, goganus, ?hagy, herlot, ?llauyn (tegwch), ílles, llet, llinin, ?mel(afc6zn), ímyynu (ewyllys), íoia, parabyl, ?parannu, ?peirannu, rodyab, ruglau, f(f)on, fozi, f6mp, ta6lbozt, ?trebelit, ?tym, ?ymgeina6, ?ymgreina6, ?yfcayluffya6, yferin.

(b) *Geiriau Saesneg.*

Ceir yn YBH nifer bychan o fenthyciadau HS, geiriau, yn 6l fy syniad i, a ddaeth drosodd i'r Gymraeg cyn y cyfnod Normanaidd: ?abad, ?bozdeu, cuffan, cuffanu, d6ft, hoffaneu, hur, huryab, iarll, iarlls, iarllaeth, íloft, pozthmon (-man), pzes, fidan, ímacht, ítalu, tapyr, taryan. Gellir abad o'r Lladin eglwysig.¹ I bord 'board, plank', a ddigwydd mewn testunau HFF, awgrymwyd hefyd darddiad Hen Norwyeg.² Ymwrthodais á chynnwys *offrom* yn y rhestr o eiriau HS am y credaf y gellir ei dynnu, yn fwy didramgywydd efallai, o'r AN **ofrom* nag o'r HS *offrung*.³ Cysylltiodd rhai *fmacht* á'r Wyddeleg.⁴ Wrth astudio'r darlenniadau, tybiais ddardod i eiriau AN a geid yn y cynsail, nid amgen, e(s)ter 'bod, trigo, etc.'; *dunke* 'oblegid hynny'; *soens* 'yr eiddo ef'; *li* 'iddo ef' <illi; ddefiro yng nghof y cyfieithydd y geiriau HS *eten, thanken, soens, lie*, ac o hynny, inni gael *b6yia, diolcho, veibon, kellydeu* yn lle'r iawn gyfatebiaethau.⁵

(c) *Geiriau Lladin 'Dygedig'.*

Efallai y dylid galw sylw at ychydig fenthyciadau Lladin 'dysgedig' a Christionogol: ?abad, benedicite (ond yn HFF hefyd), carb6nculus, llugyryn, marmoz, padziarch (eithr ceir *patriarcho* yn y testunau HFF), pagan, ?palmid-6yden, yfgraf, yforya.

(ch) *Geiriau Cymraeg Hynafol.*

Dyry'r testun fagad o eiriau Cymraeg hynafol ac y mae llawer ohonynt yn brin hyd yn yr oesoedd canol a rhai na thrawyd arnynt hyd yn hyn mewn testunau eraill: *allo, anch6anec, yg(c)(h)haneec, amdygyabdyr, amyfcawyn, anodyfyn, argyff6z, argyíbed, argyíedu, arllóft*

¹ Gw. J. Loth, *Les Mots latins dans les Langues britanniques*; H. Lewis, *Fy Eiflen Ladin yn yr Iaith Gymraeg* (Caerdydd, 1943).

² Gw. E. G. R. Waters, *The Anglo-Norman Voyage of St. Brendan* (Oxford, 1928), t. clxxxii.

³ Gw. T. H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923), t. 42 a'r n. ar 3181 yn YBH.

⁴ Gw. Parry-Williams, *ib.*, t. 81 a'r n. ar 3004 yn YBH.

⁵ Gw. §12 (b), (vi).

(gw. (a) (i)), *blóg*, *blygder*, *blyghau*, *bocfach*, *bocfachu*, *bóyllóz*, *bygylaó* (gw. (vii), (a)), *clabóz* (carthwr ffosydd), *clodyeu* (ffosydd), *clodeft*, *glodeft*, (gw. (vii), (a)), *cozfeu* (gw. (a), (i)), *coftacki*, *creu* (gwaed), *cyfur* (cyble), *kyghozymt*, *kygroysfozd*, *kyfeyll*, *chlbaen* (strategem), *chuinsa*, *deirydeit*, *deupeinaó*, *deyouein* (galar), *didzo*, *diuachellaó*, *diffryt*, *dilifyn*, *dilikaó*, *dinaftref*, *dibycyat* (gwisg), *duruig*, *dzycyzerth*, *dzycyzerthu*, *dzythyll* (bywiog), *dzythyllóch* (llawenydd), *dzyhstáó*, *dzyffust* (gw. (a), (i)), *duladaó*, *dóythaó*, *dýgarnfo*, *eaón*, *egroffen*, *ehcybyr* (lsg. -d-), *eritheól*, *fflôch*, *ffroemoli*, *galon*, *germein*, *glan* (bryn), *glafchberthin* (chwerthin yn groch), *godzie*, *gozalbenus*, *góathiroed*, *yffýbaethiroed*, *glibayeit*, *glibgocaf*, *glureicyangh*, *gýdlódyn* (hydd), *hayach*, *hengleiryth*, *hidleit*, *llacyn* (pryd, gw. (vii), (a)), *llamfachus*, *llebas*, *llóz*, *macrayth* (gw. (vii), (a)), *marth*, *maróybedyl* (LIC *maróygychbedyl*), *medzu* (taro), *melafózn*, (gw. (vii), (a)), *pedýrann*, *mozóymbreic*, *oduch*, *ofnocau*, *palledic*, *parannu* (gw. (vii), (a)), *peirannu* (gw. (vii), (a)), *penguch*, *penyadur*, *pererinfon*, *petlbararen*, *raclban* (y than flaen), *redecuagyl*, *truglau* (gw. (vii), (a)), *rybchedic*, *rygyghac*, *farlach*, *tróymfychein*, *ontuabc*, *ymáifregu*, *ymáiar-chenu*, *ymgáarnhau*, *ymgeinaó* (gw. (vii), (a)), *ymgelydus*, *ymgeinaó* (gw. (vii), (a)), *ymgybreinyaó*, *ymhóyth*, *ymoglyt*, *yfgythred*.

(d) *Tuedd i Wefusoli.*

Yr oedd tuedd gref yn y cyfnod canol i wefusoli e mewn gwahanol sefyllfaoedd a'i throi'n y = (y *dywyll*). Adlewyrchir hyn yn helaeth yn YBH lle'r ymglyfnewid y ag e yn fynych, nid yn unig mewn geiriau brodorol ond hefyd yn y geiriau HFF. Felly, cawn *clynychaó* 3221 gyda *cleuychu* 3787; *yffeirat* 2467, 2470, *yffeireit* 921 wyneb yn wyneb ag *effeirat* (*effeireit*) 925, 1273, etc. (6 gwaith); *llybhenyó* 3575, ond *llebhenyó* 1487, 4196, etc. (11 o weithiau); *yftronat* 4016 wrth ochr *estroni* 385; *ylyllus* 23 gyfarwyneb ag *elyllus*, *elyllys* (yn aml); *ymgelydus* 3701. O rai geiriau ni cheir ond ffurfiau ag y-; mewn 24 o esiamplau o amserau *esymnaf*, er enghraifft, *yf-* yn unig a geir (troes y LIC 13 o'r rhain yn *ef-*). Eto yn y 9 esiampl o ffurfiau *estymnaf*, *yf-* yw'r sillafiad bob tro. Ag *yf-* yr ysgrifennir *yfcaelus*, *yfcayluff* (*yfaó*, *yfeymic*, *yfgeired*). Yn *llythyzeu* 3631, yn ymyl *llythyzeu* 3634, dichon y ceir y gwrthwyneb (gw. n. ar 3631), ac, yn bur sicr, yn *begythyab* (4 gwaith) a *begythyab* yn erbyn 5 esiampl *á by-*. Canfyddir yr un duedd i droi *e-* yn *y-* yn y geiriau HFF: *byfant*, 1450 (*beant*); *yfgyier* 1884 (*escuier*); *yfpardun* 450, etc. (**espartun*, *asporun*, *esperun*, etc.); *yfpór* 3647 (*espíe*); *yftabyl* 1061, etc. (*estable*); etc.; ond *treffoz* 2766 3643 (*tresor*). Gwelir enghreifftiau tebyg yn y WM: *ardychate* 38, 466; *klyuychu* 45 (ddwywaith); *dyffroi* 387 yn gyfochrog *á deffroi* 388; *yleni* 92; cf. P 9, 15^b *clydyueu*; P 5 xxi^b *pyzffeythóyd*; etc. Gwelir yr un osgo i droi *en-* yn *yn-* lle bo *en-* yn amrywriad ar *en-*; cf. *ymyded* 3475 wrth ochr *enyded* 2944; *ymydedus* 3644 gyfarwyneb ag *enydedus* 3872. Yma hefyd, gellid meddwl, y perthyn *ynyal* 27.

(dd) *Gwamalrwydd i Gytsain.*

Nodwedd arall ac un a welir hefyd yn llawysgrifau'r mynachdai mwyaf deheuol yw absenoldeb a gwamalrwydd i *gytsain*. Megis fyth yn iaith y De, cedwir hi'n gyson yn YBH ar ddechrau gair: *iaith*, *iaón*, etc., a hyd

yn oed yn *ierch* (llu. *iósch*); eithr, yng ngwrthwyneb i arfer Deheubartheg lafar yr oes hon, cedwir hi hefyd yn fynych yn nherfyniadau geiriau: *kiniaó*, *neithyaó*, *trigyaó*, etc. Heb gyfrif ond geiriau cyffredin a gadael allan y gair *iofan* (ceir 90 o hwnnw), digwydd 239 o enghreifftiau o *i gytsain* yng nghanol gair. Yr orgraffau yw y ac i; digwydd 212 o'r cyntaf a 27 o'r ail. Lle'r arferir *i*, y mae sillaf yn cynnwys i yn blaenori: *kiniebi*, *llitiaó*, *triciaó*, etc. Unwaith gwelir *j*: *bedydjit* 2164. O bryd i'w gilydd trewir ar y gwamalrwydd mwyaf a cheir *bzenhinaeth* a *bzenhinaeth*; *ffrystyab* a *ffrystaó*; *byzyab* a *byzab*; *tygyab* a *tygab*; etc. O flaen -u, -ir-, -yffant (-*affant*), -y (-*e*) cyll yr *i* gytsainiol: *dienydu* (LIC *dihenydyu*); *dihenydir* (LIC *dihenydyr*); *tzgyffant*; *adzigy* (LIC *adzigy*), ond *adzigye* 1909; a *vegtyhy* 2694; etc.

Yr esboniad a goleddir yn gyffredin ar y gwamalrwydd hwn yw i'r *i gytsain* wedi affeithio ohoni lafariad y sillaf flaenorol gadw ei hunaniaeth yn Ne a Gogledd Cymru, eithr iddi o dipyn i beth ddihoeni ar dafor y Deheuwy'r a diflanu i raddau mawr cyn amser y llawysgrifau canoloesol hynaf.¹

Yn ôl y ddamcaniaeth hon, ni fyddai'r enghreifftiau o'r *i gytsain* uchod onid olion o'r hen draddodiad deheuol. Os cywir y dyb mai'n raddol y collodd yr *i* yn y De, yna dichon iddi gael help i fynd ar ddi-fancoll gan y gwrthnaws a ddangosid at bob *i gytsain* HFF Ffrainc gan HFF yr ynys hon (cf. *baniere* > *banere*; *mortier* > *morter*; *somier* > *somer*, *sumer*; etc.), iaith a fu byw ochr yn ochr â'r iaith Gymraeg yn y Deau am dair canrif. Tueddaf, serch hynny, i awgrymu esboniad arall, sef i'r tafodieithoedd y tarddodd yr Wyndodeg a'r Ddeheubartheg ohonynt ymddwyn at yr *i* gytsainiol gyntefig mewn ffyrdd gwahanol. Yn yr Wyndodeg estynnodd yr *i* ei heffaith yn ôl dros y gytsain i lafariad y sillaf flaenorol gan ei throi'n ddipton, eithr heb gollu ei gwahanfodaeth ei hun yn y ddeusain newydd. Yn iaith y De, o'r tu arall, ymddengys i'r *i* ymlithro'n ôl dros y gytsain oedd o'i blaen ac ymddoddi'n hallol yn y ddipton newydd megis y gwnaeth *i gytsain* y Lladin Isel pan aeth hwnnw yn HFF: *paria* > *paire*; *basiat* > *baise*; *palatiu* (= *palatiu*) > *palais*; *oratiōne* (= *oratiōne*) > *oreison*; **ostria* (Ll Cl. *ostrea*) > *huistre*; etc. Os y dyb hon sydd gywir, yna rhaid priodol'r enghreifftiau o *i gytsain* a geir yn YBH a thestunau deheuol eraill i ddylanwad yr iaith lenyddol.

(e) *Y Gytsain Anorganig.*

Dylid galw sylw at *i* arall a ddigwydd yng ngeirwedd YBH, nid amgen, yr *y* anorganig a welir yn *dóylyab* 216 (*dóylyab* sydd yn yr enghr. eraill (26) ac yn y LIC); *dyglydyab* 168 (pob es. arall (35) ac un y LIC heb -y- yn y terfyniad); *tylyab* 193, 363 (17 o enghr. ac eiddo'r LIC heb yr -y-). Tebyg y perthyn *dzigyaó* a rhai eraill yma hefyd. Ceir ond odid enghraifft o'r *i* hon eisoes yn LIDW 24^b: *er eyddiau*. Gwelir hi, yn sicr, yn *cheurieith* (*cyureith*) BM 13, AL II, 900; ac yn *ffynhyan* WM 249, 255; *ffynyan* RBB 400; *awmaythyan* P 9, 54^b; *ecyan* (*yfant*) Ll I, 62; *cóymant* AL I, 416; ac yn aml yn SG: *wnaethyan* 2, 49; *uelyodun* 2; *anthoyot*, 29, 43.

¹ Gw. J. Morris-Jones, WG, tt. 38-39; Ifor Williams, PKM, tt. 131-4.

45; *ehelaethyach* 41; etc. Yn hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg wedi colli Normandi aeth ysgrifenyddwr a chopiwr Lloegr Ffrangeg i efelychu Hff y Cyfandir a daeth bri ar yr *i* gyfandirol a ddihoenasai yn AN. Ond o hir anghyfeindra â hi (gw. uchod), ni wyddid mwyach sut i'w defnyddio yn iawn ac aethpwyd i'w lleoli ar amcan yn unig. Ceir atseiniau o'r camddefnydd a wneid ohoni yn rhai o'r benthyciadau AN yn Gymraeg: *tum(m)yon* AL II, 800, 825 wyneb yn wyneb â *tumon* LIDW 35b, Hff Ffrainc *timon* 'coes'; *milyeinyeid* SG 193, 320, Hff Ffrainc *villain, vilein*, etc.; *tworneimeint* ib. 47, 53; etc., ochr yn ochr â *tworneiment* ib. 82, Hff Ffrainc *tornement*; etc. Ac, i'm tyb i, atseiniau ohoni wedi ymledu i orgraff CymC yw'r *i*, y yn *cheurieith, dōlyyab*, etc. uchod. Delwedd y gwamadrwydd ymhellach mewn CymC yng ngholl *i* yng nghanol gair fel *arant* (aryant) AL II, 897; *aranheit, arameit* ib. 888; *llōydannus* WM 451, ac ar flaen gair megis yn *aun* am *iaun* LIDW 21a; *arll* cyw. *iarll* WM 619; etc.

(f) *Casgliad.*

Yn y penodau sy'n dwyn y teitl Awdur, Copiwr a Dyddiad (§6 a §7), gwneuthum gynnig ar sail tystiolaeth geirfa'r testun i benderfynu'r ardal a roes fod i'r ferstwn Cymraeg o YBH; ac o edrych yn fanwl ar seing rhai geiriau credais allu awgrymu (a) fod y cyfieithydd yn hanfod naill ai o Went neu o Forgannwg; (b) ddarod i'r copi a draddodwyd inni yn *Llyfr Gwyn Rhydderch* fynd drwy ddwylo gŵr o Ogledd Penfro.

V. CYSTRAWEN

Yn y sylwadau a ganlyn nid amcener at nemor ddim mwy na galw sylw at nifer o bwyntiau cystrawennol a nodwedda'r testun ac at debygrwydd rhai ohonynt i gystrawennau'r testun Anglo-Normaneg y cyfieithwyd ohono ac eiddo'r Hen Ffrangeg yn gyffredinol.

§38. CENEDL GEIRIAU

[Yn unol ag arfer ysgolheigion canoloesol Ffrainc a Lloegr (cf. Waters, *The Voyage of St. Brendan*, xlxxv et seq.), trafodaf genedl geiriau dan Cystrawen.]

(i) Yn *Ystoria Bawn* ceir awgrymiadau y byddai cyfieithwyr weithiau yn cadw cenedl y geiriau Hff a drosent yn rhy hir yn eu pennau ac o hynny yn eu rhoddi i'w cyfystyron CymC. Hyn sy'n cyfrif, fel y tybiaf, am genedl anarferol ambell air yn y testun ac am y petruster a ddangosir ynghylch cenedl rhai eraill. Os cywir y golygiad hwn, byddai'n rhesymol tybio ddarod dylanwadu ar genedl llawer gair Cymraeg a welir yn y cyfieithiadau o'r Ffrangeg gan genedl y gair a oedd dan lygad y cyfieithydd yn ei wreiddiol neu yn ei glust o glywed ei ddarllynydd yn ei yngan. A chan yr addysgid y cyfieithwyr a'r copiwr cynnar yn ysgolion yr Anglo-Normanaisid ac y siaradai llawer ohonynt yr Hff yn feunyddiol ar ôl

gadael yr ysgol (yn y cestyll, etc.), ai gormod awgrymu y dichon fod ôl cenedl geiriau Hff wedi disgyn inni nid yn unig drwy waith y cyfieithwyr eithr hefyd drwy waith copiwr ein testunau brodorol, ac y dyldid cymharu'r anwadalwch a'r datblygiadau a welir yn y peth hwn mewn CymC a'r hyn a fyddai yn yr un rhan ymadrodd yn yr iaith arall a arferid am ysbaid tair canrif mewn rhannau helaeth o Gymru a'r Gororau?

(ii) Yn AN er y ddeuddegfed ganrif aeth *-e* (=y *dyzeill* Gymraeg) yn wannaid iawn ei sain. Obligid hynny esgeulusid ei hysgrifennu lle gwelid hi gynt ac o'r tu arall chwangedid hi at eiriau na bu hi erioed yn rhan ohonynt. Felly, er hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg, gwelir y tryblyth pennaf yn y fannod amhendant AN. Yn Llsgr. D sy'n cynnwys tua hanner stori *Boeve*, er enghraifft, gwelir *un* yn lle *une* (g. yn lle b.) 24 o weithiau gyda gair b., tra na cheir ond 19 o enghreifftiau gyda'r ffurf f. reolaidd *une*: *un chambre* 2731, *un nuit* 966, *un colure* 967, *un corde* 1049, *un ece* 1246, *un lue* 1237, etc., yn lle *une chambre, une nuit*, etc. I'r gwrthwyneb, trewir ar *une* am *un* (b. yn lle g.) yn fynych; cf. yn Llsgr. B o *Boeve*: *une tertre* 1185, *une prestre* 2142, *une conte* 2149, *une cop* 2360, *une ruge mastin* 3667, lle disgwyld *un tertre, un prestre*, etc. Gwelir anwadalwch y fannod amhendant yn y testunau AN yn gyffredinol a chodai ymhobman o'r ffaith nad oedd yr un gwahaniaeth mwyach rhwng ynganiad y fannod f. *une* a'r fannod w. *un*. Amrywiol llawer o eiriau yn eu cenedl eisoes cyn i'r *-e* fynd yn fud.¹ Chwanegodd ei mudandod genedl w. at genedl f. aml air a chenedl f. at genedl w. amryw; aeth y gair *une aigle* (*aquila*) hefyd yn *un aigle* nid yn unig yn ei orgraff eithr hefyd yn ei holl gystrawen. Yr un modd, aeth *isle* (*insula*), *arbre* (*arborum*), *lutre* (*lutra*), etc., yn w. yn ogystal â b. O'r tu arall, enillodd aml air genedl f.: *dolor* (*dolorem*), *honur* (*honorem*), *mer* (*mare*, g. yn Llad. Isel); etc.

Bwrier at yr ansicrwydd hwn a ddeilliai o amhendantwrwydd sain a ffurf y fannod amhendant yr amhendantwrwydd pellach a darddai o waith yr AN (gan ddilyn tafodiaith Picardi) yn arfer ffurfiau g. y fannod bendant (*le neu li*) o flaen enwau b. Yn y modd hwn gwelid *le (li) baner* am *la baner(e)*; *le (li) table* am *la table*; *le (li) tour* am *la tour*; etc. Yr oedd defnyddio *le neu li* yn lle *la* yn ffrwyth datblygiad seicolegol yn y Bicardeg. Ffasiwn oedd yn AN ail hanner y ddeuddegfed ganrif (e.e., *Quatre Livres des Reis*), eithr ffasiwn a aeth erbyn y ganrif ddilynol yn arfer gref gan ddwyn dryswch pendant i genedl geiriau. Er enghraifft, dyrr llagrau *Ipomedon* (XIII-XIV), cân a sgrifennwyd yn Henffordd Gymraeg y cyfnod (Credenhill), esiamplau lawer: *le campagne, le flauwe, le jurnée, le matinée, le nuit, le lance, le ley*, etc., am *la campagne, la flauwe*, etc.² cf. yn *Boeve le mein* 776, *le tere* 3539, *le quise* 1230 am *la mein, la tere*, etc.

Os ymddrysa'r Anglo-Normanaisid eu hunain fel hyn yng nghenedl geiriau oherwydd y datblygiadau y soniwyd amdanynt, yn sicr, ni allai petruster y Cymry a ddysgai AN fel ail iaith fod fymryn yn llai; a hawdd

¹ Cf. J. Vising, *Étude sur le Dialecte Anglo-Normand du XII^e Siècle* (Disa., Upsala 1882), tt. 96 et seq.; E. Walberg, *Le Bestiaire de Philippe de Thaün* (Lund, 1900), tt. lxxi et seq.; G. G. Laubscher, *The Syntactical Causes of Case Reduction in OF* (Elliott Monographs, 7, Princeton, 1921), ch. 1; etc.

² A. Stimming, *Boeve*, t. xiii.

credu y buasai cenedl geiriau yn broblem a'u dilynai ymhob cynnig ar siarad AN ac y buasant yn adlewyrchu'r anwadalwch cyffredin yn eu gwaith yn trosi AN i Gymraeg.

Awgrymaf, gan hynny, y ceir adleisiau o'r petruster y cyfeirir ato yng nghenedl geiriau AN mewn tri o leiaf o'r benthyciadau yn *Ystoria Bowen*, nid amgen, *geol*, *lamp*, *plómen*:

geol. Deirgwaith y mae *geol* yn f.: yn yr *eol* 824, 983, 986; deirgwaith hefyd ymddengys yn w.: *ay ddóyn yr geol* 981; *diegis o2 geol* 1177; *mynet yr geol* 1208.

lamp. Os gellir dibynnu ar absenoldeb *h-* yn 1214 (y mae *h* weithiau'n ansicr yn YBH), aeth *lamp* yn w. o waith y cyfieithydd neu gopiwr yn meddwl am *li* neu *le lampe* yn hytrach nag am *la lampe* (y genedl arferol ar y Cyfandir).

plómen. Eglur nad yw *plómen* namyn y gair AN *plumé(e)* (= *plwmé*) 'cerwyn (at)blwm' wedi ei gludo drosodd yn gorfforol o'r testun y cyfieithid ohono (cf. 404, 957, 1145, etc.) ac i rywun fwrw -n ato er mwyn ei Gymreigio megis y gwnaethpwyd, mae'n debyg, yn *cxwmen* (Hff *guerne* 'iar'), (ond gw. n. ar 2743); *siaspi(n)*, *siespin* (Hff *chaspé*); *ffeirin* (AN *feire*, Hff *Ffraine foire* 'pwrcas'). Seiliwyd y *plóme(n)* ar *le* (*li*) *plumé=la plummé(e)*.

Ceir peth tebyg lawer gwaith yn y benthyciadau Hff mewn testunau eraill; e.e., yr *antur hwnn* SG 8 wedi ei sylfaenu ar *li* (*le*) *antur=Queste* (F) 10 *Li aventure* (o'r Llad. Isel *adventura* b.); y *tabyl* SG 155 (ddwy-waith), 162, 163 (ddwy-waith), y *tabyl hwnn* 163 (o weld neu glywed *le* (*li*) *table=Queste* (S) 180, 189, 190 *la table*; y *turnel* SG 316 (bedeirgwaith) o weld neu wrando ar *li* (*le*) *turnel* (= *turnel*)=*la to(r)nel(le)*, *tu(r)nel(le)*. Gyfarwyneb â'r gair hwn yn Potvin 184 ceir y benthyciad AN *la curce* a gariwyd drosodd fel gair g.: y *kyff* (nid y *gyff*) SG 316 (o ganfod neu glywed, mae'n debyg, *le* (*li*) *curce* y gwreiddiol). O'r un achos, mi dybiaf, yr aeth y benthyciad Hff *reuel* yn w. yng Ngogledd Cymru ac yn f. yn y De. Os yn y De yr ysgrifennwyd Ll I, dengys *er ryvel honno* 39 i'r gair fod yn w. yno hefyd unwaith. Efallai i *la guerre* (HA *uerre*) ei helpu i fynd yn f. Yr enghraifft orau y gwn i amidani o'r pwynt hwn yw'r un a ddigwydd yn SG 1, lle troswyd *une . . . damoisele* 'pendefig ieuanc, unbennes' yr holl lsgrau Hff adnabyddus (gw. y 13 sydd yn Fournival) drwy *ubenn ieuanc*, *ubenn*, a *mackwy*. Yr esboniad, mi gredaf, yw i'r cyfieithydd weld neu glywed *un damoisele* a'i gymryd am y gair g. *un damoisele* (hüb -e) 'pendefig ieuanc nad oedd eto'n farchog'.

O waith y cyfieithydd yn rhoi cenedl yr enwau AN a oedd yn ei wreiddiol i'r cytystyron Cymraeg yn ei gyfieithiad y ceir ond odid *cledyf*, *mayn*, a *mur* unwaith yn f., *gyrua* a *ffon* unwaith a *gôife* ddwywaith yn w. Dyma'r esiamplau:

G. yn mynd yn f.:

cledyf: 1031 *ar gledyf hefyd*=B 991 *e l'espee* (<*spatha*) *ensement*.

mayn: 2706 *a chaffel mayn . . . a bôz6 boón a hi*=B 2332 *une pere trove . . . a Boun la rue* (eithr dichon iddo led-gofio hefyd am *carrec* ac am *la rocher* (2384)=*le r.* (1942).

mur: 3883 *yr llyfnet vo y mur . . . mi a af dzofli*=B 3422 *. . . est le mur monte* (o feddwl am *la mur* neu o bosibl am *gwael*); am *mur* g., gw. SG 411.

B. yn mynd yn w.:

gyrua: 2897 *tri gyrua*=B 2490 *iiii arpens* (g. yw *arpent*).

ffon: 4160 *yna y kymeth boón ffon bzes ac ae trewis teruagaónt ac ef*=B 3665 *Hil prist un mace si fiert Tervogant* (o ymddyru rhwng un *mace* ac *une mace* neu o'r cof am *bastun* neu am *pren*). Ond cf. am *ffon* i y *dzom* 2004.

gôife. Yr hyn a geir gyferbyn â 757 y *gôife las* (?y *gôife glas*) yn B 738 yw *mon bliaunt* (sylwer ar y rhbl. g. *mon*), ond *ceste bliaunt* (gyda'r ans. dangosol b.) sydd yn B 745 gyfarwyneb â 762 y *blife odidac homo*. Anodd credu nad adlewyrchiad o gymysgedd AN yn ei wreiddiol yw'r hon a welir yn *Ystoria Bowen*. Digwydd y *blife* eto yn 759, eithr *gôife . . . gôzabl* sydd yn 3212 ar sail *al neu a le lei de home* (gw. uchod) = B 2774 *A la lei de . . .* Da cofio hefyd fod *abit* yn w. a b.: *er abit honn* P 14, 6^a; *yr abit wenn* YCM², 21; *yr abit honno* RBB 230; ond *yr abit hwnn* SG 48, 53; RBB 127; etc.

Ni fynnwn wasgu fy safbwynt yn ormodol, eithr tueddaf i gredu i rai o'r geiriau a ganlyn hefyd ddyfod dan ddylanwad cenedl yr enwau cyferbyniol a arferid yn barhaus yn AN Cymru a'r Gororau:

bzeich. B. yn 1405, eithr g. yn P 7, 111, 172; P 8^a, 41; Ll I, 28; SG 234, 411; etc.; yn wreiddiol enw diryw.

kyfranc. B. yn 465, 576, ond g. yn P 7, 26^a (deirgwaith), 30^a; P 8^a, 27. Y geiriau cyfatebol yn AN oedd *estur* g. a *bataill(le)*, *bateil(le)* b. Cadwyd y blaenaf gyda rhan o'i hen arwyddocad yn *yrteir* a cheir y *vateil* yn fynych yn ein testunau canoloesol, e.e., yn SG 63, 67, 100, etc.; etc. Sylwer ar y petruso yn y *vzby(dy)r honno* P 9, 12^b.

chôbedyl. G. yr untro (2998) y gellir bod yn sicr; cf. RM 178; RWM I, 11, 340; SG 55; etc. Y gair AN beunyddiol am *chôbedyl* oedd *la novel(le)* fel *news* yn Saesneg heddiw. *Novel(le)s* sydd yn B 2246, 2369, 2998, 3740 gyferbyn â *chôbedyl*, *chôbedle* 2598, 2750, 2752, 4246, a dyna sydd yn *Queste* (S) 61=SG 55; etc. Tybed ai *la novel(le)* sydd yn gyfrifol am droi *chôbedyl* yn f.? Gair diryw gynt.

dambéin. G. yn 3190; cf. P 7, col. 60; P 8^a, 9.

dillat. Yr oedd *dillat* yn meddu ar ei hen genedl a'i hen rif (cf. *dyllat eurenynes er lun y penyto endau* LIDW 11^a) yng nghymddalw'r llinau 227-30: *a chymryt dillat y mab ae ùychu yghaet yr hôch . . . as vóz6*, ond troes copiwr y v hir yn b, gan roddi inni *ae bôz6* a gwneuthur *dillat*

yn llw. (gw. n. ar 227). Troes y LIC yntau *ae llychu* yn *ae gôlychu* a chadwodd *ae bôzô*. Llu. hefyd yw *dillat* yn 2240 *achub* y *dillat* . . . *ac eu gôfcaô* (=LIC). Cf. hefyd *dillat* *gwymyon* SG 5. Troesai'r gair, gan hynny, o fod yn un. yn LIDW ac yng nghynddelw'r LIG yn llw. erbyn diwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Pa ddylanwad, tybed, a'i troes? Gan iddo oroesi ymlaen i'r cyfnod AN, prin y gellir cysylltu'r datblygiad â'r HS llw. *clâdas* un. *clâd*; yn y cyfnod HFF neu AN, y gair a ddaw i'r meddwl gyntaf, yw'r un a ddigwydd ddwywaith gyferbyn â 224-30 yn B 236-7, sef, *les dras*: *si ensenglenta le(s) dras a le enfant*. *Quant Sabot out fet les dras ensenglenter . . . les fist il lier* 'he dipped the lad's clothes in blood. When he had had the clothes dipped in blood . . . he had them tied . . .' Yr oedd *les dra(p)s* yn derm cyffredin am ddillad yn HFF ac, fel y gwelir, yn llw.: *dra(p)s de lit* 'dillad gwely'; *l'enfant en ses dra(p)s* 'y mab yn ei ddillad'; *dra(p)s de religioun*, *dra(p)s religios* 'y dillad mynachaid'; *dras rices et emperiaus* 'dillad cyfoethog ac ymerodrol'; etc.; gw. d.g. *drap* yn Ste-Palaye. Yn gyffelyb, yr oedd y llw. *les habits* hefyd yn boblogaidd am yr un peth.

dimas. G. yn 1188, 1468. Eisoes yn f. yn GrapC 106; P 8^a, 23; P 10, 17^e; etc.; cf. Ll I, 81 *emlad ar dynas* . . . *ae chywarffangu* cyw. *ae chy* . . . Ai caer ai ynteu la forteresse a'i troes yn f.? Unwaith enw diry.

edebit. G. yn 2637. A gafodd la *promission* ran yn nhroi'r gair yn f.?

grad. Gwaith copiwr yn edrych ar *grad*, am y tro efallai, fel gair estron yw'r esboniad ar 2933 *ar grad o vein marmo2* (LIC *ar rad*), oblegid er cael *gl* [=sl] yn fynych am *l*- (cf. *ar glan themys* Ll I, 52; *kyn glewchet* ib. 19; *o glewder* P 44, 3; etc.), ymddengys bod *gr*- am *r*- yn brin iawn.

ghalch. B. yn 644, eithr g. yn WM 476 a 622, efallai drwy gydwyddiad â'r HFFi *espreu(i)er*; cf. *megys fperuar neu vchedyd* P 5, xxiii^b.

ghayô. G. yn 456, 594; cf. SG 183, 184; yn YBH cyfetyb i *la la(u)nce* 14 o droeon (437=B 429; 451=B 443; 592=B 581; etc.) ac i *la hante* 3266, 3600, 3974 (=B 2831, 3139, 3498). Anodd credu na chafodd *la la(u)nce*, un o'r geiriau mwyaf poblogaidd yng ngeirfa'r AN, beth effaith ar genedl y gair hwn.

ghairyoned. B. yn 3027; cf. WM 29.

gwys. G. yn 1738: *deu uys*; cf. *avuydaffant y2 gwys honno* P 10, 7b; *y gwys honno* BrDg 136, 159, 167. Ond *teir gôys* eisoes yn Llgr. L (diwedd XIII) AL I, 396, 546; *or wys a umel righyll* ib. 394; *y wys honno* RBB 200, 201. Un o' ciriau pwysicaf y llysoedd barn AN oedd *la semunse* (*semonce*). A ddylanwadodd y gair hwn ar genedl *gwys*?

lle. G. yn 3133: *y kyfryô le hómô*; cf. WM 10; P 14, 3^b (deirgwaith); P 8^a, 49; RB 170; etc. Ond b., fel y tybir, oedd *lle* ar y cyntaf megis yn WM 4, *y lle hau*; *y lle honno* P 7, col. 58, 182; P 8a, 81. A drowyd *lle* yn w. o' fynych glywed ac arfer yr AN *leu*? Ceir orgraff AN (*leu*) am *lle* yn LIDW 48^b. Gw. hefyd n. Ifor Williams yn PKM 102.

llethenyd. G. yn 1614. B. yn P 14, 110: . . . *yth lewenyd barhaus*. Y gair cyffredin yn AN oedd *la joie* a hwnnw a geir yn B gyferbyn â *llethenyd* YBH 8 waith (cf. 1444=B 1092; 1487=B 1385; 1559=B 1442; etc.).

llys. B. yn 2983, 3550; cf. LIDW 8^a.20; WM 5, 30; RBB 150; SG 7; etc. Eithr onid oes rhaid ystyried gwaith -s yn troi *d*- yn *t*- fel yn *Naftwo* P 7, 16^a; etc., g. yw yn *llys tywyffogaôl* 4289 (cf. B 3775 *paleis principé* g.). Os dylanwadai geiriau cyfystyr yn AN, fel y tybiaf, ar ciriau CymC, yna helpid *llys* i gadw'n f. gan *la curt a la meson*, ond gwesgid arno i droi'n w. gan *le paleis a le hostel*. Saif *llys* yn YBH 22 o weithiau am *le paleis* B (cf. 255=B 259; 268=B 267; 1485=B 1386; etc.).

marthyzolyaeth. G. yn 4131=B 3637 *martir grant* g. Am -aeth g., cf. hefyd *ar ryw anedigaeth hwnnw* P 8^a, 44; P 10, 29^a.

mil. B. yn 1236, 1247, eithr *try myl* P 44, 3. G. yw'r gair cyferbyniol yn AN: *un mil, un mil(l)e*.

milltir. B. yn 2907, 3726; cf. P 7, 25^b; P 8^a, 26; P 10, 18b; SG 88, 193; ond tri *milltir* GrapC 102; *milltir kynreic* SG 189.

penguch. B. yn 545: *p. bôzhôn*; cf. SG 268 *ar (y) bennguch*=Potvin 114 *desus la coiffe*. Yr oedd *la coiffe* yn sicr yn air cyffredin i bob marchog Normanaidd; gw. n. ar 545.

ryuel 3994. G. yw *revel* yn HFF megis yn iaith y Gwyndydd heddiw; b. yw yn y De; ceir yr esboniad yn (i) a (ii) uchod; gw. n. ar 3994.

sarhaet. B. yn 806: *f . . . uab2=B 780 grant vilté* (*grant* b. megis *grandem*). Yr oedd *la vilté* (*vilted*) yn air poblogaidd yng ngeirfa foedal y Normaniaid a thebyg i'w genedl f. helpu i gadw *sarhaet* yn y genedl honno.

trallaôt. B. yn 638; cf. *a thrallaut vair* P 14, 53. Yn LIC=638 g.: *tr . . . p2aff*.

troet. G. yn 1918, 1939, etc. G. fyth yn y De yn *troed pladur: trôd da*; ond y *drôd dde*, y *drôd (h)with* bob amser.

tôyll. G. yn 1018, 2103; cf. *y tôyll hómô* RBB 219; ond b. yn P 7, 34^b; SG 405; etc. Yn 1018 *o2 tôyll ar bzat=B 973 cel treivoun a 2103 y t. hân=B 1884 iceo treson*. A fu *tre(i)so(u)n* g., tybed, o help i *baat* i droi *tôyll* yn w. yn gyfan gwbl?

Ni ellir penderfynnu cenedl yr enwau eraill yn *Ystoria Bouen*.

§39. Y FANNOD

(i) *Proclitiaeth* (WS 2 (iii); WG 192-3). Yn YBH ysgrifennir y fel gogwyddair unwaith ar ddeg yn unig; yn y manau eraill (697 o engir.) ceir ysbasau: ysbas blewyn (15); ysbas 1 (149); ysbas 2 (388); ysbas 3 (145).

Dim ond yn *ozdiôed* y gwelir y ffurf ag 2 (r) â'i phwys ar y gair dilynol; ymhob lle arall (439 o es.), saif y ffurfiau ag r (2) ar wahân: ysbas 1 (28); ysbas 2 (222); ysbas 3 (189).

Am yr arfer yn ein testunau CymC cynnar, cf. y daflen a ganlyn:

LL:	Fel Gogwyddeiriau	Gydag Ysbasau
(a) i (y, e)	151	34
(b) ir (yr)	325	110

BB:	Fel Gogwyddeiriau	Gydag Ysbasau
(a) i (y, e)	5	73
(b) ir (yr)	11 (5 ar batrwm y rifgaid 35.7)	21

LIDW:	Fel Gogwyddeiriau	Gydag Ysbasau
(a) e (y, i, j, a)	1091 (e=1061; y=28; etc.)	117
(b) er (yr, ir)	52	881

(ii) *Enclitiaeth* (WS 2 (iii); WG 192-3).

Oddieithr yn o *ymôbzatnt* 1468, y ffurf dalfyr. r (2) sy'n dilyn yr unsyllafion arferol (gw. WG 192). Ar ôl yr arddodiad yn ceir y fel enclitig (yny) 43 o weithiau, ond ysgrifennir y ddeuar ar wahân 24 o drocon: ysbas 1 (16); ysbas 2 (8); ysbas 3 (2). Nid ysgrifennir yr byth ynghlwm wrth yn flaenorol (gw. 10, 60, 427, 824, etc.). Noder yny yz amfer hōnnō 3420 a trōyr moz 3119, 3178.

Cf. yn+bannod yn y testunau canlynol:

	Fel Enclitig	Gydag Ysbasau
BB iny (yny, ini)	14	in y 2
LIDW ene (eny)	31	en e (en y)24

Nid dyma'r lle i drafod y pwynt hwn yn llawn, ond fe welir wrth (i) uchod fod gosodiad WS 2 (iii), sef, 'Mediaeval scribes usually joined the article to its noun, thus *yty for y ty*' (cf. WG 192) yn anghywir.

Yn mhroclitaiseth y fannod mewn CymC adlewyrchir dull yr Anglo-Normaniaid o sgrifennu'r fannod bendant HFF; cf. *La Vie de Saint Alexis* (Llsg. I., canol XII): *lifecles, lipedre; ledregret, lepedre; lamedre, lanef*; etc.; ac awgrymaf mai oddi wrthynt hwy y cymerwyd y ffasivn drosodd. Yr un sain lafarog oedd i'r fannod HFF *le* (y ffurf *par excellence* yn AN erbyn y XIII g.) ag i'r fannod Gymraeg. Benthyciodd ein tadau orgraff y fannod HFF (yn LIDW; etc.¹); beth, ynteu, a fuasai'n fwy naturiol iddynt nag ysgrifennu'r fannod Gymraeg fel gogwyddair megis yr ysgrifennid y fannod HFF yn yr un *scriptoria*! Da cofio yma mai ar y ffinwsgl Ffrengig y seilwyd ein hysgrifien ganoloesol.

¹ Gw. dan Orgraff, 116.

Ar ôl yr unsyllafion, a, de ac en ysgrifennid y fannod HFF fel gogwyddair (e.e., a+lo>al>au; de+lo>del>deu>du; en+lo>enl>el>eu), eithr weithiau yn HFF y Cyfandir, ac yn arml iawn yn AN, ni thalfyririd o gwbl a cheid a le *hostel*, a le *matin*; de le *palefrey*, de le *roi*; en le *chef*, en le *cors*; etc. Ymddengys y ceir adlais o'r dull olaf yn o *ymôbzatnt=oz m.* . . . 1468; cf. o y *testion=ioz t.* . . . LIDW 23³. Ffasiwn AN arall oedd gadael llafariad y fannod heb ei thorri ymaith hyd yn oed lle'r oedd yn fud yn y mesur fel yn le *ordre*, le *angel*, *loret*, etc.=*l'ordre*, etc. yn *Voyage of St. Brendan*; etc.¹ Tybed a oes a fynno hyn ag arfer ein copiwyd o ysgrifennu y mewn brawddegau fel *llawen fu yr amheradur YBH 97; tozri yr holl kadoyneu ib. 1141; etc.*? Cyfrifais 144 o enghreifftiau o gadwraeth yr y hon yn *Ystoria Bown*.

(iii) *Bannod gydag Enwau Cyffredin*.

Efallai bod cof am y gystrawen HFF yn achos cadw rhai enghreifftiau o'r fannod gydag enwau cyffredin; e.e., y *iubet* 628 (B 613 le *gibbet*); y *baed coet* 49, 121, y *baed* 139 (B 143 le *sengler*); y *cri ar lleuein* 3687 (B 3219 le *noise e li hus*); *bzathu* . . . ar *yfparduneu* 641 (B 629 *broche des esporouns*); *ny hentoyf oz bileineit* 724 (LlC o v. . .); a *chlybat* . . . y *ffon* 3357 (B 2916 *oyt la noise*); ac *yuet y gōin a ozugant* 3577 (B 3119 le *vin demandent*); *yny hol yd yttoed y teir mil yn dyuol* 1247 (ni bu sōm am y miloedd hyn o'r blaen). Yn *llosgi y tan cyw. llosgi tan* 2498, ceir y fannod gydag enw haniaethol, o gof, ond odia, am le *ffe*u. Cf. hefyd y *nep ac hamones ef yw eni ymplith y dynyon* P 14, 132; *writh ueibion y dynyon* ib. 159; *trwy hallonnoed e dynyon* Ll I, 60; *ymadaw ar gristonogaeth* SG 335; a *chostabe y bilaein* AL, I 498, Llsg. Q (Llsg. L ach . . . b.).

(iv) *Bannod gydag Enwau Priod Lleoedd*.

Anwadal yw'r arfer gydag enwau gwledydd a chyfandiroedd: *yr almayn* 10, 2600, or *almaen* 2610; *oz inde* 1664; eithr yn 1663-4 hefyd o *nubie*, (o) *carbari*, o *aufric*, o *afie*, ac o *thafelcy* 2906. Yn gyffelyb, *yr india*, *yr egrop*, ond *affric* yn WM 457.

Gydag enwau trefi: *yr calys y doeth* 92, ond a *elcēt calys* 90; *ymôbzatnt* 1468, eithr ymhobman arall (14 o weithiau) hebddi.

(v) *Bannod gydag Enwau Priod Personau*.

Ceir y fannod efallai yn yr *abat* 2682=B 2315 *Oube*, eithr dichon i'r cyfieithydd gymryd *abe* ei gydddelw fel 'pennaeth mynachdy'; gwelir hi yn sicr yn *oz arabieit* 3711.

(vi) *Bannod gydag Enwau yn y Cyfwr Cyfarchol*.

Yn wyneb absenoldeb treiglaid, tybiaf i'r fannod gollu yn *march heb ef* 2909 (B 2501 '*Chival*', *dist Boves*); ac yn *March. marz abeth yth garaf* 3034 (B 2600 '*Chival*' . . . *mult eus ai ben amé*); eithr gall hyn fod yn etel-ychiad o'r gystrawen HFF a adawai allan y fannod weithiau gydag enw

¹ Gw. E. G. R. Waters, *The Anglo-Norman Voyage of St. Brendan*, 1. 147.

yn y cyflwr cyfarchol megis yn B uchod ac isod, ond ai cadwai y rhan fynychaf fel yn *La meie gent* . . . *chevalchiez* ChdeR 3295; etc. Cadwyd y fannod yn 1539 *Y palmer heb hi* (B 1425 *sire palmer*). Dyry'r SG 366 enghraifft lle ceir y fannod *rhwng* dau enw yn y cyflwr cyfarchol: *arglwyd y marchawc*, cyfieithiad llythrennol pur sicr o *Sire le chevalier* y gynddelw (*Sire* yn unig sydd yn Potvin 255). Am enghreifftiau o'r fannod rhwng enw ac ansoddair, gw. isod.

(vii) *Bannod Afraid gydag Enwau yn y Cyflwr Genidol.*

Mewn tair enghraifft ceir bannod o flaen enw+enw arall yn y cyflwr genidol penodol: *yny iarllaeth giôn* 28; *rei o2 marchogyon y llys* 415 (LIC o u . . .); *tozri y paladyr y glawy cyw. t. paladyr* . . . 455; efallai y *dan* (?) *kastell bzatmônd* 3588 (LIC *dan g* . . .).

Ceir enghreifftiau o gystrawen sy'n ffinio ar y gystrawen hon eisoes yn LL: *arhit imor hafren* 236; *opem iriu inif teireru* 242; *adis ir eccluiſ niffien* 242; *o blain irallt coit guent* 262; y mae'r esiamplau o'r gystrawen â dwy fannod yn lluosog yn y ddwy ganrif ddilynol yn enwedig yn y testunau cyfreithiol; cf. LIDW: *ir suydguyr ebrenyn* 5^b; *er escubaur ebrenyn* 5^b; *escapaneu glau ebrenyn* 7^a; y *kyd ar dysleyn ebrenyn* 10^b-11^a; *er efeyryat eurenynef* 11^a; y *kyd ar dryffsaur ebrenyn* 11^b; *eryghyll ebrenyn* 13^a; *in i lau* (=illau) *eregnat* 17^b; *eperchenauc emoch* 31^a; *eperchenauc er eferybyl* 47^a (dilewyd y fannod afraid bron bob tro yn BM 4 wrth gopio P 29); BM 4 (Fac. BBCh 64): *meffuryeu y tyred yrynyf hon*; WML: y *dzyffsaur y newad* 6; y *ty nessaf yr yfeubaur y bzenhin* 10; yr *effeirat y urenhines* 12; AL: y *guas ystauell y brenhin* I, 354 (Llsg. T); *nalid y guastraut aueyn y vrenhines* I, 354 (Llsg. Q a T); y *teulu y brenhin* I, 382 (Llsg. Q); y *sloydogyon y llys* I, 388 (Llsg. P a Q); etc.; etc. Y maent yn niferus hefyd yn y testunau llenyddol: *ar y kic yr ederyn* WM 140; *ar y dzôs yneud* ib. 152; y *bzenhin y diodeifeint* ib. 154; y *llieinyeu y bôz* ib. 227; y *guas ystauell y iarll* ib. 400; *un o2 yfweineit y bzenhin* ib. 445; *o2 yfpeyl er rey lladedygyon* P 44, 13; y *ryeni y mab* P 14, 122; y *mein ar gwyd yr eglwyſſeu* P 7, 51^b, *yn yz eglwys gzon yr arglwydes veir cyw. (sylwer) o yn eglwys gzon* . . . ib., id.; *llys yr iarll y campeo* WM 643; *o2 gradeu y temyl* P 5, xv^a; yr *hymeyf y temyl* ib. XVI^a; *mi aaf yr purdan padric* HM II, 195; *hyt y tywysogyon yr offeireit* ib. 251; *o2 hymeyf y bobyl* ib. 253; y *tywysstauc yr offeireit* ib. 254; yr *hymeyf y bobyl* ib., id.; *yn ymyl y porth y dinas* ib., 310; *tu ar porth y castell* ib. 317; *yny dwnyr y grawn* P 8^a, 25; *yny diwed y dyd* ib. 30; *yg kylch yr eglwys feint rwm* ib. 81; *Deu . . . o2 deudec gogyuurd y pagannet* P 9, 26^a; *drwy y gysymydedigaeth y dwy bleit* SG 117; y *decuet rad y nef* ib. 128; *mareduad uab owein y clotuozuffaf vzenhin y bzytanyeit* RBB, 264; y *meibion ieuaf yz arglwyd rys* ib. 341; *o2 goedieu yr haf* ib. 344; y *henedloed yrynyffed* P 18, RWM I, ii, 341; *o'r deudec province yr Arglwyd Kan FfyBeO* 54; *tu ar pozth y castell* JsC 3 (xv), 61^b.

Clywir y gystrawen â dwy fannod weithiau ar lufar pan chwanager mewn math o *anacoluthon* enw yn y cyflwr genidol at enw a flaenorir yn barod gan y fannod: *i orffen y trefniadau* . . . yr *eglwyſ*; (*hy*)*hi sy'n gwneud y gwaith* . . . y 19; *yn y gwaelod* . . . y fuddai; etc.

Dichon mai o waith dynion yn brawddegau'n ddifyfyr fel hyn y tardd-odd y gystrawiaeth gyda'r fannod ddiangen. Os felly, onid yw'n syndod mai yn y cyfnod canol y bu fwyaf blodeuog? Sylwer hefyd ar waith copïwr P 7 uchod yn cywiro'r gystrawen arferol trwy chwaneu ail fannod. Esboniad mwy tebygol yw ddarfod ei hentyca o ddull mynegiant y cyflwr genidol yn Hff. Yno, oddieithr gydag enw priod fel yn *le corn Rollant* ChdeR 1768; *l'espee Launcelot* BN 123, fol. 205^a; etc., yr oedd dwy fannod yn anheggor; cf. e.e., yn *La Loi Guillaume* (XII): *le paleis l'evesque; le frere le duc; le desmene le comte; la besoigne l'abé; la curt le rei; les serors la reine*; etc.; etc. Clywai ein cyndadau y gystrawen hon yn feunyddiol yn y cylchoedd Anglo-Normanaidd a phrin y caffai ein cyfieithwyr yr un wyneb memwrn AN hebbdi. Bwrier at hyn y mynych enghreifftiau ohoni a geir yn LIDW lle gwelir cymaint o olion Hff. Ac ni ddirywir yr esboniad ychwaith gan yr esiamplau o'r LL a luniwyd yng nghanol dylanwadau Ffrengig ac a gynnwys olion AN yn ei ysgrifen ac yn ei orgraff. A hyd yn oed pe daethai i lawr o'r cyfnod cyn-Normanaidd, anodd credu nad enillasai fri newydd oddi wrth fodolaeth y ddwy fannod yng nghystrawen gyffredin iaith y barwniaid.

I ategu'r golygiad uchod gellir galw sylw at waith cyfieithydd neu gyfieithwyr y SG yn trosi'r de genidol Hff (weithiau gyda'r fannod) yn llythrennol i'r Gymraeg: *gospoer o veir* 35=*uespres de notre dame Queste* (F) 46; *offeren o veir* 169=*la messe de la glorieuse mere dieu Queste* (F) 245; y *weic wedu o gamalot* 209 (darll. gwahanol yn Potvin 47); *yn eu hanuon y gastell o gamalot* 209=*le fet mener el chastel de Kamaaloth* Potvin 46; y *castell o gamalot* 209=*le chastiaus de Kamaaloth* Potvin 47; *offeren or yspryt glan* 141=*la messe del saint esprit Queste* (F) 167; y *lachawdyr or byt* 191=*li Sauviesres du monde* Potvin 25; *gwassanoeth or meirw* 304 (ddwywaith)=*le service des morz* Potvin 169.

(viii) *Bannod+Ansoddair mewn Cyfosodiad ag Enw Blaenorol.*

Lawer tro ceir bannod a ddilyniir gan ansodd. yn gwnouthur cyfuniad a weithreda fel ansoddair syml: (a) ar ôl enw a flaenorir gan rh. blaen; (b) ar ôl enw priod. Wele'r esiamplau: (a) y *chnaſt y gŷyn* 1842 (=LIC), *am ffon i y dzom* 2004 (=LIC); *dy ben di yr maſz* 2008 (=LIC), 2691 (=LIC; B 2321 *vostre gros test*); *vygheuaer dec* 3316 (=LIC *v.chm. y dec*; B 2875 *Bele soure*); *vy merch y dec* 3547 (=LIC; B 3095 *bele file*); *vy meibon y tec* 3736 (=LIC; B 3270 *Bel fia*); *vy mab y tec* 4353 (=LIC; B. 3831 *Beau fia*); *wynthaf y tec* 4356 (=LIC); (b) *luoz ez gris* 2680 (llsg. I . . . o2 gris); B 2313 *Yvori le Gris*); *arondel yr dzythyll* 2884 (llsg. yn dz . . . B 2480 *Arundel le destrier abricez*); y *nerthu boân y clotuozus* 4017 (llsg. b. *clotuozus*; B 3537 *Boun li aloſt*).

Dyry testunau eraill enghreifftiau tebyg: (a) y *nyz ebocan* LIDW 2^a (BM 4 *ay vyf y bychan*); *tefeſtiolayht ehoantaf* ib. 24^a (BM 4 y *z.gyntaw*); *eny lau edeheu* Ll I 28 (RBB *yny lau deheu*); *modylyuad llad pozre y map ehyw en dyal y map e maro* ib. 40; *Gozwynyadon y vzaſt ef yr hynaf* ib. 57; *vy mraſt . i . y tec* P 5, xxiii; *dy gledyf y da* ib. cxxx; *may haſteler dy cledyf di yr* (llsg. yn) *da* P 9, 12^a; *yny erathu yny wreic y deheu* P 8^a, 32; y *tab yr hynaf* WM 191; *merch y dec* BSKatrin 33; *vymbzaſt y tec* ib. 38;

vy *chwaer y dec* SG 120; *cymraet y tec* ib. 130, 413; *vy nei y tec* ib. 324, 365; *yny lla6 hi yr asseu* AL I, 520; *em plyth y weythredoed e lleyll* L11, 52; ... *ym bzait y ku* RP 1203; (b) *Och dau tec=7y tec* SG 147; *Latonslot tec* =?L. y *tec* ib. 151 (ddwywaith); *ef aelwir castell y bel=7c. le bel* ib. 236 (Potvin 78 *chastel de la Pelote*). Estyniad o'r uchod, mae'n debyg, yw'r un a welir yn SG 199 *Ema y mae y kycearwydyt yn dywedut adaw o walchmei y fforest hagyr. a dyuot yr dec=Potvin* (Berne) 35 *Ici ... li contes ... dit que misires Gauvains a trespassé la male forest et est entrez an la plus bele forest et an la grant et an la haute*.

Serch na welir mo gystrawen (a) yn y dyfyniadau a roir uchod o *Boeve* nac yn y *Queste del Saint Graal* nac yn y *Perlesvaus* sydd ar gael, eto digwydd niferus esiamplau ohoni yn y testunau HFF; e.e., *ChdeR* 2250 *ses blanches mains, les beles; Boeve* 1249 *tuon pere le poestifs*; ib. 3195 *ta femme le franc*; ib. 3349 *mun pere li alosez; Otinel* 338 *m'espée la tranchant*; ib. 1132 *vostre ami le senez*; ac o (b) cf. *ChdeR* 2321 *le gentilz reis, li magnes*; ib. 2807 *Karlemagne li vielz; Boeve* 838 *Engleterre le graunt*; ib. 1292, 1401, 2023, etc.; *deu le dreiturer*; ib. 1649 *deu le pussant*; ib. 3197 *merci deu le grant*; ib. 1730 *Boun li sené*; ib. 2247 *Almayne le grant; Otinel* 1338 *Naines li barbez*; ib. 1773 *Otineli li menbrez; Queste del Saint Graal* (S) 18 *alains li blans; yuains li aoutres*; etc.

Yn wyneb yr enghreifftiau hyn, anodd credu nad o'r HFF y cymerwyd y ddwy arwedd ar y gystrawen yn (viii) ac ategir y dyb gan gymeriad y testunau Cymraeg y ceir hi ynddynt (gw. t. lix). Ceir model yr estyniad yn amlwg ddigon yn y dyfyniad a roddir o Potvin.

Sylwer, er hynny, bod hanner yr enwau yn y cyfuniadau a ddyfynwyd o destunau Cymraeg yn y cyflwr cyfarchol yr hyn a ragdybia gystrawen Anglo-Normaneg megis (*ma*) *file, la bele: (mun)fiz, le bel*; etc., cystrawen na chofiaf ar hyn o bryd ei gwled. Onid yw'n bodoli, rhaid tybio i'r cyfuniadau hyn ddyfod dan ddylanwad bannod y cyflwr cyfarchol (gw. uchod) neu i'r Cymry yn yr ardaloedd dwyieithog, o fynych glywed ac arfer cyfuniadau fel *Siré Cher, Preré Cher, Mestré Cher*, etc., fynd i deimlo'r -é (=y *dywyll*) fel y fannod Gymraeg ac iddynt yn yr iaith lenyddol ei mynegi drwyddi. Am esiamplau o waith dyn yn ymddrysu yn ei ymwybod ieithyddol, gw. §12, (b), (v); gw. T. J. Morgan, *Y Treigladau*, t. 117, am *tad y cu> tadcu*; etc.

§40. BANNOD AMHENDANT

Yn ôl canonau gramadegol y beirdd, nid oes fannod amhendant yn Gymraeg (cf. WS 4; WG 192): ac eto i gyd rhaid addef bod rhywbeth anghyffredin o debyg iddi yn YBH. Ystyrier y brawddegau a ganlyn: *a minne a af y edzych a gyuarfo ami vn gloylodyn* 1812=B 1645 *mes joo irvai garder ... si joo pus trouver un cerf corant; a bo6n a at vynat* (llsgr. a *atgaenat*) *ar6ndel y varch ac vzathu ac yfarddneu. a chyzchu un admirat ac vzathu ac thay6* 3599=B 3138 *E Boves let course Arundel l'abrice, devant les autres fert un admiré*. Cadwodd y LJC y darlleniad cyntaf eithr chwangedd *oed y en6 ar ôl admirat* yn yr ail am iddo, ond odid, gael y gystrawen yn ddiieithr. Digwydd eraill sy'n ddigon tebyg: *dyro ym vn tsalyeit o f6yt* 1362=B 1285 *donex a moi le manger sanz plus une fez*; ond gwna

une fez 'unwaith' y rhifol yn bosibl; *mi a rod6n vy march am holl arneu yr haner vn dozth o vara glbenith peillit* 1352=B 1275 *dist Boves ... ke il dorreit ... tuz les armes ... e le destrer auci ... por la meyté de un pain de forment bulté; ac y m6mbzaf6nt y herda6d yn vn i6znei* 3894 (cf. B 3314 *vindrent a un jorné, gw. n. ar 3894*); yma hefyd y mae'r rhifol yn bosibl. Ceir enghraifft go sicr o'r un gystrawen yn RBB 243 *A chrytra6 y2 ynys oll aozuc. y fyllu a gyuarffe6 vn gloylodyn ac ef*.

Ai fel bannod, gan ddilyn y gramadegwyr HFF (cf. L. Foulet, *Petite Syntaxe de l'Ancien Français* 283), ai fel rhifol y dylid ystyrier yn un a ddigwydd yn y cyfieithiadau CymC o ymadrodd negyddol sydd yn yr un ansawdd megis yn *ny cheiffaf gennyti ti 6berth vn geinabe* 3239=B 2806 *Ne voile de le vostre le vaillant de un dener?* Ceir hanner dwsin o'r rhain yn YBH ac wmbredd mewn testunau CymC eraill; gw. *Negyddiaeth dan Adserfau yn Cystrawen*, §48.

Rhwng y rhifol *un=* un yn unig' a'r fannod amhendant nid oes ond prin un datblygiad semantig o bwys, sef yw hwnnw, 'rhyw, a certain, quidam' (cf. datblygiad y Llad. *unus* yn yr ieithoedd Rhwmawns). Nid y rhifair yn sicr mo'r un uchod yn yr enghreifftiau cyntaf; gellid, dan raid, ei gymryd i olygu 'rhyw', ond gan mai bannod amhendant ddiamwys a gyfieithir, bod un yn hollol afraid yn Gymraeg, ac i un gael ei wrthod gan gopiwr y LIC yn=1812, awgrymaf mai rhesymol derbyn yr enghreifftiau fel benthyciadau o arfer gystrawennol HFF.

§41. BANNOD DDOSRANNOL NEU GYFRANNOL (L'Article Partitif)

Yn o2 rei 2788 dyry YBH yr hyn a ymddengys yn gyfieithiad llythrennol o'r fannod ddostrannol (*l'article partitif*) des yn HFF: *erchi a ozuc y varchogyon ay yfquiereit o2 rei debzaf ymgeira6* (arall yw darll. B). Arferid des gyda plus ac ansoddair ac arferir ef fyth i gyfleu yn Ffrangeg y radd eithaf arbennig (*the absolute superlative*) megis yn *Il m'arriva une aventure des plus extraordinaires* a gellid, gan hynny, pes mynnid, draford y pwnt dan Cymhariaeth.

Dengys SG 207 esiampl debyg: *seith gastell or rei goreu o gymry*. Am atsain o'r fannod ddostrannol yn yr un., cymh. *heb annon dim or bwyt udunt* SG 55; *Ac nyt anuones ... dim or bwyt ytt* ib. 69; *dillat aued ymdanei hitheu or hynn goreu* ib. 106=*Queste* (S) 129 *just achemez des plus beles robes del monde*.

§42. DYNODI MEDDIANT

(i) *Drwy Fannod ac Arddodiad Rhedadwy*.

Rai troeon ceir bannod ac ardd. rhedadwy yn dynodi meddiant lle buasid yn disgwyl rh. blaen: *ac vedzu ar den y yf6y6d yny aeth y vzeich ddeheu ida6 ymdeith* 1406=B 1326 *le brace desire li ad il coupé* (yn llythr.) 'he cut off for him the right arm'; y *gyt ac y darfu ida6 y fiedi bzathu*

y march . . . 1333=B 1255 *Kant Boves out deus ici priez* 'When B. had thus prayed to God'. Cf. *gŵedy daruot idaŵ y ginyab* RB 176; a *pharedur . . . ae trewis yny dorres y breich deheu idaw* SG 316=Potvin 183 *mès Perceval . . . li donna tel cop . . . qu'il li trancha le braz* (yn llythr.) 'but P. dealt him such a blow . . . that he cut off for him the arm'; *arthur adrewis dynnawt arnaw. yny tyrr y breich deheu idaw* SG 378=Potvin 269 *li rois le fiert de si grant air qu'il li trancha le braz* (yn llythr.) 'the king strikes him with such impetuosity that he cut off for him the arm'. Cf. B 2942: *La lance al duc brise meynenant* (yn llythr.) 'He at once breaks the lance to the duke; bannod hithau yw'r y (y bayŵ) yn ef a dozres boŵn y bayŵ ydaŵ (llsgr. yndaŵ) heb odzic 3383. Yn yr un modd, geilw B 2926 *l'escu li perse* (yn llythr.) 'he pierces for him the shield' am inni gywiro yr esiampl yn 3367 a darllen yny *dyllŵys* (llsgr. *ballŵys*) *idaŵ y lluruc* (llsgr. y *luruc*). Gwall, yn bur sicr, yw *ballŵys* (gw. n. ar 3367) a dichon mai llithr yw'r l- am ll-. Dan raid, gellid tybio mai rhagenw blaen yn hytrach na bannod sydd yn y ddwy esiampl olaf, ond y mae darll. B a'r enghreifftiau eraill yn ffafrio bannod. Ond weithiau wrth droi'r gystrawen HFF hon gadewir yr arddodiad allan megis yn *adaruot tozri melafŵzn y vordŵyt* 3910-11=B 3440 *le mestre os de sa guise li est brisé* (gw. n. ar 3910) a SG 302 *nyt ygaellusawd lawnslot y taraw ynteu yny eyd y vordŵyt yr mae(s)*=Potvin 167 *li rendi l tel cop qu'il li trancha la cuisse à toute la jambe* (yn llythr.) 'he dealt him such a blow that he severed for him the thigh from the (rest of the) leg'. Yma myn ein hymwybod ieithyddol, ar yr osgo cyntaf, ddeall y *vordŵyt* fel 'his thigh'; gw. isod.

Hyd y sylwais, ni ddigwydd yn YBH yr un enghraifft lle dynodir meddiant drwy'r ardd. y 'to'+bannod+o de, 'from, of'; ond dyma un o'r SG: *pa ryw gastell yw hwnn racho. Arglwyd heb ynteu castell yr (=y+yr) wreic wedo o gamalot* 203=Potvin 41 *'quex chastiaus est-ce ci?' 'Sire, cest li chastiaus à la vesve dame,'* cf. efallai *kyntestet yr oed yntaraw. ac ydoed ygaet yn ffrydyeu yn dyuot oe drwyn ac oe eneu y arglwyd y corsyd* ib. 209=Potvin 46 *il les done* (i.e. *les cous*) *si granz et si orribles que le sanc raie au seignor des Mores* (er cael au (=à+le) yn y testun HFF); cf. hefyd *maŵ y duw* (=m. *Duw*) P8^a, 42.

(ii) *Drwy Ragenw Blaen ac Arddodiad Rhedadyw.*

Ar wahân i'r HFF, ein tuedd fuasai dehongli'r y yn y ddwy enghraifft olaf o YBH yn (i) uchod fel rhagenwau blaen a'u lleoli gyda'r esiampl a gymerydd o'r SG 302 o dan y pennawd hwnnw. Fel enghraifft bur sicr o'r gystrawen gyda'r rhagenw blaen ac arddodiad, gellir dyfynnu 2724 *ac ae dsoffabŵl yd arllŵyffabŵl ffozd idaŵ* (LAC *arllŵyffabŵl ffozd idaŵ atmaeth*)=B 2347 *Ore me lessez fere chemin* 'now let me clear a way for myself' lle mae *idaŵ* yn cyfleu'r rhagenw atblygol datif *se yn se lesser fere*; cf. *se frayer une route*; etc.

Fel y gwelir, nid yw'r gystrawen yn (i) namyn cyfieithiad llythrennol o'r dull ymadrodd HFF ac ymddengys mai adlais o'r HFF yw'r hon a welir yn (ii).

§43. Y PRIOD-DDULL o2 byt, etc. AR ÔL
GRADD EITHAF ANSODDEIRIAU

Rhagflaenir enw a ddibynna ar y radd eithaf yn nhestunau CymC gan o megis y blaenorir enw yn yr un sefyllfa yn HFF gan de. Dyry YBH amryw enghreifftiau: *gozeu mozŵo2 o2 byt oed copart* 2071; *vn o2 gilyr deŵ2-af or byt* 2158; y *marchogyon grymuffaf* o2 *dyrnas* 4043 (arall yw cystrawen B yn y rhain). Cf. SG y *marchawc goreu or holl vyt* 4=Queste (S) 6 *li mieudres cheualiers del monde*; un or *gwyr teckaf or byt* 7=Queste(S) 9. *des plus biax cheualiers del monde*; namyn yr *marchawc a vo goreu or holl vyt* 18=Queste (S) 22 *sil nest li mieudres cheualiers del monde*; hefyd SG 48, 78, 83, 312; etc.=Queste 53, 90, 101; Potvin 180, etc. Ceir digon o esiamplau o'r fath nid yn unig yn y cyfieithiadau, eithr hefyd yn y testunau brodorol. Geilw J. Lloyd-Jones fy sylw at *A oes . . . kynghoz o2 byt* WM 28 ac *O fan o'r byd* MA² 339^a ac awgryma y gellid dosrannol (partitive) brodorol o o2 byt.

Fel y gwelir wrth gymharu'r SG â'r Queste uchod, y mae'r ddwy gystrawen yr un ffund yn hollol ac ymddengys mai'r Cymry oedd y benthyccwyr. Os felly, rhaid efallai edrych ar ym+bannod fel y gystrawen frodorol; e.e., *nyt oed yn y byt dyn dzuanch y chyffyr no hi* YBH 1535; *teckaf dyn yn yr holl vyt* SG 366; etc. Ond gall mai *gallicisme* yw'r gystrawen gyda de yn HFF, sef cystrawen a etifeddyd o'r Hen Adeg.

§44. Y RHAGENWAU PERSONOL

(i) *Y Person Cyntaf.*

Mi a Ni. Yn 3233, o efelychu'r cynysgu rhifau yn yr ail berson (gw. isod), trewir ar y llu. lle buasid yn disgwyl yr un: *a pha en byt tithen. Syr bachler tebic byt y ōr ar ormod herdet. ac y velly yd ym heb ynteu yn ōr*, cyfieithiad llythrennol o'r testun AN fel y dengys B 2798 *'e vus, he estes, sire bachelor? Mult resemblez traveleiz e penes? 'Si sumes, dist Boves, 'sachez de veritez?'*

(ii) *Yr Ail Berson.*

(a) *Ti a Chwi.* Dyry YBH ddwy esiampl debygol iawn o *chwi* am ti. Dyma'r un debycaf: *ymhoel dzathkeuyn lŵlŵn ny rodŵn i yroch chŵi nac yr ych ffyd egroeffen. ac onyt ymhoely mi a rodaf ti dyrnabŵl. Y gyi ac y clyŵ amoftraŵ copart yny tegythyabŵl . . . 2107-12* (yn y llu. y mae darll. B. 1887-8); esiampl arall bosibl yw: *pŵy dy enŵ dŵ . . . girat arglwyd . . . yŵ ey enŵ. ŷe ryuelŵyr yŵch i ac a gymero da yr rythelu ac os ef mi ac rodaf yŵch ōzth ōch eibyllus yr rythelu o honaŵch i ar y bŵlein . . . 2282-88=B 2015-17: 'Gerraud', dist l'ampereur, 'este vus souder?' 'Oyl' ce dist Boves . . . 'mester averat de grant ben gayner' 'Girart, ai rhyfelwr ydych chwi?' 'Ie', meddai Bown . . . 'eisiau ennill da lawer a fydd arnaf'.*

Rhag i neb dybied bod y cyfnod yn rhy fore i arddangos peth o'r fath (y bymthegfed ganrif yw dyddiad hyn, yn ôl WG 270), wele nifer o enghreifftiau cynnar diarnwys a dibetrus: *canyf y dused hwnn yd adolych-afŵawch chwi yn ni . . . yfgruenwv attawch chwi . . . Ni fedzuffaf i yfgruenwv awch bzodyryaeth chwi . . . ni ay hawonaf yuech. A chany allus*

awch atodurdawt chwi megif y hysgrivennaffawch chwi ataf i . . . wrth hymny dyallet dy ynni di na bo . . . bych hirhoetlawc agrymuf y ryngych bod duto P 8^a, 20 (Annerch Turpin i Leoprant); *A chany allawd ych atdardawt chwi val y hysgrivennaffawch ataf . . . Ac 62th hymny dyallet ychfynny2 chwi . . . buchedoccaa a grymhaa val y ragho bod y du6 P 5, lxxxv^a (amrywiad ar yr un annerch); minneo a giglef bot nebun pei afgelut ti ewo yn adurn brenhinatol. ef a orffwyfsei aboch ryuic chwi oll, Pererindawt Siarlymaen, LIC, col. 605 (cf. P 5, cx^a a P 9, 57^b dy holl vocfach di; P 7, 16^a dy ryuic di); Sagamor heb y brenhin. a velly ditheu. beth a wnewch chwi. Arghwyd heb ynteu . . . SG 390 (yn y llu. y mae darll. Potvin 283); chwi aorchymynnysawch ymi anuon yn ysgrivennedic ywch yr hymn . . . Hyspys yw y gwaf i hymny . . . o arch ych tatolyaeth chwi . . . oth arch ti. namyn dirgeled ych tatolyaeth . . . Minheu a gwplaf ych gorchymyn chwi HM II, 189 (Annerch y Brawd Henri i Henri Abbad ar ddechrau Purdan Padrig); os Duto a ryd hoedyl ymi. heb ef. mi a atebaf ych enryded. ac ych rodyon P 5, cxxiii^a (Gwenwlyt sy'n siarad â Marsli ac yn diolch am ei roddion); a govyn idaw pa le y kaffei ef ymcolet ar brenhin . . . kerdwch ragoch heb y marchoc yny weloch llen o bali . . . P 7, 18^a; y2 y g6z aihwneath ar y del6 hom. o2 gell6ch dywedut . . . WM 500; Mahumed ac apolo ar d6yau ereill awyfenethy di udunt ath anrydedho di warfhi ac ath gatw6 d6y6 ganhozh6y y rei a c6playffam ni awch kenad6zi ychwi P 9, 44^b (=P 5, cxxi^b). Ar 6l galw ti lawer gwaith ar Arthur yn SG 192 cawn yr unbennes foel yn 193 yn dywedyd wrtho . . . ual y gwelwch chwi; eto ef a zyd yt heb y blaean gwystlon o veibion boneddigion deocanneib yw d6cyn genwch i ffrainc CwrtM II, 131; omid y raimochi (ei wraig yn siarad â Siarlymaen yn Pererindawt) ib. 72. Ac yn olaf, dyma enghraifft o ferf lu. gyda rhag-enw un.: ac ny elwch di y gwpplav ewo ay kwpplav P 8^b, 14=ac ar ny ellych di . . . P 8^a 16. Gallai elwch, mae'n wir, fod am elwch ac yn wall am ellych, ond -w- a dorrodd y copiwr heb os nac onibai.*

O ba le y daeth y ffasiwn newydd hon i'r Gymraeg?

Fel cyfrwng ymddiddan arferai HFF Ffrainc yr ail berson llu. ond odid yn amlach na'r ail berson un. a chymysgid y ddau rif yn awr ac eil-waith yn yr un ymadrodd. Ymddengys i'r llu. ennill mwy bri fyth yn yr AN (cf. *Le Pèlerinage de Charlemagne* ac enillodd yr arfer o gymysgu'r rhifau hithau boblogrwydd amgen. Erbyn dechrau'r drydedd ganrif ar ddeg aethai cymysgu llu. ac un. yn un o neilltuolion pennaf y dafodiaith hon. Dyma esiamplau nodweddiadol a dynnwyd o'r *Mystère d'Adam* (llsgr. c.1250) lle maent yn niferus: *A m'imagene t'ai fait de tere. Ne me devez ja moveir guere* 'Ar fy nelw y lluniais di o bridd y ddaear. Ni ddylech chwi byth ymryson â mi' 5-6; *Tun seigneur aime e si od lui te tien, Por nul conseil ne guerpisez le mien* 'Câr dy arglwydd a glŷn wrtho, Nac ymadwch â'm cyngor i am yr un cyngor arall' 70-71; *De cest jardin tei dirrai la nature: De nul delit n'i troverez fulture.* 'Dywedaf wrthyt natur yr ardd hon: ni chewch yno ddiffyg dim hyfrydwch' 89-90; *Manjue le, n'aies distance* 'Bwyta ef, na fydded arnoch oim', 275; etc.; etc. Cymerer eto y ddwy esiampl a ganlyn o *Fouke Fitz Warin*,¹ testun a gyfansoddwyd ar y Gororau neu efallai y tu mewn i Ogledd Cymru yng nghanol y drydedd

¹ *Fouke Fitz Warin . . . edité par Louis Brandin (Paris, 1930).*

ganrif ar ddeg (llsgr. xiv): *Dy moy, fet Payn, vous, lede creature* 5; *po9 resembles tu ton pere qu'est si hardy e si fort, e vous estes coward* 14. Y mae yn Boeve yntau niferus enghreifftiau o'r un nodwedion (cf. *que tu me lessez* 1043) a thebyg y ceid wmbredd ohonynt yng nghynddelwau AN *Ystoria Bown, Pererindawt Siarlymaen, Y Seint Greal*, etc., ac awgrymaf mai o gyfathrach â'r Anglo-Normaneg ar lafar ac ar lyfr y treiddiodd yr arfer o roi'r ail berson llu. am yr ail berson un. ac o'u cymysgu i'r Gymraeg.

Fe arferid yr 2 lu. am yr 2 un., felly, ddwy ganrif ynghynt nag y tybiai J. Morris-Jones (WG 270).

(ii) (b) *Ti a chwi.* Yma, efallai, y dylid galw sylw at waith siaradwr yn troi'n sydyn o gyfarch ei gyd-ymddiddanwr ac yn mynd rhagddo i siarad er budd rhywun sy'n gwrandao ac yna yr un mor sydyn yn troi'n ôl i gyfarch ei gyd-ymddiddanwr cyntaf: *affe9 ym byryut yr eilheith a uei thell. thelly ychydic y gellit dy vol6 a mi a v6n beth yffyd yn y r6yfra6. ryiffel neith6yr y kuffeneit dy theic 2571-6*; hefyd o bosibl (gw. n.) yn 3050-3 *os ef a geis dy yrru y ar y tir a ryuu ym tat. i. a phe6 be6n . i. g6edy mynet hyt ar bed6yrannu y mo2 mi a deufaf y nerthu ef ac gynyfkaydu. eithyr hynn nac ymdiret ti y mi byth hyt pan y heydych dy hunan.*

Ni cheir mo'r troad stylistig hwn yn y manau cyfatebol yn B ac nid oes gennyf gof i mi ei weled yn HFF.

§45. Y CYMAL ENWOL

(i) *Arddodiaid Diangen (am ac o) ar Flaen Cymal Enwol.*

(a) *Am.* Ddwywaith neu dair ceir *am* o flaen bot ar ben cymal enwol ar ôl berfaul nad ydynt yn golygu 'gorchymyn': *kelthyd a dythedy ditheu am ey moti yn dzu6nt neu yn rubalt 280 (=LIC)=B 280 mes de ceo mentes tu mult apertement, quant me apellastes ribaud e truaunt; kelthyd a geny am ymoti yn vilein trua6nt 723 (=LIC) (dim cyfatebol yn B); efallai hefyd yn a marth id6w am nath lad6d 2581 (=LIC)=B 2234, ja seit il he de tot ne xus tua; ond dichon mai achosol yw am yn yr olaf.¹*

Y mae'n arferiad yn HFF i ddechrau cymal enwol gyda'r arddodiaid de megis yn os *mismes reprannent de ceu kil uni a tort dit; Fil le conte Aimeri, qui de 60 se vantat, Que icete grant ece qui si bruit en cel val. Qu'il, la fer6it eissir tote de son chenal*; etc. Pery'r gystrawen gyda de mewn bri yn Ffrangeg heddiw: *on ne vous blâme pas de ce que vous êtes allé le soir; il était morifié de ce que cette scène se fut passée chez lui*; etc.² Efallai mai efelychiad o'r gystrawen HFF a geir yma. O ba le bynnag y daw, y mae'n sicr nad cystrawen bersonol i'r cyfieithydd mohoni, oblegid cadwdd y LIC hi bob tro.

¹ Gw. Melville Richards, *Cystrawen y Ffrangeg Gymraeg* (Caerdydd, 1928), t. 137.

² Gw. W. Meyer-Lübke, *Grammaire des Langues Romanes*, III, *Syntaxe*, (Paris, 1906) t. 655.

(b) O. Unwaith (2786) ar flaen cymal enwol sy'n wrthrych berfenw arferir o cwbl afraid: *medylyab a ozuc boón o vynet y ymbelet ar bzenhin* (=LIC). Digwydd *penser de* 'meddwl am, rhoi bryd ar', yn aml yn HFF ac yn B megis yn *si pensunt de fraper* 2339 'rhoddant eu bryd ar daro dyrnodiau'=YBH 2713-15 *medylyab gallel (eu) maedu* (gw. n.); ac yn sicr cyfieithiad llythrennol o'r *de ar òl penser yw'r o* a geir yma ar òl *medylyab*. Atgoffa J. Lloyd-Jones fi y ceir *m. o* yn y Farddoniaeth: *O weddiaw a modd wylaw pawb meddylid* MA² 337^a; *Meddylia oth ra a'th rad i'th brydydd* ib. 340^a; ac o *traethu am a tr. o.* Tueddaf i gredu ddarfod i gydnabyddiaeth y Cymry á'r *de* HFF ffafrio datblygiad o mewn gwahanol gystrawennau.

(ii) *Pwysleisio Rhan o'r Cymal Enwol Drwy (y)taó.*

Pan bwysleisier rhan o'r cymal e., y ffurfiau cysylltiol arferol yw y *mae* (12 waith), *mae* (4 gwaith), *may* (2 waith), ond ceir y *taó* yn 1542 *bei nath lhelón yny díkkyat hón mí . . . a dylbedón y taó* (LIC *panyó*) *ti oed boón* a digwydd *taó* syml yn 3789 *a medylyeit añaeth taó* (=LIC) *hir y buafsei yn llylyab y vzenhinyaeth*. Ni cheir na *panyó* na *panió* (cf. P 14, 171)¹ yn YBH.

Am esiampl gynnar arall o'r cysylltair deheuol hwn, cf. P 45, 60 y *dywaót taó un genedyl oed vey ru. ar bzyttanneit*. Clywir *ta* yn fynych o flaen cytsain mewn rhai manau heddiw. Mewn un ardal, sef ym mhlwyfi gorllewinol Cantref Buellt, arferir *taí*, croesiad amlwg o *ta(w)+mai*.

§46. Y CYMAL PERTHYNOL

(i) *Cymysgu a ac y, yd.*

O'r cymysgu hwn dyry YBH lawer o enghreifftiau a ellid eu chwaneu at y rhai sy'n hysbys:

(a) *Trewir ar y fel goddrych lle buasid yn disgwyl a:*

ae yr ystabyll y doeth ef ac y gytae y daó ef ar o gynylich ar march. y march adyrcheff y dzaet ol ac y trekis (LIC *adzelhis*) *iuo2 yg cledyr y ddlyuron* 1071;

a bzatmóna a ymozdilbedadól a boón ar bën glan ac y dylbot (LIC a *dylkatól*) *ózthaó* 1248-50;

ar gó2 hazyr afluayeid hómno zgyt ac y gilyl ef boón. y dylbot (=LIC) *yn vechl* 1983;

bzice o vzisteu. glóis o gaerloyó. a clarice o leicetre (?a) oed truan ganthunt ac a vynnyni y dianc. ac y dybedaffant (LIC *Ac a d . . .*) *ózth y bzenhin* 3012-15.

¹ Gw. hefyd n. Henry Lewis yn *A Concise Comparative Celtic Grammar*, (Göttingen, 1927), ff. 323-4.

Yn y drydedd enghraifft y tebyg yw i'r cyfieithydd wrth roi'r cysylltiad *y gytae y* yn anacolwthaidd lle saif adael y goddrych *ar gó2 hazyr . . . yn yr awyr, fel petai, yna ei anghofio a mynd yn ei flaen gydag y gytae y* yn uchaf yn ei ymwybod. O'r tu arall, anodd credu y buasai'r cysylltair *y gytae y* sydd mor bell yn ôl yn yr esiampl gyntaf yn aros yn ddigon hir yn yr ymwybod i beri i neb ysgrifennu y *trekis* yn hytrach nag *adzelhis*.

(b) *Ceir yd* (unwaith) ac *y* (yn aml) fel gwrthrych lle disgwylasid *a: nachaf boón yn dyuot yr lle yd adalffei bonfei* 1853;

kanysh ahómó a gallei (=LIC *y g . . .*) *lneuthur y llyó y mynhei* (LIC a *uynnei*) *ar y hóyneb* 3217;

Duó yr hómna anet or vozóyn lhyry . . . ac auu teir blyned . . . ac a dzyk-estaból deugein . . . ac y góerthaóól (=LIC) *itadas yr ideóon* (?'whom J. sold to the Jews' neu ?y=y+y=ae; cf. 3542-7 dan (c) isod) *yr dec arugeint aryant . . . ac a diódefaból agheu . . . ac a uu varó ac a gládyt. ar trydyt dyd y kyuodes* (=LIC) *o veiró. ac y daó* (=LIC) *dydbzaót . . . boet of ath iachao dí . . .* 2802-14; cf. *oz kaffeí veddic y gyuanhei y afébn* WM 141.

¹ Tebyg fod y gynddelw AN y gweithiai'r Cymro arni fel B (gw. isod) yn anwadalu yn y paragraff hwn rhwng cymal perthynol a brawddeg semi ac efallai i hynny arwain y cyfieithydd i amrywio yn yr un modd, peth a helpid hefyd ond odid gan y cymal adferfol *ar trydyt dyd*. Dyma destun B. 2409-19: *Deu vus salve . . . ke pur pecheurs fu de la pucele nez, en la terre seynte trente ans penez, quarante jurs juna pur son poeple salver, pus li trai Judas pur sule trente deners, a Jveys fu baile pur son cors tormenter, en la crois pur nus deignoít morer e pus son cors en sepulcre poser, dedeus les trois jors fu resuscité, a jur de jugement nus vendra tuz juger; cil salt le roi . . .*

(c) Eto, mewn brawddegau annormal yn dechrau gydag adferf deuir ar draws a lle buasem yn disgwyl un o'r geiryddau *y, yd*:

Yna y darchafyffant y fómereu ar y meiryech ac a yfgynaffant (LIC *yd ef.*) *hóynteu* 1742;

ac yna y kyuodes fabot ac a elóis (LIC *y g . . .*) *ar boón ac a erchis* (LIC *yd e . . .*) *idaó talu teymget* 2826-7;

ac yna y tozraffant eu cróyn gra ac a dódaffant (LIC *y d . . .*) *y meibyon ymptyc y rei hynny* 3156;

ac yna y kymerth boón hóynt ac a dzylybóys (LIC *y d2 . . .*) *yn dzyllen . . . ac y deuth iofan ac a gyhyrdad ac aeth ac a aeth* (LIC *yd a . . .*) *dóylaó mynógyl idaó ac y gafynnóys idaó* 3542-6;

ac yna yd yfkyynaóól (LIC *yd aeth boón*) *yr ystauell vzenhinaóól. a góiscóól ymdanaó lluruc a helym dífleidreic ac a búfcaóól mozghei y gledyf . . . ac yd yfkyynaóól* (LIC *a ef . . .*) *ar aróndel* 3591-4;

ac yna y neidaóð kostaócki koch o honaó ac a ffoaóð (LIC y ff . . .) 4163;

Ac yna y peris galó ar yr archeſcob ac a dylbaót (LIC y d . . .) ózthaó 4338¹

(ii) a Berthynol yn Ategu Ry.

Seithwaith chwaneir a berthynol fel cynheiliad at y geiryn ry: *llys a ryfuafſei* 256; *gó2* . . . a *ryfu* 694; *ſabot a ryfuafſei* 2180; *marchaóe a ryfuafſei* 2543; *ffon* . . . a *ryuu* 2850; *tír a ryuu* 3051; *lleóbenyd* . . . a *ryuu* 3478.

(iii) Coll a Berthynol.

(a) Gyda ffurfiau Bot.

Ceir y rh. perthynol a o flaen oed 27 o weithiau, ond hepgorir ef 18 gwaith: a *deló lleó oed yny daryan* 559; a *haner milltir oed yn llet y dóſyr* 1305; *tebic yó y march oed gan bzatmónd vy mraót* 1381; ac y mae'n ab-sennol hyd yn oed yn y cymal gwahansangol á thzannoeth (oed *duó ful-góim*) y *kyuodes* y *bzenhin* 2858; cf. hefyd 2064, 2424, etc. Rhoddyd a gydag oedynt chwegwaith, eithr deirgwaith hepgorwyd hi: ar *pzyueit* hynny oedynt yny ofalu 988; a *phymthec bzenhin a dellynt y danaó ac oedynt* llyr *idaó* 1036; Y lygeit oedynt gymeint ar *dóy ſaóffer wóyaf* 1967.

(b) Gyda berfau eraill.

Collir yr a unwaith: ar *pozth cólis yſtygaffant* cyw. a y . . . 4134 (LIC a e . . .). Cf. yz *honn adornhawó ef o eur ac aryant* P 7, 50^b.

Gwaith copiwr yn ymddrysu yn nhebygrwydd y rhagenw i'r llafariad ddilydol, bid sicr, yw'r esboniad yma.

(iv) ac a gyda gwerth Rhagenw Perthynol.

Ymddengys y digwydd ac a gyda gwerth rh. perthynol syml yn ae *ryuéllyr yóch* i ac *agymero da yr ryóbelu* 2285.²

(v) Cymal Perthynol Traus yn Dynodi Amser.

Cf. *yſruan aamfer ym ganet* i 1533; ar *amfer da a deuth y ganet deu* vab *idi* 3138; etc.

(vi) Ffurfiu Abladol yn Dynodi Amser.

Cf. Y *perthryd dyd yd yttoed ef yn kerdet y ghelei palmer* 859; á *noſleith* yd oed ef yn *kyſgu* y doeth *pzyf gbenóynic* . . . ay *vzathu* 1011.

¹ Am enghreifftiau chwaneol ac esboniad Henry Lewis ar y pwynt hwn, gw. *Dedu y Bys* (Caerdydd, 1928), t. 126; BrDg, xxxviii; *A Concise Comparative Celtic Grammar*, t. 244.

² Ar y gystrawen hon, gw. Henry Lewis, BHCs, X, tt. 300-1.

(vii) Rhagſlaenyddion Arbennig.

O safbwynt hanes yr iaith efallai y dylid crybwyll yma y trewir ar y *gó2*, *gó2*, yr *hóm(n)* yr *hon(n)*, etc., eisoes fel rhagſlaenyddion i'r rhagenw perthynol a:

(a) (i) y *gó2* a: *ieffu griff* y *gó2* a *diódefaóð* 796; *arglóyd vzenhin nef a dayar* y *gó2* am *ghnaeth* 1085; *garſi* y *gó2* a *dyllyei* 1745. Cymh. *duó* . . . y *gó2* a P 9, 9^b; *uab duw byw y gur* a P 14, 155; *iesu grist or nef y gur* a SG 62; *duó y gó2* a RBB 189; P 10, 5^a; etc.

(ii) *gó2* a: ddwywaith gadewir y fannod allan: *gióm iarll gó2* a *las* 2132; *copart gó2* am . . . 2355.

(b) yr *hóm(n)* a: *Duó yr hóm* a *anet* 2802; *gióm* . . . yr *hóm* a *garut ti* 2820; a hefyd yn 2874, 3048, 3305, 3481. Ceir y *rei* a yn 2781; arferir yr *hóm* a ac y *rei* a hefyd o flaen y ffurfiau traws yn 2948, 3963, 1163. Y mae'r SG yn dryfrith o enghreifftiau o yr *hwann* a, etc. (cf. 31, 35, 43, etc.).

Ni welir yn YBH yr un esiampl o'r rhagſlaenydd *hóm*, *hyn*, etc., heb yr (ar batrwm *que am ce que* yn HFF) megis yn *ethol hwann* a *vynnych* P 8^b, 14; *ozody ditheu idaw ef hyn a edeweiff* P 7, 26^b; a *phan wybo hynn* a *oed yny llythyr* P 8^a, 57; etc.

(viii) Rhagenw Perthynol gyda Rhagſlaenydd Awgrymedig.

Digwydd llawer enghraifft o a lle na cheir rhagfl. wedi ei fynegi'n ffurfiol a byddai efallai yn werth dyfynnu'r geiriau HFF a geir yn *Borew* gyfarwyneb ag a:

a *vynhei gret* . . . ac a *vynhei heb ohir* y *vedydyab* 4149-50=B 3656-7 *Ke cristienté voit aver . . . il fuit baptiser* 'Y neb a fynno gael Cristionogaeth . . . hwy a'i bedyddiant ef';

ef ae *byzyabó* a *gyhyrdaóð* ac ef 3602 (LIC a v . . .) (dim pendant yn B);

ofit yt a *holych habó* 343=B 343 *quei demaandez tuz?* 'beth a holwch chwi?' (gw. n.);

mil o lurygeu da gloyóon ac a *berthyn* o *helmen* 3760=B 3293-5 *quinz* *mil de blanc haubers* . . . et *autretant de* . . . *heumes* 'pymtheng mil o lorigau gwyn a chymaint á hynny o helmau';

duó ath iachao diac a gerych 3424=B 2976 *Deu eus saue e han he eus avez!* 'Duw a'ch achubo chwi a'r cwbl oll a feddwech!';

a *menegi idi* a *ryóhelfei* 3912 (dim pendant yn B 3441).

Cf. *hyt na cheffóch byth óerth vn geinabe* ac *yffyd yny dzef* 3277 (arall yw darll. B); yr *yffyd yiti ny ónatein á* hynny 3317=B 2876 *jeo ne le frui par han he eus avez* 'nia gwnaf er y cwbl oll a feddwech'.

Ai yma y perthyn a *chopart* a *gigleſfi yó y enó zó2?* Cf. *heróyd* a *gigleſfi*. 3132.

§47. RHAGENWAW AC ANSODDEIRIAU GOFYNNOL

(i) *y py dió*. Yn yr enghraifft a ddyry YBH o'r hen gyfuniad hwn dengys yr y fod yr ymwybod o'i werth datif ar drai: *Edzychŏch heb y bobn y py dió yd oedeŏch yn credu* 4164=B 3668 *Ore veez, dist Boves, en cui* (llsgr. ky) *estes creant* 'Now, just see, said Bown, in whom you are believing'. Cf. *Otuel: ni a adnabyđon y bydiw y bo gorderch dec idaw* YCM² 49=*Otinel* 199 *Lá verra on cui* (llsgr. qui) *aura belle amie* 'There we shall see to whom there will be a fair paramour'; *A hir y buant heb oybot . . . y bydió y dam-ŏinhei y uuduŏgolyaeth onadunt* RBB 162. Yr esiampl yn YBH yw'r gyntaf y gwn i amdani i chwaneu y a'r gyntaf efallai i rannu'r gair. Ysgrifennir yr hen enghreifftiau i gyd ynghlwm (*pađiu, pađyđ, pyđiđ*, etc.) ac ni cheir y nes dod ohonom ymlaen i'r testunau a nodwyd uchod.

Dichon mai gwaith yr arddodiad y 'to' yn ymestyn ei ddylanwad yw'r esboniad. Dylid, serch hynny, gadw mewn cof mai'r gair cyfystyr a arferid yn Hff oedd *cui* 'to whom' (o'r datif Lladin *cui*), gair a ddefnyddiwyd hyd ail ran y ddeuddegfed ganrif heb yr un arddodiad i'w helpu: *O filz, cui ierent mes granz eredites, St. Alexis*, 11.401 'O fab, i bwy y bydd fy etifeddiaethau cang?' *Cil cui vos obeissex* Villehardouin § 146, etc. Eithr tuag ail hanner y ddeuddegfed ganrif ac yn enwedig wedi i'r Rhediad Enwol Hff ddechrau dadfeilio, aethpwyd i roddi arddodiad yn gynheilid iddo a cheir a 'to' yn fynych o hynny ymlaen: *Diex a cui il s'atendoit* Joinville § 16; *ceux a cui joustice apartient* ib. § 824; *Li dus a cui samble mout grief, La Chastelaine de Vergi* ll. 141; *vostre oncles a cui est donnee, Le Vair Palefroi* ll. 789; etc. Ni byddai'n rhyfeddod yn y byd gweld y cyfieithwyr o'r Hff o leiaf yn troi *pydió* yn y *pydió*, y *bydió* ar ddelw *cui* yn mynd yn *a cui* yn yr iaith arall yr ymgydnabyddent a hi yng nghylchoedd bywyd beunyddiol.¹

(ii) *pan . . . pan*. O'r gystrawen: *gofyn yr mab . . . o ba le pan hanoed . . . o loyyr pan hanbyf* 378-85, gyda *pan* yn y cwestiwn a *pan* yn yr ateb, dyry YBH bum esiampl: 876-8; 1509-11; 2129-30; 2280-81. Ond deirgwaith nid ailadroddir *pan*. Yn ei le yn 1663 gwelir: *mi a deuthum o nubie* ac yn 2324: *o hamton byf* i. Yn 2076 ni cheir yr un ateb i'r cwestiwn. Yn 3281, mewn brawddeg anunion, ceir yr ail *pan* heb y cyntaf. Yr oedd y gystrawen hon, gan hynny, yn colli tir.

(iii) *póy bynnac lbreic*. Peth na sylwais arno yn unman arall yw rhoi'r enw ar ôl y geiriau *póy bynnac* yn hytrach na rhyngddynt²: *póy bynnac lbreic y bei y ghwregys hōnnó ymdanei ny dđodei óz o2 byt y laó erni er y chllenychu* 1047; ac awgryma gwaith y LIC yn cadw'r drefn heb ei newid nad gwall copiwr mohono. Ni cheir dim pendant yma yn B 1002, eithr ymddengys y gystrawen *póy bynnac + enw + y* (r.pth.) fel graffitiad ar y gystrawen Hff *quel(que) + enw + que* (r.pth.) megis *En quel(que) leu que ele*

¹ Gw. J. Strachan, *An Introduction to Early Welsh* (Manchester, 1909), tt. 48-9; J. Morris-Jones, WG, t. 293; K. Nyrop, *Grammaire Historique de la Langue Française*, II, t. 404; L. Foulet, *Petite Syntaxe de l'Ancien Français*, tt. 178 et 180.

² Am rai tueddiadau deheuol yn hyn, gw. J. Morris-Jones, WG, t. 293.

soit (llythr) 'ymha bynnag le y bo hi'; Chrestien de Troyes, *Chevalier au Lion* ll. 4346; *En quelque leu que il alassent* Villehardouin §13; *an quel que leu que vos ailliez* Chrestien de Troyes, *Li Contes del Graal* 597-9.¹

(iv) *Rhagemcolion*.

Sylwer ar yr *vn . . . y gilid=y neill* (lleill) . . . y llall; y *dyllat* yr *vn ózth* y *gilid* 3812, cystrawen sy'n debyg i efelychiad o'r Hff *l'un . . . l'autre*; cf. B 3346 *Dist l'un a l'autre*.

§48. ADFERFAU

(i) *Negyddiaeth*.

Hyd tua'r ddeuddegfed ganrif, yn fras, mynegid negyddiaeth yn Hff drwy arfer *ne* syml gyda'r ferf. Yna aethpwyd i gryfhau'r negydd hwn drwy chwaneu geiriau cyflenwol fel *pas* 'cam, step', *point* 'pwynt', *mie* 'briwsionyn', etc. Ond dulliau ymadrodd yn dynodi swm neu faint negyddol oedd y rhain. Yn fuan wedyn, ac yn sicr yn hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg, daeth i fod ac ar raddfa eang ddulliau ymadrodd negyddol a fwriedid i ddynodi ansawdd. Mynegid y syniad gwael a goleddai dyn am ddyn, newydd, etc., mewn pris pendant eithr gwatwarus iawn trwy ddefnyddio enw peth dibwys a rhoi o'i flaen bron bob tro y fannod amhendiant (*un, une*) er mwyn pwysleisio ymhellach ddiwerthedd y gwrthrych y cyfeirid ato. Yr enwau mwyaf arferol oedd *aguille* 'nodwydd', *ail*, *alie*, 'garlleg', *bouton*, *butun*, 'botwm', *cive* 'math o wynwynyn', *den*(*ter*) 'ceiniog', *esperon* 'ysbardun', *festu*, 'gweltyr, blewyn (o borfa)', *figue* 'figysen', *g(u)ant* 'maneg', *nois* 'cneuen', *oef*, *uef* (ll. *oes, nes*, etc.) 'wy', *paris* 'ceiniog Paris', *peis*, *pois* 'pysen', etc.²

Wedi i'r pryd bywyd yn y cestyll gerdded ymhell a thra oedd y gwahoddedigion yn aros yn llawen am y seigiau *de luxe* (ceid llawn ddwsin o seigiau ymhob gwledd), ymddyfnyddid yn aml mewn chwarae bach lle'r esgus fynegai'r naill ei ddirmyg at y llall drwy arfer termau negyddol fel y rhai a ganlyn: 'Rhoddaf gymaint o bris arnat ti ag ar chwarter cneuen ac nid wyt werth un geiniog, un bysant, un geiniog Paris, etc.', chwarae a droi o bryd i'w gilydd yn chwerveidd.³

Buasa'r chwarae hwn, yn bur sicr, yn help i wneuthur termau negyddiaeth Hff yn boblogaidd ymhlith pendefigion Cymru. Pa sut bynnag am hynny, un o newidiadau cystrawennol amlycaf CymC yw gwaith y cyfieithwyr yn trosi'n llythrennol i'n hiaith ni yr arfer Hff o chwaneu'r enwau cyflenwol hyn wrth fynegi negyddiaeth. Arferid cryn ryddid gyda'r rhain a bydd fersynau o'r un stori yn fynych yn defnyddio termau gwahanol. Felly, cawn *Boeve* 1060 mewn un llsgr. yn

¹ Ar y gystrawen Hff, gw. A. Darmesteter, *Cours de Grammaire Historique de la Langue Française*, IV, t. 16; L. Foulet, op. cit., t. 190.

² Cf. L. Foulet, op. cit., tt. 282-4; F. Brunot, *Histoire de la Langue Française*, I, t. 258; G. Dreyling, *Die Ausdrucksweise der Uebstribenen Verkleinerung im Altfranzösischen Karlepos* (Marburg, 1888).

³ Gw. León Gamiar, *Chevalerie*, t. 641.

rhoi . . . *un oef pilé* 'un wy piliedig' ac mewn un arall yn rhoi . . . *un dener demoné* 'un geiniog fath'; etc. Petai'r cynseiliau HFF y troswyd ein testunau ohonynt ar gael, y tebyg yw y caem gyfatebiaeth go lythrennol rhwng y termau cyfnerthu yn y ddwy iaith. Eithr yn y cynddelwau sydd yn aros ceir bagad o esiamplau lle mae'r gyfatebiaeth yn yr ail dem yn llythrennol ddigon.

Yn YBH digwydd trosiadau o bump o'r termau HFF, sef yw'r rheini, *aguille*, *dener*, *gant*, *oef*, *parsis*:

aguille: *ny chebch om da vryth ðerth vn notlbyd* 623 ac, yn gyffelyb, yn 1229. Eithr yn y gynddelwau sydd ar glawr cyfwerthedd 623 yw *ne averez* . . . *le vailant d'un parsis* B 608 'ni chewch . . . werth un geiniog Baris' a chyfartal 1229 yw *ne averez* . . . *vailant un festu* B 1169 'ny chewch . . . werth un gwelltyn';

dener: B 2441 *Ne requer de le ton le vailant d'un dener!*=*kany cheiffeis .i. genthi gœrth vn geinaic* 2838. Ceir y gyfatebiaeth hon bedair gwaith, sef yn 1110, 2838, 3239, 3277=B 1060, 2441, 2806, 2840;

gant: B 1797 *jeo ne me preyse le vailant de un gant*=*ny volaf fuhunan ðerth vn uanec* 2009;

oef: B 1060 *n'en durrai jeo mie vailant un oef pilé*=*ny rodôn yrof ôy pil-tedic* 1114;

parsis: gw. uchod.

Cadwodd cyfieithydd *Otinel* lawer o'r termau hyn:

alie: O. 143 *ne valt pas une alie*=*na thal vn arlegen* YCM² 48. Cf. ib. 70 (lle ni cheir ond ne . . . nient yn O. 819) a 113;

bouton: O. 62 *Ne vos prise .i. bouton*=*nys careief o werth vn brotton* YCM² 44;

denier: O. 1689 *Ne li valut . . . un denier*=*na thalwys . . . idaw vn geinaic* YCM² 100;

esperon: YCM² 93 *na thal . . . werth un yspardun*. Arall yw'r darll. yn yr *Otinel* a gyhoeddwyd, sef *Ne vauti. deners monéz* 'nid yw werth dwy geiniog fath' O. 1443;

darll. petrus, y digwydd *march* am *somer*. Yr hyn sy'n ddiddorol yw na welir *ceffyl* yn unman yn YBH. Llawn mor ddiddorol yw nodi na fenthycwyd yr un esiampl o *destrer* na *cheval* yn wyneb tair enghraifft o *palfrei* (849, 854, 2519), tri o *sómer* (1724, 3512, 3758), un o *rómff(eit)* (2912) ac un o *mul* (2089). Ymddengys oddi wrth hyn mai *ceffyl* brwydr a thaith yn unig oedd yr *amós* ac mai i hynny yn bennaf hefyd y defnyddid y *march*, er y disgwyliid i hwn wneuthur gwaith y *runcil(n)*, a'r *somer* yn ogystal, ochr yn ochr â'r gaseg, mae'n debyg. Ni cheir yn YBH yr un cynnig i gyfleu lliwiau'r meirch rhyfel megis y gwelir yn *Kulhwch: ar orôyd penlluchloyt = sur un fer(r)ant* (gw. M. Watkin, BBCS, xiv, 14-5). Y mae lle i greu nad ymddiddorai'r troswr ym mater *ceffylau* (gw. §6, (ii)). Y tu allan i YBH noder *march* arueu SG 58 = *destrier Queste* (S) 64 a *gwagwynwarch* SG 223 = *destrier Potvin* 62 a *gwafelcyn* WM 253; *hacknei* SG 59(3), 252 = *roncin Queste* (S) 65, *Potvin* 96. Oddi wrth dair enghraifft yn *Historia Peredur* gellid meddwl, serch hynny, mai *ceffyl* y gelwir yr anifail a wnaï orchwylion o isel radd yn y cyfnod hwn; cf. y *heffyleu* a gywedei gymmut *udunt*. *Ac a dygei blyt a llyn o2 kyfanhed yr ynyalch. A cheffyl bzychaelô yfycznic kryfaf atebgei agymerth* WM 119. Am yr anifail hwn y dywaid Kai yn WM 122 *ry aghyweir y doethof* o *varch ac arueu*. Yng nghyfreithiau Hywel Dda, Dull Dyfed, yr oedd y *sómer-varch* (< *somer = swmer* 'pwn' + *march*) radd yn is na'r *rónsi* ac o lai gwerth yn y farchnad; cf. XIII *Rónsi wheugeint atal*. XIV *Sómervarch petuar rgeint atal* AL, I 570. Yn y Gogledd, o'r tu arall, yr un oedd eu gwerth: *runcy neu sumner-uarc cxx a tal* LIDW 31b; ac efallai y cymysgid galwedigaethau'r ddau hyn, ohlegid ceir yno *geffyl* is ei radd fyth: *gweyntuarc*. lx. ib., id.; AL I 262 *Gweyntuar-arch* (a *lusco harr ac oc*) *trugeynt*.

103. *a dybedut idi*. Gthg. y *dylbaót órth* 115, 2541, etc., a gw. yr *Eirfa*.

104. *archyffei cyw. archaffei*. Am -*aff*- ac -*yff*-, gw. §31, A, (ch), (ii).

105. *yn oet y dyd*. RW 'on the day appointed'; awgryma B 114 *a memes le jur* ei fod yn agos i'w le. Tuedda J. Lloyd-Jones at 'yn ystod y dydd (apwyntiedig)'.

110. *a llathen uu hitheu o2albenis*. B 118 *grant joie ad demend* 'displayed great joy'. Dan *alacer* dyry TW *goravenus, llawen, calonoc . . . bycioc o yfpryt ne fymnyr . . . ac o dan laetitia*, rhydd *hoen, digriftoch medhul, gorhoen yn y medhul*; yn gyffelyb D a TR. Ymddengys felly ein bod yma eto wyneb yn wyneb â phar o'r cyfystyron sydd mor gyffredin yn YBH (gw. n. ar 19). Yn SG 57 cyfetyb yn *llawen oravenus i lies et ioiaus* 'joyful and glad' *Queste* (S) 63, a cheir y ddeuir gyda'i gilydd yn WM 89; P 5, cxxxix; P 9, 12b; etc.

111. *a ryôy2 genthi ydoei oed y dyd* 'and too slowly to her mind the appointed day approached', nid 'and too slow in her opinion was the day appointed' RW; gw. n. ar 105.

121. *pei hatm beth o gie y baed coet yn ir*. Am enghreifftiau pellach o'r fannod gydyd enwau yn dynodi dosbarth, gw. §39, (iii). B 129 *char fresche de sengler*. Yn SG 252 *narch coet* ac yn SG 206 *moch coet* a geir am *cengler(s)*, *Potvin* 96, 44; cf. *narch* P 10, 32 = *hach* YCM² 39 = *porcinam*, Meredith-Jones, HistKM 177; cf. *moch* (-yn) *ôd* 'wood lice' ym Morgannwg. Arferir *baed* = 'wild boar' RBB 340.

123-4. *pa le y heit kyunt ar voad coet. Cael cyfod ar un* 'to know where one dwells or is conversant' TR; B 132 *vozes vas ou jeo purrai un sengler troveri* 'A wyddoch chiwi pa le y gallwn i gael hyd i faedd coed?' Cf. *Goddoch chi ble gallen ni godi* (gwmi) *sgwarnog?* cf. 59.

Y mae awgrym yn un o lsgrau *Sir Beues* yr edrychid ar gig y baedd coed fel meddyginiaeth ar gyfer clefydau neilltuol (cf. *Sir Beues of Hamtoun* edited by Eugen Kölbing, EETS, II, 229). Yr oedd cyflawnder o gig hallt yng nghestyll yr oesoedd canol a chyferbynnir *char fresche* 'cig ir' â'r cig hwnnw o bryd i'w gilydd yn yr hen gerddi Firangeg. Hoffai'r ieirll yn anod dim gig eu helfeydd eu hunain a hoffaf cig yn y byd ganddynt oedd cig y moch gwylt, y *beid coet* a helient gyda phleser mawr; gw. L. Gautier, *Chevalerie* 183, 703, 833.

134. *y kymerth y daryan*. B 139 un *escu a son col*. Tybiaf i'r gair *tarian* a fenthycwyd (tua'r ddegfed g.) o'r Norwyeg *targa*, neu'r HS *targe* -a (cf. EEW 33) ac a olygai 'round shield' fynd i olygu 'shield' yn unig megis y digwyddodd yn HFF Lloegr i *targe* a fenthycwyd o'r un fynhonnell. Yn Ffrainc gyfandirol pan gymerth y darian hirgron (tua XII) le'r darian gron rhoddwyd heibio'r hen fenthyciad Tiwtoneg ac aethpwyd i bwysu fwyfwy ar eiriau fel *escu(t)*. Yn gyffelyb, buasid yn disgwyl i'r Cymry wrth fabwysiadu'r arf amddifyn yn ei wedd Ffrengig newydd roi heibio'r benthyc Tiwtoneg a chymryd amdano un o'r enwau a roddid arno gan ei ddyfeiswyr. Rhwystwyd hynny, gellid meddwl, gan waith HFF Lloegr yn glynu drwy gydol y ddeuddegfed ganrif at *targe* (cf. *La ChdeR*) yn hytrach nag arfer *escu(t)*, etc., i raddau mwy; (cf. *Boeve* 218 *la targe nocele*). Eto i gyd, anodd credu na ddaeth i'n rhan rai geiriau o'n cyswllt â'r arf newydd. O'r llinau niello a roddid ar y darian hirgron yr aethpwyd, mi gredaf, i alw *tarian* yn *eurgrwydyr* (am es., gw. G), a thybiaf mai o'r HFF *ais, aes, eis* 'board(s)', asgwrn cefn y darian, y daeth *aes* i'r Gymraeg; cf. Ste-Palaye: *On faisait ordinairement les écus, les boucliers d'ais ou d'ès jointes, que l'on couvroit d'un cuir*. Rhan amlwg o'r darian oedd y *boucle, boele, bougle* 'partie centrale d'un bouclier' (Godefroy), cf. *bogel* YCM² 70 (*Otinel*, t. 29 *bucle*), WM 7; b. y *dar*. WM 7, YCM² 70, etc.; ac o'r buchigyn *boquete, bouquete*, etc., a olygai'r un peth, y daeth *bucted* atom. Efallai hefyd i'r HFF *escu(t), escu(t)* helpu i gadw'n fyw yr hen air Cymraeg *ysgwyt*.

137. *yd aethant tu ar ffozeff*. Darll. *yd aeth* ac anwybydder 'they' RW.

142. *dyret hengleirych ragot*. B 145 *Venez, veillard, avaut*. Cf. TWD d.g. *decrepitus* 'henaidd, hen ddynaid . . . cleirch . . . hengleirch'; a d.g. *capularis* 'a fo ymron ei elor, ym min ei bwll; hengleirch'.

149. *lluoffogryd o gedernyt*. B 157 *si nus fusinus plus compainnus* 'pe baem ni yn lwy o gymdeithion'.

150. *yfcaelus a beth oed gennyf*. B 158 *vostre menace préiserei petit* 'ychydig o bwys a roddwn ar eich bygwth'. Am esiamplau pellach o *oedd* = *byddai*, gw. *Bot* yn yr *Eirfa*.

159. *tunnu*. Tebyg fod y ac v bron yn unfurf yn un o'r cynseiliau megis y maent yn LIDW, etc. (gw. ar 336-7) ac i dafodiath y copiwr olaf ei helpu i fynd ar gyfeiliorn, gw. §6, (i), 3.

161-3. *y kyuodes petharcant marchaoc y vynyd*. Ni ellir derbyn 'four hundred horsemen arose' RW, fel y dengys *B mes set cent chevalers vindrent dunc poinaunt*. Ystyr *poindre* yw 'rhuthro ymlaen' a dyna'n sier yw meddwl *hyuodi y vynyd* yma ac yn 175. Cf. hefyd 214 *Sef a linaeth datmaeth y mab . . . kyandi y vynyd* = B 223 *Le mestre a le enfant est sailli avaut* 'Tatmaeth y llanc a lamodd ragddo'. Digwydd *hyuodi* yn 139 gyda'r un ystyr: *y kyuodes yn amheradodyr oe lechua* = B 144 *e lui faus emperur est sailli avaut* 'a'r flais ymherodur a ruthrodd ymlaen'. Cf. hefyd 307, 324, 341 a WM 7 *marchaoc a gyuodes y vynyd* 'a horseman came

forward, approached'; WM 211 *nachaf ynteu yn kyuot* 'and he came forward'; etc. Camgyfieithiad RW ond odid a wnaeth i Kölbing ddywyded: 'the whole passage being evidently corrupt in the Celtic', *Beues* 232.

172. *y holl gyfoeth*. B 184 *Quant ke ai par mi le mund* 'y cwbl a feddaf yn y byd'; felly, *kyfoeth*, debygid, eisoes yn yr ystyr sydd iddo heddiw.

175. *a chyuoet y uynydd*. Gw. n. ar 161-3.

182. *affryfla yn erbyn yr anheraôdyr* 'brysia i fynd i gyfarfod â'r ymherod'. Cf. y priodd-dduill Ffrangeg *aller, venir, à la rencontre de qn.*

185-6. *yn priodas an neithyaôz*. Deuair cyfystyr yn fynych; cf. *nuptiae* . . . 'priodas, neithiawr' TW; *nuptus* 'priodas, neithiawr' ib.; *nuptialis* . . . 'a berthyn i briodas neu neithior' TWD. Un gair sydd yn B 204 *demein fram les noces*; ceir yr un gair, *nueches*, yn *Queste* (F) 113 am *neithyator* SG 79, ond yn 134 digwydd *nueches et feste* am n. SG 89; ac eto *feste* yn unig yn *Queste* 142 gyferbyn â y *neithyator ar wled uawr* SG 93. Awgryma *woozy* mai pâr o gyfystyron sydd yma hefyd, ond dichon mai 'yfori ni a wnawn ein priodas ac a ddechreuwn ein gwledd' yw'r ystyr, golygiad a ffeifrir gan *hyny el y pymthec niwbarnaôt hyn heibyaô* 240 a chan 255-9. Y mae'n sicr yr arferid *neith(y)aôz* fel cyfartal *gwledd* yn nhestunau'r cyfnod canol, cf. y *ulôdydn homo y pziodes henri vzenhin vech iarff pziouns*. Ac y *gônath y neithaôz yn llundein y nadolic gôedy kynnullaô efcyb a chamuôyaf leivl a barneit Hoeger* yzyt RBB 367; *Ac yna y gônathôlyt pziodas llywelyn ac elianoz yskaer wynt. ac etwart vzenhin Hoeger yn cofi y wled ar neithaôz* RBB 381. Rhwng Llŵchwr a Thawe, ddeugain mlynedd yn ôl, math o 'meat tea' oedd *nithor* a gynhelid bob noswaith waith am bythefnos neu fwy ar ôl priodas yn nhŷ rhieni'r eneth er mwyn helpu'r pâr ifanc i brynu dodrefn neu 'stafell'. Weithiau cynhelid 'cwrw bach' ynglyn â'r neithiorau hyn, hynny yw, gwerthid cwrw heb drwydded i'r sawl a'i mynnai. Arferid hefyd y gair *paste* am *nithor*, ac yng Nghwm Llŵchwr clywid *medd* am yr un peth.

191-3. *llewein yn uchel ac ôlyyaô*. B 209 *plure a mout haut soun* 'wyla â llef uchel'. *Llewein* yw gair cyffredin y De am *wylo* a dengys yr esiampl a geir yma fod yr ystyr yn hen. Ei ddeall yn ei feddwl gogleddol a wnaeth i RW roi 'cried out' yn ei drosiad.

Am yr arfer o ddefnyddio cyfystyron dyblyg a thriphlyg yn YBH, gw. n. ar 19, 110, 184, etc. Am yr y yn -yô, gw. I *Gytsain* dan *Orgraff*, §18.

194-5. *oi a buttein dzuan pziouadly*. B 211 *Pute ordre prové*. Cf. hefyd *pziouadly* 715=B 699 *reprové*; 4032=B 355 *esprové*; yn SG 312=*bien séu et esprové* Potvin 179; *credadwy: ony bei gristawn credadwy* SG 333=*se il ne crut fermement en Dieu* Potvin 204. Dangosir cyfystyriaeth -adwy ac -edig hefyd yn y geiriaduron; cf. *Probatas* . . . 'profadwy, profedig; a gafwyd prawf ohonaw' TWD. Digwydd yr un gyfystyriaeth yn HFF rhwng -able ac -(e) (<atus, -ata). Tybed a allai'r arfer Gymraeg o roi -adwy am -edic fod yn efelychiad o'r fflasiwn HFF o ddefnyddio -able am -(e)?

197-9. *a gflaw sinneu pan wodes yr arglôyd duô y y pzyt ar llawyn yn gyndecket ac y wodes*. Cf. *a dylhadu y wot ef yn warchaôz deôz pan enillei ef y ryô llus hânô* 2175=B 1936 *ore sui ben ke was estez chevaler menbré, quant tele garson avez gwyné* 'yn awr y gwyr i'n dda eich bod yn farchog dewr gan i chwi ennill y fath was'. Ochr yn ochr i'r ystyr 'when', medd *quant* yn HFF ar y meiddwl 'since, as' ac ymddengys i gyfieithydd YBH yn y ddwy enghraifft uchod (ac o bosibl yn 3035)

drosi i *pan* yr ystyr 'since' o'r *quant* a oedd o'i flaen. Fel rheol, cyfieithir y *quant* hwn drwy gysylltiad achosol megis yn *Achan ys kymereisfi cy mam i y dzeis a llad vynhat oe hachos hi. mi a Onaf* . . . 293=B 204 *e kaunt a moi ne volez congé demaunder, jee vos frai* . . . Ceir esiamplau eraill draw ac yma o *pan(n)* 'since'; cf. e.e. *py gyfryô ôz yô atôch tat chwi pan allo lleaffu patô uelly* WM 152.

y pzyt ar llawyn. B 214 *mar fustes a bele* 'gwae dithau dy fod mor brydfert'; cf. *ny bu a ellit y chyffelybu idi o bzyt a llafyn* SG 373. B 371-5 *il out une file, que bele fu e sage . . . plus fut ele colouré he rose en umbrage . . . Mes si bele ne fu en secle donk vicaunt* 'yr oedd iddo ferch deg a chall . . . tecach o bryd na'r rhosyn yn y cysgod . . . nid oedd neb cyn deced yn byw yn ei hoed'. Os yw *llawyn* yn ddilys, dichon, yn wyneb lluosogrwydd cyfystyron yn YBH, mai'r un ystyr sydd iddo ag i *pzyt* ac y gellid deall 'pryd a thegwch' (cf. *pryt a thegôch* Ll I, 40). Ond gan na ddigwydd *llafyn* yn y geiriaduron nac yn unlle arall, hyd y gwn i, gomau peth o bosibl fyddai darllen naill ai *flawyn* 'genau; ymadrodd' neu *llatyn* o'r HFF *latin* 'gair teg; cyfrwystra; cynllwyn'. Yr oedd *f* hir yn ddigon tebyg i *l* weithiau; cf. *floryata* SG 45 am *floryata=hebergie* *Queste* 60; *hoefleu* am *hoefleu* LIDW 13; *prol* am *prof* GrapC 138; *ef a wef yn lle ef awelef* WM 642; am yr ystyr 'genau; ymadrodd', cf. y Lladin *os, oris*. Eto, digon posibl oedd darllen -*ti*-fel *u*, canys yr oedd yr arwydd *t* yn fyr iawn mewn rhai llythrennau a dau ohonynt yn ddigon tebyg i *u*. Nid yw'r *tt* am *t* seagl o nemor pwys, achos fe ddyblid cytseiniaid yn hollol fympwyl yn AN ac yn Gymraeg hefyd o ran hynny; er ail hanner y drydedd ganrif ar ddeg yr oedd y am i yn ddigon cyffredin yn y ddwy iaith; cf. YBH *llyt* (*llit*) 330; *llyô* (*llio*) 3217. Yn LIDW; P 3; P5; Ll 1; etc.; heigia *y=i*. Sieryd *sage* 'call; cyfrwys' yn B o blaid *llatyn* a'i ystyron. Tueddaf fannau at y naill neu'r llall o'r ddau ddarll. olaf heb allu dewis yn bendant rhyngddynt.

212-4. *fabaath oed y enô . . . oed*. Darlener y geiriau hyn fel petaent rhwng cromfachau.

217. *mynnu mynyt ar mab*. Darlener *m.mynet*, gyda'r LIC.

221. *neu ditheu a grocker neu a viliger yn wyô*. B 230-1 . . . *que tu fras uncore lui le enfant tuer, lequed tu vodras, pendre ou eschorcher* . . . 'y peri y dydd hwn ladd y plentyn, yr un a fynnych di, drwy ei grogi neu ei flingo'. Somnir am yr un dewis yn 1090 *namôyn wygrogi neu wy mligat*—B 1044 *he jee ne sei fet pendre ou vif eschorcher*; cf. hefyd 338 *Mi a baraf dy ôllygô neu dy* (llsgr. *ath*) *lofgi*—B 339 *vus serrez ars ou pendu* 'fe'ch llosgi neu fe'ch blingir'. Myn Kölbing (*Beues* 234) i'r cyfieithydd canoloesol gamddeall y gwreiddiol, ond y mae gwaith hwnnw yn ddifai. RW sydd i'w ficio. Am ryw reswm neu'i gilydd, ceir cymysgedd ryfedd o'r cyswllt hwn yn HM II, 519, IV.

222. *a mineu arglôydes aônaf hynny*. Rhodder gwahannod o boptu i *arglôydes*.

223. *y mab a gymmerth faboth*. LIC *Sabaath a gymmerth y mab*. B 226 *En ses bras prist le enfant*.

226. *hêch*. B 234 *porc* 'mochyn'. Cf. YCM² 39 *huch=twrch* P 10, 33^b=*porcina* Ciampi 57. Gw. n. ar 121.

227-30. *a chymryt dillat y mab oc ôlychu . . . ne bôzô*. LIC ar *gôlychu*. Yr oedd *dillat* yn y cyfnod canol weithiau yn un., weithiau yn ll.; cf. *ayllat eurynef er hun y penytio endan* LIDW 118; *ac aêch idaw dillat o yagarlat affyryr o grwyn gra yndant* SG 211. Dichon fod yma adlais o'r gwamalyrwydd hwn. Onid e, rhaid tybio un o ddeubeth: (a) i ryw gopŵr ddarllen *bôzô* yn *be wôzô*;

neu (b) iddo gymryd *blŷychu* = *glŷychu*. Ysgrifennid *b* yn unwedd *â* *v* yn fynych yn rhai o lsgrau'r drydedd ganrif ar ddeg, cf. LIDW *eblydŷyn* 4b, *duybluyt* 7a; Ll I y *brat* (y *vrant*) 27, *Ren paladyr bras* 32, etc.; P 5, viia *crift bab dau*; *dy bŷyt* SG P II, 147a; a cheir rhai olion yn YBH: *dec vzenhinaeth* 704 = LJC *dec b2* . . . ; y *vydinoed* 3616 = LJC y *b* . . . ; *mamraont* 1457, 1481 = LJC *móbrant*; etc. Gwelir hefyd lawer o gymysgu ar *w* a *gw* yn yr un cyfnod. Cyfrifais 260 o enghreifftiau yn LIDW: *tredet gweyf* (*gweyth*) 27b; *a guana* 17b = BM 4 a *tona*; *a guato* 18b = BM *awato*; etc. Yn Ll I y maent yn niferus: *e gwlat* 8b, 9a, ond *ewlat* 67; *egwed honno* 5b; etc. Cf. yn YBH y *glŷifc las* 757; *glŷifc adfŷyn glŷaol* 3213; *amryuaelon glŷledi* 4317 = LJC *lŷladdoed*. Y mae *dillat* yn llu. yn 2240, *achub y dillat* . . . ac eu *glŷifgaŷ* (= LJC); gw. ar *dillat* yn *Cystrawen*, §38.

229. *A gŷedy hymny y rŷymaŷ ygyt*. Dim ond inni dybio i ryw gopiwr, o graffu ar *dŷfyr maŷ* yn 230, adael allan *am wayn maŷ* ar ôl *ygyt*, cawn ddarll. yn cyf-ateb i B 229 a *une grant mole les fist tier* a syrth beirniadaeth *Stimming* (*Einleitung* xxv) i'r llawr. Cofnodir y geiriau coll yn 335-6: *ac a rŷymeis linin am y vynŷyŷ ef . ac am wayn maŷ ac ay byrteis y myŷn dŷfyr maŷ anodyfyn*.

235. *ef a ddol les yt o hymny*. Edrych *les* yn debyg iawn i fenthyciad o'r HFF *les* 'gift; the amount of one's benefit under a will'; gw. *Godefroy dan lais a laise*. Ond cf. Gwydd. *less* 'advantage'. Yr eithaf, felly, yw tybio i'r ddeuair gyd-gyfarfod mewn CymC.

237. *heb faboth*. Cf. *heb mab cyw. heb y mab* 236; ar wahân i'r ddwy enghraifft hyn, *heb y neu heb yr* a geir drwy'r stori o flaen enwau a *heb* syml gyda rhagenwau; gw. *hebu* yn yr *Eiŷfa*.

238. *yny lleirglad*. Hefyd yn 253 = B 244, 257 *en un pré*. Ymddengys mai'r ystyr cyntaf oedd *dŷl* a amgylchynid ac a ddyfirheid gan *glawdd* 'ffos' (gw. *guer-claud* VocVB); yna unrhyw 'ddŷl irlas'. Cf. *pré Queite* 139 = *llannerch* SG 358; *mont bele prairie* 'dŷl deg odiaeth' *Potvin* 105 = *gweirglawd* SG 325; YCM² 64 *gweirglawd* = *prez Otinel* 23; *gweirglawd* YCM² 67 = *prairie Otinel* 733. Yng ngogledd Penfro *guerglo* (llu. *guerglodd*) yw cae â phorfa dda ynddo a nant yn rhedeg drwyddo; cf. *Larousse: les prairies demandent une irrigation régulière et abondante*.

239. *glŷifc lŷgeileid*. Am *w* = *eu*, gw. dan *f* [e] yn *Orgraff*, §18.

240. *y pynthec niŷarnaŷt hyn*. Yn ôl y testunau HFF, pery'r wledd briodas neu'r neithor weithiau wyth, weithiau bymtheng niwarnod; gw. *L. Gautier, Chevalerie* 450; *E. Kölbing, Amis and Amiloun*, n. ar 100. Yn ychwanegol at B 246 ceir sŷn am wledd yn parhau pythefnos yn *Evec et Enide* 2120; *Aiol* 8325; *Godefroy de Bouillon* 550; etc.

242. *y ŷlad arall*. Yn ôl *Beus* (L) 278, Cymru oedd y wlad arall: *Then see wyll to Wales wend*.

243. *yŷfyd gyneilt a chadymdeith gŷahanredaŷl ymi*. *B ke est mon prié* 'sydd gyfaiŷl mynwes im'. Cf. *at y dŷrgeleide ŷus yŷfauell fabur* (llsg. *faboot*) 3766 = B 3302 a *Fabur, mon chamberlen prié*; y *gur hitheu oed wahanredolaŷ guas yrtavell* . . . y *graffud* . . . *GrappC* 114; *Kedemuleithau gŷahanredaŷl graffud* ib. 132; y *wahanredaŷl gyfeillr* RBB 283. Ymddengys mai ystyr cyntaf *gŷahanredaŷl* oedd 'ar wahân' fel yn *ef a ŷnaeth glŷidit gŷahanredaŷl y dop un P5, xviii* ac

mai datblygiad o'r ystyr hwnnw yw'r arlliw 'ar wahân i bawb', hynny yw, 'intimate, close, bosom' a geir yma a'r arlliw pellach, nid amgen, 'secret, clandestine' a welir yn a *gŷahawd aozuc ef attaw yn wahanredaŷl Iorwerth vab bledynt P 20, 97*.

245. *A phan ellych dŷyn aruen a marchogaeth*. Cf. 204-5. Er y disgwyliad yn gyffredin i feibion y gwŷr mawr allu marchogaeth erbyn eu bod yn seithmiwydd oed (cf. *Gui de Nanteuil* 116; *Hervis de Metz* 5464-7), cyfeirio yr ydys yma ac yn 204 at dyfu'n ddyn ac at ystad marchog, urddas a gyfrennid pan ddeuai dyn ifanc 'i'w oed', sef o'r deuddeg i'r un ar hugain. Yn Ffrainc yn yr oesoedd canol cynnar deuai bachgen 'i'w oed', a siarad yn fras, yn ei bymthegfed flwydd. Eithr o dan ddylanwad Cristionogaeth a'r gyfraith Rufeinig tueddid i ohirio cyfnod 'oed cyflawn' ac yn y diwedd i'w osod yn yr ugeinfed neu yn yr unfed flwyddyn ar hugain (gw. *L. Gautier, Chevalerie* 240-3). Yn B 250 cawn *taunt que diez quinze aunz ou seze accompli* 'hyd oni fyddoch yn bymtheg mlwydd neu yn un ar bymtheg', geiriau na cheir eu cytystyr yn YBH 245-6. Deuai bechgyn 'i'w hoed' yng Nghymru, yn ôl *Lloyd* (HW II, 588), yn bedair ar ddeg. Tebyg mai'r cof am ddeuddeg oed y byd Ffrengig a wnaeth i Gerallt ysgrifennu *puer tunc duodeennis* wrth sŷn am Lywelyn ab Iorwerth a thynnu gwŷ *Lloyd*. Ystyr cyffredin *poer deuz cheval seer* 'gallu eistedd ar farch' wrth gyfeirio at fechgyn oedd eu bod wedi tyfu'n ddynion; gw. *F. Bangert, Die Thiere im Altfranzösischen Epos*, 8. Cf. *oetran* 662 411, 2548 a *dyuot myŷn oetran* 2782 a gw. *perchen march* (*meiryck*) 388, 578, 581.

248. *yn gadarn lŷychyr* 'strongly and valiantly' yn hytrach na 'strongly' yn unig fel RW. B 252 *com pruz e hardi* 'yn lew a chalonnog'; cf. *TW alacer* . . . *bywioec o yŷpriet ne ŷynwyr, gwychr; strenuus* . . . *nerthol, cryŷ, gwychr, pybyr, glete, deur bywioec*; gw. §48, (iv) dan *Cystrawen*.

255-7. *ef a glyŷei . . . y faŷl gerdeu a glodeŷt a farllach* B 260 *si oi . . . gramnt joie et grant dedut e noise e grant feste* 'ef a glyw lawenydd mawr a gorfoledd mawr a dadwrdd ac afiaith'. Cf. a *maŷt un y lleŷenyd ar clodeŷt a ryuu* 3478. Cylfystyr-on, felly, fel yr ymddengys, yw *glodeŷt*, *farllach* a *lleŷenyd*. Tueddaf i oŷrhain *glodeŷt* (cl-) i **glotet* yn AN 'revelry', gair a ffurfiwyd o deulu *glateis* 'noise' (gw. *Godefroy* wedi ymgroesi o ran ystyr â ffurfiu rhedadwy AN *glot* 'glutton; ʔgluttony'. Yn iaith Iafar Picardi golyga *glout(e)* un anodd ei fodloni ar fater bywyd, 'one fond of delicacies' (gw. *Godefroy*). Ceid amryw o'r rhain: *glotz*, *glotex* (= *glotets*), *glotes*, etc. Am -*z* = -*t*, cf. *tempes, tempies, tempest* ac am *cl* = *gl* - cf. *clap, glop*, etc. Os cywir y dyb hon, d galed (nid *did*) oedd -*d*- ar y dechrau a rhaid credu iddi fynd yn *dd* dan ddylanwad *galedd* a *galedda*. Hefyd yr oedd -*d*- yn cyfnewid a -*t*- yn HFF ac mewn CymC; cf. *Sodant a Satans*, gw. *Godefroy dan Soudan* 'Sultan'; *Göŷffret petit* WM 433 = *G. pedyt* P 6, part IV (t. 217); *gozdual* WM 386 = *gozdual* RB 245; *etyrud* BM 4, LIDW, Fac. 62, 77 ac *elynet* ib., id., 71, 76; *llidiaŷ* YBH 2387, *llithaŷ* 810; etc. Dilyner 'revelry and riotous mirth' RW.

264. *ac eiŷfoes*. B 264 *mer 'ond*, nid 'however' fel yn RW; gw. n. ar 10.

265. *i holi tref ynhat*. B 265 *ma tere chalanger* 'hawlio fy stad (yn ôl y ddeddf)'. Y mae i holi efallai dri ystyr yn ein testunau canoloesol: (1) 'hawlio (yn ôl y gyfraith)', yr un a geir yma ac yn fynych; e.e. *holi y gywoyth aozuc* WM 304; *holi y weteic yr Hall* HM II, 323; *holi teyznet* RBB 206. Y mae'r ystyr hwn yn ddigon hysbys (cf. GML); (2) 'cyhuddo, edliw', meddwl a ddigwydd efallai yn eŷt yr a *holych, haŷl* 343 'if thou hast a charge to lay, lay it' ac yn sicr yn *A phci mysi*

ath neckaei di o hynny ti a allut ty holi I geyr bronn duw dyd bravt SG 96 = *Queste* 147 et se iou de che vous faillioe . . . vous m'en pourries apeler al grant iour de tuse; *A unbenn heb y paredur beth a holi di yr morynyon hynn* SG 321 = Potvin 190 *Ha, sire chevaliers, fet Perceval, que demandez-vous a ces II damoiseles?*; *A gofyn a ozuc owein py beth a holiyt y2 uoz6yn* WM 258 (gw. Godefroy a Ste-Palaye d.g. *apeler a demander*; (3) 'dal digofaint; casáu; gwneuthur drwg'. Dyma'r meddwl ond odid yn nyt oes dim a dyllych y holi ym datmaeth 344 = B 345 *Ne forfestes mon mestre, dame, taunt ne kaunt 'Na wnewch, arglwyddes, ddim drwg i'm hathro* Cf. *A ryued eu gan y marchatec beth a holi baredur idaw* SG 262 = Potvin 106 *Et li chevaliers . . . li demande . . . que vos ai-je meffet? 'A'r marchog . . . a ofynnodd iddo . . . pa ddrwg a wneuthum iti? 'A unbenn heb ef beth a holiis ytti. a phaham y mac cas genmyt vyui* SG 184 = Potvin 16 *Sire chevaliers, por quoi me haex vos? 'Arglwydd farchog, paham y casewch fi? 'Ha warchatec heb ef beth a holut ti y mi. pa d26c adigoneis i ytti* WM 232; *nit yttoyd6n i yn holi dim iti ib. 8* (disynnwyr fyddai holi 'hawlio' yma ar 6l dweud *A fob un ohonunt yffyd ha6l6z ar y pilyd a hynny am dir adayar*). Ymddengys i holi ennill yr ail ystyr, yn rhannol o leiaf, o dan ddyllanwad dau ystyr *dema(u)nder* 'to demand; to accuse', ystyrion cydnabyddedig yn nhiriogaeth HFF. Gw. Ste-Palaye dan *demandar*. Hyd y gwn i, ni allodd neb sylw o'r blaen at (2) a (3) uchod yn Gymraeg.

276-7. *herlot rubalt truant*. B 275 *fix a putein, ribaud*; cf. *tal6 herlot ffol 296 = B 302 Fol, har vus teizez!* 'you idiot, hold your tongue!; *tygal6 yn herlot trua6nt 312 = B 310 il me apella truaunt*; cf. hefyd SG lle ceir *herlot 196 a 246 = vallez, vallet* 'youth, lad' Potvin 25, 89. Yr un modd, *herlotwaz* SG 252 = *vallet* Potvin 96. Eto digwydd *vallez* yn Potvin 19 = *gwaz ieuangk* SG 187. Dyna'r ystyr yn sicr a roddir i *herlot* yn D, R, ac yn RW, ystyr AN, mac'n debyg. Ond yn HFF Ffrainc yr unig synnwyr a geir (gw. Godefroy) yw 'knave, rascal, scamp'. Pa un sydd yma? Ystyrir mai cyfwerthedd *herlot* yn 276 yw *fix a putain(!)*, nad oedd i fol ond meddwl diraddiol, 'ynfyd, etc.', bod *ribald* yn golygu 'un o wehilion cyndeithas' ac yr arferid *truant* 'trempyn, cardotyn carpiog', o bryd i'w gilydd fel ei gyfystyr: *Laiss6s ce truant, ce ribaut* (Chrestien de Troyes, gw. Larousse, *Dict. d'Ang. Franc.*). Yr oedd y geiriau hyn oll yn ystrydebol yn yr oesoedd canol ac anodd gwybod faint o wenwyn personol a roddid ynddynt gan y sawl a'u harferai. Ymddengys i'r llanc gymryd *herlot* yn ei feddwl tramgwyddus ac iddo deimlo enllib bwriadol yn *rubalt* ac efallai wawdiath o'i *6ufe 6geileid* (cf. 239) ac o'r trueni o ddaethai arno yn *truant* a *truangfayth* (gw. isod). *bychan 6yti a ma6z y6 dydzuanfayth*. B 276 *Mult estes petit e vi estes fort truant* 'stripling and downright ragamuffin that you are!'. Prin y mac 'wretchedness' RW yn cyfleu'r sen sydd yn *tzuanfayth*. Buasai 'disreputableness' yn nes i'r meddwl, o bosibl. *Lumpig* 'ragged, shabby' yw gair Stimming am *truant* yma.

tzuanfayth. O *truans*, cyflwr enwol *truant* yn HFF+ *ayth*, neu rhaid edrych ar f fel gwall am t; am air cymysgryw arall, cf. *celerdy* 326.

278. *g6hir a geny cyw. dylbedy*. Cf. 337, 722 *kellyyd . . . a geny = B 338, 706 vus mouitez 'chwí a ddywedwch getwydd'*. Tueddidi fi unwaith i ddarllen . . . a *ageny* (cf. ar *pozth ed6is yffygaffant 4134*) a chysylltu *ageny* ag *yngan(u)* (? > HFF *enganner* 'dweud yn fychanus; idweud). Ond ceir *Oz g6hir ageny di* P 7, col. 512; P 8, 12; *G6hir ageny di*, P 8, 42; a *geu a geny di* P 7, col. 162 a P 8, 701 ymddengys, gan hynny, fod *geny* yn ddilys ac mai ag 2 un. *prea. canaf* y mac 6 llymyn. Yn y LJC *dylbedy* yw'r darll. bob tro. Yn HFF arferid *chanter* 'canu' gyda'r ystyr 'dweud, siarad, mynegi' (cf. Ste-Palaye a Godefroy) ac edrych canu (*g6hir*,

kellyyd, geu) fel efelychiad o'r meddwl hwnnw. Sylwer mai yn y cyfieithiadau o'r HFF y digwydd yr enghreifftiau a ddyfynnwyd. Clywir *chanter* gyda'r ystyr 'dweud' neu'n hytrach 'baldorddi' yn Ffrangeg llafar o hyd ac efallai bod yr ystyr gwawdus yn hen ac i'w ddeall yn *kellyyd (geu)* a *geny* uchod.

280. *kellyyd a dylbedy dithes am vry moti*. Cyferbynnir *g6hir* a *dylbedy* ti *vy moti* 279. Am esiamplau eraill o am yn mynegiant *oratio obliqua*, gw. §45 dan *Cystrawen*.

281. *a dyrchaf lla6 = dyrchafael ll.* Hefyd yn 301, 1102. Y mac terfyniad i'r berfenw yn yr enghreifftiau eraill; cf. 300 a 301 lle ceir *dyrchauel* a *dyrchaf* yn ymyl ei gilydd. Ni chroniclir *dyrchaf* fel berfenw *dyrchafael* yn WG nac yn D; ond cf. *dyrchaf a gosod* D ac *ymldrychaf* DFF 192, a gw. *Geirfa* J. Lloyd-Jones.

286. *yny vryd yghynted y neuad*. B 287 *mounte li enfes en le paleis en haut* 'dring y llanc i fyny i'r paleis'; cf. *neuad 2241 = paleis B 1979 ac yn YCM² 54, Otinel 13*. Ond *neuad 3860 = la sale B 3390 megis yn SG 249 = Potvin 93*. At *la sale*, *prif ystafell y paleis*, y cyfeirir hefyd yn 286 a 2241. Cyn y nawfed ganrif ar helw brehinoedd ac ymerodron yn unig yr oedd *paleis*, eithr wedi tyfu o ffrwdiaeth a chymysgu penaduriaeth 6 meddiannau mynnodd dugiaid, ierll, etc., hefyd *haleis* iddynt eu hunain. Lle ceffid *paleis*, safai ar ei ben ei hun y tu allan i dŵr y castell a meddiennid ei lofft gyntaf gan *la sale* 'y neuadd'. Mewn mannau llai eu bri ceid y 'neuadd' ar lofft gyntaf y tŵr ei hun. Yn y *sale* y gweinyddai'r barwn gyfiawnder ac y derbyniai wrogaeth ei wŷr. Yno y clywid y *jongleurs* yn canu, y chwaraeid gwyddbwyll, ac y cymerid bwyd. Petrual-hir oedd y neuadd ffrwdal-aidd ffrychaf a rhennid hi yng nghyfeiriad yr hyd yn ddwy neu dair rhan gan restr neu ddwy o golofnau ac yr oedd iddi *uwch gyntedd ac is gyntedd* (gw. darlun o *sale* Paleis Wartburg yn L. Gautier, *Chevalerie* 521). Y *paleis* a'r *sale* oedd arwydd awdurdod a llywodraeth. Cyfieithir *paleis B 3385 yn llys yn 3854 ac yn 3345* cymerydd ef drosoed: *paleis bzenhina6l = B 2906 paleis princip6 = llys tyff6ffogad6l 4289*. Fe wellir bod pwyntiau o debygrwydd rhwng *la sale*, *la grant sale* a *neuad* testunau Cymraeg yr oesoedd canol. Ar *sale (a paleis)*, gw. Viollet-le-Duc, *Dictionnaire d'Architecture* VII, 1-4; Léon Gautier, *Chevalerie* 518-22, 604-5. Ar *neuad*, gw. GML a PKM 131. Yma desallr 'until he was at the upper (raised) end of the hall', nid ' . . . the entry of the hall' fel yn RW.

288. *yn ehofyn 6yehyr*. Gwell fyddai 'boldly and strenuously' nag 'undaunted he bravely' RW, a barnu wrth B 288 *il parla com band* 'llefarodd fel un hy'; gw. n. ar 248 ac o dan *Cystrawen*, §48, (iv).

289. Darlener *royffei* fel yn 292 yn lle *royffei* a lithrodd rywsut neu'i gilydd i'r testun printiedig.

292. *hanyz*. LIC *kan nys*.

293-4. *A chanys hymereisli vy mam i y dzeis*. Am enghreifftiau pellach o *hanyz* yn disodli *kan* o faen berf, gw. 890, 894, a §49 yn *Cystrawen*.

y dzeis. B 298 *estre mon cong6* 'heb fy nghennad'. Y mac'r ystyr a geir yn B, er nas cofnodir yn y geiriaduron a'r geiriau, yn gweddu i'r cyawlli yn well na'r un arferol a chadarnheir ef gan a *royffei gennat 289 = B 292 dona cong6* a chan *hanyz* (h.y. *kennat*) *royffei* ef 292 = B 204 *ne volez cong6 demander*. Am arlliw arall o feddwl, cf. y *dzeis* SG 59 = *malcoisment* 'yn ddyrynnawus' *Queste* 79. Yn 1376 y *dzeis = par grant force* 'drwy nerth mawr' B 1296; a *force* a geir hefyd fel rheol yn *Queste* a Potvin gyferbyn 6'r geiriau. Cf. *d6yn y drein* SG 413 = *zawir*

Potvin 307. Defnyddir y *dreis* ac o *dreis* yn ddiwahaniaeth yn y testunau canoloesol; cf. e.e. SG lle ceir o *dreis* 59.5 ac y *dreis* 59.11=*par force Queste* (S) 65; digwydd y *dreis* yn aml yn BT (P 20).

299. *tardu y gibaet dzby y eneu as ddyffroen*. B 304 *tut le sanc li fremist* 'berwodd ei waed drosodd'; ceir yr un ymadrodd yn 1674=B 1528 *tut le sanc li mue* 'symud ei holl waed'; ac eto yn SG 184 *ar gwaet yn tardu allan fford eu ffroeneu ac eu geneueu*=Potvin 16 *li sans roie* (Berne *ist*)*fors au roi Artus, parmi la bouche et parmi le nez* 'llifa (Berne, à) gwaed Arthur allan drwy'r genau a'r trwyn'. Ni chafodd dau ddarl. YBH ffafir yng ngolwg Stimming (*Einleitung* xciv) a gwél ynddynt naill ai destun AN llwgr neu ddiffyg ysgolheictod AN digonol ar ran y cyfieithydd gwreiddiol. Ni welaf i nemor ddim o'i le nac yn narll. YBH nac yn nhrosiadau RW ('the blood burst through his mouth and his nostrils; the blood gushed . . .'). Fe wyddys bod cynhyrfu a llidio yn codi gwasg y gwaed, ac os tyr gwythien yn uchel yn y ffroenau o'r herwydd, fe lifa'r gwaed i lawr nid yn unig drwy'r trwyn ond hefyd i'r genau. Ar hyd y Deheudir fe ddywedir am ddyd a gafodd *haemorrhage* bod ei waed wedi torri.

300. *Ac eiffoes*. Yma 'yn chwaneg'; gw. n. ar 10; nid 'nevertheless' RW.

307. *kyuodi y vyny*. Gw. n. ar 161-3.

320. *a beir ey llad i neu vygrogi*. B 324 *me vodra decoler* 'a bair fy nhorfynylul'. Felly *llad* yma yw *llad pen* 'to behead'. Nid oes synnwyr yn 'will cause me to be killed or hanged' RW; cf. 816-7; o *ffaraf y lad neu ygrogi*=B 789 *si jeo le feize tuer*; ni cheir *llad* 'to behead' yn y geirlyfrau; cf. *eillaó* 2507.

324. *kyuodi febaot*. Gw. §51 a'r n. ar 161-3.

326. *celerdy*. Dylasai *felerdy* y LIC fod yn yr amrywiadau.

328. *en oz ghraged kytheiraf a góifgocaf a thechaf*. B 328 *ele fu bien vestue de une paille Grecieis, les boucles de ses soulers sunt o or freis* 'she was well dressed in a mantle of Grecian brocade; the buckles of her shoes were adorned with gold embroidery'. Ymddengys yn sicr mai'r un ystyr sydd i *kytheir* yma ag i *góifgocaf*. Felly 'one of the best attired and best dressed and fairest women' yn hytrach na 'one of the most perfect . . .' RW. Er cael 'attired' a 'dressed' fel ystyrion i *cywair* yn SE, ni ellir tynnu'r arlliw a geir yma o un o'r esiamplau a ddyry ef (at *muer* 'war-band' y cyfeiria *kytheiraf* WM 5). Rhydd yr arlliw hwn gadarnhad pellach i olygiad Ifor Williams (BBCS III, 55) mai *cywair* ac nid *cywair* sy'n cyfateb i *cóir* mewn Gwyddeleg. Ni chofnodwyd *góifgocaf* yn y geiriaduron, ond bydd enghreifftiau yn Rhan VIII o *Eirfa* J. Ll-J.

330. *gouyn boim*. Gw. n. ar 88.

332. *beth a oeynny di imi o2 mab*. Buasid yn disgwyl *am y mab*. Dwg y gys-trawen hon ar gof inni *dema(nder de qn* 'to enquire about, to ask after' yr HFF; gw. Godefroy.

333. *megys y hercheifl i*. Cf. YCM² 143 *ual y herchis*.

334. *llimin*. Benthyciad o amrywiad ar yr HFF *ligne*.

336-7. *dóifyn mabz amodyfyn*. B 337 *ene* 'dwir; afon'; gw. n. ar 1304. Mewn rhai llagrau megis LIDW, P 45, y LJC, etc., nid oes ond y dim lleiaf rhwng flurf v (=u) ac y; gw. Fac. LIDW 6^a, 7^a, 19^a a'r Fac. gyferbyn â th. xiii yn RBB;

cf. *arglyides* AL II, 894; *dyadaffey* cyw. *dyadaffey* P 5, viii^a; *gwaiffanaethyr*=*gwaiffanaethyr* P 14, 109; *fulgyn* WM 386, *budygaól* ib. 409; y *gellógyn* P 9, 21^b. Darll. *anoddefyn* a chym. *anydyfnach* am *amodyfnach* P 8^a, 38 ac *nyl oed anydyfnach* y *gibaet* *edant yn eu hymlit*. Am feiau ysgrifol tebyg yn YBH, cf. a *chynfallt* 542 am a *chenfallt*, *nyrú* 912 am *uorú*, *canyrthdy* 1738 am *cawrthdy*. Ai o *anoddefyn*, drwy gollu -f-, y daeth *anoton* BB 38.9; *anodon* RBB 154? Ystyr *anoddefyn*, yn amlwg, yw 'dwfn iawn'.

337. *a geny*. Gw. n. ar 278.

338. *Mi a baraf dy llygaól ath lofgi*. B 339 *vus serrez ars ou pendu* 'fe'th losgir neu fe'th grogir'. Gan y rhoddir dewis ar ddull yr angau yn B ac y sonnir am ddewis yn YBH 320 *ey llad neu vygrogi*, y tebyg yw yr estynnid yr un fraint yng nghynsail YBH ac y dylid darllen *neu dy lofgi*. Prin y gallai'r iarlles dybied y byddai Sabaoth yn malio a losgid ef ai peidio ar ôl ei fingo!

339. *y mab*. Dealer *vy mab*=B 332 *mun fix*.

343. *llyma viui ofst yt a holych haól*. Rhodder gwahannod ar ôl *viui* ac ar ôl *holych* a dealer naill ai 'Here I am, if thou hast a charge to lay, lay it', neu ' . . . if thou hast a demand to make, make it'. Efallai mai'r blaenaf sy gywiraf (gw. n. ar 265). O ddarllen *ofst fel o lit*, mae'n debyg, ymddrysoedd RW yma a rhoes inni: 'Here I am with wroth to thee, if thou makest any demand'.

345. *hymryt idi hithe y mab*. B 346 *La dame prent son fix* 'The lady seized her son', nid 'the youth' RW; am *idi*=*ohoni*, gw. dan *Cystrawen*, §51.

353. *dzomónt*. Llong gyflym oedd hon, llong rhyfel, a llong môr-ladron yr oesoedd canol, disgynnydd y *naxos longa* Rufeinig, yn ôl Ste-Palaye; cf. *dzomónt* 3177; un o'r ychydig eiriau HFF a esbonnir yn y testun.

357. *yr y petharpóys o eur coeth*. Nid 'for four pounds of pure gold' RW, eithr 'for his weight in pure gold four times'. Cf. B 359 *quater fez pur li son pois de or donerent*.

365. *hiraeth yn ol y llat*. B 366 *dolour entrine* 'galat dwys'. Y flurf lawn yw *enterine*< **integrinum*<*integrum* 'cyflawn', ond, ymddengys i'r cyfieithydd weld yn y sillaf ganol y gair *tere* 'gwlad; etc'.

373. *o bzyt a llafyn*. Gw. n. ar 198.

390. *yn deupeinaloc*. B 391 *mult cher* 'yn ddrud iawn'. Yn y trosiad HFF o *Groncl Turpin* (arg. Wulf, II, 75) cyfwerth *deupeinawc* y testun Cymraeg (cf. YCM² 175) yw a *double* 'yn ddyblyg'. Cf. TW *duplicarius miles* 'milwr yn caspael ei gyfloc yn dhau penio'; *duplex* 'dyplig . . . dau-pennawc'; (wrth olygu 'TW gadawodd D y gair allan). Gwrthoder, felly, 'in two ways' RW a dealer 'twofold, doubly'.

395. *da óz*. 'worthy man; brave knight', nid 'good man' RW. B 396 *pruz hom* 'gwrda'. Ymddengys mai cyfieithiad llythrennol yw *da óz* o *prodome*. A oes esiampl arall o *da óz* am *gózda*?

399. *na daly adlo am hynny*. Cyfieithiad yw *na daly* (=dala) *adlo* o *lessez ester*. Cf. *na dala adlo am hynny* 688=B 678 *iceste fol amour pur dien lessez ester* 'er mwyn Duw gedwch lonydd i'r cariad ffîol hwn' ac, yn ôl arfer mynych y canu HFF, alladroddir hyn bron yn yr un geiriau yn B 681 *pur dien lessez ester ceste grant foleson* 'er mwyn Duw gedwch lonydd i'r ffîolneb-mawr hwn'. Yn

ffodus, troes y cyfieithydd *lessez ester* mewn ffyrdd eraill; cf. B 1469 *Dame, dist Boves, tut ceo lessez ester* = YBH 1589 *Arglwydes heb ynteu gat ehunan*; B 2060 *Miles, dist Josian, lessez moi ester* = YBH 2351 *Milyes heb y iofian gat vi yn llonyd ac yn hedôch*; B 2875 *Bele soure, dist Boves, ceo estre lessez* = YBH 3316 *rygchwaer dec heb boôn peit a hymny*. Yr ystyr, felly, yw nid 'entertain no animosity for that' RW, eithr rhywbeth fel 'desist from thinking about that' neu 'Have done with that idea'. Fe welir oddi wrth hyn fod geirfa YBH yn ei hegluro ei hun. Gwelais innau felly ystyr *na dala adlo* yn gynnar ac ni allwn beidio â'i ddodi yn *Nodiadau* fy argraffiad o YBH a gyfwynwyd am M.A. Prifysgol Cymru yn 1913. Yn ddiweddarach cofais fod *dala âl am ryweth* 'to keep on returning to a point (often distasteful to the other party), to harp on about something' yn ymadrodd adnabyddus yn nhafodiaith Gorllewin Morgannwg a Dwyrain Caerfyrddin. Yr un yw'r meddwl, a gallasai'r *d* yn hawdd golli fel y gwnaeth yn *anal (anadl), banal (banadl)*, etc., ar ôl mynd trwy *ð* fel y gwnaeth o bryd i'w gilydd. Wedi i'r gair fynd yn *âlo*, ymddengys ddarfod i'r -o yn ymwybod siaradwyr y dafodiaith hon fynd yn arddodiad a dyfod i wrthdrawiad ag am mewn brawddegau fel *paid â dala âl-o am hymny* ac iddi, o gael ei hystyried yn gwneud yr un gwaith ag am, fynd ar ddfancoll. Rhydd y cyfatebiaethau newydd a dynnwyr o eirfa YBH, cyfatebiaethau na sylwyd arnynt o'r blaen, yn ogystal â *dala âl am*, gadarnhad i gasgliad Ifor Williams yn BBCS I, 116-8 ar ystyr *adlo* ('account'). Ategir hefyd ei farn ar feddwl na *chylfadio* ym SG 155 gan yr HFF: *biaus peres ihesu crist, ne me soit tourné a paine ne a dampnation. se ie vois aidier a chel pseudomme Queste 226* 'deg Dad Iesu Grist, na throer imi yn boenedigaeth neu'n ddamnedigaeth os af i nerthu'r gwrda acw'.

404. *ac nys gozffo a amâreito neu a gretto y vahom. LIC ac nys gozffo . . .* Trosiad RW yw 'and he will not prevail that trusts or believes in Mahomet'. Fe sylwir fod RW, ond odid ar sail y LIC (col. 851) yn camddarllen *gozffo* fel *gozffo* ac o gof efallai am *Lysr y Datguddiad* 11.7, 17, etc.: 'I'r hwn sy'n gorchfygu . . .', yn dehongli'r ffurf fel dibynnol *gorfyddaf*, yr hyn, wrth reswm, sy'n amhosibl. Er crystal y darll. o ran cysondeb â'r cyswllt, rhaid chwilio am esboniad arall. Yr ydym yn y gair cyntaf yn sicr wyneb yn wyneb â'r ffurf reolaidd (ag -s) ar y cyflwr enwol gwrywaidd un. o rangymeriad y berfenw HFF (*h)onir*, sef (*h)onis*, gair y mae amrywiad ohono i'w ganfod ar arian Prydain Fawr: *Honi soit qui mal y pense*. Nid yw'r ail namyn treiglod o'r HFF *cors (< corpus)*. Gadawyd y ddau i aros yn y cyfieithiad yn union yn y fan lle'r oeddynt yn y gwreiddiol AN. Yr agoriad i'r dryswch yw canfod mai -f hir ac nid -f sydd ar ôl *goz-* yn y llsgr. Unwaith y cysylltir y cyfuniad hwn â'r gair HFF *cors*, ni eill neb cynefin â ffurfiant HFF lai na gwelod, yn wyneb y cyswllt, mai llygriad yw *ac nys o ac onys*. Geill hefyd heb gymorth pellach edfryd y darll. y cyfieithid ohono: *Honis soit de son cors ki . . .* 'mellitiedig ei gorff fo'r neb a . . .'. Darll. B 405 yw *Honi soit de son cors ki en malun se ofse, gyda'r* rhangymeriad heb -s derfynol, megis ar yr arian. Darll. ac (*h)onis y gozffo a . . .*

409. *mi a cynnaf itti llaffanaethu am ffiof arnafi pob amfer; B 408 tu me serteras le jour de ma coupe 'ti a wasanaethi arnaf liw dydd o'm cwpan'. Amlwg mai rhyw ffurf ar *tofor* (nid *le jo(u)r*) yw sail *p. amfer*.*

411. *oetran g6z. Gw. n. ar 246.*

412. *yn fynfagal . . . ac yn ben yflondardôz. Y syn(y)gal oedd pen swyddog pob llys canoloesol. Ef a godai'r trefhi dyledus i'r brenin neu'r barwn, a weinddai gyflawnder yn onw'r pen, a siwai ynghyd y pendefigion i wasanaeth milwrol,*

a drefnai'r gwleddoedd, etc. Ef hefyd weithiau, fel yma, oedd y llumanwr, y gŵr mwyaf ei reng ar wahân i'r brenin yn nydd cad ac ymladd; cf. L. Gautier, *Chevalerie 561 et seq.*, a Viollet-le-Duc, *Dict. du Mobilier*, V, 176.

414-5. *rei oz marchogyon y llys. Gw. Y Fannod dan Cysrtrawen, §39, (vii).*

415-7. *daly kyghozwynt . . . a fozri 62th. B 412 en sunt mult corucé* 'were very angry with him'. Er gwaethaf y cysylltiadau, er dangos o ddwy linell ar olledd fod *kyghoz* (sydd ar ddiwedd llin) i'w ddarllen gyda *wynt* sy'n dilyn, ac er digwydd o 'cynghorfynt, invidia, livor, invidientia' yng ngeirlyfr Dr. Davies, a'r cyffelyb yn eiddo Richards, etc., eto i gyd, darll. RW oedd *daly kyghor wynt* a'i drosiad oedd 'held a council'!

Tueddaf i dynnu *fozri* o *rorer* (i) 'to be red' (*sor* 'brownish red'); (ii) 'to be red with ill-will', efallai gydag help *s'essorer* 'to let oneself go'; cf. *rougoier* (*rajoier* B 2318) (i) 'to be red'; (ii) 'to become red with ill-will, etc.'; gw. Godefroy.

421. *nyt oed reit oz byt llas . . . gryuach. Gellid, bid sicr, ddeall 'meddai'r gwas ieuanc ar bob cryfder corfforol . . . ac nid oedd galw (reit) am gryfder amgen na . . .'; cf. efallai P 9, 34^a canyt oyd reit perigyl hayach yny geitwadayth hono. Eto yr wyf yn duoddol i edrych ar nyt oed reit fel gwall copiwr am nyt oed greit (vreiz) (cf. *petwar marchaô arhugaint* WM 141; a *lynt* cyw. ac *lynt* ib. 191; *gloged* cyw. *gloged* ib., id.; *egrop < ecrop < eorop* ib. 457, etc.), neu i dybio i'r copiwr ddynewared y fflasiwn AN o esgeuluso v yn y cyfuniad -tr- megis yn *chuechef = cuvrechef* 'kerchief'; *poze = povere* 'poor'; etc., fflasiwn a ddilynwyd o bryd i'w gilydd yn yr orgraff Gymraeg: *hereith = kevreith* LIDW 17^a (ddwywaith), 21^a (ddwywaith), etc. (yn aml), *chueraw = chuevraur* ib. 8^b (ddwywaith), 13^a, etc., *heryu = kevyu* ib. 50^b, etc., *Bendigeitran cyw, Bendigeitran* RB 26. Yn *heffilôzn* am *heffilôzn* RB 145; AL II, 308, ymddengys y ceir yr un darblygiad seicolegol ag a welir yn AN, ond nid wyf yn awgrymu fod a fyndo'r nail â'r llall.*

428. *yr kyuoeth ar ðilat. Dau air cyfystyr, mae'n debyg, ac yn golygu 'ardal, bro' neu efallai 'bro enedigol'. Os felly, arlliwiau prin = B 420 *paiz*.*

429-30. *nyt arbedei nac y ua62 nac y vychan, ond 4138 nyt arbedaffant na na b.; yn B 421, 3644 esparnier a yw'r gyfwerthedd; gw. ma6z yn yr Eirfa. Tybed ai efelychiad o'r HFF yw *arbed* y? Yn BrDg 231 awgryma Henry Lewis ddyl-anwad *parcere*; gw. GPC.*

432. *ny ddodei y boed fylô armin. B424 ne les creidderit 'nid ofnai ef hwynt.' Ystyr *doei* sylw ar yma, gellid meddwl, yw *malio am*, nid 'to take notice of' fel yn RW; cf. *ny bu uwor gan goel dim ae tygwoth* SG 55 = *Queste* (S) 61 *cil ne prisoit mie granment son mandement* 'ni roddai hwn fawr pwy a ei orchymyn'; *ny bu vator iaten ganthaw ef walchmei* SG 357 = *il prisa moult patit monsignor Gauvain* 'ni syniai fawr am Walchmei' Porvin 244.*

434. *y pertris cotta. B424 un pertris. Nid ymddengys fod *cotta* yn chwangu'r un arlliw AT feddwl *pertris* gan fod yr adar hyn oill yn fyr eu cynffon. 'Tyonaf *cotta* o'r AN *cu(r)ta*, amr. ar *curté*, rhang. gorff. *curter* (u = w ymbob un) 'to dock (tail of horse, dog)'. Ystyr *curta, curtis* felly yw 'docked, short-tailed'. Yn HFF Efrainc *escourter, escourte, FFD écourter* -e. Am -a = -e yn y rhang. gorff., gw. n. 34 ar *yfeyuata* a noder fod *r* yn wan iawn yn AN ac yr esgeulusid ei hygrifennu yn fynych (e.e. *sewise = serwise; lemes = lermes; sebens = sebens*; etc.; gw. E. G. R. Waters, *Voyage of St. Brendan 162*); collai'r rhagddodiad hefyd yn barhaus megis yn *forcent = esf. Brendan 1414; luigner = esf. ib. 456 A; maier = em = ib.**

221 A; etc. (gw. Waters, op. cit., clxxxiii). Benthycodd y Ddeheubartheg y gair *cwt* 'cynffon' o ffurf AN *ā -t-*; cf. *coete* 'cynffon fach'; ffurf AN gynnar yw *code*. Am ffurf *f*, cf. *heynyauc cotta* 'clipped penny' LIDW.

442. *ac yn eifle*. Darll. *ac yno e . . .* Colodd o dan law copiwr oblegid ei theb- ygrwydd i *e*; cf. yn cyw. *yno (ef a welei)* WM 627.

447. *trōynfychein*. Yn *ōl* RW, 'snotting'; *gronder* 'to growl' a fabwysiedir gan Loth (RC xxxiii, 410), ond *greffer* 'cloddio'r ddaear *ā*'r crafangau' sydd yn B 339. Yn CLIH 197 cyfeiriodd Ifor Williams at *ffuch* fel sail *-fych-* yn y gair hwn, eithr nid oedd ganddo ddim goleuni i'w dafu arno. Dan *nasi orbiculus* rhydd TWD 'blaen y trwyn, trwyswch'. Tybed, felly, nad *f* oedd yng nghynddelw YBH y LiG ac mai gwall copiwr yw *-f-*? Yr ystyr, gan hynny, mae'n debyg, fyddai 'troi'r ddaear *ā*'r swch, turio, twrio', ystyr hollol addas i'r cyswllt. Y LIC a roes y ddwy *-ff-* yn y gair.

448. *achub y gōz*. O amryfal ystyrion *occupo* ni chofrestrir yn y geirlyfrau Cymraeg ond 'to seize, to take hold of' (yn llythr. a ffīg.). Dyry YBH un arall a geir yn Lladin (cf. (4) isod) a rhai eraill nas ceir: (1) 'to seize' 214 (*prist*), 955 (*pernent*), 1836 (*pernent*), 2238; (2) 'to hurry to (a person)' 2325 (*saut a li* 2049), cf. *achub* at 3441 (*ignelement se sont entrebeyez* 2993); (3) 'to hurry to (a person) with evil intent, to harm, to charge' 448, 472 (*venent . . . poignaut* 464), 1262 (*cynt . . . tost* 1197), 1822 (*vindrent . . . coraunt* 1653), etc., cf. *achub* y 3262 (*'en issit* 2828); (4) 'to attain, to strike' 519 (*defiez* 520) 3167 (*asaitez* 2733), 3365 (*ferir* 2925), 3369 (*ferir* 2928).

451. *ac idab* 'and fell upon it' RW, neu 'and charged down upon it'.

452. *val y mynnaōd duō* 'as God willed' RW. Ceir yr un ychwanegiad yn 477, ychwanegiadau mympwyol yng ngolwg Stimming (*Einleitung* lxxxii), ond digon pwysig, gellid meddwl, yng ngenau mynach. Defnyddiai'r HFF ffurfiau *mene* 'arwain' yn fynych mewn ymadroddion tebyg; *com Dieu les menoit, en France* 'fel yr arweiniodd Duw hwyt i Ffrainc' *Vie de Saint Teilo* 10.29; *comme aventure le menoit Queste* (S) 141=SG 116 *mal yr oed y dyngheuen yn y hebrwg*. Tybed a ydym yma ym mhresenoldeb *myynu + mener* 'to lead'?

455. *tozri y paladyr y gŵayō*. Gw. §39, (vii).

466. *gleō abeth adeōz abaz yō boōn*. Geiriau cyfystyr fel y dengys B 453 *com Boefs ad chere hardie* 'y fath wyneb hy sydd gan Bown'. Yn 482 ceir *gleō abeth* wrtho ei hun yn cyfateb i *cum Boefs est hardis* B 483 'glewed yw B'.

470. *dec emys*. Gw. §21, (i).

470-1. *lbedy rydygu kyfyoed . . . a duanaō ar lad boōn*. Ymddengys fod *tygu kyfyoed* a *duanaō* yma yn golygu bron yr un peth. B 463 *Sa mart unt juré* 'hwy a dynghasant ei farwolaeth'. Am *dd* y saif *d*, gydag ychydig eithriadau (gw. §18, *dd*), yn ograff y LiG a *-t* a geir fel rheol am *-d* (gw. ib. *d*). Yn *ōl* hyn, y peth mwyaf naturiol fyddai deall *kyfyoed* fel llw. *kyflu* megis y gwnsath SE. Meddai llw ar y llw. *lysein*, *lysein* a dichon fod iddo un yn *-oed*; cf. *tygu llysein* 812; *tyghu com lyein* HM II, 290. O'r tu arall, yn erbyn ei gynnyrd fel llw. saif *kyfyoed* y LIC lle mae *-t* yn golygu *-d* a'r ffurf debyg *kyfyoet* YCM² 44. Cynnig J. Lloyd-Jones yn G mai gwall am *kyfyoed* (*gyda -d = dd*) yw. Y mae 'mutual oaths' RW yn ddigon agos i'r meddwl.

472. *yny achub*. Gw. n. ar 448.

474. *neufataŵſſei heb gof*. B 471 *mes il le oblia* 'ond ef a'i gadawodd dros gof'.

477. *val y mynnaōd duō*. Gw. n. ar 452.

479. *a ffo yr petŵar ereill*. Gw. §51 dan *Cystrawen*.

483. *oe garyat ef* 'on account of his love', nid 'with his love' RW.

484. *ony chyt fyntya a mi* 'if he does not become my lover'. B 484 *si il ne seit mes amis* 'ony ddel yn gariad im'; cf. 506. Nid yw 'unless he agrees with me' RW yn cyflue'r meddwl.

491. *y dzoi y ben y castell*. Yr oedd ar ben mur llydan y castell canoloesol lwybr helaeth a amgylchynai'r holl adeilad ac yn nyddiau heddwch arferid y lwybr hwn i rodio ynddo gan aelodau'r teulu, a chan eu gwahoddedigion (cf. Viollet-le-Duc, *Dictionnaire d'Architecture* I, 332; Léon Gautier, *Chevalerie* 478-480). O gerdded yn hamddenol o gylch y castell fel hyn, mae'n debyg, y datblygodd yr ystyr sydd i *troi* yma, nid amgen, 'to stroll, to saunter', ystyr nas cofnodir yn y geiriaduron. Cf. *ac y doeth ynydoed yn troi yn y gaer gōedy bōyt* WM 145., gw. hefyd PKM 286.

495. *begythyāō*: ffurf dafodieithol, yn bur sicr, waith anodd credu y ceid *e* am y *dywyll* bum gwaith yn yr un gair; ond cf. *begythyāō* SG 252. Ni chofnodir mo'r ffurf ag *-e-* yn GPC.

506-7. *guedy . . . ym gyfnyntyaō a hi*. Nid 'when I shall have settled with her' RW, eithr 'when I shall have had intercourse with her'. B 507 *Josiane girra delez le moum costé*. 'I. a orwedd wrth fy ystlys'; cf. 484.

mi ay rodaf hi yr dyn baōhaf. Cynigiais yn *Trans. Cymm.* 1919-20 mai benthg o'r AN *bou(e)* oedd *baō* a thybiaf o hyd fod hynny'n gywir.

522. *heb gof*. Gw. ar 474.

530. *ti a drūbedy vy flonderd i ymlaen vy gallu*. Gw. ar 412.

533-62. *Ac yna y hurdaōd ermin ef yn varchale vadaōl*. Tybiai awduron yr hen gerddi arwrol Ffrangeg, heb reswm, bid sicr, y bodolai ymlith yr anfyddloniaid Urdd Marchogion fel ymysg y Cristionogion. Yn Ewrob ceid tri dull o wneuthur marchog. Yn y cyntaf, y dull barbarsidd cyntefig, gwisgid y cleddyf ar glun y marchog newydd (hanfod y seremoni) gan farchog urddol: tad, arglwydd, neu frenin, fynychaf; ac ef a roddai'r unig yngor: 'Bydd ddewr'. O tua dechrau'r ddeuddegfed ganrif ymlaen rhoddid hefyd weithiau fonclust nerthol gyda'r cyngor. Yn yr ail treuliai'r gŵr ifanc noswaith gyfan mewn eglwys i'w baratoi ei hun o ran ysbyrd ar gyfer cyfrifoldeb yr urdd. Bendithid y cleddyf gan offeiriad, ond gŵr lleyg eto a hongiai'r cleddyf wrth wregys y dyn ifanc ac ef a lefari'r cyngor, cyngor newydd bellach: 'Car Dduw'. Yn y trydydd sath yr urddiad yn hollol eglwysig, *beneditio novi militis*. Yr esgob sydd nid yn unig yn bendithio'r cleddyf ond hefyd yn ei roi. Daw'r fonclust hitau—ar ffurf cyffyrddiad ysgafn—oddi wrth yr esgob ac ef sy'n datgan: 'Bydd farchog'. Y ddau ddull cyntaf yn unig a geir yn yr hen gerddi. Arwedd ar y cyntaf a weir yma yn urddiad Bown; gwelir yr ail yn urddiad Galaath yn SG 2. Gw. Léon Gautier, *Chevalerie* 269-76.

1165-7. *y gŵfcaid . . . heb neb ae hymhozthei*. Dyma oedd *s'adouber*, se *do(u)ber*, gair a ddaeth (gydag ym am se) i'r Wenhwyseg ac a arferir yn feunyddiol heddiw yn y ffurfiau *ymdopi* a *myndopi* a chydai'r ystyr 'ymdaro, manage by oneself' ym Morgannwg; cf. efallai o ran ffurfhad *ymbil* < *se* (*a*) *piler*, se *peler* = *s'apeler*.

1171. *marchaŵe ysgafyn*, sef *m*. yn dwyn arfau ysgafn ar geffyl hoyw (cf. B 1115 *palefrei*) wedi ymbaratoi i fynd ar daith yn hytrach nag i frwydr; yn HFF gelwid hwn yn *chevaus leg(i)ers*, eithr ni cheir mo'r gair yn B; cf. 848-51 a gw. n. ar 98.

1181. Rhodder atalnod ar ôl *fryflab*.

1184-6. *ef a doeth y gygroeffozd*. LIC *gyngroeffozd*; B 1128 *cynt a un carfu* 'daeth i fan y cyfarfyddai pedair heol' (< **quadrifurcum*). Nid yw'r gair Cymraeg efallai lawn mor llydan, ond y mae'n lletach yma na *brivium* D. Gorau ystyr ond oddi yddai 'lle bo amryw ffyrdd yn ymgylfarfod'; cf. *yny doethant y le yr oed yr holl ffyrdd yn ymgynullau ygyt* SG 348 = *tant que il vindrent en une crois, là où voie forchoient* Porvin 231.

yd aeth ar ddiado 'he went astray' nid 'he went direct' RW; cf. B *forveier* 'collir ffordd' a TW dan *errare* . . . 'cyfeiriorni, crwydro, . . . mynet ar dhiaperot, dydroi, mynet ar dhdio . . .'; gw. hefyd G dan *didro*?

1200-1. *ac na chyfgyffei y nos honno ddim*. Ni rydd y *nos honno* 'that night' RW y synnwyr angenrheidiol. Treuliasai Bown y noswaith flaenorol yn ddi-gwsg wrth ddiac a rhaid wrth y meddwl 'y nos gynt, y nos a aethai heibio'. Darll. felly na *chafsei dim bŵyt tri diŵarnaŵt kyn no hynny ac na chyfgyffei y nos kyn no hynny ddim*. Camdarllenodd rhyw gopŵr y *kyn no olaf fel honno* a gadawodd ef neu ei olynnydd hynny allan fel gair di-fudd. Am debygrwydd *h a h*, cf. e.e. *hamyllau* a *hamyllau* LIDW 10^b; *heureyth* a *keureyth* ib. 212; *hic a hic* ib. 35^b; nid oedd ond y dim lleiaf chwaiith rhwng y ac v (=v) mewn aml isgr.; cf. *uyrŵ* am *uwrŵ* (*fuwrŵ*) yn YBH 912; *canrithŵy* am *canwrithŵy* ib. 1738 ac yn gyffwrdd yn LIDW; hefyd yr oedd v (=v) ac o yn amrywadau orgraffyddol hysbys; cf. *churo* BB 31.12, *hono*, ib. 102.7; *duo* P 14, 6^a; *gwawo* P 3, t. 8, 9, 10; etc.; etc.; gw. n. ar 336-7; cf. SG 247 (yr) *no gyntno hynny*.

1204. *Ymhoelŵch in at bztamŵnd*. Sylwer ar y Cyflwr Derbyniol Ethig a chym. 2333.

1205. *Yn wozedyd glas y dyd hŵnnŵ* 'gyda'r wawr y dydd h'. Cf. *Eboze glas dzanoeth* WM 73; *ar boze glas auozy* P 10, 11^a; *Y boze gan las y dit* BB 92.15; 108.5; *Ac val y bydynt y bozeŵ glas dyd yn ymdidan* LI 34 B 242.

1217. *ymhoeliu idab ynteu*. Gan yr yngenir -d yn *ymhoeliu* drwy gydol y Deau gan gynnwys Gogledd Penfro, rhaid tybio i'r copiwr ymddrysu wrth weld *idab* a chredu ddarfod iddo eisoes dorri deintol y berfenw; cf. *ymhoelut* 462, 667, 1178, etc. (13 o es.); eto i gyd cofier am *ac ymhoeliu pen y march* WM 250 = *Ac ymhoelut* . . . RB 183; *ac ymhoeliu Ieffu adzef* P 14, 13^a. Gw. n. Powel ar *ymhoeliu*, *Cymmwr* IV, 137.

idab = ohono; gw. *Cystrawen*, §51.

1229. *ny chey . . . ŵerth en notllyd*. Gw. dan *Negyddiaeth yn Cystrawen*, §48. (i).

1245. *yr y daffŵys o eur coeth*. B 1180 *quatre fies un pays de or pur ly dona* 'pedair gwaith ei bwysau o aur pur a roddes amdano'. Nid 'for three pounds of pure gold' RW, felly, ond 'for his weight three times in gold'.

1248. *62th yr afŵyneu*. O ddilyn esboniad RW 'by the reins', tybiodd Stimming (*Einleitung* xciv) ddarfod i'r cyfieithydd gwreiddiol gamddeall y testun AN oedd o'i flaen; yn B 1183 *grant eyre* 'ar garlam' a geir, a dyna'n hollol yw ystyr *62th yr afŵyneu*; cf. *elliŵg y uarch a ozuc 62th auŵyneu* WM 16; *yn dyuot tu ac attunt 62th yr afŵyneu* P 9, 21^a = *Otinel* 806 *E veit les contes brochier mut fierement*, 'a gwêl yr ieitll yn ysbarduno yn ffyrnig'; *yna yn diohyr y gellŵgŵys y pagannyeit hafŵyneu y meirch* P 9, 21^b = *Otinel* 811 *E il leissent curre sanz nul retenement* 'ac ymroddant i farchogaeth heb ffwrwyo o gwbl'; cf. a *thynnu auŵyneu eu ffraŵyneu attunt a tnaethant* SG 353; *Potvin* 238 *Le rois Artus fieri des esperans come bon chevalier* 'y brenin Arthur a ysbardunodd fel marchog da'.

1249. *bztamŵnd a ymozdibedaŵd a buŵn ar bŵn glan*. B 1185 *e Boefs tost ateynt a uno tertre mounter* 'ac a oddiwedda Bown fel y bydd yn dringo bryn'. Yn SG 50 cyfieithir *tertre Queste* (S) 55 *yn wastattir uchel*. Ceir enghraifft o *glan(n)* yn *Otuel*, YCM² 109 *Ac yna y dyrchauawd Chyariyu Amberwodyr y benn glann y earych ar y niuer yn y gylch yn dyfrchawawd aghu yr auŵydlonyon*. O'r geiriadur-wyr TR yw'r unig un, hyd y sylwais, a rydd yr ystyr a geir yma: 'is also used in some places for a hill. *Cynt y carodd dau dŵyn na dŵy Lann*'. Er gwaethaf pendantrwydd TR, cymmerth y ddau RW yn eu cyfieithiadau noddfa yn y gair 'bank' (HM II 531; *Cymmwr*, XX, 168). Dyma'r unig enghreifftiau o *glan(n)* 'hill' y gwn i amdanynt yn ein testunau canoloesol (dihangodd enghraifft *Otuel* rhag sylw Stephen Williams). Eithr os prin yr esiamplau yn y testunau, y mae'r gair yn ddigon hysbys ar hyd a lled y wlad mewn enwau ffemdyd, etc.: e.e. *Y Lan* yn ymyl Llanstephan, Caerfyrddin; *Y Lan* o'r tu deau i Talog yr yr un air. Ceir hanner dwsin ohonynt ar ffiniau Caerfyrddin a Phenfro: dwy rhwng Llan-glydwen a Llanboidy, un rhwng Llanboidy a'r TY Gwyn ar Daf, un rhwng Llan-boidy a Llangynin, ac un rhwng Llan-y-Llan a Llandysilio. Y mae *Pen(y)lan* yn enw digon cyffredin yn yr ardaloedd hyn; cf. hefyd *Pen-y-Lan* yn Llanddewi-Efeffydd. Yr oedd cylch y gair unwaith yn eang fel y deagys *Pen-y-Lan* yng Nghaerfyrddin. *Tan-y-Lan* ger Trefeglwys, Sir Drefaldwyn, etc.; cf. *dos* (*mys*) *i'r lan* = *dos* (*mys*) *i'fyrŵ*. A'r un gair yw hwn â *glan* yn *glan afon*? Bryncynau neu fryniau yn aml yw glannau afonydd.

1248-30. *a ymozdilbedad . . . ac y dylbot* Am waith y geirynau *a ac* y yn fleirio, gw. dan *Cystrawen*, §46, (i).

1267-9. *yny aeth ffiol y bin . . . yn eitha y maes*. B 1201 *ke il ly coupe tretut la coroune . . .*; 1208 *la ceruele ly espaunt* 'nes torri ohono ei gorun yn gwbl' . . . ; 'â ei ymenydd dros y lle'. Y duedd gyntaf yw cywiro ffiol yn ffiol, eithr dengys *TW pengloc, phiolen, afcarn y penn a D phiolen pen, creuan* (dan *calua*) fod ffiol yn ddilyn. Y *corun* oedd y rhan o'r pen a eillid yn ôl defod Eglwys Rufain, ac yn wyneb y cymariaethau cellweirus sy'n dilyn megis *tebic cyt y effeirat yr aôz hon* 1276; *effeirat yô nelyd vzaô* 1285, ymddengys mai *corun* yw ystyr ffiol yn y cyswllt hwn. Diddorol sylwi yr arferid *coroune* yn HFF am gorunfoledd ac y ceid y ddeuair *coroune et tonsure* am yr un peth (cf. *Ste-Palaye*.) Tybiaf mai benthyciad o'r HFF *fiol* 'bowl'; ?*rown of the head*' yn hytrach nag o'r Lladin *Canolesol phiola* yw ffiol; y *mae anawsterau* fonetig yn erbyn ei dynnu o'r Lladin *phiola*. Am yr ail ystyr, cf. *fiol* 'head, mug' mewn FID (*Harrap French & English Dict.*, I), meddwl sydd o bosibl yn hen.

yn eitha y maes. Gormodiaith yn sicr yw hyn, eithr yr oedd y cymal ar arfer yn y cyfnod fel y dengys *yny to y ben yn eithaf yr maes* 1776; *yny uyd y gledyf o lab y bzenhin bychan yn eithaf y maes y urthaô WM* 435=*y eithaf . . . P* 63iv; *a tharaô pen Moafle y arnaô hyt yn eithaf y mayr* P 9, 56a; P 5, lviii=*Otinel* 1004 *K'en mi le champ li fet li chief voler* 'hyd oni wna i'w ben hedfan i ganol y maes'. Gan ddarfod i'r-f gollu, buasid yn disgwyl yn *eithaf* *maes* a digon tebyg mai hynny a glywid ar lafar; cf. *pa gur yw y pozhaur=pa gur yw'r p.* BB 94.1, a gw. WG 193. Cf. *ac o dzellis kymint ac a gyuaruu ac ef ay taryan hyt y maes* P 9, 39b.

1272. *da yd ymgarfutyô athi*. Darll. *yd ymgarfutyô . . . B* 1210 *bien tus est rencontré* 'you are in luck's way'. Yr oedd yn arferiad gan y barwniaid Ffrengig i siarad yn wawdus neu'n dramgyddus â'r gorchfygedig.

1277. *ar march da*. B 1214 *sur son destrier priô; LIC y ar varch*. Ymddengys oddi wrth *son* 'his' y dylid dehongli m fel i u-1 ar i *march da*; cf. *ar varch da* 4019 (*son bon chival* 3538); os felly, dyma'r unig i=y 'his' yn YBH.

1282. *ygyghoz*. Dealler *ygyghoz* gyda'r LIC.

1285. *o do y auo nes*. Gw. *Adferfau* yn *Cystrawen*, §48, (iii).

1288. *medyliaô y boln=m. o b.*; gw. *Cystrawen*, §51.

1299-1300. *yn amysgafyn yd yfgyrnaô arnaô*. B 1231 *e tost mounte ius, le estru ne sout gre* 'ac esgyn arno'n hoyw heb ddiolch i'r warthaô'. Cf. *A'r iarl' a esgynnwyd arnao yn amysgawm heb ymauel a'r goryf* YCM² 108 (abs. yn *Otinel*); *yna yd esgynnwyd Rolant yn gyflym heb dodi y droet yn y warthauyl, nac ymauel a'r goryf* ib. 72=*Otinel* 869 *Li gons salt sur, K'd arçun ne se prent* 'Naidia'r iarl arno, oblegid ni chymmerafael yn y gorf'. Un o gampau hynotaf marchogion Ffrengig yr oesau canol oedd medru neidio o'r llawr i sedd y cyfrwy 'heb gyffwrdd â'r gwarthau' ac y mae'r canu arwrol yn llawn o gyfeiriadau at y peth; cf. *De plaine terre saillit ius Fromondius* 'o'r llawr gwasriad llamodd ar gefn Fr.'; *De plaine terre est es archons saillie* 'o'r llawr gwasriad llamodd i gorfau'r cyfrwy' (cf. A. Kitzé, *Das Ross* 40; A. Schultze, *Das Heftische Leben* I, 501; L. Gautier, *Chevalerie* 271, 277, 280, 327-9); at naid fedrus gyffelyb y cyfeirir ond odid yn yfgyrnu . . . *ûgig y ghas yn amysgawm* 1942=B 3465 *legerement salt derere lui ac efallai yn WM* 177: *Y neidai yntau yny gyfryô truchefyn*. Dyna'r enyd hefyd, mae'n debyg, yn 1172 *vagy marchuôc yfgyrnu=munte cum cheualer* 1135.

1304. *y lan dôfyr maôz*. B 1236 *venu est a un ewe* 'daeth i lan afon'; B 3621 *jeskes un ewe les Sarzimis collé=*YBH 4112 *ar llann auon yd ymgynullaffant y f. Arferid y gwahanol furliau a ddeilliassi o aqua ac *acqua* (*caue, ewe, ewe, aue, aigue, etc.*) yn HFF nid yn unig am 'ddwfr' ond hefyd am 'afon, llyn, môr, etc.'. Cf. *Otinel* 191-2 *Entre. ii. ewes est fremée et batie* 'rhwng dwy afon yr adeiladwyd Cf. *Otinel* 191-2 *Entre. ii. ewes est fremée et batie* 'rhwng dwy afon yr arwein- deudwr'; *Otinel* 325 *Entre. ii. ewes en ont mené Rollant* 'rhwng dwy afon yr arwein- asant Rolant'=YCM² 54 *ac a'e hebrygassant hyt rug y deu dôfyr ysyd yn herdet truy Paris. Y neill onadunt yw Sein, a'r llall a elwir Marin Uwaw; Otinel* 733 *Lez l'ewe del Ton, enmi la praerie=*YCM² 67 *ar hyt glan auon a elwoit Toon, y myau gweirglatod*. Buasid, gan hynny, yn disgwyl i'r cyfieithwyr drosi'r esiamplau o *ewe, ewe* yn YBH ac *Otuel yn auon bob tro*. Dyna y wnaeth troysydd *Otuel un- ewe, ewe* yn YBH ac *Otuel yn auon bob tro*. B 1253; etc.; cf. hefyd ystyr *dôfyr* ar batrwm *ewe, ewe*; cf. *dôfyr* YBH 1329=*ewe* B 1253; etc.; cf. hefyd SG 161: *Ac yna wynt a twelynt yr amser yn tywyllu=*Queste (F) 237 *si commença li tons a oscurchir* 'the weather began to be overcast'; ib. 6 lle ceir *gorffoys=*'to cease' o waith y troswr yn cynryd drosodd ystyr *remandre* *Queste* (F) 6.

Wrth fynd heibio, sylwer bod yr *awe* uchod yn debyg iawn i'r elfen gyntaf yn *acedur*, yn *IMundi* 45 (*flumibus*). Hefyd anodd gwrthod y casgliad nad yr *aigue* a ddyfynnwyd (ynganer *aig*) a roes *aig* gyda'r ystyrion uchod yn *Gymraeg*. Y *mae aigue* yn air cyffredin iawn yn y testunau HFF (gw. *Ste-Palaye, etc.*) ac yr oedd yn sicr yn hysbys i'n cyndadau canolesol fel yn *aigue couvant* *Queste* (S) 42=SG 118 *dawyr redegaw; par deus l'aigue* *Queste* (S) 6=SG 4 *ar drawr yr avon; si retournerent a l'aigue* *Queste* (S) 196=SG 167 *wynt a ymcholeasant tu ar mor; etc.*; a thebyg y trewir rywbryd ar enghraifft ohono yn ein rhyddiaith gymnar. Cymysgwyd ef â rhyw (*haig*) arall ynghwrs y canrifoedd. Gw. n. Ifor Williams ar *rhuwfo'r aig yn Dafydd ap Gwilym a'i Gyfswery*, 192, lle ceir esboniad gwahanol ar *aig* a hefyd GPC.

1304-5. *haner milltir oed yn llet y dôfyr*. B 1237 *deny lue out le ewe de lee*. Yn Hen Ffrainc yr oedd *lue, lise, etc.* (*leuca*) ddywywaith yn hwy na milltir (*milliare*), eithr yn Lloegr Anglo-Normanaid arferid y ddeuair yn gyflystyr; cf. *Quum leuca uualis mensura terram metientium apud Francoi constat de duobus millibus passuum* Inghulphi *Historia*, Coll. Fell I, 82; *Angli autem utuntur terram metiendo milliarum, et dicitur milliare quia constat de mille passibus; sed scire debetis Anglos . . . loco milliarum, leucas dixisse, sed milliarum intellexisse*, ib. 83 (gw. ymhellach L. Delisle, *Études sur la Condition de la Classe Agricole en Normandie au Moyen-Âge* 533). Y filltir ganolesol fyrraf o'r ddywy sydd yma, gan hynny, gellid meddwl. Oblegid yr amwyddedd a ddatblygodd yn ystyr *l(i)ue* yn y ddywywiad Ffrangeg aeth yr Anglo-Normanaid i alw'r filltir gyfandirol yn *l(i)ue galesche*, 'y filltir alaidd' (cf. *g.=gaulois* 'de France' yn *Codefroy*). O hyn, mae'n debyg, y tarddodd *m. Ffrengig* Dr. D. ac o gymryd *galesche* yn amryfys yn ei synnwyr arall (*galloir* 'Welsh') gyda chof o bosibl am filltir cyfraith Hywel (gw. AL I 184-5 a n. AO) y deilliodd ond odid *m. kymreic* SG 188, 195, etc. (*liewes galesches* *Potvin* 20, 30; Nitze 43, 54). Gw. n. ar *troetued* 1338.

Onid gair brodorol yw *lled* 'broadth' (cf. Gwydd. *lled* 'side'), gellid ei ystyried yn fenthyciad o'r AN *let* (gyda *d* galed); gw. M. Watkin, *HBCS*, XIV, 22.

1306-7. *ny allei na llôg nac yfgyraf arnaô*. Ymddengys bod berfenw *mugia* *nafyô* neu'r cyffelyb yn eisiau yn yr ymadrodd hwn, eithr dengys gwaith y LIC yn ymrwthod â chywirow ac esiampl WM 52 *ny eill na llong na llefytz arnaô* fnd absenoldeb y cyfryw ferfenw yn beth cydnabyddedig.

1308-9. *dodi arloft y llwyd yn y ddyfyr*. Amhendant yw B 1238. Os rhoes arroi HFF Ffrainc *arloi yn AN ac o hynny arlof mewn CymC (y mae'r ystyron yn cyfateb yn hollol), ymddengys y gellir tynnu arlllost yn gyfreithlon o amr. AN *arlost, *arlest=HFF Ffrainc arlost, 'handle, grip, etc. of a lance' (Ste-Palaye *poignée de lance*). Cf. *albrast* YCM² 53, 66 ac *arblastwyz* RBB 350; etc.; HFF *arbalette*, etc. Ond gw. GPC lle tynnir ef o ar+llost. Ar air milwrol fel hwn, anodd credu na fu yma ymgroesi.

1314-5. *ac y dechreuis fuediaô*. Er gwaethaf anwastadrwydd ffyrdd y barwn canoloesol, yr oedd gweddio yn rhan hanfodol o'i fywyd. Dyna a wna'i gyntaf bob bore ar ôl ymolchi a cheir arwyr yr hen gerddi yn mynd i weddi mewn treialon enbydus. Am esiamplau o'r gweddïau 'lleyg' hyn a thrafodaeth lawn, gw. L. Gautier, *Chev.* 536-48.

1319-20. *oy gladu ac odyno yd aeth*. B 1246 *e en le sepulchre fustes ensevelis* 'a'ch claddu yn y bedd'. Efallai i yny bedd golli ar ôl *ay gladu*; onid e, rhaid tybio un o ddeubeth: (a) mai gwall am *odyna yw odyno*; (b) bod i *odyno* yr ystyr 'then, afterwards' megis, o bosibl hefyd, yn 1478 *yd erchis idaô mynet trôy y dinas a elhîr nuble*, ac *odyno y gartage*=B 1376-7 a *Monbrant vus covent aler e a Cartage aucy* 'rhaid i chwi fyned i M. ac i Gartage hefyd'. Oni chollwyd dim, yna dewisach gennyf (b).

1331. *ym verthyzu*. Cywirodd y LIC yn ym m...

1333. *y gyt ac y darfu idaô ylbedi*. Gw. dan *Cystrawen*, §42, (i).

1338. *dec troetued ar hugein*. B 1257 *trente pez mesurez*. Yn ôl LIDW, 9 modfedd oedd hyd y droedfedd Gymreig gyfreithiol a chysylltid hi â lled y llaw: *teyr moduet yn llet palyu*, try llet palyu yn y troetued, gw. GMWL. Yn gyffelyb, cysylltid y droedfedd Ffrengig â'r llaw: *Spacium altarium, xij pedes manuales* (dechrau'r XIII); o *pedes et dimidium de alto ad pedem manum* (tua 1210); *trois piez à pié main d'espasse* (canol XIV), etc.; gw. Léopold Delisle, op. cit. 530-1. Tybed a ddylanwadodd y mesur Ffrengig ar droedfedd y cyfreithiau Gymreig? Gw. ar milltir 1304. Am allu i neidio fel nodwedd dda mewn march, cf. Léon Gautier, *Chev.* 725.

1353. *en doeth o vara gibenith peillit*. B 1275 *un pain de forment bulté* 'a loaf of bolted wheaten bread'. Cf. b. *peillit da* 1416. B 1334 *pain besquid* 'twice-baked bread'. Dyma fara'r pendefigion, bara a wnaethpwyd o flawd can wedi ei ogryn droeon (gw. ar 960). Gan fod i'r rhang gorff. *bultier* ffurfiau amrywiol: *béleté, beluté*, etc.; gan y digwydd yn AN enghreifftiau o rang gorff. heb -f (cf. *demaund=demaundé* a gw. ar 34); a chan y ceir amrywiadau ar yr enw cytras: *buletél, beletel*, etc. 'bolter-sieve', ymddengys nad yw *peill(e)it* namyn benthyciad o flurf AN megis **be(i)ll(e)it*. Am p- yn lle b-, cf. *pengôch pôzquin* RB 172 (< *Borgoigne* a gw. ar 545), ac am l+l yn rhoi ll, cf. *yllu o cillier, sillier* 'to bring the eyelids together'; *yflauell* 'stable' o *testavelle* (gw. LIC=1061 o YBH a'r n. ar 1160).

1360. *y gibeli ltreicyangh dec*. B 1280 *une bele dame* 'a fair lady'. Yn yr un cywiltl *tronie dame yn arglôydes* (1361) a *glbreicda* (1371); ni sonnir o gwbl ei bod yn *seume*; gw. Ifor Williams BBCS I, 15 et seq.

1363. *dyra ym yn thalyeit o floyt*. Gw. *Bannod Amhendant yn Cystrawen*, §40.

1365. *ouer yô it dy ymbil a mi*. B 1286 *de neint vus oi parler*. Ai ar se *pîler*, (*peler*) yn AN=s'apeler HFF Ffrainc 'to entreat, to invoke' gydag ym am se (cf. *ymdopi* Morgannwg <se dober) y seiliwyd ymbil? Gw. ar 1165-7.

1369. *a dzoffaôl heyernyn*. Darll. *ae d*, fel yn y LIC. Cf. B 1291 o *son grant lever*; am ystyr *dzoffaôl* gw. n. ar 991. O ddilyn WG 257, buasid yn disgwyl *heyernin*, eithr -yn a geir hefyd yn 1377 ac yn y manau cyfatebol yn y LIC; cf. hefyd *heyernyn* P 5 xxxvij^a; BBCS IX, 229.

1376. *Mi aaf y ymbelet ac ef*. B 1297 *jeo li irrai justiser*. 'minnau a af i'w gosbi'. Yn ôl Stimming (*Einleitung* xcvi), y mae *ymbelet* 'to visit' yn ddiystyr. Ni allaf gyuno. Yn 1367-9 dywaid gwraig y cawr yn wawdus *mi aaf ar hynt y erchi idaô rodi yt dy giniaô ae dzoffaôl heyernyn*. Ateb y cawr oedd *Mi aaf y ymbelet ac ef*, ateb, fel yr ymddengys i mi, sy'n hollol gydfyned ag ysbryd geiriau'r wraig. Eto efallai mai damwain sy'n cyfrif am y cytgor. Y darll. yn y llagr. AN yn bur sicr oedd *iustifer* gydag i=j- (cf. *iubet* YBH 628); o ddatllen ju- ceid yr hyn sydd yn B; o ddeall ui-, ceid *uistiser*, sef *vistiser* neu *vistiser*. Ni cheir mo'r gair gydag -is- yn y geiriaduron HFF, hyd y sylwais, ond digwydd *vister* ac yr oedd gair arfer barau o gyfystyron megis *oguer ac aiguis(i)er*; *pacter a pactier*. Ni buasai *vistiser* yn un syndod yn y cyfnod ac ni buasai dim yn haws na mwy naturiol na'i drosi yn *ymbelet*.

1392. *yn ehôydyr*. LIC *ehôybyr*. Y mae'r darll. i -d- yn y LIC yn hollol ddi-amwys, eithr gan na wyddys dim am y gair, a bod y LIC yn diwygio, gorau peth fydd dilyn darll. y LIC fel y gwnaethpwyd yn G. B 1313 *Boves laut a pe* 'B. springs to his feet'. Ystyr yn e. felly yw 'rapidly', nid 'boldly' RW.

1401-2. *ac nys metraôd namôyn gan y ystlys yr llaôz*. B 1324 *mes il falli si est versé* 'ond methodd a throes (y ddyrnod) i'r ddaear'. Ymddengys i *mynet*, oherwydd tebygrwydd ei ran gyntaf i ran olaf *namôyn*, fynd ar ddifancoll.

1411. *y myôn yz*. Chwaneger *castell*; cf. *est Boves en le chastel entres* B 1329.

1416-21. *Dyry'r llinellau hyn syniad am gyflawnder a nodwedd y pryd bwyd yng nghestyll yr oesau canol; y bara manaf ei flawd, yr helaethrwydd o gig, yn enwedig cig adar, poblogrwydd gwin. Bwyteid adar gwyllt ar raddfa eang; adar yr afonydd, y corsydd, y pysgodlynnoedd, etc.; gw. *Chev.* 638.*

1421. *a gblin claret digalôn y gadarnet*. B 1333 *e bon vin claré*. Yn ôl Ste-Palaye, *Mémoires* I, 45, cymysgedd o win a mêl oedd y *claret*; yn ôl A. Schultz, *Das Höfische Leben* I, i wneuthur *claret* rhoddid perlysiad ar ffurf powde gyds siwgr neu fel mewn sach o liam ac yna fe ddyfneid y gromysgedd hon â gwin hyd oni enillai'r gwirod y nerth boddhaol. Yr oedd y gwirod hwn yn gryf iawn a chodai'n hawdd i'r pen; cf. hefyd L. Gautier, *Chev.* 642-4 a gw. M. Watkin, BBCS, XIV, 20.

1441-2. *A ffalbed y hamsones ynteu os garcharu*. B 1352 *e com il fu a Damacle ewoeyez* 'a pha wedd yr anfonwyd ef i Damascy'. Ar ôl cael y llaw 1436, y *gberth-yffit* 1437, y *kyhudyffit* 1440, buasid yn disgwyl *hamsonet*, a thueddaf i gredu i ryw copiwr ddarllen -f fel -j; yr oedd f hir a t yn debyg iawn i'w gilydd; cf. *dyfeyn* (= *dyfeyn*) LIDW 98; *doethof* (= *doethof*) WM 288; *ymdref* (= *ymdref*) RWM I, 67, etc.; etc. Onid e, rhaid tybio i'r geiriau y *hamsôn* golli ar ôl *hamsones*.

1450. *daugein byfant o eur dilifyn*. B 1358 *trente e quatre besans de fu or esmeré*. Gair HFF yw *besant* yn golygu mwml Byzantium o aur neu arjan a oedd yn adnabyddus yn Ewrop er adeg y croesgadau. Amrywiol gwerth y bath hwn yn ôl

y lleoedd a'r amseroedd. Yn *Lancelot du Lac* (gw. Ste-Palaye) saif *besant am ialent* y TN, Matth. xxv, 15, a'r un modd yn y SG 42 lle ceir *besavent* droeon yn cyfateb i *besans* y *Queste del Saint Graal* (S) 46. Ceid ffurfiau yn *-ant* ac *-aunt* yn HPf a benthycwyd y ddwy gan ein cyndadau.

1451. *a chymryt y gennat ae vendith*. B 1359 *e li bonement a deu comandé* 'ac ef (sef y pab) a'i cyflwynodd yn gynnes i Dduw.' Ymddengys felly y dylid chwangu o *boón* ar ôl *a chymryt* neu'n fwy tebyg, y *boón*; gw. §51.

1457. *namóyn y mamóront*. Dilyner darll. y LIC *ym m...*

1460. *hyffys yr adnabu*. Gw. dan *Rhagenwau Perthynol* yn *Ffuriant*, §29, (ii).

1465. *a ofynnaóð Iofan*. Gw. n. ar 88.

1467-68. *iuoz... o ymóbzant*. Buasid yn disgwyl naill ai o *m...* neu *oz m...*; gw. *Cystrawen*, §39, (ii).

1471. *nynnaf*. LIC *mynnaf*. Yn aml yn AN nid oedd nemor o wahaniaeth rhwng *n* ac *m* a cheir adleisiau draw ac yma o hynny mewn CymC; cf. *nacc* = *macc* = *mach* LIDW 47b; *A minheu yn tri* WM 396; *a atem ni* P 5, xxxv; etc.

1473. *hanyz gón yn dda*. Noder ys fel gwrthrych y ferf.

1477. *y dínas a elbir nubie*. Darll. y *tblat a elbir nubie*. Er yn gynnar ac yn enwedig er dechrau'r drydedd ganrif ar ddeg torrid *l* mor fyr ag *i* mewn rhai ysgrifenydd gan wneuthur y naill yn fynych yn gwbl unwedd â'r llall: *Cintlipuc* = *Cintlipuc* AC, *Cymmr*. IX, 147; *carnocalluun* = *carnocalluun* LL 247; etc.; camgymeriad rhywun oedd gwnethur *nubie* 'Nubia' yn *dínas*.

1494. *maóz abeth yth geris*. Gw. dan *Adferfau yn Cystrawen*, §48, (ii).

1499. *yn mihycyat palmer*. Yr oedd lletygarwch yn un o brif nodweddion y teulu barwnol a lletygarwch i'r tlodion, y meudwyaid, a'r pelerinion yn amad neb. Yr oedd rhyw 'ystyr hud' yn nyfodiad pob pelerin, a derbynid ef gyda pharch ac anwydeib mwy na maint. Pwy a wyddai? Gallai mai'r Iesu ar lun a delw crwydrin oedd yn ymweld â'r castell. Gwrandewid ar stori ei daith i Rufain neu Gaersalem yn ddiiflino hyd berfeddion nos. Canai'n iach bob tro ynghynt nag y durmunid. Gw. Léon Gautier, *Chev.* 556-8, 670-1.

1502. *a chroyffab ózthyst*. Gw. n. ar 2821.

1504. *a rodi dófyf... y ymochi a hitheu a thaffnaethab ac a rodes*. Am yr arfer o ymolchi'r dwylo cyn ac ar ôl bwyd, gw. ar 2775-76; am goll *l*, gw. dan *Orgraff*, §18; ymddengys i *arnaó* gollu ar ôl *thaffnaethab*.

1536. *dsuanach y chyffyr*. Ymddengys fod gwrthdrawiad rhwng yr ansoddair a'r enw yn ei ystyr arferol. 'Tynais eisoes y gair *cysur* o'r HPf *co(n)sir* (gw. n. ar 10) ac un o'i ystyrion oedd 'pryder a hiraeth serch' (cf. Ste-Palaye), ystyr a fyddai'n benigamp yn y cyswllt hwn; cf. *drychysyry* SG 252 = *feire deul* 'to moun' Potvin 95.

1541. *bei nath hrelón nny dílygyat hón*. B 1426 *si sel esclaveyne ne vis veys aver* 'if I did not see you garbed in this esclaveyne'. Math o orwng debyg i *smock-frock* heddiw oedd yr *esclaveyne*, eithr gyda llewys llydan a chwff, gwisg a hoffid

gan y pelerinion (cf. 1499) ac a fenthycwyd oddi wrth y dwyreinwyr (y *Sarain-heit*) tua diwedd y ddeuddegfed ganrif neu ddechrau'r drydedd ar ddeg; gw. Violette-le-Duc, *Dict. du Mof.* III, 349-353.

1542. *mi... a dybedón y taó ti*; cf. 3789 *medylyeit... taó hir y buaffei...;* gw. *Y Cymal Emvol yn Cystrawen*, §45, (ii).

1543. *na vi*. Gw. ar 846.

1548. *a veido mynet nny gyfyl*. Cf. Bayard, y march yn *Renau de Montauban*. Yn ôl yr hen gerddi, pan gollai'r meirch hyn eu harglwyddi ni chaniatant i neb fynd ar eu cefnau.

1554. *mynet oe y edzych*. Gw. dan *Rhagenwau Meenol*, §28, (b), I.

1558-74. Yn ôl awduron y cerddi arwrol, medd y meirch rhyfel, y *destriers*, (gw. n. ar 98) ar ddealltwriaeth, cof, a chyfeillgarwch hafal i ciddo dynion. Am enghreifftiau tebyg i'r hon a geir yma, gw. L. Gautier, *Chev.* 727-8 n.

1561. *a únaeth*. Ailadroddiad, mae'n debyg, o'r un geiriau yn y llin flaenorol.

1573. *a cherdet góalop*. B 1459 *galopant comence aler* 'he begins to gallop'. Cf. *Otuel* YCM² 85 *herdet a wnaeth, ar rwyd walhob y warch, y wrthaw=Otinel* t. 42 *si s'enva galopant* 'he goes away at a gallop'. Yn nhabodieithoedd Hen Ffrainc aethai'r *u*-yn y benthyciadau Hen Almaeneg a'r *u*-Ladin a ddaethai dan ei dyl-anwad weithiau yn *gu-*; weithiau arhosai'n ddiwyfnewid; weithiau datblygai *gu-* yn *g*-drwy gollu'r *u* wefusol. Ceid felly yn yr eirfa ganoloesol Ffrangeg dair ffurf ar y geiriau o'r dosbarth hwn; e.e. *guarant*, *warant*, *garant*; *guarnir*, *wornir*; *gornir*; *gualop*, *walop*, *galop*; cf. hefyd *Gualter*, *Walter*; *Guillame*, *Willame*; etc. O fod ar y dechrau yn wahaniaethau seinyddol aeth *gu-* (*gu-*), *w-* a *g-* yn nes ymlaen yn amrywiadau orgraffyddol. Daeth y nodweddion hyn drosodd i GymC yn y geiriau benthycyd o'r HPf, a pheth sydd fwy diddorol fyth, benthycodd y Cymry'r cyfatebiaethau fel arwyddion orgraffyddol. Dyna sut yr egluraf fi *glible* wrth ochr *guble* yn LL 182; *mynu* wrth *myul* *mingui* ib. 196; etc. Ceir wmbredd o enghreifftiau; yn LIDW: *egulat* 4^a, 15^b, etc., a *guana* 17^b (BM 4 a *tona*), a *guato* 18^b (BM 4 a *wato*), un *geyf* (*gweyf* = *gweyth*) 5^b, *teyr* *geyt* (*gweyt* = *gweyth*) 5^b; etc.; yn BB: *gelho* (*zuelho*) 7.6, *graget* (*guraget*) 30.10; *gint* (*guint*) 89.13, etc.; yn LI I: *pa gualat* 7^b, 9^a, *egulat* 9^a, 9^b, a *guoath* 2^a, 5^b, 7^a, etc.; yn P 44: a *guoath* 3, 4, 5, 12, *rygunathoed* 28, *ny gweydynt* 10, etc.; etc. Collasai *g* = [S] megis yn *petguar* (Ox. I) cyn y cyfnod canol (cf. WG 21) ac nid oes le i greu mai adleisiau o'r asin honno a geir yn yr enghreifftiau a ddyfynnir yma.

1576. *dóvy y hóylaó*. Anaddas yw'r geiriau hyn yn nhyb *Stimming* (*Einleitung* lxxxv), ond methaf â gweld paham. Y mae wyllo o lawenydd yn beth cyffroddia a cheir enghreifftiau o hynny yma ac acw yn y testunau HPf; cf. *si comença a plorer de joie* Potvin 307 = SG 413 *hi a wyltaud o leuencyd*; etc.

1581. *yn damunaó y thelet ar yr ieffu griff*. Rhodder atalnod ar ôl y *thelet* a darll. *ac yr ieffu griff*. B 1463, *Boten, par deul descendez!* 'Bowen, er mwyn Duw, disgynnwch!'. Am *r* = *c*, gw. ar 724.

1584. *y cledyf dyro ym*. Oddi wrth y cyd-destun ac oddi wrth B 1465 *mun branc me baillez!* 'y nghlleddyf rhowch im!', y mae'n amlwg y dylid deal *cygledyf*. Am *c* = *ng*, cf. *pymthee* *niharnat* 240 (LIC *pymtheng* n.), 4305; *dec nrenhin* 4125 (LIC *dec* *bz* . . .); *pymthee* *nrenhin* 4125 (LIC *pymthee* *bz* . . .). Am *c* = *g*, gw. *Orgraff*, §18 dan *ng*.

1586. *ragof y kerdaf inheu tu a lloegyrr*. B 1467 *en Engletere m'en iray*. Tybed a oedd *lloegyrr* i'r cyfieithydd yn golygu *Cymru* hefyd. Mewn rhannau o'r De y mae *Lloegr* heddiw ymlith y werin yn arwyddocáu *Cymru* a *Lloegr*, ond *lloegyrr*=*England* ym *Manawydan Vab Llyr* WM 63, 65, etc., cf. *lloegrwys* yn *Llyfr Aneirin*, etc.

1589. *gat ehunan*. Gw. ar 399.

1594. *yg charchar*. LIC *yg harchar*; gw. *Orgraff y Treigladau*, §19, (iii), (b).

1600. *yd vyt feith mlyned yn gôbyl gyt ac iuo2*. Ymddengys i *yf golli* o flaen *feith m.* oblegid gan fod *losian yn dal* i fyw gydag *luo2*, gofyn y gystrawen am *yf* yn ogystal â'r pres. o'r ferf; cf. 1580 *yd oedon yf llawer o amfer yn damunab* . . . lle'r oedd *losian yn dal* i ddymuno ar adeg benodol yn y gorff. yr hyn a ddymunasai am beth amser cyn hynny. Arall yw'r gystrawen yn 1594 *a beris ygharcharu* . . . *llawer o amfer*; am *côbyl*, gw. ar 22.

1601-3. *o heut uozôyn . . . ryuedaôt . . . y6*. Buasid yn disgwyl cytgorod angen; gw. n. ar 983.

1609. *om yn crys*. Sonnir am arfer debyg yng nghyfreithiau Hywel; cf. LIDW 26^a a 26^b; *O rodjr morujn y lur ae j hafael en gureic . . . ladher ekryf en keuc ae ygerdir*. Gan nad oes sôn am y ddefod yn nulliau Dyfed a Gwent (gw. AL I, 520, 750), tybed a geir yma yn Null Gwynedd fenthyciad o arfer Anglo-Norman-aidd? Gw. n. ar 703.

1621. *o hela*. Ailadroddiad damweiniol, o bosibl, o *o hela* 1619.

1622. *o ierch*. LIC o *eirth*. Yn ôl WG 40, *yrc* yw llw. *iôzch*, ond gyda ffurfiau eraill dyry D *yrch*, a dengys P 10, 36^b *yrch dof ac y yrch* 'his roe-deer' ib. 37^b bod llw. ag i- yn bodoli. Gall *ierch* (gydag e am y eglur, gw. WG 16), gan hynny, fod yn ddilys. O'r tu arall, *urces* 'eirth' sydd yn B 1494; gw. §5, (v), (20).

1634. *a eluir dabilent*. B 1501 *de Abilent*; 1506 *la cité d'Abilent*. Gadawodd y Cymro y gair i aros yn Gymraeg fel yr oedd yn y llagr. AN, eithr fel enw syml ac nid fel ymadrodd ansoddeiriol; cf. *tu a dabilent* 1648 ac *yn dabilent* 1665. Unwaith, serch hynny, digwydd *tu ac abilent* 1680.

1638-43. *a managet idaô bot . . . a bot . . . ac ony chai . . . y gozuydît ef ac y keit . . .* Brawddegau syml, uniongyrchol ac i gyd yn yr amser dyfodol sydd yn B 1503-9 a dyna a geir yn YBH o boptu i'r geiriau a ddyfynnir. Y peth mwyaf naturiol, felly, fyddai cywiro yn . . . *chai* . . . *gozuydir* . . . *y keit* . . . , ac os gellir credu ddarfod darllen *r fel t* yn y ddau air olaf (cf. *Orgraff*, §18, r), gellir hefyd gredu i hynny alw am droi *chai* yn *chai*. Aeth -r yn sicr yn -t yn *difetheit* 1670-3 lle mynegir y neges y sonnir amdani yma: *ac ony cheif nerth . . . ef a geir y ty . . . ac ynteu a difetheit*. Onid camdarlleniad aw'r eglurhad ar 1638, rhaid casglu fod ger ein bron *anacoluthon* ac i ryw air nas rhoddwyd newid yr amserau i'w ateb ei hun.

1646. *ef . . . a luydda ar hynt*. B 1508 *se armerut vitement* 'will speedily take up arms'; *luyddaô*, *luydda*, *luydda?*<AN *lutter* [lütser], HFF Ffrainc *lutter* 'to engage in strife, in combat'; *luydda?*<HFF *luite* 'strife, struggle'. Gw. *Goddefroy*.

1661. *y palmer*. B 1518 *Di moi, dont tu es* 'Dwyed im o ba le yr wyt'. Dilêc y *palmer*.

1662-5. Gw. ar 1499.

1663. *carbari*. Darll. o *carbari*.

1673. *difetheit*. Darll. *difetheir* a gw. n. ar 1638.

1674. *tarddu y gibaet* . . . Gw. n. ar 299.

1676. *af g62 diuetha vyd wy mraôt*. B 1531 *Si mun frere seit pendu* 'o chrogiwr fy mrawd'. Yr ystyr, mae'n debyg, yw 'gwr i'w ddifetha'; cf. *g62 diuethaf vydut* RB 152; *g62 llad* RBB 161; etc. Ceir yn HFF air tebyg, nid amgen, *devidd*, amr. **devida* (cf. *esquevale*, *esquevala* yn n. ar 34) yn golygu 'dead', sef rhang. gorff. *devidser*, yn ddiweddarach, *devier*, 'to die' (<*de+viita+are*). Onid gwaith copiwr yn ymddrysu oherwydd *v-* yn *vydut* yw'r esboniad ar -f yn *g62 diuethaf* uchod, dichon mai ei ymwydd o werth ansoddeiriol *devidd*, *devidd* sy'n cyfrif.

1690. *y pari*. LIC *parei*. Llithr copiwr neu efallai gof o gyfwerthedd i ac ei yn AN; nid hen amberff. mo hwn, yn sicr, oblegid buasid yn disgwyl affeithiad o'r a yn hwnnw. Am *i=ei*, gw. dan ei yn *Orgraff*, §17.

1695. *mineu a af o2 lle* 'I shall go immediately' nid 'I will go to the place' RW. Ystyr diamheuol o2 lle yw 'ar unwaith, yn ddi-ood'. Cf. *Je heb y gereint a uo yma o2 a dylyo uod yn vr y znyôl gôrhaed ita6 o2 lle*. A hynny a ozuc y gwyir oll WM 401=RB 257; *Nycheffs di naud eb yperedur ony friodyr ywreic h6n ozlle amynet lys arthur gyntaf ac ygellych . . . Armarchatoc a briodof ywreic ac arodes isret vynet lys arthur* P 7, WM 614; absennol o fersiwn P 4, WM 126, ac o un P 14, WM 289; hefyd yn bur debyg yn *Pur ditheu heb ef uynet y nyôl ymdeith o2 lle* P 4, WM 451=P6/jw, WM 225=P 6/iii, WM 285=RB 294; ac yn WM 49 (RB 34) a *dechreu o2 lle h6nn6 peri amon hantudeu lle*, gellid meddwl, ddarfod chwaneu *h6nn6* o waith y copiwr yn ymddrysu. Cyfieithiad yw *o2 lle*, mi dybiaf, o'r HFF *du lieu*; cf. *de lieu* 'yn union' (Ste-Palaye). Ymddengys mai'r ffurf frodorol yw *yny lle*, cyfuniad a welir yn fynych ddiagon; e.e. WM 192, 605, 620; RB 93, 94; RBB 30; RB 1424; BT (P 20) 95^b, 96^a, 106^a, etc.

1700. *yny tunelleu g6in*. B 1549 *en le tonels de vin*. Yr oedd ein cyndadau yn yr oesau canol yn gynefin â dau ddatblygiad o'r Hen Gelteg *tunnâ* neu *tunnâ*. Ar y naill llaw ceid y datblygiad brodorol a welir yn *tun(n)oll* (gydag *u=û* ac -ll=ll), ar y llaw arall ceid yr un a dyfodd ar dir Ffrainc o'r Hen Adeg (gydag -o neu, yn AN, *u=w*). Digwydd un o'r amrywiadau AN yn SG 316, nid amgen, *turnel* (fam *tunnel*) lle cyfetyb bedair gwaith i *cave* 'casgen' (<*cava*) yn Potvin 184. (Unwaith arferir *cave* ei hun, ar ffurf *kyff*, gydag *y=û* fel yn H8 ac *ff=vr*, er mwyn amrywio'r ieithwedd). Tebycaf peth yw mai *en le tonels* (= *tunnels*) *de vin* yn hytrach nag *en le tonels* (gydag -o) oedd darll. cynndelw'r cyfieithydd Cymraeg (yr oedd u yn llawer amlach nag o am ^u yn AN), ac anodd credu y byddai gwr mor chwannog i fabwyaiau yn ei drosiad y geiriau HFF oedd o'i flaen (gwnaeth hynny ddegau o weithiau) yn debyg o wneud mwy na dodi -en yn lle -t a rhoi inni *tunelleu* (= *tunnels*). Nid oedd rhai o'r copiwrwr cystal Anglo-Normanwyr â'r cyfieithydd (gw. n. ar *plys* 957, *awoz* 1095 etc.), a thybiaf mai un o'r puryddion hynny a droes -l yn -ll er mwyn Cymraegio'r gair yn *tunelleu*. Geilw John Lloyd-Jones fy sylw at *tunnel* RP 1340.23 ac at enghreifftiau diweddarach yn y Farddoniaeth. Yn y Rhyddiaith hefyd noder *tunell* LIDW 35^a, ffurf ag ôl ysgolheictod AN yn drwm arni. Ar *tunnâ* neu *tunnâ* yn rhoi

tonne, sail tonnel, tunel (=tunnel), twrnel yn HFF, gw. Thurneysen, *Keltoromanisches*; Camillscheg, *Etym. Wört. der franz. Sprache*; Bloch, *Dict. Étym. de la Lang. Française*.

1701. *affan vo garfi y chuinfa yn fôperu dechreu nos.* B 1550 *hant il serra nuit e il seient a soper* 'pan elli yn nos a phan font hwythau ar swper'. *Chuinfa* 'sero' D; dan *serò* rhydd TW 'yn hwyr . . . y chwinfa, yn y gogyfnos . . . gan gyflychwr'. Gyferbyn â *cyflychwr* eto D 'crepusculum, vespertinum'. 'In the Shropshire Welsh it signifies "In the close of the Evening"'. E Lh., AB 220. Ymddengys, felly, mai glos ar y *chuinfa* yw *dechreu nos* (=LIC). Ceir *ochuinfa* WM 474 = y *chünfuf* RB 116 ac *ychtünfuf* ddwywaith yn WM 427; gyfarwyneb â'r ddwy esiamp olaf dyry P6/iv *ochuinfa* hefyd. Yng ngeiriadur Anwyl rhoddir *chuinfa* lle'r amgrymir tarddiad HS.

1723-4. *Arglwyd heb hi a dygân dec fômer yn llain o eur gyt a ni.* B 1570 *nus frum charger d'is bon chevaux de fin or* 'ni a lwythwn ddeg ceffyl da ag aur coeth . . .'. Ymddengys oddi wrth B y dylid darllen ni a *dygân*; hawdd fuasai i ni gollu ar ôl hi.

Y mae i'r HFF *som(m)ier*, AN *sumer* (=stemer) neu *somer*, amryw ystyron: (1) 'ceffyl pwn'; (2) 'y pwn a gludir gan y ceffyl'; etc. Er gwaethaf B, dengys 1740-1 y *darchafysant* y *fômeru* ar y *meiryd* mai (2) a olygir yma. O'r AN *sumer* y benthycwyd *fômer* ein testunau canoloesol ac nid o *somier* y Cyfandir (gydag i *gytsain* ganolog) fel y myn Stephen Williams yn YCM², *Geirfa*; rhoesai *somier* *sômyer* neu *somyer*. Am y gwahanol geffylau a'u swyddogaeth, gw. n. ar 98.

1735. *ôth hymny y mae da.* Dywedasem ni heddiw . . . y *mae'n dda*; ymddengys felly fod y *mae* yma yn gyfystyr ag yr.

1737. *gibell vn hanyrthly da no deu wys.* Pan oedd cisiau dehongli u fel f ar ddechrau 416 yn ail ran y gair *kyghozuynt* (gw. dan 415), darlennodd RW hi fel *eo*, yn awr pan safu am *eo* (*guyis* = *guyis* 'summons'), myn ei chymryd fel f a rhydd inni o'r herwydd y cyfieithiad penchuban: 'Better is one good aid than two fingers'. Efallai, serch hymny, mai cenedl anarferol *guyis* (gw. WG 194) a ddug RW ar ddisberod. Dihareb gyfystyr, *mae'n debyg*, yw *Gweli vn hedy no deu adaw* P 19, 31. Darll. *hanerithly* a gw. ar 337. Cf. y *guyis hwno* BrDg ddwywaith a gw. n. Henry Lewis ar 136; cyfeiria J. Lloyd-Jones at *piu'r gwy*: TA CX.85; yr *guyis hwnno* LBS, IV, 423, 29.

1771. *ae hargenyddant.* LIC *harganvuant*. B 1608 *Boves les vit euer e Bonsejey l'equier* 'Bown a Bonflei a'u gwelsant yn dyfod'. Awgryma J. Lloyd-Jones ddylanwad y 3 un. *argenydd*, awgrym atyniadol iawn. Onid dyma'r esboniad, rhaid tybio i un a siarada'r Wenhwyseg lle'r yngenir a fel *ae* yn *cat* Deau Lloegr *aeu* i *ae* cyfarwydd â llythyrneth HFF lle mae *en* yn ymgynwied ag *ae* ysgrifennu *hargenyddant* (am *eo* = *eu*, cf. *twchod* WM 622; am y gorff. cf. y LIC a *tist* yn B) ac yna i olynedd droi *en* yn *an*, yr ail o yn y (y maent unwedd yn anl, gw. ar 336-7), a chwaneu *d*.

1775. *yn eithaf yr maer.* Gw. ar 1267-9 ac o dan Y *Fannod* yn *Ffuriant*, §20.

1778. *na bo reit y neb ofyn y rygôth.* Unwaith ar ddeg berfenw a geir ar ôl bot r. y; buasid, gan hymny, yn disgwyl *ofynhan*, ond cf. 1792 lle ceir *ofyn* megis yma.

1787. *na chymer . . . yn lle d26c.* B 1621 *Nu pernez pas en cors* 'Do not take this (remark) personally'. Awgryma *d26c* i'r cyfieithydd ddeall *tors* yn hytrach na *cors*.

1789. *Mi a weddaf . . . gogof.* B 1623-8 *jeo say . . . une cave . . .* cf. hefyd y *kyghoz gozeu a vetrôyf* 1632 = B 1500 *Bon conseil vus durrai; dybedud na medzei y ffôzd* 2365 = B 2071 *jeo vus pri ke vus me volez la mener* 'erfyniaf arnoch fy arwain i yno'. Ystyr *medru* yn yr esiamplau hyn, felly, yw 'bod yn gydnabyddus â, i yno'. Ystyr *chwaneu*'r ystyr hwn at y rhai a ddryr Ifor Williams yn *gwybod am*'. Gellir *chwaneu*'r ystyr hwn at y rhai a ddryr Ifor Williams yn *gwybod am*'. Gellir *chwaneu*'r ystyr hwn at y rhai a ddryr Ifor Williams yn *gwybod am*'. Cf. *kany* *atuaenat* y *fford* SG 302. *medru* = *gwybod* BBBS, V, 22, a *chym. ami adywedef* *ywch* *ygwydyon* i *chcehwi* a *ffabzwt* *ywch* *ganet* P 14, 124.

1801. *hlynteu yn tri.* Ar yn gyda'r rhifair y mae tri esboniad yn bosibl: (1) gellir tybio mai gwall copiwr yw yn am yll. Yr oedd l ac i gynt yn anl o'r un ffurf (gw. n. ar 1477). Yn gyffelyb, cymysgid aelodau u weithiau ag l: *giledic* = *ffur* (*galedic*) BB 78.3; *dyllallu* = *dynallu* (*diwallu*) LIDW 120; *arllaeth* WM 483 = *aruath* RM, 123; (2) gellir meddwl i'r rhagenw i llu: *ni yn tri, ni yn pedwar*, etc., ddylanwad ar 3 llu, megis y gwnaeth yr 2 lu, *ych* ar 1 llu, yng ngwaelod Dyfed (blaenau Tâf): *ni'ch tri, ni'ch pedwar* 'ni ein tri, etc.', ac ar y 3 llu, yng ngorllewin Morgannwg: *ni'ch dau, tri*, etc. 'hwy ill dau, etc.'; (3) gellir tybio y saif yn am *yu* (= *eu*), sef yw hynny, i 3 llu, y rhagenw blaen ddisodli yll, *ell* gyda'r rhifeiriau (coher bod y 1 ac 2 lu, yr un fath). Clywir n(h)to i tri ar lafar yng ngogledd Penfro ac yng Ngheredigion, a dengys SG 237 *kyuodmch* y *eu* eisoes am *awch*, *ych* gyda'r rhifol o'r 2 lu., h.y. yr oedd *eu* y rhagenw blaen wedi cael mynediad i'r gyfres *ffur* rhifolion yn y cyfnod canol. Am enghreifftiau pellach o *yu* = *eu*, gw. dan *Ffuriant*, §28, (vi).

1812. *a gyuarfo a mi vn gôydlôdyn.* Am vn fel *Bannod Amhendant*, gw. dan *Cystrawen*, §40.

gôydlôdyn. B 1645 *si jeo pus trover un cef corant* 'pa un a allwyf gael hyd i garw'. Yn nes ymlaen, YBH 1855, y mae'n taro arno, sef *ar dmyr* (<HFF *daim + i* > *dains*); yn B 1679 *deyme*; cf. hefyd *Mal ydoed gûlym goch yn hely yny ffozefl newyd . . . y dathôyt of a faeth y gan vn oe wyz ehun yn bôzê gôydlôdyn* RBB 398; y gair a gyfetyb i'r *gôydlôdyn* hwn yn Wace, *Geste des Normanz*, II, 10080, 10086 (arg. Andresen), yw *bises* = *biches* 'ceirw'; cf. *Brut y Sarozn* RBB 398. Yn gyffelyb, digwydd *gôydlôdyn* ddwywaith yn RBB 243 yn cyfateb i *deer* yng nghyfieithiad Sebastian Evans o'r Lladin. Gwyddai TW am yr ystyr hwn i'r gair ac o dan *cercus rhoes carwo, hydd . . . gwyddlath* . . . Nid atgynhyrchodd D yr olaf, un o'r am broffion iddo wrth olygu TW adael allan esboniadau gwerthfawr (gw. n. ar 390, 2030, 2136). Pan gofio am eiriau Gerallt (cf. *The Itinerary Through Wales*, Bobin's Antiquarian Library, 356): 'Here the monks . . . when they happen to look up towards the horizon, behold the tops of the mountains . . . and herds of wild deer feeding on their summits' o gylch Llan Nant Honddu, anodd gwrthod y casgliad mai 'carw' yw ystyr *gôydlôdyn* yn *Kulhwch*, WM 484 *guylltach naô mod yô hânno nos gôydlôdyn gylltas yny mynyd*. Onid 'carw, hydd' hefyd yw arwyddoedd *guyllôdyn* yn *Manawydan*, WM 65 (*gôydlôdyn* RB 47) yn hytrach nag 'anifail gwyllt', fel y myn Ifor Williams, PKM, 232? Yr un modd, ymddengys mai 'deer' ac nid 'wild animal' yw meddwl *gôydlôdyn* yn P 37, *Cymmwr*, XVII, 134 (ddwywaith). Dan *ferz* dyry TW *gwyddlath* a *gwyddlath* y naill ar ôl y llall, yr hyn a awgryma fod i *gwyddlath* hefyd yn ei

feddwl ef yr ystyr 'carw'. Yn *Math*, WM 90-1, anodd gweld, yn wyneb y cyswllt (cf. *daran ehoic*; yn *garb*; *carb*, ac *ehic*, ac *elein*), sut y gellir rhoddi i *gwyduilot* unrhyw ystyr arall ychwaith.

1839. *etiued y vzenhin*. B 1668 *enfant de rei* 'plentyn i frenin'. Nid 'heir to a king' RW, gan hynny. Cf. TW dan *vmgula* 'bach y dynnu etiwedh marw allan o groth y vam'; cf. hefyd TWD. Am *e*. 'heir, heirress', gw. 396, 4255; am yr ystyr 'sons, grandsons and greatgrandsons, regarded collectively; heir', gw. GML a G a'r n. yn PKM, 166-7; cf. *mab*=(a) 'plentyn'; (b) 'etiued'.

1840. *yglofe eliant*. Dim yn B 1669. Daeth y gair *bliant* i'r ieithoedd Rhwngaws tua diwedd yr unfed ganrif ar ddeg neu ddechrau'r ddeuddegfed ac o'r HFF, yn ôl pob tebyg, y benthycwyd ef i'r AlmC, y SaesC a ChymC. Yr oedd iddo am flurf: *bliant*, *bliant*, *bleant*, etc.; ond mewn CymC *bliant* yn unig a geir. Yn Hen Ffrainc math o bilyn uchaf, o diwnic, a wisgid gan wŷr a gwragedd pendefigaidd oedd y *bliant*, pilyn y cymerwyd ei batrwm o'r Dwyrain Canol yn ystod y croesgadau cynnar ac a wneid, y rhan amlaf, o ddefnyddiau gwerthfawr: *palie* (defnydd sidan drud o amryfal liwiau), *samiz* (defnydd sidan truchus, gwyn, gwyrdd, neu goch), *cendal* (sidan ysafnach a rhatach na'r samit o bob lliw, gyda llinau amryliw yn rhedeg drwyddo); ond weithiau llunidd y *bliant* o ddefnydd mwy cyffredin, *cotom* neu *ffestin* (ffivstian): *unum bliadum de fustanis* (*Cartulaire de Paray, Archives Nationales*, xi-xii s.). Addurnid gwddf, arddyrnau, a gwaelod y wisg â llain gul o frodwaith sidan neu *passementerie* euraid. Gydag amser, aethpwyd i arfer y gair am y defnyddiau y gwneid y wisg ohonynt; cf. *bliant* yn AlmC 'seidener Goldstoff' (Körting) ac ar wahân i YCM³, 104 *o'e bliant*=*Otinel* 1710 *De lor bliaus*, ac efallai i linell Prydydd y Moch (M. 214^a) *ymbliant gwyrt ac yn gwynn*, defnydd yw *bliant* bob amser mewn CymC: *crys allatdyr o2 bliant . . . athudeu o2 bliant coch . . . atholeu o wliant g6yn* WM 226; a *gweic o eliant ymdanai* SG 390=*ele meimes estoit vestue d'un moult riche drap de soie* Potvin 282 'she was herself dressed in very rich silk material'; etc. Gw. *Viollet-le-Duc, Dict. du Mob.* III, 38 et seq. 358; L. Gautier, *Chev.* 410-11.

1842. *ychnaüt y6yn*. Gw. Y Fannod dan *Cystrawen*, §39, (viii).

1851-2. *nym gūely yn gūbyl gūedy hynny*. B 1677 *jamés ne me verax sen ne enter* 'byth ni'm gweli yn iach a chyfan'. Ai i *jamés* 'byth' ai i *sen ne enter* y cyfetyb yn *gūbyl*?

1868. *gūaeth oed bei gall* dzycyruerth*. Crafwyd rhywbeth allan i raddau pell yn nherfyn *gall* . . . ; buasid yn disgwyl *-ei*, ond odid, eithr nid linell gyrhof *e* yn sicr yw'r linell sy'n aros; coes syth fel coes i ydyw a thylaf oddi wrth yr adfeilion mai syth hefyd oedd yr ail goes bithau ac y dylid darllen *gallu*. Ni cheir mo'r cymal yn y LIC a'r darll. cyfatebol yn B 1688 *yw E donc le vist Arundel le destrer* 'ac yna fe'i gwelodd Arundel, y march, ef'.

1869. *herthyd y6ynoyr*. Cyfieithiad llythrennol o *solom son saver* 'yn unol â'i ddealltwriaeth' B 1680. Priodola heiridd y cerddi arwrol yn ddeicethriad ddealltwriaeth anarferol i'r ceffylau a gwannt hwy'n gyfeillion deallus i'r marchog. Gwaith Arundel yn gwerytu a 'chladdu y ddayar' sy'n deffro Bown o'i lewyg; gw. n. ar 98.

1873. *kyuodi udunt h6ynteu=k. ohonunt h.* Gw. dan *Cystrawen*, §51; cf. 1912, 2054.

1887. *a thi a allut y cybot yn hyffys y dialaf*. Ymddengys y *dialaf* fel chwangediad damweiniol rhyw gopiwr.

1890. *kyuodi udunt h6ynteu=k. ohonunt h.* Gw. dan *Cystrawen*, §51.

1893-4. *herthyd y gallei oreu*. Cf. B 1703 *com out le pouer* 'fel yr oedd iddi y gallu'.

1899-1900. *ymplyth y gūhyrda*. Dealler *vygūhyrda*; B 1713 *mon baroné* 'fy marwniaid'; nid 'among the gentlemen' RW.

1907. *62th hynny ell6g ef. ac onys gellygy*. Cf. *Gallygaf* 1910 a gw. n. Ifor Williams PKM, 93 ar y rhagddodiaid *di-, go- ac e-+llwng*.

1912. *difgymu bo6n*. Gw. *Cystrawen*, §51.

1914. *A chyūreiny6 y daryan ar y ysgl6d affeu*. Dim yn B; yr ymadrodd cyffredin yn HFF oedd *embracier l'escu*, sef oedd hynny, *gwthio'r llaw a blaen y fraich drwy ddwy ddolen ledr* (yr *enarnes*) a geid y tu mewn a chodi'r darian modd y cuddiai'r holl wyneb; cf. L. Gautier, *Chev.* 715-16 a gw. ar 588.

1917. *Sef allnaeth y neill or lle6ot or blaen y achub . . . B 1723 Li lions venent ver Boun mult irez* 'Daw'r llewod tuag at B, yn lliidiog iawn'. Ystyr diamwysa *o2 blaen* yn 574, 583, 2656 yw 'in front, in advance, in the van'. Nid yw hynny'n gweddu yma, a rhaid gwrthod hefyd 'at first' RW. Ni welaf chwaith y gellir, heb dreisio'r meddwl, ddiardd *or blaen* fel cymal ansoddeiriol: '(y llew) a oedd yn flaenaf', megis yr awgryma J. Lloyd-Jones. Yn bur sicr, y darll. AN a welodd neu a glybu'r cyfieithydd oedd *Li lions venent ver B . . .* 'Daw'r llew tuag at B . . .' (yr oedd *vent* 3 un. a *venent* 3 llu. *venir* 'dyfod' yn ddigon tebyg o ran sain). Ar wahân i *or blaen* yn YBH a *mult irez* 'tra lliidiog' yn B, yr un, yn *fras*, yn ôl hyn, yw'r synwyr yn y ddau ddarl. Eithr yn sicr nid yw *or blaen* yn golygu'r un peth â *mult irez*. Y tebyg yw i'r troswr roi sylwedd ystyr y ddeuar olaf yn ystyr; cf. y disgrifiad o ymosodiad Bown ar y llew arall: *Sef allnaeth bo6n yn dzebelit* (= 'yn ddiatreg', gw. ar 1695) ac y mae'r cyd-destun yn ffafrio'r un *or blaen* yn debyg anghyffredin i gyfieithiad o'r adferf HFF *avant* 'vite, ar frys', neu o *tot avant* 'o flaen popeth, avant tout' (gw. Stee-Palaye). Daw un esboniad arall i'r meddwl. Tybed nad hanner cyfieithiad hanner *calque* yw *or blaen o'r HFF de plain* 'wholeheartedly, unsparingly' (gw. W. Foerster, *Kristian von Troyes, W6rt.*)? Os felly, y tebyg yw mai *or blaen* neu *or plain* a geid yng nghydsail y LIC ac i'r copiwr ei 'gywiro'. Y mae'r ystyr yn taro'n burion ac yn cydfynd â darll. B o fewn dim a dim. Ni byddai benthyciad o'r fath yn syndod yn y byd yn YBH. Efallai mai cymryd *or blaen*='heb ymdroi' fyddai orau, serch hynny; cf. yn y *blaen* 'ar unwaith' M. 2354, engh. a ddyfynnir yn G.

1924. *ac ūnaeth*. Darll. ac ny gyda'r LIC.

1927. *agozi y safyn yr lle6 . . . o2 lle6*. Gw. *Cystrawen*, §51.

1942. *yn dzebelit*. Dim pendant yma yn B; eithr cf. *Ac yn dzebelit y doeth y vob att6 4320*=B 3805 *Et Boves e son fin venent errant* 'A Bown a'i fab a ddeuant ar frys'; a sylwer sut y troswr *errant*=*yn dzebelit* uchod mewn *cyffylliadu* ersylli: *un mesager manda a Civola errant B 3185*=*ac hab odir amon honnat hxt yn ciuil 3654; Jekes la sale venent errant B 3390*=*Ac yna mynet y gyt ac ef yr nuaad heb odzie 3860*. A chan bod *venir errant* a *venir cozant* yn HFF yn golygu'n hollid

yr un peth, cf. *Miles e Gui sont corant venus* B 3205 = *Milys a gi a deuthant y dan redac attunt* 3671; *e il vint corant* B 3832 = *Ac yma y redaod y mab yn ol y tat* 4355. Deallaf fi *huawdyl a thrybelit* YCM², 117 fel cyfystyron; a *huawdyl yw'r synnwyf*, yn bur sicr, yn *Trybelit areith* BB 83.16 ac yn GrapC 138 *Paden yr y gyuaruydet ae drybelit a allei mynegi*. Ceir y gair weithiau gydag ansoddair arall lle mae'r meddwl yn fwy petrus; e.e. yn *wychy2 trebelit* RB 135; yn *graff drybelit* YCM², 117; yn *drybelit brud* BrDg 18; *marchateu gwyhyr trybelit* ib. 55. Noder had *trybelidiad* BB 4.6.

Edrych *trebelit*, *trybelid* yn debyg anghyffredin o ran ffurf ac ystyr i *trepillet*, *trepilled*, *trepelu* 'agitated, possessed by a demon' (cf. Ste-Palaye), hen rangymeriad gorff. *trepiller*. Buasai 'bywiog' yn ddatblygiad semantig digon naturiol o hwn, ond anodd gweld sut y gallai roddi 'craff' (gw. *Geirfa* YCM²). I gael 'egllur, golau, disglair' (cf. BrDg, 213), rhaid, gellid meddwl, gymryd *trybelydr* D fel sail, ffurf na welais mewn testun cynnar, a chysylltu'r gair â *pelydr*. Geill yn *dzebelit* yn hawdd fod yn ddim amgen na llythreniad Cymraeg o'r cymal adferfol *en trepillet* 'like one possessed'. Os dywedir fod y canu yn BB 1-6 yn rhy hen iddo gynnwys geiriau HFF, dywedaf finnow fod y meirch y sonnir amdanant ar d. 2-4 yn dwyn dau o hoff liwiau'r meirch Normanaidd—*gwelugan* a *goineu*; gw. M. Watkin, BBS, XIV, 14.

1945. *bzeicheu*. Dim pendant yn B. Collfarnodd Stimming y darll. (*Einleitung* xviii—ic) ar sail 'arms' RW, ond y mae'r testun yn ddifai, a phed arferasai'r cyfieithydd 'forepaws' neu 'forelimbs', ni chawasai'r Almaenwr dramgywydd. Am *bzeich* = 'paw', cf. SG 411 *ar llew ae gochelawd. namyn y dyrnact ae godiued-awd yny breich blaen deheu idaw* = Potvin 305 *mès li Lyons li guenchi, et il le consivi am la jambe devant* 'but the lion evaded the blow (aimed at the mouth) but he (Perceval) hit it in the forepaw'. Cf. yn y Farddoniaeth Gynnar (am farch) *breichfras* M 339b, 8; *breichir mein* A 13.16; *gozwyd bzeife bzeichir* RP 1323.3 a gw. *Geirfa* J. Lloyd-Jones a n. Ifor Williams CA 225. Dwg yr ansoddeiriau a arferir gyda *breich* yn yr hen feirdd ar gof deithi corfforol meirch y *chanons de geste* lle tynnir weithiau rhwng *jambe a cuise* wahaniaeth tebyg i'r un a welir rhwng *breich a coes* yn y Canu Cynnar; cf. Léon Gautier, *Chev.* 723-5 n. Yn llen Ffrainc y cyfnod canol ceir yn fynych ymladd rhwng marchog a llew.

2759-60. *wyt oeth ózth y hagdud* 'went not to her burial' RW. Atgoffa *ózth ni o rai* o ystyron *contre* yn HFF; cf. *a phan el buón ózth y vóyt* 2951.

2760. *yna góeryshymáó*. Collodd y ar ól yna.

2762. *a thelu cyw. a thalu*. Atgof, o bosibl, o iaith Morgannwg; gw. dan *Atodur Coptwyr a Dyddiad yn Rhagymadrodd*, 36, (i), 2.

2766. *o lestri a threffoz*. B 2382 *masses de tresur*. Ymddengys i'r Cymro ddirnad neu ddarllen *vasses et tresur*.

2769. *yr garrec*. Camddarllenodd RW *garrec* fel *garret*. B 2384 *a la rocher* 'to the rock', sef Ynys Wyth. Cf. *yrrec* SG 151 = *roche Queste* (F) 222; RBB 116, 192, 247.

2775-6. *ac eu blóyt*. Y mae'n bur sicr i *ae ymolchi* golli o flaen y geiriau hyn. Gan mai á'r bysedd y bwyteid yn yr oesau canol, edrychid ar ymolchi'r dwylo cyn bwyta fel gorchwyl anheggor; cf. YBH 3335; WM 146. Yn y llysoedd uchel eu bri cenid corn ymolchi (HFF *corner l'ete*; cf. WM 234 *hanu kozn ymolchi*) wrth waelod y tŵr mawr. Ceir mynych grybwyll am farchogion yn erchi dwfr i'r diben hwn (HFF *demandar l'ete*). Cronicleir hefyd dystiolaethau niferus yr ymolchid y dwylo drachefn wedi gorffen bwyd. Yr oedd o leiaf ddau ddull o ymolchi dwylo. Yn y ddeuddegfed ganrif arferid cawgiau neu lafwyrau (HFF *lavoir*) o garreg, marmor, copr, neu blwm a phiatyllau bach yn rhedeg iddynt. Lleolid hwy yng nghymdogaeth yr ystafell fwya ac yn aml o'i mewn. Cymerai pawb ei dro wrth y cawgiau a chyda'r tywelion yn ôl ei radd a'i ddoisbarth. Yn y drydedd ganrif ar ddeg rhoddodd rhai o'r teuluoedd enwog y gorau i'r cawg disgil ac aethant i anfon gwasanaethwyr â dwfr oddi amgylch mewn ffolau gwerthfawr (cofier am brotest Arthur yn SG 345 wrth weld yr unbennes mewn gwasanaeth o'r fath). Weithiau defnyddid cawg dwbl megis yn SG 345 *y hanc ar lafur* = Potvin 228 *les bacins*, y naill i gludo'r dwfr a'r llall i olchi'r dwylo ymdo; weithiau arferid ffol i olchi'r dwylo a llestr tebyg i bot coffi i gario'r dwfr glân. Ymddengys y perthyn PKM 4, 25 i'r cyntaf a SG 243, 345 a WM 113-4, 171 i'r ail. Cf. Viollet-le-Duc, *Dict. du Mob.*, I, 151; II, 27; L. Gautier, *Chen.* 535-6, 599, 600-2.

2779. *myón aó2 da*. B 2393 *Hure fu bon*; digwydd yr ymadrodd hwn gannoedd o weithiau yn yr hen gerddi, (cf. L. Gautier, *Chen.* 442) ac nid yw'r geiriau Cymraeg namyn trosiad air am air ohono.

2785-6. *meddybuó . . . o tynet*. Cyfieithiad llythrennol o *penser de* yn HFF; gw. ar 2713; am *o = de, ó*, cf. *ar morynyon ae hymborthustant wyntu o dioc au harneu y amdanadunt* SG 249 = Potvin 93 *et les II damoiseles aident à disserter Lancalet . . .*; gw. *Cystrawen*, 345.

2787-8. *y varchogyon ay yfquiereit az rei deóanf*. Trosiad llythrennol yw'r tri gair olaf o *des plus vaillants*; yn B 2400 *ses chevaliers vaillans* yn unig a geir. Am bethau tebyg, gw. dan *Cystrawen*, 343.

Yng nghastell pob barwn ceid nifer o bendeffigion ieuainc: *enfant, demoisau, valet, écuyer*, bob un á'i fryd ar godi ryw ddydd yn farchog. O'r rhain y pellaf ymlaen oedd yr *écuyer*. Ef a arweinai y *destrier*, march rhydd ei atgylwydd, ac fel y dengys ei enw (*scutarius*), ef a gario'r tarianau a hefyd y gwarewffyn. Ef hefyd mewn twrneiment a hwyed y wasanaethai ar y barwn ac a estynnai iddo yn ôl y galw yr arfau sbôr. Gw. Léon Gautier, *Chen.* 193 *et seq.*

2799. *y ymgéis ar bzenhis*. B 2402 *a le rei írom parler meymement* 'ni a awn ar unwaith i siarad â'r breinin'. Cyfystyron *ymgeis*, *ymgeisio* yn TW a TWD *yw ceisio, chwilio, holi, ymgys*, etc. (gw. dan *gwario*). Eithr ar ôl 'to seek or look

for' dyry R 'to visit' ar sail tafodieithoedd Morgannwg a Brycheiniog. O hynny, mae'n debyg, y cafodd RW 'to visit the king', ystyr sydd, ar y cyfan, yn gweddu'n burion i'r cyd-destun. Ond ceir *ymgeis a, ymgeiff(y)ad a* mew'n CymC yn golygu 'ymgomio â, siarad â', ystyr nas cofnodir yn y geiriaduron, a dyma'r ystyr, gellid meddwl, a gyfleir yma. Trewir ar enghreifftiau eraill o'r arlliw olaf hwn yn y cyfieithiadau sydd gennym o'r ChdeR 369, Digby 23, 7^b *par grant faueir parolet li unf al altre* 'â chyfrwystra mawr sieryd y naill wrth y llall' = *ac ymgeiffyau ac ef yn ystrycyf wal hyn* P 8^a, 54; LIC 467 (cf. YCM² 122); P 7, 36^b; Cwrtmawr 2, 138; eithr = *ac ymdidan ac ef wal hyn yn ystrycyf* P 5, cxxxii^a; P 9, 43^a (cf. Hg MSS. II, 12); P 10, 41^b. Ceir esiamplau pellach lle ffafria'r cyswllt yr un arlliw o feddwl, ond lle ni cheir cyfatebiaeth bendant yn y ChdeR: *anvoner ar vvarfli kennat . . . auo hualodyl dzybelit y ymgeiffyau a Marfli* P 8^a, 50; P 8^b, 21; P 5, cxix^a; LIC 463 (cf. YCM² 117). Ymddengys mai'r datblygiad semantig fu: (1) 'holi neu chwilio am'; (2) 'ymweled â'; (3) 'siarad neu ymddiddan â'. Pan arferer hi gydag *aller* 'myned' a *venir* 'dyfod' dengys y ferf Ffrangeg *trouver* 'to find' yr un datblygiadau; cf. e.e. *Venez me trouver* 'come and look for me; come and visit me; call at my place and have a chat'. Tybed a effeithiodd *trouver* HFF ar *ymgeis, ymgeiff(y)ad*?

2800. *yflauell o uein marmoz*. Am *yflauell*, gw. n. ar 286. Er dywedyd o'r beirdd a'r ystoriwyr am bron bob ystauell ei bod o *vein marmor*, adeilod o gerrig nadd oedd y rhan amlaf; a *marbrin degre* 'ar risiau marmor' sydd yn B 2407, y lle y derbynnid ymwelwyr fel rheol yn y castell canoloesol; cf. *ar grad o vein uarmoz* 2933.

2807. *yr amdiffyn y bobyl*. B 2412 *pur son poeple saluer* 'er mwyn achub ei bobl'. Os felly, nid 'to defend his people' RW, eithr 'to save . . .', ystyr nas rhoddir i *amdiffyn* yn y geiriaduron.

2808. *ac y gberthald iudas yr idebon*. B 2413 *pus li trai Judas* 'thereafter J. betrayed him'. Ai y gwrthrychol 'whom' sydd yma ai atsin o *y+y* lle mae'r blaenaf yn gynheilaid i ragennw mewnol? Gw. *Erfuriant*, §29.

2821. *Creffo bethyt*. B 2424 *deu seit ahuré* 'boed gogoniant i Dduw'. Yn wyneb hyn, efallai i *dué* gollu ar ôl *creffo*; cf. *Grassaw duw* SG 159; etc.; cf. *crayffali* 1502, *grefffalo* 2133, etc. Tynnaf y gwahanol ffurfiau yn *cr-* a *gr-* o'r AN *garious(n)*, etc. 'salute, protection'. Gw. *Godefroy*.

2822. *a dœc yma guffan*. Gan fod defodau gwrogaeth ac estyn a meddiant (*homage and investiture*) yn dyfod dan sylw yma ac yn y tudalennau sy'n dilyn, dyma oeddynt: (a) *gwrogaeth*: *gwr* ar ei ddeulin yn ddarfau yn rhoi ei ddwylo ymhleth rhwng dwylo ei arglwydd ac yn cydnabod ei hun yn ŵr iddo am dda tiral; yr arglwydd yn ei godi ac yn ei gusanu ar ei enau; y *gwr* ar ei sefyll yn tyngu ar yr Efenegyl lw o ffyddlondeb; (b) *estyn a meddiant*: yr arglwydd yn estyn i'r sawl a dalodd wrogaeth iddo wrthrych materol, e.e. ffon, gwayw, neu gainc, fel arwyddian o'r tir y cymet y *gwr* geidwadaeth arno. Yr oedd deubeth yn dilyn: mynd o'r pleidiau ar y tir a dangos o'r *gwr* i'w arglwydd y diriogaeth y cymet arno ei cheidwadaeth a thalu'r deyrnged (derbyniadau blywyddyn). Ar ôl y ddeuddegfed ganrif gwneid y 'dangos' fynychaf drwy siartr. Sonrir am y ddefod o gasau cyfnullion wrth eu derbyn gan destunau lluosog, eithr y mae'n amlwg oddi wrth 2823-4 *wneuthur o'r lusen yn y cyswllt hwn gusan yr ymyrfar-fod yn gusan defod gwrogaeth befyd*; cf. L. Gautier, *Ches.* 556; Calmette, *Société Féodale* 30-1; *De Nugis Cur.* 105.

2827. *talw teyrnged*. B 2430 *le releve li donez* 'rhowch iddo'r deyrnged'. Y deyrnged (*releve, relefs*, etc.) oedd y dreth a dalai dyn wrth gynryd meddiant o'i stad; gw. n. ar 2822 a Ste-Palaye d.g. *relief*. Diddorol cofio nad oedd rwyngedigaeth, yn ôl cyfraith Normandi, ar etifeddiion unionlin i dalu'r dreth hon; cf. Calmette, *Société Féodale* 45.

2828. *oy athzo*. Dylid rhoi atalnod ar ôl *gyffym* a deall *oy fel oy a megis yn oi vahom* 482 a'i ddarllen gyda'r hyn sydd yn dilyn; cf. B 2431 *Mestre, dist Boves*. 'Athro, meddai B'. Ymddyrsodd RW yn yr ymadrodd a throddod *oy athzo* yn 'as his master'. Datrysodd y LIC y broblem drwy frwr allan yn *gyffym oy athzo*; gw. 12 (b), (vi), 2.

2829. *du6 a diolcho iti*. Fel y saif, nid yw'r darll. Cymraeg yn gweddu o gwbl i'r cyswllt; gw. *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone*, §12(b), (vi), 2.

2836-7. *hynny poet du6 ae dialo erri hynny*. Tebyg ddarfod cymryd yr *hynny* olaf o 2936 oblegid y mae'r synnwyr yn ddi-nam hebdo ac y mae ei bresenoldeb yn drysu'r gystrawen; onid e, darll. a *dialo*. Y gair a gyfetyb i *dialo* yn B 2439 yw *encomber* 'lethu'.

2842. *mi a deleit*. B 2445 *jeo vus ai rendu . . .*; *talw felly = rendre* 'to give back, restore', hen ystyr a ddatblygasai o'r HS *talw* 'number', *tellan* 'to count'; etc.

2848. *madeit du6 it*. B 2450 *jeo le vus pardonne ici e devant deus* 'mi a'i madd-euaf i chwi yma ac o flaen Duw'. Mi a dybiwn ddarfod i'r cyfieithydd gmyrd *devant* fel rhangymeriad *pres. deveir (devoir)*, 'and God being due to do the same', os yr un oedd darll. y gynddelw ag a welir yn B. Ni fuasai hynny yn ddim eidd i ysgolheictod HFF dyn yn effro, ond yr oedd y cyfieithydd hwn, fel y prawf llawer cymal, yn fynych yn hanner cysgu; gw. *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone yn Rhagymadrodd*, §12(b). Am -it y modd gorch., gw. WG 329.

2850. *kymet y ffon*. B 2453 . . . *le baston me portez (=aportez)* 'dygwch y ffon i mi'. Os dilya y darll., golyga *kymet* yma 'to fetch'.

2855. *mi ath ūnaf yn henhaf yn lluygyr*. Y meddwl yw 'mi ath wnaif yn synysgal' (gw. n. ar 412). Yn y gân, *Godefroy de Buillon*, ll. 764, ceir breinin Lloegr yn gwneud Wistasse mab Godefroi yn Synysgal Lloegr ar achlysur tebyg ac yn yr un ddinas, Llundain. Diddyma'r pwynt olaf nerth beirniadaeth Stimming (*Anmerhungen* 154-5) fod y darll. a oedd yn gyswllt i'r cyfieithydd Cymraeg yn un beius.

2858. *oed du6 fulgœin*. Gwahansanger y cymal perthynol hwn wrth ddarllen.

2863. *boën ae kymbôyffald am y hen*. Ni ddry'r ferf hwn synnwyr baddhaol, yn ôl Stimming = *Boves il ad la corone ferme* 'Rhoes B. y goron yn dynn am ei hen'. Pe darllenid *kymbôyffald (cymbôyffo)* 'to set, join or close things together' R, ceid i bob diben yr un meddwl ag yn B, eithr ymddengys *kymbôyffald* hwn mae addas. Prin y mae angen am y *ben*, a thebyg mai ailadroddiad damseiniol yw o am y *ben* sydd yn y llin uwchlaw.

2865. *ar hennu glôyera*. Darll. *ar henn* yn glôyera fel yn y LIC; damwain, yn sicr, yw'r llinellau sydd ar ôl *henn* ar ôl ddiwedd y llin.

2871. *y fulgŷn yn y hŷn*. B 2472 *hui est pentecoste* 'heddiw yw S'. Ymddengys ddarvoud rhwystru copiwr y LIC, fel y rhwystrir ninnau, gan *hŷn* 2871, oblegid troes *hŷn* yn *hymn*, darll. sydd, i mi, yn fwy chwithig fyth. Yn wyneb gorhoffter y cyfieithydd o gymryd drosodd eiriau ei gysail HFF, tybed ai *hui* neu *huy* y testun HFF a geid yn YBH ar y cyntaf ac i ryw gopiwr o fethu ei ddeall, ddarllen *hŷn?* (y mae *hŷn* yn llawer amlach na *hŷn* yn YBH).

2871-2. *ni a dilyn marchogaeth yn meirch*. Er diwedd y ddeuddegfed ganrif yr oedd rhedegfeydd meirch yn hysbys yn boblogaidd yn Ffrainc a Lloegr Ffrengig a digwydd disgrifiad manwl ohonynt mewn amryw destunau. Cyhoeddidd hwy yn fynych ymlaen llaw ac os gellir rhoi goglyd ar y cerddi arwrol, yr oedd y gwobrau weithiau yn fawr. Yn *Beuves d'Hanstone* (ffurf gyfandirol B) sonnir am fil o forciau, am aur coeth, ac am arian. Yn *Renaus de Montauban* y mae'r wobrwyr yn waith celfyddyd (coron y brenin) yn ogystal â phedwar can morc. Ym mreiniau Villefranche (anno 1217) ceir sŷn am waddol ar gyfer rhedegfa feirch i'w chynnal ar y Sulgwyn; cf. Ste-Palaye, *Mémoires* I, 376., L. Gautier, *Chev.* 725-6.

2872. *meirch a volont yn fŷlŷn*. Os vont a olygr (cf. LIC *vo*), damwain, wrth fynd o un llinell i'r llinell arall, yn bur sicr, fu dyblu'r *o*; eithr dichon mai *a vuont* yw'r meddwl; os felly, gellir ystyried *vo-* am *vu-* fel adlais o ddefod orgraffyddol AN (gw. *Orgraff*, §18). Yn B 2473 *chivals surjornez* 'ceffylau wedi torri eu blino' a geir ac y mae hynny yn ategu'r darll. *a vuont*. Yr oedd yn amod yn y rhedegfeydd bod y meirch yn *sejornez* (*surjornez*, etc.). Fel yn 2529 a 3083, methodd RW yn lŷn yma a throes y gair HFF yn enw tref, 'Swiwrn'!

2873-2927. Y mae rhannau helaeth o'r testun lle ceir disgrifiad o'r rhedegfa feirch yn llwgr iawn. Anodd credu y gallai neb a wyddai'r dim lleiaf am redegfeydd ceffylau fod yn gyfrifol amdano.

2873-4. *glŷr a dylŷedut, heb y rei*. LIC *a dylbedoch*. Tueddaf i ddilyn y LIC neu ddarllen *a dylbedut*, gan gofio y ceir aml esiampl o *u* am *ey*, megis yn *du pleit=dwy bleit* LIDW 218(2), 222; *munaher=mynaher* ib. 222; etc.; gw. *Orgraff* dan *u*, §16. Bunsid yn disgwyl *heb y rei* ohomynr neu *onadunt* neu *eto heb y rei o2 marchogyon* (cf. *Deus chevalers* 'Dau farchog' B 2474). Pa wedd bynnag, rhodder stalnod o fŷn *trŷy dyghu* a dealler efallai 'say some' RW. Ni cheir dim cyfatebol yn B.

2877-9. *y neill . . . acherdedyat uchel . . . Ar llall yn rygyghab*. B 2476 *ly un estoit basent, l'altre pomelez* 'one was piebald, the other dappled bay'; cf. Harrap II *Cheval pommelé=cheval bai mivroté*; SE *dapple-bay=coch ceiniogog*. Ymddengys mai *balcent* neu *blancant* (gw. Godefroy d.g. *baucant*) oedd yng nghopi AN y cyfieithydd ac iddo ei gamddeall fel rhang. pres. *b(a)lanc(i)er* 'to oscillate, to prance', ond dichon iddo droi *pomelez* â'r geiriau *red geinoghoic* ac i ryw gopiwr oblegid llygredd yr ysgrifren (y mae'r holl gyswilt yn llwgr) ddarllen *rygyghab*.

2879. *uchel oed y dyd*. B 2477 *Le curs fu fet* 'trefnwyd y rhedegfa'. Clywodd y cyfieithydd *Le jurs fu fe(f)it* 'the day was a fête' a throes hynny yn llythrennol. Yn y llwgr, *curs* a geid ond yr oedd y gwahaniaeth rhwng *e* ac *i* (= *j*) yn aml yn fychan; cf. *Ac uchel oed y dyd. nyt amgen no datŷ fulgŷn* 4189-90=B 3692 *Le jurs fu pentecoste, la fest grant*.

2880-1. *ef a nyryoyd o benn y 162 dec gafflach a rugint*. B 2477-B *Le curs fu fet, le aver fu portez, a le chef de curs un quarante mars getez*. Ymddengys B 2477

yn rhan angenrheidiol o'r stori; os felly, aeth rhywbeth fel *ef a nyryoyd y 622, ef a dupeŷyt y da* ar goll dan ddwylo rhyw gopiwr. Eto cyn y gellir esbonio'r darll. Cymraeg rhaid tybio mai *a le chef de curs un treinte mars getez* oedd ffurf y testun AN y gweithia'r Cymro arno ac iddo wneuthur un o ddeubeth: (a) *cymryd dant* (llu. *darz*) yn ei ystyr fwyaf cynefin (gafflach) yn hytrach nag yn ei synwyr llai arferol (darn o arian), darllen *curs yn tur ac a le chef yn de le chef*; neu (b) edfryd yr un. *dant* o'r llu. *darz* (cf. *citet* 653, 899 o *citez*), rhoi llonydd iddo lle'r oedd a gadael *curs* yntau heb ei gyffwrdd (*-ll* yn AN er yn gymnar; gw. *Orgraff*, §18). Y mae'r cyfan a wyddys am y rhedegfeydd yn dangos fod y darll. Cymraeg fel y saif yn llwgr, ac anodd coelio i ysgolhaig AN fel y cyfieithydd gamddeall y cyfeiriad at y gwobrwyr. Cynigiad, gan hynny, mai *ef a nyryoyd o benn e curs dec dant argeint* neu'r cyffelyb oedd yn y cysnail ac i ryw gopiwr droi *dant yn gafflach* cyn neu wedi camddarllen *e yn o a curs yn tur* (gwallau hawdd eu cyflawni). Os yw hyn yn gywir, ceir yma ddau air HFF yn y ferstun Cymraeg, sef, *curs=curs* 'rhedegfa' a *dant* 'math o arian' (Godefroy). Am hoffter y cyfieithydd o gymryd amryw eiriau HFF drosodd gyda'i gilydd, cf. n. ar 276, 404, 2663, 2664, etc.; am olion o'r hen orgraff uchod, gw. dan *u*, y *eglar*, ac y *dywyll* yn *Orgraff*, §16.

2883. *ac ar y plas*. B 2479 *En la place*. Oddi wrth B ymddengys y dyld darllen *ac ar y plas*, ond efallai y dywedidd gynt *arwein ar* +ban. lle'r arferir heddiw *arwein i* +bannod. Y *plas* oedd y darn o dir glaswelltrog a orwedda'i o fŷn grisiau'r castell a'r *Palais brehinnaol* canoloesol; cf. *wedy dyngynn* yn y *plas* SG 412=*descendi à l perron devant la sale* Potvin 306; *ymperued y plas y digynnusid* SG 418=*descendi ammi la cort* Potvin 313. Defnyddid y *place* i wahanol amcanion ymarferol; yno, er enghraifft, yn amser heddwch, yr urddid marchogion, etc.; gw. L. Gautier, *Chev.* 256, 318-9. Amlwg mai benthg o'r *place* yw'r *plas* a geir yma. Estynnwyd yr ystyr i olygu darn o dir (Fglaswelltrog) o fŷn prif adeilad gweinyddol tref neu ddinas; *ym plas e dinas* GrapC 132 efallai='market-place'. Yn Ll 34, B 228, 229 arferir y gair am y tir o amgylch eglwys, i.e. mynwent. Ymehangodd yr ystyr ymhellach i olygu *champ de bataille* (gw. Studer & Waters, *Geirfa*), meddwl sydd dan sail *ymlas* y *dydydyr* P 5, lxxxix=*ymplas y u*. YCM² 19. Ceir llu. y *plas* a welir yn GrapC yn *yz hawdy ar plafford* RBB 386. Gw. n. Stephen Williams; EEW; *Études Celtiques* III, 303; a'r n. ar 3345.

2884. *arŷndel yn drythyll*. Dyldid, debygaf, ddarllen *a. yr dr. . .*, cf. *A. Fabrice* yn aml yn B a gw. §20, (i).

2885-6. *zykynnu . . . y myŷn kyfryd ag gofuz eursid*. Awgrymaf mai'r darll. gwreiddiol yn y cyfieithiad oedd *ae gozuzen en eursid* ac i'r gair en fynd ar ddiaberedd gan ei debyced i'r cyfuniadau o boptu iddo (gw. *Orgraff* dan y *dywyll*, §16). Darll. B 2481 *yw par un extra dore* 'drwy gyfrwng ei warthol eursid'; ceir yr un darll. yn B 3135 a'r un gyfatebiaeth yn YBH 3595. Yn hytrach na tybio amwybodaeth y cyfieithydd o air mot gyffredin ag *extra* 'gwarthol', gwell gonyf fuddol mai rhywbeth fel *ele at awons dorez* yw sail YBH; ac er gwaethaf Stimming (*Études* xvi), credaf bod hynny yn ddarl. llawn mae foddhaol. Delnyddid nwyddau drud i addurno coriau'r cyfrwyau yn yr oesau canol: ffori, calchlasar, britswaith aur ac arian (*nielle*), aur; cf. Viollet-le-Duc, *Dict. du Mob. VI*, 22 et passim; L. Gautier, *Chev.* 730; a gw. ar 1299 a 3942 a chym. WM 65, 66 a SG 191.

Er diwedd yr unfed ganrif ar ddeg (gw. *Tapissier de Bayeux, A.D. 1088-1092*) ceid camedd yng nghorffau'r cyfrwyau, ac fel y datblygodd y greff o ymddi i'r waywffon (cf. Viollet-le-Duc, *Dict. du Mob. VI*, 27, et seq.), aethpwyd i rai mwy a mwy o gemi yn y corfas. Tueddaf, gan hynny, i adrych ar *arsyf, harsyf* fel benthg o ffurf AN **arses* (= *ars*) neu *coras*, 'corve'. Er gwaethaf y duedd ar

ran -*re-* i droi'n -*rb-* yn HFF Ffrainc, ymddengys i -*ru-* aros yn y teulu hwn mewn rhai rhannau o'r wlad, fel y dengys *Devant la face de lui curverunt le genouil tuit Livre des Psaumes XXI, 30*, ac efallai bod *curve* Saesneg, wedi'r cwbl, yn hen fenthyciad Ff. Hefyd *kyfrôy? <covretoir [koveɾɔiɾ] > covreoi(r)* (XIIg.) 'a kind of blanket; saddle-cloth'. Gw. Godefroy d.g. *covretoir*.

2891-4. *ac yma y glahardlys y bzenhin bynt hyt na thozei neb ohonunt aelodau ygild. B 2485 Amis, dist le roi, iceo estre lessez. Pur les membres couper, ne les atendez* 'Gyfaill, meddai'r brenin, rhowch y gorau iddi. Hyd yn oed pe rhoddech eich aelodau ym mherygl, ni oddiweddch mahonynt'. Trosiad o'r ffurf anunion-gyrchol ar orchymyn y brenin, sef o rywbeth fel 'and then the king forbade that they should injure one another (by undue impetuosity)' yw darll. YBH. Y mae fersiwn RW 'and then the king restrained them, that they might not break one another's limbs' yn rhy lythrennol, a phrin y gellir rhyfeddu i Stimming (*Anmerkungen* 155) fwrw bai arni. Geilw'r Athro J. Lloyd-Jones fy sylw at enghreifftiau eraill o *hyt na* (=Llad. *ne*) mewn gorchymyn anunion negyddol; e.e. *mi ath weddiad . . . hyt na thremyckych di viui AA 82.27 (=deprecor te . . . ne me despicias)*; etc.

2899-2900. *bzathu aróndel ac ysparduneu dan y voli. B 2491-2 Boves let coure Arundel le preysé, par maltalent le point a costé* 'Bown a ad i Arwndel, y gwerth-fawr, redeg; â dieter cf a'i brath yn ei ystlys'. Colffernir *dan y voli* 'praising him' RW gan Stimming (*Einleitung* xcvi). Diwygier *dan y voli yn dan y voly* a cheir darll. sydd mewn cytgodr perffaith â B. Nid enwir, mae'n wir, yn y geiriau *brathu ac ysparduneu* y fan lle brethir yr anifail yn yr enghreifftiau eraill (14 ohonynt), eithr nid yw hynny yn gomedd inni dderbyn *dan y voly* yma. Ni sylwais ychwaith ar *costé* gyda ffurfiau *poindre* 'brathu' yn B onid unwaith (1256). Efallai ddarfordd creu'r gwall gan waith rhyw gopiwr yn ymddyso o weld y yn *yffoed* sy'n dilyn ac o gyfwerthedd y ac i yn orgraff rhai ysgrifenydd yn y cyfnod (gw. *Orgraff*, §16). Dichon, felly, mai sillafiad gwrthwyneb yw'r -i hon am -y.

2901-3. *pan gyuodes dōfl . . . yn gybyr rygthaō ar gōyr. Cf. ac a syrthiavd ryw wybrenn nny gylch SG 71=Queste (F) 96 mublée; gwedy y wisgau o wybren SG 181 =Potvin 13 estoit revestuz d'aube* 'he was clothed in a white cloud'. Tybiaf y dylai'r cymal *rygthaō ar gōyr* ddilyn y *ffoed a gymerth* 2900-1, oblegid buasai cael cwmwl o lwch rhyngddo a'r gwŷr y mynnai eu goddiwes yn anfantais fawr iddo yn sicr.

2903-5. *thelōch heb y bzenhin meint y ham y mae nny ōneuthur yr march* 'See ye, quoth the king, how much wrong he is doing to the horse?' RW. B 2495 *Ves, dist le roi, ceo est un malfe* 'Gwelwch, meddai'r brenin, hwn, cythraul yw'. Os ydym i ddilyn RW, rhaid tybio, fel yn 2899, fod rhywun yn darllen i'r cyfieithydd ac iddo ddirnad *malfe* 'ellyll, diawl, etc.' fel *mal fait* 'harm done'; yr un modd, deallodd *malfez* B 2526 fel *maō dōc* 2948. Gellid hefyd ddeall *ham* fel 'stride', a rhoddai hynny, yn yr amgylchiadau, synnwyr rhagorol. Tueddaf at y golygiad olaf, eithr heb nemor o hyder. Collodd *thelōch* ei g- ond odid o dan bluen rhywun a ddeallodd y frawddeg fel gofyniad, ond efallai mai cwestiwn oedd ar y dechrau hyd yn oed yn y gynddelw. Cf. 3195 *thely di y tōyllōz a'r n. ar 3432*.

2906. *y deu varehōc o thōfōlōn. B 2497 Deus chevalerz . . .* Gan na fu sōn am feirch. Gwasgwyn hyd yn hyn, buasai'r cyd-destun yn fwy dealladwy ac yn cydfynd yn well â B, pe gadewid sillau y fannod o ffian *deu*. Yn ôl B, daliasai'r ceffylau hyn eu tir yn erbyn Arwndel am lawen tair milltir. Dyna paham yn nes

ymlaen y mae Bown wrth siarad â'i farch yn danned iddo arafweh ei gerddedid; ond gan fod eto yn y rhedegfa feirch i'w gorchfygu, dwg ar gof i Arwndel ei hen orchestion a geilw'r gwasgwynfeirch yr oedd newydd eu curo yn *rōnffieit* 'ceffylau gwaith'. Meirch Gwasgwyn oedd y ceffylau mwyaf eu bri yn yr oesau canol ar ôl ciddo'r Ysbaen; cf. a *glafōlōn da teledō* WM 253; cf. 3701 a gw. n. ar 98.

2909. *march heb ef. Buasid yn disgwyl y march* yma ac yn 3034 ar batrwm y *palmer* 1539, ond efallai i *chival* (heb fannod) fel yn B 2501, 2603 gael peth effaith ar ymwybod y cyfieithydd. Os collwyd rhywbeth, dichon, serch hynny, mai rhagenw blsen oedd. Rhoddid hwnnw'n fynych gydag enw aelod o'r teulu wrth gyfarch megis yn *cymraōt* WM 137, *rychwaer* ib. 131(2), 134, 135(a), 138, *uy mam* ib. 118, *uy mab* ib. id., *y mam heb ef* ib., id. Ymddengys, felly, y dylid dehongli *mam heb ef* ib. 119 a *mab heb yr erbin* cf. 418='y mam . . . y mab a'r un modd *lyma chwaer . . . a gyghōzōn itti* ib. 134='y chwaer. Gan yr edrychau'r marchog ar ei farch fel cyfaill mynswol, efallai y dylid deall *march*=y *march* hefyd.

2911-2. *hanyz pann erlityaffam y rōnffieit clotozuz. B 2503 kant si pres vas suent se runcis defiez* 'gan mor agos ych canlyn y r(h)wisiaid heriedig hyn' Yn y testun danned y mae Bown i Arwndel am ganiatōu ohono i'r gwasgwynfeirch a eilw ef yn *rwnsiad* (*runci* 'ceffyl gwaith', gw. n. ar 98) ei ganlyn mor agos. Ni welaf ond un ffordd i ddwyn y testun Cymraeg i gysondeb â'r cywilt, sef tybio mai *kan si pan nus suent se runcis defiez* 'gan mor dynn y'n canlyn y rwnsiad . . .' oedd geiriau'r gynddelw AN a darford i gyfatebiaeth ffurf ac ystyr *kan* yn y ddwy iaith ei hudo i drosi'r ddeuair si *pan* 'mor llwyr' (*pan* 'entierement' Ste-Palaye) heb eu newid i'r fersiwn Cymraeg. Cynigiai felly mai'r darll. gwreiddiol oedd rhywbeth fel *kan si pan en* (*herlityaffant y ruffieit clotozuz*. 'Cywirwyd' *kan si yn hanyz ac -nt yn -m* gan rywun y bu'r geiriau HFF yn dramgwydd iddo. Am gymalau HFF a adawyd heb eu cyfieithu ac a 'gywirwyd' yn ôl llaw, cf. 404, 2663, 2916, etc. Amhosibl ystyried *clotozuz* fel cyfieithiad o *defiez* (<*defier* 'hercio'). Yma eto yr eboniad mwyaf tebygol yw fod rhywun yn darllen i'r cyfieithydd (gw. n. ar 2879, 2899, 2915, etc.) ac i'r olaf ddeall *defiez* (<*defier* 'dwyfoli; imawrgannol'). Pan ddilyner ei gan i gyntain digwy ei ar y ghus bron fel a se felly y nodwyd hi lawer gwaith yn LIDW a manau eraill; e.e. *henjauc* LIDW 184 (2), 188(2), 236 (ac yn aml), *hefiau* ib. 189, *mechies* 226; etc.

2914. *Ac yma hynaf ti am urdeifl. B 2503 julie vas vi tant trois oroz over paool, kant jo occis Tenebres l'admira, e Jolian me sut primes adobe* 'gynnt mi'th welais deirgwaith wedi blaenu, pan ledlais i Tenebres, yr admiral, a phan urddasid Iosian hi ar y dechrau'. Yn y *chanson de geste* amrywiol urddwyr o ran bonedd, rhyw, nifer, etc., ond ni chlywyd sōn etioed am farch yn urddo nebl Rhaid i bob marchog, bid sicr, wrth farch a rhoddid yr anifail sōd bob amser gan un o'r urddwyr. Iosian a roddodd Arwndel ac yn ysbeyd yr oesau canol myn Bown atgoffa ei geffyl mai trwy ei dwylo hi y daethant yn gymdeithion a'u bod ill dan yn rhedeg dros arhysedd yr undebnes. Y mae'r darll. Cymraeg yn gwbl amherthynasol, ond yr wyf yn barod, serch hynny, i greu mai dyna fel y bu o'r dechrau a darford ei sylfaenu ar waith y cyfieithydd neu si gydymaith yn darllen *ios=Jolian* fel *vos=chuz* ac *sut* (*amr. ar sut*) fel *suat=suaz* (cyferyb -i -a yn AN yn aml; cf. L. Menger, *The Anglo-Norman Dialect* 122, a gw. M. Watkins, BBOS, XIV, 22). Yn ôl y dyb hon, y cynnail AN *fussis o ios me sut primes adobe* a'r dehongliad *e vos me suat primes adobe*, testun yn cyfateb yn berffaith i'r trosiad Cymraeg. Gellid hefyd, wrth sewun, gynigai hi (neu *Josian*) am (Arwndel)

(cf. *aflluneidit* cyw. *aflluneidet* 1989) a phriodoli'r dryswch i waith copiwr neu gopiwr. Ymddengys yr esboniad cyntaf yn fwy cyson â'r anawsterau eraill yn y cysylltiadu drys hyn.

2915. *a phan gogleu y march y arglwyd yny voli.* B 2507 *Kant oya sun seynur Arundel le preysé* 'Pan glybu Arundel, y gwerthfawr, ei arglwydd'. Trosodd y cyfieithydd yr hyn a glybu o enau ei ddarlennydd (. . . *le preysé*), nid yr hyn a oedd ar y memwrn (. . . *le preysé*). O'r frawddeg AN gyda *preysur* y mae'r darll. Cymraeg yn gyfieithiad gweddol gywir. Gwan iawn oedd yr r AN ac o'r herwydd esgeulusid hi yn fynych. Gwnaethai hyn swm *preysé* a *preysur* o ychydig bellter yn ddigon tebyg; gw. dan r yn *Orgraff*, §18.

2916. *yn llhell noc y kausas oe bzoui.* Cyfieithiad RW o 2915-6 oedd 'and when the horse heard his lord praising him better than he had found him on trial . . .'; ond er cystal yr ymgais hon i greu dyledus synnwyr, ni cheir cynganedd meddwl rhwng y trosiad â'r cyswllt cyffredinol. Ni ellir cael hynny chwaith tra glyner wrth y darll. Cymraeg fel y saif. I gael gyngored meddwl rhaid mynd yn ôl at y llinell gyferbyniol yn y gân AN: *mels entent que cerf esprové* (B 2508) 'gwel y deall na chaethwas profiadol' a thybion nad oedd *kafas oe bzoui* ar y cyntaf onid y geiriau AN *cefs esprové* (amr. AN cyfreithlon ar ddarl. B) wedi eu cymryd drosodd i'r cyfieithiad Cymraeg yn eu crynswth (cf. 404) ac i ryw gopiwr o ymddrysu yn y ddwy -ll ddiwedol gyfagos, adael allan y *deall* ar ôl *llhell* a rhoi i'w olynnydd y gorchwyl o geisio plannu synnwyr Cymraeg yn y geiriau HFF y trawsai arnynt ac nis adnabu. Tebyg, felly, mai'r darll. cysefin oedd. . . *yny voli yn llhell y deall noc y cefs esprové*. Awgrymodd W. J. Gruffydd wrthyf mai na *guas oe bzoui* efallai oedd y darll. cyntaf (cf. *Gwaeth taeog o'i ddyrchafu*) ac i'r bai ddeillio o gamddarlenn hynny.

2917. *a racdab y herdald.* Dengys y cyswllt fod *herdet* yma yn golygu 'to ride at full tilt, to gallop'; cf. hefyd 2485 a 2911.

2920-1. *hyny deuth ar gyffimid tref y tat.* Ymddengys yr ymadrodd hwn yn debyg i gamgyfieithiad o B 2514 *de ci he a la curs n'est ren demores* 'hyd nad oedd dim o'r cwrs heb ei guddio'. Dichon i'r Cymro ddeall *curs* neu *cur(t)* fel 'ancestral home'.

2926. *y tir y dylyei synhat bot yn geitôat.* B 2519 *cele terre soleit jadis mun pere garder* 'arferai fy nhad gynt warchod y tir hwn'. Os yw'r darll. yn ddilya, rhaid deall nid 'the land of which my father ought to be guardian' RW, eithr 'the land where my father was the rightful guardian'. Cf. *dlyaf, dylyaf* 'I am entitled to, obliged to' WG 379. Dirnadodd copiwr y LIC y gystrawen i bob diben fel y gwawn ni heddiw. Yn wyneb yr hoffter parhaus o gario geiriau HFF drosodd i'r cyfieithiad Cymraeg (cf. 404, 2663, 2916, etc.), tueddwr dyn i foddol mai'r HFF *soleit* wedi ei Gymreigio'n *fylyei* oedd yn y testun Cymraeg cyntaf ac i gopiwr gymryd yr *f-* am *t-* a darllen *tylyei*, bai iddo ef am *dylyei* (cf. *daur a taur*). Rhoddai hynny synnwyr difai heb newid dim. O'r tu arall, os dithwr y darll., cf. 3137 *ar canfer da a deuth y ganet deu vab idi*.

2933. *ar grad o ucin marmo2.* LIC *ar rad o vein marmo2.* Am *mayn* b., gw. *Cenedl Geiriau dan Cystrauen*, 138, (ii). Ni sylwais ar yr un esiampl o *gr-* am *r-* mewn testun arall oddieithr *gryghod=ryghod* W 3b, ond ceir nifer mawr o enghreifftiau o *gl-* lle digwyfild *l-*; ar *glan thenys* Ll 1, 52, *ar glan traeth* ib. 65, *ar glan hafren* ib. 82; *hyn glenhet* ib. 19, *gals y glender attao* ib., id., yn aml yn Ll 1; o *glender* P 44, 3, *mor glen* ib. 12; yn *glens* DgCourt, 2; etc. Benthyl

dysgedig o'r Lladin *gradus*, mae'n debyg, yw *grad*; *gre(t)* fuasai'r ffurf yn HFF Ffrainc, yr hyn (gyda'r -s enwol) a roesai *grez, gres*, etc., ac a roes *gris* 'atop', fel y tybiaf fi, yn Gymraeg. Gwall copiwr, yn bur sicr, yw'r *g-* yn *gryghod* o weld y ddwy *g* flaenorol yn *guna gymod gryghod a mi*.

2935. *llaöer a gyfgeist* 'thou has slept much' RW. B 2526 *lassez moi ester!* 'gedwch fi'n llonydd'. Nid oes llawer o synnwyr yn marll. B ac y mae llai fyth yn un YBH. Gellid darllen a *gyfgeist* a chyfieithu 'thou hast ridden a long course', neu a *gyfgeist* o'r un ystyr (cf. *o'urser* AN a roes *to course* yn Saesneg), neu eto a *gyfgeist* (gydag *fe=s*, *orgraff* gyffredin yn AN) o *o'ucer* 'gorwedd, cysgu; cyngwystlo' 'thou hadst staked a great deal'. Am a wn i nad yw'r cyntaf cystal â'r un gwelliant Cymraeg; y mae'r ddau eraill hwythau, yn ddigon posibl pan gofier mawr hoffter y cyfieithydd o gludo geiriau HFF drosodd. O blaid yr olaf, nodwr mi a enillais o *redec vy march moy noc yd enilloys vy holl kenedel* [o *hamton*] ar voz 2936-8=B 2527-8 *Plus ai lui conquis o mun corant destre he tuz mes parens a Hampton sur mer*.

2937. *noc noc . . . vy holl kenedel.* Dilcer un *noc* a chwanager o *hamton* ar ôl *kenedel*; cf. B 2528 . . . a *Hampton sur mer*.

2947. *kyghozhlyr . . . yr hynn y rodo duö . . . iduö.* Am *üy=ü*, gw. *Orgraff*, §16, w, 4.

2950. *dozo deugein marchalc.* B 2537 *Sire, inci sumus quarante chevalers* adubber 'Arglwydd yma yr ydym yn ddeugain marchog urddol'. *Sum* a geir yn y llagr. sydd ar gael a thalfyriad efallai oedd yn y testun y gweithiai'r Cymro arno. Un peth sydd sicr: *sumes* neu *sumes*, 2 llu. gorch. *semonbre, semoneir* 'gwahodd, gwysio' a ddaelodd y cyfieithydd. Darllenodd *Stimming sumus* 'yr ydym' ac y mae hynny yn well darll. Ymddengys yr ystyr *deugein* yn rhif addas i ddiben neges bwyaig; cf. SG 401, 404=Potvin 293, 297.

2962. *hab y bzenhin.* Y mae *bzenhin* yn y fan hon yn drysu'r meddwl. Tybiaf mai *h* oedd yng nghynnail y LJG ac i'r copiwr estyn *h* a rhoi *bzenhin* yn lle *boön*. Rhoesai *boön* synnwyr perffaith a buasai mewn cytgod â B 2545 *Bel sire, ben, la merci damedel!*; am *h=boön*, cf. 2741, 2840, 2885, 3219, 3439, 3462. *Mi a ozchyngeis y marchogyon.* B 2546 *Jos ai le curs venus e conqueste* 'Mi a orchfygais y rhedegfa ac a'i henillais'. Ymddengys oddi wrth ddaell. B fod y geiriau *ae ae henilleis* a geir yn awr yn 2962 ac y cyntaf yn rhan o 2964 ac iddynt drwy ryw amryfusedd fynd o'u lle. Gan mai *rhedegfa* feirch yw testun y stori er ll. 2880, ac mai *curs* yw'r enw ar hynny (cf. B uchod), yr oedd y gair hwn yn bur sicr yn y llin AN sydd dan sail 2962. *Paham, os felly, y ceir marchogyon?* Yr ateb yn ddiau yw i'r Cymro oedd yn darllen ddirnad *curs fel curs*, sef y talfyriad cyffredin am *chevalers*, ac mai *chevalers* a *glybu'r* cyfieithydd.

2964. *ae ae henilleis.* Y mae'r geiriau hyn yn ddiystyr yn y fan hon; gw. n. ar 2962.

2979. *yd ymywylod y ghyr ac af.* B 2558 *E cil li parment* 'w'r rhai hynny a'i cymertant'; cf. *yd ymywylod* ar ef 3008; cymh. hefyd *nyd yng ngafel* a (*amr.* . . . yn *nafel* *d*) 'to rape, ravish' yng Ngwleulin Morgannwg.

2985. *diöc yth gybeiröyt.* B 2561 *maüs sus est encontre* 'druwg a gyfarfu â chwi'. O'r ystyrion a rydd SE i cymenio nid oes un yn gweddu i'r cyswllt. Y synnwyr

yma yw 'to befall, to happen to'. Dealler, felly, 'evil has befallen thee' yn hytrach na 'bad is thy fortune' RW. Awgryma'r Athro J. Lloyd-Jones y gwelliant *dzôc ath gyuaryô* (o *kyuaruot*) a byddai hynny'n taro i'r dim; cf. *hoed an cyferyu* a rydd ef yn G.

2995. *Ac nys gohryald fabaot*. Colodd yr -s ragenwol ei hen werth ac aeth nys yn gyfystyr â ny eisoes efallai (gw. *Ffuriant*, §28, (c), (iii)), neu dylid deall 'and S. did not put it (the going) off until ...'

3001. *ae modôzd*. Darll. *ae emodôzd* a gw. *Orgraff*, §16.

3004. *no godef y fmachteu hcynt*. *fmacht* 'buffet' RW, 'an ill deed' R, dau ystyr anaddas i'r cyswilt. Dan *contumelia* ceir gan TW (ond nid yn TWD) *yfmacht* gyda *sarhaat*, *amharch*, *dirmyc*, *senn*, *cerydh*, etc., ac y mae'r meddwl hwn yn gweddu'n dda. Yn B 2575 y darll. yw *kant nus avum oy tele destine* 'gan glywed ohonom y fath dyngedfen'; eithr ymddengys yn bur sicr mai'r geiriau a glybu'r cyfieithydd gan ei ddarllenwr oedd *he nus avum oy tel dedeiner* 'na chlywed ohonom y fath sarhau', darll. cyfreithlon yn HFF ac eithaf boddhaol ei ystyr (cf. HFF *Ffrainc desdaignier*, *desdaignier*, AN *desdei(g)ner* < Llad. Is. **disdignare*). Y mae ansicrwydd ynghylch tarddiad *fmacht*. Awgryma'r Athro Parry-Williams HS *smack* fel posibilrwydd, ond geilw sylw hefyd at *smacht* 'command, control, discipline, awe' yn yr Wydd. (EEW 80). At darddiad Gwydd. hefyd y tuedda'r Athro J. Lloyd-Jones. Os benthyciad Gwydd. yw, byddai'r meddwl 'chastisement' a rydd Dinneen i'r gair yn gweddu'n well yn YBH na'r ystyron uchod.

3006. *lâtôn heb ef*. B 2577 *Boves, ceo dit le roi*. Efallai, yn wyneb B, y dylid darllen *Bovôn*=*Bovoun*. ffurf a welir lawer gwaith yn B, e.e. yn 208, 353, etc., ond sy'n absennol o'r darlenniadau dilys yn YBH.

3010. *ac na fberthit, ac na rodit ar wechiaeth*. Gwerth dyn, yn ôl cyfreithiau Cymru, oedd yr iawn a delid gan y neb a'i lladdai. Yng ngeiriau Wotton, *pretium seu compensatio pro caede* (cf. TR). Ystyr *gberthit* yma, felly, mae'n debyg, yw 'to redeem (oneself) from death by payment of a fine'. Gan fod *ac na rodit ar wechiaeth* yn troi B 2580 *ja n'eret pleges*, efallai i'r cyfieithydd chwanegu *ac na fberthit* fel mynegiant o'r stad gyfreithiol yng Nghymru ar y pryd. Cf. *gberth* 3743, 3746, 3781=*rançon* B 3275, 3305, 3310.

3012. *bzice o vziflen*. Dyr'y'r testunau Cymraeg aml ffurf ar enw Bristol; cf. BT (P 20) 234^b *Bzuste*; RBB 321 *Bzuste*; M 237^a *Brysteu*; RB 330 *Bziflud*; BT (P 20) 106^b *Baustaw*; BT (ib.) 229^a *Bzustow*; etc. Cyfeiria J. Lloyd-Jones fy sylw at ffurfiau yn -au, -aw, -o (gydag -u- ac -y-). Yn y Deau *Briste* a *Bryste* yw'r ffurfiau a glywir heddiw ar y dref y tu draw i Fôr Hafren.

3015-18. Cymysgwyd yn y llinau hyn gystrawen uniongyrchol ac anuniongyrchol. B 2587 *Diant al roi: Vos nos volez escharnier, nos li weyem decant vos server, o vostre coupe aler e revener* 'Dywedant wrth y brenin: chwi a fyynnwch ein gwatawr, ni a'i gwelwch yn gwasanaethu ger eich hron, yn mynd â'ch cwpan yn ôl a gwerthol'. Ar sail B a dy . . . oth yn 3028 ac it 3020, dylid, er mwyn cysondeb, ddarllen *in(s)* am *idab* 3017 a *welfan* am *welfant* ib. Ond dychon fod cymysgedd o'r union ac anunion yn y gerdd AN y cyfieithid ohoni ac mai cadw hynny a wnaethpwyd yma; gw. *Cystrawen*, §24. Tynnal gogan o'r HFF *gogze + n* 'rullery'; cf. *cezye* 'baby's napkin' < HFF *quesz* 'tail, posterior' + n a gw. n. ar 2744.

3018. *oth fuol*. B 2589 *o vostre coupe 'â'ch fiol*. Ymddengys ddarvoud rhwystru RW gan yr o yn *oth* (? < HFF o 'with', Llad. Is. *apud*) ac yn ei gais i ddyfod o hyd i synnwyr boddhaol dehonglodd *fuol* 'large drinking cup' fel *fodd*, gan gyfieithu '. . . and coming and going with thy will', eithr heb newid *fuol* yn ei destun Cymraeg.

3024. *y gyniuer tiryoad*. Darll. *er y g, gyda'r LIC*.

3029. *tyghu y tlat idab*. Am ladd o farch Bown fab y brenin mynnai'r brenin roi Bown i farwolaeth. Eiriolodd yr ierill yn daer drosto, gan awgrymu cyfaddawd, sef bod Bown yn cefnu ar y wlad ac yn troi ei dir i Sabao, cyfaddawd a ganiataodd y brenin. Dyna ddarll. rhagorol B a thybiaf mai'r un meddwl a geir yn YBH. Ond rhaid dehongli *idab*=*ohonab*; cf. *udant*=*ohumant* ar ôl *tygu* 8:2 (gw. dan *Cystrawen*, §51) a thybio efallai i ferfenw fel *kynytaw* golli o faen *tyghu* (cf. a *hynny* a *gynyttahad* y *bzenhin* 3031). Am *tyghu* gyda'r arwyddocâd hwn, (cf. *A thalu diruab 62 fomp o aryant i loçys uab bzenhin ffreine*. *dzôc dyghu ohonab ynteu teyrnas loegyz yn dzagywyddol* RBB 360. Gwerthoder, gan hynny, 'and then the earls besought the king to adjure the country to him . . .') RW a dealer 'and then the earls besought the king to allow him to renounce the country on oath . . .'. Cf. B 2598 *ke Boves ad la tere forjurd*.

3032. *yna yr arbedadôd boôn arôndel allan ac yd yfynnodd arnab*. Ceir teatun llawer mwy dibetrus yn B nag yn YBH yn y cyswilt hwn (gw. ar 3015-8; 3050-3). Os dylem ddilyn B 260: *L'en (amr, hon, houn, houn, etc. < homo) li amene arôndel l'arbrivé*. *Boves monte par son estru doré* 'They bring him A., the fleet-footed, B. mounts [it] by its gilded stirrup'. Anodd genyf amau na cheid darll. Cymraeg cynharach megis *yna yd arbedadôd hoôn arôndel allan ac yd yfynnodd boôn arnab* ac i ryw gopiwr gael ei ddrwy gan yr HFF *houm (hoôn)* 'one, people, they, etc.', rhoi *boôn* yn ei le gan fwrw'r *hoôn* cyfreithlon allan. Ni fuaasai cadw gair HFF hylaw fel *houm* yn ei destun yn ddim syndod yng ngwaith y cyfieithydd hwn a gariodd drosodd i'w gyfieithiad gymaint o eiriau HFF lai cynefin (gw. ar 405, 625, 2016, etc.).

Am esiamplau eraill o yr am yr hen *yâ*, gw. *Ffuriant*, §29.

3034. *March*. Am absenoldeb y, gw. n. ar 2009.

3037. *a cherydus vo a didarpo*. LIC ac *didarpo*. B 2603 *Dahait ha chait!* 'Gwae'r neb a falio'. Dyfynnir yr enghraifft hon o *didarpo* yn G, ond ni cheir yno ffurf y LIC, *didarpo*, er cael amh. 3 un. *didarpei*. Am yr arlliw 'mallo', cf. SG 320 *Nyt reit ytti didarbot beth anweilyst heb ynteu -d cor a'an monte rieu de quanque nos feissou* 'nid yw o bwys yn y byd i chwi pa beth a wnelom ni' *Poivin* 189; *monter* 'bod o bwys'; *nyt reit ymi didarbot* SG 33 = *Llagra*. BN 123, 204^b *il se nos enchant*; gw. *Ste-Palaye* a *Godefroy*.

3047. *goczchymyn yd ôyf*. B 2613 *Par deu euz pri'er mwyen* *Duw mi a adolygaf i chwi!*; *goczchymyn*=yma i'ro commend'. Go drabaus yw'r gair yn ei ystyr arferol yng ngenau dyn wrth siarad â'i frenin; ond cf. 3055.

3050-3. *oe ef a geis dy yrru y ar y tir . . .* Fel yn 2570-6 i raddau, y mae'r siaradwr yn y cyswilt hwn yn torri ar ei ymddiddan i apelio at ddyddid person, fel petai. Yn ôl y dull hwnnw, croessiad efallai o ddulliau Cymru a Ffrainc (gw. n. ar 2574), nid oes dim i'w gwirio. O'r tu arall, os tybir mai ffwrth besau ysgrifol yw'r gytmysgedd ac y dylid celfryd y darll. i gysondeb B, awgrymaf os ef a *geis dy (di) y yrru y ar y tir*, yr hyn a gyfateba'n bur agos i *ni cwi oit ke tu le*

vois enchacer de cel honor 'os digwydd mynno obonot ei yrru ymaith o'r tir hwn'. Hawdd fuaasai lithro i ddarl. y testun o hwn oblegid mynychdra y; cf. *pony llydy dy* 628, *llyedy racco* 1628 a gw. dan i yn *Orgyaff*, §16.

3052. *hyt ar beddyrann y mo2*. Yn llsgr. B 2618 *dela tiii mer* 'y tu draw i bedwar môr' yw'r darll. a thebyg mai hynny hefyd oedd yn nhestun AN y Cymro. Os felly, ymddengys yn sicr mai *hyt ar beddyrann y mo2* oedd yn y cyfieithiad ar y cyntaf. Gwyddys fod r ac n (=u o ran flurf) yn debyg i'w gilydd yn yr hen ysgrifen ynysol, ond yr hyn sy'n syndod yw y cymysgir hwy yn nhestunau'r drydedd a'r bedwaredd ganrif ar ddeg: *bzenin* (*brerin*) BM 4 Fac. LIDW 135; a *theyrget* Ll 1, 45, *ech teyrget* ib. 49; *arydedus* ib. 103; y *ly6enyd* P 4, WM 70 = P 6 *leferyt*; *Ac yn eglwys cyw. yn yr eglwys* P 7, 51b; *hep waandaw dim* P 14, 154; *Pendarar dyuet* WM 58; etc. Dealler, gan hynny, 'to the four corners of the ocean' yn hytrach na 'to the quarter of the sea' RW.

3054. *nac ymdiret ti ymi*. B 2620 *Mes ja pur moi ne serrez defiez* 'eithr o'm hachos i ni'ch herir fyth'. Nid oes fawr cytgod rhwng *nac ymdiret* a synnwyr cyffredinol y cyd-destun, ond tybiaf ddarfod cynhyrchu'r anghysondeb pan luniwyd y cyfieithiad. Dyma, gallwn feddwl, sut y bu. Yn y llsgr. AN y gweithid arni ceid . . . *ne serrez defiez* (y mae -d yn ffeirio â -z yn fynych yn y berfau AN; gw. n. ar 2914); darllenodd y cyd-weithiwr (gw. n. ar 2911, 2915, etc.) *ne seied defiez*, sef 2 lu. gorch. *estre* 'bod' yn lle 2 lu. y dyf.; dirnadodd y cyfieithydd -d+d- fel d segl a deallodd y frawddeg fel *Mes ja pur moi ne sei(i)ez afiez* 'but as far as I am concerned, never be trustful'; am *afiez* 'ymddiried, bod â ffydd yn, etc.', gw. Godefroy, ac o dan 12 (b) yn y *Rhagymadrodd*.

3059. *yna y dyhaút, duú ath nertho*. LIC y *dyhaút sabaoth*. Nid yw chwanegeiad y LIC yn mynd yn dda gyda'r hyn sy'n dilyn: *eithyr na bydaf lawen byth yn bythyt am gollí vy mab maeth*. Yn B 2623, ar dafod y brenin y rhoir y dda ym- adrodd: *Sante Marie! dist Edegar, le franc. Kant ici perdu ai mun enfant, ja en ma vie ne serai joiant* ('Myn y Santes Fair', meddai E., yr anrhydeddus. Gan i mi yma gollí fy mab, byth yn fy mywyd ni byddaf lawen'. Ymddengys felly y dylid darllen y *dyhaút ethert* (cf. *ethert*=*Edegar* 4281) *duú am nertho*. Ar ôl colli *ethert* prin y gellid peidio â newid am yn ath; gw. *Rhagymadrodd* §6, (ii), 21.

3061. *vy mab maeth*. B *mun enfant* (gw. n. ar 3059). Dileer *maeth* a lithrodd i'r testun Cymraeg efallai o waith rhywun yn cofio y rhoddai pendeigion Cymru eu meibion allan i'w meithrin ac y derbyniant eraill yn eu lle; *mab maeth*, felly, oedd llawer mab; cf. *fatmaeth* SG 187, 188=*pères* 'dad' Potvin 19, 21, a gw. J. E. Lloyd, *History of Wales*, I, 310, II, 379, 549-50.

3065. *g6neuthur y fabaot*. Collodd *g6zogaeth* ar ôl *g6neuthur* oherwydd tebygrwydd eu llythrennau dechreuol; cf. B 2631 *fetes feut6* 'gwnewch wrogaeth'. Llanwodd y LIC y gwagle á g . . . *po6 peth yn ufud* y.

3069. *ae zftyma6d ida6*. Y tebyg yw mai a *zftyma6d ida6* yw'n nhir oedd yn y cynsail (cf. 3030 a *rodi y tir y f.*) ac wedi colli o'r ddeuar olaf i gopiwr droi a yn os er mwyn cael gwell synnwyr; cf. B 2634 . . . *li ad de tut le men feffez* 'a'i cynysgaddodd â'm holl dda'.

3070. *g6shardad6y 6yf*. LIC *g6shardad6y 6yf*; cf. *llef uchef*=*amr*. y LIC ar 305; *farafineyit* *creulat6* ib., *amr*. ar 155; y *llong hong* ib. 2311; am -*ad6y*=*edie*, gw. n. ar 194.

3072. *vy marchogyon yn 6yla6*. Cododd copiwr ei olygon oddi ar (*6y*) *march* a phan droes eilwaith i aildddechrau nid ar (*6y*) *march* y diagnusant eithr ar y *marchogyon* yn y frawddeg nesaf. Oblegid hyn collwyd rhywbeth fel *ey* (*march a ladat6d uab y bzenhin. ac yna y g6llit y*) *marchogyon yn 6yla6*. Cf. B 2638 *mes le f6z le roi ad mun ch6ul tud. Ke l6z6 veit plurer les chevalers!* Cf. 3200-2 lle'r ymddrysodd copiwr y LIC ar y geiriau, y *farafineyit*, ac y gadawodd allan bopeth a oedd rhyngddynt yn 3200-2.

3074. *Mat yn ganet* 'under evil auspices were we born', nid 'It is evil that we were born' RW. B 2640 *Mar sumes ore nez, kant nus perdum nostre meilleur amis* 'I adfyd y'n ganed canys collwn y (llythr, ein) cyfaill gorau (sy'n awr yng Nghred)'. Myn Ifor Williams, BBCS, II, 121-2, yr arferir *mat* yn y fan hon 'mewn gwawd chwerw' a thrwy dybio hynny geill ei gysylltu â *mat*, *mad* 'fodus, lwcus' sydd, fel y gwyddys, yn hen air Celtig. Yn sicr, prudd-der neu, yn hytrach, ymddarostyngiad i ffawd, a gyfleir yn B, a dyna, i'm ryb i, sydd hefyd yn YBH. Ni chredaf chwaith fod a fynnô'r *mat* hwn o gwbl â *mat* 'fodus, lwcus'. Ceir *mat* yn HFF gyda'r meddwl 'humiliated, afflicted, sad, etc.' (cf. Ste-Palaye a Godefroy), ac yn yr un iaith digwydd y gair *mar* (gw. B uchod) a ddefnyddir fel adferf 'under evil auspices; for (my, his, etc.) misfortune', gair a weir yn fynych mewn cyswllt â *furfiau naistre* 'geni'. Credaf y digwyddai naill ai *mat* neu *mar* yn nhestun AN y cyfieithydd ac iddo ei gymryd drosodd i'w destun Cymraeg fel y gwnaeth ag ugeiniau o eiriau HFF eraill. Os *mar* oedd, cf. *revert, redit>redir* BB 55, 10; *periglaur>periglaut* LIDW 202; etc. Gair technegol a ddaeth o'r Berseg i'r HFF gyda chwarae siac yw *mat*, yr un gair ag a weir yn Saesneg *checkmate*; tardd *mar* o *mal(a) hora*.

3078. *a pha beth*. Nid oes galw am y geiriau hyn fel y dengys ateb Sabaot yn 3079; gan y safai *he am toho? a tohat?* (cf. *he volam nus amener?* B 2644), dithon, serch hynny, fod a *pha beth* yn y testun pan ddaeth allan o dan law'r cyfieithydd. Os felly, buasad yn disgwyl iddo ar ôl cyrraedd 3079 ddileu'r geiriau diangen, ond, a barnu oddi wrth lawer o esgeulustod cyffelyb, ymddengys na feddai'r Cymro hwn ar ddiagon o amynedd i olygu ei waith cyn ei adael o'i ddwylo.

3079-82. Yn ôl testun YBH, y mae Bown yn cychwyn ddwywaith, yn y lle cyntaf yn y llinellau hyn, ac yna eilwaith yn 3110-18. Yr olaf yn unig a geir yn B ac am yr olaf yn unig y geillw datlygiad y stori. Cf. B 2645-8 *Sive, dist Sabaoth, Terri mun hereter. A tant esteus l'Escopart le fer, he Boves fist baptiser a lever e a Coloyne Gui fu nom* 'Argwydd, meddai Sabaoth, Terri fy etifedd. Ac wele'n dyfod Escopart, y cadarn, y mynodd Bown ei fedyddio a'i ddaf ar y beddyd-faen, ac yng Nghwlen a gyfenwyd Gui'. Yn sicr ddiagon, nid yw'r darll. yn YBH onid cybolla a wnaethpwyd o ddarl. llwgr a weir mewn furf dda yn B (cf. 3195). Ymddengys dwy sail bosibl i'r frawddeg gyntaf. Gellir rybio i'r darllenydd ddehongli'r ddwy t yn *tant* fel dwy c, esgeuluo'r e o flaen t yn *estesus* (peth cyffredin) a rhoi *Acunete*, cyfuniad o seiniau a ddirnadodd y cyfieithydd (o wrando arnynt) fel y geiriau Cymraeg *Ac on(i) cyt* a (am drybith meddyliol tebyg, gw. ar 1954, 2829, 3379, etc.). Neu gallasai'r darllenydd ddaell *A tant* 'gyda' (am *A tant* neu *A tant* 'yna') ac megis uchod adael yr e heb ei hyngan a darllen *et(e) eu l'Escopart*. Ceid yr un ystyr o ddilyn y naill llythr neu'r llall. Yna rhaid casglu i'r cyd-lafurwyr dynnu o'r gweddill o'r testun llwgr rywbeth fel hyn: *he Boves fist baptiser e l'ave erre e a Coloyne gui fu nom*. 'yna fu roes B. gychwyn ac a drawya'r môr ac yng Nghwlen y gortfenwyd nodu'r cullir'. Wrth ystyried y gybolla hon rhaid cofio bod *au* (=au) yn odli yn AN ag *ou*,

bod *e* yn debyg iawn i *i* (*Gwi*=*gué*), bod *n*, *r* ac *s* o flaen cytsain yn nychlyd anghyffredin a'r *ilde* ar y llafariad am *n* goll yn ansicr. Chwanegwyd *A gbedy bot* . . . *racdab* (3082-4), debygid, er mwyn rhoi'r hyn a ddyfalwyd mewn cytgorf â'r cyd-destun. Am bethau cyffelyb, gw. *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone*, §12 (b), (v).

3083. *Jóíðn*. Gw. ar 2529.

3089. *ar y eir*. Nid 'at his word' RW, ond 'in words only'.

3095. *pa le buafte yn trigað*. LIC *pa le y b*. Ffurf gwmpasog ddiddorol ar y Gorb.

3110. *bozeugóeth*. LIC *bozeugóeth*. Symleiddiodd *-eu yn -e yn gymne* 977, *híthe* 305, 345, 481, *ynte* 393, 436, 473, 484. Dyry'r testunau canoloesol enghreifftiau cyffelyb nid yn unig ar ddiwedd gair ond hefyd o flaen yr acen ac odani: *de poff* LIDW 13^a, *kanebot* cyw. *kanebot* ib. 21^a, *kegheffaið* ib. 22^a, *diherau* cyw. *díheirau* ib. 26^b; *hymne* LI I, 14, *ente* cyw. *enteu* ib. 85, *wynne* ib. 67; *en de hanter* P 44, 12, *ynhe* cyw. *ynhev* ib. 5; etc. Orgraff wrthwyneb, *felly*, *yw'r eu yn bozeugóeth*; cf. *bozeuóyd* WM 425; *tzanmoeth y bozeu* RBB 287; *afteu am eiste* (eisted) RWM II, iv, 953 (HM 15).

3112. *ac y deuth fabaot attab y gymryt kenyat y vynet y llat*. *ac ynteu ac henhadaót*. Yn B 2676-7 Bown sy'n cymryd cennad gan Sabaot: *congé demande Sabaoth le paleyn, e cil li dona, a dyma'r darll. synhwyrol*. Cais yw darll. YBH i blannu cytgorf yn natblygiad y stori ar ôl cybolla 3079-82.

3116-7. *62th ymlahamu lynt ar marchogyon a fabaot*. *Dileer ar marchogyon*, geiriau a gymerwyd yn amryfys o'r llin nesaf a gw. §14 (ii), 3; yn *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone*.

3119. *Hynt boln*. Chwaneger a *therri*; cf. B 2684 *Boves e Terris*. *tréy dzallat*. B 2684 *O grant force*; ymddengys, yn wyneb B, fod *tzallat* yma yn meddwl 'ymdrech, llafur'.

3124-5. *dyuot amfer y thymy idi*. A olyga *tymp* yma 'the pains of childbirth'? Awgrymir hynny efallai gan *amfer* a B 2690 *mal de ventre*. Cf. *dyd a doeth ed en oet y thymy* BBCS X, 21=*venit dies partus, Miracles de la Sainte Vierge*, argr. Kjellman 60=*oprona* (= *ch*) *mult sin terme* ib., id., 63; *pan dyau y thym os vam y eghy efcornes ar was* P 44, RWM II, ii, 378=*pan doeth oet escor oy vam* M; Br GrabA 476=*oed BrT* ib. 434=*oet BrDg* 3. 'Tynnir *tymp* yn gyffredin o'r Lladin (TR, Loth, Pedersen, Lewis-Pedersen), ond gallai o ran ei seineg ddeillio o *temp*, cyflwr gwrthrychol *tem*, *tem(s)* yn HFF ac a arferid hefyd gyda *tem* yn y cyflwr enwol AN. Y mae gwedd AN sicr ar *tymp* (P 44 uchod), beth bynnag a ddywedder am *tymp* ei hun.

3128. *y dylat dy vab*. B 2700 *Vostre enfant parry mult bien ver* 'Gallaf yn burion edrych ar eich plentyn'. Ar hyd yr oesau ymddengys ddarfod ystyried ei bod yn amweddus i *vr* oedol ei wraig yn rhoi genedigeth i blentyn. Yn sicr ddigon, credid *felly* yn yr oesau canol a charit *nyrych* gyfeiriadau at y rheol iawnoes hon yn llenyddiaeth y cyfnod (gw. n. E. Kölling, *Sir Beus of Hamton* 335). Myn *Stimung* (*Einkleitung* xcii) na wyddai'r Cymro ddim am y goel ac iddo o'r herwyd *gungyheithu ver* (*ciders*) yn *dylat* 'to watch' RW. Ond y gwir yw

y ceir y goel o hyd mewn rhannau o Gymru ac anodd ei hesbonio ond fel goroesiad o gred gynnar. Awgrymaf, gan hynny, mai y *dylat dy vab* (Gwenhwyseg *gwelad*=*gwelod*) oedd y darll. cysefin ac i ryw gopiwr gymryd *-be-* fel hen orgraff am *-by-* (cf. LIDW 18^a *gwelad*=*gwylly*, ib. 31^a *gwel*=*gwylt* (*gwyllyd*); etc.), a 'chyniro' y llythreniad. Ond amheuoedd yr Athro J. Lloyd-Jones a rhai eraill a allai *-at* (*-ad*) yn y Wenhwyseg fod mor gynnar ag amser YBH. Paham lai? Yn y gwledydd eang eu trefynau fel Ffrainc, Yr Almaen, Lloegr, etc., ysgrifennid rhyddiaith a barddoniaeth yn yr oesau canol yn iaith y taleithiau. Felly, er enghraifft, trysorwyd rhan o lenyddiaeth Hen Ffrainc yn y Bicardeg, rhan arall yn y Waloneg, rhan arall yn y Normaneg, etc., cyn emill o dafodiaith y Canolbarth oruchafiaeth fel cyfrwng llenyddol. Oblegid hynny gwyddom fod nodweddion tafodieithol cyfoes tiriogaethau Ffrainc yn mynd yn ôl ymhell i'r cyfnod canol. Mae'r un peth yn wir am yr Almaen ac am Lloegr. O'r tu arall, un traddodiad llenyddol mawr a fu erioed yng Nghymru, ond, yn ffodus i dafodiaith Gymraeg, bydd pob copiwr yn awr ac eilwaith i raddau mwy neu lai yn llithro'n ddiarwybod iddo ei hun i dafodiaith ei fro ac yn rhoi inni gipdrem ar ei seineg; cf. BrT (P 20) *hodaffe* 138^a, *dallaffe* 148^b, *doryslygaffe* 246^b am y 3 un. amh. lle gwelir fel rheol ffurfiau yn *-ei*, etc. Nid yw copiwr YBH yn eithriad ac ni wela'r rheswm dros amau fod *-ad* am *-ed* yng Ngwnt a Morgannwg yn mynd yn ôl i'r oesoedd canol. Y gwir yw na *dyr* neb yn iawn pa bryd y troes *-e* yn *-a* yn y broydd hyn a rhyfyg yw honni ein bod yn gwybod.

Am esiamplau eraill o *mab* 'plentyn', cf. o *achau redyud arajt mab arney* LIDW 26^b, 27^b, ib. (ddwywaith); ac yn P 14, 2^b *gur crealón a lalei e meibon yg callon eu mam*.

3132. *herlyd a giglef .i. nat iaón*. LIC nyt. Dengys y testun hoffer y cyfieithydd o frawddegau annuongrchol; cf. 1641-4.

3134. *ythbare*. LIC *ythbare*. B 2705 *Alex vus en, celex vus de ci* 'Ewech ymaith oddi yma ac ymguddiwech.' Ymddengys mai *Alex ebatre*, 'Ewech i chwarae (neu i rodio)' oedd yn nhestun AN y cyfieithydd; cf. *Li jaleus estoit veuz por ebatre* Potvin 50=*Yr hwn a dathoed yno y chwarae* SG 212=*encontra un ancien chevalier qui estoit oisuz del chastel por ebatre* Potvin 55=*nachuf y gwelir gur gobrud yn dyuot or castell allan y rodym* SG 217. Cf. hefyd *si valent ebatre en .j. tergiez qui laiens estoit Queste* (S) 21.0 (aba. o SG 17.1). Er mai *ythbare* yn ddibetrus yw'r darll. ysgrifol, nid ymddengys fod y synnwyr yn galw am *yth* a gorau peth ond odid fyddai deall y *chbare*. Ond y mae *yth bare* (*chbare*, *chware*) yn sicr yn bosibl fel y dengys cyfynnau 3080 (= LIC), *damlein* 3190 (= LIC), *dambeinad* 427, 2070, eithyr *damhinead* 2254, *ygwonec* 402, 971, 1521, ond *ygwonec* 630, 1004, 2545, 2556; cf. hefyd WM 483 *wasnych*=RB 123 *wasnych*. Ai dylanwad AN ai dylanwad y De yw'r esboniad ar LIDW 17^b *nez gwir* (BM 4 *chwegyr*), ib. 19^b *chevhu* (BM 4 *cythnos*)?

3138. *ar amfer da a deuth y gunet deu vab idi*. Noder y cymal *perthynol* traws a gw. n. ar 2025; cf. hefyd *corn eth efo e breyns* LIDW 37^b a gw. WG 285.

3143. *yn ymgreinað*. Nid 'crawling' RW, eithr yn hytrach 'wallowing' neu 'rolling on the ground'. 'Traw'r ystyr 'troi a threiglo', gellid meddwl, yr aeth y ffurfiau deheuol ymgreinað, *my(n)greinað* i arwyddoca'u 'bod mewn poen manr'. Y mae *ymgreinað* yn edrych yn debyg i ffonhychiaid (*gydag ym- am se*) o'r AN **se greiner* 'to contract into folds; to knit the brows; to gnash the teeth'; g.w. Larousse, *Dict. d'Ancien Français* d.g. *grignier* a *Godofroy dan grignier*. Fel y gwelir, yr oedd i (*se*) *grignier*, (*se*) *graignier*, etc., yr un ystyrion i bob diben ag y sydd i *ymgreinað*, -ad.

3147-8. *achlybot y meibyon yn germein affryflyaó aónaethant.* O ran gramadeg, gellir cydio . . . yn *g. affr.* wrth *aón* . . . neu gellir cymryd anadl ar *ól germein* a deall *affr. aón* . . . fel ymadrodd ar ei ben ei hun. Yn *ól* y golygiad cyntaf, y mae *ffryflyaó a germein* 'to cry often, to wail' TR i'w hieuo fel cyfystyron (arfer gyffredin yn YBH); os felly, daw *ffryflyaó* naill ai o'r Lladin Isel **frustiare* 'rhwbio; gwrthdaro; ? gwneuthur twrw' neu o'r HFF **frestier* 'cadw sŵn, gwneud trwst' o *freste=frestre, frestle* 'sŵn; clebar; baldordd', ystyr nas rhoddir i *ffryflyaó* yn y geirlyfrau Cymraeg. (Gw. Larousse, *Dict. d'Anc. Franç.*; Meyer-Lübke, *Rom. Etym. Wörter*; Godefroy; Constans, *Chrest. de l'Anc. Franç.*, Geirfa). Ategir yr ail olygiad gan B 2717-9 *e oyerent les enfans gettre un cris . . . Ignelement est en la loge sailiz* 'and they heard the babies wail . . . Hurriedly did he enter the bower'. Er gwaethaf tuedd YBH i ieuo, yr ail esboniad yw'r un mwyaf tebygol a'r un a roddir yn yr *Eirfa*.

3156. *eu crôyn gra.* RW 'their fur skins'. B 2723 *hermin engulez* 'embroidered ermin'. Defnyddia'r barwniaid Ffrengig bedwar neu bum math o bân neu ffwyr i ddyblu ac addurno eu gwisgoedd: *y gris*, sef croen cefn gwiwer lwyd Gogledd Ewrop; *y vair*, croen gwynnaidd bol yr un wiwer; yr *ermine*(e), croen y carlwm gogleddol a'r bele gwyn o Rwsia; y *martre zibeline*, croen y bele gwineu o'r un parthau, croen prin iawn nad arferid ond i ddyblu coleri, ymylau gwisgoedd, a hetiau. Defnyddient hefyd groen y wiwer goch i ddyblu mentyll, pelisiau, etc. Dotia'r cyfnod ar goch a lliwid yn goch weithiau hyd yn oed groen y bele gwyn o Rwsia. Dyna, ond odid, sydd dan esboniad ELh: *gra yw ysgarlad gwynn a rydd TR.* Ond *gra*, nid *gris*, yw ffurf y testunau Cymraeg: *goely* . . . o *ysgarlat a gra a phali* WM 239; *dillat o ysgarlat affwry o grwyn gra yndant* SG 211=Potvin 49 *une robe d'esquarlate forrée d'ermine*; etc. A barnu wrth gymdeithion *gra* yn ein testunau, buasid yn disgwyl iddo fod yn fenthyciad o'r HFF. Os hynny yw, rhaid tybio ddeillio ohono o dafodiaith un o'r taleithiau gogleddol (Picardi, Artois, Hynawt) sy'n ffinio â'r gwledydd Isalmaenig lle ceid y ffurf *gra*. Gw. J. Quicherat, *Hist. du Costume* 141, 153; A Schultz, *Das Hofische Leben I*, 269; Viollet-le-Duc, *Dict. du Mob.* III, 382-3; L. Gautier, *Chev.* 400-1; H. Suchier, *Aucassin et Nicolette*, Geirfa.

3165. *mal yd yttoed* (h.y. *fabao*) *yny ystauell yn kyfca. ef albelei bzeudcyt mal nat oed hof ganthaó.* B 2731 *Il se dort en un chambre voultis, sonja un songe dont mult estoit marris* 'he sleeps in a vaulted room (and) dreamt a dream (on account) of which he was sorely grieved'. Dichon mai ailadroddiad damweiniol o'r *mal* yn y cymal cymharol *mal yd* . . . yw'r *mal* anarferol a geir yn y cymal perthynol sy'n dilyn. Ond ceir yr un darll. yn hollol yn y LIC ac efallai oblegid hynny y gellir derbyn y gystrawen fel un ddilys. Os felly, odid nad cyfeithiad llythrennol yw o'r rhagenw amhenodol *tel* (*teu(s)*) *ne=tel que ne* 'such as . . . not' a geid yn y gynddelw AN y cyfeithia'r Cymro ohoni. Ar *ól tel* (*celui, cele*) hepgorid y rhagenw perthynol *que* mewn brawddeg negyddol, gan roi *tel ne=mal nat*; gw. L. Foulet, *Petite Syntaxe de l'Ancien Français* 337-8.

3172. *a erchis . . . nas hymerei yn dzôc arnab.* B 2740 *ne le metez en respit!* 'grant the matter no respite'. Sail YBH yw *ne . . . despit*, darll. llai cydnaws â'r cysswllt.

3181. *ac y offrôn yd aeth.* B 2750 *sa offrant fet* 'he makes his offering'. Ymddengys fod *offrôn* i'w ddechongli fel berfennu; gw. ar 3803.

3192. *dyuoz o2 fanfforysyt.* LIC *dyunt* . . .

3195. *a beris boñ y veddydaó.* Gw. n. ar 3079-82.

3206. *trôy y gbleidi hymn.* B 2774 *par le pais* 'trwy'r wlad'. Tebyg mai darllen *le fel fe=ce=ces* 'these' a wnaethpwyd wrth gyfieithu.

3209. *ti a lufky lufje gôz . . . ac yn aruer gôz ti a gerdy.* B 2774 *A la lei de home* . . . 'after the manner of man . . .' Ceir *aruer* droean mewn CymC gyda'r meddwl 'manner, style, bearing' (gw. n. ar 2). Y mae'n bosibl, serch hynny, fod *aruer* yn y fan hon yn gyfystyr â'r gair *glufje* a'i blaenora. Dichon mai (*h*)*abit* 'gwisg; gwisg fynachaid; etc.' oedd yng nghynsail AN y cyfieithydd.

3210-12. *fabao a gymerth glufje pere(r)in ymdanaó.* Darll. y *lufje pererin* 'his pilgrim's dress', oblegid cymerasai wisg pererin eisoes yn 3175. *ymdane* hithen *glufje adflyn gôzall*. Yr oedd yn bwysig nid yn unig i roi *glufje gôz* am Iosian (gw. 3209), eithr i roi amdani wisg gŵr o uchel radd modd y gallai deithio'n ddirwysr drwy'r gwledydd, oblegid ni allai'r caeth na'r bilain fynd dros ffin tiriogaeth ei arglwydd (cf. J. Calnette, *La Société Féodale* 110). Os felly, rhaid dehongli *adflyn yma=* 'noble' yn hytrach na 'fine', fel y gwna GPC; cf. *môyn yn dymyon m.* WM 32, *gôz m.* ib. 34, 36.

3214. *y rodyaó y varchnat. a phroui . . . llyfelyhyn.* B 2779 *un herbe achata* 'a phrynnod llysieuyn'. Os *achata* o *achater*, amr. ar *achater* (cf. *achester* Ste-Palaye d.g. *achapter* 'prynu'), oedd yn y cynsail AN, dichon i'r darlennydd ddeall *achata* fel *athasta=at(r)asta* o *at(r)aster* 'profi'. Os gwrthodir hyn, rhaid edrych ar *proui* fel gwall ysgrifol am *prynu*, yr hyn sy'n llai tebyg. Os o'r HFF y benthycwyd *rodyaó*, yna rhaid tybio y ceid y gair yno yn y geirlyfrau na'r engh. hynaf a gofrestrir o *roder, raudir, 'courir* çà et là' yn y geirlyfrau HFF.

3216. *erroyt.* Cymysgid *r* ac *i* yn fynych: o *gylleffic guife* BB 43.16=*gylleffric* . . . (gw. n. JGE); *tir a darar* LJDW 23b (BM.4 *tyr a dayar*); *uicich* (*varech*) P 7, 47b; *paith* cyw. *parth* WM 55, yn gywei ib. 233, *yr orll* cyw. *yr iorll* ib. 619; *sarens* SG 111 am *saisens* (*Quete* 160 *chaisens*); etc. Gan y ceir *erroyt* 20 gwaith yn YBH, darll. *erroyt*, ond da cofio y digwydd *erroyt* eisoes yn P 14, 12b, 14b, etc. (canol XIII).

3217. *kanyt a hómú a gallei.* LIC y *gallei*. Cf. ac o2 *ámdre* *gogyward henyt a góneynt y hancyllis* (sic) P 9, 20b. Fel y gwyyddys, bydd a ac y yn ymgyfnewid yn fynych mewn CymC o flaen *ch, ng, m, n, etc.*, ac yn LJDW (o dan ddyllanw AN) ceir a o flaen *f, m, r, s, etc.*, lle buasid yn disgwyl y *dyuoz* mewn rhyw orgraff neu'i gilydd: *hauoeth* 13b, *houanof* 12b, *hawryd* 12b, *hamell* 20b, 42b, *harustho* 41b, *hafho* 14b, etc. Ond oddieithr mewn cymal perthynol lle ceir a ac y yn fleicio (gw. *Cystrawen*, 146), y mae'r enghreifftiau o a ac y yn newid â'i gilydd o flaen *g* (*heb* *gyfrif g=ng*) yn brin y tu allan i LDW.

3225. *achamu idab. ac edzych ar hynny auzac fabao yn graff.* B 2785 *e de Boun commence a chanter* 'a dechrau canu am Boun'. Nid 'to sing to him' RW, gan hynny, eithr 'to sing of him', ystyr a ryngai fodd *Summing* (*Blindness* xcv). *ac edzych . . . yn graff*. Os dilya y darll., *dealer* 'noticed . . . particularly' yn hytrach na 'looked . . . fixedly' RW. Ond tybiaf i'r cyfieithydd cyntaf fynd ar ddisberod yma; gw. 112(b), (ii), 2.

3226-7. *Hynat boñ ryaolér nu atherri ponn diethant y mae ar hoet. hýdól ac óynt flawfflôz eóatós.* B 2790 *Hui mes deum a Boun repoyer, li prax e li end.*

li curteis guerer. Il e Terri unt tant espleit, ke hors de boys sunt il passé. Ilukes encontra un curteis forester. 'Yn awr rhaid inni ddychwelyd at Bown, y doeth a'r synhwyrol, y rhyfelwr cwrtais. Brysiodd ef a Therri gymaint nes dyfod ohonynt allan o'r coed. Yn y fan honno cyfarfu â fforestwr cwrtais.'

Ymddengys i ryw eiriau fynd ar ddiffancoll o ddarll. YBH; onid e, y mae'r gystrawen yn gymhleth ac anarferol iawn.

y mae. Geiriau'r De am 'allan' gyda *doe*, *mynd*, etc., hyd heddiw.

3229. *aozuc*. Chwaneger *boón*; cf. B 2795 *Boves* . . . *li comence aresoner*.

3232. *Syr bachler*. B 2798 *sire bacheler*. Hen ystyr *bachelor* oedd marchog tlawd a âi i lu'r brenin neu'r arglwyd heb osgordd na baner; cf. *gôz tlaôt* 1590 = *bachelor* B 1470; ymddengys ddarfod cymryd Bown yma fel y cyfryw. Gw. Ducange dan *baccalarius* a L. Gautier, *Chev.* 190.

3233. *tebie cyt y ũr ar ormod kerdet*. B 2799 *Mult resemblez travelez e penz* 'Tebyg ydych i ũr wedi gordeithio a blino'. Datblygodd *traveiler* yr ystyr 'teithio' yn gymnar yn AN.

3234. *heb ynteu*. Er mwyn eglurder, dylid ond odid chwanegu *boón*; cf. B 2800 *dist Boves*.

3245. *dóc yr eglóys*. Cf. 3250. Yn yr oesau canol meddwl cyntaf y fam ar ôl genedigiaeth oedd am fedyddio ei phlentyn. Yr oedd yn rhaid ei fedyddio cyn rhoi iddo ddim i'w fwyta. Yn nhaleithiau gorllewinol Ffrainc ymwrthodai rhieni hyd yn oed â chusanu eu plant 'cyn creu o'r bedydd eneidiau newydd ynddynt'; cf. L. Gautier, *Chev.* 106-7.

3256. y *gyfgu*. Efallai cyfieithiad rhy llythrennol o'r testun a geir yn B 2823: *le lix sont fez si se sont cochez*, yr hyn a rydd yr argraffod ac yn eisiau o flaen y *gyfgu*.

3266. y *maner*. B *lur baner* 'eu baner'; cf. *cist* . . . *buinard Otinel* 1028 > y *môynard hún* P 9, 56b 'yr hurtyn hwn' (P 5, cviii^b *bóynard*; YCM² *búinart*); AN *beine*, etc. > *meine* 3419; AN *beil(e)* 'bwced' (gw. Moisy d.g. *baille*) > *meil* AL I, 384. Y mae gwaith *m* a *b* yn ymgyfnewid am fod iddynt yr un treigladd meddal yn ddigon hysbys mewn geiriau brodorol (e.e. *maned* a *baued*; *maeddu* a *baeddu*), eithr y mae'r enghreifftiau cynnar o'r un feirio mewn geiriau benthyg yn brin.

3273. o *lefvechel*. Gw. n. ar 703.

3274-3300. Dyry B lawer gwell testun o'r llinellau hyn nag a welir yn YBH ac anodd peidio â chasglu ddarfod seilio'r olaf ar lsgr. AN ddiffygiol iawn. Ond gan i gyfieithydd YBH lwyddo i raddau mwy neu lai i gael synnwyr, ni cheisiasf gywito ond lle bo hynny yn anhepgor.

3274. *ef ac anreithir*. LIC *ef ach anreithy2*. Ymddengys oddi wrth rediad y cyswilt y dylai'r cymal hwn fod yn 3275-6 rhwng *ony* . . . *tréy deórder* a *hyt na cheffoch byth berth* . . . ac i ryw gopiwr ei gamleoli.

3278. *ymhan aozuc boón*. Collwyd ac *Armiger* ar ôl *boón*; cf. B 2841 *Esteus Boun o Armiger justé*.

3279. *ymhoylut aozugant oll at y tryllyr*. Yn B 2846 ceir *A l'atravers est Boves turnez* 'Troes Boves yn ei wrthol', ffurf ar yr ymadrodd *turner* a *l'atravers* 'troi

yn y gwrthwyneb' sef, ond odid, troi'n ôl wedi esgus ffoi, un o ystrawiau firwythlon y gwyr meirch Ffrengig ar faes y gad, ystryw a elwir yn *chûbaen ffragheid* yn 4094 (gw. n.). Tybiaf mai cynsail AN 3279 oedd *A l'atraver(s) sunt tus turnez* 'troesant oll yn eu gwrthol' ac i'r cyfieithydd droi *sunt tus turnez* yn llythrennol drwy *ymhoylut aozugant oll* a gadael *al atraver(s)* heb ei newid. Y darll. cysefin, felly, fuasai *ymhoylut aozugant oll alatravyr* neu *alytryvyr* (gw. n. ar 3217), ffurf nas deallwyd gan gopiwr diweddarach ac a gymysgwyd â'r *tryllyr* yn 3280, trosiad o *trois presons* y gynnddelw (gw. ar 3280). Am waith y cyfieithydd yn cadw geiriau ac ymadroddion heb eu newid, gw. n. ar 404, 957, 972, 1095, 2080, 2911, 2916, etc.

3280. *ar tryllyr hynny a ozugant*. B 2843 *E trois persons ad Boves conquesté* 'and three prisoners did Boves take (lit. conquered)'. Os dilyf y darll., dyma *aozugant* = *ad conquesté*. Cf. TR 'gorugaw the same as *gorchfygu*'. Nid oes hwynt yn 'and those three men acted' RW. Llwr iawn yw'r cyd-destun a dichon nad yw *aozugant* onid ailadroddiad o'r *aozugant* yn 3279 ac y dylid darllen *aozugant*. Yn ôl 3279 uchod, dylid darllen a *tryllyr aozugant*, gan esgeuloso treiglo'r *t*, esgeulustod a welir yn ddigon mynych; cf. *Orgraff* y *Treigladau*, §19.

3284. *a tharaù penn y iarllyr y ergyt y arnaù* 'and struck off the head of the earl at a blow' RW. Am enghreifftiau eraill o y 'at a, at one', cf. WM 488 a *llad y penn y ergyt y arnaù* = RB 128. O'i waith yn medru torfynglu'n raenus fel hyn ag un ergyd yr adnabyddid, mae'n debyg, yr arbenigwr mewn lladd â chleddyf. Ymddengys mai i'r Ffrancwyr y perthyn y clod am ddatblygu'r grefft i'r pwynt hwn, oblegid gelwir sylw at yr hyfedredd yn y testunau HFF; cf. Potvin 310 *quar il avoit trenché la teste à un fuiz de mon oncle* 'for he had struck off my uncle's head with one stroke', gorchest na sonnir amdani yn SG 416.

3289. y *teuynald* y *gyfrangeu*. LIC *teuynald* y *kyfrangeu*. Darll. y *teuynald* y *gyfrag*; cf. B 2851 *A cele parole est l'estur finé* 'Ar y gair hwn y terfynodd y frwydr'. Ymddengys i gopiwr ddeall y = 'his' a chwanegu *-eu*. Am waith *r* yn colli, gw. *Orgraff*, §18.

3292. *A góedy daruot vduint vóyta ac yuet dogyn*. Y darll. cyfatebol yn B 2854 yw *e cil mangerent e buyrent a plente* 'a'r rhain a fwytasant ac a yfasant eu gwala'. Gan mai cyfeirio'n ôl at Bown a Therri yr ydys, y mae geiriau B yn gweddu'n berffaith; a buasai *A góedy bóyta vduint* (= *ohonunt*) ac *yuet dogyn* yn rhyngu bodd yn hollol. Newidiwyd y cyfieithiad gwreiddiol yn sicr, efallai o dan ddylanwad a *phan daruot vduint bóyta ac yuet dogyn* 3254-5, i gydfynd ag *ef a athoed y rei ereill* sy'n dilyn, newid a dywyllodd y synnwyr. Rhodder atalnod ar ôl *dogyn*. Am *vduint* = *ohonunt*, gw. *Cystrawen*, §51.

3296. *pei haçffoedei y tryllyr*. B 2857 *mez le meilur ad mult plus desiré he lei trois prisons li ad presenté* 'ond gwell lawer fuaas ganddi y gorau na'r tri charcharor a gyflwynasid iddi'. Ar ôl *haçffoedei* y rhodder, gan hynny, *gozes noz* neu *marchacac noz*.

3297. Dylai fod diweddnod o flaen yr *arglydes*.

3298. y *erchi* *eynet*. Darll. y *erchi* y *eynet*. LIC ac *erchi* *idaù* *eynet*.

3299. y *gyrchu* y *marchogyon*. B 2860 *me menez le chevaler* 'bring me the knight', ac am Bown yn unig y sonnir hyd ddiweddi y golofn. Y darll. cywir, felly, yw *marchacac*, ond y tebyg yw fod *marchogyon* yma o'r cychwyn a dyma paham.

Yr oedd yr s AN erbyn hyn yn wan ac esgeulusid ei hynganu a'i hysgrifennu (cf. *amedeus le charters* 1081 a gw. dan *Orgraff*, §18) ac o'r herwydd swniai *le chevalier* yr un fel â *le(s) chevalier(s)*. Y llu. aeth â bryd y cyfieithydd heb ystyried fod hynny yn amryfus; gw. §12(b).

3301. *na doent*. Rhodder *na doei* yma a gw. ar 3299.
3302. Yn lle *hyt attunt* darll. *hyt atto* a gw. ar 3299.
3303. *ymgymh(y)ffab aozuc*. B 2864 *est redrescé* 'drew himself up'. Nid 'adapted himself' RW, o ganlyniad.
3306. *ath iacha di*. Darll. *ath iachao di* gyda'r LIC. Disgynnodd o allan oherwydd ei thebygrwydd i'r d ganlynol.
3307. *y adoléc yt*. Dyma un o'r enghreifftiau cynharaf o ferfnew *adolygaf* yn -6c; sylwer i'r LIC ei newid yn ôl i *adolécyn*; am esiamplau cynnar eraill, gw. *Ffuriant*, §34, 9.
3308. *a thitheu a diogest* 'and thou didst tarry' nid 'and thou also wert lazy' RW; cf. *vener ne deynastes* 'thou didst not deign to come' B 2867.
3309. *mys medyllys*. 'I did not intend it' yn hytrach nag 'I did not think it' RW; cf. *ne l'ai en pensin* 'nid oedd (llythr. yw) yn fy mwriad' B 2868.
3316. *vygchlaer dec*. B 2875 *Bele soure*. Nid yw *suer* (*seur*) yn HFF yn ddim amgen na gair yn dynodi hoffter ac yn yr ystyr hwnnw yr arferir *chlaer* yma; cf. SG 120 *vychuwaer y dec* a gw. n. ar 680. Credaf fod yn *vygchlaer* atgof o dreiglud Gwenhwyswg; gw. *Rhagymadrodd*, §6 (i), 2.
3329. *y gyfeu y nos honno yd aethant*. Y mae'r frawddeg hon, fel y saif, yn awgrymu perthynas anfoesol rhwng Bown a'r iarlles cyn eu priodas, ac yn wnech 3420-1 (gw. n. ar 3418), anodd credu y ceid hi yn y ffurf hon yn y cyfieithiad ar y cyntaf. Tueddaf i ddarllen *yd aethp6yt* a thybio i'r darll. presennol godi o waith rhywun yn cymryd *iarlles* 3331 fel gair un. = 'countess' yn lle gair llu. = 'counts' (gw. ar 3331) neu o'i waith yn ymddrysu o sylwi ar *yd aethant* 3332. Yr hyn a geir yn B 2892 yw *Icele nuit li servent a plenté* 'y nos honno gwasanaethant arno yn helaeth' a dichon mai darll. tebyg oedd yng nghyngddelw AN y Cymro, eithr iddo ef, o glywed *li* (y cyflwr derbyniol = *ill*) yn cael ei yngan, feddwl am *lit* 'gwely(au)', deall 'y nos honno y deuant â digonedd o welyau' ac yna gyfieithu'n rhydd (Gw. *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone* §12(b), (ii), 3.). O gofio i'r cyfieithydd gamddirnad yr hyn a glywsai lawer gwaith yn ystod ei orchiwyl, yr wyf yn chwannog i ffafrio'r ail esboniad. Os ystyriar *yd aethant* fel darll. dilys, rhaid tybied mai gwŷr y castell yw goddrych y ferf oblegid ni weinyddwyd mo'r briodas forganataidd hyd drannoeth.
3331. *y iarlles* 'the earls' nid 'the countess' RW; cf. B 2893 *li cantes sunt levez*; am enghreifftiau pellach o'r llu. yn -ei, gw. *Enwau* dan *Ffuriant*, §21, (v).
3332. *ac archebob gris*. Dylid efallai ddarllen *ar arch*; cf. B. 2896 *l'eveste Sent*.
3336. *ac en b6yt*, 'ac i'w bwyd'; gw. dan *Rhagenau Personol* dan *Ffuriant*, §28, (a), (vi).
3339. *yd erchi boén*. Darll. *erchis* gyda'r LIC. Am goll -/ ac -s, gw. *Orgraff*, §18 a'r n. ar 3299.

3340. *vynet ar lleilltu*. B 2900 *Boves ad les contes demandé qu'il out eus pris a l'estur feuté* 'Bown a ofynnodd i'r ieirll a gymerasai cyn hynny yn garcharorion yn y frwydr (roddi iddo) wrogaeth'. Nid oes fawr synnwyr yn narll. YBH, ond er nad yw'n helpu'r meddwl, nid yw'n ymyrraeth ag ef. Ni welaf ond un esboniad: i'r darllenydd ddehongli *a lefur feuté* fel *a lefcar(t) fauté* 'neidio o'r neilltu', gan ddarllen *t fel c, f fel f, u fel a ac eu fel au*. Gwelsom eisoes am gamddehongliad o'r fath. Am lleilltu, cf. *o2 lleill parth* WM 421 = *o2 neill parth* P 6/iv., *a roi y vachogion ar llailldy* MA 468b, (*dycedut*) *ar llailldy* 'to speak independently' ib. 466b, or *llaill dy yr dinas* ib. 465a.
3341. *rodi vduant rydeu*. B 2902 *Jeo vus cleyne quites de par de* 'mi a'ch cyhoeddaf yn rhydd yn enw Duw'. Edrych *rydeu* fel cyfieithiad llythrennol o *franchises* 'fieis' (cf. *Ste-Palaye*).
3343. *teyrnet a g6zogaeth*. Gw. ar 2822.
3345. *ody vy6n paleis bzenhinab6l*. B 2906 *al paleis principé*. Ffurff arall ar y benthyciad *palais* yw *palas* (gw. *Godefroy*), gyda'r acen, bid sicr, ar y sillaf olaf (*palás*) a chofrestrir *place* 'house, abode' yn iaith Normandi o leiaf er canol y 15fed ganrif (gw. *Moisy, Glossaire Comparatif Anglo-Normand*). Dyma, yn amlwg, fhyhonnell ein *plás* 'mansion' ni, Am waith y sillaf o flaen yr acen yn colli mewn gair deusill HFF, cf. *pelisse* 'croen' > *plisse* (cf. *Godefroy*); *pelote* 'tywarchen' > *plot* (of ground) (gw. *Weekley*), etc. Gw. ar 2883. Efallai y ceid unwaith fannod o flaen *paleis* yn YBH fel yn B.
3349. *ac y gyt ac yd aethant*. Dilcer yr ail ac.
- 3355-6. *tr6y difry6 y l6lat heb trugarhau 6zthunt o dim*. B 2914 *la terre gastent, ne lur prist pité* 'distrywiant y wlad; ni ddaeth trugaredd i'w calonnau' (yn llythr. 'ni chymerth iddynt drugaredd'). Y mae *6zthunt* yn amharu ar y gystrawen a rhaid ei ddiwygio naill ai yn *6rthi*, i gyfeirio i *l6lat*, neu'n *t6thunt* (= *vdunt* = *ohomunt*), i fynd gyda'r goddrych *pymtheg mil o l6yr* 3351. Am *th = 8*, gw. dan *dd* yn *Orgraff*, §18 ac am y goddrych dan reolaeth y, gw. *Cystrawen*, §51.
3357. *y sson*. 'The noise' RW. Dengys B 2916 *la noise* mai bannod sydd ger ein bron. Am bethau tebyg, gw. dan *Cystrawen*, §39, (iii). Tynnir *s6n* fel rheol o'r Lladin *sonus*, ond awgryma *foni* y LIC (gyda *dw y -m*) yr edrychid ar o fel lafariad fer, yr hyn a gyfeiria yn hytrach at darddiad HFF lle ceir *son* 'twrf'; trwr' yn gyffredin (gw. *Ste-Palaye*). *Sun* (gydag *u = w*) yw'r ffurf arferol yn AN a themtir fi i gynnig mai o'r amrywiad hwnnw y daeth *s6n* i'r Gymraeg.
- 3358-9. *a ozchymyn6ys y l6yr = y + y l6yr 'i'w'*. Gw. *Rhagenau Meunol* dan *Ffuriant*, §28, (b), (II).
3360. *A g6let . . . y llurugeu ar helmeu yn discleira6*. Gan mai gwingo arfau yw'r pwnc o boptu, tery 3360 nodyn hollol anghytsain. Cf. B 2918 *Il vestent haubers e helmes gemmé* 'Gwisgant lurigeu a helmau gemog', darll. sy'n rhyngu bodd. Sail YBH yw *Il vist(ent) haubers e helmes gemmer*, darll. na allai ddatblygu ond wrth wrando ar arall yn darllen; gw. *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone*, §12 (b), (i), 2.
3364. *terri marchabé clotouszu*. Colodd y o flaen *marchabé*; cf. B 2922 *Terri . . . le chevalier preyné*.
3365. *ac y mlaen achub*. Chwaneger y *rei errell* ar ôl y *mlaen*; cf. B 2923 *devant les autres va feir Yw6d*.

3367. *ae daraó ymy holltes y daryan ac ymy ballóys idaó y luruc.* B 2926 *l'escu li perse, le hauberc ad fausé* 'he pierces his shield for him, he has cut through his coat of mail'. Efallai mai'r un oedd y darll. yng nghynsail AN y Cymro ag yn B ac y dyld darllen *ymy dzyllóys* yn lle *ymy ballóys*; gw. ar 3382 ac o dan *Cystrawen*, §42, (i).

3369. *a achubaó.* Rhodder *Lancelin* ar ól *achubaó*; cf. B 2928 *Terri fert Lancelin* a gw. ar 448.

a thróy vaózed. B 2928 *par ferté* 'audaciously; violently'; cf. *gan uaóred* WM 477; *dichon* mai 'majestically' neu 'proudly' a fyddai'n fwyaf cywir yma.

3371. *ac erchis y varchogyon.* Aeth y geiry, ar ffurf *et=ed*, ar goll o flaen *erchis* neu dyld darllen *erchi* ac edrych ar -s fel llythren anorganig. Esgeulusid ysgrifennu -f- ac -s yn fynych ac o bryd i'w gilydd chwangedid hi yn ddiangen (gw. *Orgraff*, §18). Os darllenir *erchi*, rhaid ystyried -s fel orgraff wrthwyneb; os dewisir *et erchis*, ceir rheswm digonol yn nhebygrwyd *t ac r* mewn llsgrau. *y varchogyon* 'i'w farchogion'.

3373-4. *A phob yn yn mynet dros y giliid.* B 2932 *checon abat le suyn si sunt oltre passé* 'tery pob un ei elyn i lawr, aethant drwy'r rhengoedd'. Cf. RBB 218 *eu góafkaru. A mynet dzoftunt=penetraverunt* HistRBr 479; RBB 224 *A mynet paóh dros y gilyd o nadunt=* *esse mutuo penetrantes* HistRBr 488; RBB 224 *ac yn mynet dzoftunt=* *penetrata illa obuiauit agmini* HistRBr 488; RBB 228=*penetravit*. *penetrans* HistRBr 494; RBB 227 *gan darparu mynet dzoftunt=prostrerunt* *et penetrare conabantur* HistRBr 493. Oddi wrth yr olaf, ymddengys y gall *mynet dros* olygu nid yn unig 'torri drwedd', ond hefyd 'gorchfygu'. Felly nid 'and each going across the other' RW, eithr 'each (side) breaking through the other'.

3374-5. *maóz uu yr ymlad gan y kadeu trymyon.* B 2933 *Grant est la bataille e l'estur pesant* 'mawr yw'r frwydr a'r gad sydd drom'. Yn unol â B, odid nad ar (y) *kat en trom* neu'r cyffelyb oedd yr ail hanner o'r frawddeg yn y cyfieithiad ar y dechrau ac i rywun ei 'gywiro' i'r hyn yw yn awr wrth gopio. Pan gofier, serch hynny, am 2899, 2915, 3360, etc., etc., buasai'n llawn mor debyg i'r darll. hwn fynd o chwth o gamdarllen a chamgylwyd wrth ei lunio. Pe darlennasid *e l'estur pesant* fel o *l'estur pesant* ac i'r cyfieithydd ddeall *estur* fel *estore*, amr. ar *estore*, 'cadluoedd' (deubeth digon hawdd), cawsem yr hyn sydd yn y testun. Am *estore*, gw. Ste-Palaye a Godefroy. Yn ól y golygiad olaf, byddai *kat* yn arwyddocau 'byddin, cadlu'; cf. Cymmr. IV, 114 *hyd pan ryrthant ónteu yngadeu meiró hyd ymynyth dan y hadaó yno yn ammarchus ymúódeu y gón* (BM. Cott. Titus D. xxii, 6b). Ystyr *cadeu* yma yn ól Powel, yw 'hosts'; cf. MA 186 b³ (=Hendr. 167.25) *ym blaen cadeu* a gyfieithir 'en tête ou à l'avant-garde des combattants' gan Vendryes (*Études Celtiques*, I, 194); cf. hefyd *eschec* B 3150 = y *tydin* 3616. Gwell gennyf ddeall *kadeu* yn yr ystyr olaf.

3378-9. *a therri. ny bu hóyza.* Dileer y gwahannod sydd ar ól *terri* a dealler y gair *gyda'r* hyn sy'n dilyn. B 2937 *e Terri n'est gueres targant* 'a Therri nid yw'n oedi fawr'. Rhaid naill ai ddirnad *hóyza=hóyzaif* 'ac nid T. oedd y mwyaf hwyrdrem' neu ddarllen . . . *ny bu yn hóyza . . .* 'ni wastraffodd ddim amser'. Am -f yn coll, cf. *eitha* 1269, *roda* 1778, *hoffa* 2336, etc. Neu eto, gellir tybio mai *hóyza* oedd y darll. unwaith ac i -ch fynd ar goll dan ddwylo rhyw gopíwr; cf. *ny bu hóyza* *z y psofodóz* 3465 = B 3009 *ne se voult targer*. Gwell gennyf yr ail.

of a ladaó agos y deugein. B 2938 *he qu'el consuít, ne ad de mort garrant* 'pwy bynnag a ddilyno ef, nid oes iddo aruddifyn rhugansu'. Oa wyf yn iawn, cawn yma enghraifft o un ymwybod ieithyddol ar foment o ddiolafwch yn mynd

â lle ymwybod ieithyddol arall. Ymddengys i'r Cymro pan ddisgynnodd *ne ad* 'he has not' HFF ar ei glustiau ddirnad y ddeuair fel *ni ad* (3 un. pres. *gadaf*) a deall y gweddill o'r frawddeg yn rhannol fel petai Gymraeg (c.e. *gar(r)ant* fel treigladd o *q(u)arant(e)* 'forty'). Yn gymaint â bod y *laisse* yn cynnwys 17 o ciriau yn odli yn *a*, y mae *quarante* yn annhebyg fel darll. yn y cynsail AN. Ni ddywedaf na ellir *quarant* a hyd yn oed *karant* am 40 yn AN, ond arhosai'r *g* yn hroblem wedyn. Yr esboniad mwyaf bodddhaol yw i'r cyfieithydd *gylwed darllen y llin AN sydd gemym gan arall* a dehongli rhan ohoni fel Cymraeg. Ceir ymddengys enghreifftiau eraill yn y testun o groesiad seicolegol tebyg; cf. 2829 a gw. *Perthymus* y *Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone* yn y *Rhagymadrodd*, §12 (b), (v), 3; (vi), 2.

3382. *ef a dozres boón y óayó yndaó heb ódzic.* B 2942 *La lance al duc brise meytenant* 'Ef a dorrodd wayw'r duc yn ddi-oed (yn llythr. 'a dorrodd ei wayw i'r duc . . .)'. Tramgwyddwyd *Stimming* (*Einleitung* xcvi) gan 'Bown broke his spear in him' RW. Bown sy'n torri gwayw'r Duc Vasçal, yn ól B, a dyna'r darll. gorau a'r un a geid, gellid meddwl, yn YBH ar y dechrau. Darll. *ydaó*, gan hynny, yn lle *yndaó* a gw. n. ar 3367 ac yn *Cystrawen*, §42, (i).

3393. *Tec oeddynt y bydinoed.* B 2950 *Mult fu bel l'eschee* 'Teg oedd yr ysabail'. Sail y fersiwn Cymraeg, mae'n debyg, oedd *esch(i)el(e)s*; gw. ar 3374 a 3616.

3399. *ny bu hyt knaót rygthunt móy no chynt* 'and there was no consummation between them more than before' RW. B 2955 *unkes ov lui n'out charnel amitez*. Nid yw *móy* no *chynt* namyn trosiad idiomataidd o *unkes . . . ne* 'eriod, o gwbl'. Rhwystrodd cyfieithiad gorlythrennol RW o'r geiriau hyn *Stimming* fwy nag unwaith.

3401-3. *a dybygydi caffel vy . . . holl ebyllus i.* B 2957-8 *Ore tost de vos averai ma volentez* 'yn fuan bellach y caf fy ewyllus ohonoch'. Y mae B yn cydreddeg yn berffaith ag YBH 3325-6, lle dechreuir trafod y mater dan sylw, eithr ni ellir ei ddywedyd am ddarl. 3401-3. Tebyg, unwaith eto, i'r cyfieithydd ddibynnu ar ei glust a dirnad *tost de vos* fel *tastez vos* 'ai eich profiad chwi yw?' heb fallo pa un a oedd hynny yn dygymod yn fanwl â'r hyn a draethwyd eisoes ai peidio.

ef ar allei. B 2958 *Bien pourra estre* 'Gall hynny fod yn burion'; *Arglwydes heb y paredur ef ar allei vot. Eitsoyes ef ar allei y varehauc urdawl garu un yn vney noe gilydd* SG 272 = Potvin 117 *Dame, fet-il, bien peut estre, mís l'en met plus volentiers s'alde an I leu qu'an autre* 'Lady, says he, it may well be, but one places more willingly one's aid in one spot than in another'; *Ef ar allai heb y paredur mae gwir y dywedy di* SG 416 = *Il puet bien estre, fait Perceval* 'it may well be, says Perceval' Potvin 310. Dangos posiblirwyd felly yw awydd ry yma; gw. y *Geirynt Berfol* ry dan *Efurfiant*, §35.

3408. *y geiffaó vy arglóyd. iaón a dyhedy.* B 2964 *Sire, vos dites veritez* 'Arglwydd, chwi a ddywedwch wirionedd'. Ymddengys oddi wrth B mai enw yw *iaón* a'i fod yn llythrennol gyfleu *veritez*, ystyr anhysbys i'r geiriadurwyr. Efallai i *arglóyd* = *Sire* gollu am gyd-gwrdd ohono ag *arglóyd=seynur* y frawddeg flaenorol.

3413. *amulis.* Camddarl. neu gangopi o *ciuilis* neu *ciuites* (gydag -s y cyfwr enwol); B 2968 *Civile*; enw'r un lle yn YBH 3506, 3655 yw *ciuil*.

3414. *ar dzoóe yr holl zezehnyzaeth.* B 2966 *par ample regnes* 'ar hyd gwledydd eang'. Cf. ar *traóe* y *teyrnas* WM t. 205 = *des tynes y d. lb.*, col. 409; ar *traóe* mae. *argygroec* ib., id. 204; *Ac y traóe y managaffeí ef uot y góz ar gae hyschus*

afnaeth hitheu WM 70 (P 6, ii, WM 282 *Ac ar y traof . . .* RM 51 *Ar yr artal*); *A ffa drafs y mae dy uedol ditheu arnao. yr parth arall yr lle y deuthum yr dref y mynôn uynet* WM 430 (P 6, iv, WM t. 215 *A phy traof . . .*); SG 57 *wynt ae lladyssynt panyw bei dyuot ar y trawu hwnno y marchaic urdaul yn yr arueu cochyon* = *se ne fust li chevaliers as armes vermeilles que aventure mena cele part* 'were it not for the knight in the red armour whom adventure (had) led that way' *Queste* (S) 63. Edrych *trawu* yn debyg anghyffredin i fenthyg o amrywiad AN ar yr HFF cyfandirrol *trave, trasse*, etc. 'trace, track, way, road' (gw. Godefroy). Amrywiol i *a ag au* o flaes *s* yn AN er hanner cyntaf y drydedd ganrif ar ddeg: *portastes = portastes; chaustel = chastel*, etc. (gw. F. J. Tanquerey *L'Évolution du Verbe en Anglo-Français* 750; J. Vising, *Anglo-Norman Language and Literature* 29). Gallesid rhoi *llwybyz* neu *ffordd* yn lle *traof* fel enw ymhob un o'r esiamplau uchod heb amharu dim ar yr ystyr. Cf. *yr hen drawu* am *yr hen ffordd* yn ymyl Llanwrtyd. Awgryma Ifor Williams (PKM, 239) yr ystyr 'direction' i *trawu*, ond nid yw'r arlliw hwnnw o angenrheidrwydd yn milwrio dim yn erbyn deillio'r gair o'r HFF a gellid ystyried 'direction' fel un o'i ddatblygiadau semantig; cf. ystyrion HFF *ligne* a *Saesneg line*.

3418-19. *kyntaf dyn a thelas bofn yn eistedd ar veine*. B 2972 *desur un banc set Boves li sené* 'ar fainc eistedda Bown, y call'. Cadwodd y LIC darll, ond yn iaith heddiw rhoesid oed ar ôl thelas. Cf. *ar veine* 3741 = *sur un banc* B 3274. Deillia *beinc* yn arllwg o'r AN lle try *a + n* yn *ai*, ei megis yn *ainz* am *anz* (< *annos*), Brendan (A) 1622; *maingier* am *maingier Horn II*, 5145; etc.; am *beinc* > *meinc*, gw. ar 3266. Gellid cario *beinc* o fan i fan; yr oedd *ffurwm* (AN *fourme*) yn ddodrethyn trwm anodd ei symud; gw. Viollet-le-Duc, *Dict. du Mob.* I, 31-37; 115-120.

3419-20. *y bzeic vlyaf a garei*. B 2973 *son ami privé* 'ei gyfaill mynwsol', h.y. Terri. Sylfaen YBH yw naill ai *s'amie privée* neu *son amie privée*; ond gan y geillw Bown ar Terri yn 3431 (B 2982), sef yw hynny, yn union wedi ymddiddan gair â'r 'pererinn' ac na sonnir am yr iarlles o gwbl yn y cyswllt fel y'i ceir yn B, prin y rhoesid yn y testun AN y naill neu'r llall o'r seiliau a awgrymir. Yr esboniad symlaf yw ddarfod cynhyrchu'r darll. Cymraeg o waith y cyfieithydd neu ei ddarllenwydd yn dehongli *son ami privé* (cf. B) fel *son amie* (gydag -e) *privée* (eto gydag -e) 'ei gyfeilles fynwsol'; am bethau cyffelyb, cf. 2829, 2899, 2903, 2911, 3979, etc. a gw. dan 12 (b) yn *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone*.

yny yz amfer . . . iofian. Chwanegwyd y geiriau hyn, mac'n debyg gan gopiwr a wyddai fod y briodas yn 3333 yn groes i gyfraith eglwys ac a dramgwyddid gan gyfathrach Bown â'r *unbennes bioed y dzef*. LIC yn yz a.

3425. *y gousynnaod . . . 6zth*. 6zth am y trwy gydweddiad *gofyn* â *dylbedut*. Efallai befyd fod yr ymglyfnawd mynych yn YBH rhwng *dybedut* 6zth a *dybedut* y wedi dylanwadu ar y gystrawen.

3428. *yny dnas yd dyf yr dydyen*. Ar y darll, yn B, gw. *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone*, §12 (a), (vii), 4.

3429. *y erchi nerch*. LIC *nerth*. B 2980 *le corni vus demand*. Ystyr sylfaenol *cornai, cornai, cornai* (< **caurodam*) oedd 'darpariaeth' yna, mac'n debyg, (2) 'darpariaeth mewn bwyd, lluniaseth', (3) 'darpariaeth filwrol'; (4) 'gousgordd'; etc. Ymddengys ddarfod i'r cyfieithydd yma drosi i *nerth* ystyrion y gair HFF cyfatebol megis y gwnaeth droeon gyda geiriau eraill; gw. n. ar 1304. Efallai, gan hynny, ac yn wyneb 3433 *dyzo vlyt idaó*, fod *nerth* yma yn golygu 'ymborth'

ac y dylid cyfieithu yn 'to ask for stores' yn hytrach nag 'to implore aid' RW. 3432. *a thely di*. B 2982 *Veez*. Am ryw reswm neu'i gilydd (goslef darllenydd o estron efallai), trosa'r cyfieithydd yn aml ferf yn y modd gorch. fel gofyniad; cf. 2903, 3195.

3433. *a dyzo vlyt idaó*. B 2984 *E dunc dit Terri li alosez* 'ac yna dywedodd Terri, yr anrhydeddus'. Nid yw'r testun Cymraeg namyn cyfieithiad llythrennol o gamddarl. o'r uchod; gw. *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone*, §12 (b), (v), 4.

3441. *yd achubaffant attao* 'quickly they hurried to him'; cf. *ignelement* 'hurriedly' B 2993. Ceir *achub* at fyth ar arfer yn y Deau gyda'r ystyr 'to make for eagerly'; e.e. *achub* at y ford; *achub* at y seddau blaen.

3457. *yna yn llaben/haaod* = LIC, ond darll. *yna y ll . . .* Ar hyn, gw. *Perthynas y Llwygrifau yn y Rhagymadrodd*, §5, (iv), 5.

3462. *aoczupóyc*. LIC *ozcupóyt*. Yr oedd *c a t yn* fyfych bron yn unwed; cf. *nerch* (*nerth*) 3429, *vedie* (*vedit*), 4139, etc.

3472. *y eu tatmaetheu*. Am esiamplau eraill o y *eu* 'i'w', gw. *Rhagenwau Mewnol dan Ffuriant*, §28 (b), II, a WG 277.

3475-6. Ceir yn B yna chwe llinell sy'n absennol o YBH; nid yw'n dilyn, wrth reswm, i gymaint â hynny ddiifannu o'r fersiwn Cymraeg, ond yn sicr colodd rhan o'r stori a cheir un frawddeg yn 3476 (gw. n.) na rydd synnwyr yn y cyswllt.

3476-7. *iach* (a *llaben*) oed y meibon. B 3032 *Les fis Boun, he furent enseignes, après manger juer sont alez* 'Bown's sons who had been instructed (in the use of arms), after food went a-jousting'. Yn B rhoir pwyslais ar fod y meibon wedi derbyn hyfforddiant yn y chwarae yr ânt ato; yn YBH nid oes sôn am yr hyfforddiant, ond rhoddir cymal nad oes a fynno â hynny o gwbl. O'r tu arall, sonia YBH ychydig linellau yn is i lawr mor groew â B am yr addysg a gafodd y bechgyn i chwarae tawlbwrdd; cf. B 3037 *E juent entre eux, har bien sont apris* = YBH 3480 y *chbare taólbort yd aethant yr hōnn a dyfcaffit yn da vdam*. Yr un, yn bur sicr, ar y dechrau, oedd y darlleniadau yn y ddeubwynt yng nghynsail YBH ag yn B, ond i'r Cymro gamddirnad y darll. cyntaf. Yn hytrach na dehongli *enseignes*, fel y gwnaethom ni uchod, tybiodd iddo glywed *he furent* (*en*) *seinez* a deallodd yr ymadrodd = 'who had been made whole (by bleeding)'. (Cf. *sai(g)ner, sei(g)ner* 'to bleed'; *sainer, seiner* 'to heal-< sanare'). Nid oedd wahaniaeth rhwng *gn* ac *n* yn AN y cyfnod ac ni roddid pwys yn y byd ar y rhagddodiaid (cf. *fire* = *defire*; *forcer* = *esforcer*; etc.; gw. Waters, *Brendan* clxxxiii). Fe gofir y gwaeidid er mwyn iechyd ym mynachdai'r oesau canol. Byddai cyfundeb Chartreux yn gwadu eu haelodau bumwaith yn y flwyddyn ac Urdd Prémontré bedair gwaith (cf. Ste-Palaye d.g. *saignée*). Mewn rhai mynachdai rhoddid y gwaith o waedu'r mynach i'r milfeddyg fel yn Jumèges a Luzerne (gw. Léopold Delisle, *Études sur la Condition de la Classe Agricole . . . en Normandie au Moyen-Âge* 258). Tybïaf i'r geiriau a *llaben* gael eu cymryd o'r *llaben* yn 3474 a oedd efallai y pryd hynny yn union uwchlau. Am waith ein cyfieithydd yn troi yn ôl ei giust yn unig, cf. n. ar 2829, 2899, 2903, 2911, etc. a gw. *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone* yn y *Rhagymadrodd*, §12 (b), (i).

y chbare yd aethant. *chbare* 'rhythmladd ar feirch â gwayrffyn neu â chleddyfaul'. Yr oedd hyn yn beth cyffredin gan *farchgion fōaine* yn y cestyll

ar ôl urddiad marchog, gwledd, priodas, etc. Pan welid fod perygl i'r chwarae droi'n wylofain gwahenid y chwaraewyr gan y castellwyr fel yn 3480; cf. L. Gautier, *Chev.* 335-7, 440; *Épopées Françaises* III, 190, 198.

3478. *y lleibenyd ar clodeff.* Gw. n. ar 255.

3480. *tabibozt.* B 3036 *eshec.* Ystyriaf y gair hwn yn fenthyciad o un o dafodieithoedd Gogledd-Ddwyrain Ffrainc lle try *bl* yn *vl* ac yn *ul* (= *ul*): *tabla* > *taula* > *taule* (cf. *taule Dé 'y ford' santoidd'* yn Ste-Palaye); *fabla* > *fabla* > *faule* (cf. *Aucassin et Nicolette*, argr. H. Suchier 72; F. Brunot, *Hist. de la Lang. Franç.*, I, 313) a lle'r oedd *bord* yn air byw (yn Fflemysg) yn ymyl. Yr oedd llawer o wŷr y taleithiau hyn ymysg dilynwy'r Gwilym y Conquerwr ac y mae dylanwad tafodiaith Picardi ar yr AN yn hysbys (cf. F. J. Tanquerey, *L'Évolution du Verbe en Anglo-Français* 839 et seq.). Trwy Picardi hefyd yr âi dau neu dri o'r prif lwybrau o Brydain i Ffrainc (cf. *Calys YBH* 90 a *bûllyn* 2120); ac onid *Reinalt cuens de Bouloigne* oedd *Reinallt azderchate bzenhin yz ynyffed* P 5, lxxxvib a llsgrau eraill? Benthyciasom yr un gair ar ffurf *taplas* o dafodiaith HFF lle cedwid *bl* yn ddisigil: *Ereill yn gôare glydbgyll. Ereill yn gôare taplas* RBB 203. Aeth *tabibord* yn *tabibordd*, mae'n debyg, lle'r oedd *bord* 'table' yn anhysbys (cf. SG 246; AL II, 831, 834; etc.); gw. hefyd *Trans. Cymmr.* 1944, 187 et seq.

3485. *vzdaô tatmaetheu y meibon yn varchogyon urdolyon.* Hanfod Urdd y Marchogion oedd fod pob marchog yn meddu ar yr hawl i wneuthur marchogion newydd. Nid oedd o angenrheidrwydd yr un cyswllt rhwng yr urdd hon a ffwdaliaeth. Anrhydedd oedd urdd marchog a osodid weithiau megis yma ar wŷr o isel radd nad oedd arnynt ddyletsydd ffwald i neb na neb iddynt hwythau (cf. *Berte aus Grans Piés* ll. 56; *Amis et Amiles*, ll. 3205; etc.). Rhennid tir i'r deiliaid dan wrogaeth (gw. n. ar 2822), eithr yma ni roddir onid oeffylau ac aur ac arian.

3490. *ar dukes.* Gw. dan *Ffuriant*, §21, (v).

3512. *peri trôssau eu fômerou.* Gwell gennyf 'to load their baggage-horses', na 'to cause their packages to be trussed' RW; gw. n. ar 98. Benthycwyd *sômer* yn ei ddau ystyr i'r Gymraeg; gw. ar 1724 a 3758.

3513. *a pheri y veibon.* Gw. *Perthynas* y Cyfieithiad Cymraeg â'r *Geste de Bou de Hamtone* yn y *Rhagymadrodd*, §12 (b), (vi), 3.

3522. *yr amfer yd oedynt yn dyuot.* Sylwer ar *yr amfer*=*pan*.

3539. *pan gaffaf.* Gwall tebygol am *gaffaf*; cf. LiC *gaffôyf*. Am esiamplau eraill o'r i un. pres. dib. yn -*af*, gw. dan *Ffuriant*, §31, B. (a), (i). Ond tybed a allai *gaffaf* yma fod yn atsein o'r iaith lafar? Am atseiniau o ddyw lafariath, cf. *Rhagymadrodd*, §6 (i), 2., 3.

3547. *ny merch y dec.* Gw. dan *Cystrawen*, §39, (viii).

3552. *y6 yflauell yn hard o hzyt.* B 3099 *en sa chambre demene* 'i'w hystafell ei huar'. Daeth y darll. yn *hard o hzyt* dan sllangell Stimming, ond yn sicr ddigon, fe wyddal'e cyfieithydd ystyr *demene*, cf. *sa terre demene* B 1946 'his native estate' => *blat* ac *zsyfoeth* 2187. Dichon mai rhywbeth fel *helle de mine* oedd yn y cyswll AN y cyfieithid ohono. Bussai hwnnw yn ddarll. hollol foddhaol, er efallai nad cystul â'r un a geir yn B. Am goll *h-* yn *yflauell*, cf. WM 452 *ef a dynu y lûm bôyll iti* a gw. WG 277.

3552-3. *Ac o'dyna y galluassant ar fôper. Y baroneit.* Darll. . . . *at sôper y baroneit* a rhodder y diweddnod sy'n dilyn *fôper* ar ôl *baroneit*. Cf. B 3102 *Pus assisterent a sôper les baronez* 'Then the barons sat down to supper'.

3560-1. *þôy henaf . . . henaf y6 gi.* *Henach, henaf* yw'r ffurfiau a glywir yn y De fyth oddieithr efallai yn y bregeth ar y Sul.

3566. *ygbanez y ôzyt.* Yn llys y brenin aethai dau wŷr ei fawrhydi i redeg gyrfu; enillodd y mab hynaf y gamp—o *wryd* 'a fathom'. Am gamdrosiad RW 'in addition to his aspect', gw. §13, (iv), 4.

3571-3. *Ceir os da genhyt ddwywaith yn y llinellau hyn ond ceir cyffelyb ailadroddiad o si vus plet yn B 3114-5.*

3575. *a maôz uu y llybenyd auu . . . Cf. a maôz uu y lleibenyd . . . a ryuu* 3477.

3581. *ylyyr.* Yn B 3122 *un espie 'ysbiwr'* a geir, a rhoddaid *yfpihyr*=*yfpiôr* amgen synnwyr yn y testun Cymraeg; ceir amryw esiamplau o *ôy* (uy) am so yn ein testunau canoloesol; gw. dan *Orgraff*, §16. Yr un *yfpiôr* sydd yn 3647.

3582. *y ôzth . h. a boôm.* Dealler y *ôzth hermin*. B 3122 *A la curi Hermin.* Yn YBH *ermin* yw'r ffurf arferol.

3585. *Ac yna.* Delecr *Ac* a ddaeth yma drwy amryfusedd.

3590. *yd yfknaôd yr yftauell.* Darll. *yfkynnaôd* a rhodder *boôm* ar ei ôl. LiC. *yd aeth boôm yr y.*

3595. *myôn hozueu eureit.* Gw. n. ar 2886.

3597. *boôm a atôenat arôndel.* B 3137 *let coure Arundel* 'a ad Arundel i redeg'. Nid oes fawr synnwyr yn narll. YBH os cysylltir ag *atôen*, *atôen*; oblegid hynny awgrymaf ddarllen a *at ôenat*, neu'n well, a *at venat arôndel*, sef ffurf Morgannwg ar a *at vynet* 'lets A. go'. Caem felly yr un meddwl yn hollol ag yn B. Am *e=y* *dywyll* a *ô=v*, gw. dan *Orgraff*, §16 a §18; ac os mynnir *ae=y* *dywyll*, cf. *aghaefreithiau* LIDW 23^a. Ymddengys i'r berfenw tafodieithol yn -*at* twystro'r copiwr hefyd yn 3128; gw. ar 3128 ac yn *Rhagymadrodd*, §6, i, 2.

3599. *un admiral.* Gw. *Bannod Amhendant* dan *Cystrawen*, §40.

3602. *ef ae hyzyaôd a zhyhydaôd ac ef.* LiC a *vyzyaôd*. Tor cystrawen y ceir ei debyg yn fynych mewn FFD: *il les a abattus, ceux qu'il a rencontrés*. Efallai, serch hynny, mai o debygrwydd *b* a *v* (gw. n. ar 227-30) y cododd y bai. Ni a debygw'n mai *ef a vyzyaôd*, gyda *v* bron yn unfurf â *b*, oedd y darll. unwaith ac i ryw gopiwr gymryd y *v* fel *b*, a thro'i a yn *ae*.

3606. *ôzth y eihyllus 'with a will'* RW. B 3142 *volunters e de grez* 'yn ewyllysgar ac o fodd'.

3614. *ac ny thgyaôd.* Chwaneger *uhant*.

3615. *bzadmônd.* Bai copiwr am *bzafôz*, sef priflys Ermin, tad Iosian; cf. 3518, 3650, 3729, 3782, 4020-2, 4037, 4146; *bzafôz* yn gyson yn y LiC ac *Abreford* yn B; gw. *Rhagymadrodd*, §5, (v), 11.

3616. *a thec oed y vydinoed*. B 3150 *grant est l'eschec* 'mawr yw'r ysbail'. Rhaid mai un o'r ffurfiau AN *eschec* neu *eschel* 'bataliwn, cadlu, byddin', Hff Ffrainc *eschere, eschete*, oedd gerbron y Cymro neu ddarfod darllen *eschec* fel y naill neu'r llall o'r ffurfiau cymraf. Yn AN gallai'r ddwyffurf fod yn un. neu'n llu. heb -s. Fel llu. y dehonglwyd hi, yn amlwg, a darlennodd rhywun *b* fel y v uchelgoes; gw. ar 3393 a 3602.

3617. *y deuth ermin yn erbyn b*. Cyfieithiad llythrennol o *aler contre*; cf. B 3151 *Le roi Hermin est contre alé* 'King H. went to greet him'; gw. ar 935.

3623. *Ti ŷeanc*. B 3156 *Vassal*; gan mai'r *fynyscal* a gyferchir, y gŵr pennaf ei reng yn y deyrnas wedi'r brenin (gw. n. ar 412), rhaid gwrthod 'Thou young man' RW. Yr ystyr yw 'Ti farchof, ti bendefig'. Cf. *ŷeanc* WM 256 a *gŷeanc* ib. 255 = *marchalc* RB 188, 187; *gŷeicyank* 1360 = *B dame*; gw. hefyd n. Ifor Williams BBS, I, 15-8.

3631. *llethyreu*. LIC *llythyzeu*. O bosibl, ôl orgraff hŷn, ond tebycach mai ffurf dafodieithiol yw; clywir *llethyr* yn ddigon aml eto mewn rhannau o Forganngw.

3633. *ac mal y gibelas yr admiral y llythyzeu*. B 3171 *Quant les vist Yvori* 'pan welodd Ifor hwyt'. Efallai y dyldid diwygio *mal* yn *gibedy*; ond gw. dan *Cystrawen*, §49.

3644. *y lireic ynydedus*. B 3176 *sa mulier Josian o le cors honoré* 'ei wraig Iosian, anhydeddus ei pherson'; 'His honourable wife' RW.

3656. *ny ozzffysalid na dyd na nos fymthegmil o llyr arllawc gyt ac ef*. B 3187 *E Terri l'ameue une grant mace de gent, ben quinze mil . . .* Collodd rhywbeth fel *ac a due* ar ôl *nos* a chynnig y LIC ar lanw'r bwlich oedd yn y *gauas*.

3665. *Myn cymphen*. B 3199 *Par min chef!* O flaen yr ebychiad dyry B 3199 *Vez ci le cymez, Boun le chivachant* 'Dyma'r hynaf, Boun ar gefn ei farch'. Ath cyfarall yr ymadrodd hwn ar goll yn YBH; o gofio hynny, nid oes anhawster i ddeall *idal* yn *mynet dōyloā myntgyl idalō* 3667. B 3200 *Son filiōl beise*.

3676. *kany oedōn ni*. B 3208 *ne targom plus!* 'nac oedwn ymhellach'. Collwyd -t o dan ddylanwad *kany dily* y frawddeg ddilynol, neu'n fwy tebygol efallai, o waith y copiwr yn ymddrysu oblegid tebygrwydd cemi diwedd -t i gemi dechrau o (gw. n. ar 421 a 3917). Ar amcan yn sicr y newidiodd y LIC *oedōn* yn *ludam*.

3678. *diatic* 'inactive, dilatory', nid 'lazy' fel y rhan amlaf heddiw; yn B 3209 *targus* a geir ac un o ystyrion y gair hwnnw yw 'bod ar ôl yr amser dyladwy'.

3684-3702. Rhwng y llinau hyn gorwedd aml ddarll. petrus a llwgr.

3684-5. *ny llelynt neb a ymgyffelybei udunt*. B 3217 *a dis mil* (llsgr. a s.m.) *unt lur assemblé tenus* 'yn ôl (mesur) deng mil y cynaliasant eu cynulliad'. Y *mae lur assemblé* 'eu cynulliad', i bob diben, o'r un swm â *lur resemblei(t)* '(a) ym-dybyggi iddynt' ac awgryma'r gyfatebiaeth mai'r un oedd sail AN y darll. Cymraeg sg a geir yn B. Yr argraff a gaiff dyn wrth astudio'r ddau destun yw i'r gŵr a ddarllennai i'r cyfieithydd gael anhawster i ddehongli'r llinell (tebyg ei bod yn llwgr) ac i'r cyfieithydd yntau, yn ôl ei fynych duedd, gamdatrys ystyr yr hwn a ddigynnodd ar ei glust. Oddi wrth y geiriau yn 3684, tybiaf fod y rhan o'r llinell y llwyddwyd i'w darllen ac a glybuwyd gan y troswr yn rhedeg yn fras fel hyn: *nu(t) ad hi lur resemblei(t) veus*.

3685-6. *kyrchu pzeid*. B 3218 *prendre prei* 'cymryd ysbail'. Tynnir *preidd*, *praidd* fel rheol o'r Lladin; o ran ystyr cyfetyb i *praeda* 'ysbail, anrhaith', ond gan na ellir ei o *ae*, tybir croesiad â *praedium* 'da tirol, fferm' er mwyn esbonio'r affeithiad. Ped ysbrydoliasid y milwyr Rhufeinig gan yr un trachwant am atafaelu stadoedd y gorchfygedig ag a ddangosodd y Normaniaid, buasai'r cyawllt meddwl rhwng *praeda* a *praedium* yn beth byw iawn i'r Brython. Ond nid yr un math o filwyr oeddynt ac nid oes sôn ddarfod i'r Rhufeiniaid atafaelu ar raddfa eang. Y mae hefyd anhawster seinyddol. Cyn y gallasai *preidd* ddeillio o *praeda* + *praedium* buasai'n rhaid ei fenthycu yn gynnar iawn wedi i'r Rhufeiniaid ymsefydlu yn Ynys Brydain (A.D. 43), oblegid erbyn canol y ganrif gyntaf troesai'r ddeusian *ae* yn *e* yng ngorllewin yr ymerodraeth. Rhoesai hynny *preda*, *femm*, *blesus* yn lle *praeda*, *faenum*, *blaesus*, etc. i Ladin Gâl (cf. E. Richter, *Beiträge zur Geschichte der Romanismen* 40, 206; E. Bourciez, *Éléments de Linguistique Romane* 43). Yn gyffelyb, cafodd Lladin Prydain *blesus* > Cymr. *bloeg*; *Greca* > Cymr. *Groeg*; etc.; a phe daethai *praeda* i'n geirfa ni o'r Lladin, y tebyg yw mai Cymr. *proed*, neu *prwydd* fusai ffurf y gair heddiw. Ni wela'r rwystr semantig na seinyddol i dynnu *preidd* o'r AN. Yn AN cynnyrch *prada* Lladin Gâl oedd *preide* (= *preide*), ac wedi coll -e, erbyn tua chanol y ddeuddegfed ganrif, *preid* a *preit* (= *preid*). Medd y gair AN hefyd ar y ddau ystyr sydd i *praidd* yn Gymraeg, sef, ysbail a diadell. Gallai'r Llyd. *preis*, yntau, yn hawdd ddeillio o'r Hff. Am goll -e, gw. J. Vising, *The Anglo-Norman Language and Literature* 29; am yr ystyrion, Ste-Palaye d.g. *proie*; yn Saesneg *prey* yw'r gair; am *bloeg* a *Groeg*, gw. J. Loth, *Les Mots latins dans les Langues brittoniques*; H. Lewis, *Yr Eilfen Ladin yn yr Iaith Gymraeg*.

a ozugant y maes oe muroed. B 3218 *defors le murs* 'y tu allan i'r muriau'. Nid eu muriau hwy mohonynt a rhaid darllen *oe m*. . . Gallasai'r gwall hwn ddeillio naill ai o waith copiwr yn camddarllen ai o waith y cyfieithydd yn clywed *fe* yn hytrach na *le* o enau ei ddarlennwr. Bellach, nid arferir y *maes* yn iaith y De ond fel adferf = 'outside' neu pan ddynoder symudiad oddi wrth y siaradwr; yma nid oes symudiad, a'r ystyr yw 'on the outside (of)'. Dealler, felly, 'And then they sought booty outside the walls' nid 'And then they scarcely had gone out of the walls' RW (gyda *pzeid* = *bzeid*). Efallai y dyldid darllen *a ozugant* *to maes* *oe m*.

3691. *o vlaen y rei ereill ffafoyneit*. B 3222 *Devant toz les altres est venu Faveons* 'O flaen y rhai eraill oll y daeth Ffawns'. Ymddengys mai'r darll. fel y daeth o ddwylo'r cyfieithydd oedd . . . *ffavouns* neu *ffavōns*, gyda'r *oun* a'r -i AN, ac i ryw gopiwr gymryd -i y cyflwr enwol un. fel -i y cyflwr gwrthrychol llu. (cf. *domnes*, *roffons*, *ragōns*, y cyd-destun) a'i Gymreigio yn -yrit. Am -s llu., gw. dan *Ffawfiant*, §21, (v). Darll. *ffavōnyeit* yn hytrach na *ffafoyneit*.

3691-2. *ac o ragu tozuod o genedyt a elthir domnes*. B 3223 *il out* (llsgr. *vint*) *de Arabie turs e dongons* 'yr oedd iddo dyrau a chestyll yn Arabia'. Ceir *Arage* am *Arabie* a dyldid darllen yma ac o (a) *ragie*. Y darll. *vint* 'daeth' yn y llsgr., mae'n debyg, a arweiniodd y cyfieithydd i weld enw pobl yn *dongons* 'dungeons, keeps, towers'. Deallwyd *turs* fel *torbes* 'tyrfaoedd, cynulladau' ac e fel *de*. Gan mai mewn *laisse* a'i hodlau (17 ohonynt) yn -*ous* y digwydd *dongons*, tebyg mai *domnos* (gyda llin anegul ar ben o) a geid yn nhustun AN y Cymro a darfod darllen o fel e, gwall digon cyffredin; am un fel amr. rheolaidd ar ng. gw. L. E. Menger, *The Anglo-Norman Dialect* 88.

3692-3. *ac o lef uchel oedyn kyrchu y cryflynygyon*. B 3224 *A haute voice enrie: N'i garen, gloton* 'a llef uchel a waedda: 'nac ymarbedwech, chwi ddi-tyrod! . . .' Darlener . . . ac o *lef uchel* a *geidynt*: *kyrchuck* y *cryflynygyon*, gan

ddefnyddio o bosibl yr *ch* yr aethpwyd heibio iddi i wasanaethu hefyd fel *ch* oedd i ddilyn; cf. *yeugan*=*yeuang* LIDW 28^b, *adm*=*adan* ib. 12^b, *esse*=*efef* ib. 50^b; etc. Sylwer y saif *cristynogyon* YBH hanner ffordd rhwng *cristlogyon* y LIC a'r ffurf *Cristnogion*.

3698. *roffons*. Ni cheir oddi wrth B ddim help i geisio penderfynu pwy oedd y gwŷr hyn ac yn wyneb llygredd y testun ofer dyfalu. Yr unig weddill sicr yn y cyswllt yw y ceir yn *roffons* yr *-ons* y cyfeiriwyd ato dan 3691.

3699. *Y vzlodyr a barhaabd yn va62 ar y ffelonyeit*. B 3231 *La veiszez* (llsgr. *fu*) *l'estur si tre felons* 'yna gwelsech (llsgr. y bu) y frwydr yn boeth iawn'. Awgryma a *barhaabd* mai *sivre* 'ymlid, erlyn' a ddeallodd y Cymro am *si tre*. Hyd yn oed yn B, ansicr yw'r testun. Y mae'n amlwg i'r cyfieithydd ddeall *felons* (ansoddair) fel enw pobl. Os ef ei hun biau *ffelonyeit*, dichon hefyd mai ef ac nid copiwr a droes *Favons* 3691 yn *ffavolonyeit* (llsgr. *ffablonoyeit*); gw. ar 3691.

3701-2. *a bo6n yn ymgelydus am ar6ndel rac y rag6ns*. B 3234 *Boves let course Arundel l'Aragons* 'Bown a ad i Arundel, yr Aragonian, redeg'. Sail y testun Cymraeg yw gwaith y cyfieithydd neu'r sawl a ddarlenai iddo yn camddirnad *cure*=*courre*, *courir* 'rhedeg' fel *cure*=*cura* 'gofal, pryder', ac yna, er mwyn gwneud y gorau o'r gwaethaf, yn troi *l'Aragons* yn bobl, amryfusedd a dorrodd y cyswllt meddwl rhwng 3701 a'r frawddeg ddilynol. Meirch Ysbaen (Aragon, Castille, etc.) oedd ceffylau enwocaf yr oesau canol. Fe gofir am Bown yn galw hyd yn oed y Gwasgwynfeirch uchel eu clod yn *ronffieit* 'ceffylau gwaith' wrth annog Arundel yn 2912; gw. n. ar 98 a 2906 a L. Gautier, *Chev.* 726. Amlwg fod y mynach hwn, fel y pregethwr ymneilltuol heddiw, yn anwybodus ym myd ceffylau a rhedeg-feydd: gw. n. ar 2873-2927.

3706-7. *Mal6z uu y vzlodyz a balch*. B 3238 *Mult fu dure l'estur e baudiz* 'Caled iawn fu'r frwydr a chyffrous'. Rhang, gorff, *baudir*, gair helwyr, yw *baudiz*; *baudir les chiens* 'cyffroi neu gynhyrfu cŵn' (cf. Ste-Palaye). Ni roddir yr ysyr 'cyffrous' i *balch* yn un o'r geiriaduron. Os cywir yr ysyr hwn, rhaid gwrthod 'proud' RW.

3707. *a mal6z yd oed bo6n . . . yn darefl6g*. LIC *Ha6er*. Nid arferir *ma6r* am *ha6er*, hyd y gwn i, ond mewn brawddeg negyddol: *nid oedd fatur yno*, etc. Tybed a ddefnyddid y gair gynt mewn brawddeg gadarnhaol hefyd? Os felly, dichon fod *mal6z* yma yn ddilys. Gall, serch hynny, mai a *mout* HFF y mae â fynnion ac i gopiwr ei ddarllen fel *ma6r*, ffurf lafar Dyfed, a'i thro'i i'r wisg lenyddol. Rhoesai *multum* amryfal ffurfiau yn HFF: *mult*, *molt*, *mout*, ond fel *mo6r* yr yngenid y rhai olaf er y ddeuddegfed ganrif. Os yr esboniad hwn sydd gywir, efallai mai rhywbeth fel *Mout d'eus conqui(st)rent Boun e Terriz* oedd yn llsgr. AN y cyfieithydd. Arall yw darll. B. Mewn testun lle digwydd cynifer o eiriau wedi eu cymryd drosodd o'r lle'r oeddynt yn y testun AN ni byddai'r dyb olaf yn afresymol. Soniwyd eisoes droeon am fynych unfurfedd *r* a *t* yn y llsgrau.

3719. *erchi y dala ac na ledit*. B 3252 *Pernes moi tut vifs!* 'cymerech fi'n fyw'; 'to take him prisoner', felly, yn hytrach na 'take him' RW.

3722. *y bzathab6d yr admiral*. Collodd *sabaat* ar ôl *bzathab6d*; cf. B 3259.

3723. *athr6y lef vchel*. *Monjoie!*, cri rhyfel 'y Ffreinc', sy'n cyfateb i hyn yn B 3260.

3725. *erchi . . . rodi dyrnodedu yn ia6n*. B 3260 *Fer6s* 'trewech'. Oddi wrth y cyswllt yn B ac YBH, ysyr yn *ia6n* yma, gellid meddwl, yw 'boldly, in real

earnest', nid fel yn y rhith-ymlddfeydd a geid ar draws y wlad. Cf. *coffa* y *duffust* yn *d6ihawarch* 2513=B *pensez de frapper* 'rhowch eich bryd ar daro' lle mae'r sefyllfa yn debyg. Geiriau rhagfertol yn amlwg oedd yn *ia6n* mewn brawddeg fel hon ar y dechrau ac odid nad felly y dylid eu deall yma; ond erbyn hyn ansoddair syml, 'gwyb, braf', yw yn *ia6n* ar ôl berfenw+enw yn nhafod-iaith rhannau o'r Deheudir. I ymwybod Deheuw'r goleddfu *dyrnodedu* ac nid *rodi* a wna't hefyd efallai yn 3725; cf. *mae e'n cwmu (=codi) tatus yn ia6n yn y ca(e) bach (y)ma* 'he grows fine potatoes in that little field'; etc. A'r esboniad cyntaf, cf. *Megys kyt bydynt yn ymlad yn ia6n ar y maes* RBB 203 lle sonnir am farchogion yn ymladd mewn *dychymygeu g6aryeu*. Arfarir yn *ia6n* fel ans. hefyd gydag enw syml megis yn *rheg yn ia6n* 'a profane oath'.

3726. *y panin6nys*. Am enwau tebyg, cf. *donnes*, *roffons*, *rag6ns* ar gol. 114. B 3263 *paieus* 'paganaiad'. Cf. *pa6l6neit* 3777, *pa6loneit* 4119, 4133, 4136. Amlwg mai terfyniad llu. yw *-ys* (gw. dan *Ffuriant*, §21, (v)). fel *-eit* yntau ac mai *panin-* yw rhan gyntaf yr enghreifftiau oll (cf. *paime*, *paime*, *panym*, etc. yn Moisy). Ond beth yw *-6n-*? Tybiaf mai'r AN *-ur (=ur)*, HFF *Ffrainc -or*, ydyw, ac y dylid darllen *panin6rys*, *panin6reit*; cf. *geste paieur (paieor)*, *terres paieurs (paieors)*, etc. y testunau HFF. Yma enw yw, serch hynny, fel yn *vassaur (vassus vassorum)*, *chandelar (festa *candelorum)*, etc. Yr unig wahaniaeth o bwys rhwng n ac r yn yr ysgrifau Wyddelig-Seisnig oedd fod aelod cyntaf r yn disgyn islaw'r llin, pwynt nas pwysleisid bob amser (cf. W. M. Lindsay, *Early Welsh Script*, Plate viii: *serenn.7*, *niri tarnher.10*, *circhl.23*). Yn y llsgrau CymC ac AN cynnar efelychir yr r ynysol weithiau a cheir n ac r yn ymgymysgu. Ar y pwynt olaf, gw. n. Egerton Phillimore yn *Cymmr*. IX, 146-7. Am waith copiwr CymC cynnar yn copio'r hen r, gw. lluniau LL 27, 29. Tebyg ddarford camddarllen *panin-* fel *paum-* yn *paum6neit* 3777; cf. *pa6neit* 4119=*pa66neit*. Am olion o gymysgu n ac r yr ysgrifau Wyddelig-Seisnig mewn geiriau Cymraeg, gw. J. Morris-Jones, *Cymmr*. XXVIII (*Talesin*), t. 134 et *pa6im*.

3727. *atheir milltir oed yn hyt y llu*. B 3264 *Li enchace dure quatre hies grans* 'Pery'r ymlid bedair milltir fawr'. Wedi grru'r gelyn ar ffo, bydd y caneuon arwrol HFF bob amser, yn unol â chadofyddiaeth dda, yn ei ymlid, fel y gwneir yn B, arfer y gwyddai ein cyfieithydd amdani, yn bur sicr. Nid oes fawr synnwyr yn y gair *llu* 'host' yma ac awgrymaf y dylid darllen (*yn*) *hyt y llit* '... the length of the pursuit'. Cyfyd aelodau u weithiau yn uwch nag arfer megis yn *dyllallu* am *dyuallu* LIDW 12^a, *enlls* am *enlls (en llys)* ib. 10^b; a chymysgir i *ag r* ac *r* â *t*; e.e. *trr=tir* ib. 23^a, *davar=daiar* ib. 23^b; etc. Os cywir *llit* fel darll., dyma enghraifft chwaneogol o'r enw prin a welir ddwywaith yn MA¹, 408.

macubz6nd. Darll. *mambz6nd* a chym. *mambz6nt* 3093; ceir yr un gwll yn LIC.

3729. *y dinas bzatm6nd*. Gw. ar 3615.

ac y eu. Gw. dan *Rhagetau Mawrol* yn *Ffuriant*, §28, (6), (II).

3732. *Ar meibon a redaffant at eu taideu y dynnu y harueu*. B 3267 *a desarmer Boun carent li enfant* 'rhed y llanciau i dynnu arfau Bown'. Y mae'n eglur oddi wrth y lliniau sy'n dilyn, heb s6n am B, na wisgai'r llanciau hyn arfau o gwbl; ni ddichon, gan hynny, fod achos i'w diosg oddi amdanynt. Darll. ynteu, *at eu tat* y *dymnu y arueu*; tybiaf mai'r darll. cynharach oedd . . . *at eu tat y deanu y arueu* ac i'r copiwr ymddrysu am ennyd yn yr hen orgraff ac ysgrifennu *deu-* o *dennu* ar ôl *tat*, ac o ddirnad y fel 3 llu. chwaneogu *h-*. Am *r=Y* *Dywyll*, gw. *Orgraff*, §16.

3733. *ac a archaffant y tat gôfcoed ac arueu.* B 3269 *ke nos . . . donez garment.* Ymhlith ystyrion *garment* ceir (a) gwisgoedd, (b) arfau. Dichon, felly, fod g. yma yn golygu'r gwisgoedd milwrol amddiffyn a bod *arueu* yn meddwl yr a. ymosod; y *tat*=y+y *tat* 'i'w tad'.
3735. Sylwer ar y duedd i gymysgu ymadroddion anuniongyrchol ac uniongyrchol; gw. *Cystrawen*, §54.
3736. *vy meibon y tec.* Gw. *Y Fannod yn Cystrawen*, §39, (viii).
3740. *yd oed boón . . . a iuo2.* Yn wyneb y cyswllt, ymddengys y dylid yn lle'r geiriau hyn ddarllen y *doeth boón a therri a fabaot y myón a gbelet iuo2 . . .*, cf. B 3272 *si entrent a tant Botes e Terri e Sabaath . . . e virent Yvori . . .* 'yna daw Bown a Therri a Sabaath i mewn . . . a gwelsant Ifor . . .' Am *d=th*, cf. *dadoed cyw.* *dathoed* 1661; o *luyd iudas* P 5, xi^a, o *luyd offer* ib. xvii^a; *thramoed* WM 643; y *doed* ib. 644; yr *awr yr archwaedont wy . . . vwynt* SG 92.
3743. *Peth . . . a gymery di o fberth dzoffof .i.* B 3275 *Prendrez rançon?* 'A gymerwch chwi ranswm?' Cf. *gberth* hefyd 3746, 3781=*rançon* B 3283, 3310. Ymddengys fod yr arlliw meddwl a geir yma yn ddatblygiad o'r arlliwiau a geir yn y cyfreithiau; gw. T. Lewis, *A Glossary of Medieval Welsh Law*.
3745. *ffodlondeb.* Camddarll. efallai o *ffedlondeb*, gydag *e* am y *dywyll* (gw. *Orgraff*, §16), neu fai am *ffydlondeb* o feddwl am *bodlondeb*; *fydlonder* sydd yn 841 a *fydlaón* 2052.
3747. *y vahón. ac appolin. a theruagant.* Yn eu diniweidrwydd credai gwŷr yr oesau canol fod y Mohametaniaid yn addoli aml dduwiau; cf. 3897-8.
3750. *fómp o dda.* Cf. *fómp o ariant* RBB 360 (2), 365 (P 20 *stwm*), 400; *fúmp anvaiddaól o da* MA² 450^a; *stomp* AL I, 504 (5), *stump galanas* ib. 512. Y mae i *som*, *somp*, AN *sum*, *sump* amryw ystyrion; dau o'r cyfryw yw (1) 'llwyth'; (2) 'llwyth anifail (ceffyl, asyn, etc.)'; yr ail feddwl sydd yn y fan hon fel y dengys *nyd angen no chan meirch a chan pónn armint* a geir yn dilyn. Tybiaf i *fómp* ddatblygu o *sum* (= *stwm*) yn AN ei hun (a) o'r duedd i roi gwefusol i lanw'r bwch a glywir ar ôl -*ni* megis y gwnaethpwyd yn Gymraeg yn *pymb* (*sýdaéc*) AL I, 404; *pymb* (*mlyned*) DgC 36; (b) drwy gydweiddiad â'r rhediad yn -*m* -*mp* fel yn *tem* (cyflwr enwol), *temp* (cyflwr gwrth.), rhediad a ddatblygasai yn AN wedi colli'r -*s* yn *tem*, *tens* (XIII^a). Gan yr arferid y cyflwr enwol a'r cyflwr gwrth. yn AN yn ddiwahaniaeth o ran swydd ac ystyr, ceid dwy ffurf ar yr un gair yn yr iaith feunyddiol. O hynny y daeth, fel y tybiaf fi, y dyblydau *stwm* a *stump* i'r Gymraeg ac efallai hefyd *tym* a *tymp* (cf. *pan dyvou y thynn oe vam y eghy* P 44, RWM I, ii, 378). Defnyddir *stwm* a *stump* 'weight' fyth yn y De ac y mae *stump* yn gyffredin ar lafar gwlad; e.e., y *mae stump mawr yn y sach 'ma*; *teimtwch i stomp hi*; ceir hefyd *stumpo* 'teimlo pwysau': *stumpwch y plentyn 'ma* 'just feel the weight of this child'.
3752. *A thrychant gbely.* Prennau neu fframiau gwely yn unig oedd y rhain fel y dengys 3754; nid oeddynt yn uwch na chadeiriau neu soffâu a phan ddeuai ymwelwyr arferid hwy fel seddau; yr oeddynt wedi eu cerlio'n wych; gw. n. ar 3754.
3754. *o gylcheden.* B 3286 *les coytes*. Matras wedi ei orchuddio â defnyddiau gwerthfawr a phan gysgid arno a godid ar oledd mawr o dan y pen oedd *coylte* (<*culcita*) Hen Ffrainc. Rhoddid hefyd gwrped addurmedig rhyngddo a'r ffram;

- gw. *Viollet-le-Duc, Dict. du Mob.*, I, 156 *et seq.*; L. Gautier, *Chev.* 532-3, 589-92; cf. hefyd *Queste* 159 *kieutes pointes* 'cylchedau wedi eu brodio'=*kylchedeu tee* SG 133; *Gauvains fist avoier li vois desure une costepointe* Potvin 235 ' . . . ar gylched wedi ei frodio'=*SG 351 Gwalchmei yna a beris y arthur cisted ar gylchet.* O roi lliain main i orchuddio'r matras y datblygodd ystyr arall i *coylte* (*coute, kieute*, etc.) sef, 'gorchudd'. Efallai i'r synnwyr HFF olaf hwn, synnwyr nas ceir yn *culcita* (cf. *Quicherat, Dict. Latin-Français*) helpu'r benthyciad Lladin *cylched* i ennill yr un meddwl. Yn wyneb 3753 a 3754, ymddengys mai ystyr *gwelyau* a'i *cylchedau* D yw 'prennau gwely a gwelyau', nid 'gwelyau a dillad gwely', fel y gellid casglu oddi wrth ei erthygl ef.
3757. *o lieineu bozdeu o eur glibedy restru.* Darll. *glibedy y restru*, yn ôl esiampl y LIC. B 3288 *de fin or naylés* 'with a line of gold along the border'. Tebyg mai o *refstyr* 'line, row, rank' y daw *restru* a bod y geiriau Cymraeg i'w deall yn union fel y rhai AN; *hanaper* 'goblet, tankard' a geir yn B 3288; ond *nappe(s)* yw sail *llieineu b.* Efallai mai camglywed *hanaper* a wnaeth y troswr.
3758. *A mil o fómereu ewreit.* Gan y daw'r gair *fómereu* rhwng enwau anifeiliaid (*llebot, eirth*) ac enwau pethau (*llrygeu, helmeu*), anodd penderfynu yn wyneb dau ystyr *fómer* (ceffyl pwn; pwn) pa un a ddylid ei gysylltu â'r hyn sy'n blaenori neu â'r hyn sydd yn dilyn. Darll. B 3290 yw *e cent somers de brun payles truster* 'a chan pynfarch wedi eu llwytho bob un â gwisgoedd disglair' (esboniad *Stimming*). Gogwyddir ni gan dystiolaeth B i ddeall 'mil o bynfeirch a lleiniau euraid am eu cefnau', eithr awgryma'r math o gefyl a ddewiswyd (gw. n. ar 98) y carient feichiau ac efallai, gan hynny, mai'r meddwl yw 'mil o bynfeirch â baich o bali melyn ar bob un'. Gellid, bid sicr, faentumio fod *fómereu* yma yn golygu 'pynnau', ond beth, tybed, fuasai ystyr *ewreit* wedyn? Rhaid cofio ddarvoud sôn eisoes am y pynnau o arian ac aur: *can meirch a chan pónn armint o eur ac ariant* 3751-2. Fodd bynnag, ni ellir derbyn 'and a thousand of golden bars' RW. Gw. ar 1723-4.
3760. *ac a berthyn o helmeu.* B 3294 *e autretant de . . . heumes* 'a chymaint â hynny o helmaw'; buasid yn disgwyl *attunt neu edunt* ar ôl *berthyn*; cf. RBB 194.
3764. *y da.* B 3298 *le tresor.* *galó . . . ar genhyat cyw. galó y genhyat.* B 3300 *Yvori ad un mesager apelé.* Fel y gwelir, y mae'r darll. cyntaf yn adlewyrchu'r un meddwl â B, eithr awgryma'r cywiriad fod y cywirydd wedi dehongli y fel rhagenw mewnol='his', neu, yr hyn hefyd sy'n bosibl, fel bannod, oblegid yr oedd cennad, fel yr ymddengys, bob amser yn gwneir ar y brenin. Diddorol sylwi i'r hwn a gywirodd droi'r ferf o fod yn gyflawn yn anghyflawn; cf. n. ar 88.
- 3766-7. *y dirgeledic thas yftauell fabaot.* Athro a chyfaill Bown, nid gwas luar, oedd Sabaot a dylid darllen *fabur* fel yn B 3302; *fab*, mae'n debyg, oedd yng nghynsail y LIG a chamddarllenwyd f fel f a chamestynnwyd y talfyriad. 'His private chamberlain', nid 'his secret servant of the chamber' RW.
3772. *fabaot.* Darll. *fabur* megis yn 3767.
3777. Rhodder diweddnod ar ôl y *gyt* a dealler y geiriau gyda'r hyn sy'n blaenori.
3782. *hyt y meatomd.* Gw. n. ar 3615.
- 3787-8. *Clawychu aozuc . . . ac y myón lleft yd oed yn ozheidate.* B 3321 *Mult est malades e gis en un soler* 'Yr oedd yn glaf iawn a gorweddi mewn guwch-ystafell neilltuedig'. Cf. yn *glaf gosheidate* 4325 (LIC yn gl. az.), cyfieithiad

llythrennol o *malades gesant* B 3809 'seriously ill; on the point of death', a *dyma'r* ystyr hefyd yn Gymraeg. Yr oedd *loft* weithiau yn ystafell wych: *ll. ua62 deledio* RM 173. Cymerwyd *foler* drosodd i destun YBH yn 1063, a chan y ceir *soler* 'upper storey' yn nhafodiaith Saesneg Maesyfed (cylch St. Harmons) heddiw, ymddengys yn sicr ddarfod i'r Hff *soler* gael ei fenthyca gan Gymraeg llafar rhai ardaloedd yn y cyfnod canol.

3789. *medylieit . . . tab hir . . .*; gw. Y *Cymal Emvol* dan *Cystrawen*, §45, (ii).

3793. y *gōnaei ef y boze yn vzenhin*. Efallai i *dzannoeth* golli ar ôl *boze*; cf. B 3325 *demain ert rois, jeo le frai coroner* 'yfori y bydd frenin, mi a baraf ei goroni'. Cf. y *boze dzannoeth* 4033=B 3552 *A l'emdemain; Athzannoeth y boze* 3898. Y mae'n bosibl, serch hynny, mai ystyr y *boze* yw yn *gynnar yn y bore* megis yn a *dydylweith y boze* 2536=*un jur par matin* B 2193 'ryw ddiwrnod yn blygeiniol'; cf. WM 387 *ony byd parat paob y boze y uynet y hely*; hefyd 464, 469, etc. Tueddaf i ffafrio'r olaf.

3796. a *phan giglef boin hymy*. Ni chofnodir *giglef* ond fel i un. perff. yn WG 371; gw. *Berfau à Hen Amserau Perffaieth dan Ffuriant*, §31, A, (c), (vii).

3801. *ac vgeint o uachleryeit*. Yr oedd i'r gair *bachel(i)er* yn y cyfnod ffurfiad amryw ystyrion; ei feddwl pennaf oedd pendeifig ieuanc dibriod heb feddu tir nac adnoddau. Gan nad oedd gan y *bach(y)lerieit* wragedd a phlant, iddynt hwy yn anad neb y rhennid yr anturiau enbydus, ond nid oeddynt o angenrheidiwydd, er hynny, yn ymgeiswyr am urdd y marchogion fel y *damoiseaux*. Defnyddid *bachel(i)er* hefyd yn aml am *cheval(i)er* 'marchog'. Y meddwl cyntaf, yn amlwg, sydd i'r gair yn y cyswllt hwn; ceir yr ail yn 3819; gw. Ste-Palaye dan *bachelier* a L. Gautier, *Cheo*. 190-2.

3805. *ma62 uu yr offróm*. B 3339 *grant fu l'offrand*. Ymddengys y gellir tynnu *offróm* yn fwy didramgywydd o'r AN **ofrom*, *ofrum* nag o'r HS *offrang* (EEW 42). Yr oedd *an(m)* yn ymgyfnwidd ag *on(m)* yn Hff megis yn *dont a dant* < *dominium*; *dome a dome* < *dominam*; *visdomme a visdomme* < *vicedominum*; *conte a cante* < *comitem*; *conte a cante* < *computation*; *dontet a dante(t)* < *domitai* (gw. H. Suchier, *Les Voyelles Toniques du Vieux Français* 122-3). Ceir atseiniau o'r ymgyfnwidd hwn draw ac yma yn Gymraeg fel yn *danto* 'colli calon' Morgannwg wyneb yn wyneb â *daunt* y Saeson; *Menesthifelan* LL, App. I, 323=*Mynydd Islw(y)n*. Fel y dangosodd Parry-Williams, y mae anawsterau seinegol ar ffordd cysylltu *offrom* ac *offrang* HS. Tueddaf, gan hynny, i dybio i'r Gymraeg fenthyca yma o ddwy ffynhonnell wahanol, nid amgen, *offrang*, *offryngau* o'r HS (am y llau, gw. Cott. Tit. D xxii, 16b, *Cymmwr*, IV, 138, ffurf a ddihangodd rhag sylw PW) ac *ofrom*, *ofrum* (u=te), *ofrymeu* o'r AN.

3812. *yr yn ôath y giliid*. Gw. dan *Cystrawen*, §47, (iv).

3816-7. *yna y gbelit dymodeu gan varchogyon ieuenc*. B 3351 *Ore purrez vere cops de chevalers* 'yn awr chwi ellwch weld dymodiadau marchogion', h.y. dymodiadau teilwng o farchogion wedi tyfu. Ymddengys, felly, y dylid darllen *gbelit* a dileu *ieuenc*.

3821. *ac yd ymerbynnant ac eu kyffelybyon*. B 3553 *il atenderunt lur per 'fe fyddant crystal à'u tad'*. Fe gymerth y cyfeithydd *per(e)*=*par* yn hytrach nag=*patrem*. Awgrymaf ddarllen *od yn lle yd a deall* 'and if they joust with their peers'. Dichon y ceir arlliw mwy datblygedig fyth o'r ferf yn SG 337 *ar marchogyon a ymerbynnant ac ef*=Potvin 210 *Il s'entrelevèrent à (Berne par) lui* 'they hurled themselves at him, charged him'.

3833. *A phan tytoydynt yn mymet*. Ymddengys ddarfod i o *vdyta* neu'r cyffelyb fynd ar goll ar ôl *mynet*; cf. B 3363 *Kant went mangé 'wedi iddynt fynta'*.

3839. *Hóde . . . y vantell honn*. Awgryma'r ffurf hon y ceid unwaith yn y Deau *hwde* yn ogystal â *hure* megis y ceir *cudyll* ochr yn ochr â *curyll* mewn rhai manau fyth. Bellach *hure*, mae'n debyg, yw'r unig ffurf a glywir yn y siroedd isaf.

3841. *anrecca . . . hi oz ffiol hon*. Gw. n. ar 703.

3847. *y deuth ffozd at y pob*. 'Tybiaf y dylid dileu *ffozd* a chredu i'r gair lithro i'r frawddeg hon o *ae ffozd a gymerth* 3845 pan oedd 3845, mewn llygr., o drefniant gwahanol yn nes i 3847 nag y mae yn y LiG. Onid e, dylid darllen *yd aeth* yn lle y *deuth*.

3853. *yn canu hloch hammer dyd*. B 3384 *a midi sonant*. Clychau'r eglwysi a fynegai'r amser yn yr oesoedd canol a phan ddywedid ei bod yn hyn a hyn ar (y) *gloch*, at gloch yr eglwys neu'r capel canoloesol y cyfeirid. Efyelychiad o'r Saesneg *o'clock* yw *o'r gloch* y Gogledd.

3854. *ac yn ymyl pozh y llys y deuth*. Darll. *ac y ymyl . . .*; cf. *A la porte vint* B 3385; am *wendid n*, gw. dan *Orgraff*, §18. Efallai y ceid pwynt ar yr y yn y copi a oedd o flaen ysgrifennydd y LiG ac iddo ei gymryd yn lle'r *titulus*; gw. ar 4058.

3855. *roboait*. Gwall pur sicr am *roboant*; cf. *roboant* 4202, 4209. Peth hawdd oedd darllen n fel u ac i u wedyn fynd yn ô.

3860. *nevad*. Gw. n. ar 286.

3862. *dy annerch y gan fabaot ae deu uab*. B 3392 *Boves ens mande . . . saluz e ameytez*. Rhodder *boin* yn lle *fabaot*, oblegid am feibion y blaenaf y sonnir. A'r gystrawen, cf. 4004 *menegi . . . y uot yn gennat gan boin ae annerch y ganthab*=B 3528 *il li saluz*; ac eto 4262 *ac annerch boin gan y bzenhin*=B 3754-5 *e le roi saluent . . . de part le roi Edegar*; a WM 52 *Ac yny annerch y gan uatholoch*.

3870. *yn hamton ar lan y moz*. B 3409 *a Hampton sur mer*. Dealer 'at Hampton-on-Sea' yn hytrach nag 'in Hamtoun, on the sea shore' RW.

3873. *ea6n*. LiC *eha6n*; cf. RM 150 *eha6n*; cf. *ehawnyfysc*, *ehawnyserch* yng *Ngeirfa* Lloyd-Jones; *ehawnyrayd* YCM², 82. Y mae deilliad *exodnus* yn ddigon adnabyddus: *ehafyn*, *eofn*, yn yr iaith lenyddol, *echon*, *eon*, *eson* yn yr iaith llafar. Yn y ffurfiau llafar ymddengys i'r *f* droi'n *w* ac yna ymdoddi yn yr *o* flaenorol: *eofn*>*eson*>*eon* (cf. *athraon*=*athrawon*; *balaon*=*balawon*; etc.); yn *eha6n*, *ea6n*, o'r tu arall, gellir tybio i'r *w* < *f* ymgadw a rhoi *shawn*, *eson*, gydag *ow*, *sain* a oedd yn agos iawn i *aw* a darfod ei chyfleu yma drwy *ab*; am agoswydd *ow* ac *aw*, cf. *Madouc Brev. Domesday* (B) *Trans. Cymmwr*. 1899-1900, 176; *haw* < AN *hau(e)*; *nawn* < AN *noun*; etc. Dichon, er hynny, mai'r esboniad yw gwaith llafariaid yn ymdatblygu rhwng *e* ac *w* yn *éon* a thrwy *éon* yn rhoi *éaw* megis y datblygodd a thwng yr un seiniau yn y gair Hff *éaw* (< *ajaw*) a chynhyrchu **éaw* a roes wedyn *eaw*, *éaw*.

enrithed. LiC *enrithed*. B 3411 *terz 'swynwre'*; am *ew*=*aw*, gw. *Awdar, Coptiogr a Dyddiad yn y Rhagymadroad*, §6, (i), 2.

a vobitus oed yen6. Yn B 3414 *Gebitus* a geir; yr oedd *G* fel priflythren yn y drydedd ganrif ar ddeg yn debyg iawn i *V* fawr, a dichon i'r cyfeithydd neu ei gyd-lafurwr ddeall *G* fel *V*; gw. Johnson and Jenkinson, *English Court Hand* 21.

3875-8. *a ganeï . . . canueu . . . dīgāln a gīgleu oth ganueu*. B 3416 *de vos enchantemens ai veu assez* 'o'ch swyngyfareddion mi a welais ddigon (neu lawer)', darll. sy'n cydfynd yn berffaith ā'r meddwl a gyfleir yn *enrithel* 'swynwr'; (cf. 3873). Sail YBH yw *chantemens* ac odid nad *ai of* (nid *cēu*) *assez* 'mi a glywais ddigon (neu lawer)' oedd yn nhestun AN y troswr neu a ddeallodd y troswr, oblegid anodd credu y buasai'r gŵr a dynnodd y synnwr cywir ond anarferol o *lers* (*latro*) yn debyg o fethu deall ystyr *enchantemens* yn yr un cyswllt; cf. 3890. Da hefyd cadw mewn cof y dibrisid y rhagddodiad yn AN fel y gwelsoem yn 3476-7.

3882-3. *y mur . . . dzofti*. Aeth *dzofto* yn *dzofti* mae'n debyg, drwy gyd-weddiad ym meddwl y copiwr rhwng *mur* a *gwāl* neu o gofio y gellid arfer *la neu le parēt* 'mur' yn AN; gw. J. Vising, *Le Purgatoire de Saint Patrice* 60 ac o dan *Cenedl Geiriau yn Cystrawen*, §38.

3885-6. *y yskynnaōd yr muroed*. Cf. *y yskynnaōd yr yftauell* 3590. Defnyddir *m(o)unter* yn HFF fel berf gyflawn a berf anghyflawn a cheir *m(o)unter a, m. sor, m. en* yn union fel mewn CymC; yn wyneb pwysigrwydd y ferf hon yn mynd marchogion, anodd credu na chafodd beth dylanwad ar *yfgymu* a'i gystrawen; gw. Godefroy.

a chamu megys ederyn. B 3422 *com fust oysel, est le mur montez* 'megis pe buasai aderyn y dringodd y mur'. Os darll. *a chamu . . .*, fe geir perffaith gyt-gord ā'r cyswllt ac ar yr un pryd tynnir ymaith seiliau beirniadaeth Stimming (*Einleitung* xcvi); o'r tu arall, nid yw *canu* yn amharu dim ar y cyd-destun, dywedded Stimming a fynno.

3888. *allūyd 'agoriad'*. Y ffurf arferol yn y De yw *allwedd* neu *allwoeth* ac ni chlywir *agoriad* oddieithr ar wefusau'r pregethwr o'r Gogledd neu o ben uchaf Ceredigion; cf. *allwedu* RBB 344. Tybed a ddyld cysylltu'r gair ā'r HFF *al(l)uet* 'heritage the possessor of which owes neither allegiance nor dues to any lord; unburdened possession; personal property?' Os felly, cf. MA 207, b 3 *Yn Aber-tawcy, terrayn allwet lloegyrr*. Yn ôl hyn estyniad semantig fuasai'r ystyr 'key'. Am olygiad Vendryes, gw. *Études Celtiques*, IV, 40 a chym. Du Cange dan *alodium*, Ste-Palaye dan *alleud*, a Godefroy dan *aluef*. Ond da coſio am *alc'housi* yn Llydaweg.

3894. *ac y mltmbzafnt y kerdaōd yn vn iōznei*. B 3428 *e vint a la citē a l'en-jornez* 'ef a ddaeth i'r ddinas gyda'r wawr'. Ond y tebyg yw mai *a un jornt* a geid yn y testun AN gyferbyn ā 3894, megis yn B 3314: *a Abreford vindrent a un jornt* = YBH 3781 *ac yn vn dyd y doethant hyt y mwatmōnd*. Math o *calque*, felly, yw yn *vn iōznei* o'r geiriau HFF, a byddai 'in one day's journey' efallai yn well na 'in one journey' RW. Ni welaf, serch hynny, paham yr oedd eisiau i Stimming gael bai mawr (*Einleitung* xcvi) ar esboniad RW. Gw. dan *Bannod Amhendant* yn *Cystrawen*, §40.

Aphan y gūelas y bzenhin 'and when the king saw him' nid 'when the king saw' RW.

3897. *y vahōn ac y apolin*. Gw. ar 3747.

3901. *ac eu tuchan*. Gw. ar 4352.

3908. *gōlet bzeidōyt a oziec yny fyd*. B 3439 *sonja* 'breuddwydiodd' Nid oes synnwr yn 'he saw a dream in his world' RW ac nid oes dim rwy yn narll. y LIC: *yny ffyd*. Tybiaf i *yny fyd* lithro i'r llinell hon o waith y copiwr yn gostwng

ei lygaid yn ddifeddwl ar *ynfyd(aōd)* 3904 pan oedd y gair hwnnw (gydag *-f-*) yn gorwedd yng nghynsail y LIG mewn colofn fwy ei lled; gw. n. ar 3847.

3910. *yn alarus*. B 3439 *blescē*; y ffurf yn HFF Ffrainc yw *bleciō* 'cleisiog' yn llythrennol a ffigurol (gw. Godefroy). Ystyr *galarus* yma felly, gellid meddwl, yw 'cleisiog o ysbryd', meddwl nas cofnodir yn ein geirlyfrau. Ond pa beth yw *galar*, wedi'r cwbl, onid clais yn yr ysbryd?

tozri melafōzn y wozdyt. B 3440 *le mestre os de sa quise li est brisē* 'torrwyd (iddo) brif asgwrn ei glun'. Cf. Potvin 311 *le mestre os de la jambe* 'prif asgwrn y goes' = SG 416 *esgeir*. Amlwg mai'r *femur* yw asgwrn y forddwyd. Pan dorror hwn, medd Handfield-Jones & Porritt, (*The Essentials of Modern Surgery* 909): 'the patient is helpless and often shocked'. Dyna safle Bown wedi colli Arwddel ei farch. Ond beth yw *mel-*? Wrth drafod y *femur*, dywaid Gray (*Anatomy Descriptive and Applied* 322, 329): 'the largest and strongest bone in the skeleton . . . hollowed by a large medullary canal'. Oherwydd eu gwybod-aeth o hyn, mae'n debyg, ymddengys yr edrychai gŵyr yr oesau canol arno fel yr asgwrn mwyaf ei fēr o'r holl esgryn. Pa sut bynnag, rhoir pwyslais ar y pwynt fel y gwelir yn *Ogier le Danois: et brisa le maistre os moellier* 'a thorodd y prif asgwrn madruddol' (cf. L. Gautier, *Chev.* 563). *Merafōzn*, felly, gellid meddwl, yw'r *melafōzn* o dan sylw. Geilw'r Athro J. Lloyd-Jones fy sylw at *mer asgwrn* yn TA, xvi, 12 ac yn WLI xxxiv, 2^b ac at *maesgryn* yn LIGC 46-43; ond ni wn am yr un enghraifft arall o *melasgryn* yn Gymraeg. O'r tu arall, yn Llydaweg digwydd *melaskour* ochr yn ochr ā *mer-asgour*, eithr gyda'r ystyr *moelle* 'mēr', nid 'asgwrn ā mēr ynddo' fel yn YBH. Dichon, gan hynny, fod y gyfatebiaeth *mel* = *mer* yn mynd yn ôl ymhell. Ond y mae'n llawn mor bosibl i *mer*-droi'n *mel*- yn y gair hwn dan ddylanwad *moelle*, *mel(e)* HFF (< *medulla*). Bu'r Llydaweg fyw yn ymyl y Ffrangeg am gannoedd o flynyddoedd a benthycodd yn helaeth o'i geirfa (cf. R. Hemon, *La Langue Bretonne et Ses Combats* 26). Bu'r Gymraeg hithau'n cyd-fyw ā'r Ffrangeg am dair canrif. Er cael *moellier* 'madruddol' yn ansoddi *le maistre os* 'y prif asgwrn' yn *Ogier le Danois* (gw. uchod) ac mewn mannau eraill, ni cheir mono'n gyson. Gallasai *mel*-ddeillio o'r HFF *melle*, *mel(e)* 'bwel' neu o'r HFF *mail*, *mel* 'arf' ā mwrthwl o haearn neu blwm ar ei ben' (gw. Ste-Palaye a Godefroy). Y mae gwaelod y *femur*, sef y *condyle*, yn ddigon tebyg i fwl neu fwrthwl (gw. y lluniau yn y llyfrau uchod), ac yn y rhan hon, yn ôl Gray 331, y digwydd y toriadau amlaf drwy drais union. Rhoesai hyn feddwl eithaf boddhaol ac, yn iaith Handfield-Jones a Porritt, dyna fuasai *supracondylar fracture of the femur*. Eto, gan mai dyma'r unig esiampl sy'n adnabyddus o *melasgryn* yn Gymraeg, ac mai *mel afōzn* yw darll. y LIC, temtir ni i dybio nad yw *mel*, wedi'r cwbl, onid cysylltiad = *mel* (cf. *malp(h)ei* WM 487, 488) a'r *-fei* wedi ei adael allan naill ai o fwrdd neu o waith y copiwr yn ymddrysu ar ôl dirnad *af-* yn *afōzn* fel *af-*. Am *mel* = *mal*, cf. *mel ar ekynaf* LIDW 18a; *mel edelei* ib. 19a; *mel edewadoffam* ib. 25^b; a cheir *uel* eisoes yn LIDW 2a; YBH 1007; P 7, 22^b; etc. Ond rhaid cydnabod y buasai'r ystyr 'as though it were' yn hollol anarferol. Anodd penderfynu pa esboniad i'w ffafrio.

3912. *a rybbelfei*. Gw. dan Y Geirynt *Berful ry yn Ffuriant*, §35. *ac y dybbābt*. LIC ac y *dybbābt* hitheu.

3917. *hymryt . . . ae balmityden ac ymiachau ae dylōyth*. Darll. *ae balmityden* a chym. y *balmityden* P 14, 118 (ddwywaith), 119 (ddwywaith); collodd ā, mi dyb-iaf, wrth gopio'r ffurf *balmityden* naill ai o debygrwydd *ōt* (cf. ar 3676) neu o dsh-yrwydd y i v (=te) (gw. ar 336-7). Oni ddeiliaf *palmit-* o gyfwr traws *palme*, geill sefyll am *palmar*, ffurf AN ar *palmar*(er), ond byddai'r esboniad ar goll *ōt* yr un.

ae dylôyth. Ni ellir penderfynu pa un ai 'kinsfolk' ai 'household' yw'r meddwl yma; cf. SG 154 *tylwyth=gent* 'household' (?troops) *Queste* (F) 225; SG 350 *t.=jant* 'people' Potvin 234.

3923. *ac yn lhir yt*. B 3451 *le lers Yvori mun destrer ad emblé* 'dug swynwr Ifor fy march yn lladrad'. Ymddengys mai *de vere=de veire*, HFF *Ffrainc de voire* 'yn wir', oedd yn y testun AN y gweithid arno neu ddarfod i gydweithiwr y cyfieithydd darllen *le lers fel de vere*. Pe clywsai neu pe darlennasai'r cyfieithydd *le lers*, buasai, megis yn 3873, wedi ei drosi'n gywir. Daeth y darll. hwn o dan wg Stimming (*Einleitung* c), ond, er yn feius, nid yw'n amharu fawr ar yr ystyr cyffredinol.

3927. *Y ffozd a gymerth* 'he took his road', nid 'the road' RW; cf. *sa voie*.

3933. *A phan thelas ef aründel. y adnabat aozuc*. Yn ôl B 3459, Arwndel sy'n adnabod Sabaoth: *Arundel le vist, bien li ad comu*; ac yn wyneb syniad yr oesau canol am ddealltwriaeth ceffylau (gw. n. ar 98), y mae hynny'n well darll. Efallai, gan hynny, y dylid rhoi ef ar ôl *aründel* yn hytrach nag o'i flaen. Adwaen march Oger o Ddenmarc, *Broiefort*, ei arglwydd 'yn well nag un gŵr ifanc ei gariad', a dywedir am geffyl Renaud o Fontauban, *Bayard*, yr adwaenai ei berchennog 'ynghynt na gwraig ei gŵr priod'.

3937. *y kyfryó amós nys gübeleis eiroet*. Sylwer ar y rhagenw meynol -s yn ailfynegi'r gwrthrych a draethwyd eisoes ar flurf enw; cf. *un tel cheval, je ne l'ai jamais vu* mewn FFD.

3938. *Ymhoel y bedzein y racthan mi ae gübeleis*. Pe buasai galw am esboniad, ar *pedzein* a *racthan*, galleid ei gael yn B 3462: *Mustrez le derere, devant l'ai neu* 'Show the buttocks, (the) forepart I have seen'. Ar darddiad *racthan*, gw. n. Ifor Williams yn CLJH 97.

3939. *ti a geffy y thelet oll*. B 3463 *Tost le verras tu 'ti a'i gweli yn fuan'*. Y mae yn *fuan* yn rhoi gwell synnwyr nag *oll*, ac, yn sicr, amryfusedd yw *oll* wedi codi o waith y darlennydd yn ynganu *tost* 'yn fuan' fel *tot* 'y cwbl; all'. Yn AN y drydedd ganrif ar ddeg oblegid ei gwendid, chwangedid *s* o flaen *t* lle nad oedd ei heisiau a bwrid hi allan lle'r oedd yn gyfreithlon heb amgen rheswm na mympwy'r copiwr; gw. ar 4032.

3942. *yfcynnu . . . yn amycawyn*. B 3465 *legerement salt derere lui* 'nimbly jumps behind him'; gw. n. ar 1299-1300.

3945. *a rei ereill*. Darll. *ar rei ereill* gyda'r LIC.

3947. *a thristaü*. LIC *athziflau*; am enghreifftiau pellach o *ü=u*, gw. dan *Orgraff*, §16.
o lef vchel. gw. n. ar 703.

3950. *rif o nadant ae hynlityaffant*. B 3475 *tuz enchacent Sabaoth le blanc* 'all pursue hoary-headed S.'. Sylwer yn 3950 ar y ferf luosog ar ôl yr enw torfol, cystrawen gyffredin yn HFF; gw. *Cystrawen*, §50 (ii).

3953. *A iofian myón ystlaell*. Darll. *iofian oed* . . . , cf. B 3480 *Iosian estut*.

3954. *ffenefstyr uchel*. Nid oes galw am *uchel* yma a thebyg mai ailadroddiad damwenniol yw o'r *uchel* a geir ar ôl *ystlaell* yn yr un llinell; cf. B 3481 *a une fenestre gard*.

3959. *perôch abôch holl niuroed gôjcaü arueu*. LIC *p. ych holl* . . . B 3484 *fetes armer tuz vus gent* 'cause all your troops to put on armour'. Y mae *paraf* yma yn ferf anghyflawn megis hefyd yn *peri paôb* . . . vot 3983. Tebyg mai'r un gystrawen sydd yn y LIC, ond os dylid dehongli *ych=y eglur+ch* 'i'ch', ceir yn y LIC esiampl gynnar o'r gystrawen a arferir heddiw; cf. Math. v, 45; *canyys y mae efe yn peri i'ro haul godi ar y drwg a'r da*.

3962. *yn chüberôdic*. B 3485 *par cent* 'wrth y cannoedd'. Ymddengys fel pe deallasai'r cyfieithydd *par cent=perçant* 'piercing(ly), savage(ly)'.

3963. *yr hōnn yr oedut*. Gw. dan *Ffuriant*, §29 am esiamplau eraill o *yr=yd*.

3964-78. Pan gopiodd Roger Morys destun y LIG yn Mostyn 135 yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg yr oedd ymyl col. 122 yn ddi-nam; erbyn heddiw pyd-rodd rhai manau gan leithder a diflannodd amryw eiriau; llanwyd y bylchau o'r LIC.

3965. *ac ôzth hynny arglôydi dyuryffjöch*. O 3953 hyd y fan hon Iosian a fu'n siarar; yma daw'r brenin Gi i mewn. Yn bur sicr, colodd geiriau fel *heb y gi* ar ôl *dyuryffjöch*; cf. B 3487 *Adobbés vus, seymurs, dit Gui*. Dyma'r *bzenhin* y cyfeirir ato yn 3967 a 3969.

3970. *Ae ti fabur a erlidyeyf fabaot*. Pan gymharer y testunau yn fras y mae perygl i ddyd gymryd y frawddeg hon fel camgyfieithiad o B 3492 *Estevus Fabur Sabaoth ataignant* 'Wele (i chwii) Fabur yn goddiwes Sabaoth'. Y demtasiwn i hynny yw bod i *estevus* ddau brif ystyr: (a) *ecce+vus* 'wele (i chwii), nachaf'; (b) = *Êtes-vous* 'A ydych chiwi, Are you?' ac mai'r cyntaf yn unig a geir yn B. Os yw'r testun Cymraeg, fel y myn Stimming (*Einleitung* lxxxv), yn 'chwerthinlyd' yn y fan hon, nid wyf yn argyhoeddedig mai'r Cymro sydd i'w feio. Pa fodd bynnag, ni allaf weld bod yma gamgyfieithiad. Y peth tebycaf yw bod *estevus* yn digwydd ddwywaith yn nhestun AN y cyfieithydd, yn y lle cyntaf gyda'r ystyr (a) ac yna gyda'r meddwl (b). Cyfieithwyd (a), sef, cyfartal B 3492 uchod yn rhydd yn y frawddeg *Ae yna y kylyrdatü y bzenhin afabur* 3968-9 a throswyd (b) yn *ae ti* yn y frawddeg sydd ger ein bron. Gwyddai ein cyfieithydd yn burion ystyr yr ebychiad *estevus*, fel y dengys *estevus* B 327=*nachaf* 326; cf. hefyd B 462=YBH 469; B 803=YBH 933, etc.; eithr byddai'n fynych yn trosi'n rhyddach fel y gwnaeth â B 3492 ac â B 420=YBH 426-9; etc.

3971. *ar y daryan*. LIC *ar yhelym*. B 3495 *sur son eime*. Dengys -an ar ddechrau 3972 yn ddibetrus mai y *daryan* oedd darll. y LIG pan oedd yr ymyl yn gyfan, ond nid oes synnwyr mewn dweud *ac ae holtes hyt y eneu* am *daryan* fel y canfu copiwr y LIC a RW yntau. Felly, darll. *helym*.

3972. *hyt y eneu*. Mae'n ddigon eglur fynd o *ac ae holtes* ar ddiffancoll o flaen y geiriau hyn; cf. B 3496 *jeskes la buche le va defendant* 'hyd y genau ef a'i hylit'.

3973. *hyt na allaffant dim o amdiffyn idab*. 'to the point that they (i.e. yr *helym* ar *lluryc*) became useless for him, as defensive weapons' nid 'so that it was no protection to him' RW.

3976. *yr yfcynnaü*. Am *yr=yd*, gw. *Rhagenwau Perthynol dan Ffuriant*, §29.

3977. *ac arbet aründel*. B 3500 *pur reporer Arundel* 'i roi gotiffwys i A'. Ymddengys, gan hynny, fod yma arlliw ystyr nas rhoddir i *arbed* yn y geirlyfrau. Dangosodd RW yr arlliw yn 'and he spared A'.

3983. *peri paôb*. Gw. ar 3959.

3991. *gan y glbelet ae tat*. B 3513 *he de bataille sont venant*. Dengys de bataille 'from battle' y dylid diwygio ae tat yn *oe cat*; gw. *Perthynas y Cyfieithiad Cymraeg â'r Geste de Boun de Hamtone*, §13, (iii), 1.

a dianc. B 3515 *a desarmer courent* 'rhedant i ddiarfogi'; nid 'cilio', felly, o bosibl, ond 'to get away'.

3992. *yn iach* 'in safety' RW.

3994. *kynhal ryuel*. Benthyciad diamheuol o'r HFF *revel* 'rebellion, revolt'. Er nas ceir yn y geirlyfrau, y tebyg yw i'r gair fynd i olygu 'war' (y meddwl a geir yma) yn gynnar yn AN. Daw *ryuelu* yntau o'r HFF *reveler*. Am y rheswm tebygol dros yr amrywiaeth cenedl a geir heddiw yng Nghymru, gw. dan *Cenedl Geiriau yn Cystrawen*, §38, (ii). Am y llu., cf. *ryuleu* Cott. Titus, D xxii, 4^b.

Gwn y ceir *ryuel chwertlin* yn y *Gododdin* (gw. CA 420), ond nid yw hynny'n milwrio dim yn erbyn tarddiad HFF oblegid digwydd yno fenthygiadau HFF eraill megis *aer* 'shield', *being* 'bench', *cablu* 'to blame', etc., ffrwyth y 'diweddarau cyson' y cyfeiria Ifor Williams ato yn CA, xciii. Gw. ar 134, 3418 a Godefroy d.g. *gab(e)ler* 'to mock, etc.'.

4006. *yn ganhozhly*. LIC y *ganhozhly*. Yr unig beth a ellir ei ddarlenn yma yw *-thly* oherwydd pydru o'r ymyl; os enw ydyw, dylid, mae'n debyg, chwaneu *ydab* neu *idab*; o'r tu arall, os berfenw heb derfyniad yw, fel y tybiaf bellach, byddai'n well, ond odid, ddarlenn *yu* (=i'w) neu *y* (=yy) g . . . , gan ddilyn Mostyn 135. B 3530 *k'el soit par vos aidé e succuré* 'that he should be aided and succoured by you'.

4007. *Ac yn anuon*. Darll. *yna* am yn gyda'r LIC.

4008. *ar hyt y byt*. B 3532 *par tut le regné* 'ar hyt yr holl deyrnas'. LIC *ar hyt y gyuoeth*. Awgrymaf mai y *vlat*, gyda v hir fel *b* (gw. ar 227-30) ac *l* heb fod nemor hwy nag *i* (gw. ar 1477) oedd y darll. gwreiddiol ac i *vlat*, a edrychsi'n debyg i *biat*, fynd yn *byt* o dan ddylanwad *hyt* a'i blaenorai. Rhaid gwrthod darll. RW *ar hyt y dyd* 'all day long'.

4009-10. *yn oet dyd byzr* 'at an early appointed day' nid 'within a short day' RW. Nodasid yn ddiu ddydd penodedig a mynegi hynny yn anuniongyrchol a wneir yma; cf. *A phyrnaôn byrr* WM, t. 282 (P 6, ii).

ac yn yr oet dyd ef a deuth. 'and on the appointed day there came . . .' nid 'in the course of a day' RW; gw. n. ar 26.

4011. *petlbar duces*. Am esiamplau eraill o'r llu, yn *-es, -ys*, gw. dan *Enwau yn Ffuriant*, §21, (v).

4017. *boôn clotuozur*. Efallai i'r fannod fynd ar ddfancoll ac y dylid darllenn *b. y cl . . .* megis yn B 3537 *Boun li alozé* neu y dylid dilyn y LIC *b. marchabé cl . . .*

4019. *ar varch da*. Darll. *ar y varch da*; cf. B 3538 *Son bon chival*. Carai marchog yr oesau canol ei farch ei hun â chariad brawd ac arno ef, 'blodau y ceffylau', ac nid ar yr un anifail arall, pa mor dda bynnag, yr esgynnai bob amser; gw. n. ar 98.

4020-1. *hyt ymratônd*. Bzenhin *bzatmônd*. Darll. *ymratônt*. Bz. *bzattônt* gyda'r LIC a gw. n. ar 3615.

4027-8. *a mynegi idab*. B 3548 *e il lur conte com . . .* 'and he tells them how . . .' Arwyddocâd *idab*, felly, yw *ohono*; gw. dan *Cystrawen*, §51.

y mod y gozuc iuo2 ac ef. LIC *gônathoed*. B 3548 *com Yvori lur ad gueré* 'sut y rhyfelodd Ifor arnynt.' Ymddengys i gopiwr y LIC gael peth rhwystr yn y frawddeg hon ac iddo deimlo bod galw am amser gorb. yn hytrach na gorff. O hynny, mae'n debyg, y rhoes *gônathoed* yn lle *gozuc*. Os dilyn y darll., cf. *Gwell guneif a thi Aneirin* 11 (gw. WG 319; CA 66). Ond sôn am Ifor yn rhyfela arno ac nid am gast brwnt y mae Bown yn B, a rhydd hynny, o bosibl, well synnwy. Tybed, yng ngolwg yr ystyriaethau hyn, nad *guerut* oedd yma ar y cyntaf, sef, rhang. gorff. *guer(r)er* 'rhyfela', amr. posibl ar y *gueré* a geir yn B, a darfod i ryw gopiwr a rwystrwyd ganddo ei Gymreigio o dan ddylanwad *aozuc* yn 4029? Ceir benthyciadau HFF llawn mor annisgwyladwy yn YBH; gw. n. ar 404, 2583, 2916, etc.

4029. *a ozuc*. Colodd goddrych y frawddeg, sef *terri*, ar ôl *ozuc*; cf. B. 3549 *Respont Terri*.

a dybedut idab. Er y gwelir y yn ogystal ag *ôth* ar ôl ffurfiau *dybedaf* yn YBH, odid nad ailadroddiad damweiniol o'r *idab* ar ddechrau'r llinell yw'r *idab* hwn ac y dylid ei ddileu. Dichon, serch hynny, mai *a dybedut ohono* yw'r meddwl; cf. *menegi idab* = *m.ohono* 4028 a gw. *Cystrawen*, §51.

4032. *iuo2 ffalf ffzouadgy*. B 3551 . . . *Yvori, li faus esprové* 'Y., y (dyn) drwg profedig'. Chwanegid t ar ôl s yn aml yn AN: *mist* (*mixium*), *fist* (*fecit*); cf. hefyd *vistement* am *vitemet* B 3474; etc. Ystyr arferol *ffalf* mewn CymC yw 'drwg, twyllodrus' yn hytrach na 'cyfrwys'. Benthycwyd hefyd y ffurf heb -t: *ffalf* SG 18, 34, 36, 74, etc.; *ffalfs* ib. 277. Am y ffurf â -t, cf. YCM² 21; RBB 186; HM II, 253, 281, 283; etc.

4034. *admirales*; am y llu, yn *-es*, gw. dan *Ffuriant*, §21, (v).

4037. *tu a bzatmônd*. Gw. n. ar 3615.

4038. *megys kyndeirabc*. B 3555 *com gent devé* 'megis gwŷr cynddeirig'. LIC *megys kôn kyndeirabc*. Er hawsed fusai i *kôn* golli o flaen *kym*, y tebyg yw mai *gŷlyr* = *gent* yw'r gair a sef ar ddfancoll; cf. *megys gŷlyr kyndeirabc* yn 3353 = *com devé* B 2912; cf. *candeyratic* SG 418 = *erragé* 'mad' Potvin 312.

4042. *ac yr pozh allan yd aeth*. B 3560 *a portes s'en iserent* 'tua'r porth yr aethant allan'. Y mae *mynt* allan yn drosiad digon cywir o *r'en isir*, a phe rhoesid allan o flaen yr *pozh* (lle'r oedd o bosibl ar y dechrau), buasai'r darll. yn ddfisai. Yn HM II, 183 *ac yr parth allan . . .* a geir gan RW, ond camdarll. yw *parth* a rhaid gwrthod, gan hynny, 'and to the other side'. Cymhara J. Lloyd-Jones allan yma ag y *myôn* yn yr *dinas y myôn y doeth boôn* 918-9 a dichon ei fod yn ei le.

4043. *grymuffaf oz dyrnas*. B 3560 *terré e rangé* 'yn dynn wrth ei gilydd ac yn drefnus'. Er y gwahaniaetha'r ddau ddarl. yn gyfan gwbl, yr un, gallwn feddwl, yw'r sylfaen. Mewn testun hŷn ei orgraff nag orgraff B gallesid yn yr un cyfnod (XIII¹) gael testun a fusai'n dangos *ferret* am *ferre* (am amser -t yn colli yn HFF, gw. dan *Avodur Copteur* a *Dyddiad*, §7, (iii), 1., a -gw- neu -m- am -ng-; rhoesai hynny *ferret* e *re(g)né*, yr hyn, wedi camdarllenn *-f-* am *-s-* (s hir) a swniai i'r glust fel *ferret* de *re(g)né* neu *ferre* de *re(g)né*, sef, *ferre*, 'gwsgedig â bearn, llurigog; ðgrymus' a *re(g)né* 'teyrnas, brenhiniaeth'. Yn *llurigogion y deyrnas cawrai* r darll. Cymraeg sail ddigonol. Am esiamplau pellach o gyfieithiadau yn ôl y glust (pethau cyffredin yn YBH), gw. n. ar 2899, 2915, 2950, etc., ac yn y *Rhagymadrôdd* y bennod ar berthynas YBH a'r testun AN, §12 (b).

Noder 02 ar ôl y radd eithaf yn hollol fel yn HFF ac yn iaith heddiw; gw. *Bannod Ddosrannol dan Cysstrawen*, §41.

4046. *os mi a gymer arnaf*. Enghraifft ddiddorol o'r ferf yn cytuno â'r rhagenw perthynol a yn hytrach nag â'r rhagflaenydd *mi*; eisoes o bosibl cytunai'r ferf weithiau â'r rhagflaenydd: *a minheu a gymhellaf arnaô ef ymhoylul tracheuyn* 1177. Gyda chwrs yr amseroedd aeth cytundeb â'r rhagflaenydd yn beth mwy cyffredin; e.e. *os myfi a af ac a baratof le i chwi*, Ioan xiv, 3. Gw. *Cysstrawen*, §53.

4047. *y gyffelyb varchaôc ny bu eiroet*. B 3564 *unkes tiel chevaler ne fust adobbé 'nid urddwyd eiroed y fath farchog'*. Ar *g-* yn *gyffelyb*, gw. T. J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cysstrawen*, 89.

4050. *Jaln a dylbedy*. LIC *Jaln y dylbedy*. Gw. n. ar 3408.

4058. *o varlneit y dinas*. Darll. yn *y dinas*; cf. B 3570 *en la cité*; y tebyg yw mai *y y dinas* oedd darll. un o'r cynseiliau ac i gopiwr esgeuluso'r *y=y='yn'*; gw. ar 3854.

4059. *ad admiralyz*. LIC *ac admirales*; am *-es, -ys* fel terfyniadau llw., gw. dan *Ffuriant*, §21, (v).

4060. *A ma62 tyd hynny*. B 3572 *grant ert la perte 'mawr fydd y golled'*. Go ddi-liw yw'r darll. Cymraeg fel y saif. Tybed ai y *kyni* oedd yma ar y dechrau, ac iddo fynd yn *hynny* o dan ddylanwad (*62th*) *hynny* sy'n dilyn o fewn pedwar gair ac o gymryd *ymgymyscu* yn yr ystyr 'dod at ei gilydd' yn hytrach nag yn y meddwl 'ymhladd?'; gw. 180d.

g6edy ymgymyscant. Darll. *g6edy yd y . . . fel yn y LIC*. Y mae i *ymgymysgu* mewn CymC ddau ystyr amlwg: (1) 'cyd-gyfarfod, dod at ei gilydd': *yn y lle ydoed cobul o ffyrd y fforest yn ymgymysgu* SG 282=Potvin 145 *là où tuit li chemin de la forest assablent*; (2) 'ymgyfarfod; ymladd; rhyfela': *ac ymgymysgu amoaeth y deulu ar hynt* SG 55=Queste (S) 61 *si assablent les uns ac autres*; ar rannu a *ymgymysgassant* SG 289=Potvin 153 *et les meslés s'antreviennent 'a'r rhengoedd a ymesyd y naill ar y llall'*; ac yma yn YBH 4060 *g6edy yd ymgymyscant*=B 3572 *s'il sont ajustez 'od ymghyrddant'*. Medd *ajuster (ajoster)*, *assabler* a *gyfieithir* yma ar arlliw arall, nid amgen, 'cystadlu', arlliw sy'n gorwedd rhwng (1) a (2) uchod ac a ddigwydd yn B 2510 *unkes ne fu oysel, he seit a li ajusté 'ni bu eiroed aderyn a ellid ei gyffelybu iddo'*=YBH 2918 *hyt na bu eiroet aderyn a allei y ganlyn*. Tybed a ddylanwadwyd ar ystyron *ymgymysgaf* gan y geiriau HFF? Dilyner y LIC: *g6edy yd . . .*

4061-2. *ymgyhyrdôn myn duô os mynhôn*. B 3573 *Si cors al cors bataille otreve coler 'o chytunwch i ymladd gorff yn erbyn corff'*. Yng ngenau dyn y tybid bod iddo aml dduwiau (cf. 4076), nid ymddengys bod llawer o synnwyr mewn dywedwyd *myn duô*. Tueddaf, gan hynny, i ddarllen naill ai *ymgyhyrdôn yn deu neu ymggyhyrdôn myn duôel*. O blaid y cyntaf fe gofir bod *n* ac *m* yn ymgymysgwyd nid yn unig yn AN ond hefyd yn fynych yn Gymraeg: *din (=dim) da* BB 7.10; *dyn (=dym) os a deutoent* LIDW 47b, *nanin (namyn) ib. 17b, nanenun ib. 20b; ual y bun ynnu* RB 148; *a minheu yn tri* WM 396; etc. Rhoesai hyn ddigon o sail i gopiwr difater i gynhyrchu'r darll. sydd ger ein bron. Yn erbyn yr ail gellir dweud na chofnodwyd *duel*, hyd y gwyddys, mewn unrhwy destun HFF cyfandiroel. Ond yr oedd y ffurf Ladin *duellum* 'ornest' yn hysbys i'r Cymry obligid

fe'i ceir droeon yn LL 28, 29 yn y cytundeb rhwng Robert o Gaerloyw ac Urban, Esgob Llandaf; ac anodd credu nad arferai'r Anglo-Normaniaid y gair *du(w)el* pan gofier fod yr ornest, *corff yn erbyn corff*, yn rhan hanfodol o'u llysoedd barn.

4065. *am tir . . . yn ryd y tithu a minheu ym m6mbrant*. B 3577 *. . . e le bel dongon de Monbrant la cité 'a chastell teg dinas Monbrant'*. Yn y cyswllt, er mwyn atal tywallt gwaed yn ddiangen, y mae Ifor yn gwahodd Bown i roi pen ar eu humryson drwy ornest bersonol ac yn B mynega ei barodrwydd i fforffeddu popeth: ei *reguli*, ei frenhiniaeth, a sedd ei awdurdod, os lleddir neu os gorchfygir ef. Yn YBH, y mae Ifor am gadw'r Mwmbrawnt yn ôl rhyngddo a'r gwaethaf, bychandra ysbryd nad yw'n gweddu i deyrn hyderus a ffroenuchel. Gellir rhoi'r testun Cymraeg ar ei draed mewn un o ddwy ffordd: trwy ddarllen *am haffell (neu llys) inheu ym m . . . neu trwy weled yn minheu y gair AN mende, me(s)nie, 'cadlu; llys' a deall a mende y m . . . (ar me(s)nie, etc., gw. W. Foerster, *Kristian von Troyes, Wört.*). Os yr olaf, buasai agosrwydd *tithu* yn ddigon i droi *mende* yn *minheu*. Gwrthoder, felly, 'and I also in Mombraunt' RW.*

4068-10. *dyrchael eu d6ylaô ac ymgadarnhau hyt pan oed diogel gantunt*. Ad-eriadaeth drwsogl o B 3580 *Lur mains tindrent, ore sont asuré 'they clasped hands and affirmed agreement by oath'*; gw. §14, (v).

4071. *yn gyflym yd aeth y marchogyon y lufcal arueu*. Buasai *yd aethant y lufcal* yn taro'n well gan mai at Ifor a Bown y cyfeirir fel yn 4070. Y mae arfer *marchogyon* yn tywyllu'r ystyr ac yn awgrymu fod rhywrai eraill wedi mynd i wisgo arfau, yr hyn nad yw'n wir. Cf. B 3581 *ignelement se sont armé 'yn gyflym y gwiasgant arfau'*.

4073. *y herdffant ar lleilltu*. B 3583 *le gué passent, oltre se sont mis 'crescant y rhyd, aethant i'r ochr draw'*. Wrth hyn, ymddengys fod darll. YBH yn llwgr. Dywedem ni heddiw o'r *neilltu*; gw. n. ar 3340.

4079. *a chedeirn oedynt eu llurugeu na thozaffant*. B 3588 *haubers sont fors, ne ne sont rompez 'cadarn oedd y (llythyr, yw'r) llurigau, ni thorasant chwaith'*. Swnia na *thozaffant* fel cymal yn mynegi canlyniad negyddol, ond buaisid yn disgwyl *hyt na mewn canlyniad o'r fath megis yn ac a rodaf dyrnait y garfi . . . hyt na del yn yn ol ni . . . 1776; y g6ohardcys y bzenhin lunt hyt na thozei neb ohomunt celodeu y giliid 2892; etc.* Awgryma darll. B y gallai'r geiriau fod yn frawddeg annibynnol ac y dylid darllen *ny am na*. Ond cf. *A chalet un yr arueu ereill, na thorres dim ohomunt* YCM², 85.

